Bangor University

# DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

## Hanes Geiriaduraeth yng Nghymru o 1547 hyd 1914 : gyda sylw arbennig i ddylanwad John Walters a William Owen Pughe ar eiriadurwyr 1805-1850

Morgan, Menna E.

*Award date:*
2002

*Awarding institution:*
Prifysgol Bangor

Link to publication

**General rights**
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

**Take down policy**
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 24. Apr. 2025

# Hanes Geiriaduraeth yng Nghymru o 1547 hyd 1914

## gyda sylw arbennig i ddylanwad John Walters a William Owen Pughe ar eiriadurwyr 1805 - 1850

Menna E. Morgan

Ph.D.




2002

# Crynodeb

Astudiaeth yw hon o hanes a datblygiad geiriaduron printiedig o 1547, sef blwyddyn cyhoeddi *A Dictionary in Englyshe and Welshe* gan William Salesbury, hyd ddechrau'r ugeinfed ganrif pan gyhoeddwyd geiriaduron William Spurrell dan olygyddiaeth J. Bodvan Anwyl. Astudir dros ddeg ar hugain o gyfrolau i gyd, cyfrolau a luniwyd i ddiwallu gwahanol anghenion y genedl dros gyfnod o dair canrif a hanner ac sydd, o'r herwydd, yn amrywio'n fawr o ran maint a chynnwys. Er mwyn gosod terfynau pendant i'r astudiaeth, fe'i cyfyngwyd i eiriaduron Cymraeg-Lladin/Lladin-Cymraeg, Cymraeg-Saesneg, Saesneg-Cymraeg a Chymraeg-Cymraeg. Nid ymdrinnir â geiriaduron Beiblaidd, geiriaduron termau, geiriaduron tafodieithol na'r geirfâu Saesneg-Cymraeg a gyhoeddwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar gyfer ymwelwyr i Gymru.

Trafodir hefyd rai geiriaduron nas cyhoeddwyd am fod iddynt arwyddocâd yng nghyd-destun gweithgarwch geiriadurol diweddarach. Ystyrir y modd y defnyddiwyd hwy fel ffynhonnell gan eiriadurwyr eraill ac i ba raddau y cawsant eu golygu a'u hymgorffori yn eu gweithiau.

Gan fod John Walters a William Owen Pughe yn hawlio lle mor amlwg yn natblygiad geiriaduraeth ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif, rhoddir sylw arbennig i dylanwad y ddau ar weithgarwch geiriadurol rhwng 1805 a 1850. Ceisir dangos hefyd sut y newidiodd agwedd pobl tuag syniadau ieithyddol a geirfa Pughe yn raddol erbyn diwedd y cyfnod dan sylw.

# Cydnabyddiaeth

Hoffwn ddiolch i nifer o bobl am eu cymorth a'u cefnogaeth tra bûm i'n gweithio ar y traethawd hwn:

Miss Elen Wyn Hughes a Miss Diana Clark, Archifdy Prifysgol Cymru, Bangor

Fy nghydweithwyr, yn enwedig Mr Bill Hicks, Yr Athro Cathair Ó Dochartaigh a Dr Nadine Laporte

Staff Adran Y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Bangor

Staff Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor

Dr Marged Haycock

Mr Handel Evans, Llyfrgell Llangefni

Y Parch. Ddr. Dafydd Wyn Wiliam

Fy nheulu a'm ffrindiau.

Cydnabyddaf yn ddiolchgar y cymorth ariannol a dderbyniais gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen a Bwrdd Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (*AHRB*).

Yn bennaf oll, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i Mr Dafydd Glyn Jones, fy arolygydd, am ei holl awgrymiadau gwerthfawr ac am fod mor amyneddgar a charedig. Mae fy nyled i iddo'n ddifesur.

# CYNNWYS

**Lluniau** ..... iv

**Rhagymadrodd** ..... v

**Pennod 1** ***1547-1688: Geiriadurwyr cyfnod y Dadeni Dysg hyd at ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg***

i) William Salesbury ..... 1

ii) Thomas Wiliems ..... 19

iii) John Davies ..... 30

iv) Thomas Jones ..... 47

**Pennod 2** ***1700-1753: Y galw am eiriaduron yn ystod hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif***

i) Siôn Rhydderch ..... 66

ii) Edward Lhuyd a'r Offeiriaid Llengar ..... 77

iii) Thomas Richards ..... 94

iv) William Gambold ..... 114

**Pennod 3** ***1754-1800: Gweithgarwch geiriadurol ail hanner y ddeunawfed ganrif***

i) William Evans ..... 124

ii) William Richards ..... 131

iii) Thomas Jones ..... 135

**Pennod 4** ***Dau eiriadurwr mwyaf nodedig y ddeunawfed ganrif***

i) John Walters ..... 144

ii) William Owen Pughe ..... 165

**Pennod 5** ***Geiriaduron 1805-1850***

i) Titus Lewis ..... 194

ii) Thomas Evans (Tomos Glyn Cothi) ..... 201

iii) Evan Jones ..... 213

iv) Edward Williams (Iolo Fardd Glas) ..... 215

v) Thomas Roberts ..... 220

vi) John William Thomas (Arfonwyson) ..... 224

vii) Ellis Jones ..... 233

viii) John Evans (I. D. Ffraid) ..... 237

ix) Evan Griffiths (Ieuan Ebblig) ..... 243

x) William Spurrell ..... 246

xi) Thomas Edwards (Caerfallwch) ..... 252

**Pennod 6** ***Dylanwad Walters a Pughe ar eiriaduron 1805-1850*** ... 269

**Cyfrol 2**

**Pennod 7** ***Gweithgarwch geiriadurol Daniel Silvan Evans*** ..... 281

**Pennod 8** ***Geiriaduron* 1850-1914**

i) Hugh Jones ..... ..... 335

ii) Robert John Pryse (Gweirydd ap Rhys) ..... 337

iii) W. Hughes ..... 349

iv) Robert Ellis (Cynddelw) ..... 349

v) Griffith Jones (Glan Menai) ..... 355

vi) O. M. Edwards ..... 359

vii) Peter Williams (Pedr Hir) ..... 362

viii) J. Bodvan Anwyl ..... 365

**Casgliad** ..... 371

**Atodiadau**

**Atodiad 1:** Darn o *The Christian in Compleat Armour* William Gurnal a chyfieithiad Thomas Jones ..... 379

**Atodiad 2:** Bathiadau cydnabyddedig John Walters (A-C) sy'n ymddangos yng ngeiriadur Thomas Jones (1800) ..... 384

**Atodiad 3:** Bathiadau cydnabyddedig William Owen Pughe (A-C) sy'n ymddangos yng ngeiriadur Thomas Jones (1800) ..... 387

**Atodiad 4:** Bathiadau anghydnabyddedig William Owen Pughe (llythyren B) sy'n ymddangos yng ngeiriadur Thomas Jones (1800) ..... 389

**Atodiad 5:** Geiriau a fathwyd gan John Walters neu a ymddangosodd am y tro cyntaf yn ei eiriadur ..... 390

**Atodiad 6:** Geiriau a fathwyd gan William Owen Pughe neu a ymddangosodd am y tro cyntaf yn ei eiriadur ..... 414

**Atodiad 7:** Isgofnodion Caerfallwch ar gyfer hanner cyntaf y llythyren 'N', ochr yn ochr â'r isgofnodion cyfatebol yng ngeiriadur Walters ..... 438

**Atodiad 8:** Cymharu cynnwys geiriadur Thomas Jones, Dinbych a geiriadur Caerfallwch ..... 440

**Atodiad 9:** Bathiadau anghydnabyddedig William Owen Pughe ..... 442

**Llyfryddiaeth Geiriaduron Printiedig** ..... 565

**Llyfryddiaeth Gyffredinol** ..... 579

**Llawysgrifau** ..... 618

# Lluniau

1. William Salesbury, *A Dictionary in Englyshe and Welshe ...* (1547)
2. John Davies, *Dictionarium Duplex ...* (1632)
3. Thomas Jones, *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb ...* (1688)
4. John Roderick, *The English and Welch Dictionary ...* (1725)
5. Thomas Richards, *Antiquæ Linguæ Britannicæ Thesaurus ...* (1754)
6. William Evans, *New English-Welsh Dictionary ...* (1771)
7. William Richards, *Geiriadur Saesneg a Chymraeg ...* (1798)
8. Thomas Jones, *An English and Welsh Dictionary ...* (1800)
9. John Walters, *An English-Welsh Dictionary...* (1794)
10. William Owen Pughe, *A Dictionary of the Welsh Language ...* (1803)
11. Titus Lewis, *A Welsh-English Dictionary* (1805)
12. Thomas Evans, *An English and Welch Vocabulary ...* (1804)
13. Thomas Evans, *An English and Welsh Dictionary* (1809)
14. Evan Jones, *Welsh and English Dictionary ...* (1823)
15. Edward Williams, *Cyneirlyfr: neu Eiriadur Cymraeg ...*(1826)
16. Thomas Roberts, *Geiriadur Saesneg a Chymraeg ...* (1827)
17. J. W. Thomas, *Geiriadur Cymreig a Seisonig ...* (2ⁱˡ arg. 1834; 3ʸᵈᵈ arg. 1840)
18. Ellis Jones, *A New Pocket Dictionary ...* (1840)
19. John Evans, *Geirlyfr Seisonig a Chymreig* (1847)
20. Evan Griffiths, *Welsh & English Dictionary ...*(1847)
21. William Spurrell, *Geiriadur Cymraeg a Seisoneg ...* (Efrog Newydd, 1861)
22. William Spurrell, *An English-Welsh Pronouncing Dictionary ...* (2ⁱˡ arg. 1861)
23. Thomas Edwards, *Geirlyfr Saesoneg a Chymraeg ...* (1850)
24. Daniel Silvan Evans, *An English and Welsh Dictionary ...* (1852)
25. Daniel Silvan Evans, *A Dictionary of the Welsh Language ...* (1887)
26. Hugh Jones, *Y Geiriadur Gwreiddiol ...* (1855)
27. Robert John Pryse, *An English and Welsh Pronouncing Dictionary...* (1857)
28. Cynddelw, *Geiriadur Cymreig Cymraeg ...* (1868)
29. Griffith Jones, *Cyfystyron y Gymraeg ...* (1888)
30. O. M. Edwards, *Geiriadur Cymraeg a Saesneg Byr ...* (1905)
31. Peter Williams, *A Key and Guide to the Welsh Language ...* (1911)

# Rhagymadrodd

Yng ngorllewin Asia, yn sgil goresgyniad y Swmeriaid gan yr Acadiaid tua 2340 cyn Crist, y lluniwyd y geirfâu neu'r geiriaduron hynaf y gwyddys amdanynt. Arysgrifennwyd colofnau o eiriau Acadeg a Swmereg ar dabledi clai ac fe'u trefnwyd yn ôl eu hystyr. Er i'r wyddor gael ei dyfeisio yn fuan wedyn, tua 1700-1500 cyn Crist, ni ddefnyddiwyd llawer arni i drefnu gwybodaeth am sawl canrif arall. Yn wir, cyfnod tawel iawn yn hanes geiriaduraeth oedd yr amser rhwng yr ail a'r bedwaredd ganrif cyn Crist. Dechreuwyd casglu a llunio geirfâu Groeg tua'r bedwaredd ganrif cyn Crist gan ysgolheigion megis Pamphilos a Hesychios ac yna, yng nghyfnod y Rhufeiniaid, aethpwyd ati i greu geirfa Ladin.[1]

Arfer y geiriadurwyr cynharaf oedd cofnodi a chyfieithu geiriau a oedd yn perthyn i ddiwylliant hŷn neu ragorach na'u diwylliant hwy gan anelu at wneud yr eirfa a ddefnyddid mewn gweithiau clasurol yn ddealladwy ac o fewn cyrraedd eraill. Geiriau anghyffredin ac anodd, yn hytrach na geiriau bob dydd, a gâi eu sylw a pharhaodd yr arfer hwn ymhlith geiriadurwyr Ewrop tan yr unfed ganrif ar bymtheg.

Mae'r rhestrau dwyieithog a gynhyrchwyd yng ngorllewin Ewrop yn ystod yr Oesoedd Canol - mor gynnar â'r wythfed ganrif - yn perthyn i'r traddodiad glosio. Eglurwyd geiriau ac ymadroddion anodd mewn llawysgrifau trwy ysgrifennu esboniadau uwch eu pennau neu wrth eu hochr. Weithiau, câi'r testunau eu glosio gan ddefnyddio geiriau Lladin mwy dealladwy ac weithiau gan ddefnyddio'r iaith frodorol. Glosiwyd rhai testunau trwy gyfrwng y Gymraeg megis *De Nuptiis Philologiae et Mercurii* Martianus Capella ond ar y cyfan, ychydig o waith glosio o'r fath a wnaed.[2] Arferai rhai ysgolheigion gasglu glosau ynghyd gan lunio 'glossarium' neu 'glosiaduron' ohonynt ond eto, nid aethpwyd ati i grynhoi'r glosau Cymraeg at ei gilydd.

---

[1] Jonathon Green, *Chasing the Sun: Dictionary-Makers and the Dictionaries They Made* (Llundain, 1996), tt.47-50.
J. E. Caerwyn Williams, *Geiriadurwyr y Gymraeg yng Nghyfnod y Dadeni* (Pen-y-bont ar Ogwr, 1983), t.6.

Defnyddiwyd geirfâu fel adnoddau dysgu yn yr ysgolion eglwysig a chan mai Lladin oedd cyfrwng y dysgu, Lladin oedd naill ai prifeiriau'r geirfâu hynny neu'r iaith y troswyd iddi. Geiriadur at ddefnydd bechgyn ifainc a hyfforddid ar gyfer gweinidogaeth yr Eglwys oedd *Promptorium Parvulorum, sive Clericorum* ("Storfa [o eiriau] i Blant neu Glerigwyr") sef y geiriadur Saesneg-Lladin hynaf y gwyddys amdano, a luniwyd tua 1440. Caxton fu'n gyfrifol am gyflwyno'r wasg argraffu i Loegr ym 1476 ac ym 1480 argraffodd eirfa Ffrangeg-Saesneg heb deitl. Ymddangosodd y *Promptorium* mewn print ym 1499, felly 'roedd yn un o'r llyfrau cyntaf un a argraffwyd yn Lloegr.[3] Flwyddyn yn ddiweddarach cyhoeddwyd y geiriadur Lladin-Saesneg hynaf, sef [*H*]*ortus Vocabularum* ("Gardd o Enwau") Wynkyn de Worde.[4]

Ychydig a wyddys am ysgolion eglwysig Cymru yn yr Oesoedd Canol ond mae gennym fwy o wybodaeth am yr ysgolion barddol a oedd, heb lawer o amheuaeth, dipyn yn hŷn na hwy. Yn yr Oesoedd Canol disgwylid i'r beirdd warchod y tri phwnc - neu'r 'tri chof' - y caent hyfforddiant ynddynt, sef hanes gweithredoedd brenhinoedd 'Bruttaen a Cambria', iaith y Brytaniaid ac achau'r boneddigion a rhaniadau'r tir.[5] Yn ystod y bymthegfed ganrif 'roedd y sêl honno i ddiogelu geirfa a gramadeg Cymraeg yn dal i fodoli ymhlith rhai beirdd. 'Roedd Gwilym Tew, bardd a oedd yn ei flodau rhwng 1460 a 1480, yn un ohonynt. Bu'n copïo llawysgrifau a chredir ei fod yn berchen ar Lawysgrif Caerdydd 1, sef *Llyfr Aneirin*, oherwydd cododd eiriau 'anodd' o Ganu Aneirin gan nodi eu hystyron.[6] Lluniwyd nifer o eirfâu gwerthfawr eraill ychydig yn ddiweddarach[7] ac oherwydd mai rhestrau o gyfystyron wedi eu trefnu dan

---

[2] Gw. T. A. M. Bishop, 'The Corpus Martianus Capella', *Transactions of the Cambridge Bibliographical Society* 4 (1964-1968), tt.257-73.

[3] Galfridus Anglicus, *Promptorium Parvulorum* (Llundain, 1499). Fe'i hadwaenir hefyd fel: *Medulla grammatice*.

[4] Wynkyn de Worde, [*H*]*ortus Vocabularum* (Llundain, 1500).

[5] Llsgr. Llanstephan 144. Mae'r ysgrif sy'n ymdrin â'r gyfundrefn farddol a'r 'tri chof' yn llaw John Jones, Gellilyfdy.

[6] Llsgr. Peniarth 51.

[7] Er enghraifft: Llsgr. Llanstephan 41, tt.206-209 a Llsgr. Llanstephan 117, tt.95-96.
Llsgr. Peniarth 169, tt.207 ymlaen. Mae yn llaw Roger Morys a chredir iddi gael ei llunio tua 1588.
Llsgr. Peniarth 182, tt.52 ymlaen. Fe'i hysgrifennwyd hi tua 1514 gan 'Syr' Hugh Pennant.
Llsgr, Peniarth 189, tt.7 ymlaen.
Ar y geirfâu yng nghasgliad Peniarth gw. T. Gwynn Jones, 'Peniarth Glossaries', *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, II, tt.135-148 a tt.229-42. Am restr o'r geirfâu yn y

benawdau gwahanol a geir ynddynt, yn ôl J. E. Caerwyn Williams maent yn profi mai casglu cyfystyron ynghyd oedd un o ffyrdd y beirdd o gyfoethogi eu Cymraeg.[8] Cadwyd un o'r geirfâu pwysicaf yn Llsgr. Peniarth 230.[9] Fe'i lluniwyd gan Gruffydd Hiraethog, bardd ac un o gyfeillion William Salesbury. Rhestr wedi ei rhannu'n benawdau oedd hon hefyd. Geiriau 'anodd' oedd y prifeiriau ac fe'u trefnwyd yn fras yn nhrefn yr wyddor hyd at yr ail lythyren gyda'r cyfystyron yn eu dilyn. O bryd i'w gilydd dyfynnir diarhebion a llinellau o farddoniaeth - o weithiau'r Cynfeirdd, Beirdd y Tywysogion a Beirdd yr Uchelwyr - i ddangos enghreifftiau o'r prifeiriau mewn cyd-destun.

Yng ngwledydd y Gorllewin, geirfâu Lladin-Lladin a lunnid gyntaf fel arfer ac yna, maes o law, llunnid geirfâu dwyieithog yn dangos y Lladin a'r ieithoedd brodorol ochr yn ochr. Hynodrwydd y geirfâu sydd gennym yng Nghymru yw'r ffaith mai geirfâu Cymraeg-Cymraeg ydynt yn hytrach na geirfâu Lladin-Cymraeg neu Gymraeg-Lladin.

Er bod Joannes de Garlandia wedi defnyddio 'dictionarius' fel teitl ar gasgliad o eiriau Lladin tua 1225, ni phriodolwyd yr enw i waith tebyg i'r geiriaduron yr ydym ni'n gyfarwydd â hwy tan yr unfed ganrif ar bymtheg. 1526 yw dyddiad yr enghraifft gynharaf o'r gair 'dictionary' yn *The Oxford English Dictionary*[10] a chredir mai geiriadur Lladin-Saesneg Syr Thomas Elyot a gyhoeddwyd yn 1538, oedd y llyfr printiedig Saesneg cyntaf i ddwyn 'dictionary' fel rhan o'i deitl.[11] Ymddengys nad oedd yn plesio rhyw lawer ar y pryd oblegid ailenwyd y gwaith yn ddiweddarach yn *Bibliotheca Eliotae.*[12] Ym 1554 cyhoeddodd John Withals lawlyfr dysgu Saesneg-Lladin bychan yn dwyn y teitl *A Shorte Dictionarie for Yonge Begynners.*[13]

---

llawysgrifau gw. H. Emanuel, 'Geiriaduron Cymraeg 1547-1972', *Studia Celtica*, 7, tt.141-54.

[8] J. E. Caerwyn Williams, op. cit., t.15.

[9] Llsgr. Peniarth 230. Tybir bod Gruffydd Hiraethog yn ei defnyddio wrth ddysgu ei ddisgyblion ac iddi gael ei defnyddio mewn ysgol farddol. Ychwanegwyd at yr eirfa wreiddiol gan ddwylo eraill.

[10] Ceir enghraifft gynharach o'r gair 'dictionary' na'r un a geir yn yr OED. Tybir mai dyddiad MS Pepys 2002' yw 'the last quarter of the fifteenth century perhaps about 1480'. Gw. Gabriele Stein, *John Palsgrave as Renaisssance Linguist: A Pioneer in Vernacular Language Description* (Rhydychen, 1997), t.124.

[11] Thomas Elyot, *Dictionary* (Llundain, 1538).

[12] Thomas Elyot, *Bibliotheca Eliotae. Eliotis librarie* (Llundain, 1542).

[13] John Withals, *A Shorte Dictionarie for Yonge Begynners* (Llundain, 1554).

Cafodd yr enghreifftiau cynharaf o'r gair 'geiriadur' sy'n ymddangos yn *Geiriadur Prifysgol Cymru* eu codi o lawysgrif Thomas Wiliems, llawysgrif a adwaenir bellach fel Peniarth 228. Ar ôl iddo gwblhau'r gwaith tua 1608, nododd Wiliems '(y) Geiriadur cywoethocaf a helaethaf or wir dhiletiaith Vrytanaec' a 'dictionarium a Geiriadur Brytanaec' ar y llawysgrif.[14] Dywedodd J. E. Caerwyn Williams:

> Gwelir mai un o eiriau'r Dadeni yw **geiriadur** yn Gymraeg ... ac iddo ymddangos pan ymddangosodd y gwrthrych a enwa, oblegid cynnyrch y Dadeni yw geiriaduron cynharaf ieithoedd modern Ewrop yn ystyr diweddar y gair 'geiriadur', ac yr oedd rhaid wrth y Dadeni i'w cynhyrchu, o achos, cyn y gellir cael geiriaduron yn llyfrau i'w defnyddio fel y cyfryw, yr oedd rhaid wrth amgylchiadau cymdeithasol a diwylliannol neilltuol ac wrth gyfleusterau arbennig.[15]

Yn sgil dyfeisio'r dechneg o argraffu gyda theip symudol yn ninas Mainz yn yr Almaen rywbryd cyn 1450, daeth yr arfer o argraffu yn hynod boblogaidd ym mhrif wledydd gorllewin Ewrop. Ni fu un Cymro'n hir cyn sylweddoli'r manteision a oedd ynghlwm wrth argraffu a'r ffaith y gallai'r gair printiedig greu diddordeb newydd yn y Gymraeg, yn ogystal â'r Diwygiad Protestannaidd. William Salesbury oedd y Cymro hwnnw. Dywedodd Gruffydd Aled Williams:

> ... Salesbury oedd y Cymro cyntaf i wneud defnydd helaeth o'r wasg; ef mewn ystyr real iawn, oedd ein hawdur cyntaf, yr un a wnaeth fwy na neb arall i sefydlu'r arfer o argraffu a chyhoeddi llyfrau Cymraeg. Yr oedd hyn, wrth gwrs, yn gyfraniad cwbl dyngedfennol o safbwynt datblygiad a pharhad ein hiaith a'n diwylliant.[16]

Man cychwyn y traethawd hwn yw 1547, sef blwyddyn cyhoeddi'r geiriadur printiedig Cymraeg cyntaf gan William Salesbury. Ceir ymdriniaeth arno yn y bennod gyntaf yn ogystal â gweithgarwch geiriadurol dau ddyneiddiwr arall: Thomas Wiliems a John Davies. Mae'r bennod gyntaf hefyd yn ymdrin â geiriadur Thomas Jones yr Almanaciwr a gyhoeddwyd dros hanner canrif yn

---

[14] 1608 yw'r dyddiad ar Ran I. 'Finis ... 8. octobris. 1606' a welir ar Ran III ac ar ddiwedd yr Atodiad nodir 'Finis 2. octobris 1607'.
[15] J. E. Caerwyn Williams, op. cit., t.5.
[16] Gruffydd Aled Williams, 'William Salesbury a 'Blaendorri'r Iâ', yn Geraint H. Jenkins (gol.), *Cof Cenedl IV: Ysgrifau ar Hanes Cymru* (Llandysul, 1989), tt.38-9.

ddiweddarach, ym 1688. Yn fuan iawn, gwelwn un arfer sy'n nodweddu hanes creu geiriaduron yn dod i'r amlwg, sef geiriadurwyr naill ai'n dibynnu'n drwm ar weithiau eu rhagflaenwyr wrth lunio geiriaduron newydd neu'n ymdrechu i wella arnynt a chreu gweithiau a oedd, yn eu tyb hwy, yn gwbl wreiddiol a newydd.

Er na chyhoeddwyd yr un geiriadur arall tan ymddangosiad *The English and Welch Dictionary* Siôn Rhydderch ym 1725, camgymeriad fyddai tybio nad oedd diddordeb cyffredinol mewn geiriau a chreu geiriaduron yn ystod y cyfnod hwn. Yn yr ail bennod, trafodir agweddau ar weithgarwch geiriadurol Edward Lhuyd a'r modd yr ysbrydolodd eraill i ymddiddori yn y maes. Rhoddir sylw hefyd i *Antiquæ Linguæ Britannicæ Thesaurus* Thomas Richards a gwaith anghyhoeddedig William Gambold a ddefnyddiwyd yn ddiweddarach gan John Walters.

Gyda thwf y wasg, yr angen am ragor o lyfrau Cymraeg a'r cynnydd mewn llythrennedd yn ystod y ddeunawfed ganrif, 'roedd y galw am wybodaeth ieithyddol hefyd ar gynnydd. Mae'n rhaid felly, bod angen rhyw fath o eiriadur wrth law ar y Cymro dysgedig ond yn bwysicach oll 'roedd angen un ar y Cymro cyffredin a geisiai ddod i ben â dysgu darllen Cymraeg a Saesneg. Mae'r drydedd bennod yn trafod y geiriaduron cymharol fychan a rhad a luniwyd gan William Evans, William Richards a Thomas Jones er mwyn cynorthwyo'r rhai a ddymunai ddysgu Saesneg.

Bwriad tebyg oedd gan John Walters, sef creu geiriadur at wasanaeth y rhai a gyfieithai o'r Saesneg i'r Gymraeg eithr 'roedd ysbryd dyneiddiol yn perthyn iddo ef a gwelai fod angen estyn terfynau'r Gymraeg a'i gwneud hi'n gydradd a'r Saesneg. Er bod William Owen Pughe yn rhannu'r un ddelfryd ag ef, aeth y ddau ati mewn ffyrdd gwahanol iawn i geisio cyflawni'r un bwriad. Llafur caled Walters a Pughe sy'n cael sylw ym mhennod 4 yn ogystal â mympwyon Pughe am eirdarddiad y Gymraeg.

Rhwng 1805 a 1850, cyhoeddwyd tri geiriadur ar ddeg - chwech ohonynt yn eiriaduron Cymraeg-Saesneg, chwech arall yn eiriaduron Saesneg-Cymraeg ac un Cymraeg-Cymraeg. Ceir pennod yn ymdrin â hwy a phennod arall yn trafod i ba raddau y dylanwadodd geiriaduron Walters a Pughe arnynt.

Mae Daniel Silvan Evans yn hawlio pennod iddo'i hun am iddo dreulio'r rhan fwyaf o'i oes yn ymhel â gwaith geiriadurol gan gyhoeddi geiriadur Saesneg-Cymraeg cynhwysfawr rhwng 1852 a 1858 a geiriadur Cymraeg-Saesneg o'r llythyren A hyd 'Ennyd' mewn dwy gyfrol swmpus ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn y bennod olaf, canolbwyntir ar y cyfrolau a gyhoeddwyd rhwng 1850 a'r cyfnod pan ddechreuodd J. Bodvan Anwyl olygu a chyhoeddi argraffiadau newydd o eiriaduron Spurrell.

Ar y diwedd, ceir Casgliad yn olrhain datblygiad a phrif nodweddion geiriaduraeth Gymraeg o un cyfnod i'r llall ynghyd ag atodiadau a llyfryddiaeth lawn.

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

# Pennod 1

# Cyfnod y Dadeni Dysg yng Nghymru

## (i)

## William Salesbury (c.1520 - 1584?)

Un o gewri'r Dadeni yng Nghymru oedd William Salesbury.[1] Medrai nifer o ieithoedd mae'n debyg a chan iddo dreulio llawer o'i amser yn Rhydychen a Llundain, yno, yn ddiau, y clywodd am syniadau dyneiddwyr Lloegr a gwledydd eraill Ewrop.[2] Sylweddolasai fod y Gymraeg yn dirywio ac yn llesgáu'n raddol a bod angen amgenach iaith na'r iaith lafar i drin canghennau'r ddysg newydd. Ceir rhybudd ganddo ar ddechrau *Oll Synnwyr pen Kembero ygyd*. Oni bai y gwneid rhywbeth ynghylch sefyllfa'r Gymraeg fe fyddai'n rhy hwyr:

> ... a nyd achubwch chwi a chweirio a pherfeithio r iaith kyn daruod am y to ys ydd heddio, y bydd ryhwyr y gwaith gwedy.[3]

Yr hyn a ysgogodd Salesbury i ysgrifennu am orgraff a rhethreg ac i gyhoeddi tri llyfr yn ymwneud â'r Gymraeg - *A Dictionary in Englyshe and Welsh* (1547), *Oll Synnwyr Pen Kembero Ygyd* (1547) ac *A Brief and Playne Introduction* (1550) - oedd ei gariad a'i barch aruthrol tuag at y Gymraeg a'i awydd i'w gwneud yn iaith dysg. Rhoddodd ei fryd ar ddyrchafu statws a dangos cyfoeth y Gymraeg, felly pa ffordd well o wneud hyn na mynd ati i lunio ac argraffu'r geiriadur Cymraeg–Saesneg cyntaf?

Cyn dechrau ar y dasg o lunio geiriadur, nid oedd gan William Salesbury lawer o batrwm i'w ddilyn. Tybiai Robert Jones ei fod wedi gorfod casglu'r deunydd ei hun:

> Salesbury had to transverse the streets and lanes, the highways and hedges for most of his [materials].[4]

---

[1] Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953), tt.843-4.

[2] Gw. W. Alun Mathias, 'William Salesbury - Ei Fywyd a'i Weithiau' yn Geraint Bowen (gol), *Y Traddodiad Rhyddiaith* (Llandysul, 1970), t.30.

[3] William Salesbury, 'Oll Synnwyr pen Kembero ygyd', yn Garfield H. Hughes (gol.), *Rhagymadroddion 1547 – 1659* (Caerdydd, 1951), tt.10-11.

[4] Robert Jones, 'William Salesbury and his Dictionary', *Y Cymmdrodor* 1 (1877), t.111.

Go brin ei fod wedi gorfod gwneud llawer o hynny, er iddo gofnodi yn ei eiriadur nifer o eiriau a glywai ar lafar. Mae'n rhaid bod ganddo rai llawysgrifau neu gasgliadau o eirfâu wrth law. Gan ei fod yn gyfaill iddo, gallai Salesbury fod wedi gweld geirfa Gruffydd Hiraethog, sef Peniarth 230.[5] Hyd yn oed os na welsai hi, mae'n dra phosib ei fod wedi gweld copi ohoni oblegid gwnaeth William Llŷn, un o ddisgyblion barddol Gruffydd Hiraethog, gopi o eirfa'i athro.[6] Nododd W. Alun Mathias fod Salesbury wedi gweld copi o eirfa William Llŷn[7] a bod Thomas Wiliems yn honni i Salesbury gywiro'r eirfa honno.[8]

Er i rai beirdd ymdrechu i gopïo hen lawysgrifau, 'roeddent yn dueddol o guddio'u dysg rhag eraill a chan fod llawysgrifau'n bethau prin, tasg anodd fyddai cael gafael arnynt. Hyd yn oed os oedd William Salesbury wedi gweld a defnyddio geirfâu'r beirdd, rhaid cofio mai geirfâu Cymraeg–Cymraeg yw'r rheini, gan gynnwys geirfa Gruffydd Hiraethog. Gallasai Salesbury godi geiriau ohonynt, ond 'roedd creu geiriadur Cymraeg–Saesneg yn orchwyl o fath newydd ac yn orchwyl a fyddai'n torri tir newydd yn hanes y Gymraeg.

Cyhoeddodd William Salesbury ei eiriadur Cymraeg-Saesneg ar batrwm y geiriadur Saesneg-Ffrangeg cyntaf gan John Palsgrave, sef trydydd 'llyfr' *Lesclarcissement de la langue francoyse*.[9] Yn ei ddydd, Palsgrave oedd athro Ffrangeg enwocaf Llundain. Bu'n astudio yn Rhydychen a Pharis, ac ym 1514 cafodd ei ddewis yn diwtor Ffrangeg i Mari, chwaer Harri'r wythfed, pan oedd hi ar fin priodi Lewis XII o Ffrainc. Ym 1523 'roedd Palsgrave dan gytundeb argraffwr o Lundain, Richard

---

[5] Ibid., t.19.
[6] Mae un fersiwn o eirfa William Llŷn ar glawr yn Llawysgrif Caerdydd 82.
[7] W. Alun Mathias, Astudiaeth o Weithgarwch Llenyddol William Salesbury (Traethawd MA anghyhoeddedig Prifysgol Cymru Caerdydd, 1949), t.228 yml.
[8] W. Alun Mathias, 'Gweithiau William Salesbury', *The Journal of the Welsh Bibliographical Society*, 7, 3, t.142.
[9] R. Geraint Gruffydd, 'Yr Iaith Gymraeg mewn Ysgolheictod a Diwylliant 1536-1660' yn Geraint H. Jenkins (gol.), *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb: Yr Iaith Gymraeg cyn y Chwyldro Diwydiannol* (Caerdydd, 1997), t.361.
John Palsgrave, *Lesclarcissement de la langue francoyse* (Llundain, 1530).

Pynson, i lunio geiriadur. Cyhoeddwyd *Lesclarcissement de la langue francoyse* ym 1530 gan Iohan Haukyns ac fe'i disgrifiwyd fel:

> ... a foremost document and treasure trove of sixteenth-century French and English usage, inexhaustible in its wealth of lingustic and cultural information.[10]

Bwriad gwreiddiol Palsgrave oedd llunio math ar eiriadur a fyddai'n gymorth i Saeson a ddysgai Ffrangeg. Mae'n cynnwys adran ar reolau gramadeg Ffrangeg, canllawiau ar sut i ynganu geiriau yn ogystal â geiriadur gweddol gynhwysfawr. Rhannodd Palsgrave gynnwys ei eiriadur yn adrannau gwahanol. Ceir adran ar ferfau, adferfau, enwau, rhagenwau ac ansoddeiriau er enghraifft, ac o fewn yr adrannau gwahanol hynny, rhestrodd y geiriau yn nhrefn yr wyddor. Yn wahanol iawn i eiriadurwyr eraill y cyfnod hwn, a arferai restru prifeiriau a dyfynnu o'r clasuron i ddangos enghreifftiau ohonynt mewn cyd-destun, mae'r esiamplau sydd gan Palsgrave yn seiliedig ar yr hyn a glywai'n cael ei ddefnyddio ar lafar.

Ychydig gopïau o *Lesclarcissement de la langue francoyse* a gafodd eu hargraffu ac erbyn heddiw dim ond un copi ar bymtheg sydd wedi goroesi.[11] Ymddengys mai'r rheswm am hyn oedd amharodrwydd John Palsgarve i ddosbarthu'r gwaith ar raddfa eang. Gan ei fod wedi ennill clod fel athro Ffrangeg, byddai datgelu eu grefft a'i gyfrinachau i'r cyhoedd yn effeithio ar ei yrfa ddysgu. Mae'n rhaid bod galw am y math hwn o lyfr yn ystod y cyfnod ond gan ei bod hi mor anodd cael gafael ar gopi o *Lesclarcissement de la langue francoyse*, dechreuodd rhai feddwl bod a wnelo Palsgrave â'r prinder copïau. Dyma gŵyn un gŵr:

---

[10] Gabriele Stein, *John Palsgrave as Renaisssance Linguist: A Pioneer in Vernacular Language Description* (Rhydychen, 1997), t.v.

[11] Cedwir y copïau yn: Y Llyfrgell Brydeinig, Llundain (2 gopi); Llyfrgell Bodley, Rhydychen; Llyfrgell y Brifysgol, Caergrawnt; Llyfrgell y Brifysgol, Manceinion; Ysgol Amwythig, Amwythig; Llyfrgell y Gadeirlan, Caergaint; Llyfrgell y Gadeirlan, Efrog; Llyfrgell Texas, Austin; Llyfrgell Illinois, Urbana; Prifysgol Yale, New Haven; Llyfrgell y Gyngres, Washington; Llyfrgell Folger Shakespeare, Washington; Llyfrgell Mazarine, Paris; Llyfrgell Kongelige, Copenhagen; Stadsbibliotheek, Antwerp. Ymddangosodd argraffiad ffacsimili o'r gwaith ym 1969 gan Scolar Press: English linguistics 1500-1800; A collection of facsimile reprints, 195; Menston; Scolar Press, 1969. Ymddangosodd un arall ym 1972 gan Slatkine: Geneva: Slatkine, 1972. Cynhyrchwyd fersiwn 'microfiche' hefyd, sef: Paris: Archives de la linguistique française, 309.

> I percyve that Palsgrave hathe willed Pynson to sell none of them to any other person then to suche as he shall comaunde to have them, lest his proffit by teching the Frenche tonge myght be mynished by the sale of the same to suche persons as, besids hym, wern disposed to studye the sayd tongue.[12]

Os oedd Salesbury wedi llunio'r geiriadur ar batrwm geiriadur John Palsgrave, ac os oedd y gwaith hwnnw'n brin, mae'n rhaid mai yn Rhydychen neu yn Llundain, yn hytrach nag yng Nghymru, y daeth ar draws copi ohono.

Derbyniodd Salesbury a John Waley - argraffydd yn Foster Lane, Llundain - drwydded frenhinol, dyddiedig 13 Medi 1545, i argraffu geiriadur fel y gallai:

> ... our welbeloved subjects in Wales may the soner attayne and learne our mere englyshe tonge ...[13]

Wedi iddynt gael y drwydded frenhinol hon, mae'n rhaid bod Salesbury wedi mynd ati o ddifri i baratoi'r geiriadur. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, ym 1547, ymddangosodd *A Dictionary in Englyshe and Welshe moche necessary to all such Welshemen, as wil spedly learne the englyshe to'gue* o wasg John Waley.[14]

Teitl braidd yn gamarweiniol sydd gan eiriadur William Salesbury, a theitl sydd wedi cael cryn sylw gan nifer o ysgolheigion. Mae *A Dictionary in Englyshe and Welshe* yn awgrymu mai geiriadur Saesneg–Cymraeg ydyw. Serch hynny, o droi at y dudalen gyntaf, gwelir mai Cymraeg–Saesneg yw trefn y geiriadur. Nododd W. Alun Mathias nad y teitl yn unig sydd yn gamarweiniol, ond y "rhannau dechreuol" hefyd.[15] Yn y cyflwyniad i Harri'r Wythfed, disgrifia Salesbury ei waith fel:

> a lytle englyshe dyctionary with the welshe interpretacion ...

Yn yr anerchiad at y darllenydd dywed:

---

[12] Henry B. Wheatley (gol.), *Peter Levins, Manipulus Vocabulorum* (London, 1867), t.223.
[13] J. H. Davies, 'Salesbury's Dictionary and the King's Licence', *Y Cymmrodor*, 14 (1900), tt.96-97.
[14] William Salesbury, *A Dictionary in Englyshe and Welshe moche necessary to all suche Welshemen, as wil spedly learne the englyshe to'gue* (Llundain, 1547).
[15] W. Alun Mathias, 'William Salesbury – Ei Fywyd a'i Weithiau', op. cit., t.35.



A DICTIONARY
in Englyshe and Welshe moche ne=
cessary to all suche Welshemen as
wil spedly learne the englyshe tōgue
thought vnto the kynges mate=
stie very mete to be sette fo=
the to the vse of his graces
subiectes in Wales: whe
reunto is pfixed a litle
treatyse of the en=
glyshe pronūcia=
cion of the let=
ters, by
Wyllyam Salesbury

1. William Salesbury, *A Dictionary in Englyshe and Welshe* … (1547)

> ... y mae y Gairllyfyr ner Geiriawc saesnec yn dechry yr hwn a elwir yn saesnec an Englis dicsionary ys ef yw hyny kynullfa o eirieu seisnic / achos kynulleidfa o eirieu seisnic yd ywr holl llyfer ...

ac 'roedd y gwaith wedi cael ei dderbyn gan y brenin fel:

> help a chanhorthwy kychwyniad tywysogaeth at laith saesnaec ...

Er hyn, fe â ymlaen i roi cyfarwyddiadau i'r darllenydd ar sut i:

> gaffael Saesnec am ryw air kamberaec ...

Ynghlwm wrth ddirgelwch y teitl a'r rhagymadrodd, y mae amcan Salesbury wrth lunio geiriadur. Cyfeiriwyd eisoes at ei gariad tuag at yr iaith a'i awydd i'w dyrchafu a'i safoni. Yn sicr, y cariad hwn, yn ogystal â'r awydd i ddangos cyfoeth y Gymraeg, oedd un o'r ffactorau a'i hysgogodd i lunio geiriadur. Eithr yn y cyflwyniad i'r brenin, mae'n clodfori ei "excelle't wysdome" yn pasio'r ddeddf a orchmynnai:

> that there shal herafter be no differe'ce in lawes and language bytwyrte youre subiectes of youre principalytye of Wales and your other subiectes of your Royalme of Englande...

Ymddengys felly ei fod hefyd am greu geiriadur a fyddai'n cynorthwyo'r Cymry llythrennog "that readethe parfytle, the welshe tonge" i ddysgu Saesneg, ac a fyddai'n eu galluogi i ddod ymlaen yn y byd. Gellir troi'n ôl at y teitl unwaith eto, sef "... moche necessary to all suche Welshemen as wil spedly learne the englyshe to'gue ...", i gadarnhau mai dyma oedd ei fwriad. Sylweddolodd Salesbury nad oedd ar lawer o'r Cymry frys i ddysgu Saesneg, er y byddai o fudd iddynt wneud hyn.

Mae deuoliaeth arbennig yn perthyn i feddylfryd William Salesbury. Bu'n weithgar dros y Gymraeg drwy gydol ei fywyd, eto dymunai fod pawb yn y Dywysogaeth yn medru Saesneg. Cafodd *A Dictionary in Englyshe and Welsh* ei hyrwyddo fel geiriadur Saesneg-Cymraeg, geiriadur a fyddai'n helpu'r Cymro i ddysgu Saesneg. Dau beth cwbl wahanol yw'r dymuniad i ddyrchafu statws y Gymraeg ac, ar yr un pryd, dysgu'r Saesneg i'r Cymro uniaith eithr mynegir yr un tosturi wrtho dro ar ôl

tro wedi cyfnod William Salesbury. Dangos cyfoeth y Gymraeg a dysgu pobl sut i ysgrifennu a siarad Saesneg oedd delfryd geiriadurwyr megis Thomas Richards er enghraifft. Dywedodd Dafydd Glyn Jones:

> I ymgeleddwyr y Gymraeg, i'r llenorion ac i'r diwygwyr crefyddol am dair canrif, testun tosturi fuasai'r Cymro uniaith Gymraeg; dyna'r traddodiad o Salesbury a Morgan ymlaen, drwy Forgan Llwyd a Phantycelyn, hyd at addysgwyr a golygyddion anterth oes Victoria.[16]

Gan fod modd olrhain trywydd y ddelfryd hon o un cyfnod i'r llall, gellir mynd mor bell â galw'r duedd hon yn draddodiad - Traddodiad Salesbury.

Rhaid cofio nad ymwadu â'i wladgarwch Cymreig a dymuno tranc y Gymraeg a wnâi Salesbury wrth annog pobl i ddysgu Saesneg. Yn hytrach, credai y gellid creu harmoni o fewn cymdeithas pe ceid un iaith gyffredin ac y byddai hyn yn uno pobl at ei gilydd. Dywed:

> ... stryffe hathe rysen emongeste men by reason of dyuersitie of language and what a bonde and knotte of loue and frendshyppe the co'munion of one tonge is ...

Er mwyn pwysleisio'i neges, dyfynna adnod o I. Corinthiaid XIV. ar ymyl y dudalen sy'n sôn am yr annealltwriaeth sy'n codi rhwng pobl nad ydynt yn siarad yr un iaith â'i gilydd. Gwrogi i bolisi'r Tuduriaid yr oedd wrth gwrs, yn union yr un peth ag y gwnâi William Morgan.

Mynegodd y Dr E. Lewis Evans farn dra gwahanol i ysgolheigion eraill ynghylch bwriad Salesbury.[17] Trwy roi teitl camarweiniol i'r geiriadur, a datgan mai geiriadur Saesneg–Cymraeg i gynorthwyo'r Cymry i ddysgu Saesneg ydoedd, 'roedd Salesbury'n chwarae tric cyfrwys. Credai E. Lewis Evans mai esgus moli'r Saesneg yn unig yr oedd Salesbury ac esgus clodfori'r syniad o gael Cymru'n uniaith â Lloegr a wnaeth hefyd. Ei wir fwriad oedd helpu Saeson i ddysgu Cymraeg a chyhoeddi llyfrau Cymraeg yn slei bach:

---

[16] Dafydd Glyn Jones, *Agoriad yr Oes: Erthyglau ar lên, hanes a gwleidyddiaeth Cymru* (Talybont, 2001), t.48.

[17] E. Lewis Evans, 'William Salesbury', *Y Llenor*, XII (1933), tt.106-118.

> ... smygliwyd drwy'r wasg gynhyrchion a oedd yn rhan o baratoad i wneuthur y Gymraeg yn bwnc astudiaeth i ysgolheigion y byd.[18]

Dywedodd Thomas Parry:

> ... nid yw ei agwedd ond yr un ag agwedd llawer Cymro dysgedig arall a fyn mai da i'r Cymry yw gwybod Saesneg yn ychwanegol at eu Cymraeg hwy eu hunain.[19]

'Roedd gan Salesbury ffydd yn y Saesneg ac fe'i hystyriai'n iaith anrhydeddus, iaith a oedd yn addas ar gyfer traethu dysgedig. Mynega hyn yn *A briefe and a playne introduction*, yn ogystal ag yn ei anerchiad at y darllenydd ar ddechrau'r geiriadur, lle mae'n ei disgrifio fel:

> iaith heddyw vrddedic o bob rhyw oreuddysc iaith gyflawn o ddawn a buddygoliaeth ...

Ar ddiwedd yr anerchiad hwn, y gorchymyn yw:

> Dyscwch nes oesswch Saesnec
> Doeth yw e dysc da iaith dec

Yr oedd y Saesneg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac fe wyddai Salesbury pa mor fanteisiol oedd ei medru. Gwyddai hefyd pe llwyddai i'w dysgu i'r Cymry, y byddai'n eu galluogi i werthfawrogi gweithiau ysgolheigion o Loegr, yn ogystal ag ehangu eu profiad a'u gwybodaeth hwy eu hunain.

Yn ôl Gruffydd Aled Williams, prif reswm Salesbury dros geisio cael Cymry dwyieithog oedd:

> ... ei awydd iddynt ymgydnabod â'r llyfrau Saesneg dyneiddiol a Phrotestannaidd a ddeuai'n gynyddol o'r wasg erbyn canol yr unfed ganrif ar bymtheg.[20]

O bosib, ymateb i her y Diwygiad Protestannaidd a wnaeth Salesbury trwy fynd ati i lunio geiriadur i helpu'r Cymry i ddysgu Saesneg. Saesneg oedd iaith y grefydd newydd ac os na fyddai'r mwyafrif helaeth o Gymry'n deall yr Ysgrythurau, gwyddai

---

[18] Ibid., t.109.
[19] Thomas Parry, 'Rhyddiaith Newydd', *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg Hyd 1990* (Caerdydd, 1944), t.160.
[20] Gruffydd Aled Williams, op. cit., t.45.

y byddai eneidiau dirifedi yn mynd i golli ac y byddai hi ar ben ar y ffydd yng Nghymru. Er gwaethaf ei barch tuag at yr iaith Gymraeg, 'roedd Salesbury hefyd yn ymwybodol o'i gwendidau a'i bod, yn ei chyflwr presennol, yn gyfrwng anaddas i gyflwyno'r Ysgrythurau. Pan ymgymerodd â'r gorchwyl o lunio geiriadur, mae'n bosib iddo fwriadu cyflawni dau beth, sef creu llyfr a fyddai'n tynnu sylw at urddas, statws a hynafiaeth y Gymraeg, yn ogystal â cheisio'i gwneud hi'n iaith addas i gyflwyno gair Duw.

Mae'n werth nodi bod Salesbury wedi newid ei feddwl erbyn iddo gyhoeddi ei gasgliad o ddiarhebion, *Oll Synnwyr pen Kembero ygyd*, a hynny yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddwyd y geiriadur.[21] Gwyddai nad oedd llawer o obaith i rai Cymry gael cyfle i feistroli'r Saesneg ac o'r rhai a fyddai'n mynd ati, ychydig a fyddai'n llwyddo i ddysgu darllen a deall llyfrau Saesneg yn iawn. Bellach, nid oedd Salesbury'n barod i dreulio amser yn disgwyl i'w gydwladwyr ddysgu Saesneg cyn lledaenu'r efengyl. *Yn Oll Synnwyr pen Kembero ygyd*, geilw ar:

> ... y sawl ny bo gobeith ywch ar ddyscy saesnec ne iaith arall y bo dysc ynthei ...[22]

i fynnu dysg, ac i fynnu cael yr Ysgrythurau yn eu hiaith. Yn ôl J. E. Caerwyn Williams, 'roedd Salesbury wedi:

> ... ailfeddwl, newid ei gynllun a mynd ati i hybu'r Gymraeg fel iaith crefydd a dysg, a hyn sy'n esbonio ei weithgarwch fel cyfieithydd yr Ysgrythurau.[23]

Un o'r damcaniaethau mwyaf diddorol a gynigiwyd ynghylch y geiriadur yw eiddo J. E. Caerwyn Williams.[24] Credai ef fod Salesbury wedi llunio geirlyfr iddo ef ei hun gan ychwanegu ato dros gyfnod o amser pan ddysgodd Saesneg yn ŵr ifanc. Y

---

[21] Credai Ifor Williams fod William Salesbury wedi cyhoeddi ei eiriadur o flaen Oll Synnwyr pen Kembero ygyd. Gw. Ifor Williams, 'Gruffydd Robert o Filan', *Y Traethodydd*, 1939, tt.193-208 ac Ifor Williams, 'Blwyddyn Cyhoeddi "Yn y Lhyvyr Hwnn", *The Journal of the Welsh Bibliographical Society*, 4, tt.33-39.

[22] William Salesbury, 'Oll Synnwyr pen Kembero ygyd', op. cit., t.11.

[23] J. E. Caerwyn Williams, *Geiriadurwyr y Gymraeg yng Nghyfnod y Dadeni* (Pen-y-bont ar Ogwr, 1983), t.21.

[24] Ibid., tt.21-22.

geirlyfr hwn, o bosib, oedd cnewyllyn y geiriadur. Rhennir yr un farn gan R. Brinley Jones. Dywedodd:

> ... the DICTIONARY has something of the nature of a work-book, devised in the first place for his own use.[25]

Pan ddaeth Salesbury yn ymwybodol o'r datblygiadau ym myd y wasg argraffu, sylweddolodd ei photensial a dechreuodd fanteisio ar y cyfle i wneud defnydd helaeth ohoni drwy gyhoeddi *A Dictionary in Englyshe and Welshe.*

Ym 1877, adargraffwyd geiriadur Salesbury gan Gymdeithas y Cymmrodorion. 164 o dudalennau sydd yn yr adargraffiad hwnnw a rhoddwyd dwy golofn o'r geiriadur ar bob tudalen. Nodwyd eisoes bod cyflwyniad i'r brenin Harri'r Wythfed ar ddechrau'r geiriadur, ynghyd ag anerchiad i'r darllenydd. Ar ddiwedd yr anerchiad hwnnw, dangosir yr wyddor "o lythyrenneu bychain", "or llythreneu kanolic o vaint" ac "or vath vwyaf ar lythyreu" ac yna ceir adran ar "Natur a sain y llythyreu vchod yn Saesnec" neu "Athrawaeth i ddyscy darllen saesnec". Mae'n siŵr y gallai Salesbury dynnu ar ei brofiadau ei hun o ddysgu Saesneg wrth gynghori'r Cymry sut i ynganu'r iaith.[26] Telir sylw manwl i bob llythyren yn ei thro. Ceir esboniad ar sut y dylid eu seinio ac eglurir hefyd na cheir llythrennau megis *ch* ac *ll* yn y Saesneg:

> L Ll, yn saesnec nid ynt dim tebyc eu hansawd in ll, ni: an ll, ni ny ddysc byth yn iawn dyn aralliaith i thraythy o ddierth yny vebyd.

Nid yw *q* yn bodoli'n y Gymraeg ychwaith:

> llythyr dieythyr ymgamraec yw ac nid mawr gartrefigach yn saesnec vn gyfraith a chan k y keffir q / val hynn **quene** kwin brenhines ... A gwybydd may u / yw kydymaith q / can ni welir byth q / eb u / yw chynlyn mwy nar goc heb i gwichelll. [sic]

Er gwaethaf natur y pwnc mae Salesbury yn ymdrin ag ef, mae'r cyfarwyddiadau'n ddigon hawdd a diddorol i'w darllen. Llwydda i greu naws ysgafn yn yr "Athrawaeth i ddyscy darllen saesnec" ac mae cyffyrddiadau megis y cyfeiriad uchod at y ffaith

---

[25] R. Brinley Jones, *William Salesbury* (Caerdydd, 1994), t.15.
[26] J. E. Caerwyn Williams, op. cit., t.21.

na welir *q* heb *u* yn ei dilyn "mwy nar goc heb i gwichelll [sic]" yn bywiocáu'r darn. Ceir enghraifft arall o hyn pan ddisgrifr *sh* hefyd. Dywed Salesbury:

> Ac ym pa ryw van bynac ar air i del / ssio val neidyr gyffrous a wna ... Ac o mynny chwanec o hyspysrwydd ynkylch i llais gwrando ar byscot kregin yn dechreu berwi o damwain vn waith vddunt leisio.

Down i ddeall sut y câi'r Gymraeg ei hynganu yng nghyfnod William Salesbury ac fe ellir casglu nad oedd Cymraeg llafar yr unfed ganrif ar bymtheg yn wahanol iawn i Gymraeg yr unfed ganrif ar hugain. Serch hynny, ymddengys bod gwahaniaeth yn y ffordd y câi'r Saesneg ei hynganu ar hyd y canrifoedd ac mae geiriadur Salesbury yn cynnwys canllawiau mwy dibynadwy i etymoleg ac ynganiad geiriau Saesneg yr unfed ganrif ar bymtheg na gweithiau nifer o'i gyfoeswyr o Saeson.[27]

Ceir tua 7, 000 o brifeiriau Cymraeg yn y geiriadur, gan gynnwys nifer fechan o idiomau fel:

| | | | |
|---|---|---|---|
| er ystalym | Long ago | kyfing gynor | Proplexitie |
| gat y gat | Almost | newydd tanlliw | Fyre newe |
| kany yn iach | Bydde fare well[28] | | |

Ni nodir rhannau ymadrodd, na gwybodaeth am genedl a morffoleg ac er mai geiriadur Cymraeg–Saesneg ydyw, ni chynigir cyfieithiad Saesneg ar gyfer pob prifair. Weithiau nodir gair digon cyffredin, heb Saesneg cyfatebol. Efallai y tybiai Salesbury fod cyfieithiad Saesneg geiriau megis *achub*, *dyn*, *gofid*, *llan*, *planigin* a *tymor* yn hysbys i'r darllenydd. Dro arall ceir cofnodion tebyg i'r rhain, lle y gwelir mai dim ond gair neu ddau sydd wedi cael diffiniad Saesneg:

| | | | |
|---|---|---|---|
| brith | Pyed | kaled | Hard |
| brithoc | | kaledi | |
| bychan | Lytell | kaledrwydd | Hardness |
| bychander | | kaledwch | |
| gwamal | Malepert | saim | Grese |
| gwamalder | | saimio | |

[27] R. E. Hughes, 'Aspects of Welsh Lexicography in the ninteenth century with special reference to the contribution of Daniel Silvan Evans'. (Traethawd MA anghyhoeddedig Prifysgol Lerpwl, 1941), t.3.

[28] Defnyddir 's' yn lle ' ' yn y Saesneg a godwyd o'r geiriadur.

Tua 14% o'r prifeiriau yn y geiriadur sydd heb Saesneg cyfatebol. Nododd R. Brinley Jones fod brys ar ddyneiddwyr y Dadeni Dysg i rannu eu dysg gyda'u cyd-wladwyr:

> There was an urgency about publication.[29]

Nododd hefyd fod Salesbury yn ymdeimlo â'r brys hwn i gyhoeddi llyfrau. Mae'n bosib felly nad oedd gan Salesbury ddigon o amser i lenwi'r bylchau wrth baratoi'r geiriadur ar gyfer ei gyhoeddi. Bu'n rhaid iddo fodloni ar gyflwyno math o jig-so – gyda darnau coll – i'r defnyddwyr, gan dybio ei fod wedi cynnwys digon o wybodaeth i'w galluogi i ddyfalu beth oedd ystyr rhai geiriau.

Pe bai rhywun yn ceisio cael hyd i gyfieithiad Saesneg o'r rhifolion yn y geiriadur, fe fyddai'n darganfod mai rhai rhifau yn unig sydd wedi eu cynnwys. Nodir *dwy*, *tair* a *pedwar* er enghraifft, a chynigir y Saesneg amdanynt. Serch hynny, ni cheir unrhyw gofnod o *dau*, *tri* a *pedair*. Eto yn yr achos hwn, efallai y tybiai Salesbury fod nodi'r ystyron unwaith yn ddigon ac nad oedd angen ailadrodd, yn enwedig os oedd amser yn brin. Mae Salesbury ei hun yn awgrymu ei fod wedi llunio'r geiriadur ar frys. Yn yr anerchiad i'r darllenydd, dywed fod y geiriau wedi eu gosod yn nhrefn yr wyddor "hyd y deuei kof":

> ... o bleit ni chymysced dim or geirieu bendromwnwgyl ynto val y damwyniai uddunt syrthio ym meddwll [*sic*] or tro kyntaf: Eithyr ef adfeddylied vyth er mwyn yr anyscedic gyfryw vodd ac y darfy helkyt pop gair (hyd y deuei kof) yw van gyfaddas ehunan.

Serch hynny, cofnodir dyddiau'r wythnos, gwyliau'r Seintiau a gwyliau cyffredin, mewn un bloc mawr o dan 'dyw' a rhestrir misoedd y flwyddyn i gyd o dan 'mis'. Ni ddônt mewn unrhyw drefn arbennig nac yn nhrefn yr wyddor chwaith ond wedi dweud hynny, mae'n werth nodi nad oedd unrhyw eiriadur cynnar yn dilyn trefn yr wyddor yn gyson. Yn aml wrth lunio geirfâu, nodid yr holl eiriau'n dechrau ag un llythyren gyda'i gilydd, heb ystyried trefn fewnol y llythrennau, er enghraifft 'diowty' (*An ale house*), 'dialayth' (*Uengeaunge*). Cyfeirir yn fynych at yr arfer hwn o gofnodi yn ôl trefn yr wyddor fel 'trefn llythyren gyntaf' neu '*first-letter order*'. Pan

---

[29] R. Brinley Jones, op. cit., t.14.

ddechreuwyd ystyried yr ail lythyren, cyrhaeddwyd cyfnod 'trefn ail lythyren' ac yn y blaen.

Efallai y gallai Salesbury fod wedi cywiro gwallau a gosod y "geirieu bendromwnwgyl" mewn trefn pe bai amser ganddo i wneud hynny. Wrth sôn am olygu a chywiro gwallau, dywedodd T. Powel:

> ... this may have been rendered impracticable by some circumstances connected with the presentation of the book to the King which may have called for prompt action. And when it is considered that the author lived in Wales, it is easy to conceive that he may have been forced subsequently to print under conditions which left no opportunity for revision and completion.[30]

Er hyn, mae'n bosib bod Salesbury wedi gadael ambell i fwlch heb ei lenwi am na fedrai gael gafael ar yr union air Saesneg a fyddai'n cyfateb i'r Gymraeg. Tybed a oedd ystyr neu ddifiniad geiriau fel *gwisci*, *kler*, *klera*, *medel*, *pikin diowtlestyr* a *benbaladyr* wedi peri penbleth iddo ac yntau ar frys?

Gellir canfod sawl tebygrwydd o gymharu geiriadur Salesbury a *Lesclarcissement de la langue francoyse*. Gan fod brys i gyhoeddi gwaith John Palsgrave, nid oes ryfedd bod nifer o wallau argraffyddol yn y testun ond gwelir hefyd nad yw Palsgrave yn cynnig cyfieithiad Ffrangeg ar gyfer pob prifair. Tynnodd Gabriele Stein sylw at y ffaith fod rhai o'r cofnodion sydd ganddo yn hir a'u bod yn llenwi mwy nag un llinell.[31] Tybiodd felly nad oedd lle bob amser i gynnwys y Ffrangeg cyfatebol. Rheswm arall dros y bylchau yw'r ffaith fod Palsgrave, o bosib, wedi gorfod trosglwyddo'i lawysgrif i'r argraffwr pan nad oedd hi'n barod. Awgrymodd Stein hefyd nad "accidental oversights" oedd y Ffrangeg coll, ond enghreifftiau o eiriau yr oedd Palsgrave yn ansicr ynghylch eu cyfieithiad.[32]

---

[30] Thomas Powel, 'Notes on William Salesbury's Dictionary', *Y Cymmrodor*, 8, t.212.
[31] Gabriele Stein, op. cit., t.54.
[32] Ibid.

Er gwaethaf y bylchau sydd yn y geiriadur, ceir nifer o enghreifftiau lle mae Salesbury yn nodi berf, ac yna'n disgrifio ei hystyr yn fanylach.[33] Er enghraifft:

| | | | |
|---|---|---|---|
| discyn val ederyn o yar varch | Lyght | kokian val iar | Cacle |
| dolefain val kwn | Yell | kyhwfan val knawd ar anifail o dra thewdwr | Swagge |
| grydyan val llwdyn hwch | Grunt | turio val llwdyn hwch | Wrote |
| hongian val dyn meddw yn profi kerddet | Rele, staggar | tinkio swnio val metel | Tynke |
| kodi val ffynnon oer | Spryng | | |

Daw gwybodaeth Salesbury am yr iaith a'i ddawn i'w disgrifio i'r amlwg yn yr enghreifftiau uchod. Gwelir yr un math o ymhyfrydu mewn geiriau yn y Testament Newydd. Yn y cyfieithiad hwnnw, nododd eiriau cyfystyr, amrywiadau tafodieithol a chyfieithiadau ar ymyl y dudalen.

Mae *val* yn ymddangos dro ar ôl tro yn yr enghreifftiau a nodwyd uchod. Gwna Salesbury ddefnydd o *val* i bwrpas arbennig arall hefyd, sef i ddangos y gwahaniaeth rhwng prifeiriau sydd â mwy nag un ystyr:

| | | | |
|---|---|---|---|
| glas | Blewe | kolli | Lese, lose |
| glas val lliw clais ar gnawd | Blo | kolli val kolli dwr dros lestyr | Shede, spyll |
| glas val llygant ne varch lgas [sic] | Gray | siaw val neidyr | Hysse |
| glas val wyneb dyn | Pale | siaw val adar | Chatter |
| gwingo val march | Kycke | swnio ne sonio | To sounde |
| gwingo val dyn | Struggel | swnio val kloch / ne beth llafar arall | Ryng |
| hen | Olde | uchel | Hyghe |
| hen val bara ne ddiod | Stale | uchel val llef neu dwrwf | Lowde |
| kladdy | Burye | | |
| kladdy val pyscot | Spawne | | |

Dro arall, rhydd Salesbury fath o esboniad neu estyniad i'r prifair i wahaniaeth rhwng gwahanol ddefnyddiau ohono. Dyma rai o'r berfau a nodais:

| | | | |
|---|---|---|---|
| brathy ac arf | Foyne | llwyd lliw ar vrethyn | Russet |
| brathy ac aryf | Foyne | llwyd val hen bara | Moldy, mustie |
| brathy a daint | Byte | llwyd val blew ne wallt pen o henaint | Hoore |
| brathy val pryf ai golyn | Styng | | |

[33] Yn yr enghreifftiau a ddyfynnir, gadawyd bwlch ar ochr y Saesneg yn union fel sydd gan Salesbury.

| | | | |
|---|---|---|---|
| gollwng | Lowse | myned | Goe |
| gollwng o ywrth bechot | Assoyle | myned i mewn val brethyn ne liain ne bren ir | Shrynke |
| gollwng trwyddo val llestyr aniddos | Leeke | myned ar varch | Lyght on a horse |
| gollwng dros gof | Foregette | myned ir mor | Take the see |
| lladd | Kyll | roddi | Gyue |
| lladd a llif | Sawe | roddi hoyl yn y byw | Cloye |
| lladd a llif ddur | Fyle | roddi awdurdot dros ddadyl | Alledge |
| lladd a phladur | Mowe | roddi olew ar glaf | Aneell |
| | | roddi sids wrth dref | Besiege |
| llifio | Flowe | roddi cred rhwng mab a merch | Handfaste |
| llifio hogi ar vaen breu anllif | Grynde | roddi honsel | Hansell |
| llifio a lliw | Dye | roddi yn siet | Confyske |
| llifio pren | Sawe | roddi heibio | Set a syde |
| llifio hayarn | Fyle | | |

Gwna'r un peth gydag enwau sydd â mwy nag un ystyr hefyd, er enghraifft:

| | | | |
|---|---|---|---|
| llif llifeiriant | A floude | traul ar dda | Spendyng |
| llif i lifio coet | A sawe | traul ar ddillad | Weryng |
| llif ddur | A fyle | | |

ac fel arfer, rhestra Salesbury ddau ansoddair ag ystyron gwahanol, er enghraifft:

| | | | |
|---|---|---|---|
| kam gwyr | Croked | kam unllygeidioc | One eyed |

Wrth sôn am y geiriau 'anodd' y tueddai'r beirdd i'w cynnwys yn eu geirfâu, dywedodd J. E. Caerwyn Williams:

> Yr oedd yn gam ymlaen pwysig yn hanes geiriadura pan geisiwyd corffori mewn geiriadur bob gair a berthynai i iaith.[34]

Esbonio geiriau anodd - neu 'inkhorn terms' - oedd yr arfer cyffredin yn Saesneg hefyd, fel y nodwyd eisoes. Unwaith eto, gellir cymharu syniadau John Palsgrave a William Salesbury am y math o eiriau y dylid eu cynnwys mewn geiriadur. Dymunai Palsgrave restru holl eiriau'r iaith a chan na wyddys yn iawn pwy yn union fu'n gyfrifol am lunio'r geiriaduron Saesneg cynharaf - y *Medulla grammatice*, y *Promptorium parvulorum* a'r [*H*]*ortus Vocabulorum* - gellir dweud mai Palsgrave

[34] J. E. Caerwyn Williams, op. cit., t.17.

oedd y geiriadurwr cyntaf y gwyddom ni amdano a feddyliodd am gofnodi holl eiriau'r Saesneg mewn geiriadur.[35]

Ar y cyfan, ychydig iawn o eiriau astrus neu anodd sydd yng ngeiriadur Salesbury. Mae'r mwyafrif ohonynt yn rhai y byddai ef yn gyfarwydd â'u clywed ar lafar. Un o nodweddion amlycaf y geiriadur yw'r eirfa bob dydd sydd ynddo, ac mae llawer o'r geiriau hynny'n adlewyrchu'r cyfnod pan gyhoeddwyd ef. Rhydd y geiriau isod ryw fath o ddarlun neu syniad i ni am y gymdeithas yr oedd Salesbury'n byw ynddi yn yr unfed ganrif ar bymtheg:

| | | | |
|---|---|---|---|
| arnodd aratr | Ploughe beame | glwferiaeth | Glouerscrafte |
| askell saeth | Fedder of a shafte | golchffon | A wasshyng betyll |
| astronomi un or saith gelfyddyt | Astronomy | grammatec un or saith gelfyddyt | Gramer |
| aurych ne dinker | A tynkar | gwr rhydd | A freman |
| braynar | Falowe land | gwr caeth | A band man |
| brethyn | Wolle clothe | gwydd ne gwehydd | A weyuer |
| brethyn say | Say clothe | gwydd aratyr ne penffestyr | A ploughe |
| brethyn kri | Course clothe | kail ne corddlan defeit | Thepecote |
| brethyn syllty | | Kanwyll baris | A pares |
| brethyn cartref | Home made clothe | kandell vrwyn candell | A russhe |
| brethyn werddonic | Irysshe rugge | kartot | An almes |
| brethyn brith | | kartotwr | A begger mar |
| decum | Tythe | karth bren aratyr | A ploughe staffe |
| dewinieth llaw | Palmestrie | kwrlidwr | |
| dyfyrhau kic ne byscod hallt | Stepe | kwrwf ewydd kyn i hidlo | Newe ale in cornes |
| dyrnaid o saytheu | A sheffe of arrowes | kwrwfydd | Alebrewar |
| eilcwrwf | Penny ale | medelwr | A repar |
| eredic | Plough, ere | music un or saith gelfyddyt | Musike |
| ergit saeth | A bowe shote | pedler dyn yn arwein waar | A pedlar |
| escelly saeth | Fedder a shafte | tick gwely | Tycke |
| geometri un or saith gelfyddyt | Gemetry | trwyth i olchi kadachau yntho | Bucke |
| glwfer | A glouer | tynnu wynebyon llaeth ne gwrwf | Flete |

O gofio mai dyrchafu statws y Gymraeg oedd nod Salesbury ac mai geirfâu'r beirdd, o bosib, yw sylfaen y geiriadur, deuir ar draws nifer o eiriau na ddisgwylir eu gweld mewn geiriadur o'r math hwn, er enghraifft:

---

[35] Gabriel Stein, op. cit., t.125.

| | | | |
|---|---|---|---|
| bram | A farte | kachy | Shyte |
| bytain | A hore | piso | Pysse |
| byteinwr | A hore hu'ter | pispot | A pyspot |
| ebod | Horse donge | pission ne drwnk | Pysse, stale |
| ebodni val march | Donge | swga vab | A slouen |
| hwr | A Hore | swga verch | Sluttyshe |
| hwrswn mab putain | Horesone | | |

O bryd i'w gilydd deuir ar draws rhai cofnodion digon difyr megis:

| | | | |
|---|---|---|---|
| gwallt gossot | Counterfayt heere | madrondot o ben | Swymynge in the hed |
| madrondot | Astonysshednesse | wynwyn llyseun o ddyry gwragedd wrth eu llygait er kymel [*sic*] wylo pan vo meirw eu gwyr | An onyon |

Nodwedd arall sy'n dangos nad geirfa o hen lawysgrifau yn unig sydd yng ngeiriadur Salesbury yw'r geiriau tafodieithol a geir ynddo. Nododd eirfa gyffredin bob dydd, ac ymdrechodd i nodi amrywiaethau tafodieithol rhwng de a gogledd Cymru. Dilynnir nifer o brifeiriau gan y ffurf a ddefnyddid mewn rhan arall o'r wlad, er enghraifft:

| | | | |
|---|---|---|---|
| anneir treissiad | A hekefer ne hyffyr | fwrn ne popty | A ouen |
| egoriad ne allwedd | A key | kadnaw llwynoc | A foxe |
| Eiddew ne eiddiorwc | Juy | gwadd ne twrch dayar | A mole, want |
| ffettan ne sach | A sacke | llank ne rhokas | A gorrell[36] |

Mae benthyciadau o'r Saesneg yn britho'r geiriadur hefyd. Dyma nodwedd arall sy'n awgrymu mai cofnodi geiriau llafar - ac nid gwarchod purdeb y Gymraeg - oedd nod Salesbury. Dyma rai o'r geiriau benthyg sydd yn y geiriadur:

| | | | |
|---|---|---|---|
| defeys | Deuyse | kwnkwest | Conqueste |
| delifro | Delyuer | kwnkwerio | Conquere |
| fafyr | Fauour | owtcri | An oute crye |
| fayl | Fayle | ockupeio | Occupye |
| faylio | Fayle | ordrio | Order |
| fluwet | A flute | oystreds ffedder | Oystreche fedder |
| gwatio | Wayte | payds | Page |
| kleimio | Clayme | pray | A pray |
| konfeio | Conuay | tasky [sic] | To taxe |
| kwnffwrth | Conforte | veyads taith | A voyage |
| kwnfwrddio | To connforte | waytsio | Watche |

O edrych ar y berfenwau yn y rhestr uchod, gwelir mai'r olddodiad *-o* neu *-io* a ddefnyddir fwyaf, a bod yr enwau'n digwydd yn eu ffurf Saesneg yn aml iawn, megis *fayl* a *warnyng*. Ar y cyfan, prin iawn yw'r ansoddeiriau yn y geiriadur sy'n fenthyciadau Saesneg.

'Roedd William Salesbury yn wynebu tasg anodd wrth lunio'r geiriadur cyntaf oherwydd yr amrywiaeth yn y ffordd y sillefid geiriau. Nid ymdrechodd i fod yn gyson wrth sillafu, fel y mae'r enghreifftiau isod yn dangos:

| | | | |
|---|---|---|---|
| amdo amwisc | A wyndynge shete | kymedrol | Moderat |
| ammwysc ne amdo | A wyndyng shete | yn gymedrawl | Moderatly |
| anifal | A best | rybudd | Warnyng |
| enifail | A beest | warnyng rhybydd | Warnyng |
| enifal brut | A brut beest | trombluoc | Drowsy |
| chwerthyn | laughe | trwmblyoc | Dorwsy |
| chwerthin gwatwor | Laughe to scorne | | |

Mae anghysondeb sillafu Salesbury wedi cael cryn sylw gan ysgolheigion, yn enwedig oherwydd iddo amrywio cryn dipyn ar sillafiad geiriau yn ei gyfieithiad o'r Testament Newydd. Disgrifiodd Gruffydd Aled Williams yr amrywio hwn fel:

> ... gwedd ar ei ddiléit dyneiddiol mewn amrywiaeth ymadrodd ...[37]

ac mae'r "diléit" hwn yn dod i'r amlwg weithiau yn y geiriadur.

Erbyn heddiw, cedwir copïau o'r geiriadur yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Llyfrgell Ganol Caerdydd; Yr Amgueddfa Brydeinig; Llyfrgell Bodley, Rhydychen; Llyfrgell Coleg y Drindod, Dulyn; Llyfrgell Abaty Belmont; Llyfrgell Henry E. Huntington, California; Llyfrgell Folger Shakespeare, Washington a Llyfrgell Newberry, Chicago. Yn ôl Thomas Parry, ni ellir ystyried geiriadur William Salesbury yn "batrwm o eiriaduraeth".[38] Beth felly, yw gwerth y gwaith i ni heddiw? Gan iddo seilio'i eiriadur ar eirfâu Cymraeg y beirdd, gall unrhyw un sydd am astudio testunau Cymraeg y cyfnodau cynnar ei ddefnyddio fel math o lawlyfr.[39] Nid yn unig hynny, gall ieithegwyr ddehongli ystyr y geiriau Saesneg a gâi eu defnyddio yn yr unfed ganrif

---

[36] Mae Salesbury wedi nodi "llanc" ac nid "llances" yn y fan hon.
[37] Gruffydd Aled Williams, op. cit., t.49.
[38] Thomas Parry, op. cit., t.160.
[39] W. Alun Mathias, 'Williams Salesbury – Ei Fywyd a'i Weithiau', op. cit., t.36.

ar bymtheg, ond sydd bellach yn anarferedig neu wedi newid eu hystyr.[40] Er taw gwaith anghyflawn ac anghyson yw geiriadur Salesbury ar y cyfan, rhaid cadw mewn cof nad oedd ganddo lawer o batrwm i'w ddilyn. Arloeswr a osododd sail ar gyfer gweithgarwch geiriadurol pellach oedd Salesbury yn anad dim arall. Dyma sut y disgrifiodd R. Brinley Jones ei gamp:

> ... Salesbury was the pioneer of the printed lexicon ... Defective and incomplete though Salesbury's DICTIONARY is, it remains a monument to his research instinct, his taste for words, his concern for literacy and ultimately his endeavour to offer a key to the understanding of Scripture.[41]

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

[40] Robert Jones, op. cit., t.120. Gw. hefyd Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), op. cit., tt.956-7.
[41] R. Brinley Jones, op. cit., t.17.

## (ii)

## Thomas Wiliems (1545/6 - 1622)

Brodor o Drefriw, Sir Gaernarfon oedd Syr Thomas ap Wiliem neu'r Dr Thomas Wiliems ac fe'i ganwyd ef ym 1545 neu ym 1546.[42] Ni wyddys llawer am yr addysg gynnar a gafodd ond aeth i Rydychen, fel y gwnaeth William Salesbury o'i flaen. Mae tebygrwydd arall rhwng y ddau hefyd, sef iddynt adael y brifysgol heb radd. Credir bod Wiliems wedi mynd i Rydychen yn Babydd, ond mae'n rhaid ei fod wedi ymdeimlo â grym y Diwygiad Protestannaidd oherwydd aeth oddi yno'n Brotestant. Tybir, serch hynny, iddo droi'n ôl at Babyddiaeth yn ddiweddarach. Er mai offeiriad ydoedd Thomas Wiliems, mae'n debyg ei fod hefyd yn ennill bywoliaeth fel meddyg. Ym mhapurau'r teulu Wynn, Gwedir, ceir tystiolaeth ei fod yn feddyg a bod Syr John Wynn yn ymgynghori ag ef dros gyfnod o amser.[43] Credir hefyd ei fod wedi astudio meddygaeth yng ngholeg Brasenose, Rhydychen. "Tho: Wiliem physycwr" yw disgrifiad Thomas Wiliems ohono'i hun[44] ac ar ddechrau ei eiriadur, dywed mai "medicus practicus" ydyw.[45] Er gwaethaf y galwadau arno fel offeiriad a meddyg, nid amharwyd ar ei frwdfrydedd a'i egni yn casglu a chopïo llawysgrifau Cymraeg. Awgrymodd J. E. Caerwyn Williams mai ysgolheictod, ac nid meddygaeth, oedd ei brif ddiddordeb:

> ... aberthodd ei alwedigaeth fwyfwy ar allor ysgolheictod.[46]

Mae'r ffaith i Thomas Wiliems gael ei fagu yn Nyffryn Conwy, sef "cartref dysg Gymraeg" yng nghyfnod y Dadeni Dysg, yn arwyddocaol.[47] Yno y profwyd bwrlwm y Dadeni yng Nghymru ar ei anterth ac yno hefyd y magwyd y mwyafrif o'r Dyneiddwyr disglair hynny a ymddiddorodd gymaint yn hanes Cymru, ei hiaith a'i

---

[42] Gerallt Harries, 'Blwyddyn Geni Syr Thomas Wiliems', *Llên Cymru*, 2 (1952-3), t.259.
[43] Gw. er enghraifft *Wynn Papers* 105 a 965.
[44] *Report on Manuscripts in the Welsh Language* ... (Llundain, 1898-1910), Cyf. I., 359.
[45] Thomas Wiliems, *Trysawr yr iaith Latin a r Gymraec, ne'r Geiriadur cywoethocaf a helaethaf or wir ddiletiaith Vrytanaec ... wedy dechreu i scrifenu 4 Maii 1604.* Peniarth 228, i, p.xi.
[46] J. E. Caerwyn Williams, 'Thomas Wiliems, Y Geiriadurwr', *Studia Celtica*, 16/17 (1981/82), t.294.

llenyddiaeth. Diau felly bod perthyn i'r rhanbarth hwn a bod yn rhan o gymdeithas ddiwylliedig wedi chwarae rhan allweddol yn natblygiad meddwl Thomas Wiliems. Un nodwedd ar weithgarwch y Dyneiddwyr oedd casglu, astudio a chopïo hen lawysgrifau'r Cymry. Dywedodd G. J. Williams fod ganddynt:

> ... awch am wybodaeth ac awydd i gasglu ynghyd holl hen drysorau llenyddol cenedl y Cymry, a'u hastudio a'u copïo, fel y baent yn rhan o etifeddiaeth cenedlaethau'r dyfodol ...[48]

Credir bod llawer iawn o'r llawysgrifau pwysicaf wedi eu casglu ynghyd gan ddyneiddwyr Dyffryn Clwyd erbyn hanner olaf yr unfed ganrif ar bymtheg.[49] Mae'n debyg bod Thomas Wiliems wedi dechrau ymddiddori yn y diwylliant brodorol ac wedi dechrau magu diddordeb mewn llawysgrifau pan oedd yn ifanc iawn. Ceir tystiolaeth, er enghraifft, ei fod ym Mangor yn copïo llawysgrif pan oedd yn un ar hugain.[50] Ymhlith y testunau a gopïodd y mae *Brut y Brenhinedd, Historia Daret, Prif Achae Holl Gymru Benbaladr, Brut y Tywysogion* a *Thrioedd Ynys Prydain.* Yn ogystal, gwnaeth gopi o'r cyfreithiau ac o ramadeg y beirdd; copïodd gopi William Cynwal o'r Pum Llyfr Cerddwriaeth ac mae un o'r casgliadau mwyaf o waith Dafydd ap Gwilym sydd wedi goroesi hyd heddiw yn llaw Thomas Wiliems.

Lleisid cwyn gyson yn erbyn y beirdd ers cenhedlaeth neu ddwy am eu bod mor gyndyn i ddatgelu eu dysg ac yn amharod i ddangos eu llawysgrifau i eraill. O gofio bod y llawysgrifau pwysicaf ym meddiant yr uchelwyr yn Nyffryn Clwyd erbyn cyfnod Thomas Wiliems, gellid tybio ei bod hi'n haws cael golwg arnynt. Serch hynny, nid felly 'roedd hi bob tro. Weithiau, byddai ysgolhaig megis Thomas Wiliems yn gorfod teithio cryn bellter i weld a chopïo llawysgrifau. Maen tramgwydd arall oedd anfodlonrwydd rhai uchelwyr, fel y beirdd o'u blaenau, i ddangos llawysgrifau. Ceir tystiolaeth na chawsai Thomas Wiliems rwydd hynt, gan fod ambell uchelwr wedi gwrthod rhoi caniatâd iddo astudio a chopïo yn ei lyfrgell. Yn y rhagymadrodd, mae'n lleisio'i gŵyn:

---

[47] G. J. Williams, 'Traddodiad Llenyddol Dyffryn Clwyd a'r Cyffiniau', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 1 (1952), t.21.
[48] Ibid., t.26.
[49] G. J. Williams, 'Hanes Ysgolheictod Cymraeg yng Nghyfnod y Dadeni, 1550 - 1700', yn Aneirin Lewis (gol.), *Agweddau ar Hanes Dysg Gymraeg: Detholiad o Ddarlithiau G. J. Williams*, (Caerdydd, 1969), t.37.

> Nys gallaf yma heuyd nas gwnelwyf ailgwynvan ag achwyn yn erbyn y Cymru anvrytaneidd, anwiwnaws, neulltuawl, anvwynion ag anghymmwynascar, a chanthunt hen llyurae Cymraec allasent wneuthur lles y mi ag yw gwlad, ag er hynny nyt hepcorent ddim o honunt, ond eu dyrnguddio, eu murnio a u celcu ... Eithyr yn iach yr Bibliotaphi, y murnwyr a r claddwyr llyurae hyny, am y bont yn wychion ag yn llawen, a duw a ro meddwl gwell ynddunt.[51]

Er gwaethaf yr holl anawsterau y daeth ar eu traws, llwyddodd yn ei ymdrech i weld y mwyafrif o'r llawysgrifau a oedd ar glawr ac mae'n cydnabod ei ddyled i'r:

> bonheddigion a r cyphredin y cefeis yn ddiomedd venthyc eu llyurae ...[52]

Ffactor arall sy'n sicr o fod wedi dylanwadu'n drwm ar ddatblygiad Thomas Wiliems fel dyneiddiwr ac ysgolhaig oedd y cysylltiad rhyngddo a theulu Gwedir, sef un o deuluoedd uchelwrol pwysicaf Gogledd Cymru. 'Roedd cysylltiad teuluol rhwng Thomas Wiliems a Syr John Wynn oherwydd 'roedd y ddau yn perthyn i Faredydd ab Ifan. Ŵyr i un o feibion Maredydd ab Ifan oedd Syr John Wynn ac wŷr i'w ferch anghyfreithlon oedd Thomas Wiliems. Tybir i Wiliems ddechrau ei yrfa addysg ym mhlas Gwedir[53] a chyfaddefodd fod arno ddyled i'r teulu yn rhagymadrodd ei eiriadur:

> yn enwedic M. Mauric Wynn Escwier ... o r plas yngwedir, y cefeis yn gyntaf oll vwyniant eu [sic] lyurae, a'i vap Syr John Wynn marchoc vrddolwaisc.[54]

Ni wyddys i sicrwydd pa bryd y dechreuodd Thomas Wiliems ar yr orchwyl o lunio geiriadur, ond gwyddys iddo orffen y gwaith ym 1607.[55] Mae'r ansicrwydd hwn yn

---

[50] Gerallt Harries, op. cit., t.259.

[51] Thomas Wiliems, 'Trysawr yr iaith Latin a r Gymraec, ne'r Geiriadur cywoethocaf a helaethaf or wir ddiletiaith Vrytanaec ... wedy dechreu i scriuenu 4 Maii 1604', yn Garfield H. Hughes (gol.), op. cit., tt.113-114.

[52] Ibid., t.114.

[53] J. E. Caerwyn Williams, op. cit., t.285.

[54] Thomas Wiliems, op. cit., t.114.

deillio o'r ffaith bod cofnodion Thomas Wiliems ei hun am yr amser a gymerodd i gwblhau'r gwaith yn amrywio. Dywed yn yr anerchiad Cymraeg i ddarllenwyr y geiriadur, ei fod wedi treulio:

> ... er ys mwy na deg mlynedd ar hugein, ag yn wastatol er hyny hyd yr awr honn ...[56]

eithr ym 1620 ysgrifennodd lythyr ar Syr John Wynn yn honni:

> ... for the Latine and Cambrian Dictionarie, wch with great laboure and travayle, as God knoweth, I have congested and digested these fiftie years ...[57]

Beth bynnag am hyn, wedi iddo gasglu'r holl ddeunyddiau, honnodd iddo dreulio pedair blynedd yn ysgrifennu'r geiriadur Lladin-Cymraeg,[58] gan roi i'r gwaith y teitl: *Trysawr yr iaith Latin a r Gymraec, ne'r Geiriadur cywoethocaf a helaethaf or wir ddiletiaith Vrytanaec ... wedy dechreu i scrifenu 4 Maii 1604.*

Rhagdybiodd Wiliems mai boneddigion ac ysgolheigion fyddai'n manteisio fwyaf o gael geiriadur Lladin-Cymraeg. Mae'r anerchiad wedi ei anelu:

> At hybarch Arglwyddi, pendeuigion, y Bonheddigion vrddasol yr Scolheigion ethrylythus, a r hygar gyphredin yn holl Gymru Benbaladr, annerchion a hyrwydd lwyddiant ynghrist Jesu.[59]

Dywed ei fod yn falch o'i eiriadur a disgrifia ef fel:

> ... y Trysawr ni bu 'rioet ei gyphelyp ynghymru o r blaen ...[60]

Yn yr anerchiad i'r darllenydd, noda Thomas Wiliems rai o'i fwriadau wrth lunio geiriadur. Sicrhau parhad "iaith naturiawl vy mam" oedd ei brif nod a thrwy hynny ei sefydlu fel iaith dysg:

> Canys nyd yw'n anwybot y neb a synhwyr yn ei benn mor anhepcor, mor gyfreidiol a gwerthuawr yw'r swllt a r anwyldlws yma, nys gellir ei gyngwerthyddio, yr trebelyt areithwyr, i'r precethwyr huawdlion, ag y

---

[55] 1608 yw'r dyddiad a roddir ar ôl y teitl ar yr wyneb-ddalen. Cyn yr 'Appendix vocabulorum' yn y drydedd gyfrol ceir 'FINIS. Soli deo honor et Gloria. 8. Octobris, 1606', ond 'Mini 2. Octobris 1607. Deo Gratias' a welir ar ôl yr 'Errata'.

[56] Thomas Wiliems, op. cit., t.111.

[57] *Wynn Papers* 914, *The Cambrian Register*, i (1795), t.159.

[58] Thomas Wiliems, op. cit., t.113. Dywed: '... er ys pedeir blynedd yn scriuennu heb na thorh na thrai, hyt onys gorphenais yn berfeithgwbl ... '.

[59] Ibid., t.111.

[60] Ibid.

> gyfieithwyr tradoethion pob celfyddyt arbenic o r gywoethoc Latiniaith yr geindec Gymraec einom.[61]

Dywed hefyd bod geiriadur yn llyfr angenrheidiol wrth astudio hen lenyddiaeth:

> Nys gallwn hepcor heniaith y Brytanieit o r cynvyt o herwydd ei bot yn dra angenrheitiol er mwyn deuallu'r hen lyurae Chronic ag ereill hen awdurieit, yr hen veirdd a r prydyddion dyscedic, scriuenedic yn y rhestr o'u henweu'n nechreu'r llyuer hwn.[62]

Yn ystod cyfnod Thomas Wiliems, 'roedd y Dadeni Dysg, y diwygiad Protestannaidd a'r Gwrth-Ddiwygiad Pabyddol yn cydredeg â'i gilydd ym Mhrydain. Fel Dyneiddiwr, ystyriai Wiliems ei weithgarwch llenyddol yn rhywbeth a fyddai'n rhoi bri ar y Gymraeg ac a fyddai, drwy hynny, yn dwyn clod i'r genedl Gymreig. I Thomas Wiliems, y Pabydd, 'roedd cyfansoddi geiriadur hefyd yn weithgaredd er mawl a gogoniant i Dduw. Dywedodd J. E. Caerwyn Williams:

> ... yr oedd yn grefyddol, ac at hynny'n wladgarol, yn ogymaint â'i fod wedi ei symbylu i fawrhau iaith a llên y wlad, fel y byddai i drigolion y wlad hefyd eu mawrhau a theimlo eu bod hwy eu hunain yn cael eu mawrhau fel etifeddion etifeddiaeth mor deg.[63]

Mae Llawysgrif Hafod 26 yn ymrannu'n ddwy. Rhan gyntaf y llawysgrif sydd yn berthnasol i ni oherwydd mai geirfa yn nhrefn yr wyddor neu eiriadur, yn llaw Thomas Wiliems, yw ei chynnwys. Geirfa William Llŷn yw rhan ohoni, ond nid hynny'n unig a geir. Ceir ynddi ychwanegiadau Thomas Wiliems ei hun. Ar ddiwedd y llawysgrif dywed:

> *Ac val hynn y tervyna hyn o Athrolythr William Lleyn, gwedy angwanegû o eiriæ lawer, a chorectiat Mr. William Salesbury* | A thalm nid bychan a gesgleis innau | *1574: 17 Februarij.*[64]

Gan ei fod wedi cofnodi cymaint o eiriau yn Hafod 26, credir nad cyfansoddi geiriadur Lladin-Cymraeg oedd bwriad gwreiddiol Thomas Wiliems, ond yn hytrach, llunio geiriadur Cymraeg-Cymraeg.[65] Serch hynny, nid ymgymerodd â'r dasg hon. Mae'n bosib ei fod wedi rhoi'r gorau iddi ar ôl sylweddoli bod y cynllun a oedd ganddo yn rhy uchelgeisiol. Galwodd J. Gwenogvryn Evans Lawysgrif Peniarth

---

61 Ibid., t.112.
62 Ibid., t.113.
63 J. E. Caerwyn Williams, op. cit., t.198.
64 Hafod 26.
65 J. E. Caerwyn Williams, op. cit., t.308.

188, yn 'Sir Thomas Wiliems's Common Place Book or Dictionary-in-the-Making' a nododd nad oedd trefn neu fframwaith yn perthyn i'r gwaith hwnnw:

> ... the MS. is made up of materials for a Welsh Dictionary, consisting of vocabularies, glosses, a very considerable number of illustrative quotations from the poets, the Welsh laws, the prose Romances, etc. – the whole having no apparent system of arrangement.[66]

Mae'n rhaid mai'r diffyg trefn hwn a'r diffyg patrwm addas i seilio geiriadur Cymraeg-Cymraeg arno a barodd i Thomas Wiliems ailfeddwl a newid ei gynlluniau. Penderfynodd felly mai Lladin-Cymraeg fyddai iaith ei eiriadur. Gallai gyflwyno'r Gymraeg i ysgolheigion eraill a dangos ei hurddas a'i hynafiaeth drwy gyfrwng y Lladin, y *lingua franca*.

Ar dudalen deitl ei eiriadur, noda Thomas Wiliems ei brif ffynonellau:

> Ex Ambrosio Calepino potissimum, Lexico Græco Thomasio Legato & alijs, doctiss. Hadrian. Junio et etiam alijs.

Geiriadurwr o'r Eidal oedd Ambrosius Calepinus.[67] Ysgrifennodd eiriadur Lladin-Lladin, *Ambrosii Calepini Dictionarium Decem Linguarum*, ond cyfoethogodd yr esboniadau a oedd ganddo drwy dynnu ar ei wybodaeth a dyfynnu o ddeg iaith arall. Meddyg yn Haarlem, Copenhagen a Delft oedd Hadrianus Junius a bu'n gweithio ar eiriadur Groeg-Lladin.[68] Cyfeirir at eiriadur Lladin-Saesneg Thomas Thomas, a oedd yn seiliedig ar eiriadur Calepinus, sef *Dictionarium Linguae Latinae et Anglicanae*.[69] Mae Legato yn cyfeirio at John Legate, sef y gŵr a gyhoeddodd eiriadur Thomas Thomas. Ar ddiwedd ail gyfrol y llawysgrif, mae gan Thomas Wiliems dudalen o 'Errata Thomasij' sef rhestr o wallau geiriadur Thomas Thomas. Ar ddiwedd y drydedd gyfrol mae ganddo atodiad hir o eiriau nas ceir yng ngeiriadur Ambrosius Calepinus. Fe'u cododd o eiriaduron eraill, gan gynnwys geiriadur Thomas Thomas, a chyfieithodd y diffiniadau i'r Gymraeg.

---

[66] *Report on Manuscripts in the Welsh language* ..., op. cit., Cyf., I, Rhan 3. 1015.

[67] 'Roedd Ambrosius Calepinus hefyd yn adnabyddus fel Ambrosio Calepino. Ganwyd ef tua 1440 a bu farw ym 1510 neu 1511. Defnyddiodd Thomas Elyot, Thomas Cooper a Thomas Thomas ei eiriadur fel ffynhonnell i'w geiriaduron hwythau.

[68] 'Roedd Hadrianus Junius hefyd yn adnabyddus fel Adriaan de Jonghe (1511 - 1575). Credir iddo gyhoeddi ei *Lexikon graeco - latinum* ym 1548 ac ym 1567 cyhoeddodd ei *Nomenclator : omnium rerum propria nomina*.

Pan aeth Thomas Wiliems ati i lunio'i eiriadur ef, defnyddiodd *Dictionarium Linguae Latinae et Anglicanae* Thomas Thomas fel patrwm.[70] Dibynnodd yn drwm arno wrth fathu a cheisio cael hyd i gyfystyron Cymraeg i restrau geiriau Lladin Thomas Thomas. Dywedodd E. D. Jones:

> In the execution of his self-imposed task Thomas ap William seems to have relied more on Thomas Thomas than one would have gathered from the cursory mention of him on the title-page. A considerable proportion of the Welsh definitions are literal translations of the English of Thomas Thomas ...[71]

Cadarnhaodd E. D. Jones hyn drwy ddyfynnu o'r geiriaduron gwahanol i ddangos i ba raddau y cynhwysodd Thomas Wiliems gyfieithiadau gair am air o waith Thomas.[72] Er enghraifft:

| THOMAS THOMAS (Caergrawnt, 1596) 5ed arg. | THOMAS WILIEMS (Peniarth 228) |
|---|---|
| Abanec, a girdle which Priestes did weare, so wrought with colours of skarlet and purple that there seemed to be set in it flowres & pretious stones. | Abanec, dictio peregrina, gwregys a wisgent yr offeirieit wedy'r weithiaw a lliwiæ grâ a phorphor, val y tebygyd vod wedy gosot ynghaw vlodeû a main gwerthvawr. |
| Abra, -æ, f.g. græ. A little girle or maid that attendeth on hir mistres, especially in hir chamber, a chamber maid. | Abra, -æ, f.g. vox græca. Llances, neu herlodes vechan yn gwasanaethu ac yn dysgwyl ei meistres yn enwedic yn ei stavell. |
| Academia, -æ, f.g. gr. An universitie, which tooke that name in a place in Athens where Plato taught: also any great or noble schoole. | Academia, -æ, Prif ysgol, mam-ysgol. Felly y gelwid y lle y dysgai Plato yn Athen. |

Ni ddylid beirniadu Thomas Wiliems yn rhy hallt am efelychu'r hyn a wnaeth Thomas Thomas a gwneud defnydd o'i eirfa. Wedi'r cyfan, onid oedd Thomas Thomas ei hun wedi seilio'i eiriadur ar waith Calepinus, a geiriadurwyr erall yn

---

[69] Efallai y dylai Thomas Wiliems fod wedi rhoi gwahannod rhwng 'Lexico Græco' a 'Thomasio' gan nad oes y fath eiriadur Groeg yn bodoli. Gw. E. D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 6 (Gaeaf, 1950), t.320.

[70] Y chweched argraffiad o waith Thomas Thomas yw'r diweddaraf y gallai Thomas Wiliems fod wedi ei ddefnyddio. Gw. J. E. Caerwyn Williams, op. cit., t.309. Teitl y chweched argraffiad yw 'Thomæ Thomasii Dictionarium summa fide ac diligentia accuratissime emendatum, magnaque insuper rerum scitu dignarum, et vocabulorum accessione, longè auctius locupletiusque redditum ... '.

[71] E. D. Jones, op. cit., t.320.

[72] Ibid., tt.320-321.

Lloegr megis Thomas Cooper a Thomas Elyot?[73] Rhaid cofio hefyd mai dechrau dod i fod yr oedd y syniad o hawlfraint yr adeg hon. Cyn bodolaeth y wasg argraffu, 'roedd y syniad o hawlfraint yn rhywbeth dieithr ac annealladwy bron.[74] Dywedodd Sidney I. Landau:

> The history of English lexicography usually consists of a recital of successive and often successful acts of piracy.[75]

Nid yw hanes geiriaduraeth yng Nghymru yn ddim gwahanol i hanes geiriaduraeth Saesneg nac unrhyw iaith arall ychwaith. Mae elwa ar yr hyn sy'n bodoli eisoes yn nodwedd ar waith pob geiriadurwr. Ond, wedi dweud hyn, nid drwy lên-ladrad y mae cyfansoddi geiriadur da. Rhaid cadw mewn cof mai'r Lladin yn unig oedd gan Thomas Wiliems o'i flaen cyn dechrau cyfansoddi ei eiriadur. Yn sicr, nid tasg hawdd oedd ymgynghori â chynifer o lawysgrifau a ffynonellau ag y gwnaeth, ac yn y pen draw creu geiriadur mor gynhwysfawr.

Bu geirfâu Cymraeg-Cymraeg y beirdd yn arbennig o werthfawr iddo oherwydd eu bod yn cynnwys geiriau y gallai eu defnyddio yn ei eiriadur, ond yn bennaf oll oherwydd eu bod yn dangos enghreifftiau o'r geiriau hynny yn cael eu defnyddio mewn barddoniaeth Gymraeg. Nodwyd eisoed mai arfer cyffredin geiriadurwyr y cyfnod hwn oedd rhestru prifeiriau gan ddyfynnu enghreifftiau ohonynt mewn defnydd yn y clasuron. Drwy ddyfynnu deunydd o'r geirfâu a dangos geiriau mewn cyd-destun o farddoniaeth dilynodd neu efelychodd Thomas Wiliems y patrwm a geid mewn geiriaduron eraill.

Cawn syniad o nifer y llawysgrifau yr ymgynghorodd â hwy wrth edrych ar yr amrywiaeth o gyd-destunau y mae'n eu dyfynnu yn ei eiriadur. Mae'n werth nodi

---

[73] Cyhoeddwyd geiriadur Lladin-Saesneg Syr Thomas Elyot, *The Dictionarie of Syr Thomas Eliot, knight*, ym 1538. Dyma ffynhonnell geiriadur Thomas Cooper - *Thesaurus Linguae Romanae et Britannicae* - a gyhoeddwyd ym 1565. 'Roedd Thomas Thomas wedi defnyddio *Thesaurus* Cooper a *Verborum* y Ffrancwr Gulielmus Morelius fel ffynonellau i'w *Dictionarium Linguae Latinae et Anglicanae*.

[74] Gw. H. J. Chaytor, *From Script to Print: an introduction to medieval vernacular literature* (Caergrawnt, 1945), tt.115-37 a Shelly Angélie-Carter, *Stolen language? Plagiarism in Writing* (Harlow, 2000), t.19.

[75] Sidney I. Landau, 'A Brief History of English Lexicography', *Dictionaries: The Art and Craft of Lexicography* (Caergrawnt, 1984), t.35.

hefyd nad geiriau Lladin yn unig a gynhwysodd, ond geiriau Hebraeg a Groeg. Nodwedd ddiddorol arall sy'n perthyn i gynnwys y geiriadur yw'r eirfa sy'n ymwneud â llysiau. Gan fod Thomas Wiliems yn feddyg, mae'n rhaid ei fod wedi ymddiddori mewn llawysgrifau meddygol, a chan fod llysiau'n elfennau mewn meddygaeth yn ystod y cyfnod hwn, peth naturiol ddigon fyddai i Wiliems feddu ar gryn dipyn o wybodaeth lysieuol.

Er gwaethaf ymdrech a llafur caled Thomas Wiliems, ni chyhoeddwyd ei eiriadur. Ceir bron i wyth gant o dudalennau mewn tair cyfrol swmpus a adwaenir bellach fel 'Peniarth 228'. Beth felly fu hanes y geiriadur ar ôl i Wiliems orffen ei ysgrifennu? A oedd hi'n fwriad ganddo ei gyhoeddi? Ni wyddys yn iawn, ond gellir dod i sawl casgliad wrth drafod cynnwys dwy gyfrol sydd yn gopïau anghyflawn o'r geiriadur, sef 'Brogyntyn 9' a 'Brogyntyn 10'. Copïwyd tri chant tri deg un tudalen o'r saith gant saith deg chwech sydd yn y geiriadur gwreiddiol. Mae Brogyntyn 9 yn cyfateb i gyfrol gyntaf Peniarth 228 ac mae Brogyntyn 10 yn gyfatebol i ddechrau'r ail gyfrol hyd 'Indeclinabilis'. Mae'r Lladin wedi ei hysgrifennu mewn inc coch ac mae'r diffiniadau Cymraeg mewn inc du. Dyfyniadau yw'r darnau sy'n ymddangos mewn inc gwyrdd ac enwau awduron neu deitlau llyfrau sydd mewn inc porffor. Er i'r tudalennau gael eu trefnu mewn dwy golofn, yn union fel Peniarth 228, ni chopïwyd cynnwys y gwreiddiol air am air. Yn Brogyntyn 9 a 10 mae cynnwys yr 'Appendix vocabulorum quæ desiderabantur in Calepino', a oedd gan Thomas Wiliems ar ddiwedd ei eiriadur, wedi eu hymgorffori yn nhrefn yr wyddor.[76]

Pwy gopïodd Peniarth 228 yn y ffordd hon? Cafodd y Dr John Davies rai rhannau o'r geiriadur wedi eu copïo, felly gellid cymryd mai gwaith y copïwyr hynny yw'r ddwy gyfrol. Serch hynny, dangosodd E. D. Jones nad oedd a wnelai John Davies unrhyw beth â Brogyntyn 9 a 10 gan honni hefyd:

> ...neither Dr John Davies nor Sir John Wynn of Gwydir knew of the existence of this which had broken the back of the task which confronted them.[77]

---

[76] Nid ymgorfforwyd cynnwys yr Atodiad tua diwedd Brogyntyn 10. Gadawyd rhai dyfyniadau allan hefyd, ond gwelir bylchau lle y dylent fod.
[77] E. D. Jones, op. cit., t.324.

Ar waelod y dudalen rwymo ysgrifennwyd:

A vynno duw derfyd. 1607.
prætij 9[s]
Jo: Edwards

ac oddi tano gwelir yr enw Anne neu Annes Clay. Credir mai dyma'r ddau a fu'n gyfrifol am y copïo.[78] Credir mai John Edwards, Y Plas Newydd, Y Waun, yw'r "Jo: Edwards" hwn. Pabydd ydoedd, fel Thomas Wiliems. Ymddiddorai mewn geiriaduraeth[79] a'r iaith Ladin[80] ac ystyrid ef yn un o geidwaid yr iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn. Nid oes ryfedd felly i John Edwards a Thomas Wiliems fod yn gyfeillion. Yn ei ragymadrodd i'r geiriadur, enwodd Thomas Wiliems ei gyfaill fel un o'r cymwynaswyr.[81] Ym 1607, prynodd John Edwards bapur fel y gallai wneud copi o eiriadur Wiliems a'i helpu i'w gyhoeddi. Ni wyddys a oedd yn bwriadu ei gyhoeddi ar ei gost ef ei hun ai peidio, ond wedi iddo gael ei gosbi am reciwsantiaeth ym 1613 ac wedi i ddwy ran o dair o'i ystad gael eu cymryd oddi arno, mae'n rhaid bod gobeithion Thomas Wiliems am gael cymorth oddi wrth Edwards i gyhoeddi'r geiriadur wedi pylu. O hyn ymlaen, ymddengys eu bod wedi rhoi'r gorau i'r copïo. Pe bai hyn yn wir, gellir dod i'r casgliad mai rhwng 1608 ac 1613 y cafodd Brogyntyn 9 a 10 eu creu. Ym 1615, bu'r ddau'n ystyried cyhoeddi crynodeb o'r geiriadur.[82] 'Roedd gŵr o Dde Cymru – gwestai a oedd yn aros gydag un ohonynt – eisoes wedi ymgymryd â'r dasg hon, ond 'roedd yn rhy araf wrth fodd Thomas Wiliems, felly anogodd ef John Edwards i ddechrau ar y gwaith o lunio'r crynodeb. Hyd yn oed os oedd Edwards wedi gwneud, ni chadwyd copi o'i waith. Rhoddwyd terfyn unwaith ac am byth ar y gobaith am gymorth oddi wrtho o 1619 ymlaen oherwydd carcharwyd Edwards yng ngharchar Marshalsea ym 1625.[83]

---

[78] Ibid., t.325. Efallai fod gŵr o'r enw Hughe Jones wedi eu cynorthwyo hefyd.
[79] Gwelir nodiadau amrywiol ar eirfâu a gramadeg o eiddio John Edwards yn LLGC 3561, ff. 1b.
[80] Ysgrifennai John Edwards a Thomas Wiliems at ei gilydd yn y Gymraeg a'r Lladin.
[81] Thomas Wiliems, op. cit., t.114. Enwir '... M. John Edwards o r Wavn gwir ymgeleddwr yr iaith Gymraec ...'.
[82] LLGC 3561.
[83] J. Y. W. Lloyd, *The History of the princes, the lords marcher, and the ancient nobility of Powys Fadog, and the ancient lords of Arwystli, Cedewen and Meirionydd* (Llundain, 1881-1887) Cyfrol 5, t.55.

Nodwyd eisoes bod cysylltiad teuluol rhwng Thomas Wiliems a Syr John Wynn. Mae'n rhaid bod Wiliems wedi troi at ei berthynas am help, rywbryd wedi 1619, gan ddweud wrtho am ei eiriadur anghyhoeddedig. Ysgrifennodd Syr John Wynn lythyr at Thomas Wiliems ar Hydref 21, 1620, yn sôn am gyhoeddwyr posib:

> I send you Mr. Evans's Lre written by me, whereby you may perceive how your Dictionarie may be printed at thys tyme, either by the means of Doctor Price, or Mr. Evans; for in pte I leave you to the counsell of your own will on that point.[84]

Ceir sôn hefyd yn y llythyr am 'epistle dedicatoire' i Syr John Wynn. Efallai mai bwriad newydd Wiliems oedd cyflwyno'i eiriadur iddo yn y gobaith y câi gymorth ariannol ganddo i'w gyhoeddi. Beth bynnag oedd y trefniant rhyngddynt, edrychai'n debyg y câi'r gwaith ei gyhoeddi ond bu farw Thomas Wiliems cyn i unrhyw gamau pendant gael eu cymryd i'r cyfeiriad hwn.

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

[84] *Wynn Papers* 914, *The Cambrian Register*, cyfrol 1 (1795), tt.159-60.

## (iii)

## John Davies (c.1567 - 1644)

Ar ôl marwolaeth Thomas Wiliems, mae'n rhaid bod ei eiriadur wedi ei drosglwyddo i law Syr John Wynn oblegid ar 13 Awst 1623, ysgrifennodd ef ei enw ar wyneb-ddalen y geiriadur a nododd mai ef oedd perchennog y llawysgrif. Mae'n amlwg bod y barwnig wedi trafod cyhoeddi'r geiriadur gyda Robert Vaughan o'r Hengwrt - hynafiaethydd a chasglwr llawysgrifau adnabyddus - oherwydd rywbryd yn ystod mis Awst 1623, dywedodd Robert Vaughan wrth Dr John Davies, Mallwyd, y gallai gael geiriadur Thomas Wiliems gan Syr John Wynn. Fe'i câi ar dair amod, sef ei fod yn ei gyhoeddi, ei fod yn rhoi'r clod i gyd i Thomas Wiliems a'i fod hefyd yn ei gyflwyno i Syr John Wynn.

Brodor o Lanferres yn Sir Ddinbych oedd John Davies.[85] Cafodd ei eni tua 1567 a derbyniodd beth o'i addysg ramadegol yn Rhuthun gan Richard Parry. Credir hefyd iddo gael ei addysgu gan yr Esgob William Morgan.[86] Ym 1589, pan oedd yn ddwy ar hugain mlwydd oed, aeth i Goleg Iesu, Rhydychen. Yn Rhydychen, datblygodd Dr John Davies yn ŵr dysgedig ac yn ysgolhaig clasurol rhagorol. Yno y daeth yn feistr ar ieithoedd ac yno hefyd y dysgodd am glasuron Groeg a Lladin ac am lyfrau a meddylfryd yr unfed ganrif ar bymtheg. Graddiodd yn B.A. ar 16 Mawrth 1594 ond nid arhosodd yn Rhydychen wedi hynny. Ychydig a wyddys am ei hanes yn ystod y blynyddoedd dilynol, ond gwyddom iddo fynd i Goleg Lincoln ym 1608 lle y graddiodd yn B.D. ac ymhen wyth mlynedd arall cymerodd ei radd D.D. yno.

Credai John Davies, fel y gwnâi dyneiddwyr eraill Cymru, mai'r Gymraeg oedd un o brif ieithoedd y byd. Fe'u hysgogwyd i geisio cyfoethogi a safoni'r iaith drwy

---

[85] Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), op. cit., t.120.

[86] Dywed am William Morgan: "... gan imi gael fy addysgu wrth ei draed ef a oedd fel Gamaliel imi ..." yn John Davies, '*Antiquae Linguae Britannicae ... Dictionarium Duplex* (1632): (ii) Rhagymadrodd', yn Ceri Davies (gol.), op. cit., t.127.

ysgrifennu am orgraff a rhethreg, a chyhoeddi gramadegau a geiriaduron. Ym 1621, cyhoeddwyd Gramadeg John Davies, sef *Antiquae Linguae Britannicae ... Rudimenta*. Yn y rhagair, dywed ei fod wedi treulio dros ddeng mlynedd ar hugain yn ei baratoi. Gramadeg Cymraeg a ysgrifennwyd yn Lladin ydyw ac ystyrir mai dyma oedd "coron y Dadeni yng Nghymru".[87]

Cyn cael y cynnig i olygu'r tair cyfrol o eiddo Thomas Wiliems, 'roedd gan John Davies brofiad personol o lunio gwaith o'r fath. Dywedodd ei hun iddo ddechrau paratoi geiriadur, sef rhan gyntaf y *Dictionarium Duplex*, ym 1593[88] a gwyddys iddo'i orffen ym mis Hydref 1628.[89] Deilliodd y gwaith o'i astudiaethau ar y llawysgrifau y bu'n eu darllen a'u copïo drwy gydol ei oes. Bu Davies yn fwy ffodus nag amryw o ysgolheigion eraill oherwydd erbyn ei ddydd ef, 'roedd y gwaith o grynhoi llawysgrifau ynghyd bron â dod i ben. Lluniasai John Jones, Gellilyfdy a Robert Vaughan o'r Hengwrt restrau o'r llawysgrifau pwysicaf a fodolai yng Nghymru a phan fu farw'r gwŷr hynny a gasglasai'r llawysgrifau yn y lle cyntaf, llwyddodd Robert Vaughan i gael gafael ar y mwyafrif ohonynt. Gan fod John Davies ac yntau yn gyfeillion, medrai Davies dreulio cryn amser yn astudio yn llyfrgell yr Hengwrt. Credir mai paratoi a chasglu deunydd ar gyfer llunio Gramadeg a Geiriadur oedd ei fwriad pennaf oherwydd gwelir ar ei gopïau "farciau ar gyfer geiriau a ffurfiau a chypledau".[90]

Gan fod John Davies yn awyddus ers tro byd i gael golwg ar eiriadur Thomas Wiliems, derbyniodd gynnig Syr John Wynn yn syth ac ysgrifennodd lythyr ato ar 26 Awst 1623, yn dweud y byddai'n barod iawn i dderbyn y geiriadur a barnu a oedd yn addas ar gyfer ei gyhoeddi ai peidio. Dywedodd:

---

87 G. J. Williams, op. cit., t.72.
88 *Wynn Papers* 1530.
89 Ysgrifennodd John Davies lythyr i ddweud hyn wrth Syr Richard Wynn ar Hydref 2, 1628.
90 G. J. Williams, op. cit., t.74.

> Yf it shall please you that I shall see it, I will, God willinge, peruse it in the best manner I can, & if I shall fynde it fitte for the presse, I will acquainte you therewithe, & will bestowe any paines I can for the setting out of it ... And if the author have dedicated it vnto you, his dedication shall stand; if not the printing of it at your cost will be a sufficient dedication; for I knowe you will not expecte I shall be at any charge, beinge verie willing for the Countrey's good, & the authors glorie, & your credite, & an other man's gayne, to bestowe my paines & labour freely.[91]

Er bod John Davies yn swnio'n frwd iawn yn ei lythyr, mae'n werth nodi nad oedd yn barod i ymrwymo i unrhyw beth cyn bwrw golwg iawn dros y gwaith. Mae'r llythyr hwn yn dynodi dechrau'r ohebiaeth a fu rhwng John Davies a Syr John Wynn a'i fab Owen Wynn, wedi marwolaeth ei dad. O'r mis Awst hwnnw tan 1629, trafodaethau ar y geiriadur yw prif gynnwys y llythyron.[92]

Mae ateb y barwnig i lythyr cyntaf John Davies yn tynnu sylw at y ffaith y buasai'n gostus iawn argraffu'r geiriadur. Hyd yn oed cyn ei argraffu buasai'n rhaid ailgopïo'r cyfan oherwydd bod llawysgrifen Thomas Wiliems mor annealladwy. Gan ei fod yn pwysleisio'r agweddau negyddol a oedd ynghlwm wrth ddwyn y geiriadur i'r wasg, cawn yr argraff ei fod yntau'n amharod i ymrwymo, yn enwedig os byddai cefnogi'r fenter yn ei orfodi i dwrio'n ddwfn i'w boced. Ond, er iddo fynegi ei amheuon, 'roedd yn llygad ei le. Ar ôl i John Davies dderbyn y gyfrol gyntaf ym mis Mawrth 1624 ac ar ôl iddo gael golwg frysiog arni, cytunodd â Syr John Wynn. Dywedodd:

> I see it of necessitie be transcribed before any good can be done with it, because the hand is so harde to reade ... If I might be worthie to give advise about it, the wholle booke should be reviewed & made less then it is by a fourthe parte at leaste, & as good as it is or better, & so the charge of the printing would be lesse.[93]

Tybiai Davies na fyddai cost y cyhoeddi'n llai na chwe ugain punt a soniodd hefyd fod ganddo "3 or 4 good writers about me".[94] Ysgrifennodd Syr John Wynn ateb ar

---

[91] *Wynn Papers* 1133.

[92] Er mai Awst 26, 1623 yw dyddiad y llythyr cyntaf a anfonodd John Davies at Syr John Wynn, mae'n amlwg eu bod yn adnabod ei gilydd eisoes. Sonia John Davies am: yo' very many favors vnto me for many yeres paste.

[93] *Wynn Papers* 1202.

[94] Ibid.

20 Ebrill ond nid yw'r llythyr hwn ar glawr heddiw. Mae'n rhaid ei fod wedi dweud wrth Davies am wneud copi gair am air o'r geiriadur oherwydd mewn llythyr a ysgrifennwyd gan Davies ar 15 Mai, 1625, cyfeiria'n ôl at orchymyn a gafodd gan Syr John Wynn:

> Before you wished me to gette it copied verbatim, I had thought, as I writt before, to goe over it by abbreviating & correcting of it. But vnderstanding your pleasure I went no further in that course; & according to your will I gotte some to copie it by partes ...[95]

Camgymeriad mawr ar ran Syr John Wynn oedd dymuno gweld copi gair am air yn cael ei greu. Gwyddai beth oedd maint y geiriadur ac 'roedd wedi cwyno am lawysgrifen aneglur Thomas Wiliems. Mae'n rhaid bod orgraff Wiliems wedi achosi trafferthion hefyd oherwydd defnyddiai arwyddion megis *dh* am *dd* ac *lh* am *ll*. Dechreuodd John Davies ei rybuddio o flaen llaw y byddai'r dasg yn cymryd amser i'w chyflawni. Ar 25 Ebrill 1624, ysgrifennodd:

> I will with God's help see that it be faire written, & bestowe on it as much paper as needs. But you knowe the wryting will require a long tyme ...[96]

ac unwaith eto, ar 13 Mehefin 1624, dywedodd:

> I have received your letter, & for the Dictionarie I pray you doe not thinke it long till it be written; it cannot possiblie be readie afore winter; it will take vp a longer tyme being it is so voluminous & so heard to read.[97]

O edrych ar y sefyllfa fel ag yr oedd hi tua chanol 1624, efallai nad ar y barwnig yr oedd y bai bod pethau'n dechrau mynd o chwith. Efe oedd wedi mynnu bod John Davies yn copïo'r geiriadur yn union fel yr oedd, ond tybed a gafodd ei gamarwain ryw ychydig gan Davies? Dangosai Davies frwdfrydedd cyn dechrau'r dasg wedi'r cyfan ac onid oedd ef wedi dweud bod ganddo "3 or 4 good writers about me", rhai a fyddai'n gallu trafod y cynnwys a chwblhau'r gwaith copïo ynghynt? Erbyn 24 Awst, 'roedd anawsterau'n dechrau dod i'r amlwg. Dyma John Davies yn ysgrifennu llythyr a phledio ar Syr John Wynn i fod yn amyneddgar:

---

95 *Wynn Papers* 1339.
96 *Wynn Papers* 1214.
97 *Wynn Papers* 1229.

> The Welsh Dictionarie you knowe will require a long tyme to write, & a longer tyme then I thought, for the hand is so harde to reade that I canne gette no bodie to write it but I must be at his elbowe. Therefore I must crave your patience a while.[98]

Erbyn mis Mai 1625, 'roedd Davies wedi rhoi stop ar y copïwyr oherwydd bod safon eu gwaith mor anghywir. Anfonodd ddwy ddalen at Syr John Wynn i'w cymharu, sef:

> ... the laste sheete of my owne abbreviatinge of it, & a sheete of the copie you wished to be made, being the best and truest that is written; that you may see bothe.[99]

Nid yw'r ddalen yn dangos cyfaddasiad John Davies wedi goroesi ond mae'r ddalen o waith y copïwyr - sy'n dangos geiriau o 'Qualis' hyd 'Quartarius' - ar glawr heddiw.[100] Copi gwael o'r gwreiddiol yw hi a thybiodd E. D. Jones nad oedd Davies wedi trafferthu ei chymharu â'r gwreiddiol. Dywedodd:

> It is hardly conceivable that he would have allowed such obvious mis-copying to pass through his hands, - unless he was determined to force Sir John to his own point of view.[101]

Os mai dyna oedd ei wir fwriad, fe lwyddodd. Perswadiodd Syr John Wynn i newid ei feddwl a rhoi rhwydd hynt i John Davies gwtogi'r geiriadur:

> ... I iudge yours to be the better, which I wishe you to follow, and to expeditt, o ddvdd i ddvdd fo ayth y forwyn yn wragh, of all things I deteste delay ...[102]

Wedi iddo gael y caniatâd hwn, dywedwyd drachefn wrth y barwnig y byddai'r gwaith yn dal i fynd rhagddo'n araf. Bu Thomas Wiliems wrthi am bedair blynedd yn ysgrifennu'r geiriadur ar ôl casglu'r deunyddiau at ei gilydd. Pe bai'n gweithio ar ddalen y dydd, byddai'n cymryd dwy flynedd i John Davies gwblhau'r gwaith gan fod y geiriadur yn cynnwys tuag wyth gant o dudalennau. Yn ogystal dywedodd:

> ...I must conferre it with other Dictionaries if you will have it well done.[103]

---

98 *Wynn Papers* 1245.
99 *Wynn Papers* 1339.
100 *Wynn Papers* 1059.
101 E. D. Jones, op. cit., t.319.
102 *Wynn Papers* 1359.
103 Ibid. Ysgrifennodd John Davies ei ateb ar y lle gwag a adawyd ar y ddalen.

Bu farw Syr John Wynn ddeunaw mis yn ddiweddarach, ar ddydd Gŵyl Dewi 1627. Yn ystod y cyfnod hwn, ni fu'r ddau yn gohebu â'i gilydd hyd y gwyddys. Ailddechreuodd yr ohebiaeth rhwng Dr Davies a'r teulu ym 1628 pan ysgrifennodd y mab, Owen Wynn, ato. Gofynnodd i John Davies beth oedd hanes y geiriadur bellach a dywedodd fod ei frawd, Syr Richard Wynn, yn fodlon cyfrannu tipyn tuag at y gost o'i gyhoeddi. Yn ei ateb ar 23 Ionawr 1628, dywedodd John Davies ei fod wedi gorffen golygu gwaith Thomas Wiliems "... among other my many businesses". Y peth pwysig i'w nodi yw'r ffaith iddo ddweud mai ym mis Ebrill 1627 yr aeth ati i weithio ar eiriadur Thomas Wiliems, sef mis ar ôl marwolaeth Syr John Wynn. Yn y llythyr hwn hefyd mae'n sôn, am y tro cyntaf yn yr ohebiaeth rhyngddo a theulu Gwedir, am ei eiriadur ef ei hun:

> But my owne Dictionarie wch I beganne since the yere 1593, I doe but beginne to write faire, yet I hope it will be readie by the beginning of sommer ...[104]

Esboniodd mai Lladin-Cymraeg oedd iaith geiriadur Thomas Wiliems ac mai Cymraeg-Lladin oedd iaith ei eiriadur yntau. Gan na fyddai'r ddau waith gyda'i gilydd fawr hwy na chyfrolau gwreiddiol Thomas Wiliems, addawodd fynd ati i geisio cwblhau'r cyfan erbyn canol haf.

Tynnodd Rhiannon F. Roberts sylw at yr anghysonderau sydd rhwng yr hyn a ddywedodd John Davies wrth Syr John Wynn, a'r wybodaeth a roddodd yn ddiweddarach i'w fab.[105] Nododd Roberts mai ar ôl i'r barwnig farw y dechreuodd John Davies ar y gwaith ac mai naw mis yn unig y bu wrthi, er iddo rybuddio y gallai gymryd dwy flynedd o leiaf. Nododd hefyd y cyfeiriad at eiriadur John Davies ei hun a'r ffaith fod ei amcangyfrif o gost yr argraffu yn uwch na'r un gwreiddiol a gynigiodd. Ai'r "other my many businesses" fu'n gyfrifol am hawlio'r sylw tra dylai fod yn gweithio ar y geiriadur? Nage, yn ôl Rhiannon F. Roberts. Yn ei thyb hi, sylweddolasai John Davies – ar ôl i Syr John Wynn farw – y gallai gyhoeddi'r

---

[104] *Wynn Papers* 1530.

[105] Rhiannon F. Roberts, 'Bywyd a gwaith Dr John Davies, Mallwyd'. (Traethawd MA anghyhoeddedig Prifysgol Cymru, Bangor, 1950), t.128.

geiriadur y bu ef yn ei lunio ochr yn ochr â geiriadur Thomas Wiliems. Tybiodd hi hefyd ei fod yn barod i fanteisio ar y cyfle hwn os oedd Syr Richard Wynn yn barod i gyfrannu'n helaeth tuag at gostau argraffu.[106]

Erbyn mis Hydref 1628, 'roedd y geiriadur yn barod,[107] felly'r cam nesaf oedd dewis argraffwr.[108] Nid tasg hawdd oedd cael gafael ar un. Lluniodd Owen Wynn restr o'r argraffwyr mwyaf addas a'i hanfon at John Davies ond gwyddai yntau nad oedd gan bob un o'r rhain yr adnoddau i drafod y geiriadur.[109] Flwyddyn ar ôl cwblhau'r geiriadur, 'roedd John Davies ac Owen Wynn yn dal i chwilio. Treuliai Owen Wynn amser yn Llundain, felly ef fu'n chwilio am argraffwr addas – er i John Davies roi cyfarwyddiadau manwl iddo ar sut y byddai orau mynd ati. Yn y diwedd, argraffwyd y geiriadur - y *Dictionarium Duplex* - gan Robert Young ar gost John Davies ym 1632.[110] Ni wyddys paham mai John Davies dalodd am y gwaith argraffu yn y diwedd. Ar ddiwedd y rhagymadrodd mae'n mynegi ei siomedigaeth pan sonia am y rhai hynny a addawodd ei helpu a'i gynorthwyo'n ariannol ond na chadwasant at eu gair.[111] Tybir bod Davies, o bosib, yn cyfeirio at Owen a Syr Richard Wynn.[112]

Gwelir na chadwodd John Davies at ei addewid gwreiddiol i Syr John Wynn ynglŷn â chyhoeddi'r geiriadur ychwaith. Yn ei lythyr cyntaf ato, dywedodd Davies:

> ... I shall see it printed & ascribe all the glorie to S$^{r}$ Thomas ap William, & dedicate it vnto you.[113]

---

[106] Ibid.

[107] Ysgrifennodd John Davies lythyr i ddweud hyn wrth Syr Richard Wyn ar Hydref 2, 1628. *The Gentleman's Magazine*, (1790), Cyf. LX, Rhan I, t.23. (LLGC5601C yw'r llythyr gwreiddiol.)

[108] Gweler llythyron John Davies at Owen Wynn yn ystod 1629.

[109] Mawrth 19, 1628/9 yw dyddiad y rhestr. Gw. *The Gentleman's Magazine* (1790), Cyf. X, Rhan I, tt.23-4.

[110] John Davies, *Antiquae linguae Britannicae ... et linguae Latinae, dictionarium duplex* (Llundain, 1632).

[111] Rhiannon F. Roberts, 'Bywyd a gwaith Dr John Davies, Mallwyd', op. cit., t.130.

[112] Ibid.

[113] *Wynn Papers* 1133.

ANTIQUÆ
LINGUÆ BRITANNICÆ,
Nunc vulgò dictæ CAMBRO-BRITANNICÆ,
A ſuis CYMRAECAE vel CAMBRICAE,
Ab aliis WALLICÆ,
ET
*LINGUÆ LATINÆ,*
DICTIONARIUM DUPLEX.
PRIUS,
BRITANNICO-LATINUM, Plurimis
venerandæ antiquitatis Britannicæ
monumentis reſperſum.
POSTERIUS,
LATINO-BRITANNICUM.
Acceſſerunt ADAGIA BRITANNICA, & plura &
*emendatiora quàm antehàc edita.*

PSAL. 122. 9.
לְמַעַן בֵּית יְהוָה אֱלֹהֵינוּ אֲבַקְשָׁה טוֹב לָךְ׃

Ecclus 33. 17. & 24. 34.
Κατανόησατε ὅτι οὐκ ἐμοὶ μόνῳ ἐκοπίασα, ἀλλὰ πᾶσι τοῖς ζητοῦσι παιδείαν.

LONDINI,
Impreſſ. in ædibus R. YOUNG, Impenſis JOAN.
DAVIES SS. *Th. D. An. Dom.* 1632.

2. John Davies, *Dictionarium Duplex* ... (1632)

Gan fod Syr John wedi marw bellach, cyflwynwyd yr ail ran, sef talfyriad o waith Wiliems, i Syr Richard Wynn. Serch hynny tynnodd Dr Davies sylw at y ffaith mai ef ei hun dalodd gostau argraffu'r ail ran honno. Cyflwynodd y rhan gyntaf:

> At y Tra Anrhydeddus Arglwydd, Charles, Tywysog Cymru, etc., Unig Fab ac Etifedd yr Areulaf Charles, Brenin Prydain Fawr, Ffrainc ac Iwerddon.[114]

Er iddo gydnabod ei ddyled i Thomas Wiliems yn y rhagymadrodd am ail ran y *Dictionarium Duplex* - "yr adran Ladin-Brytaneg sy'n dilyn"[115] - pwysleisia'r ffaith mai ef ei hun fu'n gyfrifol am ei olygu. Dywed ei fod:

> ... wedi'i lanhau o'r meflau diddiwedd bron yr oedd yn llawn ohonynt; er mwyn iddo fod yn fyw cryno a pherffaith ... a rhoi'r peth yn fyr, wedi gwellhau'r cyfan a ymddangosai fel petai'n galw am law meddyg, y mae'r adran hon wedi cael ei donio drwyddi draw ag wyneb newydd i gymaint graddau nes y gellid yn wir ei hystyried yn rhywbeth gwahanol a newydd.[116]

Go brin y gellir dweud felly iddo briodoli "all the glorie to S^r^ Thomas ap William".[117]

Dywedodd Ceri Davies fod rhagymadrodd John Davies yn tystio:

> ... i ddyfnder ei fyfyrdod, nid yn unig yn y Gymraeg, ond yn holl gynnyrch y dyneiddwyr – eu hastudiaethau clasurol, diwinyddol, ieithyddol a hanesyddol.[118]

ac fe'i disgrifiodd fel un o draethodau dysgedig mwyaf pwysig cyfnod y Dadeni Dysg yng Nghymru. Mynegodd John Davies syniadau tebyg iawn i'w gilydd yn llythyr annerch ei ramadeg ac yn rhagymadrodd ei eiriadur. Ystyriai'r ddau waith hynny'n ffrwyth llafur caled, yn weithiau a fyddai'n gymorth i lenorion a gŵyr eglwysig fel ei gilydd. Ar wyneb-ddalen y geiriadur, ceir dwy adnod sy'n pwysleisio'r farn hon. Adnod o Salm cxxii. 9, yw un ohonynt, sef:

> Er mwyn tŷ'r Arglwydd ein Duw y ceisiaf i ti ddaioni

ac adnod o Eclesiasticus Pennod 33, Adnod 7 yw'r llall:

---

114 John Davies, '*Antiquae Linguae Britannicae ... Dictionarium Duplex* (1632): (ii) Rhagymadrodd', yn Ceri Davies (gol.), op. cit., t.124.
115 Ibid., t.127.
116 Ibid., tt.131-132.
117 *Wynn Papers* 1133.
118 Ceri Davies, op. cit., t.12.

> Ystyriwch nad i mi fy hunan y cymerais y boen, ond i bawb a geisiant ddoethineb.

Credir bod John Davies wedi ysgrifennu'r rhagymadrodd - "Ad Lectorem Præfatio; ubi de Linguæ Britannicæ origine, aliarumque Linguarum ortu & mutatione" - tra 'roedd yn Llundain.[119] Ysgrifennai Iythyron, at Owen Wynn a Syr Richard Wynn, o Fallwyd yn ystod 1629 ond ceir bwlch cymharol fawr yn yr ohebiaeth ar ôl hynny. Y dyddiad ar ddiwedd y Rhagymadrodd yw'r diwrnod olaf o Fai, 1632. Sonia John Davies am y galw a fu am eiriadur Cymraeg ac er i'r galw hwn gael ei ateb pan gyhoeddwyd geiriadur William Salesbury, noda na wnaeth hyn ond:

> ... ychwanegu at awydd dynion ... yn hytrach na'i ddiwallu.[120]

Cydnebydd ei ddyled i'r gwŷr a'i helpodd wrth lunio'r geiriadur a dywed bod pob un o'r rhai y defnyddiodd eu gwaith, heblaw am Henry Salesbury, wedi marw bellach:

> Bu'r gwaith yn gorwedd ac yn eplesu gyda'r rhain am amser mor hir nes i angau, yn llawer rhy fuan, eu cipio ymaith bob un ac eithrio Henry Salesbury.[121]

Ceir hefyd gyfeiriad at un o'r rhai a fu'n gyfrifol am addysgu John Davies, un a'i hysbrydolodd i garu'r Gymraeg yn angerddol, sef yr Esgob William Morgan. Mae enwi'r clerigwr a'r ysgolhaig Henri Perri ymhlith rhestr John Davies, yn ogystal â William Salesbury, Dr David Powel(l) a Dr Siôn Dafydd Rhys.[122]

Ar ôl i gryn amser fynd heibio, daeth dwy ran y geiriadur at ei gilydd fel "efeilliaid", meddai, yn barod i'w cyhoeddi. Cyfrol "fwyaf defnyddiol a chwbl angenrheidiol" ydyw:

> Oblegid dim ond trwy adnabod geiriau yr ymegyr y llwybr tuag at wybodaeth iawn o bethau...[123]

---

[119] Rhiannon F. Roberts, 'Y Dr John Davies o Fallwyd', *Llên Cymru*, 2 (Gorffennaf, 1952), t.98.
[120] John Davies, op. cit., t.127.
[121] Ibid.
[122] Ibid.
[123] Ibid. t.128.

Â John Davies yn ei flaen i ddisgrifio'r dasg anodd yr ymgymerodd â hi wrth gyfansoddi geiriadur: darllen, copïo a chrynhoi deunyddiau ynghyd oedd y gwaith mwyaf. Bu:

> ... mewn llafur ddydd a nos, i ddarganfod y fath gruglwyth enfawr o eiriau a'u crynhoi ynghyd, eu copïo a'u casglu at ei gilydd, eu lleoli yn eu mannau a'u trefn briodol, eu hysgrifennu allan dair neu bedair gwaith, eu cymhennu a'u cywiro yr yn faint o weithiau, yn olaf eu crafu'n lân yr un mor aml, a'r un mor aml hefyd agor y llyfrau y cymerid geiriau ohonynt ac y pysgotid ynddynt am eu hystyron cywir a phriodol ...[124]

Treuliodd gymaint o amser wrth y gwaith fel y penderfynodd beidio ag ymgynghori ag eraill. Buasai hynny'n rhy drafferthus ac nid oedd yn barod i wastraffu amser yn gwneud nifer o gopïau ychwanegol o'i waith i eraill gael eu gweld.

Oddeutu 10,500 prifair sydd yn rhan gyntaf y geiriadur, sef yr ochr Gymraeg-Lladin a thua 24,000 sydd yn y rhan Lladin-Cymraeg. Mae'r cynnwys yn cael ei ddisgrifio'n eithaf manwl yn y rhagymadrodd a cheir cofnod hefyd o'r newidiadau a'r ychwanegiadau a wnaeth i lawysgrif Thomas Wiliems cyn ei chynnwys yn yr ail ran. Dywed ei fod wedi cael gwared â'r "meflau diddiwedd"[125] ac 'roedd "wedi'i buro o eiriau tramor ac anghynefin".[126]

Nid copïo'r gwaith gwreiddiol air am air a wnaeth John Davies. Ped eid ati i gymharu llawysgrif wreiddiol Thomas Wiliems â chynnwys ail ran y *Dictionarium Duplex*, gwelid bod Davies wedi crynhoi a golygu cryn dipyn. Wrth ddisgrifio'r gwaith golygu a wnaeth ef, dywedodd Rhiannon F. Roberts:

> Mewn gair, rhoddwyd trefn ar bopeth a edrychai fel pe bai'n gofyn am law'r meddyg, a chynysgaeddwyd y gwaith drwyddo draw â gwedd newydd i'r fath raddau fel y gellir meddwl amdano fel peth gwahanol a newydd.[127]

---

[124] Ibid. t.130.
[125] Ibid. t.131.
[126] Ibid. t.132.
[127] Rhiannon F. Roberts, op. cit., t.133.

Ychwanegodd lawer o ystyron Cymraeg ar gyfer geiriau Lladin Thomas Wiliems. Yr hyn a wnaeth gan amlaf oedd dewis yr ystyron mwyaf addas a oedd gan Wiliems, dileu'r gweddill ac ychwanegu un neu ddau air newydd ei hun. Dyfynnodd Roberts enghreifftiau i ddangos sut y llwyddodd i gywiro a chrynhoi rhai o esboniadau Wiliems a sut yr aeth ati i dacluso'r mynegiant a diwygio'r orgraff yn ogystal, er enghraifft:

| THOMAS WILIEMS (Peniarth 228) | *DICTIONARIUM DUPLEX* |
|---|---|
| Extispex, icis, ab Exta et Specio, dewin wrth edrych ymyscaroedh aniveilieit, y wybot wrthvnt wy dhygwydh petheû y dhyvot rhaglhaw | Extispex, icis, Ymysgar-ddewin, dewin a ddewinio wrth edrych ymysgaroedd anifeiliaid. |

Gadawodd Davies lawer o eiriau Hebraeg a Groeg allan gan ddileu cryn dipyn o darddeiriau, geiriau cyfansawdd, rhangymeriadau ac adferfau hefyd, er enghraifft:

| THOMAS WILIEMS (Peniarth 228) | *DICTIONARIUM DUPLEX* |
|---|---|
| Abditum. ti. n. g. Horatius, dyeithrfa, dirgelfa, lhoches, Cûdhfa. | Abditum, i, Dirgelfa, lloches, cuddfa. |
| Abdo, is, didi. tum. dere. Cudhio, dirgelû. | Abdo, ere, Cuddio, dirgelu. |

Nododd Roberts un peth arall a wnaeth John Davies, rhywbeth na chrybwyllwyd mohono yn y rhagymadrodd, sef ei fod wedi cael gwared â nifer o'r dyfyniadau a oedd gan Thomas Wiliems yn ei waith gwreiddiol.

Cyfeddyf Davies yn y rhagymadrodd na chynhwysodd lawer o hen eiriau yn ei ran Gymraeg-Lladin ef oherwydd eu bod wedi mynd yn angof. Serch hynny, gofalodd fod y rhan honno'n cynnwys mwy o gyfansoddeiriau nag ochr Thomas Wiliems er mwyn dangos sut y gellid llunio geiriau eraill trwy ddilyn yr un patrwm. Dywed Davies iddo ddefnyddio hen eiriadur Llydaweg a gyhoeddwyd ym 1521 wrth lunio'r rhan Gymraeg-Lladin. Cododd nifer o eiriau ohono er mwyn dangos y berthynas rhwng y Gymraeg a'r Llydaweg. Pan ddeuai ar draws gair a oedd, yn ei dyb ef, yn tarddu o ieithoedd y Dwyrain - Hebraeg, Caldaeg, Syrieg, Arabeg a Groeg er enghraifft - nodai hynny wrth eu hochr. Defnyddiodd y symbol † i ddynodi diarhebion Cymraeg a gosodwyd seren - * - o flaen pob hen air Cymraeg. Pwrpas

yr arwydd *Ll.* oedd dynodi'r eirfa honno o hen eiriau Cymraeg y cyfeirir ati o dan enw William Llŷn, ond sydd yn hŷn o lawer na'i gyfnod ef.[128] Mae'n bosib bod John Davies wedi ymgynghori â geirfâu eraill mewn llawysgrif oherwydd bob hyn a hyn yng nghorff y *Dictionarium Duplex*, fe welir G.T., D.P., H.P., a I.D.R., sef Gwilym Tew, David Powel(l), Henri Perri a Siôn Dafydd Rhys. Dyma brawf, felly, ei fod wedi gweld geirfâu neu lawysgrifau'r gwŷr hyn a'i fod wedi gwneud defnydd ohonynt.[129] Credir bod llawysgrif Peniarth 110 o farddoniaeth Tudur Aled ym meddiant John Davies ar un adeg oherwydd lluniodd fynegai ohoni yn hytrach na'i chopïo. Ar ymyl y tudalennau gwelir marciau'n dynodi pa ddyfyniadau a gynhwyswyd yn y *Dictionarium Duplex*.[130] Tybir hefyd ei fod wedi gweld Llawysgrif Peniarth 14, Peniarth 20 a Pheniarth 5, sef Llyfr Gwyn Rhydderch.

Mynegir yr un math o syniadau am hen eiriau yn rhagymadrodd y *Dictionarium Duplex* ag a wneir yn rhagymadrodd Thomas Wiliems yn Peniarth 228. Soniais eisoes mai un o'i fwriadau ef oedd hyrwyddo ysgolheictod Cymraeg drwy lunio geiriadur a fyddai'n cynorthwyo pobl i ddarllen yr hen lenyddiaeth. Dywed John Davies hefyd ei fod wedi cynnwys hen eiriau:

> ... oblegid, heb eu deall hwy, ni ellir deall yr hyn a ysgrifennwyd gan yr hen awduron, a hefyd oblegid na fyddai neb am weld hepgor geiriau mwyaf hynod ac arwyddocaol yr hen awduron ...[131]

Cyflwynir dadl graff i ni ar bwnc defnyddio a chynnwys hen eiriau mewn geiriaduron. Er nad yw Davies o'r farn y dylid defnyddio na derbyn gair anghyffredin yn anystyriol, cred mai defnyddio'r eirfa a fodolai eisoes fyddai orau:

> Doethach o lawer yw defnyddio'r rhain, yn hytrach na llunio rhai eraill o'n pen a'n pastwn ein hunain ...[132]

Tueddai rhai i wrthwynebu'r defnydd o hen eiriau. Credent mai'r beirdd eu hunain a'u bathodd ac na ddefnyddiwyd hwy gan feirdd hŷn. Cwynid hefyd na allai'r

---

[128] Mae'n bosib iawn bod Ll. yn cyfeirio at Lsgr. Peniarth 230. Gw. Rhiannon F. Roberts, op. cit., t.141.

[129] Nododd Rhiannon F. Roberts rai o'r geirfâu a'r llawysgrifau y gallai John Davies fod wedi eu meddu neu eu gweld, gan sôn hefyd am Peniarth 228B, sef rhestr o eiriau Cymraeg yn ei law ef ei hun. Gw. Rhiannon F. Roberts, op.cit., tt.143-145.

[130] *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, op. cit., Cyfrol 1, Rhan II, t.660.

[131] John Davies, op. cit., t.133.

beirdd, heb sôn am ŵyr bonheddig a phobl gyffredin, ddeall geiriau hynafol. Nid yw John Davies yn mentro honni y gallai pob Cymro ddeall geirfa'r beirdd ond mae'n barod i haeru bod eu hystyron yn hollol ddealladwy i'r beirdd ac mai eu swydd hwy oedd eu harfer er mwyn gwarchod yr heniaith. 'Roedd y ffaith fod y beirdd i gyd yn nodi'r un ystyron i'r hen eiriau, meddai, yn profi ei bwynt ac â yn ei flaen i esbonio paham bod llawer o eiriau anarferedig yn yr iaith.

Prif bwrpas Davies yn y rhagymadrodd oedd olrhain dechreuad a datblygiad y Gymraeg a hefyd "dwf a chyfnewidiad ieithoedd eraill". Mae'r rhagymadrodd yn ddrych o feddylfryd yr oes, ond yng ngoleuni darganfyddiadau diweddarch am ddatblygiad ieithoedd, mae rhan helaeth o'r drafodaeth wedi colli ei gwerth. Gyda dyfodiad y wasg argraffu, daeth hi'n fwyfwy posib astudio'n fanwl berthynas geiriau unigol a'r berthynas rhwng un iaith a'r llall, eithr ni lwyddwyd i ddatblygu syniadau cywir am gyfres o ieithoedd yn tarddu o un iaith a fodolai eisoes. Yn ystod yr unfed a'r ail ganrif ar bymtheg ceisiwyd profi mai'r Hebraeg oedd y famiaith wreiddiol ond bu'n rhaid aros tan y ddeunawfed ganrif cyn i bethau newid a chyn i ysgolheigion ddechrau astudio perthynas ieithoedd â'i gilydd.

Llyncodd John Davies lawer o ragdybion ei oes ynglŷn â tharddiadau iaith a dangoswyd bod dylanwad Edward Brerewood,[133] J. J. Scaliger[134] a Franciscus Junius[135] arno.[136] Credai Davies fod y Gymraeg yn gwbl wahanol i unrhyw iaith Ewropeaidd arall ac oherwydd hynny honnai na allai fod wedi tarddu o'r un ohonynt. Trodd ei olygon yn ôl at Fabel ac yno y tybiai fod ei gwreiddiau. Mae'n mentro honni bod y Gymraeg naill ai'n un o ieithoedd gwreiddiol Asia neu ei bod yn disgyn yn uniongyrchol o un o'r ieithoedd hynny. 'Roedd 'y Frytaneg' dipyn tebycach i'r ieithoedd Dwyreiniol a'r Hebraeg nag ydoedd i'r Lladin a'r Groeg. Yn ei dyb ef,

---

[132] Ibid. t.134.

[133] Edward Brerewood, *Enquiries Touching the Diversity of Language and Religions through the Chiefe Parts of the World* (Llundain, 1614).

[134] J. J. Scaliger, *Diatriba de Europaeorum Linguis* (Paris, 1610).

[135] Franciscus Junius, *Grammatica Hebreae Linguae* (Frankfurt, 1580).

[136] Gw. Caryl Davies, *Adfeilion Babel: Agweddau ar Syniadaeth Ieithyddol y Ddeunawfed Ganrif* (Caerdydd, 2000), tt. 16-18.

'roedd y rhai a fynnai fod gwreiddiau'r Frytaneg yn deillio o'r Lladin yn seilio'u dadleuon ar sylfeini sigledig a chredai y gellid eu gwrthbrofi'n hawdd.

Ar ddiwedd y rhagymadrodd mae John Davies yn cwyno bod:

> nifer o bobl wedi addo fy nghynorthwyo wrth imi ymdrechu gyda'r gwaith hwn – rhai ar yr ochr ysgolheigaidd, eraill ar yr ochr ariannol – ond mai ychydig iawn ohonynt a gadwodd at eu haddewid. Am y rheini a addawodd roi help ariannol gyda chyhoeddi'r gwaith, hwy eu hunain yn unig sy'n gwybod eu rheswm dros beidio â gwneud hynny.[137]

Tybiai fod gwŷr wedi ymatal rhag rhannu eu dysg a'u gwybodaeth gydag ef oherwydd eu bod yn dymuno canfod beiau yn y gwaith a'u bod am ei wawdio a'i feirniadu ef. Dywed ei fod yn fwy ymwybodol nag unrhyw un arall o'i wendidau ei hun a'r beiau yn y geiriadur ond ar yr un pryd pwysleisia mai troedio llwybr newydd a wnaeth ac nad gorchwyl hawdd oedd honno:

> Plediaf am faddeuant gyda hyn o gyfiawnder ar fy ochr, – i ddechrau, am fod neb sydd yn cerdded yn gyntaf yn y tywyllwch, heb unrhyw oleuni o'i flaen, ac yn troedio'n gyntaf hyd leoedd anhygyrch, heb unrhyw dywysydd, yn taro'i droed yn hawdd ac yn llithro ar ddisberod ...[138]

Ar ddiwedd y geiriadur, ceir rhestr o ffynonellau John Davies. Cyfaddefodd iddo ddarllen cymaint ag y gallai o weithiau ysgrifenwyr Cymreig, yn enwedig y beirdd:

> Oblegid, er mwyn i'r llafurwaith hwn fod yn fwy cyflawn, fe ddarllenais i bron y cyfan a ysgrifennwyd yn y Frytaneg, yn arbennig waith y beirdd.[139]

Mae'n dyfynnu enghreifftiau o waith y Cynfeirdd,[140] y Gogynfeirdd, a'r Cywyddwyr. At hyn, cynhwysodd ddiarhebion Cymraeg, cododd enghreifftiau o Lyfr Llandaf, y Brutiau, y Chwedlau, y Cyfreithiau a Bucheddau'r Saint ac mae'n cyfeirio'n gyson at

---

137 John Davies, op. cit., t.153.
138 Ibid. t.155.
139 Ibid., t.130.
140 Yn ail ran Llawysgrif Peniarth 229B ceir rhestr foel o eiriau yn llaw John Davies. Tybir iddo eu codi o LLB. Ych. 14869, sef ei gopi ef o Lawysgrif Hendregadredd. Gw. Rhiannon F. Roberts, op. cit. t.145.

Destament Newydd William Salesbury. Nododd Rhiannon F. Roberts pa mor wyddonol oedd dull John Davies o weithio. Cyflwyna i ni ystyr gair fel y'i diffiniwyd gan rywun arall yn gyntaf, yna cynigia welliant ar yr esboniad hwnnw, gan ddyfynnu brawddeg neu ddihareb i ddangos y gair mewn cyd-destun. Dyma un enghraifft:

*Ffaw, est Arglwydd, ait Ll. Sed fallitur. Est potiùs Honor, decus. Gŵr a obryn ffaw ffo vn droedfedd. Ll. Gwr. Gwyr ni obrynynt ffaw er ffug. Tal. Canys Rhydderch biau ffaw, a chymru oll y danaw. Merdd.

Mae'n werth nodi wrth fynd heibio bod llawysgrif Llanstephan 194, sef rhan o lawysgrif wreiddiol Daveis, yn cynnwys rhagor o ddyfyniadau na'r geiriadur. Yn ddiweddarach, ychwanegwyd ati eiriau Lladin o eiriadur Thomas Wiliems ac fe'u dynodir gan y llythrennau T.W.

Ar ddiwedd yr ochr Gymraeg-Lladin, ceir *Botanologium*, sef casgliad o enwau llysiau a pherlysiau gyda'r Lladin cyfatebol. Mae'n bosib iawn nad oedd y *Botanologium* yn waith gwreiddiol a chwbl newydd oblegid efallai mai cynnwys un o lawysgrifau Thomas Wiliems ydyw.[141] 'Roedd llunio rhestr o'r fath yn arfer digon cyffredin. Rhestr o enwau llysiau Lladin yn dangos yr enwau Cymraeg cyfatebol sy'n perthyn i ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg yw un o'r geirfâu arbenigol cynharaf sydd mewn llawysgrif yn Gymraeg.[142]

Ar ddiwedd yr ochr Lladin-Cymraeg, ceir casgliad John Davies o ddiarhebion Cymraeg. Ysgrifennodd ddau ragair byr iddynt, y naill yn Lladin a'r llall yn Gymraeg – "At yr hawddgar Gymro". Dywed mai dyma'r casgliad mwyaf cyflawn o ddiarhebion Cymraeg a welwyd erioed. Ei brif ffynhonnell oedd *Madwaith hên Gyrys o lâl*, ond cyfeddyf nad yw'n gwybod pwy oedd awdur y gwaith nac o ba gyfnod y deuai. Mae'n bosib, er na phrofwyd hynny hyd yma, bod John Davies wedi elwa ar waith Thomas Wiliems hefyd oherwydd 'roedd ganddo yntau gasgliad o ddiarhebion. Anfonodd Wiliems y casgliad hwn at Syr John Wynn ond nid oes unrhyw dystiolaeth ei fod yntau wedi trosglwyddo'r gwaith i John Davies.

---

[141] Gw. J. C. Morrice, 'Grammar and Lexicography', *Wales in the seventeenth century; its literature and men of letters and action* (Bangor, 1918), t.316.

[142] LLB Ych. 14 912. Fe'i cyhoeddwyd gan Whitley Stokes yn *Archiv für celtische Lexicographie* I (1900), tt.37-49.

Yn y rhagair Lladin, dywed John Davies ei fod wedi trosi i'r Lladin rai o'r diarhebion a ymddangosodd ar yr ochr Gymraeg-Lladin. Bwriadai eu cyfieithu i gyd ond ni fedrodd wneud hyn, gan fod yr argraffwyr wedi ei lesteirio. Ymddengys iddo gyfieithu'r diarhebion, a hynny er mwyn Syr Simonds d'Ewes yn bennaf,[143] yn ystod y tair blynedd a arweiniodd at ei farwolaeth ym 1644.[144] Gofynnodd d'Ewes i John Davies am gopi o'r cyfieithiadau mewn llythyr ato ar Awst 31, 1640. Gan nad oedd ganddo ddiarhebion wedi eu trosi'n barod i'w rhoi iddo, dechreuodd ar y gwaith yn syth ac anfonodd rai dalennau ato ar 2 Chwefror 1640 neu 1641. Er i John Davies addo paratoi gwell cyfieithiad a'i anfon i Lundain,[145] bu farw cyn llwyddo i wneud hynny. Credir mai Robert Vaughan o'r Hengwrt a gadwodd ddiarhebion John Davies ar ôl ei farwolaeth.[146] Ceisiodd Syr Simonds d'Ewes ei berswadio i'w trosglwyddo iddo gan mai ef a'u piau, ond ni chafodd fyth mohonynt a bu farw yntau ym 1650.[147]

Cyn cloi, rhaid nodi bod gwerth arbennig i'r ohebiaeth rhwng John Davies a d'Ewes. Dywedodd Caryl Davies:

> Dengys yr ohebiaeth hon rhwng John Davies a'i gyfaill eu diddordeb dwfn mewn geiriadura a chyfieithu hen destunau, mewn casglu diarhebion, a chwilota am ddogfennau ynglŷn â chrefydd a defodau hen drigolion yr ynys hon.[148]

Awgrymodd Prys Morgan fod Syr Simonds d'Ewes wedi dwyn y *Dictionarium Duplex* a'r iaith Gymraeg i sylw ieithyddion amlycaf Ewrop ym mlynyddoedd cynnar

---

[143] Hynafiaethydd a chasglwr llawysgrifau oedd Syr Simonds d'Ewes. Gw. Leslie Stephen (gol.), *Dictionary of National Biography* (Llundain, 1888), Cyfrol 14, t.452.

[144] Argraffwyd y llythyron a anfonodd Syr Simonds d'Ewes a John Davies at ei gilydd ynglŷn â chyfieithu'r diarhebion i'r Lladin. Gw. G. Hartwell Jones, 'The Correspondence of Dr. John Davies of Mallwyd with Sir Simonds d'Ewes', *Y Cymmrodor*, 17 (1903), tt.164-185.

[145] Ysgrifennodd lythyr at Syr Simonds d'Ewes ar Ebrill 30, 1642.

[146] Mae tair llawysgrif mewn bodolaeth sy'n cynnwys casgliadau o ddiarhebion Cymraeg yn llaw John Davies, sef Harl. 541, ff. 1 - 44; Harl. 1887, ff. 59 - 130 a Brogyntyn 11. Gw. Rhiannon F. Roberts, 'Bywyd a gwaith Dr John Davies, Mallwyd', op. cit., tt.342-343.

[147] Mewn dau lythyr at Robert Vaughan, gofynnodd Syr Simonds d'Ewes iddo a gâi'r diarhebion yn ôl. Gw. Llawysgrif Caerdydd 76 (18607), t.11 a t.1.

[148] Caryl Davies, op. cit., t.34.

yr Oes Oleuedig - gwŷr megis Jan de Laet, William Boswell, Marcus Zuerius Boxhornius a Gottfried Wilhelm Leibniz.

Daeth copi o'r *Dictionarium Duplex* i law Boxhornius ac ym 1654 cyhoeddwyd y rhan Gymraeg-Lladin fel rhan o *Originum Gallicarum Liber*, sef cyfrol anorffenedig Boxhornius yn ymdrin â hen drigolion Gâl a'u hiaith.[149] Gwelid, pe edrychid ar y rhannau agoriadol, fod John Davies wedi gwneud argraff ddofn arno ond ni chytunai Boxhornius â'i holl ddaliadau ieithyddol. Wfftiodd, er enghraifft, y syniad bod y Gymraeg yn tarddu o'r Hebraeg. Nid atgynhyrchodd Boxhornius ran Gymraeg-Lladin John Davies fel ag yr oedd. Yr hyn a wnaeth oedd osgoi'r enghreifftiau o ieithoedd dwyreiniol megis Hebraeg, Caldaeg, Syrieg ac Arabeg ond cadwodd y cymariaethau Llydaweg.[150]

Lledodd gwybodaeth am iaith a diwylliant Cymru ar draws cyfandir Ewrop trwy gyfrwng gwaith Boxhornius. Erbyn 1691 derbyniasai Gottfried Wilhelm Leibniz gopi o *Originum Gallicarum Liber*. Tra'n astudio'r geiriau Cymraeg ynddo, sylweddolodd pa mor debyg oedd geirfa'r Gymraeg a'r tafodieithoedd Germanaidd a dechreuodd ddatblygu'r ddamcaniaeth Sgythaidd a oedd eisoes yn bodoli. 'Roedd yr ieithoedd Celtaidd, meddai, a'r ieithoedd Germanaidd yn tarddu o ffynhonnell y Sgytheg. Wrth geisio dychwelyd at darddiadau'r ieithoedd Tiwtonaidd, cymharodd Leibniz y 'Gelteg' â geiriau'r ieithoedd hynny gan dynnu ar eirfa John Davies. Yn ddiweddarach, cyhoeddwyd llyfr gan gyfaill a disgybl i Leibniz, Johann Georg Von Eckhardt, sef *Collectanea*.[151] Yn y gyfrol gyntaf ceir adran a elwir 'Glossarii Celtici Specimen' sy'n cynnwys fersiwn newydd o ran Gymraeg-Lladin y *Dictionarium Duplex* a gyhoeddwyd ym 1654 yng ngwaith Boxhornius.

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

---

149 Marcus Zuerius Boxhornius, *Originum Gallicarum Liber* (Amsterdam 1654).
150 Caryl Davies, op. cit., tt.41-42.
151 Johann Georg Von Eckhardt, *Illustris Viri Godofr.Guilelmi Leibnitii Collectanea* ... (Hanover, 1771).

## (iv)
## Thomas Jones (1648 - 1713)

Ganed Thomas Jones yn Nhre'r-ddôl, ger Corwen ar 1 Mai 1648.[152] Ni wyddys sut fath o addysg a dderbyniodd ond gellir dod i'r casgliad ei fod wedi cael gwell hyfforddiant na'r Cymro cyffredin yn y cyfnod hwnnw. Gŵr a chanddo lawer o heyrn yn y tân ar yr un pryd ydoedd. Daeth yn enwog fel argraffydd, cyhoeddwr, newyddiadurwr, cyfieithydd, bardd ac astrolegydd, ond fel almanaciwr y mae'n fwyaf adnabyddus heddiw. Bu dyfodol llenyddiaeth Gymraeg a chyflwr dilewyrch yr iaith yn gryn ofid i Thomas Jones a chododd awydd arno i wneud rhywbeth ynghylch y sefyllfa. Sylweddolodd nad oedd safon na choethder yn perthyn i'r Gymraeg a gwyddai fod llawer o Gymry cyffredin yn cael anawsterau wrth ysgrifennu oherwydd eu diffyg meistrolaeth arni. Aeth ati felly i geisio trosglwyddo gwybodaeth ieithyddol i'r di-ddysg a sicrhau eu bod yn trysori'u mamiaith.

Yn ôl Geraint Jenkins:

> Etifeddodd Thomas Jones fesur helaeth o anian yr hen ddyneiddwyr.[153]

Bu'n dadlau o blaid urddas cynhenid y Gymraeg ac ymdrechodd i boblogeiddio'r syniad ymhlith gwerin bobl Cymru mai cangen o'r iaith Hebraeg oedd y Gymraeg ac mai rhodd fawr Duw i'r genedl ydoedd.[154] Hybodd Thomas Jones y diwylliant barddol drwy gyhoeddi hen farddoniaeth Gymraeg a barddoniaeth gyfoes yn ei almanaciau a chan fod cryn brynu arnynt yn ystod y cyfnod hwn, mae'n bur debyg bod nifer wedi dysgu nodweddion cerdd dafod o'u darllen. Un nod arall a oedd ganddo oedd cael pobl i ddysgu sut i ysgrifennu a sut i sillafu Cymraeg yn gywir. Credir mai Thomas Jones oedd cyhoeddwr y 'copy-book' Cymraeg cyntaf.[155] Daw *Athrawiaeth i Ddysgu Ysgrifennu amriw fath ar ddwylo, Wrth yr hyn y Geill pawb*

---

[152] Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), op. cit., t.484.
[153] Geraint H. Jenkins, *Thomas Jones yr Almanaciwr, 1648 - 1713* (Caerdydd, 1980), t.109.
[154] Ibid., tt.110-111.
[155] Llewelyn C. Lloyd, 'Thomas Jones', *The Journal of the Welsh Bibliographical Society*, 6, t.338.

*ddysgu Ysgrifennu gartref* ar ddiwedd *Yr Hen Lyfr Plygain* a gyhoeddwyd ym 1683 ac ynddo ceir tair tudalen ar ddeg o gyfarwyddiadau ar sut i wneud pin ysgrifennu a sut i gymysgu inc, sut i ysgrifennu llythrennau bach a mawr a pha fath o bapur y dylid ei ddefnyddio. Ceisiodd Thomas Jones hybu llythrennedd trwy gyfrwng llawer o'i almanaciau a'i lyfrau hefyd drwy gynnwys ynddynt yr wyddor Gymraeg, llafariaid a chytseiniaid, rhestr o lythrennau a rhestr o eiriau unsill a deusill. Os oedd y Cymry i ddysgu sut i ysgrifennu a sillafu Cymraeg yn gywir, gwyddai Thomas Jones fod angen un arf arbennig arall arnynt, sef geiriadur.

Mae teitl y geiriadur yn nodweddiadol o waith Thomas Jones. Ei nod bob amser oedd dangos rhinweddau ac ysblander y Gymraeg ac wrth lunio almanaciau'n flynyddol, ceisiodd roi teitlau amrywiol a chrand iddynt hwythau hefyd. Oherwydd Deddf Drwydded 1662, bu'n rhaid i Thomas Jones argraffu'r geiriadur yn Lloegr, felly yn Llundain y'i hargraffwyd ac y'i gwerthwyd, gan Mr Lawrence Baskerville a Mr John Marsh. 344 o dudalennau sydd yn y gyfrol a cheir tua 11,000 prifair Cymraeg yng nghorff y geiriadur. Ar y dechrau, ceir dwy dudalen deitl, y naill yn Saesneg a'r llall yn Gymraeg, lle mae Thomas Jones yn rhoi amlinelliad o'i fwriadau ac o gynnwys y geiriadur. Mae'n honni bod *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb* yn cynnwys llawer mwy o eiriau Cymraeg nag a geir yn *Dictionarium Duplex* John Davies eithr mae dwy ran y *Dictionarium Duplex* gyda'i gilydd yn cynnwys tua 34,000 prifair. Dylid cofio hefyd bod John Davies yn dangos enghreifftiau o eiriau yn eu cyd-destun, ffaith nad yw'n cael ei chrybwyll gan Thomas Jones. Ai brolio ffug bwrpasol i dynnu sylw a hybu gwerthiant sydd yn *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb* felly? 'Roedd gan Thomas Jones syniad go lew o'r hyn a fyddai'n debygol o werthu'n dda oherwydd bod profiad ym maes gwerthu llyfrau ganddo ac mae'n werth nodi bod yr un math o ymffrost ac amleiriogrwydd yn ymddangos yn aml ar wyneb-ddalen ei almanaciau hefyd. Dywedodd Geraint H. Jenkins:

> Ymhyfrydai'n gyson yn y ffaith ei fod yn gosod gerbron y Cymry waith nad argraffwyd erioed o'r blaen. Yr oedd ganddo lygad i weld

Y
GYMRAEG yn ei Difgleirdeb,
Neu helaeth
# EIR-LYFR
CYMRAEG A SAESNAEG,
Yn Cynwŷs llawer mwŷ o eiriau Cymraeg, nag ſŷdd yng Eirlyfr y Diſgawdr Siôn *Dafis* o Gymraeg a Lading.

Yn gyntaf,
Yn hyſpyſu meddwl y Gymraeg ddieithr, drwŷ gymraeg mwŷ Cynnefinol: yr hyn ſŷ gyfleus, a deunyddiol iawn i bawb a Ewŷllyſiont ddeall a ddarllennont yn gymraeg.

Yn Ail,
Yn dangos y gwîr Saeſnaeg i bôb gair Cymraeg.

Ag yn ddylynol,
Y môdd i gyſylltu, ſef i (yſpelio) pôb gair yn gywir yn y gymraeg, a'r Saeſnaeg.

Ac a helaethwŷd
Ag Argraphyddol henwau Gwledŷdd, Goſgorddau, Dinaſoedd, Trefŷdd, a mannau (ymmyrydain fawr, a Rhai dros y môr:) yn yr hên gymraeg, a'r breſennol Saeſnaeg.

At yr hŷn a chwanegwyd
Eglur, a hylaw Athrawiaeth, (i'r Cymrŷ) am gywir Adroddiad y Saeſnaeg; drwŷ fŷr hyſſorddiad yn yr Iaith gymraeg.

Gyda phriodor ddeunŷdd neu Arwŷddoccad yr hôll orddiganau, a'r Attalion, ſŷ'r Awron yn Arferedig yn y gymraeg a'r Saeſnaeg; Ag yn Angenrheidiol eu deall gan bôb darllennŷdd.

A gaſglwŷd drwŷ ddirfawr boen, a diwŷdrwŷdd *Tho. Jones.*

Argraftwŷd 1688. ac ar werth yng Haerlŷdd gan Mr. Lawrence Baſkervile Tân Lun y llew Côch yn yr henadur-Rewl, a chan Mr. John Marſh tan Lûn y Llew Côch yn rhewl Câth-fwŷtâad.

THE
BRITISH Language in its Luſtre,
Or a Copious
# DICTIONARY
OF
WELSH and ENGLISH:
Containing many more Britiſh words than are in Dr. *Davies's Antiquæ Linguæ Britannicæ Dictionarium duplex.*

FIRST,
Explaining the hard Britiſh words, by more familiar words in the ſame Tongue: very uſeful for all ſuch as deſire to underſtand what they Read in that Language.

SECONDLY,
Shewing the Proper Engliſh to every Britiſh word:
And conſequently,
The true way of Spelling all words in both Languages.

Amplified
With the Geographical names of Countreys, Counties, Cities, Towns and places in Great *Britain* (and ſome beyond Sea) in the Antient Britiſh, and preſent Engliſh.

Whereunto are added
Plain and eaſie Directions to Welſhmen for the true pronouncing of the Engliſh Tongue by a ſhort Introduction in the Britiſh Language.

With the proper uſe or ſignification of all accents, points or ſtops, as now uſed in the Britiſh and Engliſh: being neceſſary to be underſtood by every Reader.

Compiled by the great Pains and Induſtry of *THO. JONES.*

Printed 1688. and ſold in *London* by Mr. *Lawrence Baſkervile* at the Red Lion in *Aldermanbury*, and Mr. *John Marſh* at the Red Lion in *Cateaton-ſtreet.*

3. Thomas Jones, *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb* ... (1688)

> deunydd newydd a difyr, a gwnâi ei orau glas i gyflwyno rhyw elfen 'amheuthun' newydd i bob rhifyn.[156]

Bwriad Thomas Jones yn y lle cyntaf oedd esbonio ystyron geiriau anodd yn Gymraeg gan ddefnyddio geiriau mwy cyfarwydd er lles y rhai a ddymunai ddeall a darllen yn Gymraeg. Dywed hefyd ei fod wedi dangos geiriau Cymraeg gyda'r Saesneg cyfatebol ynghyd â'r ffordd i sillafu geiriau'n gywir yn y ddwy iaith. Cynyddodd maint y geiriadur oherwydd ei fod wedi cynnwys enwau Cymraeg a Saesneg ar wledydd, siroedd, dinasoedd ym Mhrydain a thramor ac ychwanegodd gyngor hollol angenrheidiol i Gymry ar sut i ynganu'r Saesneg:

> gyda phriodor ddeunŷdd neu Arwŷddoccad yr hôll orddiganau, a'r Attalion, sŷ'r Awron yn Arferedig yn y gymraeg a'r Saesneg ...

Er mwyn sicrhau gwerthiant llwyddiannus a sicrhau bod y geiriadur o fewn cyrraedd y bobl gyffredin, 'roedd yn rhaid i Thomas Jones ei werthu am bris teg. Ceir rhestr o'r "Llyfrau Cymraeg yn Breintiedig, Ac ar werth gan Thomas Jones, ac eraill ..." yn Almanac Thomas Jones ar gyfer 1701.[157] Ymhlith y rhestr honno ceir y cofnod canlynol am *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb*:

> Llyfr Dictionary Cymraeg a Saesneg ; yn dangos y môdd i yspelio pôb gair yn gywir yn y ddwŷ iaith ; ac yn dangos meddwl y geiriau dieithr ; Ac yn enwedig yn dangos y gair Saesneg i bôb gair Cymraeg. Ei bris wedi 'feindio ŷw Swllt a chwecheiniog y llyfr.[158]

Swllt a chwe cheiniog a godwyd am y geiriadur felly. Er i Thomas Jones geisio cadw prisiau'n isel mae'n debyg mai *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb* a *Carolau a Dyriau Duwiol* (1696) oedd y ddau lyfr drutaf o'i eiddo.[159]

Ysgrifennwyd rhagymadrodd *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb* yn Llundain ar 12 Medi 1687. Rhagymadrodd amrywiol ac ailadroddus ydyw ac fe rennir ei dudalennau'n ddwy ran - ceir colofn Gymraeg a cholofn o'r Saesneg cyfatebol ar y llaw dde. Yn

---

156 Geraint H. Jenkins, op. cit., t.44.
157 Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 o.c. hyd 1850* (Lerpwl, 1893), t.75.
158 Ibid., t.76.
159 Geraint H. Jenkins, op. cit., t.93.

ôl Thomas Jones yr hyn y dymunai Cymry ei oes ei weld oedd "perffeithrwŷdd ein dechreuol dafodiaith" am eu bod wedi dilyn ffasiynau diweddar - "gwnaethom ormod deunŷdd o ffurfiadau newŷddion" - yn hytrach na diogelu a defnyddio'u mamiaith.[160] Oni bai am gynheiliaid y Gymraeg a osododd sylfeini i'w chynnal, byddai'r iaith wedi dadwreiddio. Nodir mai William Salesbury, am iddo lunio geiriadur Cymraeg-Saesneg bychan, oedd y cyntaf i flaendorri'r iâ yn y maes. Er mai "bŷrr ac amherphaith" oedd y gwaith hwnnw, ystyriai Thomas Jones ef yn ddefnyddiol ac yn angenrheidiol tan i eiriadur cyflawnach gael ei gyhoeddi. Yr ail gymwynaswr i fynd ati i amddiffyn y Gymraeg oedd Dr John Davies ac yn ôl Thomas Jones ei eiriadur oedd ei gampwaith. Er ei gyhoeddi ym 1632 bu:

> ... mor gyfleus ac anghenrheidiol nad ellid yn affeithiol gyfieuthu Llyfr i'r Gymraeg, na Chyfansoddi Llyfr yn yr Iaith honno heb ei Gynorthwŷad ef.

Thomas Jones ei hun wrth gwrs, a gymerodd y cam nesaf yn hanes geiriaduraeth Gymraeg ac yn y rhagymadrodd mae'n egluro paham y penderfynodd gamu i'r cyfeiriad arbennig hwn. Gan fod y Saesneg yn fwy dealladwy i'w gydwladwyr na'r Lladin, dewisodd beidio â dilyn ôl troed John Davies yn union drwy greu geiriadur Cymraeg-Lladin arall. Credai y byddai'n fwy buddiol llunio geiriadur Cymraeg-Saesneg. Trwy gael geiriadur o'r fath byddai'r Cymry a'r Saeson yn medru deall ei gilydd, byddai hefyd yn adfer y Gymraeg ac yn gymorth i'r Cymry wrth ddysgu Saesneg. Er iddo ymdrechu i gyflawni'r dasg, ni fedr addo bod y gwaith gorffenedig yn ddiwall, ond dywed na ellid disgwyl perffeithrwydd y tro cyntaf na'r eilwaith wedi'r cyfan, yn enwedig gan fod yr iaith mewn cyflwr mor ddiffygiol yn ei ddydd ef. Credai Jones fod y Gymraeg:

> ... yn hynach ag yn ddyfnach, a chyflawnach, ag yn amgen jaith ymhôb ffordd nar Saesneg.

Trwy ddyfynnu rhai o enghreifftiau Charles Edwards, ceisia ddangos tebygrwydd rhwng geiriau Cymraeg a Hebraeg. Daw i'r casgliad nad yw'r Gymraeg yn ddim gwell na gwaeth "na chaingc neu gangen or Hebrewaeg", sef yr unig iaith a siaredid yn y byd "hyd adailadiad Twr Babelon".

---

[160] Thomas Jones, *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb, neu Helaeth Eir-lyfr Cymraeg a Saesneg. The British Language in its Lustre, or a Copious Dictionary of Welsh and English* (Llundain, 1688). Nid oes rhifau ar y tudalennau.

Mae Thomas Jones yn honni ei fod wedi gofalu rhoi'r union ystyr Saesneg wrth ochr y Gymraeg, fel y gwnaeth John Davies gyda'r Lladin, ond erbyn cyhoeddi *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb*, dywed fod ystyron nifer o'r hen eiriau Cymraeg, yn ôl cyfieithiad John Davies ohonynt, wedi newid ac yn cael eu defnyddio mewn ffordd wahanol gan yr anllythrennog. Oherwydd hynny, rhagdybiodd y byddai nifer yn barod i farnu ei eiriadur. Mae'n ymbil ar:

> ... y rhai sŷ yn deall Lading, ac sŷdd ganddŷnt eirlŷfr y Dysgawdr Siôn Dafis, ar iddŷnt hwŷ weled yn dda, gystadlu hwn ag ef, ac yno barnant fel y caffont, a rhont y gair a welont yn gyfleus o'r llyfr hwn i'r rhai nad ydynt mor ddysgedig a gallu ei brofi ef eu hunain ...

Yn nes ymlaen yn y rhagymadrodd, rhydd rai enghreifftiau i ni o'r geiriau hyn, ond eto i gyd dywed na fentrodd newid yr hyn oedd gan Davies:

> ... rhag ofn a fyddeu i Rai feio arna i gymerŷd arna fôd yn ddoethach na'r Dysgawdr Dafis.

Dywedodd hefyd ei fod wedi penderfynu cynnwys y geiriau dieithr a oedd yng ngeiriadur John Davies, er nad oedd hyn yn hanfodol, am dri rheswm. Yn gyntaf:

> ... rhag ofn i rai ddywedŷd nad oedd fy llyfr i ond darn o'i lyfr ef.

Yn ail, fe'u cynhwysodd fel y gellid dod o hyd i ystyron hen eiriau Cymraeg ac yn olaf, fe'u hymgorfforwyd er mwyn y beirdd:

> ... oblegid bŷdd llawer haws Cysoni Cerdd pan geffer amrŷw o eiriau o'r un feddwl, na phan fydder yn rhwŷmmedig i wneuthur deunŷdd o un gair unig.

Wrth iddo gymharu *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb* â'r *Dictionarium Duplex*, dywed Thomas Jones y byddai rhywun yn siŵr o sylweddoli bod y cyfan o eiriau Cymraeg John Davies, a mwy, yn ei eiriadur ef, ynghyd â miloedd o eiriau Cymraeg cyffredin yn esbonio ystyr geiriau dieithr Davies. Er nad ofnai Jones feirniadaeth y gwŷr dysgedig ar amherffeithrwydd y gwaith, cyfeddyf na all neb ddianc rhag beirniadaeth hallt yr "anllythrenog, ar nawswŷllt". Honiad mawr Thomas Jones yn y rhagymadrodd felly, yw bod ei eiriadur ef yn cynnwys mwy o eiriau na'r *Dictionarium Duplex*. Mae'n rhaid ei fod yn rhywbeth pwysig iawn i'w brofi i Thomas Jones oherwydd mae'n dychwelyd at y pwnc hwn dro ar ôl tro. Mewn un man, ceisia gyfiawnhau'r honiad hwn o dan y penawdau "Prifiad mwy o eiriau yn hwn, nag yng

Eirlyfr y Dysgawdr Dafis" a "Pa fodd y Geill fod mwy o eiriau yn hwn, nag yng Eirlyfr y Dysgawdr Dafis, os ŷw hwnnw yn fwy, ac o gynlleied llythyrennau a hwn?" O ddarllen y disgrifiad o'r cynnwys, ceir yr argraff bod *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb* yn gryn ddatblygiad ar eiriadur John Davies oherwydd bod Jones yn dweud ei fod yn cynnwys mwy o eiriau na gwaith ei ragflaenydd. Mae un peth amlwg yn bwrw amheuon ar ei osodiad yn syth, sef maint y geiriadur. Heb agor yr un o'r ddwy gyfrol, byddai modd barnu dilysrwydd honiad Thomas Jones drwy osod *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb* ochr yn ochr â chyfrol swmpus John Davies. Serch hynny, er bod y gyfrol yn llai o ran maint na'r *Dictionarium Duplex*, dywed Jones y gellir gweld, o gymharu'r ddwy, ei fod wedi cynnwys pob gair a oedd gan John Davies a'i fod hefyd wedi ychwanegu geiriau Cymraeg cyfarwydd neu gyffredin eu defnydd. Rhydd i ni amlinelliad o'i ddull o weithio a'r ffordd y "golygodd" eiriadur John Davies i'w bwrpasau ef ei hun drwy gymryd enghraifft o'r *Dictionarium Duplex*, sef y cofnod am "Bann". Llanwai erthygl Davies dudalen gyfan o eiriadur Jones ar gyfer y gair hwn, ond i Thomas Jones 'roedd hyn yn ddiangen oherwydd nid oedd:

> ... yn meddwl dim arall ond, uchel, a hîr.

Dyma'r cofnod talfyredig sydd gan Jones:

Ban, uchel, hîr. *High, tall.*

Gan fod John Davies wedi chwyddo'i eiriadur yn y fath fodd, 'roedd yn rhaid i bawb a ddymunai ei brynu dalu pris llyfr mawr am yr hyn y gellid ei gynnwys mewn llyfr bychan. Creu "llyfr bychan" oedd un o amcanion Thomas Jones felly, a chyda chyhoeddiad *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb*, credai y byddai modd prynu geiriadur rhatach a oedd yn cynnwys holl ddeunydd defnyddiol John Davies ynghyd â miloedd o eiriau ychwanegol:

> ... wedi eu cynhwŷso er mwŷn y Tylodion, fel y gallent hwŷthau fwynhau llesâd hwn Cystal a'r Cyfoethogion.

Gallai Thomas Jones fod wedi cynnwys rhagor o eiriau yn *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb*. Derbyniodd restr o dair mil o eiriau nad oeddynt ganddo eisoes yn y geiriadur, oddi wrth yr Esgob William Lloyd, Llanelwy. Serch hynny fe'i derbyniodd hi'n rhy hwyr iddo fedru gosod y geiriau yn y mannau priodol yn y gwaith. Yn hytrach na'u cyhoeddi ar ddiwedd y geiriadur, penderfynodd eu cadw ar gyfer yr argraffiad nesaf "if ever it comes to my hands".

Mae'n bosib iawn bod Thomas Jones yn arfer techneg arall a ddefnyddiai yn ei almanaciau yn ei ragymadrodd. Gesyd benawdau bachog i rannu'r testun, tebyg i benawdau a welir mewn almanac neu benawdau papurau tabloid yr oes hon. Dyma ffordd o ddal sylw'r darllenydd a gwneud y peth yn afaelgar ac yn hawdd i'w ddarllen. Yn y rhagymadrodd hwn, ceir yr ymgais lawn gyntaf gan eiriadurwr Cymraeg i egluro'i ddulliau a'r ffordd y trefnodd gynnwys ei eiriadur, ynghyd â sut i gael hyd i air ynddo: "Achosion AM Drefn y llyfr hwn". Mae'n nodi nifer o osodiadau neu benawdau'n eu tro ac yna ceisia'u hesbonio. Y gosodiad cyntaf yw: "Paham y mae Cymmaint o eiriau Cymraeg yn'r unlle o flaen y Saesneg". Cynigir pedwar rheswm. Yn gyntaf, dilynir prifair sydd â mwy nag un ystyr gan nifer o eiriau Cymraeg cyfarwydd eraill er lles y rhai na ddeallent Saesneg. Gwelir er enghraifft:

Camwed. *Wrong, iniquity, sin.*
a

Camwedd, cymwedd, cellwer, gwatwar. *To joke or jest.*

Ceir hefyd:

Llŷs neu dŷ Brenin : *a Court, a Palace.*
Llŷs neu llysieuyn : *an Herb.*
Llŷs, llysiant, Gwrthodiad : *a rejecting, refusing or forsaking.*

Weithiau bydd esboniad llawnach yn dilyn prifair, fel y gwelir yn yr enghreifftiau a ganlyn:

Dangoseg, arwydd i ddangos, yr eurfaen a braw'r aur, Cynhwysiad llyfr neu ran o hono. *A token to shew, a touch-stone to try gold and silver, also a Table or Contents of a Book.*

Gwersŷll, Gwersŷllt, ymgasgliad llu o filwŷr, a hefyd bythau milwyr a wneler o Liain ar bolion, i letteua ynddynt ar y meusŷdd ; *a Camp, also a Tent to lye in.*

Pedestrig, peddestrig, a berthyno i ŵr traed, hefŷd, myned neu rodio : *belonging to a Footman, also a going or walking.*

Pylgain, plygain neu Canniad y Ceiliog, hefŷd gwahaniad ŷ dŷdd ar nos : *Cocks-crowing, also the Twilight.*

Yn ail, esbonnir prifeiriau anghyfarwydd, anodd neu dywyll eu hystyr drwy gyfrwng geiriau Cymraeg cyfarwydd. Mae'n bosib y byddai "gwengolo" ac "archenu" yn ddieithr i'r Cymro cyffredin, ond ychwanegir mwy o wybodaeth er lles y defnyddiwr:

Gwengolo, mis medi ; *the month September.*

Archenu, gwisgo esgydiau. *To wear shoes.*

Yn drydydd, gwelir weithiau glwstwr o eiriau Cymraeg oherwydd eu bod yn rhannu'r un ystyr. Cofnodir "arfaethu, amcanu, bwriadu" gyda'i gilydd oherwydd eu bod yn golygu "*to intend or purpose*". Gwelir hefyd er enghraifft:

Brô, gwlad, cymmdogaeth. *Country, neighbourhood.*

Esgeulus, diofal. *Negligent, careless.*

Gwestfa, gwestle, llettŷ ; *a Lodging.*

Lluddias, lluddio, llestair, rhwŷstro : *to hinder, to frustrate.*

Sarhâu, cywilyddio, anglodi : *to disgrace.*

Tawelwch, distawrwŷdd, llonyddwch : *silence, tranquillity.*

Mae'n ddiddorol nodi bod Thomas Jones o'r farn mai beirdd fyddai'n elwa fwyaf o'r nodwedd thesawrol hon:

> Ar yr ydŷm ni yn gobeithio fôd yr achos hwnnw yn esgusodus, am fôd yn fuddiol lawn i brydyddion Gael (drwŷ gynnorthwŷad un gair) amrŷwiaeth o eiriau o'r un feddwl, fel y gallont yn haws gyfansoddi eu Câniadiau [*sic*] mewn dâ gysondeb.

Yn olaf, pentyrrodd Thomas Jones eiriau Cymraeg gyda'i gilydd i geisio datrys problem yr orgraff. Dywed ei fod wedi grŵpio: "derllŷdd, derllyddu, dyrllŷdd, dyrlleuŷdd, darllennŷdd, darllennwr" gyda'i gilydd oherwydd eu bod, er iddynt amrywio o ran sillafiad, yn golygu "*a Reader*". Gwnaeth yr un fath gyda:

Hyddfrê, hyddfrêf, hydref : *the month October.*

Neithiwŷr, neithiwr : *last night, yesterday in the evening.*

Sommi, siommi : *to shamm or deceive.*

Tarlwng, tarlwngc, darlwngc, traflwngc, trangcell, llwngc : *a draught, a draught of drink.*

Dyma ymgais arall i blesio'r beirdd oherwydd dywed y byddai hyn:

> ... yn gyfleuŷs iawn ĩ Brydyddion, gan eu bod yn Rhydd-did ac ysmwythder mawr iddynt i gysoni eu Câniadau.

Wrth egluro "Yr Achos Paham yr arferir yr ymsang yn y llyfr hwn ..." nodir bod cromfachau wedi eu gosod o amgylch geiriau a fenthyciwyd o'r Saesneg er mwyn eu gwahaniaethu rhag y "gymraeg gywir". Cyfeirir atynt fel "Saesneg Candrell", neu eiriau a ddefnyddid yn gymysg â Chymraeg. Fel y gwelir, cafodd "anterliwt",

"chwip", "wits", "blottŷn", "pwrs", "plaster" ac "Emprwr" eu gwahanu oddi wrth y "gymraeg gywir" yn yr enghreifftiau canlynol:

Chwerig, gwêdd chwerig, (anterliwt). *Entherlute, a stage play.*

Fflangell, (chwip.) *A Whip or Scourge.*

Gwiddon, cawres, (wits;) *a Witch, a Sorceress, a Giantess.*

Magl, mann dû, neu (blottŷn) Nôd i adnabod peth wrtho : *a blot or blur.*

Pewtner, (pwrs :) *a Purse.*

Saen, (plaster : ) *a plaister.*

Ymmerodr, penadur, Illywŷdd, (Emprwr : ) *an Emperour.*

Ceir pwt o feirniadaeth ar ran Thomas Jones ynglŷn â'r arfer o fenthyca'n hollol ddiangen o'r Saesneg. Ni fu'n rhaid i'r Cymry wneud hyn mwy nag y bu'n rhaid i'r Saeson "'fyned yn Eppauod i'r ffraingeig-wŷr" ac mae'n eu condemnio am iddynt:

> ... ynfydu am lediaith y Saesneg, yn gymmaint hyd oni ddaeth laith y Cymrŷ yr awron mo'r llygredig ag ymmadrodd eu Cymmydogion.

Dywed hefyd, mewn rhan arall o'r rhagymadrodd, bod cymaint o eiriau benthyg o'r Saesneg yn cael eu defnyddio yn gymysg â'r Gymraeg yn ystod ei oes, fel y bu'n rhaid iddo eu cynnwys yn y geiriadur. Dangosodd ei anfodlonrwydd gyda'r arfer hwn drwy osod y benthyciadau rhwng cromfachau i'w gwahaniaethu ac i ddangos "bôd amgenach gymraeg iddŷnt." Dywed hefyd ei fod wedi cynnwys "Saesneg Candrell" yn ei eiriadur er mwyn y Cymry na ddeallent Saesneg. Gan fod rhai geiriau Cymraeg wedi mynd yn angof rhaid oedd ceisio'u hesbonio iddynt drwy ddefnyddio geiriau cyfarwydd. Er na cheir llawer o enghreifftiau o hyn yn y geiriadur, pan fo prifair yn air a fenthyciwyd o'r Saesneg, daw un gromfach ar ei ôl:

Mattras : ) *a Matress, a Flaggmatt, a Bed-matt.*

Prophwd : ) *a Prophet.*

Selio : ) *to seal.*

Yspardun : ) *a Spur.*

Ar ddiwedd y geiriadur ceir esboniad pellach '*Am yr attaliadau yn y geir-lyfr hwn*'. Mae Thomas Jones yn defnyddio tri math o atalnod. Pwrpas coma yw gwahanu geiriau sy'n rhannu'r un ystyr; swyddogaeth gorwahannod yw rhannu'r Gymraeg

rhag y Saesneg o'r gair "gwŷnedd" hyd at ddiwedd y geiriadur. O air cyntaf y geiriadur, sef "a", hyd at "gwaed" atalnod llawn sy'n cael ei ddefnyddio i wahanu'r Gymraeg a'r Saesneg. Ni rydd esboniad bod geiriau yn y ddwy iaith, rhwng "gwaed" a "gwyniad", yn cael eu gwahanu naill ai â gorwahannod neu â gwahannod.

Fel William Salesbury o'i flaen, 'roedd Thomas Jones yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng yr eirfa a ddefnyddir mewn rhannau gwahanol o Gymru a bod angen nodi amrywiadau mewn geiriadur. Esbonnir '*Paham y mae geiriau o Cymraeg diethrol ar ôl geiriau Cyffredin, megis ar ôl* Elor, gelor, Elorwydd, *ac ar ôl,* Etto, etwa, etwaeth, *ac ar ôl fy, mau; a llawer o eiriau eraill*'. Casglodd ynghyd eiriau deheuol a gogleddol ac fe'u cofnododd gyda'i gilydd:

Cadnaw, cadno, llŵynog. *A fox.*

Gaing, Cûn, : *a Wedge.*

Heol, buarth, ffordd fawr, hwŷlfa mewn Trêf : *a Street, also a Court before a house.*

Hwrdd neu myharen : *a Ram.*

Pâl, rhaw : *a Spade, a Shovel.*

Rhoccas, llangc : *a young Man in his growing years.*

Yn un rhan o'r rhagymadrodd, lle mae Thomas Jones yn ymdrin ag "Athrawiaeth yn dangos i'r annysgedig y nodd [*sic*] i ddeall y llyfr hwn", ni cheir cyflwyniad dwyieithog ganddo. Anerchir y darllenydd yn Gymraeg yn unig:

> I thought it needles to direct the English Reader how to understand and to make use of this Book, for I suppose there is but few of these that can read English, but are aquainted with the Rules, method and use of a Dictionary.

Er hwylustod y darpar ddefnyddiwr, trefnwyd y geiriau Cymraeg "mewn rheol wyddorig" fel y gallai ddod o hyd i eiriau'n ddiymdrech. Serch hynny, ni ddangosir yr wyddor i'r darllenydd yn y rhagymadrodd. Yn hytrach, esbonnir sut y gellir dod o hyd i air Cymraeg yn dechrau gydag 'a', 'h' neu 'y'. Daw geiriau'n dechrau ag 'a' ar ddechrau'r llyfr oherwydd mai 'a' yw llythyren gyntaf yr wyddor. Gan fod 'h' yn "osodedig tua chanol yr wyddor", tua chanol y geiriadur y deuir o hyd i eiriau'n dechrau â'r llythyren honno. 'Y' yw llythyren olaf yr wyddor Gymraeg, felly daw

geiriau'n dechrau ag 'y' ar ddiwedd y geiriadur. Â yn ei flaen i esbonio bod ail lythyren gair (yn ogystal â'r drydedd a'r bedwaredd lythyren) yn dilyn trefn yr wyddor hefyd, felly gellir dod o hyd i "aber" o flaen "aberth", "alaf" neu "Alarch" er enghraifft, a byddai'r enwau hynny o flaen "awch", "awel" ac "awŷr." Er bod ymdriniaeth arall ar yr wyddor tua diwedd y geiriadur, tybed a allai Thomas Jones fod wedi dangos yr wyddor yn ei chrynswth yn y fan hon, yn hytrach nag esbonio sut i ddod o hyd i eiriau gan ganolbwyntio ar dair llythyren yn unig? Mae'n werth nodi hefyd bod Thomas Jones yn mynd i'r drafferth o esbonio:

> Paham y Camosodwyd rhai geiriau yn y llyfr hwn, neu y Rhoddwyd hwynt ar lawr allan o'u Cywir wyddonig leoedd, yn enwedig os wrth yr Egwyddorig Reol y Ceisir hwynt fel ag a mynegwyd eusus a gellid eu Cael.

Penderfynodd Thomas Jones beidio â chofnodi bob prifair yn nhrefn yr wyddor. Yn hytrach, trefnodd rai geiriau yn ôl eu tarddiad gan eu cynnwys fel math o isgofnodion. Dywed:

> Pan fynnech gael y gair dymaid, Ceisiwch y gair dwrn.

Gwelir "brydio" gyda'r tarddair "brŵd" er enghraifft, daw "gweirio" o dan "gwair", "ieithydd" o dan "iaith", "llygru" o dan "llwgr", "pylu" o dan "pŵl" a "teithio" o dan y tarddair "taith":

Brŵd. *Warm.*
Brydio. *To grow warm.*
Brydanniaeth. *Warmness.*

Gwair ; *Hay.*
Gweirio, Cyweirio gwair ; *to make hay.*
Gweirglodd, gwerglodd ; *a Meadow.*

Iaith : *a Language.*
Ieithydd : *a Linguist, an interpreter.*

Llwgr, llygredigaeth : *a corruption.*
Llygru : *to corrupt.*
Llygrawr, llygrwr : *a Corrupter.*
Llygredig a llygrawg : *corrupt.*

Pŵl : *blunt.*
Pylu : *to wax dull or blunt.*

Taith : *a Journey.*
Teithio : *to take a Journey, or ride a Circuit.*

Rhydd Thomas Jones gyfarwyddiadau i'r defnyddiwr i droi at brifair arall o bryd i'w gilydd, yn union fel y gwnaeth John Davies yn y *Dictionarium Duplex*. Wedi dod o hyd i "Eill" yng ngeiriadur Jones er enghraifft fe welir "edrych Ill". Y rheswm am hyn yw:

> ... am fod Ill o'r un feddwl, ac yn well gair nag Eill, ac mewn Cysylltiad gwell.

Dro arall pan fo mwy nag un gair yn rhannu'r un ystyr, cyfeirir y defnyddiwr at un o'r geiriau hynny'n unig. Pan ddeuir o hyd i "Aes", fe welir "edrŷch tarian, a bwcled", a cheir yr un cyfarwyddyd o dan "bwccled" - "edrych tarian". O dan "tarrian" ceir:

> pren crwn megis caead crochan a drantol wrtho, i'w ddal mewn llaw asswy; derbyn neu droi heibio ddymodiau'r gelŷn wrth ymladd: a Shield or Buckler.

Mae'r cofnodion am "aberth", "dywŷlliaw" a "tinfoll" yn dilyn patrwm tebyg:

Aberth, edrych Cadwŷdd.

Dywŷlliaw, edrŷch diwŷll.

Tinfoll, edrych Mwll.

'Roedd manteision wrth drefnu cynnwys y geiriadur yn y fath ffordd wrth gwrs, sef gwneud y llyfr yn llai, yn ogystal â'i wneud yn rhatach. Serch hynny, ni chymerodd Thomas Jones ofal mawr wrth groesgyfeirio fel hyn. O edrych eilwaith ar rai o'r enghreifftiau a nodwyd uchod gwelir bod sillafiad y gair "bw(c)led a "ta(r)rian" yn anghyson ac wrth gyfeirio'r defnyddiwr o "dywŷlliaw" ac "edrŷch diwŷll" ni ddywed pa "diwŷll" yn union y mae'n sôn amdano. Ceir:

Diwŷll, diwyllio, addoli, hefyd aredig. *To worship, also to till or plow.*

Diwŷll, addoliad. *Worship.*

Wrth i Thomas Jones egluro sut y gallai ei waith fod yn ddefnyddiol, gellir dod i'r casgliad mai'r Cymro cyffredin, a oedd newydd ddechrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg o bosib, fyddai'n gwneud y defnydd mwyaf ohono. Yn gyntaf, gellid ei ddefnyddio i ddysgu sut i sillafu gair Cymraeg yn gywir. Yn ail, pan ddeuid ar draws gair dieithr neu air aneglur ei ystyr, gellid chwilio yn y geiriadur a chanfod geiriau Cymraeg cyfarwydd a chyffredin yn esbonio'i ystyr. Ychwanega Thomas Jones:

> Ag yn wîr dâ iawn iw'r deunŷdd ymma or llyfr hwn, oblegid ofer iw'r gôst ar boen o brynnu, a darllen llyfrau heb eu deall: Ond y nêb a elo i'r ychydig mwŷ o Gôst a phoen, o brynu y llyfr hwn, a gwneuthyr deunydd o hono, a eill wrtho ef ddeall y Llyfrau eraill a ddarlleno ef.

Yn drydydd, dywed fod geiriadur o fudd i bob Cymro sydd am ddysgu Saesneg, cyfieithu o'r Gymraeg a dysgu sut i sillafu geiriau Saesneg. Y pwynt olaf a'r un pwysicaf sydd gan Thomas Jones, yw bod y geiriadur yn waith hollol angenrheidiol i arbed y Gymraeg rhag ei cholli. Er i'r Cymry ddefnyddio geiriau newydd ac er iddynt ymwrthod â'r Gymraeg yn aml a defnyddio "ryw gymysgiad o gandrellni'r saesneg", bydd y geiriadur yn arbed yr iaith rhag mynd i ddifancoll.

Ar ddiwedd y geiriadur ceir bron i ugain tudalen o "Henwau (Physygawl) Lysiau'r ddaear, Coed, a Ffrwythau Coed, yn Gymraeg a Saesneg" yn nhrefn yr wyddor. Nodir sawl enw ar un math o blanhigyn neu lysieuyn yn aml ac weithiau ceir hyd at chwech i naw enw gwahanol. Ceisia Thomas Jones egluro mai'r tafodieithoedd gwahanol ar hyd a lled Cymru a achosodd gymaint o amrywiaeth mewn enwau planhigion. Gan fod 'Botanologium' ar ddiwedd y *Dictionarium Duplex*, mae'n rhaid mai dyna'r rheswm paham y lluniodd Thomas Jones yntau'r "Llysieu-lŷfr Cymraeg a Saesneg". Gellir tybio bod Thomas Jones wedi dilyn patrwm y 'Botanologium' a'i fod wedi codi llawer o eiriau ohono gan fod enwau'r planhigion sydd yn *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb* yn ymddangos, yn aml iawn, yn yr union drefn ag enwau Davies. Parhau i frolio y mae Jones, gan ei fod yn taeru bod ganddo ef fwy o enwau yn ei lysieulyfr na John Davies. Serch hynny, ymddengys bod rhai o enwau Lladin Davies ar blanhigion wedi achosi trafferth iddo. Dywed:

> Gadewais allan o'r llyfr hwn rai o'r llysiau na-doedd mo'r henwan [*sic*] Lading iddŷnt yn llyfr Dr. Dafis, am nad oedd eu henwau mewn un laith (yn fy meddwl i) ond di ddeunyddiol ymma heb eu Cyfieuthad mewn laith Arall, yr hŷn ni fedrais gael mewu [*sic*] un Awdr.

Yn ôl Thomas Jones, un o feiau'r 'Botanologium' yw arfer John Davies o gyfeirio'r darllenydd oddi wrth rai enwau llysiau at enwau eraill na chawsent eu nodi yn y gwaith. Ni ddilynodd ef yr un arfer oherwydd y byddai hyn:

> ... yn seithig i'r darllennŷdd chwilio am yr henwau na bônt iw Cael.

Amrywiol restrau ac ymdriniaethau byrion ar bynciau gwahanol sy'n dilyn. Ceir rhestr Gymraeg a Saesneg, yn nhrefn yr wyddor, o enwau gwledydd, gosgorddion, dinasoedd, trefi a gwahanol lefydd eraill ym Mhrydain a thramor. Dywed Thomas Jones iddo godi'r enwau o lyfr Humphrey Llwyd o Ddinbych, sef *Commentarioli Descriptionis Britannicae Fragmentum* a gyhoeddwyd ym 1572.[161] Er bod Thomas Jones yn feirniadol o'r Cymry a ddefnyddiai "Saesneg Candrell", mae'n amlwg ei fod yn ymwybodol o'r manteision o ddysgu Saesneg oherwydd ysgrifennodd '*Athrawiaeth i darllen ddysgu Saesneg*' ac fe'i cynhwysodd yn *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb*. Canolbwyntir yn bennaf ar sut y dylid ynganu a sillafu'r llythrennau hynny:

> ... sŷdd yn rhagori neu yn newidio eu sŵn a'u yspeliad yn y Saesneg oddiwrth y ffordd gymreig.

Ceir hefyd ar ddiwedd y gyfrol, drafodaeth ar yr '*Orddiganau*', sef yr acen grom a'r defnydd a wneir ohoni yn y Gymraeg. Tybiai Jones na châi'r acen grom ei gweld mor aml ag y dylai hi mewn llyfrau Cymraeg oherwydd bod angen llythrennau arbennig ar argraffwyr, llythrennau a oedd yn gostus iawn. Yn ei eiriadur ef ei hun, dywed fod yr acen grom i'w gweld yn amlach nag mewn unrhyw lyfr arall a welodd ond er hyn nid oeddent mor niferus ag y dylent fod, yn enwedig uwchben 'y'. Ymdriniaeth ddwyieithog ar atalnodau ac ar '*dorriadau Geiriau*', sef talfyrru geiriau, sy'n dod nesaf a cheir rhestr gan Thomas Jones o lyfrau'r Beibl wedi'u talfyrru a'r "llythyrennau am raddau dysgeidiaeth yn Lading". Ceir hefyd adrannau ar symbolau sywedyddiaeth a meddygaeth, symbolau mathemateg, y nodau a geir mewn llyfrau, cyfeirnodau, y dull o rifo tudalennau llyfr yn ei ddydd ef ac adran ar ddefnyddio prif lythrennau.

Ar ddiwedd y gyfrol, rhestrir y beiau y sylwodd Thomas Jones arnynt yn y geiriadur a'r llysieulyfr. Er iddo gymryd gofal wrth baratoi'r gwaith, erys beiau o hyd ond dywed nad ef yn unig oedd ar fai amdanynt. 'Roedd yr argraffwyr, gan eu bod yn anghyfarwydd â'r Gymraeg, wedi creu:

> ... rhai beiau ynddo (ar ôl i mi ei gyryddu) drwŷ dynnu allan lythrennau, a rhai geiriau a'u pellenau heb eu rhoddi yn eu llê drachefen fel y dylent ...

---

161 Humphrey Llwyd, *Commentarioli Descriptionis Britannicae Fragmentum* (Llundain, 1572).

Cyn i Ddeddf Drwydded 1662 gael ei diddymu, rhywbeth gweddol gyffredin oedd gweld gwallau argraffwyr Llundain, Rhydychen a Chaergrawnt mewn llyfrau Cymraeg. Arfer gweddol gyffredin hefyd felly oedd bwrw bai ar yr argraffwyr hynny, yn union fel y gwnaeth Jones. Serch hynny, mae cryn nifer o wallau o eiddo'r awdur ei hun yn y geiriadur hefyd ac efallai bod mwy o fai arno ef nag a sylweddolodd. Beirniadwyd ef am y beiau sydd yn y geiriadur, gan gynnwys y camddefnydd o'r gair "ceryddu", yn lle "golygu" neu "cywiro", yn y dyfyniad uchod (er bod "ceryddu" yn cyfieithu 'correct'!)[162] Er na ellir achub cam Thomas Jones, gellir honni nad yw safon y math o Gymraeg sydd i'w gweld yn *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb* ond yn adlewyrchu cyflwr yr iaith ar ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg.[163] I gloi, dywed Jones fod ganddo eiriadur arall, parod i'w gyhoeddi. Serch hynny, dyn busnes craff ydoedd ac un a fyddai'n pwyso a mesur pob menter yn ofalus cyn ymestyn i'w boced.[164] Rhag ofn y byddai ar golled, nid oedd yn barod i gyhoeddi'r geiriadur arall a oedd ganddo nes gweld sut ymateb a gâi'r geiriadur presennol:

> Another Dictionary of English and British ; or the English before the Welch is now composed ready for the Press, and will be Printed within a small time if the sale of this will give encouragement thereunto. If not, I shall chuse to loose the trouble and charges I have been at already, rather than run the hazard of am Impression to an improbability of Sale.

O safbwynt ysgolheictod, nid oes llawer o arwyddocâd i eiriadur Thomas Jones ac ymddengys mai ymateb digon oeraidd a gafodd gan wŷr deallus ac ysgolheigion y ddeunawfed ganrif.[165] Wfftiodd Moses Williams ymdrechion Thomas Jones. Iddo ef, gŵr annysgedig, twyllodrus a wnâi honiadau ffug ydoedd. Gwawdiodd Williams ef am iddo honni bod ei eiriadur yn cynnwys mwy o eiriau nag a gafwyd yng

---

[162] William Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry: yn cynnwys hanes y llyfrau a gyhoeddwyd yn yr iaith Gymraeg, ac mewn perthynas i Gymru a'i thrigolion, o'r flwyddyn 1546 hyd y flwyddyn 1800; gyda chofnodau bywgraffiadol am eu hawduron, eu cyfieithwyr, eu hargraffyddion, a'u cyhoeddwyr. Gyda chwanegion a chywiriadau gan y Parch. D. Silvan Evans* (Llanidloes, 1869), t.242; Charles Ashton, op. cit., t.70.

[163] Owen Davies, 'Geiriadurwyr Cymreig, a'u Geiriaduron', *Y Geninen*, 26 (1908), t.106.

[164] Geraint H. Jenkins, op. cit., t.91.

[165] G. J. Williams, 'Rhai Agweddau ar Hanes Llenyddiaeth ac Ysgolheictod Cymraeg yn y Ddeunawfed Ganrif, gan gynnwys Hanes yr Eisteddfod a'r Orsedd hyd at 1858', yn Aneirin Lewis (gol.), *Agweddau ar Hanes Dysg Gymraeg: Detholiad o Ddarlithiau G. J. Williams* (Caerdydd, 1969), t.88-89.

ngeiriadur John Davies a dirmygodd y gwallau orgraffyddol a'r diffyg graen ar y gwaith.[166] Nid oedd y geiriadur yn rhyngu bodd y Morrisiaid ychwaith. Beirniadodd William Morris y "Llysieu-lŷfr Cymraeg a Saesneg" a ddaw ar ddiwedd y geiriadur mewn llythyr dyddiedig 2 Ionawr 1746 at Richard Morris, ei frawd:

> Cywilyddus y taflodd Tomos Jones enwau llysiau ar draws eu gilydd heb na synwyr na chynghanedd ...[167]

Er yr holl feirniadu, rhaid cadw mewn cof nad creu geiriadur ar gyfer ysgolheigion oedd bwriad Thomas Jones. Dylid cofio hefyd bod y gwaith wedi cael derbyniad ffafriol gan eraill. Dyma awgrymiadau Stephen Hughes er enghraifft:

> Mi a gynghorwn ir sawl sydd yn chwennych dyscu darllen cymraeg, i brynu Primer ac Almanack Mr. Thomas Jones; canys y mae'r Llythyrennau a'r Sylafftau ynddynt; fel na bo iddynt syblachad a diwyno y Catechism, a elwir sail y Grefydd Gristianogawl, a phethau da eraill wedi eu pwytho gydag ef, ac a ddaw ar fyrder i'r wlâd; nid yn vnic er mwyn Plant, ond hefyd er mwyn Pobl oedranus; fel y gallont ddeall Gwyddorion Crefydd yn well, a byw yn fwy cyfattebol iddynt.[168]

ac erbyn 1752, 'roedd William Morris yntau wedi newid rhyw ychydig ar ei farn am Thomas Jones. Mewn llythyr dyddiedig 7 Mai at ei frawd, Richard, mae'n sôn am Siôn Edwart y Cowper o blwyf Llanfihangel tre'r Bardd ac mae'n dweud:

> ... at yr hwn y byddai'n myned lanciau'r plwyf i ddyscu darllain gwaith Domos Jones y sywedydd, argraphydd, etc. Hen ddynan oedd Tomas yntau a wnaeth lawer o lês er cymaint ei anwybodaeth.[169]

Mae'n debyg bod tad William Morris wedi mynd at Siôn Edwart y Cowper i ddysgu darllen, oherwydd dywed:

> Pwy a wyr na bu'sech chwi a minneu yn anllythrennog oni buasai ir hen gorphyn o glorach ... addyscu i nhad, ac felly rhoddi cychwyn i'r dawn bendigaid hwnnw.[170]

Er gwaethaf amherffeithrwydd *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb*, fe'i defnyddiwyd ac fe'i gwerthfawrogwyd. Mae'n debyg bod copi o'r geiriadur yn llyfrgelloedd Owen Lloyd, Tan-y-bryn, Llanllyfni, Morys Olifer, Pennal[171] a Thomas Lloyd o Blas-is-clawdd.[172]

---

166 Gw. Geraint H. Jenkins, op. cit., t.114.

167 John H. Davies (gol.), *The Letters of Lewis, Richard, William, and John Morris of Anglesey (Morrisiaid Môn) 1728 - 1765* (Aberystwyth, 1907), Cyfrol 1, t.198.

168 Stephen Hughes, 'Rhagymadrodd', *Taith neu Siwrnai y Pererin* (Llundain, 1688). Nid os rhifau ar y tudalennau.

169 John H. Davies, op. cit., t.198.

170 Ibid.

171 Geraint H. Jenkins, op. cit., t.114.

O gofio mai bwriad Thomas Jones oedd creu geiriadur ar gyfer y werin bobl a ddymunai feistroli'r Gymraeg a dysgu geirfa Saesneg, bu'r fenter yn llwyddiant. Oni bai am ei waith ef mae'n siŵr y byddai gwybodaeth llawer o Gymry am y Gymraeg a'r Saesneg wedi bod dipyn tlotach ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif. Dymunai Jones weld y beirdd yn defnyddio'i eiriadur yn ogystal. Dywedodd ei fod wedi cofnodi geiriau a rannai'r un ystyr gyda'i gilydd a'i fod wedi nodi'r amrywiaethau mewn sillafiad geiriau oherwydd iddo ragweld y byddai hyn o fudd iddynt. Gwerthfawrogwyd ei ymdrechion oherwydd gwnaethpwyd defnydd helaeth o'r geiriadur gan feirdd a gramadegwyr y ddeunawfed ganrif.[173]

Nodais fod "Another Dictionary of English and British ; or the English before the Welch ..." yn barod i'w gyhoeddi gyda Thomas Jones pan aeth *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb* ar werth am y tro cyntaf. Ni ddaeth y geiriadur 'newydd' hwn o'r wasg ond cyhoeddwyd ail a thrydydd argraffiad o *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb* wedi marwolaeth Thomas Jones ym 1713. Ym 1760 argraffwyd y geiriadur am yr eilwaith a dyma'r manylion a nodir:

> Argraphwyd yn y Mwythig, gan Stafford Prys, tros Llywelyn ab Joan, o blwŷ Llan-ddona yn Ynys Fôn, 1760' [16 plyg, neu 8 plyg bychan : o gylch 400 o dudalenau.]

Er bod yr wyneb-ddalen yn union yr un fath â'r un a geir yn yr argraffiad cyntaf, yn hytrach na:

> A gasglwŷd drwŷ ddirfawr boen, a diwŷdrwŷdd *Tho. Jones* ...

ceir:

> A Gasglwyd ar y Cyntaf, Drwŷ ddirfawr boen, a Diwydrwydd Thomas Jones, ac yn awr a ddibennwyd, gan Richard Morris, o Lanmihangel, tre'r Beirdd yn Sir Fôn.

Mae'n debyg mai cyfrol ddiwygiedig oedd argraffiad 1760 a'i bod yn cynnwys ychwanegiadau a 'Henwau (Physygawl) Lysiau'r ddaear, Coed, a Ffrwythau Coed, yn Gymraeg a Saesnaeg [*sic*]', sef geiriau a godwyd o 'Botanologium' y *Dictionarium Duplex* gydag enwau Saesneg yn lle'r Lladin gwreiddiol.[174] Cafodd y

---

[172] E. D. Jones, 'Thomas Lloyd y Geiriadurwr', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 9 (1955-6), t.184.
[173] Geraint H. Jenkins, op. cit., t.113.
[174] William Rowlands, op. cit., t.457.

rhagymadrodd ei ailadrodd air am air ac ar y diwedd nodir enw 'Richard, ab Morus, ab Rowlant, ab Robart.' Pwy felly oedd Richard Morris, y golygydd, a Llywelyn ab Ioan o blwyf Llanddona? Priodolwyd yr ailargraffiad hwn, yn anghywir, i Richard Morris, un o'r Morrisiaid y cyfeiriwyd ato eisoes.[175] Mae'n debyg bod y teulu hwnnw'n ymwybodol o'r dryswch hwn ar y pryd oherwydd mewn llythyr dyddiedig 15 Chwefror 1762 dywedodd William Morris wrth Richard:

> Mi welais dad Owain wenieithgar echddoe yman; roedd yn dywedyd mae rhyw dailiwryn a elwir Rhisiart Morys o Lanfihangel Tre'r Bardd a ddodes allan y Geirlyfr, ni chlywswn i ermoed [*sic*] sôn am tano [*sic*]. Mi wranta ei fod yn taeru mai chwi ydyw efo, ni wn i ddim chwaneg.[176]

Cei rhagor o sôn am yr ailargraffiad yn llythyron Morrisiaid Môn. Mae'n bosib na chafodd y gyfrol ei dosbarthu ar raddfa eang iawn oherwydd ymddengys nad oedd y Morrisiaid, gwŷr a oedd mor effro i'r holl ddigwyddiadau ym mywyd llenyddol a diwylliannol yr oes, yn ymwybodol o'i bodolaeth. Mewn llythyr at Lewis ym 1762, dywed Richard:

> Just now Penllywydd called at the office ... and told me an odd story that he had seen a Welsh Dictionary, same size with Richards's, by Richard Morris of some parish in Anglesey, forgot y^e^ name, just printed at Shrewsbury. I never heard of such a thing before, and I imagine it to be a new title page for some of Richards's copies by the booksellers, to sell it for a new work. Pray do you know anything of it? Mr. Vaughan's gardiner bought one of them.[177]

Mae'n amlwg bod Richard Morris wedi gwneud ymholiadau ynglŷn â'r argraffiad oherwydd mewn llythyr diweddarach, dyddiedig 12 Mawrth 1762, dywed wrth Lewis:

> Fe ddywedir i mi rwan gan Owen Wenog ac eraill, y bu i ryw Risiart Morys, tailiwr o Lanfihangel Tre'r Bardd, gynnull arian i brintio'r geirlyfr y sydd ar ei enw.[178]

Ymddangosodd trydydd argraffiad *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb* ym 1777. Fe'i hargraffwyd yn yr Amwythig gan Stafford Prys unwaith eto. Mae'n debyg bod yr wyneb-ddalen yn union yr un fath â'r un a welir yn yr argraffiad cyntaf ond ni cheir unrhyw sôn am Richard Morris na Llywelyn ab Ioan. Fe'i cyhoeddwyd yn ôl William Rowlands:

---

175 Gw. Charles Ashton, op. cit., t.254 er enghraifft.
176 John H. Davies, op. cit., Cyfrol 2, t.445.
177 Ibid., t.440.
178 Ibid., t.456.

... gydag ychydig o wahaniaeth dibwys, gan mwyaf yn waethygiad, lle y dylasai fod yn wellâd, agos i gan mlynedd ar ol [*sic*] yr argraffiad arall.[179]

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

[179] William Rowlands, op. cit., t.582.

# Pennod 2

## 1700-1753: Y galw am eiriaduron yn ystod hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif

### (i)

### Siôn Rhydderch (1673 - 1735)

Ganed Siôn Rhydderch ym 1673 ac er i nifer honni ei fod yn frodor o Sir Aberteifi, hanai o Gemaes, yn Sir Drefaldwyn, mae'n debyg.[1] Almanaciwr ac argraffwr ydoedd ond 'roedd hefyd yn adnabyddus fel eisteddfodwr a bardd ac fel gramadegydd a geiriadurwr. Ar wahân i'w weithgarwch llenyddol a'i waith fel argraffydd, ychydig a wyddys am hanes ei fywyd, ond gan mai dilyn yn ôl troed Thomas Jones fel argraffydd Cymraeg Amwythig a wnaeth, mae rhai agweddau ar hanes eu gyrfaoedd yn debyg i'w gilydd. Ymsefydlodd fel argraffydd yn y dre honno tua 1715 ac yno y bu tan 1728. Yn nhridegau cynnar y ddeunawfed ganrif ceisiodd Lewis Morris sefydlu gwasg yn Llanerch-y-medd gan wahoddodd Siôn Rhydderch i fynd yno fel argraffwr eithr aeth y cynlluniau o chwith gan nad oedd gwŷr bonheddig Môn yn barod i ariannu'r fenter.

'Roedd bryd Siôn Rhydderch ar adfywio'r hen fywyd llenyddol ac fel Thomas Jones o'i flaen, 'roedd yn rhan o fywyd diwylliannol Cymru ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif. Y ddau hyn fu'n rhannol gyfrifol am blannu hadau'r adfywiad a gafwyd yn ystod y cyfnod hwnnw, codi darllenwyr Cymraeg a gosod patrwm a ddilynwyd gan gymdeithasau Llundain.[2] Trwy gyhoeddi nifer fawr o almanaciau, darparodd Siôn Rhydderch ddeunydd darllen ar gyfer y werin bobl a chan fod cymaint o ddarllen arnynt, daeth yn ŵr pwysig yng ngolwg y bobl gyffredin. Cyhoeddodd faledi, llyfrau crefyddol, cyfrolau o farddoniaeth a gweithiau eraill a oedd yn gysylltiedig â Chymru. Bu'n cyfansoddi barddoniaeth hefyd ac erys llawer o'i gerddi mewn llawysgrif o hyd ac mae rhai i'w gweld

---

[1] Bob Owen, 'Sion Rhydderch yr Almanaciwr, 1673-1735', *The Journal of the Welsh Bibliographical Society*, (Gorffennaf, 1930), Cyfrol 3, tt.275-278. Gw. Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953), t.834.

[2] Geraint H. Jenkins, *Thomas Jones yr Almanaciwr, 1648-1713* (Caerdydd, 1980), t.107.

mewn almanaciau.[3] 'Roedd yr S.P.C.K. yn dosbarthu llyfrau crefyddol ar raddfa eang, ddechrau'r ddeunawfed ganrif, ond gan mai Saesneg oedd iaith y mwyafrif ohonynt, 'roeddent bron yn annealladwy i'r mwyafrif o Gymry. Aethpwyd ati felly, i ddosbarthu llyfrau Cymraeg a threfnu bod cyfieithiadau'n cael eu gwneud. Ymddengys mai Siôn Rhydderch oedd un o'r rhai cyntaf i gyfieithu deunydd crefyddol o dan nawdd yr S.P.C.K. oherwydd ym 1701, cyhoeddwyd cyfrol fechan, sef ei gyfieithiad o lyfrau bychain Dr Woodward. Dyma'r gyfrol gyntaf yn Gymraeg i gael ei chyhoeddi ar gyfer y gymdeithas ac fe ddaeth hi, ynghyd â'i gyfieithiad o *Prayers before, at and after the Sacrament*, yn boblogaidd yn fuan iawn.[4]

Chwaraeodd Siôn Rhydderch ran yn nhwf a datblygiad yr eisteddfod ddiweddar yng Nghymru. Drwy grwydro ar hyd a lled y wlad yn hyrwyddo eisteddfodau bychain a chyhoeddi gwybodaeth mewn almanaciau am y rhai y bwriedid eu cynnal, ceisiodd adfer statws a safonau'r Gymraeg. Ym 1728, cyhoeddwyd ei Ramadeg, sef *Grammadeg Cymraeg o gasgliad, myfyriad, ac argraffiad John Rhydderch., ac ar werth gantho ef yn y Mwythig*. Dyma'r Gramadeg Cymraeg cyhoeddedig cyntaf i'w ysgrifennu yn yr iaith, gan fod gramadegau blaenorol wedi eu hysgrifennu'n llwyr neu'n rhannol yn Saesneg neu yn Lladin. Addasiad Cymraeg o Ramadeg Lladin Siôn Dafydd Rhys, *Cambrobrytannicae Cymraecaeve Linguae Institutiones et Rudimenta* (1592) ydyw,[5] ac ynddo, disgrifir y drefn y dylid ei dilyn mewn eisteddfod ac fe geir gwybodaeth am gerdd dafod. Nod Siôn Rhydderch oedd adfer y safonau uchel hynny a fu'n rhan o'r traddodiad barddol dros y canrifoedd. Er i Richard Morris ei feirniadu'n hallt,[6] cafodd y Gramadeg ddylanwad mawr ar lenyddiaeth Cymru yn y ddeunawfed ganrif gan fod y beirdd wedi mabwysiadu'r safonau a osododd Siôn Rhydderch. Cyfeirid ato ef fel 'Tad Awenydd', 'Camrau Beirdd' neu 'Athro Llên'[7] ac arferid cyfarfod mewn tai preifat neu dafarndai i drafod cerdd dafod a Gramadeg Siôn

---

[3] Morgan D. Jones, 'Yr Almanaciwr: Siôn Rhydderch (1673-1735)', *Cymwynaswyr y Gymraeg* (Abertawe, 1978), t.57.
[4] Mary Clement, *The S.P.C.K. and Wales 1699 - 1740* (Llundain, 1954), t.28.
[5] Morgan D. Jones, op. cit., tt.56-7.
[6] Hugh Owen (gol.), *Additional Letters of the Morrises of Anglesey* (Llundain, 1949), Cyfrol 2, t.693.
[7] Bob Owen, op. cit., t.290.

Rhydderch.[8] Er mai dysgu'r grefft o farddoni oddi wrth ei gilydd a wnâi'r beirdd yn bennaf, 'roedd yr arfer hwnnw'n prysur edwino. Yn ddiamau, bu'r Gramadeg yn gymorth iddynt ar adeg o newid ac mae'n bosib bod y gwaith hwn wedi symbylu nifer i ymddiddori ym mhynciau cerdd dafod o'r newydd.[9] Ceir dau gyfeiriad ato yn llythyron Goronwy Owen. Yn yr un cyntaf, dywed:

> I suppose you either have or may borrow Gramadeg Siôn Rhydderch. I remember my father had one of 'em formerly, and that is the only one I ever saw, and as far as I can remember, it gave a very plain, good account of every one of 'em ...[10]

ac yn yr ail dywed pa mor ddefnyddiol oedd y gramadeg, er gwaethaf ei wendidau:

> Dyma fy hên Gyfaill anwylaf, y Parchedig Mr. Huw Williams ... wedi gyrru imi Ramadeg Sion Rhydderch i'm hyfforddio yn yr hên Gelfyddyd. Nid yw'r Gramadeg hwnw (e ŵyr Duw) ond un o'r fath waelaf; etto y mae'n well na bod heb yr un, canys y mae ynddo Engraphau o'r pedwar mesur ar hugain; ac y mae hynny'n fwy nag a welswn i erioed o'r blaen.[11]

Ym 1725 torrodd Siôn Rhydderch dir newydd unwaith yn rhagor pan gyhoeddodd *The English and Welch Dictionary*, sef y geiriadur Saesneg-Cymraeg cyntaf. Ei nod pennaf oedd galluogi darllenwyr i gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, fel y dywed ar yr wyneb-ddalen:

> The English and Welch Dictionary : or, the English before the Welch. Y Geirlyfr Saesneg a Chymraeg; Neu'r Saesneg o flaen y Cymraeg. Containing all the Words that are Necessary to understand both Languages ; but more especially, for the Translation of the English into Welch. Yn Cynwys [*sic*] yr holl Eiriau sy' angenrheidiol i ddeall y ddwy Jaith, eithr yn fwy enwedigol, i Gyfieithu'r Saesneg i'r Gymraeg. Wherein you may easily find the Welch word, or Words to every English Word. Yn mha un y bydd hawdd i chwi daro wrth air, neu Eiriau Cymraeg i bob Gair Saesneg.

Ceir tua 12,000 o brifeiriau yn y geiriadur ac mae'n debyg bod y dasg o'i lunio wedi bod yn un llafurus. Yn y rhagymadrodd, dywed mai:

---

[8] R. T. Jenkins, *Hanes Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif* (Caerdydd, 1931), t.130. Am bwysigrwydd y Gramadeg, gw. hefyd: Bedwyr Lewis Jones, 'Goronwy Owen', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1971, tt.33-35.
[9] Thomas Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg Hyd 1900* (Caerdydd, 1944), t.213.
[10] J. H. Davies (gol.), *The Letters of Goronwy Owen* (Caerdydd, 1924), t.46.
[11] Ibid., t.87.

> ... trwy ddirfawr boen a manwl chwilio hyd Lwybrau anghynefinol, a thrwy faith rwystrau attaleidig a diffygion ...

y llwyddodd i gwblhau'r gwaith. Er mai yn Amwythig yr argraffwyd y geiriadur ac yno y'i gwerthwyd, ymddengys ei fod wedi cychwyn hysbysebu am danysgrifwyr ar gyfer y gyfrol ym 1719. 1*s*. 8*d* oedd pris copïau unigol, ond câi tanysgrifwyr ostyngiad o 2*s*. y dwsin.[12] Oherwydd natur ei swydd, 'roedd gan Siôn Rhydderch gysylltiadau trwy Gymru gyfan, felly llwyddodd i ddenu 261 o danysgrifiwr ar gyfer ei eiriadur.[13] Mae'n diolch iddynt yn y rhagymadrodd trwy ddweud:

> Ac yn wir i chwi fy nghymwynasgar gydwladwyr haelionus, y mae rhwymedigaeth fy niolchgarwch am fynghynnorthwyo [*sic*] iw yrru ymlaen, onite fe fasai debyg i ddigwydd megis Plentyn y ddaethai hyd yr anedigaeth heb rym i esgor...

Dosbarthodd Geraint H. Jenkins y 261 tanysgrifiwr i saith o gategorïau sy'n dangos i ni sut fath o bobl a ymddiddorai yn yr iaith ac a ddefnyddiai'r geiriadur:[14]

(1) Noddwyr â theitl: 2

(2)Ysgwieriaid: 33 (13%)

(3) Mr: 59 (22%)

Mrs: 6 (2%)

(4) Uwch glerigwyr: 1

(5) Clerigwyr plwyf ac offeiriaid: 85 (33%)

(6) Gwŷr anhysbys: 38 (15%)

Gwragedd anhysbys: 1

(7) Amrywiol:36 (14%)

Yn ogystal, nododd Geraint H. Jenkins beth oedd galwedigaeth aelodau'r dosbarth 'Amrywiol' hwnnw o bobl a danysgrifiodd i eiriadur Siôn Rhydderch. Dyma'i restr:

Pedwar sidanydd; pedwar crwynwr; tri groser; tri chlerc; tri ecseismon; dau ysgolfeistr; dau lawfeddyg; dau rwymwr llyfrau; dau lyfrwerthwr, Twrnai Gwladol, dirprwy gofrestrydd Llanelwy, stiward, almanaciwr, gwehydd, saer, gwydrwr, haearnwerthwr, tafarnwr, lliwydd, a gof.[15] Mae Geraint H. Jenkins o'r farn bod y tri groser a'r pedwar sidanydd a danysgrifiodd i'r geiriadur, ynghyd â'r llyfrwerthwr o Wrecsam, Edward Wicksteed, a John Jones yr almanaciwr o'r

---

[12] John Rhydderch, *Newyddion oddiwrth y Ser* (1719), sig. A8v.
[13] Geraint H. Jenkins, *Literature, Religion and Society in Wales, 1660 - 1730* (Caerdydd, 1978), t.257.
[14] Ibid., t.259.
[15] Ibid., t.259

THE
ENGLISH AND WELCH
DICTIONARY:
OR,
The ENGLISH before the Welch.
Y
GEIRLYFR
SAESNEG a CHYMRAEG;
Neu 'r
SAESNEG o flaen y CYMRAEG.

Containing all the Words that are Necessary to understand both Languages; but more especially, for the Translation of the English into Welch.

*Yn Cynnwys yr holl Eiriau sy' angenrheidiol i ddeall y ddwy Faith, eithr yn fwy enwedigol, i Gyfieithu 'r* SAESNEG *i'r* GYMRAEG.

Wherein you may easily find the *Welch* word, or Words to every ENGLISH Word.

*Yn mha un y bydd hawdd i chwi daro wrth air, neu Eiriau* CYMRAEG *i bob Gair* SAESNEG.

SALOP; Printed and sold there by the Author John Roderick, 1725.

*Argraphwyd yn y* MWYTHIG, *ac a werthir yno gan yr Awdwr* JOHN HYDDERCH, MDCCXXV.

4. John Roderick, *The English and Welch Dictionary* ... (1725)

Caeau, yn siŵr o fod wedi helpu Siôn Rhydderch i ddosbarthu copïau o'r gyfrol ac wedi bod yn asiantau iddo.[16]

Er bod Siôn Rhydderch yn olynydd i Thomas Jones, ar y cyfan ychydig iawn o nodweddion tebyg sydd rhwng geiriaduron y ddau ŵr hyn. Dywed Rhydderch fod oddeutu dwy fil o eiriau Saesneg o'i gasgliad ef ei hun yn y geiriadur ynghyd â rhestr eiriau tri gŵr arall a oedd mewn llawysgrif. Un ohonynt yn unig a enwir, sef Y Parchedig Erasmus Lewes, Ficer Llanbedr Pont Steffan a Pherson Bettws Bledrws. Yr hyn sy'n cael ei nodi am ei restr ef yw ei bod hi'n cynnwys geirfa ddeheuol. Dywed Siôn Rhydderch:

> ... cewch yn yr arweiniol Eiriau gymmaint ag sy'n arferedig ym mhob parth o Ddeheubarth, ac sy ddieithrol i ni *Yngwynedd* ...

felly fe'u cynhwyswyd er mwyn i'r geiriadur fod yn ymarferol ac yn ddefnyddiol i bobl o bob rhan o Gymru. Pan luniodd Thomas Jones ei eiriadur ef, casglodd eiriau deheuol a gogleddol ac fe'u cofnododd gyda'i gilydd. Gwelir:

Cadnaw, cadno, llŵynog. *A fox.*

mewn rhestr ynghyd er enghraifft. Cofnodi geiriau deheuol a gogleddol ar wahân a wnaeth Siôn Rhydderch ac ni cheir unrhyw arwydd yn y geiriadur bod rhai o'r geiriau deheuol wedi dod o gasgliad Erasmus Lewes. Dywed yn y rhagymadrodd bod Lewes hefyd wedi ychwanegu nifer o eiriau o gasgliad Edward Lhuyd at ei restr. Er bod llawer ohonynt yn dywyll eu hystyr, penderfynodd Siôn Rhydderch eu cynnwys fel y byddent:

> ... yn wasanaethgar i ryw frô neu duedd gan mwyaf oni byddant eu gyd.

Serch hynny, ni nododd ba eiriau o gasgliad Edward Lhuyd a ddefnyddiwyd ychwaith.

Dymuniad Siôn Rhydderch oedd gweld y geiriadur yn cael ei goleddu gan y Cymry. Cyfeddyf ar ddiwedd y rhagymadrodd nad yw'r gwaith yn ddi-fai, ond gan mai hwn oedd y geiriadur Saesneg-Cymraeg cyntaf, dywed na ddylid disgwyl iddo fod yn berffaith ac na ddylid bod yn orfeirniadol ohono:

---

[16] Ibid., t.292.

> Ac ni roed orchwyl o'r fath yma ond antur allan y tro Cyntaf erioed yn ddifeius, gan hynny pwy bynnag a fyddo mwya llithiedig a pharodol i feio arno, pan gymmero ef gymmaint o boen a thrafferth arno'i hun i ddwyn ymlaen un gorchwyl ag a gymmerais i wrth hwn, nid ammheua na bydd mwy Ewyllysgar i esgusodi, ac i roi atteb hynawsedd dros bob gwall ac anaf a welo 'Ngwaith.

Er nad oedd y Gymraeg mewn unrhyw berygl difrifol yr adeg hon, âi trwy gyfnod o newid gan fod mwy a mwy o bobl yn ddwyieithog. Fel gramadegydd, 'roedd Siôn Rhydderch yn effro i newidiadau ieithyddol. Gwrandawai a sylwai'n graff ar iaith lafar y werin-bobl. Yn union fel Thomas Jones, 'roedd yntau'n ymwybodol o ddylanwad y Saesneg ar y Gymraeg a gwyddai bod llawer o Gymry'n barod i dderbyn a defnyddio'r Saesneg. Nododd er enghraifft fod y defnydd o ferfau Saesneg, megis 'iwsio' a 'repento', ar gynnydd yn ystod y cyfnod hwn.[17] Serch hynny, nid oes llawer iawn o fenthyciadau yn ei eiriadur ac nid yw wedi dynodi geiriau a fenthyciwyd o'r Saesneg trwy roi un gromfach ar eu holau, fel y gwnaeth Jones.

Rhestrodd Siôn Rhydderch eiriau yn nhrefn yr wyddor gan osod penawdau ar frig pob tudalen yn dangos llythyren gyntaf ac ail pob gair ar y tudalennau gwahanol. Dyma sut y trefnwyd cynnwys y *Dictionarium Duplex* ond ni ddefnyddiodd Thomas Jones y dechneg hon. Dyma gynnig help i'r rhai a oedd yn ansicr o'r wyddor, i gael hyd i air arbennig wrth gwrs. Nid yw Siôn Rhydderch yn nodi rhan ymadrodd ei brifeiriau fel y cyfryw, ond mae'r Saesneg 'to' yn rhagflaenu berfenwau ac yn amlach na pheidio mae 'a' yn rhagflaenu enwau. Ar y cyfan, ni nodir ffurf luosog enw ychwaith, ond mewn achosion pan yw'r lluosog yn gyffredin neu'n adnabyddus. Er enghraifft:

A Oat, *Ceirchen.*

Oats, *Ceirch.*

Yn debyg iawn i'r hyn a wnaeth Thomas Jones, dewisodd Siôn Rhydderch beidio â chofnodi pob prifair yn nhrefn yr wyddor. Yn hytrach, trefnodd rai geiriau yn ôl eu cysylltiad â phrifeiriau eraill, fel eu bod yn ymddangos fel math o isgofnodion. Gweiir er enghraifft:

---

[17] Siôn Rhydderch, [*Almanac*] (Amwythig, 1726), sig. C8v.

A Goat, Gafr, *llillen, gitten.*

A He Goat, *Bŵch syrbwch.*

To love, *Caru, hoffi, serchu.*

Brotherly love, *Brawdgarwch.*

Fel rheol, dangosir ystyron gwahanol y prifeiriau ar linellau gwahanol, er enghraifft:

To Quarter, *Arteithio, chwarteru.*

To Quarter, *Llettŷa, lletyfa.*

ond dro arall ceir math o esboniad neu estyniad ar y prifair i egluro'r ystyr yn well:

A Sheet, *Llenlliain, nithlen, llwyion, cinionen cynfas.*

A Sheet of paper, *Papur len, dalen o bappûr.*

A Sheet of Lead, *Hŵch o blwm.*

Mae elfen thesawrol yn perthyn i lawer o'r cofnodion. Efallai fod Siôn Rhydderch wedi pentyrru nifer o eiriau Cymraeg gyda'i gilydd er mwyn arbed lle yn y geiriadur. O edrych ar y cofnodion ar gyfer 'dextrous' neu 'inconstant', fe welir bod y rhestr o gyfieithiadau Cymraeg posib ar gyfer pob un yn un eithaf llawn:

Dextrous. *Rhugl, hylaw, trwyadl, deheuig, deheu, llaweddehawg, hyffordd, pedrylaw.*

Inconstant, *Anwadal, anwastad, ansafadwy, ansiwr, oriog, anystywallt, ysgafn, ysmala, ysgoegwan, teithiawg, gwammal, ansefydlog.*

Mae'n bosib hefyd mai ceisio dilyn traddodiad y beirdd ydoedd, sef y traddodiad hwnnw o gasglu cyfystyron ynghyd a llunio geirfâu.

Pan ddeuir ar draws prifair sydd yn debyg o ran ystyr, neu sydd yn gyfystyr â phrifair arall yn y geiriadur, cyfeirir y defnyddiwr at un o'r geiriau hynny'n unig - yr un a gofnodwyd gyntaf yn y geiriadur fel arfer. Yn union fel y cyfeiriodd Thomas Jones y defnyddiwr i 'edrych' am air arall, mae Siôn Rhydderch yn defnyddio'r Saesneg 'see':

A Cock-boat. See a boat.

To Glory, see to Boast.

To Match or marry, see to marry.

Plenty, see abundance.

Worthily, see deservedly.

Yng ngeiriadur Siôn Rhydderch gwelwn yr ymgais gyntaf i ddangos nifer o idiomau Saesneg wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg. Dyma rai enghreifftiau o'r ymadroddion hynny:

By and by, or out of hand. *Allan o law, yn y man, yn ddioed, yn ddiannod, yn ddiatteg, ar fyrr, yn awr hon, heboir, ar y gair.*

Hotch potch, *Cymysg o amryw bethau.*

In the twinkle of an eye, *Ar darawiad llygad.*

By all means, *Ym mhob môdd, yn ddilai.*

Off and on, *Anwadal.*

To tack about, *Chwildroi.*

Am y tro cyntaf hefyd, ceir cyfieithiad o ffurf rediadol rhai berfau, er enghraifft:

I have been. *Mi fum.*

I Was, *Mi a fum.*

I Went, *Mi a euthum, mi eis.*

Nodais eisoes bod Siôn Rhydderch yn gyfarwydd â chyfieithu o'r Saesneg a'i fod wedi trosi llyfrau i'r Gymraeg ar ran yr S.P.C.K. Mae'n bosib ei fod wedi cynnwys ffurf rediadol rhai berfau oherwydd gwyddai o brofiad fod cyfieithu ffurfiau tebyg yn peri anawsterau o bryd i'w gilydd ac mai dyma'r math o ffurfiau a gâi eu cyfieithu dro ar ôl tro.

Wrth bori trwy gynnwys *The English and Welch Dictionary*, sylweddolir yn fuan iawn mai geiriadur ar gyfer y werin bobl ydyw. Mae iaith bob dydd y Cymro cyffredin yn britho'r tudalennau:

A Dripping Pan, *Padell i dderbyn diferion cig.*

Full of worms, *Pryfedog, pryfedus.*

A Tumbrel or dung cart, *Certwyn, menn i ddwyn llwythi.*

A Washing Spatle or a Bad staff, *Golchbren, golchffon.*

Pan ymddangosodd y geiriadur gyntaf ym 1725, mae'n siŵr bod y cynnwys - ynghyd â chwirciau Siôn Rhydderch a'i ffordd o egluro ystyr rhai geiriau - wedi diddori, difyrru a rhyfeddu nifer o'r darllenwyr. Tybed beth oedd ymateb y Cymro cyffredin i'r cofnodion canlynol?

An artery, or sinew, like to a vein, wherein the spirit of Life is mixed with bloud. *Rhedweli.*

A Cackrel, a Fish so call'd because it makes it's Eaters laxative. *Pysgod yn a benwir felly, o achos i fod yn gwneuthur ei fwytawyr yn fol rhyddion, rhyn bysg.*

The Gripeing of the gutts, *Gwewyr bola, bolwst, cnofa, cyllagwst.*

A Quarter, [as of Corn,] *Llad*, hence the welch Proverb, *Rhad penllad*, that is double Measure, or double Encrease, see Dr. *Davies.*

Soccage, *Hên ffordd ar feddiant tîr, yr hon a ddalid trwy wneuthur rhyw ysmonaeth neu waith i Arglwydd y tîr.*

To Whizz, *grilian, synio fel gardiau wrth gribo, ysgortio fel rhaff wrth ei thynnu, neu linyn bwa wrth ollwng saeth, clecian fel dôr, rhingcian fel dannedd, gwichleisio.*

Yn ôl yr arfer, mae llysieulyfr Saesneg-Cymraeg yn dilyn y geiriadur - 'A Compendious Herbal: or, The Names of most of the Physical Herbs, Trees, and Fruits in English and Welch. Llysiau Lyfr Cryno. Neu Henwau y rhann fwyaf o Physygawl Lysiau'r Ddaiar, Coed a Ffrwythau Coed, yn Saesneg a Chymraeg.' Ar y dudalen flaenorol ceir llythyr annerch byr gan Siôn Rhydderch. Dywed iddo fethu â chael hyd i rai cyfieithiadau Cymraeg, yn enwedig yr enwau ar goed, planhigion a ffrwythau a dyfai mewn gwledydd tramor. Rhoddodd y llythyren 'q' wrth ochr y geiriau hynny fel y gallai'r rhai a wyddai beth oedd y geiriau priodol, eu nodi yn y gyfrol. Oddeutu 550 o brifeiriau sydd yn yr adran hon o'r geiriadur a nodir tuag 11% ohonynt â 'q'. Yn dilyn y llysieulyfr daw 'Appendix to the Herbal', sef rhestr o ychwanegiadau a diwygiadau a anfonodd Richard Evans, meddyg o Lundain, at Siôn Rhydderch, wedi i'r geiriadur gael ei argraffu. Ni chafodd Siôn Rhydderch gyfle i'w hychwanegu at ei restr ei hun wrth gwrs, ond penderfynodd ei chynnwys fel atodiad yn y geiriadur. Ymddengys bod canran uchel o'r geiriau yn rhestr Richard Evans yn cyd-fynd â'r rhai a ddynodwyd â'r llythyren 'q' yn y llysieulyfr. Mae'n bosib bwrw amcan felly, bod Siôn Rhydderch wedi ymgynghori ag Evans ynglŷn â'r enwau hynny nad oedd ganddo gyfieithiad Cymraeg ohonynt, ei fod yntau wedi paratoi rhestr ar ei gyfer, ond iddo'i hanfon yn ôl at Rhydderch yn rhy hwyr. Mae'r ffaith fod 'q' yn dal i ddilyn rhai enwau yn

yr atodiad yn cadarnhau'r ddamcaniaeth hon. Mae ambell i gofnod yn atodiad Richard Evans i'w weld yn y llysieulyfr ei hun, ond nid ailadrodd sydd yma. Mae Evans yn cynnig cyfieithiadau Cymraeg eraill, cyfieithiadau amgen i'r hyn sydd gan Rhydderch.

Mae hi'n anodd gwybod sut ymateb a gafodd y geiriadur gan y cyhoedd ym 1725. Yr hyn a fyddai'n debygol o ddenu beirniadaeth fyddai llythyraeth garbwl Siôn Rhydderch. Lleisiodd D. Silvan Evans ei gwyn am y gwaith:

> Y mae y papyr yn hynod o wael, a'r argraffwaith yn gynllun perffaith o anghywirdeb a bwnglerwch.[18]

Fel y gellir disgwyl, ni phlesiodd y llysieulyfr ryw lawer ar y Morrisiaid. Beirniadodd William Morris lysieulyfr Siôn Rhydderch fel y beirniadodd y llysieulyfr a geir yn *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb*. Cwynodd bod Thomas Jones a Siôn Rhydderch yn:

> ... confounding one plant for another and playing the vengeance.[19]

Ym 1731, daeth ailargraffiad o'r geiriadur o wasg Thomas Durston, sef olynydd Thomas Jones fel argraffydd a llyfrwerthwr Amwythig. Ar yr wyneb-ddalen dywedir mai gwaith a ddechreuwyd gan Siôn Rhydderch ydoedd a bod y Parch. John Williams, Person Plwyf Willey yn sir Amwythig, wedi ychwanegu ato a'i gwblhau. Ceir cyfeiriad brysiog at yr ailargraffiad hwn yn llythyr William Morris at ei frawd Richard, ar 26 Chwefror 1745. Dywed William nad oedd yn llawer mwy o faint na geiriadur gwreiddiol Siôn Rhydderch:

> I really can't tell what Rhydderch's Dictionary 2nd edition cost. I never saw but one of 'em; it didn't seem much larger that the 1st.[20]

Mewn llythyr arall, mae'n amlwg unwaith eto nad oedd Lewis yn meddwl llawer o'r argraffiad cyntaf na'r ail:

> There was a rascally 2nd. edition of Rhydderch's printed at Shrewsbury, worse, if possible, than the first, done, I think, by one Williams, a clergyman ...[21]

---

[18] Llawysgrif Caerdydd 343.
[19] John H. Davies, (gol.), *The Letters of Lewis, Richard, William, and John Morris of Anglesey (Morrisiaid Môn) 1728 - 1765* (Aberystwyth, 1907), Cyfrol 1, t.174.
[20] Ibid., t.89.

Ym 1737 ymddangosodd argraffiad diwygiedig arall o wasg Durston. Oddeutu 14,000 o brifeiriau sydd ynddo, sef dwy fil yn fwy nag a geir yn yr argraffiad cyntaf. Yn union yr un fath ag *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb*, ceir wyneb-ddalen Gymraeg a Saesneg yn y geiriadur hwn. Ar yr wyneb-ddalen honno ac yn y rhagymadrodd, mae Durston yn nodi mai'r Parchedig John Williams fu'n gyfrifol am gywiro'r gwaith gwreiddiol a'i fod wedi ychwanegu bron i chwe chant o eiriau Saesneg a Chymraeg newydd ato. Gobeithiai y byddai'r argraffiad hwn:

> ... yn Foddlonrwydd mawr i'r Sawl a chwennychont goleddu a chadw y Dafodiaeth Gymraeg yn ei Phurdeb a'r Chywreinrwydd...

Rhwng y geiriadur ei hun a'r llysieulyfr ceir 'Errata', lle mae Thomas Durston yn honni, wedi iddo gyfri'r holl eiriau yn ei gyfrol newydd, nad chwe chant o eiriau a ychwanegwyd, ond dwy fil. Yn y 'Compendious Herbal', ceir tua 480 gair, sef mymryn yn llai na'r hyn a geir yn llysieulyfr gwreiddiol argraffiad 1725. Er bod Richard Evans wedi anfon rhestr ddiwygiedig, lawnach, o enwau planhigion, coed a ffrwythau at Siôn Rhydderch ac er bod y rhestr honno wedi ei hargraffu fel 'atodiad' yn yr argraffiad cyntaf, ni chafodd y llysieulyfr ei ddiweddaru na'i olygu cyn cyhoeddi argraffiad 1737. Mae'r llythyren 'q' i'w gweld wrth ochr yr un geiriau ac mae cynnwys yr atodiad yr un fath.

Er gwaethaf gwendidau a gwallau amlwg *The English and Welch Dictionary*, mae'r gwaith yn haeddu canmoliaeth. Wrth gyfansoddi, gallai'r beirdd ddefnyddio'r llyfr bach, hwylus i gael hyd i eirfa addas a chan mai hwn oedd yr unig eiriadur Saesneg-Cymraeg tan ymddangosiad cyfrol William Evans ym 1771, mae'n rhaid ei fod yn ddefnyddiol i'r rhai a ddymunai ddarllen neu gyfieithu'r Saesneg yn hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif. Er na wyddys sawl copi o'r geiriadur a argraffwyd, mae'r ffaith daethai tri argraffiad o'r wasg yn brawf o'i boblogrwydd a'r galw a fu amdano.

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

---

[21] Ibid., t.87.

## (ii)

## Edward Lhuyd a'r Offeiriaid Llengar

'Roedd Edward Lhuyd (1660? - 1709) yn hanfod o deulu uchelwrol o Sir Ddinbych, teulu a fu'n noddi beirdd yn ystod yr Oesoedd Canol.[22] Edward Lloyd, sef tad-cu Edward Lhuyd, oedd yr olaf i gynnal y traddodiad hwn, felly pan fu farw ef ym 1634 daeth yr arfer o noddi beirdd i ben yn y teulu.[23] Gan nad oedd tad Lhuyd yn ymddiddori yn y diwylliant Cymraeg gallwn dybio i Edward gael ei fagu y tu allan i draddodiad llenyddol Sir Ddinbych. Yn ôl Brynley F. Roberts:

> Arall oedd ei fyd ef, gwyddoniaeth arbrofol newydd ei ddydd, ac yn yr awyrgylch hwnnw y magwyd Lhuyd, nid ym myd beirdd a thelynorion.[24]

Ymddengys nad oedd Edward Lhuyd yn ymddiddori mewn geirfa'r iaith a hen lenyddiaeth pan oedd yn ifanc. Ym 1693 er enghraifft, dywedodd wrth John Lloyd o Ruthun:

> I have had no opportunity of perusing British MSS ...[25]

a chyfaddefodd wrth Humphrey Wanley, ym 1703:

> I am but a stranger to the Cotton Library, as indeed to most others.[26]

Mae'n debyg bod tad Lhuyd yn awdurdod ar herodraeth ac achyddiaeth ond nid ymddengys bod Lhuyd wedi dangos diddordeb yn y meysydd hynny ychwaith. Wedi dweud hyn, rhaid cadw un peth pwysig mewn cof. Awgrymodd G. J. Williams fod:

> ... rhyw gymaint o'r hen bethau, yr hen ddiddordebau ysgolheigaidd Cymraeg yn yr awyr ...[27]

---

[22] Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953), tt.529 - 30.
[23] Brynley F. Roberts, 'Edward Lhuyd y Cymro', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 24 (1985), tt.71-72.
[24] Ibid. t.72.
[25] R. T. Gunther, *Life and Letters of Edward Lhwyd, Early Science in Oxford, 14,* (Rhydychen, 1945), t.195.
[26] Ibid., t.479.
[27] G. J. Williams, 'Edward Lhuyd a Thraddodiad Ysgolheigaidd Sir Ddinbych', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 6, t.45.

yn yr ardal lle magwyd ef. Er bod yr hen draddodiadau wedi dirywio erbyn cyfnod Lhuyd ac er iddo gael ei fagu y tu allan i'r traddodiadau hynny, camgymeriad fyddai tybio nad oedd yn ymwybodol ohonynt.

Ymaelododd Lhuyd â Choleg Iesu Rhydychen ar 31 Hydref 1682, pan oedd yn un ar hugain mlwydd oed ac yno y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes tan ei farwolaeth ym 1709. Dyma gyfnod disglair yn hanes dysg Seisnig. Yn Rhydychen yr astudiwyd hanes Lloegr ac yno y golygwyd hen destunau, croniclau a dogfennau eraill o'r Oesoedd Canol. Ar ôl mynd i Rydychen, daeth Lhuyd yn aelod o'r gymdeithas ysgolheigaidd hon a datblygodd yn ŵr amryddawn a thalentog a ymddiddorai mewn astudiaethau botanegol a daearegol yn anad dim arall. Gofynnodd Frank Emery'r cwestiwn: sut a phryd ddechreuodd Lhuyd ymddiddori yn hanes iaith a llenyddiaeth Cymru a'r gwledydd Celtaidd?[28] Atebodd drwy ddweud:

> Gwelir yr ateb yn y modd llwyddiannus y dysgodd oddi wrth yr efrydwyr amlwg a oedd yn byw ac yn gweithio gydag ef yn Rhydychen ac a astudiai Loegr yr hen gyfnod a'r cyfnod canol, ei hynafiaethau, ei hiaith a'i hanes.[29]

Y gwŷr hyn fu'n meithrin datblygiad Edward Lhuyd fel ysgolhaig Cymraeg a Cheltaidd galluog iawn. Dylanwadasant arno, a chydag amser dylanwadodd Lhuyd arnynt hwythau. Arferai ysgolheigion eraill ymgynghori ag ef pan drafodent agweddau ar Gymru, y Gymraeg, tafodieithoedd, yn ogystal â'r gwledydd Celtaidd ac o dipyn i beth daeth yn adnabyddus fel awdurdod dibynadwy ar y pynciau hyn. Cafodd Lhuyd ei ysbrydoli i ymddiddori fwyfwy yn hanes a llên Cymru gan y cwestiynau parhaus a ofynnwyd iddo. Penderfynodd newid cyfeiriad ac yn ôl G. J. Williams:

> ... penderfynodd wneud i Gymru yr hyn a wnâi'r ysgolheigion Saesneg hyn i astudiaethau Saesneg.[30]

Credir bod y newid cyfeiriad hwn, pan ddechreuodd Edward Lhuyd fagu diddordeb yn hanes ei iaith a'i wlad ei hun, wedi digwydd tua 1690.[31]

---

[28] Frank Emery, *Edward Lhuyd F.R.S. 1660 - 1709* (Caerdydd, 1971), t.70.
[29] Ibid.
[30] G. J. Williams, 'Edward Lhuyd: Yr Ysgolhaig Celtaidd', *Y Traethodydd*, 130 (1975), t.55.
[31] D. Ben Rees, 'Edward Lhuyd', *Enwogion Pedair Canrif (1400 - 1800)*, (Abertawe, 1978), t.58.

Yn ystod y cyfnod hwn, digwyddodd un peth a gyd-darodd gyda'r diddordeb newydd hwn a oedd ganddo mewn hanes ac iaith. Tybir bod y trobwynt pwysicaf a ddigwyddodd yn hanes gyrfa ysgolheigaidd Edward Lhuyd wedi digwydd ym 1693, pan oedd Edmund Gibson y paratoi argraffiad newydd o *Britannia* Camden.[32] Awgrymodd William Nicolson, ysgolhaig, Esgob Caerliwelydd ac un o gyfeillion mwyaf Edward Lhuyd, enw Lhuyd i Edmund Gibson fel rhywun a allai weithio ar y prosiect i drefnu a chywiro'r adran ar Gymru yn *Britannia*. Anfonodd Gibson wahoddiad at Lhuyd ar 15 Ebrill 1963. Ei orchwyl oedd ysgrifennu nodiadau ar siroedd Cymru, felly cynigiodd Lhuyd ysgrifennu nodiadau ar dair sir, sef Sir Ddinbych, Sir Feirionydd a Sir Drefaldwyn.[33] Cyhoeddwyd *Britannia* ym 1695 a chafodd Lhuyd ei gymeradwyo am y gwaith ardderchog a wnaeth o ychwanegu gwybodaeth am Gymru.[34] Wrth sôn am *Britannia* dywedodd Frank Emery:

> ... bu iddo arwyddocâd y tu hwnt i bwysigrwydd y gwaith, a hynny mewn dau gyfeiriad. Fe'i hargyhoeddwyd o'r fantais o gasglu'r wybodaeth ei hun drwy'r dulliau gwaith a fabwysiadodd ar ei gyfer yn 1693, yn enwedig y rhwydwaith o ohebwyr lleol a chynorthwywyr a sefydlodd drwy Gymru, ynghyd â'r gwaith maes a wnaeth ar ei daith drwy Gymru. Yn yr adolygiad o'r *Britannia* gwelodd y posibilrwydd o gynllun llawer mwy uchelgeisiol, â'r defnydd i gyd am Gymru. Mewn geiriau eraill, dangosodd i Lhuyd yr hyn a ellid ei wneud a'r ffordd o'i wneud, ac yn ogystal amlygodd y diddordeb a'r gefnogaeth a fyddai i'r fenter yng Nghymru (ac yn arbennig yng Ngholeg Iesu.)[35]

Gwelsai Edward Lhuyd fanteision o weithio ar yr argraffiad newydd o *Britannia* cyn iddo gael ei gyhoeddi ac ystyriai'r gorchwyl yn fan cychwyn gwaith llawer mwy pwysig a chynhwysfawr. Cawsai'r syniad o greu cyfrolau am Gymru a'r gwledydd Celtaidd eraill a sylweddolodd y gallai ddefnyddio deunydd *Britannia* eto ar gyfer ei gyfrol ei hun. Mewn llythyr at Martin Lister dywedodd:

> ... because upon this occasion I may pick up some materials from y^e gentry and clergy which may prove usefull an other time.[36]

---

[32] Ibid.
[33] R. T. Gunther, op. cit., t.9.
[34] Ibid., t.261.
[35] Frank Emery, op. cit., t.14.
[36] R. T. Gunther, op. cit., t.193.

Yn ogystal, gobeithiai gael cefnogaeth gwŷr bonheddig. Soniodd wrth John Lloyd:

> If what we doe now, will prove worth acceptance; something more material may be attempted hereafter, especially if some of our more judicious and learned Gentm. shall be disposed to favour it ...[37]

a dywedodd wrth Martin Lister:

> If I gain any credit by this: its not unlikely but our Gentry may be hereafter willing to encourage something more considerable.[38]

Gobeithiai Edward Lhuyd felly, y byddai *Britannia* yn cynyddu'r galw am waith mwy swmpus ar Gymru ac y byddai'n darbwyllo boneddigion yng Nghymru i'w noddi.[39] Felly y bu. Ar ôl cyhoeddi *Britannia* ysgogwyd gwŷr yn Rhydychen a Chymru, yn enwedig gwŷr Morgannwg, i ariannu gwaith ymchwil a fyddai'n arwain at gyhoeddi llyfr ar hynafiaeth, daearyddiaeth, byd natur ac iaith yng Nghymru.[40] Anfonodd Edward Lhuyd lythyr at John Lloyd i ddweud wrtho:

> Some gentlemen in Glamorganshire have invited me to undertake a *Natural History of Wales* ...[41]

Sbardunwyd Edward Lhuyd yn ystod haf 1695 gan y gwahoddiad oddi wrth y "gentlemen in Glamorganshire". Aeth ati i lunio cynllun o'r gyfres fawr o gyfrolau y bwriadai ei chyhoeddi ac ym mis Tachwedd 1695 argraffwyd ei argymhellion yn "A Design of a British Dictionary, Historical and Geographical; With an Essay entitl'd 'Archaeologia Britannica'; And a Natural History of Wales."

Er nad oedd gan Edward Lhuyd syniadau hollol bendant ynglŷn â chynnwys ei gyfrolau, dywedodd ei fod am baratoi Geiriadur Hanesyddol a fyddai'n cofnodi holl ffigurau pwysig Hanes Prydain ac awduron Cernyw a Llydaw i gyd. 'Roedd am greu Geiriadur Daearyddol yn cynnwys pob enw lle ym Mhrydain a ddefnyddiwyd gan y Rhufeiniaid yn ogystal ag enwau'r holl drefi a phentrefi, enwau cartrefi'r uchelwyr ac enwau mynyddoedd ac afonydd hefyd. Bwriadai

---

[37] *Archaeologia Cambrensis*, 1848, t.244.
[38] Llawysgrif Lister 36, fol. 98.
[39] R. T. Gunther, op. cit., t.12.
[40] Frank Emery, 'Edward Lhuyd and *A natural history of Wales*', *Studia Celtica*, 12/13 (1977/78), t.250.

ddangos y cyfieithiadau ohonynt hefyd os oedd hynny'n bosib. Yn ogystal, 'roedd yr *Archaeologia Britannica* i gynnwys astudiaeth o'r ieithoedd Celtaidd, gydag adrannau ar lawysgrifau Cymraeg, Gwyddeleg a Llydaweg, llên gwerin, arferion, ofergoelion, olion hynafiaethol, hanes trigolion cynnar a hanes byd natur Cymru. Dywedodd y byddai'n cyhoeddi'r geiriadur mewn pum mlynedd, yr *Archaeologia Britannica* mewn saith mlynedd a'r *Natural History*:

> I ... shall endeavour to prepare the Dictionary for the Presse within the Space of five years, and the Archæologia within two years after at farthest ...[42]

Dechreuodd Lhuyd ar y gwaith ym 1696 ac o hynny ymlaen treuliodd fwy o amser yn ymhél â llawysgrifau. Rhoddai ysgolheigion Lloegr drefn ar lawysgrifau a'u catalogio ond 'roedd y sefyllfa yng Nghymru yn wahanol iawn. Cadwyd llawer iawn o'r llythyron a dderbyniodd Lhuyd gan eraill ac mae cynnwys rhai o'r rheiny yn brawf o ddirywiad.[43] Gwelir nad oedd nifer o'r Cymry a ymddiddorai yn llenyddiaeth Gymraeg yn llwyr werthfawrogi'r llawysgrifau a oedd ar glawr. Sylweddolodd Lhuyd fod angen catalog. 'Roedd llawysgrifau mewn llyfrgelloedd ar hyd a lled y wlad felly dyma ddechrau gosod trefn arnynt a chyhoeddi mynegai o'u cynnwys. Bu'n gohebu ag offeiriaid, mân foneddigion a pherchnogion casgliadau o lawysgrifau er mwyn casglu gwybodaeth amdanynt ac aeth ar deithiau trwy Gymru hefyd gyda'r bwriad o ddod o hyd i hen lawysgrifau, eu casglu a'u copïo. Llwyddodd i greu diddordeb mawr mewn llawysgrifau ymysg y Cymry ac ysbrydolodd nifer i ddechrau eu copïo.[44] Ymddengys bod Lhuyd wedi gwneud cryn ymdrech i weld cymaint o lawysgrifau â phosib oherwydd ym 1697 dywedodd wrth Thomas Tanner ei fod wedi gweld gwaith y mwyafrif o'r awduron a nodwyd yng ngeiriadur John Davies.[45] Wrth astudio hen lawysgrifau sylweddolodd Edward Lhuyd fod angen geiriadur mwy cynhwysfawr na *Dictionarium Duplex* John Davies.[46] Pan ddechreuodd astudio barddoniaeth gynnar a rhyddiaith yr Oesoedd Canol sylweddolodd ei hun pa mor bwysig oedd gwneud gwaith geiriadurol. Nid oedd

---

[41] *Archaeologia Cambrensis*, 1860, t.179.
[42] R. T. Gunther, op. cit., t.13.
[43] G. J. Williams, 'Edward Lhuyd', *Llên Cymru*, 6, (1960 - 61), t.133.
[44] Ibid., t.134.
[45] R. T. Gunther, op. cit., t.347.
[46] Morgan D. Jones, 'Yr Hynafiaethydd: Edward Lhuyd (1666 - 1709)', *Cymwynaswyr y Gymraeg* (Abertawe, 1978), t.47.

modd i unrhyw un a ddymunai ddarllen hen lawysgrifau wneud hynny heb ganllawiau ac ni ellid eu deall ychwaith heb feistroli geirfa arbennig. Yn ôl G. J. Williams, aeth Lhuyd a'i gynorthwywyr ati i:

> ... ymgymryd â'r un gorchwyl â hen eiriadurwyr ei wlad ef, Richard Langford, Roger Morris, Thomas Wiliems, John Davies a David Powel.[47]

Yn ystod y cyfnod hwn, 'roedd ysgolheigion yn Lloegr yn cyhoeddi geiriaduron Anglo-Sacsoneg felly mae'n bosib hefyd bod Lhuyd yn ceisio efelychu gweithgareddau gwŷr dysgedig eraill. Cychwynnodd Lhuyd ar daith fawr ar draws y gwledydd Celtaidd ym mis Mai 1697, taith a ddaeth i ben ym 1701. Ar ôl dychwelyd anfonodd dau o'i gynorthwywyr - William Jones a Hugh Griffiths - i lyfrgelloedd yn Llundain i gopïo llawysgrifau ac i gasglu enwau priod, enwau lleoedd a dogfennau Lladin.[48] Nod Lhuyd oedd:

> ... casglu enwau priod a oedd yn fwyaf cyffredin ym mhob plwyf yng Nghymru, pa hen enwau a oedd wedi goroesi, fel Tanglwst, Tudful, Lliwelydd, Dyddgu, Gwenhwyfar, etc., enwau a geir yng nghofrestri plwyfol Morgannwg ...[49]

fel y byddai ganddo ddeunydd ar gyfer y Geiriadur Hanesyddol a Daearyddol.

Cyhoeddwyd cyfrol gyntaf *Archaeologia Britannica*, cyfrol a rennir yn adrannau, ym 1707.[50] Cafodd dderbyniad arbennig o dda gan ysgolheigion a ieithegwyr a bellach, ystyrir y gyfrol fel:

> ... dechrau cyfnod newydd ym maes ysgolheictod Cymreig ...[51]

Un gyfrol yn unig a gyhoeddwyd, er bod gan Lhuyd gynlluniau am gyfres o gyfrolau. 'Roedd Lhuyd yn dal i weithio ar *Archaeologia Britannica* pan fu farw. Ar ôl ei farwolaeth cadwyd ei lawysgrifau a'r defnyddiau a gasglodd yn llyfrgell Syr Thomas Seabright, ond yn anffodus, llosgwyd y mwyafrif o'i gasgliadau

---

[47] G. J. Williams, 'Edward Lhuyd a Thraddodiad Ysgolheigaidd Sir Ddinbych', op. cit., t.53.
[48] G. J. Williams, 'Edward Lhuyd', op. cit., t.135.
[49] Ibid.
[50] Edward Lhuyd, *Archæologia Britannica, giving some account additional to what has been hitherto Publish'd, of the Languages, Histories and Customs of the Original Inhabitants of Great Britain: From Collections and Observations in Travels through Wales, Cornwal, Bas-Bretagne, Ireland and Scotland* (Oxford, 1707).
[51] Geraint Jenkins, 'Adfywiad yr Iaith a'r Diwylliant Cymraeg 1660 - 1800', *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb: Yr Iaith Gymraeg cyn y Chwyldro Diwydiannol*, (gol.) Geraint H. Jenkins (Caerdydd, 1997), t.372.

Cymraeg ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac ni wyddys sawl cyfrol a ysgrifenasai.

I Edward Lhuyd 'roedd astudio tafodieithoedd yn bwysig wrth geisio dangos y cysylltiad rhwng yr ieithoedd Celtaidd. Yn union fel William Salesbury, Thomas Wiliems a John Davies o'i flaen, nid ystyriai Lhuyd fod geiriau tafodieithol yn ffurfiau llygredig. Yn rhai o adrannau'r *Archæologia Britannica* – y 'Comparative Etymology', 'Comparative Vocabulary of the Original Language of Britain and Ireland' a 'British Etymologicon' – nodir geiriau tafodieithol yn aml iawn er mwyn dangos cysylltiad rhwng yr ieithoedd.[52] Teitl pumed adran *Archaeologia Britannica* yw: 'Some Welsh words omitted in Dr Davies's Dictionary'. Nododd Lhuyd mai 'Additions written by Dr. Davies himself in the Margin of his Dictionary' - a gafwyd o law Humphrey Foulkes a William Baxter - ynghyd â geiriau a godasai o lawysgrif Henry Salesbury ac o lawysgrifau a gweithiau eraill oedd cynnwys yr adran hon.[53] Nododd hefyd iddo fanteisio ar y cyfle i'w cyhoeddi yn y gyfrol:

> ... many of them being Words well known to be Authentic, and all coming from such Hands, I thought this opportunity of preserving them was not to be omitted.

Cofnododd ffynonellau'r geiriau'n ofalus trwy nodi'r llythyren 'S' wrth ochr y rhai a godwyd o lawysgrif Henry Salesbury, 'V' wrth ochr y rhai a godwyd o hen restr eiriau yng nghasgliad Robert Vaughan yr Hengwrt a 'D' wrth ochr y geiriau godwyd o gopi John Davies o'r *Dictionarium Duplex*.. Oddeutu 1,500 o eiriau sydd yn yr adran hon a chan y llythyren 'S' y dynodir llawer iawn ohonynt. Mae darn o farddoniaeth, rhyddiaith neu adnod yn dilyn ambell gofnod, er mwyn dangos y prifair mewn cyd-destun. O bryd i'w gilydd, ceir nodiadau ychwanegol gan Lhuyd, nodiadau sydd, yn aml iawn, yn rhoi cip i ni ar Edward Lhuyd y naturiaethwr. Er enghraifft:

Mygn [& Migin] *Mire.* S. *A mossy mountain bog &c.* Lhe ni bydh migin e vydh maen. Ll. Hên. *It seems to signify properly the white moss common on bogs and moist places; viz Muscus aquaticus stellatus.*

---

[52] G. J. Williams, 'Edward Lhuyd', op. cit., t.131.

[53] Mary Burdett-Jones, 'Dau eiriadur Henry Salesbury', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 26 (1990), tt.241-250.

Bu cynorthwywyr Lhuyd yn casglu geiriau tafodieithol drosto ar gyfer yr adran hon. Fe'u cynhwysodd hwy ac fe nododd ym mha ardal yr arferid hwy, er enghraifft:

Belis, *Piliun guenith.* Glam.

Dyvaldod, *Tediousness.* Glam.

Hercyd, *To fetch.* Mon. & Glam.

Rhacca, A rake. S.W.

Ysgadenyn, *A herring*; plur. Sgadan. *S.W.*

Yspaud, *A Shoulder.* N.W. 'Spaud môlht. *A shoulder of mutton.* 'Spold guedhar. *Dimet.* Palves guedhar, *Monm. Glam. & Brec.*

Ceir yn *Archaeologia Britannica* hefyd, gyfarwyddiadau ar sut i ddarllen hen lawysgrifau, yn ogystal ag adran yn cynnwys casgliad Lhuyd o eirfa o ddarnau rhyddiaith yr Oesoedd Canol yn dwyn y teitl 'Some obsolete or less known Welsh Words according to the Orthography of the Thirteenth and Fourthteenth Centuries'. Credir mai tamaid i aros pryd oedd rhai o'r adrannau hyn[54] ac y byddai Lhuyd wedi wedi creu geiriadur mawr pe bai wedi byw:

> Dyma'r dechrau, ac y mae'n gwbl bosibl, petai Lhuyd wedi cael cyrraedd oedran yr addewid, y byddai gan ysgolheigion y ddeunawfed ganrif eiriadur a fyddai'n rhoi help sylweddol iddynt wrth ymgodymu â gwaith y Cynfeirdd a'r Gogynfeirdd.[55]

Ymddengys ei fod eisoes wedi dechrau llunio geiriadur Saesneg-Cymraeg ei hun.[56] Rhestrodd Lhuyd y prifeiriau Saesneg mewn dwy golofn gan adael bwlch ar ôl pob un fel y gallai ychwanegu'r Cymraeg cyfatebol. 'Badge' sydd ar ddechrau'r llawysgrif a 'calender' sydd ar ei diwedd ond ychydig iawn o eiriau Cymraeg a ychwanegwyd ganddo. Er na chafodd y cyfle i wneud llawer o waith ar y geiriadur hwn, llwyddodd i ysbrydoli ei gyd-Gymry a'i ddilynwyr i ymgymryd â'r gwaith.

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

---

[54] D. Ben Rees, op. cit., t.61.

[55] G. J. Williams, 'Edward Lhuyd a Thraddodiad Ysgolheigaidd Sir Ddinbych', op. cit., t.52.

Nid Edward Lhuyd oedd yr unig un a wnâi waith geiriadurol yn ystod y cyfnod hwn. Credir bod Hywel Vaughan o'r Hengwrt wedi ymhél â'r syniad o gyhoeddi ail argraffiad o eiriadur John Davies, argraffiad a fyddai'n cynnwys yr ychwanegiadau. Dywedodd Edward Lhuyd ei hun:

> Mr Howel Vn was often talking of printing his Grandfather's Dictionary, which was that of Dr Davies improved.[57]

Ei dadcu, Robert Vaughan o Hengwrt, a ddiogelodd lawysgrifau John Jones y Gellilyfdy ac yn eu plith gasgliadau o eirfâu yn dwyn yr enw 'Llyvreu Geiryddion'.[58] Fe'i lluniwyd gan Jones ei hun yn ogystal â gwaith Roger Morris a Richard Langford ac 'roeddent yn cynnwys geiriau a godwyd o lawysgrifau, geiriau tafodieithol a thermau crefftwyr ac amaethwyr.[59]

Gan fod Lhuyd wedi sylweddoli pwysigrwydd gweithgarwch geiriadurol, anogodd eraill i fynd ati i lunio geirfâu neu eiriaduron. Er enghraifft, mewn llythyr at un gŵr na wyddys ei enw na'i gyfeiriad, dywedodd:

> You are to expect no performance in that kind from me [sef cyhoeddi geiriadur John Davies gydag ychwanegiadau] as being otherwise so much engaged, but supose [*sic*] you undertook an Edition of Dr Davies yourself? I am sure you are at least as well qualified as I am, and no doubt 'twould sell very well, provided nothing of the Doctor's own be retrenched, and some considerable additions made.[60]

Ceisiodd ddarbwyllo John Lloyd i gyhoeddi argraffiad newydd o eiriadur John Davies[61] a lluniodd Y Parch. Erasmus Lewes o Lanbedr Pont Steffan eiriadur Cymraeg-Saesneg ar gais Lhuyd gan gredu y byddai'n cynnwys ei eiriadur yn un o'i gyfrolau. Cafodd gryn ddylanwad ar israddedigion ieuainc o Gymru hefyd megis Ellis Wynne, William Gambold, Erasmus Saunders, Edward Samuel a

---

[56] LLGC Ych. 238E.
[57] R. T. Gunther, op. cit., t.460.
[58] Gellir gweld geiriaduron John Jones yn y llawysgrifau a ganlyn: Peniarth 223, 295, 296, 297, 298, 299, 300, 301, 302, 303, 304, 305, 306, 308 (2 ran), 309 (2 gyfrol) a 310. Gw. Nesta Lloyd, 'Welsh Scholarhip in the seventeenth century. with special reference to the writings of John Jones, Gellilyfdy (Traethawd D.Phil anghyhoeddedig Prifysgol Rhydychen, 1970), tt.195-222. Hefyd Nesta Lloyd, 'Bywyd John Jones Gellilyfdy' (Traethawd MA anghyhoeddedig Prifysgol Cymru Bangor, 1964).
[59] G. J. Williams, 'Edward Lhuyd a Thraddodiad Ysgolheigaidd Sir Ddinbych', op. cit., t.38.
[60] G. T. Gunther, op. cit., t.460.
[61] Bryn Roberts, 'Llythyrau John Lloyd at Edward Lhuyd', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 17 (1971 - 72), t.94.

Moses Williams yn ogystal â mân uchelwyr, offeiriaid a'i ohebwyr. Dywedodd mewn llythyr at R. Mostyn, er enghraifft:

> I wish at your leasure [*sic*] hours you would make the comparison of the British and Greek part of yr diversion: and also that you would study the British to the utmost, and make yourself a master of the obsolete words in Dr Davies's Lexicon.[62]

Tra 'roedd Edward Lhuyd ar ei daith o gwmpas y gwledydd Celtaidd, 'roedd gŵr o'r enw Hugh Griffiths yn Rhydychen yn dechrau llunio mynegai a geiriadur hanesyddol yn seiliedig ar gopïau o ddogfennau Lhuyd.[63] 'Roedd gan Lhuyd lu o gynorthwywyr pan weithiai ar brosiectau gwahanol a thybir bod tua deugain neu hanner cant yn eu helpu.[64] Wrth baratoi ei nodiadau ar gyfer *Britannia*, ffurfiodd rwydwaith o gysylltiadau gydag ysgolheigion a oedd yn byw ym mhob rhan o Gymru. Hen gyfeillion neu gyn-fyfyrwyr o Rydychen oedd y mwyafrif ohonynt a daeth mwy a mwy yn rhan o'i rwydwaith pan weithiai ar *Archaeologia Britannica*. Bu Humphrey Foulkes er enghraifft, yn ei gynorthwyo yn ystod y blynyddoedd cyn cyhoeddi'r gwaith hwn. Casglodd eiriau, "additional words to Dr Davies's dictionary",[65] ac addawodd Lhuyd iddo y byddai'n eu hargraffu. Drwy ymweld â phob rhan o Gymru ar ei deithiau mae'n rhaid ei fod wedi dylanwadu ar Gymry ledled y wlad, dynion na fyddent erioed wedi dilyn llwybrau ymchwil oni bai am ei anogaeth ef.

Soniais eisoes fod Edward Lhuyd yn ymddiddori mewn geiriau tafodieithol a'i fod wedi eu cynnwys yn *Archaeologia Britannica*. Ar ei daith fawr, rhoddodd sylw mawr i dafodiaith. Casglodd eirfâu tafodieithol gwahanol gan wneud cofnod o'r ardaloedd a'r siroedd lle yr arferid geiriau anghynefin. Ar yr un pryd 'roedd gwŷr yn llunio casgliadau mawr o eiriau tafodieithol ar ei gyfer hefyd. Bu Isaac Hamon wrthi'n cofnodi'r Hen Saesneg a ddefnyddid yng Ngŵyr iddo er enghraifft[66] ac ym 1702 derbyniodd Lhuyd restr o eiriau Cymraeg oddi wrth David Lewis o Lanboidy. Casgliad o "rai geiriau Brythoneg, na welir yn ein

---

[62] R. T. Gunther, op. cit., t.379.
[63] Brynley F. Roberts, op. cit., t.79.
[64] Ibid., t.74.
[65] R. T. Gunther, op. cit., t.506.
[66] Frank Emery, *Edward Lhuyd F.R.S. 1660 - 1709*, op. cit., t.76.

geiriaduron" ydoedd ond yn ôl Lewis defnyddid hwy yn ei ardal ef, sef ardal Llanboidy.[67]

Ceir tystiolaeth yn yr ohebiaeth rhwng Lhuyd a nifer o offeiriaid Sir Ddinbych a'r ardal, eu bod nhw'n darllen hen destunau a chywyddau gan godi geiriau dieithr neu anghyfarwydd ac weithiau ddyfyniad yn dangos gair arbennig mewn cyd-destun.[68] Yna, ychwanegent y geiriau hynny at eiriadur John Davies. 'Roedd Humphrey Foulkes, rheithor Llan Sain Siôr, a John Lloyd, prifathro Ysgol Ramadeg Rhuthun, yn gohebu â Lhuyd gan ddangos brwdfrydedd i barhau gyda'r gwaith geiriadurol. Ym 1696 ysgrifennodd John Lloyd lythyr at Thomas Jones, yr Almanaciwr, oherwydd iddo glywed ei fod wedi derbyn rhestr o rai miloedd o eiriau. Tynnodd sylw Lhuyd at restr arall o eiddo 'Mr Wms lately of Llanfihangel' ac ym 1701, wrth chwilio am ddeunydd, daeth ar draws geiriadur Saesneg-Cymraeg a'i gynnig i Lhuyd.[69] Nid oes ryfedd bod galw am ychwanegiad neu welliant ar yr hyn a fodolai eisoes oherwydd nid oedd dim byd wedi dod o'r wasg ers cyhoeddi geiriadur Thomas Jones ym 1688. Ymddengys bod gwŷr fel Roger Morris, o Goedtalwrn yn Llanfair Dyffryn Clwyd, Richard Langford o Drefalun, Rhisiart ap Siôn o Ysgorlegan yn casglu geiriau a ddefnyddiwyd mewn hen destunau, ac yn ceisio esbonio'u hystyr.[70] Tua chanol y ganrif hon darganfu E. D. Jones ddwy gyfrol yn y Llyfrgell Genedlaethol a oedd wedi eu benthyg o Blas Power.[71] Maent yn cynnwys gwaith ymchwil geiriadurwr o'r enw Thomas Lloyd, o Lanfair Talhaearn. Bu'n astudio yng Ngholeg Iesu, Rhydychen rhwng 1689 a 1692 ac enillodd radd M.A. ym 1695 cyn cael ei ordeinio'n offeiriad. Ychwanegodd Thomas Lloyd at eiriadur John Davies drwy nodi geiriau newydd ar dudalennau ei gopi ef o'r *Dictionarium Duplex* ynghyd ag ychwanegu tudalennau gweigion at y geiriadur, eu rhannu'n dair colofn a'u llenwi gyda rhagor o eiriau. Tybir bod gan Thomas Lloyd tua chan mil o ychwanegiadau.[72] Geiriau 'newydd' oeddent, geiriau a godwyd o gywyddau mewn llawysgrifau ac mewn llyfrau printiedig. Nododd Lloyd gyd-

---

[67] Ibid.
[68] G. J. Williams, 'Edward Lhuyd', op. cit., t.124.
[69] Bryn Roberts, op. cit., t.94.
[70] G. J. Williams, 'Edward Lhuyd a Thraddodiad Ysgolheigaidd Sir Ddinbych', op. cit., t.38.
[71] Ibid., t.53.

destun y geiriau, yn union fel y gwnâi geiriadurwyr Sir Ddinbych, ond nododd hefyd y llyfr, y llawysgrif a'r dudalen. Dywedodd E. D. Jones:

> Y mae llwyredd ei gynllun cyfeirio (llyfr neu lawysgrif a thudalen) yn rhoi arbenigrwydd ar gyfraniad Thomas Lloyd, ac fe ddylai sicrhau lle urddasol iddo yn hanes geiriaduraeth yng Nghymru.[73]

Gan nad oedd Lhuyd ag ef yn gohebu â'i gilydd, gellir meddwl nad oedd cysylltiad uniongyrchol rhyngddynt. Serch hynny, mae'n bosib bod y ddau yn gwybod am ei gilydd oherwydd bu Thomas Lloyd yn Rhydychen rhwng 1689 a 1692. Nododd G. J. Williams gysylltiad arall rhyngddynt.[74] Ceir rhestr ar ddechrau copi Thomas Lloyd sy'n enwi'r llyfrau a'r llawysgrifau a ddarllenodd ac ymhlith y rhestr hon enwir un ar ddeg llawysgrif a oedd yn eiddo i Humphrey Foulkes. 'Roedd Humphrey Foulkes yn gymydog i Thomas Lloyd a gohebai ag Edward Lhuyd. Dywedodd G. J. Williams:

> ... fe ellir casglu mai'r cyffro geiriadurol ... a'r dylanwad a gafodd cynlluniau ac ymweliadau Lhuyd ar yr offeiriaid a rhai o'r mân foneddigion sy'n egluro gweithgarwch Thomas Lloyd. Y mae'n gwbl bosibl - er na allaf brofi hynny - mai Foulkes, wedi iddo fod yn sgwrsio â Lhuyd ar y cyfryw bynciau â hyn, a ddangosodd iddo sut i weithio, i gyfeirio bob amser, nid yn unig at y llyfr neu'r llawysgrif, ond hefyd at y tudalen lle y ceid y gair.[75]

Nododd Frank Emery bod Edward Lhuyd a'r Esgob Humphrey Humphreys wedi dod yn ffrindiau pan ysgrifennai Edward Lhuyd ei nodiadau ar gyfer *Britannia*.[76] 'Roedd Humphreys yn achyddwr, yn hynafiaethwr ac yn hanesydd a bu'n gefnogol iawn i fudiad yr S.P.C.K.[77] Arweiniodd Humphrey Humphreys ryw fath o gylch llenyddol ymysg offeiriaid Dyffryn Clwyd, cylch a gynhwysai wŷr megis Pierce Lewis, a oedd yn adnabyddus fel 'diwygiwr' Beibl 1690 a Thomas Rowlands, Llansannan.[78] Darllenent gywyddau gan gasglu hen eiriau a'u hychwanegu at y *Dictionarium Duplex*. Daeth yr Esgob yn arweinydd arnynt

---

[72] E. D. Jones, 'Thomas Lloyd y Geiriadurwr', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, ix, t.180.
[73] Ibid.
[74] G. J. Williams, 'Edward Lhuyd a Thraddodiad Ysgolheigaidd Sir Ddinbych', op. cit., t.54.
[75] Ibid.
[76] Frank Emery, *Edward Lhuyd F.R.S. 1660 - 1709*, op. cit., t.68.
[77] Gw. Gilbert E. Wright, 'Humphrey Humphreys, Bishop of Bangor and Hereford', *Journal of the Historical Society of the Church in Wales*, 2, tt.72-86.
[78] G. J. Williams, 'Edward Lhuyd a Thraddodiad Ysgolheigaidd Sir Ddinbych', op. cit., t.40.

gan drefnu gweithgarwch a fyddai'n arwain at gyhoeddi argraffiad newydd o eiriadur Davies.[79] I'r cylch llenyddol hwn, geiriadur yn cynnwys geiriau ychwanegol i'r rhai a oedd gan John Davies oedd un o'r pethau pwysicaf i'w cynnwys yn *Archaeologia Britannica*. Dywedodd Syr Thomas Powell, Nanteos, wrth un o'i gynorthwywyr er enghraifft, y byddai cael argraffiad arall o eiriadur Davies - yn cynnwys geiriau ychwanegol - yn dipyn mwy gwerthfawr a defnyddiol i bobl yng Nghymru nag y byddai cyfrolau Edward Lhuyd ar naturiaetheg a phynciau eraill[80] ac ym 1701, anogodd Humphrey Foulkes Lhuyd i gyhoeddi Geiriadur Cymraeg yn *Archaeologia Britannica* fel y gallai helpu:

> ... all the young novices in the Welsh tongue yt are lately [arisen] in ye Country.[81]

Oherwydd y pwysau hwn arno cred rhai mai'r offeiriaid hyn a orfododd Edward Lhuyd i gynnwys yr adran 'Some Welsh words omitted in Dr Davies's Dictionary' yn *Archaeologia Britannica*.[82]

Fel y gwyddys, sylweddolasai Lhuyd fod angen geiriadur, ond ni chafodd y cyfle i ddechrau ar y gwaith o baratoi argraffiad arall o eiriadur John Davies. Prinder amser oedd y broblem fwyaf a theimlai nad oedd ddylai fynd ati i gyflawni'r gorchwyl. Nid ystyriai ei hun yn gystal meistr ar yr hen iaith lenyddol â John Davies a chredai mai gwŷr fel Humphrey Foulkes a John Lloyd oedd y rhai mwyaf cymwys ac addas at y gwaith. Awgrymodd wrth John Lloyd:

> ... nor can I see any reason why you might not undertake it yourself.[83]

Llwyddodd Lhuyd i hyfforddi dau ŵr a allai barhau gyda'i waith, sef David Parry a Moses Williams. Arbenigai Williams ym myd llawysgrifau ac ymwelai â llyfrgelloedd i'w copïo. 'Roedd ganddo gynlluniau uchelgeisiol ac un ohonynt oedd ailgyhoeddi gramadeg a geiriadur John Davies. Pan gyhoeddodd ei *Proposals for Printing by Subscription A New Edition of Dr. Davies's Grammar and Dictionary with Additions*, nododd y byddai'r gyfrol newydd yn cynnwys sylwadau geirdarddol a wneid gan Llhuyd ac eraill yn ogystal â 'Phrases and

---

[79] G. J. Williams, 'Edward Lhuyd', op. cit., t.124.
[80] G. J. Williams, 'Edward Lhuyd a Thraddodiad Ysgolheigaidd Sir Ddinbych', op. cit., t.52.
[81] R. T. Gunther, op. cit. t.506.
[82] G. J. Williams, 'Edward Lhuyd', op. cit., t.124.

Idiotisms as well Local as Universal'.[84] Bu Williams wrthi'n paratoi ar gyfer creu geiriadur ac fe gedwid nifer o'i restrau geiriau yn llawysgrifau Llanstephan – rhif 55, 85, 86, 96, 102, 117, 139 - 143.[85] Rhestr oddi wrth William Baxter dyddiedig 1714 yw un ohonynt,[86] ceir rhestr lawn ymadroddion tafodieithol Maldwyn yn llaw David Wynne, rheithor Machynlleth[87] a cheir un o eiddo Siôn Rhydderch, dyddiedig 1710.[88] Gwelir ar restr Siôn Rhydderch y nodyn hwn yn llaw Moses Williams:

> All that are scor'd under are authentick, & enter'd in the Dictionary, 1710

Ar restr David Wynne ysgrifennodd Williams 'Enter'd & mark'd D.W.' ac yn dilyn y rhestr eiriau, mewn rhan arall o'r llawysgrif nododd 'Out of Mr. Vaughan's at Hengwrt's Dictionary'. Ychwanegodd hefyd 'Examin'd & enter'd in my own'. Yn Llanstephan 141, ceir geirfa anghyflawn lle nodir y cysylltiad rhwng geiriau Cymraeg a geiriau Lladin, Groeg, Hebraeg, Almaeneg, Saesneg a Gwyddeleg. At hyn ceir rhai enghreifftiau o eiriau tafodieithol ynghyd â diarhebion a rhestr o enwau planhigion.

Cynorthwywyd Williams gan ŵr o'r enw John Morgan, Ficer Matchin yn Essex.[89] Ym 1714 anfonodd ato restr o idiomau a diarhebion Cymraeg y bu wrthi'n eu crynhoi dros gyfnod o dair blynedd a chan fod Williams ar fin mynd ar daith casglu tanysgrifwyr, awgrymodd Morgan sut y gallai fynd ati ei hun i grynhoi rhagor ohonynt. Cynghorodd ef hefyd i godi rhagor o idiomau o lyfrau printiedig ond rhybuddiodd ef i fod yn ofalus wrth eu hastudio i bwrpas ieithyddol gan na adlewyrchent yr iaith gywir bob amser.

Mewn llythyr dyddiedig 10 Ionawr 1713 at ei dad, Samuel,a gydweithiai ag ef ar y geiriadur, dywed Moses Williams y byddai angen o leiaf pum cant o

---

[83] *Archaeologia Cambrensis*, 1861, t.136.
[84] Moses Williams, *Proposals for Printing by Subscription A New Edition of Dr. Davies's Grammar and Dictionary with Additions* (Llundain, 1713 neu 1714).
[85] John Davies, *Bywyd a Gwaith Moses Williams, 1685 – 1742* (Caerdydd, 1937), t.109.
[86] Llanstephan 96B, 1-38.
[87] Ibid.,55 ymlaen.
[88] Ibid., 39-55.
[89] Gw. Saunders Lewis, 'John Morgan', *Y Llenor*, 1 (1922), tt.11-17.

danysgrifwyr os oedd am ailargraffu gramadeg a geiriadur John Davies ynghyd â'r diarhebion wedi eu cyfieithu. Dywed ei fod yn ystyried casglu enwau tanysgrifwyr pe cytunai ei dad â'i gynlluniau:

> If you approve of the project, and are willing to bear my chin above water while I be gathering subscriptions ... I'll bid adieu to England as soon as you please.

Ceir yr argraff, o ddarllen syniadau Moses Williams yn y llythyr hwn, ei fod yn weddol hyderus y câi ddigon o danysgrifwyr. Mae'n amlwg hefyd ei fod o ddifrif ynghylch y prosiect ymchwil a'i fod yn awyddus i'w gyflawni:

> This project runs more in my head than marrying; & I am confident if I can bring it about, I shall get money and preferment by it.

'Roedd pethau'n argoeli'n dda iddo felly. Ym 1714, cafodd ei lafur caled glod gan ei gyfoedion. Ysgrifennodd Humphrey Wanley lythyr at Dr Charlett ar y 18 Chwefror, er enghraifft, gan ddweud:

> Mr Moses Williams is about to reprint the Dictionary and Grammar of Dr Davies with very considerable Additions ...[90]

Dywedodd Humphrey Wanley hefyd ei fod ef yn un o'r tanysgrifwyr i'r argraffiad newydd hwn o eiriadur Davies a oedd ar fin ymddangos.[91] Er gwaethaf ymdrechion a brwdfrydedd Moses Williams, ni chyhoeddwyd fyth mo'i eiriadur. Ni wyddys paham. Efallai ei fod wedi rhoi'r gorau iddi oherwydd diffyg cefnogaeth. Nododd G. J. Williams fod Theophilus Evans, yn argraffiad cyntaf *Drych y Prif Oesoedd* ym 1716, yn dweud nad ymddangosodd yr ail argraffiad o eiriadur John Davies oherwydd diffyg cefnogaeth.[92]

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

Mae'n rhaid bod mwyafrif y Cymry diwylliedig yn ymwybodol o gyfraniad yr 'Accademia della Crusca'[93] a'r 'Académie française'[94] i faes geiriaduraeth yr

---

[90] Ibid., t.110.
[91] G. J. Williams, 'Edward Lhuyd a Thraddodiad Ysgolheigaidd Sir Ddinbych', op. cit., t.55.
[92] Theophilus Evans, *Drych y Prif Oesoedd*, (Amwythig, 1716), t.117.
[93] Sefydlwyd yr 'Accademia della Crusca' ym 1582. Cyhoeddodd yr 'Academia' eiriadur ym 1612, yr enwog *Vocabolario degli Accademici della Crusca*. Erbyn i'r trydydd

adeg hon a gwyddid yn ogystal am gampwaith Dr Samuel Johnson.[95] Datblygodd Cylch y Morrisiaid ddiddordeb cynyddol yn natblygiad geiriaduraeth yng Nghymru ac fe geir sôn cyson yn eu llythyrau am y ffaith nad oedd geiriadur Cymraeg cynhwysfawr ar gael. Nid oedd yr un geiriadur yn eu plesio ac 'roedd Lewis Morris yn anad neb yn gweld beiau ar bob un heblaw am y *Dictionarium Duplex*, ond câi hwnnw hefyd ei feirniadu weithiau. Cwynai William Morris er enghraifft, fod gwybodaeth John Davies o fyd natur yn annigonol:

> ... he knew no animals except his own cattle and fowls; ... published in the infancy of natural philosophy, his book is like a child born in the sixth month ...[96]

Er gwaethaf eu rhagfarnau, 'roedd y Morrisiaid yn edmygu geiriadur Davies. Bob hyn a hyn, mynegent yr awydd i gael gafael ar gopi ohono[97] ac fe geir sôn am rannu a benthyg copïau ymysg ei gilydd.[98] Dymunai'r brodyr weld argraffiad newydd o'r geiriadur yn ymddangos. Mewn llythyr a anfonodd William at Richard ym mis Awst 1745, dywedodd:

> Gwych hefyd pe cymerai rhyw Fryttwn cywrain yn ei ben fynd ynghyd a geirlyfr Dr. Davies ... ag nid oes un yng Nghymru ffitiach i'r gorchwyl hwnnw rwyn credu na'r brawd Llywelyn ...[99]

ac yn ddiweddarach – ym 1746 – yr un oedd ei gwyn:

> Ond ydyw gywilydd na roddai ryw Gymro cywrain allan ail argraphiad o eirlyfr y Doctor Dafis? Rwyn tybio mae gan y brawd Llewelyn y mae'r casgliad goreu o eiriau ag sydd.[100]

Ym mrawddeg olaf y ddau ddyfyniad uchod, cyfeirio y mae at fwriad Lewis Morris i ddiwygio'r *Dictionarium Duplex*. Fel sawl un arall, bu Lewis yn ystyried y dasg a phe âi ati o ddifrif gwyddai William y câi ddigon o gymorth a chefnogaeth.[101] Dywedodd R. T. Jenkins a Helen M. Ramage:

> And in sober fact, Lewis Morris was probably right in deeming that he himself was at the time the only one man fit for the job.

---

argraffiad ymddangos ym 1691, 'roedd y geiriadur wedi chwyddo i dair cyfrol. Pan gyhoeddwyd y pedwerydd argraffiad rhwng 1729 a 1938, llenwai chwe chyfrol.

[94] Sefydlwyd yr 'Académie française' ym 1635. Er mai araf iawn oedd datblygiad y geiriadur, ymddangosodd ym 1694.

[95] Samuel Johnson, *A Dictionary of the English Language* (Llundain, 1755).

[96] Hugh Owen (gol.), op. cit., Cyfrol I., t.233.

[97] J. H. Davies (gol.), *The Letters of Lewis, Richard, William, and John Morris of Anglesey (Morrisiaid Môn) 1728 - 1765* (Aberystwyth, 1907), Cyfrol 1, t.301.

[98] Ibid., Cyfrol 2, t.12; t.58.

[99] Ibid., Cyfrol 1, t.87.

[100] Ibid., t.98.

[101] Ibid., t.180.

> His *premisses* were sound and scholarly. No one yielded to him and his brothers in their respect for John Davies.[102]

'Roedd Lewis Morris yn hyddysg mewn amrywiaeth eang o feysydd: gwyddoniaeth, hanes, hynafiaetheg, cerddoriaeth, athroniaeth, meddygaeth, ieitheg ac yn arbennig ieitheg Gymraeg. Poenai'n gyson am gyflwr y Gymraeg ac yn ei lawysgrifau deuir ar draws termau a fathwyd ganddo ar gyfer gwahanol blanhigion, hadau, cregyn, mwynau, peiriannau ac offer. Pan sylweddolodd fod diffyg geirfa Gymraeg ar gyfer ei gasgliad o ffosilau, mynnodd fod ei frawd, William, yn bathu termau addas gan gynnig cyngor ar sut i fynd ati hefyd:

> You must make your cregyn Welsh names if they have none, there is no if in the case. You must give them names in Welsh. I'll send you a catalogue of y^e English names of some sales here, which are all foolish whims, and it is an easy matter to invent new names, and I warrant you they will be as well received as Latin or Greek names. Tell them they are old Celtic names, that is enough. They'll sound as well as German or Indian names, and better.[103]

Bu hefyd yn gohebu â geiriadurwyr a gwyr eraill a ddymunai lunio geiriaduron. 'Roedd Siôn Rhydderch ymhlith ei ohebwyr cynnar a chysylltodd Moses Williams ag ef gan ofyn am gymorth ond gwrthod a wnaeth Lewis:

> Mr Moses Williams desird my Collections whom I refused, knowing him uncapable of carrying on ye work.[104]

Yn ddiweddarach fe'u cynigiodd i Edward Samuel er ei fod yn amheus o'i allu yntau i lunio geiriadur.[105] Er mai cyhoeddi argraffiad diwygiedig o'r *Dictionarium Duplex* oedd un o uchelgeisiau Lewis Morris, fel yn hanes nifer o Gymry dysgedig eraill y ddeunawfed ganrif, ni lwyddodd i gyflawni'r gwaith.

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

---

[102] R. T. Jenkins a Helen M. Ramage, *A History of the Honourable Society of Cymmrodorion and of the Gwyneddigion and Cymreigyddion Societies* (Llundain, 1951), t.43.

[103] J. H. Davies, op. cit., t.347.

[104] Hugh Owen (gol.), Cyfrol 1, t.29.

[105] Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953), t.847.

## (iii)
## Thomas Richards (1710? - 1790)

Credir bod Thomas Richards wedi cael ei eni yn Sir Forgannwg tua 1709 neu 1710.[106] Ni wyddys ym mha le y'i haddysgwyd ond gellir tybio na dderbyniodd lawer o addysg ffurfiol gan fod Iolo Morganwg wedi ei enwi fel un o'r:

> Self educated persons in Glamorgan Vale[107]

Pa hyfforddiant bynnag a gafodd, datblygodd yn ŵr deallus a chyfeiriwyd ato fel yr:

> ... ysgolhaig Cymraeg mwyaf a gododd ym Morgannwg yn hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif.[108]

Bu Richards yn ysgolfeistr mewn ysgol elusennol yn Llandysul am gyfnod a gwyddys iddo gael ei urddo'n ddiacon ym 1733 ac yn offeiriad flwyddyn yn ddiweddarach. Hyd 1738, bu'n gurad yn Llan-saint ac yna fe'i penodwyd yn gurad yn Llangrallo a Llanbedr-ar-fynydd, lle y bu hyd ei farwolaeth, ym mis Mawrth 1790.

Fel Siôn Rhydderch o'i flaen, bu Thomas Richards yntau'n ymhél â gwaith cyfieithu. Wedi iddo gyhoeddi *Creulonderau ac Herlidigaethau Eglwys Rufain* ym 1746, sef cyfieithiad o lyfr gan Philip Morant, ymddengys iddo fwriadu cyhoeddi talfyriad o *Book of Martyrs* Fox.[109] Er iddo gasglu tanysgrifiadau, nid oedd digon ganddo, felly ni chyhoeddwyd y gwaith. Yn fuan ar ôl hyn, aeth Richards ati i lunio geiriadur Cymraeg-Saesneg. Gellir dweud yn weddol hyderus ei fod wedi treulio tua phum mlynedd yn ei baratoi oherwydd Calan Mai, 1751, yw'r dyddiad a nodir yn y llythyr annerch 'At y Cymry'.[110] Ddwy flynedd yn ddiweddarach, ym 1753, cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf trwy gymorth tanysgrifiadau ym Mryste, sef *Antiquae linguae Britannicae thesaurus.*

---

[106] Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), op. cit., t.802.
[107] Llanover C 70, 158.
[108] Griffith John Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (Caerdydd, 1948), t.301.
[109] Richard M. Crowe, 'Thomas Richards a John Walters: Athrawon Geiriadurol Iolo Morganwg', yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *Llynfi ac Afan, Garw ac Ogwr* (Llandysul, 1998), t.230.
[110] Thomas Richards, *Antiquæ Linguæ Britannicæ thesaurus* (Bryste, 1753), t.xxiii.

*Antiquæ Linguæ Britannicæ*

# THESAURUS:

BEING

A BRITISH, or WELSH-ENGLISH

# DICTIONARY:

CONTAINING

Some Thousands of BRITISH WORDS more than any WELSH Dictionary hitherto published. All the *Authorities* or *Examples* which the learned Dr. DAVIES gives, in his *British-Latin* Dictionary, from ancient Poets, Historians, *&c.* are inserted in This, as they are *accurate Proofs* of the *Significations* assign'd to those Words; and the Words which are added, are often exemplified in the same Manner.

AND to make this Work more compleat, besides the *Explications* and *Etymologies* of Words, many valuable *British* ANTIQUITIES are interspersed through all the Parts of it.

To which is prefix'd,

A compendious WELSH GRAMMAR,

With all the RULES in ENGLISH.

Besides the AUTHOR's Collections from his own Reading and Observations, and what is contain'd in Dr. DAVIES's *British-Latin* Dictionary, This Work hath been greatly Improved out of Mr. EDWARD LHWYD's *Archæologia Britannica*, Dr. WOTTON's *Glossary*, &c.—And there is likewise added,

A large COLLECTION of BRITISH PROVERBS.

By *THOMAS RICHARDS*,

CURATE of COYCHURCH.

*BRISTOL:*

PRINTED AND SOLD BY FELIX FARLEY IN SMALL-STREET:

SOLD ALSO IN LONDON, BY MESSrs. KNAPTON, INNYS, HITCH, DAVIS, CLARKE, OWEN, *&c.*—BY R. RAIKES IN GLOUCESTER; W. WILLIAMS, BOOKSELLER IN MONMOUTH; AND BY ALL THE BOOKSELLERS OF THE PRINCIPALITY OF WALES.—MDCCLIII.—[PRICE 6s.]

5. Thomas Richards, *Antiquæ Linguæ Britannicæ Thesaurus* ... (1754)

Mae'n debyg bod yr arfer o danysgrifio i ariannu cyhoeddiadau wedi dechrau ym 1617. Erbyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg, 'roedd yr arfer hwn yn un gweddol gyffredin yn Lloegr a dechreuwyd cyhoeddi mwy a mwy o lyfrau'n dangos rhestrau o danysgrifwyr ym mlynyddoedd cynnar y ddeunawfed ganrif. Yng Nghymru, nid oedd y syniad o nawddogaeth yn rhywbeth dieithr. Serch hynny, er mai nawdd uchelwyr a gynhaliai'r traddodiad barddol yn y gorffennol ac er nad oedd tanysgrifio ond yn ffordd newydd o noddi gweithgarwch llenyddol, nid oedd argraffwyr megis Thomas Jones yn barod iawn i gasglu arian tanysgrifwyr. Erbyn tua dechrau'r ddeunawfed ganrif, daethpwyd i sylweddoli manteision yr arfer newydd hwn ym myd argraffu llyfrau a chyn hir daeth cyhoeddi trwy danysgrifio yn rhywbeth sefydledig ac angenrheidiol, yn enwedig os oedd angen cyhoeddi gwaith swmpus. Dywedodd Eiluned Rees:

> English book-production would have been the poorer without publication by subscription in the 18th century; Welsh book-production would have been virtually non-existent.[111]

Ar yr un pryd, dechreuai prynwyr llyfrau sylweddoli'r manteision o danysgrifio. 'Roedd talu rhandaliadau'n hwylus, yn enwedig i'r rhai hynny heb lawer o arian parod. Weithiau, byddai cost derfynol llyfr yn uwch na'r amcanbris, felly derbyniai'r tanysgrifiwr gopi rhatach na'r disgwyl a gallai'r sawl a brynai swmp o lyfrau gael bargeinion yn lled aml hefyd.

Cyn i lyfr gael ei gyhoeddi, 'roedd yn rhaid ei hysbysebu. Byddai'r awdur yn llunio "proposals" neu gynigion, sef amlinelliad o'i ŵriad, crynodeb byr o gynnwys y llyfr a bras amcan o'i bris. Fel arfer, gofynnid i danysgrifwyr dalu hanner y gost o flaen llaw a'r gweddill ar ôl derbyn copi o'r llyfr. Dibynnai llawer o awduron ar drigolion eu hardaloedd lleol am danysgrifwyr.[112] Yn achos Thomas Richards, 'roedd ganddo gysylltiadau â thanysgrifwyr mewn sawl rhan o'r wlad a hynny diolch i'r Morrisiaid yn bennaf a thrwyddynt hwy y cafodd llawer o gopïau eu dosbarthu yng ngogledd Cymru.[113] Gofalai'r awdur yr argreffid

---

[111] Eiluned Rees, 'Pre-1820 Welsh Subscription Lists', *Cylchgrawn Cymdeithas Lyfryddol Cymru*, 11(1973 - 4), t.85.

[112] Geraint H. Jenkins, *Literature, Religion and Society in Wales, 1660 - 1730*, op. cit., t.242.

[113] T. J. Morgan, 'Ysgolheictod' yn Dyfnallt Morgan (gol.), *Gwŷr Llên y Ddeunawfed Ganrif a'u Cefndir: Pedair ar hugain o sgyrsiau radio* (Llandybie, 1966), t.188.

rhestr o enwau'r rhai a danysgrifiodd i'w waith ar ddechrau'r llyfr ac yn aml iawn nodid manylion am eu statws. Unwaith i lyfr gael ei argraffu, 'roedd yn rhaid cael gwŷr i ddosbarthu copïau ohono. Pobl leol oedd y rhain fel arfer, ond cafodd geiriadur Thomas Richards ei ddosbarthu trwy gymorth y Morrisiaid wrth gwrs.

Gohebai Richards â Richard Morris, felly ymgynghorai ag ef a gofynnai iddo am ei gymorth a'i gyngor wrth lunio a chyhoeddi'r geiriadur. Pan dderbyniodd Richard Morris "proposal" Richards fe'i hanfonodd at ei frawd, William. ym 1751.[114] Er bod William yn credu y byddai cyfrol o'r fath yn ddefnyddiol iawn, nid oedd yn fodlon mai Richards oedd yn ymgymryd â'r gwaith. Gresynai nad Gogleddwr ydoedd a dywedodd mai:

> Gerwin yw bwriad Richards yna![115]

Cyfeiriodd hefyd ato fel rhywun a oedd yn analluog i wneud y gwaith:

> ... ni fu erioed ddyn mwy anghyfaddas ir gorchwyl hwnnw ...[116]

Er gwaethaf rhagfarn y Morrisiaid tuag ato, 'roeddent yn barod i'w gynorthwyo ac i hyrwyddo'i eiriadur. Bu William Morris yn gweithredu fel asiant a oedd yn gyfrifol am y tanysgrifiadau. Credai, wedi iddo weld "proposal" Thomas Richards am y tro cyntaf ym mis Mehefin 1751, y llwyddai i gasglu nifer fawr o danysgrifiadau.[117] Cadarnhawyd hyn pan ddangosodd y "proposal" hwnnw i amryw glerigwyr a gwŷr bonheddig. 'Roedd y mwyafrif ohonynt yn barod i danysgrifio.[118] Fis yn ddiweddarach, anfonodd Thomas Richards lythyr at Richard Morris yn diolch iddo am ei helpu ac am gasglu tanysgrifiadau ar gyfer y geiriadur.[119] Erbyn mis Tachwedd, 'roedd gan William Morris restr o danysgrifwyr i'r geiriadur i'w hanfon at Richard Morris. Ymhlith yr enwau ar y rhestr 'roedd gweinidog, casglwr tolldaliadau, rheolwr y dollfa yng Nghaergybi, groser, dau ysgwier, apothecari, rheithor a churad.[120] Anfonodd William ragor o

---

[114] John H. Davies (gol.), *The Letters of Lewis, Richard, William, and John Morris of Anglesey (Morrisiaid Môn) 1728 - 1765* (Aberystwyth, 1907), Cyfrol 1, t.170.
[115] Ibid.
[116] Ibid., t.182.
[117] Ibid., t.170.
[118] Ibid., t.175.
[119] LLB 14929, 215 - 6.
[120] John H. Davies (gol.), op. cit., t.186.

enwau tanysgrifwyr at Richard ym mis Rhagfyr[121] ond erbyn Chwefror 1752 'roedd William Morris wedi methu â denu rhagor i gefnogi'r fenter. Ar ôl i'r enwau gael eu casglu, bu ychydig o oedi ac er mawr anfodlonrwydd i'r Morrisiaid ni chysylltodd Richards â hwy.

> What! Not a word of Richards with his geirlyfr?[122]

oedd cwyn bryderus Richard Morris ym mis Chwefror 1752 ac erbyn mis Awst dechreuasai'r tanysgrifwyr hwythau wylltio. Ysgrifennodd William Morris at Richard gan ofyn:

> Ymhle mae llyfr Richards? Mae'r bobl ymron tynnu fy llygaid am naill ai arian ai llyfrau. Er mwyn dyn gadewch glywed yr hanes.[123]

Cymaint oedd yr anniddigrwydd, fel y dechreuodd William Morris ddifaru ymdrafferthu gyda chynlluniau Richards.[124] Serch hynny, daeth tro ar fyd ym mis Chwefror 1753 oherwydd gorffenasai Felix Farley, yr argraffwr, y gwaith a dechreuasai William Morris wneud trefniadau gyda Richard i ddosbarthu copïau o'r geiriadur.[125] Ymddengys fod Richard wedi anfon bocs yn cynnwys copïau o *Antiquae Linguae Britannicae thesaurus* at William ac yn unol â chyfarwyddiadau ei frawd, fe'i hanfonodd i Gaer.[126] Fe'u hanfonwyd oddi yno i Lannerch-y-medd ond bu'n rhaid i William aros tan fis Ebrill cyn iddo dderbyn parsel o orennau, lemonau a chopïau o'r geiriadur. Erbyn hynny, 'roedd geiriaduron wedi eu staenio gan fod mwyafrif y ffrwythau wedi pydru![127]

Argraffwyd y rhestr danysgrifio, sy'n cynnwys chwe chant a phedwar enw ar hugain, yn ei chyfanrwydd ar ddechrau *Antiquae Linguae Britannicae thesaurus.* Mae'r ffigur terfynol hwn yn un cymharol uchel ar gyfer llyfr a argraffwyd yn ystod y cyfnod hwn. Ar gyfartaledd, tuag 11% o lyfrau a gyhoeddwyd cyn y flwyddyn 1801 a ddenodd rhwng 500 ac 800 o danysgrifwyr.[128] Gwelir bod Thomas Richards wedi neilltuo un enw ar hugain ac wedi eu gosod gyda'i gilydd. Ar frig y rhestr hon gwelir, mewn print bras: HIS ROYAL HIGHNESS

---

[121] Ibid., t.187.
[122] Ibid., t.191.
[123] Ibid., t.207.
[124] Ibid., t.215.
[125] Ibid., t.221.
[126] Ibid.
[127] Ibid., t.228.
[128] P. J. Wallis, 'Book Subscription Lists', *The Library*, Cyfres 5, Cyfrol 5 (1974), t.260.

GEORGE, PRINCE OF WALES, sef y tywysog y cyflwynodd Richards y geiriadur iddo trwy ganiatâd. Yn dilyn, ceir enwau Esgobion, Aelodau Seneddol, Barwnigiaid ac enw Iarll, Barwn, Barnwr yr Uchel Lys a Marchog. 'Roedd yr arfer hwn o osod enwau gwŷr bonheddig ar frig y rhestr fel hyn - i'w gwahaniaethu oddi wrth y tanysgrifwyr eraill - yn un gweddol gyffredin mae'n debyg.[129] Trefnwyd yr holl enwau eraill yn nhrefn yr wyddor ac o edrych arnynt, gellir gweld sut fath o bobl oedd yn defnyddio'r geiriadur. Yn eu plith, gwelir enwau a gasglodd William Morris - enwau'r casglwyr tolldaliadau ym Miwmares, Caernarfon, Conwy a Chaergybi ac enwau rheolwyr y dollfa yng Nghaergybi a Biwmares. Gwelir hefyd rai gwŷr yr oedd Lewis a Richard Morris, o bosib, yn gyfarwydd â hwy yn ystod y cyfnod hwn:

> Agent to the Miners at Cwmsymlog, Cardiganshire
> David Morgan, Tal-y-bont, Cardigansihre
> David Morgan, *Miner at* Esgair-y-Mwyn, Cardiganshire.
> Thomas Davies, *of the Navy-Office*, London, *Gent.*

Nododd Thomas Richards enw'r tanysgrifiwr, enw'r dre lle trigai a'i statws o fewn y gymdeithas bron ym mhob achos. O bryd i'w gilydd nododd ei alwedigaeth hefyd. Wrth sôn am danysgrifwyr *Antiquae Linguae Britannicae thesaurus*, dywedodd Richard Morris y dylai Richards ofalu nodi'r wybodaeth am bob un yn fanwl gywir:

> I hope he will take care to insert the names very correct, oblegid digio a wna poblach pan lysenwir hwynt a'u tai ai [*sic*] swyddau a'u graddau.[130]

Efallai mai dyma'r rheswm paham y penderfynodd Richards nodi'r ffeithiau moel am ei danysgrifwyr, hynny yw eu henwau a'u cyfeiriadau'n unig. Dyna'r ffordd orau i beidio â digio unrhyw un. Mae'n werth nodi bod un o'r rhestrau a anfonodd Richard Morris at Thomas Richards yn nodi mai apothecari oedd gŵr o'r enw John Roberts ac mai groser o Gaergybi oedd William Roberts. Yn y rhestr danysgrifio a gyhoeddwyd, ni cheir manylion o'r fath.[131]

Mae'r enwau ar y rhestr yn syrthio i bedwar prif gategori, sef 'Mr', 'Clerigwyr plwyf ac offeiriaid', 'Ysgwieriaid' a 'Gent':

(1) Mr: 198 (33%) (6) Mrs/Miss: 6 (1%)

---

[129] Ibid., t.257.
[130] John H. Davies (gol.), op. cit., t.187.
[131] Ibid., t.186.

(2) Clerigwyr plwyf ac offeiriaid: 174 (29%)
(3) Ysgwieriaid: 111 (18%)
(4) Gent: 86 (14%)
(5) Amrywiol: 17 ( 3%)
(7) Uwch glerigwyr: 3
(8) Capteiniaid: 3
(9) Noddwyr â theitl: 3
(10) Dr: 2

Byddai modd uno dau gategori o bosib, sef 'Mr' a 'Gent'. Yn ôl Geraint H. Jenkins, 'roedd y math o danysgrifiwr a labelid yn 'Mr' neu'n 'Gent' yn ddigon tebyg, ond gallent amrywio'n fawr hefyd. Gallai 'Mr'/'Gent' fod yn dirfeddiannwr, yn fab ysgwier, yn ddisgynnydd rhydd-ddeiliad neu'n ŵr masnachol mewn tref.[132] Wrth gasglu enwau tanysgrifwyr, 'roedd yr arfer o recriwtio gwŷr i ddenu rhagor o danysgrifwyr yn un gweddol gyffredin. Mae'n debyg bod clerigwyr plwyf neu offeiriaid yn cael eu recriwtio'n fynych oherwydd eu bod yn awyddus i gynyddu'r cyflenwad o lyfrau i'w plwyfolion,[133] ac fe welir bod 29% o danysgrifwyr Thomas Richards yn perthyn i'r dosbarth hwn. Mae'r categori 'Amrywiol' a welir uchod, yn cynnwys cofnod megis: JESUS COLLEGE LIBRARY, cofnod lle nodir enw'n unig, neu gofnod lle nodir enw a galwedigaeth, er enghraifft masnachwr neu delynor. Mae'n werth nodi bod tua thraean o'r geiriaduron wedi mynd dros y ffin i Loegr a bod copïau hefyd wedi mynd i Jersi, Berlin, Boston yn New England a Kingston, Jamaica.

Chwe swllt oedd pris y geiriadur ac fe'i gwerthwyd gan wŷr megis Mr Knapton, Innys, Hitch, Davis, Clarke ac Owen yn Llundain, Raikes yng Nghaerloyw, W. Williams yn Nhrefynwy a chan bob llyfrwerthwr yng Nghymru. 'Roedd ymddangosiad yr *Antiquae Linguae Britannicae thesaurus* yn ddigwyddiad o gryn bwys. Dywedodd G. J. Williams:

> O'r diwedd cafodd llenorion Cymru na ddeallent Ladin gyfle i astudio gramadeg y Dr John Davies, ac yr oedd y geiriadur yn rhoddi iddynt gyfle i ddeall geirfa'r cywyddwyr. Dyma lyfr a oedd wrth benelin y beirdd pan oeddynt yn cyfansoddi awdlau a chywyddau yn ail hanner y 18fed g. Ac ef oedd un o'r rhai a enynnodd ddiddordeb 'Iolo Morganwg' yn llên Cymru, ac yn arbennig yng ngeirfa'r iaith.[134]

---

[132] Geraint H. Jenkins, op. cit., t.269-70.
[133] Eiluned Rees, 'Developments in the Book Trade in Eighteenth-Century Wales', *The Library*, Cyfres 5, Cyfrol 24 (1969), t.37.
[134] Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), op. cit., t.803.

Ar ddechrau'r geiriadur, ceir rhagair Saesneg lle mae Thomas Richards yn trafod syniadau'r oes am darddiad a hynafiaeth y Gymraeg. Mewn gwirionedd, dilyn traddodiad yr oedd Richards wrth olrhain llinach yr iaith oherwydd dyma, i raddau helaeth, oedd yr arfer ymhlith geiriadurwyr y ddeunawfed ganrif. Tra'n sôn am y rhagair hwn, dywedodd T. J. Morgan:

> Yn y rhagymadrodd fe geir cymrodedd o ysgolheictod ac o draddodiad mawl ... Y mae Richards yn olrhain llinach yr iaith yn yr un modd ag y mae Gwalchmai yn olrhain llinach Owain Gwynedd ... Y mae rhyw awdurdod freiniol etifeddol yn y llinach. Rhaid oedd synio am iaith fel y byddid yn synio am deuluoedd brenhinol a bonheddig, ac yr oedd gallu olrhain y llinach yn ôl ymhell ac yn ddi-fwlch i ryw fawredd o gyn-dad yn rhagoriaeth anghyffredin: a dyma oedd iaith y Celtiaid yn ei pherthynas â'r Gymraeg.[135]

Syniadau a goleddwyd gyntaf yn yr ail ganrif ar bymtheg yw'r synidau sydd ganddo. Mae'n datgan bod yr iaith a siaredid yn Llydaw ac yng Nghymru yn un o'r rhai mwyaf hynafol a phur gan ei bod hi, ar un adeg, wedi ymestyn dros gyfandir Ewrop. Â yn ei flaen i gysylltu ieithoedd y dwyrain ag iaith y Brytaniaid fel y gwnaeth John Davies yn rhagymadrodd y *Dictionarium Duplex*. Ynghyd â hyn, mae Richards yn cyfeirio at ddamcaniaethau'r ddeunawfed ganrif drwy gyfeirio at syniadau Pezron yn yr *Antiquities of Nations*.

Esbonia Thomas Richards ei ddull o weithio, hynny yw y ffordd yr aeth ati i gasglu gwybodaeth a threfnu cynnwys y geiriadur. Dyma sut y disgrifiodd ei brif nod:

> My greatest Aim in this Performance was, to contribute, as much as I could, towards making the *original* Language of my Country more thorughly and generally understood by my Countrymen; and also towards their more easy and expeditious Attainment of the *English* Tongue.[136]

Ei fwriad oedd cyfieithu a diwygio Gramadeg a Geiriadur John Davies i'r Saesneg. Afraid dweud felly ei fod yn ddyledus iawn i Davies. Daw'r Gramadeg, sy'n cyflwyno'r rheolau yn Saesneg ac sydd yn cynnwys tair ar ddeg ar hugain o benodau bychain, cyn y geiriadur ei hun. Fe'i ceir:

---

[135] T. J. Morgan, 'Geiriadurwyr y ddeunawfed ganrif', *Llên Cymru*, 9 (1966), t.8.
[136] Thomas Richards, op. cit., t.xi.

> ... for the Sake of such as may be desirous to know the Rudiments of our Language.[137]

Mae'n debyg bod Richards hefyd wedi dilyn patrwm gramadeg Siôn Dafydd Rhys, *Cambrobrytannicae Cymraecaeve Linguae Institutiones et Rudimenta* (1592) – fel y gwnaeth Siôn Rhydderch ac iddo ddefnyddio gramadeg William Gambold, *Grammar of the Welsh Language* (1727) yn ogystal.[138] O bryd i'w gilydd ceir ambell i gyfeiriad at ramadeg Gambold yn y geiriadur.

O'r *Dictionarium Duplex* y daeth y mwyafrif o'r geiriau yng ngeiriadur Richards a'r dyfyniadau sy'n eu dilyn. Cyfeddyf iddo ddefnyddio:

> ... all the Authorities or Examples, which he [John Davies] gives from antient Writers, as they are accurate Proofs of the Significations assigned to the Words they are set under ...[139]

Yn union fel y gwnaeth Davies, cynhwysodd Richards yntau ddeunydd tarddiadol, nododd ddyfyniadau llenyddol a dangosodd ba eiriau oedd yn hen ac anarferedig. Cynhwysodd rannau eraill o gynnwys y *Dictionarium Duplex* hefyd, megis y rhestr ddiarhebion a'r 'Botanology'.

Ni fodlonodd Richards ar gyfieithu geiriadur John Davies yn unig. O bryd i'w gilydd gwelodd y cyfle i esbonio neu ychwanegu gwybodaeth am brifair:

> The explications are sometimes enlarged, when any antient Customs, or other *British* Antiquities occurred to be explained.[140]

Dymunai ychwanegu geirfa at ei eiriadur ef felly bu'n rhaid iddo newid trefn y prifeiriau. Pan gynhwysodd air newydd, ceisiodd ddilyn y patrwm a osodwyd gan Davies a dangos enghreifftiau ohono mewn cyd-destun. Oddeutu 14,000 prifair sydd yn *Antiquae Linguae Britannicae thesaurus* ac o'i gymharu ag ochr Gymraeg-Lladin y *Dictionarium Duplex*, sy'n cynnwys tua 10,500 prifair, gwelir felly bod dros 3,000 cofnod ychwanegol ynddo. O ble ddaeth y geiriau ychwanegol hyn felly? Yn gyntaf, dywed Richards ei fod yn ddyledus i Edward Lhuyd oherwydd yr *Archaeologia Britannica* daeth ar draws cannoedd o eiriau

---

[137] Ibid., t.xv.
[138] Richard M. Crowe, t.232.
[139] Thomas Richards, op. cit., t.xiii.
[140] Ibid., t.xii.

nad oeddent yng ngeiriadur Davies, rhai y gallodd eu cynnwys yn ei eiriadur ef ei hun.[141] Cododd eiriau Cernyweg, Gwyddeleg a llawer o eiriau Llydaweg o'r ffynhonnell honno a bu ychwanegiadau Lhuyd i *Britannia* Camden o fudd iddo hefyd. Ffynhonnell arall a ddefnyddiodd oedd gwaith Dr William Wotton ar *Cyfreithiau Hywel Dda*. Bu farw Wotton ym 1726 cyn y cyhoeddwyd ffrwyth ei lafur ar destun y Cyfreithiau. Ym 1730 cyhoeddwyd y gwaith, sef *Cyfreithjeu Hywel Dda ac eraill, seu Leges Wallicae* ..., dan olygyddiaeth gan Moses Williams. Ar ddiwedd y gyfrol ceir rhestr dermau Wotton ac yn y rhestr honno cafodd Richards hyd i dermau cyfreithiol Cymraeg a nifer o eiriau eraill na chawsent eu dehongli'n gywir yn y gorffennol ac na chawsent eu cynnwys mewn geiriaduron eraill.

'Roedd gan Richards un amcan arall, sef cynnwys geiriau o lyfrau printiedig, hen eirfâu a llawysgrifau yn ei eiriadur. Wrth baratoi'r gwaith, ceisiodd astudio cymaint o lawysgrifau â phosib "to render this Performance more compleat" [*sic*]. Dywedodd:

> ... it has been my good Fortune to meet with large Collections of the Works of the Poets, and some antient Manuscripts in Prose.[142]

Yn ôl G. J. Williams, mae'n anodd gwybod pa lawysgrifau y daethai Thomas Richards ar eu traws.[143] Er bod y Morrisiaid wedi ei gynorthwyo, tybiodd G. J. Williams nad oedd Richards wedi gweld y llawysgrifau a oedd yn eu meddiant. Tybiodd hefyd na fu'n ymweld â llyfrgelloedd mewn plastai lle y cedwid llawysgrifau pwysig ac nad oedd wedi bod yn yr Hengwrt ychwaith.[144] Ynghyd â'r llawysgrifau ym mhlasty Tre-groes, ger Llangrallo, nododd G. J. Williams rai llawysgrifau y gallasai eu gweld serch hynny:

> Tebyg iddo weled y llawysgrifau a oedd gan Siôn Bradford a'r beirdd eraill, ac yn sicr ddigon, gwyddai am y cyfrolau a gopiasai Tomas ab Ieuan o Dre'r-bryn yn ei blwyf ei hun. Ac efallai iddo hefyd ymweled â llyfrgell y Poweliaid yn Llanharan. Diamau bod llawer o'r llawysgrifau a welsai yng nghasgliad Iolo yn y Llyfrgell Genedlaethol.[145]

---

[141] Edward Lhuyd, 'Some Welsh Words Omitted in Dr Davies's Dictionary', *Archaeologia Britannica* ..., op. cit., tt.213-221.
[142] Thomas Richards, op. cit., t.xv.
[143] Griffith John Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg*, op. cit., t.302.
[144] Ibid., t.303.
[145] Ibid.

Er bod Richards yn aelod gohebol o Gymdeithas y Cymmrodorion, rhaid cofio mai ym 1751 y'i sefydlwyd hi, sef blwyddyn cwblhau'r geiriadur ac felly ni allai fod wedi cael manylion am lawysgrifau neu gynnwys llyfrgelloedd trwy'r Gymdeithas honno.

Yn dilyn y rhagair, ceir llythyr annerch Cymraeg 'At y Cymry'. Dywed Richards iddo greu'r geiriadur er mwyn y Cymry'n bennaf a'i fod o'r farn mai cael geirlyfr da oedd un o'r ffyrdd gorau i arbed iaith rhag cael ei llygru a'i cholli. Er mawr ddiolch iddynt, bu gwŷr dysgedig yng Nghymru'n cyfieithu Gair Duw i'r Gymraeg ac yn ysgrifennu Gramadegau a Geiriaduron er lles eu cyd-wladwyr:

> Y Gwŷr da hyn a fuant megis cynnifer o Oleuadau iw [*sic*] Cydwladwyr, bob un yn ei Oes ; a dyleu eu Coffadwriaeth fod bŷth yn hôff ac anwyl gennym.[146]

Daw ymwybyddiaeth Richards o'r traddodiad yr oedd yn rhan ohono i'r amlwg wrth iddo ddisgrifio gwaith y geiriadurwyr a'i rhagflaenodd. Nodir cyfraniad William Salesbury i'r traddodiad hwnnw a hefyd Henry Salesbury, Thomas Wiliems a John Davies wrth gwrs, ond ni chrybwyllir enw Thomas Jones na Siôn Rhydderch o gwbl. Sonnir yn hytrach am gyfraniad William Morgan, Dafydd Powel, Siôn Dafydd Rhŷs a Henri Peri i ddysg Gymraeg. Gan droi i sôn am ei eiriadur ei hun, dywed Richards y byddai'r gyfrol yn helpu'r Cymry i ddeall y geiriau anghynefin y deuent ar eu traws wrth ddarllen Cymraeg ac y byddai'n eu cynorthwyo i ddeall, siarad ac ysgrifennu Saesneg yn fedrus a chywir. Daw'r Cymry Seisnigaidd o dan ei lach yn y llythyr annerch gan eu bod yn anfodlon gweld y Gymraeg yn cael ei chynnal a'i chadw a'u bod yn dymuno gweld ei thranc. Iddynt hwy, meddai:

> ... Iaith arw, glegyrnog, drosgl, afrwydd, ddyrys, ddiflas yw'r *Gymraeg*[147]

a chan na fedrent siarad, darllen nac ysgrifennu eu mamiaith yn iawn, dywed Richards nad oedd yn disgwyl clywed bod ei eiriadur yn eu plesio. Er gwaethaf y rhai a ymwrthodai â'r Gymraeg, 'roedd nifer o wŷr dysgedig yng Nghymru, gwŷr a garai eu hiaith ac ni fyddent hwy'n debygol o feirniadu'r geiriadur wrth ddod o hyd i wallau ynddo.

---

[146] Thomas Richards, op. cit., tt.xix-xx.

Trown yn awr i edrych ar gynnwys y geiriadur. Yn y rhagymadrodd, honna Richards iddo gynnwys esboniad neu wybodaeth bellach ar gyfer rhai prifeiriau. O gymharu'r ddau eiriadur â'i gilydd, fe welir ei fod wedi ychwanegu at nifer o gofnodion John Davies. Mae'n werth nodi nad yw Richards yn crybwyll y ffaith iddo ddatblygu neu wella ar gynnwys y *Dictionarium Duplex* o gwbl. Ymhelaethodd ar gofnodion fel 'afon', 'bangor' a 'cae' er enghraifft. Dyma'r hyn sydd gan y ddau eiriadurwr ar gyfer 'cae':

| ANTIQUAE LINGUAE BRITANNICAE THESAURUS (1753) | DICTIONARIUM DUPLEX (1632) |
|---|---|
| Cae, *a necklace, an ornament to hang about the neck.* K.H. *From* Câu, *to shut or enclose; for the neck is inclosed in it. Hence* Cae *is used for a hedge by which fields are fenced from other fields that are nigh them; and the field itself thus encolsed is called* Cae. *Pl.* Caeau. Arm. | Cae, *a hedge. And* Disqueaff, *to break down a hedge.* Cor. Ke.<br>Cae, *Sapes. Sic Arm. et* Disqueaff, *dissepio.* |

Sylwer ar yr isgofnod newydd - 'lliain main' - sydd gan Thomas Richards o dan y prifair 'main':

| ANTIQUAE LINGUAE BRITANNICAE THESAURUS (1753) | DICTIONARIUM DUPLEX (1632) |
|---|---|
| Main, *small, slender, thin, slim.* Arm. Moan. Llian main, *fine linnen.* Meindwf, *slender.* | Main, *Gracilis, exilis. Arm.* Moan. Meindwf, *Gracilis.* |

O bryd i'w gilydd mae'n cynnwys dyfyniad ychwanegol i'r hyn sydd gan Davies er mwyn dangos y prifair mewn cyd-destun arall. Yn yr enghraifft a ganlyn, gwelir bod gan Richards ddyfyniad 'newydd' o *Historia Kyll ab Kilydd ab Kelyddon Wledig*:

| ANTIQUAE LINGUAE BRITANNICAE THESAURUS (1753) | DICTIONARIUM DUPLEX (1632) |
|---|---|
| Syllu, *to look or behold, to see, to espy.* Arm. Sellet. Sŵllt hoywfardd syll di hefyd. *D. G.* Du sy well wedi 'syllid. *L. G.* Ac yna y dywawd Cei; Myn llaw fy nghyfeilld; Syll di raccodan Rysswr. Brysiaw a orugant parth a'r mŵg, a dynesau parth ac yno dan ymarddisgwyl o bell, yny sydd Dillus farfawg, yn deifaw baedd coed. *Hist. K. 'ab Kilydd.* | Syllu, *Aspicere, inspicere, dispicere, intueri. Arm.* Sellet. Sŵllt hoywfardd syll di hefyd. *D. G.* Du sy well wedi 'syllid. *L. G.* |

[147] Ibid., t.xxii.

Dro arall mae ganddo ddyfyniad lle na cheir un o gwbl yn y *Dictionarium Duplex*:

| ANTIQUAE LINGUAE BRITANNICAE THESAURUS (1753) | DICTIONARIUM DUPLEX (1632) |
|---|---|
| Gwyddfa, *a burying place, a tomb, a monument. q. d.* Gorweddfa, *a place to lie down: also, the right of burial.* Dyfo hy a'r mâb hyd yr Eglwys y bo ei Wyddfa ynddi. *K. H.* | Gwyddfa, *Locus sepulture, Mausæleum.* q. d. Gorweddfa, *Recubitorium.* |

Nodwyd eisoes mai tua 3,000 prifair newydd sydd yn *Antiquae linguae Britannicae thesaurus*. O'r 3,000 hynny, nid oes gan tua 5% ohonynt gyfieithiad Saesneg o gwbl, esboniad yn unig sy'n eu dilyn. Gan amlaf nodir 'EL' sef Edward Lhuyd a 'KH' am 'Cyfreithiau Hywel' fel ffynhonnell y wybodaeth. Wrth iddo fewnosod prifeiriau ychwanegol yn y geiriadur, cofnododd Thomas Richards ffynhonnell llawer iawn ohonynt. Ymddengys iddo godi'r mwyafrif o waith Henry Salesbury gan fod y llythrennau 'HS' yn dilyn oddeutu 37%. Dyma'n fras y chwe phrif ffynhonnell a ddefnyddiodd:

(1) *HS* (Henry Salesbury): 37%

Nodir mwyafrif o'r rhain gydag obelisg [†] er mwyn tynnu sylw at y ffaith eu bod yn hen eiriau neu'n eiriau anarferedig.

(2) KH/Wotton (Cyfreithiau Hywel a William Wotton): 20%

(3) V (*An old* Welsh *Vocabulary, out of Mr.* Vaughan *of* Hengwrt's *Study*): 19%

(4) Edward Lhuyd/E.Lh. (Edward Lhuyd): 9%

(5) RM (Richard Morris): 5%

Ym 1751, rhoddodd Richard Morris wybod i Felix Farley ar y funud olaf bod ganddo'i restr ei hun i'w hychwanegu at y geiriadur a thrwy lythyr oddi wrth Farley y daeth Thomas Richards i wybod am hyn. Mewn llythyr dyddiedig 11 Mai, 1751 at Richard, gellir synhwyro'r brys a oedd ar Richards:

> I find by a Letter of Mr Farley's of Bristol, as likewise by a Paper, therein inclosed, written by you, that you have some Hundreds of Welsh Words, which are not in my MS. Dictionary now under his hand; and Mr. Farley tells me that you are willing to communicate them. If you will be so good, I beg you would send them me soon, that I may transmit them to Mr. Farley, with Directions how he may insert them in their proper places; otherwise they cannot be printed, unless as an Appendix.[148]

Ymddengys bod Richards wedi derbyn y rhestr hon yn fuan wedi hyn. Er gwaethaf yr hyn a ddywedodd yn ei lythyr, ni fu'n rhaid ei chyhoeddi fel atodiad

i'r geiriadur – cafodd y cyfle i fewnosod y geiriau yn eu priod leoedd a nodi'r llythrennau 'RM' ar ôl pob cofnod. Serch hynny, mae'n werth nodi na chafodd y cyfan eu cynnwys. Efallai bod nifer o brifeiriau ychwanegol Richard Morris yn y geiriadur eisoes neu mae'n bosib na chafodd Richards gyfle, oherwydd prinder amser, i'w mewnosod bob un. Beth bynnag oedd y rheswm, tua thrigain prifair sy'n cael eu nodi fel rhai 'RM', er bod sôn am "some Hundreds of Welsh Words" yn y dyfyniad uchod o lythyr Thomas Richards.

(6) Amrywiol: 10%

Mae'r categori hwn yn cynnwys D a Dav (*Dictionarium Duplex*), GT (Gwilym Tew), Thomas Wiliems, David Powel, Kyfranc Lludd a Llefelys, *Britannia* Camden, Gramadeg Davies, L Land (*Liber Landavensis*), Breuddwyd Rhonabwy, Y Mabinogi, G Gr (Gruffydd Gryg) ac Historia Kyll ab Kilydd ab Kelyddon Wledig. Nodir y Beibl fel ffynhonnell hefyd ac yn aml iawn nodir 'WS' am William Saelsbury wrth ochr y rhain.

Gan fod Thomas Richards yn dilyn patrwm y *Dictionarium Duplex*, 'roedd am ddangos enghreifftiau o'i eiriau ychwanegol mewn cyd-destun, yn union fel y gwaneth Davies. Llwyddodd i ddangos dyfyniad ar gyfer oddeutu 8% o'i brifeiriau newydd. O edrych ar y prif gategorïau isod, fe welir bod Richards wedi codi dyfyniadau o farddoniaeth a rhyddiaith:

(1) KH/Wotton (Cyfreithiau Hywel a William Wotton): 36%

(2) Y Beibl: 33%

(3) Amrywiol: 31%

Mae'r categori hwn yn cynnwys dyfyniadau: Breuddwyd Rhonabwy, Breuddwyd Macsen Wledig, B Br (Bedo Brwynllys), C (Cadwgan ap Cynwrig), Dafydd ap Gwilym, Dav a D (*Dictionarium Duplex*), D B (Dafydd Benfras), D Llwyd (Dafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffydd o Fathafarn), D N (Dafydd Nanmor), Edward Lhuyd, Englynion y clywed, E W (Ellis Wynne), G GL (Gruffydd Llwyd Dafydd ap Eingion Lygliw), G Gr (Gruffydd Gryg), Harri ap Rhys ap Gwilym, Historia Kyll ab Kilydd ab Kelyddon Wledig, Historia Owain ab Urien, Hist Per (Histori Peredur fab Efrog), Huw Davi, H D (Howel Dafydd ap Ieuan ap Rys), Iolo Goch, Ior F (Iorwerth Fynglwyd), I R I LL (Ieuan ap Rhydderch ap Ieuan Llwyd), J D R

---

[148] LLGC 14529. Gw. hefyd: E. D. Jones, 'Thomas Richards, Coychurch and Richard Morris', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 8, tt.114-15.

(Siôn Dafydd Rhys), J C (Iorwerth ap y Cyrriog), J H S (Ieuan ap Hywel Swrdwal), Kyfranc Llydd a Llefelys, Lewis Glyn Cothi, Llywarch Hen, L G (Lewis alias Llywelyn Glyn Cothi), LL (William Llŷn), LL Moel (Llywelyn Moeliawn), Moses Williams, N (Anonymous), O LL M (Owain ap Llywelyn ap y Moel), Rhydderch S Llewelyn, R G Er (Rhys Goch o Eryri), R L (Robert Leiaf), R N (Rhys Nanmor), S Kyfb (Syppyn Cyfeiliog), Tal (Taliesin), Tudur Aled, T Pr (Thomas Prys o Blas Iolyn), Wiliam Cynwal.[149]

Yn dilyn prif gorff y geiriadur, ceir rhestr o'r byrfoddau a ddefnyddiwyd. Nododd bod y geiriau a ddynodir gan y llythrennau 'S. W.' wedi eu codi:

> *out of Mr.* Vaughan *of* Hengwrt*'s Study, quoted by Mr.* Edward Lhwyd *in his* Archæologia Britannica.

Fel nifer o eiriadurwyr blaenorol, casglodd Thomas Richards eiriau deheuol a gogleddol ynghyd ac fe'u cofnododd gyda'i gilydd. Er hyn, yn ei eiriadur ef y gwelir yr ymgais gyntaf i nodi'n union pa rai oedd yn perthyn i'r de a pha rai oedd yn perthyn i'r gogledd. Er enghraifft:

Bro, *in the northern* Welsh *signifies a country, a region. Pl.* Broydd, *so in* Arm. *In* Glamorganshire Bro *is used for the lower or maritime part of the country, the vale. So in* K. H. Bro *and* Gwrthdir *are opposites, as* Mynydd *and* Hendref; Maenawr fro, *the plain, low, cultivated part of the country;* Maenawr wrthdir, *the mountainous part.*

Dafn, *the yarn of the woof in weaving.* Dafn *is the same in* S. W. *as* Bwrw *in* N. W. Y mae pedwar Edefyn ar hugain ym mhôb dafn.

Gwaun, *a meadow, a down.* S. W. *A mountain meadow.* N. W. *Planities montana.* D.

Hôb, *and* Hobaid, *a peck of corn or meal in* Glamorganshire. *In* Caernarvonshire *it is a measure containing four* Winchester *bushels.*

Yspawd, *a shoulder.* N. W. 'Spawdd môllt, *a shoulder of mutton.* 'Spold gweddar. S. W. Palfais gweddar *in* Monm. Glam. *and* Brec.

Weithiau, nodir bod y defnydd o air arbennig yn gyfyngedig i dde Cymru, fel y gwelir yn yr enghreifftiau a ganlyn:

Pryder, *carking care, solicitude, anxiety. It is a word used in* S. W.

Synogli, *to charm or inchant.* S. W.

Taw, *in* S. W. *the same as* Mai, *that; as;* Dywaid taw celwydd yw.

---

[149] Ar ddechrau argraffiad 1815 o *Antiquæ Linguæ Britannicæ Thesaurus*, esbonnir y talfyriadau yn yr adrannau: 'The Names of British Authors, and Manuscripts, quotes in this work ...' ac 'Abbreviations used in this work'.

Ticcyn, *a little, in* S. W.

Truan, *miserable, wretched, pitiful, poor, helpless; also, lean, slender, in* S. W.

Un o nodweddion pwysicaf *Antiquae linguae Britannicae thesaurus* yw'r geiriau tafodieithol sydd ynddo. Er nad yw'n crybwyll y ffaith yn y rhagymadrodd o gwbl, Thomas Richards oedd y geiriadurwr cyntaf yng Nghymru i gynnwys geiriau tafodieithol. Credir iddo gael ei eni yn Sanclêr ac iddo fod yn ysgolfeistr yn Llandysul am gyfnod,[150] felly 'roedd ei glust yn gyfarwydd ag iaith lafar Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Nododd y defnydd o'r gair 'gogawr' yng Ngheredigion er enghraifft:

Gogawr, *food for cattle, fodder; stover. I have observ'd this word used very commonly in this sense in* Cardiganshire. Gogawr yw ŷd wedi y cychwynner oddiar y tyfo arno, a gwair sych, a bresych, a tho tŷ, &c. K. H. *Hence* Ymogawr *seems to be derived.*

Nododd rai geiriau tafodieithol Sir Frycheiniog a Sir Fynwy, ond yn naturiol ddigon, geiriau tafodieithol Morgannwg oedd o ddiddordeb pennaf iddo ac mae'n siŵr ei fod wedi clywed ac wedi cofnodi geirfa'r iaith lafar ei hun. Tynnodd rai geiriau o lawysgrifau a llyfrau printiedig ac yn ôl Richard M. Crowe mae modd olrhain rhai o'r enghreifftiau sydd ganddo o eiriau tafodieithol Morgannwg yn ôl i *Archaeologia Britannica.*[151] Yn achos yr enghreifftiau canlynol, gwelir Richards yn dangos cyfieithiad neu ystyr gair yn Saesneg ac yna'n nodi ystyr gwahanol i'r gair hwnnw ym Morgannwg:

Alltraw, tâd bedydd, *a word used in* Buellt. *D. A god-father. The pl.* Alltrawon *is used in* Glamorganshire *for the gossips; but not very common.*

Cymmhennu, *to adorn, to beautify and set off, to trick, to trim, to manage eloquently a discourse. In* Glamorg. *it signifies to rail at one or to abuse one in language.*

Gwâs, *a servant. So in* Arm. *It properly signifies a youth, a lad, whence the old proverb,* Am gwymp hên, chwerddid gwên gwâs. *It was in this sense the ancients used it, and so it is used still in* Glamorganshire, *when they say* Gwyr a Gweision, *for men of all sorts.*

Swrth, *slow, sluggish, slothful: also, suddenly.* Mor swrth y syrthiodd march Paen. *Ll. hên. Also, roughly in* Glam. Dywedyd yn swrth.

Trwydded, *licence, liberty, freedom; truce. It is also the same as* Ymborth, *food in* Glam. *Also, the same as* Trwyddew.

Nododd Richards ba eiriau oedd yn gyfyngedig i Forgannwg drwy roi 'Glam', 'Glamorg' neu 'Glamorganshire' ar eu holau. Er enghraifft:

Baili, *a court before a house.* Glamorg.

---

[150] Richard M. Crowe, op. cit., t.229.
[151] Ibid., t.235.

Dihwylo, *to undress or put off one's clothes, to strip. It is a word used in* Glamorganshire.

Gwared, *the skin wherein any young thing is wrapped in the matrice, the after-birth or burden.* Glam.

Gwersa, *to spend the time idly in tattling and prating.* Glam.

Morcath, *an uncommon roaring of the sea, accounted a prognostick of foul weather. It is a word used in* Glamorganshire.

Neisiad, *a kerchief.* Glam.

Panwen, Gwaun bân, Gwaun wlŷb neu fownog, *a wet meadow.* Glamorg.

Plûdd, *soft, tender, in* Glam.

Ar ddiwedd y geiriadur ceir llysieulyfr Cymraeg-Saesneg pymtheg tudalen, sef cyfieithiad o lysieulyfr Cymraeg-Lladin John Davies. Mae gwaith Richards rywfaint yn llai o ran maint gan na chynhwysodd rai o'r prifeiriau a geir yn y *Dictionarium Duplex*. Yn ôl y dystiolaeth a geir mewn llythyr a ysgrifennodd Richards ym mis Mehefin 1751, 'roedd William Morris, eto ar y funud olaf, wedi cynnig ei ddiwygio. Yn y llythyr hwn at Richard Morris, mae'n gwrthod y cynnig gan gynnig rheswm digonol:

> I am extremely obliged likewise to your ingenious Brother Mr W. Morris, for offering to revise my Herbal; but the Copy I had written fair for the Press is now with the Printer; and the foul Copy I have by me is not fit to be sent, being so often interlined and altered...[152]

Wedi iddo weld y geiriadur cyhoeddedig, gwawdio'r llysieulyfr a wnaeth William Morris. Meddai:

> ... wfft, a dwbl wfft ir Botanology![153]

Yn dilyn y 'Botanology', ceir casgliad o ddiarhebion Cymraeg gyda chyflwyniad Cymraeg a Saesneg. Bron i ddwy fil sydd yn y casgliad hwn, casgliad tebyg iawn i'r un a ymddangosodd ar ddiwedd *Dictionarium Duplex* John Davies. Yn ôl Thomas Richards, ni fedrodd ychwanegu llawer mwy at restr Davies ac ymddengys mai tua hanner cant yn rhagor sydd ganddo. Yn y *Dictionarium Duplex* nodir unrhyw ddihareb a oedd "yn odywyll" o ran ystyr felly nododd Richards yr un rhai yn ei restr ef gydag obelisg [†].

---

[152] Hugh Owen (gol.), op. cit., Cyfrol 1, t.213.
[153] John H. Davies (gol.), op. cit., t.228.

Ni chafodd y geiriadur dderbyniad da iawn yng ngogledd Cymru. Bu Goronwy Owen, er enghraifft, yn feirniadol ohono gan ddweud wrth Richard Morris:

> As for poor plodding Richards, you've said more of him than ever I intended to do myself: but say what you will, you can't injure him much.[154]

Aeth ymlaen i achwyn am ddull Richards o weithio:

> The Dictionaries, Glossaries &c., that he compil'd from, might have been usefull to a judicious man, that could have pick'd and cull'd with judgment and discretion. But I've no patience when I see H. S. or the late unaccountable Mr. M. Williams quoted to justify a blunder ot to legitimate and authorize the uncouthest Gibberish. He must either be superstitiously bigoted to H. S. &c., or else very injudiciouss, with a witness, to swell his Book needlessly with the same word three of four times over ...[155]

Daeth Richards o dan lach y Morrisiaid am iddo gynnwys geiriau tafodieithol Morgannwg a dyma gwyn Goronwy Owen eto:

> what has Glam[organ] words to do with Welsh ...[156]

Erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif 'roedd mwy a mwy o bobl yn bychanu'r gwaith. Mewn llythyr at Edward Jones, Bardd y Brenin, dywedodd William Jones, Llangadfan:

> I have a sincere regard for such as are willing to serve their country, but cannot help remarking that Richards' is a very illcontrived piece, tending to puzzle the ignorant & to give but little satisfaction to the learned. His English is but a schoolboy's language. I see no need of citing authorities.[157]

Ar y cyfan, cafodd Thomas Richards ei gollfarnu ar gam. Wrth fynd ati i greu geiriadur Cymraeg-Saesneg ar batrwm y *Dictionarium Duplex*, rhaid cofio bod Richards wedi camu yn ôl troed un o'r geiriadurwr mwyaf disglair a thalentog yn hanes geiriaduraeth Gymraeg ac mai tasgddigon anodd oedd creu geiriadur newydd a fyddai'n cymharu'n ffafriol neu'n rhagori ar *magnum opus* John Davies. Pe bai rhywun yn rhoi *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb*, sef geiriadur

---

[154] J. H. Davies (gol.), *The Letters of Goronwy Owen (1723 - 1769)* (Caerdydd, 1924), t.68.
[155] Ibid., t.69.
[156] Ibid., t.68.
[157] Griffith John Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg*, op. cit., t.304.

Thomas Jones, *The English and Welch Dictionary* gan Siôn Rhydderch ac *Antiquae linguae Britannicae thesaurus* ochr yn ochr â'i gilydd a'u cymharu, yna sylweddolid bod gan y geiriadur olaf rinweddau arbennig a byddid yn siŵr o werthfawrogi ymdrech a champ Richards. Er i Goronwy Owen feirniadu'r gwaith yn llym, 'roedd yn ddigon parod i ddefnyddio copi arbennig y gallai ychwanegu ato:

> I had some few remarks ... in my Davies' Dictionary before I receiv'd Gwalchmai, &c., but now shall be enabl'd to augment them considerably in my Richards' which I've got interleav'd and neatly bound into two Vol. for that purpose.[1]

Pan gyhoeddwyd y gwaith, atebwyd y galw am eiriadur Cymraeg-Saesneg safonol. Gallai'r rhai na ddeallent Ladin droi ato a chwilio am ystyron hen eiriau neu eiriau anarferedig ac anodd a ddefnyddid gan feirdd megis y cywyddwyr er enghraifft. O wneud hynny, gallent ddeall a gwerthfawrogi'r farddoniaeth honno'n well. Bu'r geiriadur yn arf defnyddiol i'r beirdd eu hunain yn ogystal, oherwydd gallent godi hen eiriau ohono a nododd Thomas Parry fod beirdd cynnar yr Eisteddfod, megis Robert Williams a Richard Powell, wedi tynnu'n helaeth arno.[2]

Bu farw'r argraffwr Felix Farley ym 1753, sef yr union flwyddyn y cwblhaodd argraffu geiriadur Richards.[3] Er gwaethaf y beirniadu a fu ar y geiriadur, mae'n rhaid bod galw amdano oherwydd trosglwyddwyd stoc Farley i lyfrwerthwr o'r enw Benjamin Dodd wedi ei farwolaeth ac fe'i hailgyhoeddwyd ym 1759.[4] Mae'r gyfrol yn union yr un fath â'r argraffiad cyntaf. Yr unig beth sy'n wahanol amdani yw'r wyneb-ddalen – mae hi'n dwyn y dyddiad 1759. Erbyn hynny, gellid prynu'r gramadeg ar wahân i'r geiriadur am swllt gyda rhagair arbennig gan Richards ar ei dechrau.

Ar ôl i argraffiad 1759 ddod o'r wasg, dechreuodd Richards baratoi geiriadur Saesneg-Cymraeg. Mae'n bosib ei fod wedi gofyn am gymorth Richard Morris

---

[158] J. H. Davies (gol.), op. cit., t.115.
[159] Thomas Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg Hyd 1900* (Caerdydd, 1944), t.248.
[160] John H. Davies (gol.), op. cit., t.235.
[161] Richard M. Crowe, op. cit., t.236.

unwaith yn rhagor oherwydd mewn llythyr dyddiedig 24 Tachwedd 1759 at ei frawd, Lewis, dywedodd Richard Morris:

> The Rev. Thomas Richards of Coychurch is compiling an English-Welsh Dictionary: Gambold's MS. would be of infinite service to him, but there is no such thing as procuring it for him.[162]

Casglasai John Richards, Rheithor y Coety, ddeunyddiau at eiriadur Saesneg-Cymraeg gyda'r nod o gynorthwyo Thomas Richards ac ychwanegu at ei eiriadur.[163] Yn ôl Richard Morris:

> Y peth a ddywaid wrthyfi yn dref yma oedd y casglai ddefnyddiau ar ei gost ei hun i'w rhoi yn llaw Tomos Ritsiards i'w dodi ynghyd ...[164]

Er i John Richards geisio cymorth y Morrisiaid, nid oeddent y barod i'w helpu ac nid oeddent am ymrwymo i'w gynlluniau. Yn wir, nid oeddent yn meddwl llawer ohono. Disgrifiwyd ef fel:

> ... a poor Welshman, but eat up with zeal for y^e language[165]

a dyma ymateb gwawdlyd Lewis Morris iddo:

> Wfft i'r fath ddyn! Assist him indeed, what assistance can he himself give?[166]

Efallai bod rhai anawsterau wedi llesteirio cynlluniau Thomas Richards i lunio geiriadur Saesneg-Cymraeg, ond ni pheidiodd ei weithgarwch geiriadurol. Cyhoeddodd William Evans eiriadur Saesneg-Cymraeg ym 1771 a phan ddaeth yr ailargraffiad ohono o'r wasg ym 1812 nodir iddo gael ei ddiwygio gan Thomas Richards.[167] Bu'n ychwanegu at ei eirfa ei hun yn ogystal. Yn *Almanac* Mathew Williams ar gyfer y flwyddyn 1790 ymddangosodd hysbysiad am gyhoeddi argraffiad arall o Eiriadur Cymraeg-Saesneg Thomas Richards gyda chryn ychwanegiadau yng ngwanwyn y flwyddyn honno.[168] Serch hynny, ni ddaeth y gyfrol ddiwygiedig hon o'r wasg gan iddo farw ym 1790. Yn ei ewyllys,

---

[162] John H. Davies (gol.), op. cit., Cyfrol 2, t.141.
[163] Griffith John Williams, 'Y Ddeunawfed Ganrif', op. cit., tt.306-7.
[164] John H. Davies (gol.), op. cit., t.439.
[165] Ibid., t.420.
[166] Ibid., t.447.
[167] Griffith John Williams, op. cit., t.308.
[168] Ibid.

gadawodd ei lawysgrifau a'i lyfrau i Edward Thomas, ysgwïer Tre-groes ym mhlwyf Llangrallo, ond ni wyddys beth fu eu hanes.[169]

Ym 1815 cyhoeddwyd argraffiad arall o *Antiquae linguae Britannicae thesaurus* gan Ishmael Davies, Trefriw. Ni chafodd cynnwys y geiriadur ei olygu na'i gywiro ond newidiwyd yr wyneb-ddalen ac ychwanegwyd adran ar 'Rheolau Barddoniaeth Gymraeg' ynghyd ag atodiad tair tudalen ar hugain a thudalen yn dangos yr wyddor Roeg a Hebraeg. Cyhoeddwyd argraffiad pellach gan Richard Jones, Dolgellau, yn yr un flwyddyn a defnyddiwyd wyneb-ddalen argraffiad 1759. Daeth yr argraffiad olaf o'r geiriadur o wasg Thomas Price, Merthyr Tydfil, ym 1839. Yn yr argraffiad hwn gwelir wyneb-ddalen argraffiad Ishmael Davies a honnir bod y geiriadur wedi cael ei helaethu er na cheir unrhyw fanylion pellach ynglŷn â sut y gwnaethpwyd y gwaith na phwy fu wrthi.

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

[169] Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), op. cit., t.803.

## (iv)
## William Gambold (1672 - 1728)

Yn ôl y dystiolaeth a geir yn rhagymadrodd geiriadur John Walters, ganed William Gambold yn Aberteifi ar 10 Awst, 1672.[170] Gwyddys iddo dderbyn addysg glasurol dda. Ym mis Mai 1693, ymaelododd yn Neuadd Fair, Rhydychen,[171] lle daeth yn gyfaill ac yn gynorthwywr i Edward Lhuyd. Yn y flwyddyn honno, gwahoddwyd Lhuyd i ofalu am yr adran ar Gymru yn y argraffiad newydd o *Britannia* Camden. Mae'n amlwg na chymerodd hi fawr o dro i Lhuyd sylweddoli potensial y myfyriwr israddedig newydd o Aberteifi oherwydd bu Gambold yn cyfrannu tuag at y gwaith a baratôdd Lhuyd ar gyfer Gibson. Yn ystod y cyfnod hwn, 'roedd Lhuyd yn ŵr dylanwadol yn Rhydychen ac mae'n siŵr bod ei syniadaeth a'i ddelfrydau wedi rhoi hwb i Gambold wrth iddo feithrin diddordeb a diléit yn yr iaith Gymraeg. Ym 1694 aeth ymlaen i Goleg Caerwysg ond ni cheir tystiolaeth yn dangos ei fod wedi graddio yno. Erbyn 1707, 'roedd yn cadw ysgol yn Llanychâer, Sir Benfro[172] ac yno, yn ôl Geraint H. Jenkins, y daeth yn rhan o "gylch dethol llenorion dyffryn Teifi ..."[173]. Mae'n bosib ei fod yn gurad yno ar yr adeg hon oherwydd cafodd ei sefydlu'n rheithor Cas-mael a Llanychâer ddwy flynedd yn ddiweddarach, ym mis Rhagfyr 1709.[174]

Ym 1727, cyhoeddwyd gramadeg William Gambold – *A Grammar of the Welsh Language. Or a short and easie Introduction to the Welsh Tongue in 2 Parts* –

---

[170] Bywgraffiad byr a ysgrifennwyd gan John Gambold yn: John Walters, *An English-Welsh Dictionary, wherein, not only the words, but also, the idioms and phraseology of the English Language, are carefully translated into Welsh, by proper and equivalent words and phrases with a regular interspersion of the English proverbs, and proverbial expressions, rendered by corresponding ones in the Welsh tongue* (Llundain, 1794), t.vi. Gw. hefyd Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), op. cit., tt.256 - 7.

[171] Joseph Foster, *Alumni Oxonienses: The Members of the University of Oxford, 1500 - 1714: Their Parentage, Birthplace, and Year of Birth, with a Record of their Degrees* (Rhydychen, 1891), t.545.

[172] Thomas Shankland, 'Sir John Phillips; The Society for Promoting Christian Knowledge; and the Charity-School Movement in Wales, 1699 - 1737', *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion,* (1904-5), t.186.

[173] Geraint H. Jenkins, 'Bywiogrwydd Crefyddol a Llenyddol Dyffryn Teifi, 1689 – 1740', op. cit., t.444.

[174] *West Wales Records*, ii, t. 226; iii, t.250.

gan Nicholas Thomas, Caerfyrddin.[175] Un o brif amcanion Gambold oedd anelu'r gwaith at y Cymry di-Gymraeg, gan bwysleisio – am ei bod hi'n "very little known in this our own Island"[176] – bod y Gymraeg yn iaith hynafol a diledryw. Bellach, adwaenir llawysgrif wreiddiol William Gambold fel Llanstephan 191. Gadawyd fersiwn diwygiedig o'r llawysgrif hon, sef copi holograff a anfonwyd at yr argraffwr, mewn ewyllys i'r Llyfrgell Genedlaethol gan y Parch. William Owen.[177] Cafodd y gramadeg ei ailargraffu yng Nghaerfyrddin ym 1817 a daeth trydydd argraffiad gydag ychwanegiadau o wasg yn y Bala ym 1833.

Priodolwyd gwaith bychan arall yn dwyn y teitl a ganlyn i William Gambold hefyd: *A Few Observations on the several Parts of Speech, considered both abstractedly, or in general, as they stand in the Welsh language, in particular.*[178] Fe'i cyhoeddwyd gan T. Roberts, Caernarfon, ym 1809 ar gyfer :

> ... those Gentlemen, who are either Travellers or Residents in Wales.[179]

Ynddo ceir penodau byrion yn ymdrin ag enwau, ansoddeiriau, rhagenwau, berfau, adferfau, cysyllteiriau, cystrawen, talfyriadau, prif lythrennau a threiglo.

Bu Gambold wrthi am oddeutu pymtheng mlynedd yn llunio geiriadur Saesneg-Cymraeg a Chymraeg-Saesneg.[180] Dechreuodd baratoi'r gwaith, sef 'Lexicon Cambro-Britannicum', pan oedd yn cadw ysgol yn Llanychaer, ym 1707.[181] Wedi iddo gael ei anafu mewn damwain, bu'n rhaid i Gambold roi'r gorau i'w ddyletswyddau fel offeiriad oherwydd anhwylder ar ei frest.[182] O hynny ymlaen,

---

[175] William Gambold, *A Welsh Grammar. Or A short and easie Introduction to the Welsh Tongue. in 2 Parts* (Caerfyrddin, 1727).
[176] Ibid.
[177] LLGC 3488.
[178] William Gambold(?),*A Few Observations on the several Parts of Speech, considered both abstractedly, or in general, as they stand in the Welsh language, in particular. Designed for the furnishing a Learner of that Language with some previous cursory Idea of the Nature and Turn of it, before he studies a full and proper Gramar thereof* (Caernarfon, 1809).
[179] Hysbyseb T. Roberts ar ddechrau'r gwaith.
[180] John Walters, op. cit., t.vi.
[181] G. M. Roberts, 'William Gambold a'i Deulu', *Y Genhinen*, 22 (1972), t.195.
[182] John Walters, op. cit., t.vi.

canolbwyntiodd yn llwyr ar greu geiriadur newydd. Pan baratoai'r gwaith, 'roedd ganddo gysylltiad â Browne Willis ac yn rhai o'r llythyron a anfonodd Gambold ato rhwng 1722-3, ceir sôn am ddatblygiad y geiriadur a'r gramadeg.[183] Disgrifioddy gwaith fel:

> ... a Dictionary in two parts, which I call *Lexicon Britannicum*. The former part, being English-Welsh, is dedicated to the *Prince*, and will be sold to subscribers at 5s 6d per copy in sheets; and the latter, being Welsh-english, is dedicated to the *Bp of S. Davids*, and will be sold at 3s 6d in sheets : but whoever will subscribe for both parts he shall have them at 8s in sheets. The whole will consist of about 58 sheets in large Octavo, and on a small Letter; and is the fruit of upwards of 18 years study. I presume it will be found to be considerably fuller in the leading Words of both parts, than any Dictionary yet extant, and to have variety of proper Translations to each Language, with the necessary Additions of Numbers and Genders of the Welsh Substabtives and Adjectives, as also the anamalous variations of some Welsh verbs.[184]

Ymddengys fod Willis wedi cynnig cynorthwyo Gambold oblegid mewn llythyr diweddarach, mae'n diolch am:

> ... your kind offer to assist in the publishing of my Works by Subscription.[185]

Daeth y gwaith ar y geiriadur i ben ym mis Medi 1722. Lluniodd Gambold 'proposal' ar ei gyfer ac ymddangosodd y 'proposal' hwnnw yn ei ramadeg ym 1727.[186] Yn ôl Gambold, gellid cael hyd i:

> ... all the *English* words and Phrases, that could be met with, alphabetically digested and distinguished into their several Acceptations, and translated into the *Welsh* Tongue by a Mulitiplicity of proper Words ana Phrases.[187]

Er bod y rhan Cymraeg-Saesneg yn llai o ran maint, dywed ei fod yn debyg iawn o ran cynnwys i'r rhan arall a'i fod hefyd yn dangos:

> ... the Genders and Numbers of Substantives and Adjectives, and the Conjugations of Verbs, respectively subjoyn'd.[188]

---

[183] Mae'n debyg bod llythyron Gambold a Willis yn Llyfrgell Bodley, Rhydychen ac fe'u cyhoeddwyd gan y Parch. J. T. Evans, Stow-on-the-Wold, yn *The Pembroke County Guardian*: 25 Mai 1905, t.7; 1 Mehefin 1905, t.7; 8 Mehefin 1905, t.7; 15 Mehefin 1905, t.7; 22 Mehefin 1905, t.7; 29 Mehefin 1905, t.7.

[184] *The Pembroke County Guardian*, 8 Mehefin 1905, t.7.

[185] *The Pembroke County Guardian*, 29 Mehefin 1905, t.7.

[186] 'Advertisment' yn William Gambold, op. cit.

[187] Ibid.

[188] Ibid.

Fel arfer, gofynnid i danysgrifiwr dalu hanner pris llyfr o flaen llaw a'r hanner arall unwaith iddo dderbyn ei gopi o'r llyfr[1] ond yn achos 'proposal' Gambold, cynigiwyd dewis i'r darpar danysgrifiwr:

> Both parts will be printed on such a Letter as This, *in Folio*: And will be sold to Subscribers in Sheets at Three-half-pence a sheet, whereof 10*s* to be paid in hand, the Remainder on delivery of the Copies. But if any choose to Subscribe for single Parts, The must be content to pay at the Rate of seven Farthings a Sheet, whereof 8s. in hand for the *English-welch* Part, and 3s 6d. for the *Welsh-english*.[2]

Nodir bod Joseph Downing yn Llundain, John Gambold yn Rhydychen, John Rogers yn Amwythig a'r awdur ei hun yn derbyn tanysgrifiadau.

Aeth holl lafur caled Gambold yn ofer. Gan na lwyddodd i godi digon o arian, ni fedrodd ddwyn 'Lexicon Cambro-Britannicum' drwy'r wasg. Mae'n bosib mai'r ffordd yr aeth ati i geisio denu tanysgrifwyr a achosodd i'r fenter fod yn aflwyddiannus. Bu Gambold farw ym mis Medi 1728. Bellach, mae'r geiriadur yng nghasgliad llawysgrifau Llansteffan a'r dyddiad a roddwyd arno yw 1721-2.

Mae dwy ran i Lanstephan 189 – rhan Saesneg-Cymraeg gynhwysfawr a rhan Cymraeg-Saesneg llai o faint. Yn ôl John Gambold, mab hynaf William, 'roedd geiriau Lladin rhwng y Saesneg a'r Gymraeg yng nghopi gwreiddiol ei dad, ond fe'u hepgorodd yn y llawysgrif a baratôdd ar gyfer y wasg.[3] Chwyddent faint y geiriadur yn ormodol ac nid oeddent yn ddefnyddiol i'r defnyddiwr cyffredin. Mae'n rhaid bod galw am eiriadur Saesneg-Cymraeg ac ni chyhoeddwyd geiriadur o'r fath tan 1725 pan ymddangosodd *The English and Welch Dictionary* Siôn Rhydderch. Ar wyneb-ddalen rhan gyntaf Llanstephan 189, disgrifir y rhan gyntaf fel un sydd yn cynnwys mwy o brifeiriau ac idiomau nag unrhyw "*English* Vocabulary". Fe'u cyfieithwyd hwy i'r Gymraeg gan ddefnyddio geirfa o eiriadur Dr John Davies, y Beibl Cymraeg, gwaith awduron Cymreig cydnabyddedig a geirfa a oedd mewn "common use".

---

189 Eiluned Rees, 'Developments in the Book Trade in Eighteenth-Century Wales', op. cit., t.37.

190 'Advertisment' yn W. Gambold, op. cit.

191 John Walters, op. cit., t.vi.

O droi at y cynnwys, gwelir bod cofnodion Gambold yn llawn iawn. Sylwer, er enghraifft, ar y llu cyfieithiadau Cymraeg a gynigir am 'dead' a 'to favour':

*Dead.* Marw, dïyspryd, marwaidd, methedig, dïenaid, ofnog, digalon, llwfr, difywyd, heb nac enaid nac anadl, wedi ymadaw ar bŷd, digysur, dïymadferth, crin, gwyw, musgrell, pŵl, trymhyrddig, diog, diowgswrth, swrth, hwyrfrydig, llibyn, anesgud, hysp, anfuddiol, llesg, llesgethan, llesgenaidd, anfywiog, diffrwyth, esgeulus.

*To Favour.* Ffafrio, hoffi, dwyn ewyllys da, cydsynio, cyd-ddwyn, achlesu, goddef, dywedyd (rhoi ei air) ym mhlaid un, pleidio gydag un, caru, arail, coledd, serchu, ymgaredigo, croesawu, ymwasgu wrth, dyfod yn borth, ymgeleddu, meithrin, magu, magwriaethu, cofleidio, bod yn dda (ganddo am) wrth, bod wrth fodd, 1 Sam: 29. 6. bod yn raslon, Deut: 28. 50. dangos trugaredd, dangos ewyllys da, trugarhau wrth, Ps: 109. 12. bod yn gymmwynasgar, Ps: 112. 5.

Ni nodir pa eiriau a gafodd eu codi o'r *Dictionarium Duplex* wrth gwrs, ond nodir y Beibl fel ffynhonnell yn aml iawn, er enghraifft:

*To Break off.* Torri (rhwygo) ymaith, Tynnu, Exod: 32.2. Tynnu ymaith, Job 17.11.

*A Destroying, Destruction.* Distryw, distrywedigaeth, dinystr, difrawd, difrodaeth, dïen, dihenydd, llanastr, afrad, yspail, hafog, lleddfa, aerfa, cyflafan, cwymp, adfail, colliant, colledigaeth, cystudd, Deut: 7. 23. Trychineb, Job: 31. 29. dialedd, Dihar: 1. 27. niwed, Dihar: 17. 19. drylliad, Jer: 17.18. trangc, Hos: 13. 14. difetha, Esth: 8. 6. tramgwydd, Ecclus: 1. 22. Anrheithiad, cribddeiliad, diboblad, didyad. Destructive: see Destroying.

*An Ear-ring*: Clust-dlws, clustfodrwy, Hos: 2.13. tlŵs, Job 42.11. anwyl-dlws, Dihar: 25.12.

*Every fool will be Meddling*: Pob ffol a fynn ymyrraeth, Dihar: 20.3.

*To give diligence*: Gwneuthur ei oreu. Luc: 12.58,

Sylweddolasai Edward Lhuyd fod angen geiriadur Cymraeg llawnach na'r *Dictionarium Duplex*, felly ceisiodd ysbrydoli nifer i ymgymryd â gwaith geiriadurol a'u hannog wedyn i gynnwys geiriau "that occur in reading or discourse" yn ogystal â geiriau bob dydd.[192] Mae'n debyg bod Gambold wedi casglu geiriau tafodieithol i Lhuyd, felly pan aeth ati ei hun i lunio geiriadur ei hun, cynhwysodd eirfa bob dydd ynddo. Dyma rai cofnodion o iaith lafar Gambold:

*An addled Egg*: Wy clwcc.

*An Ale-house haunter* Gloddestwr, wttreswr, hoppysyn, helyntiwr o dafarn bwy gilydd, dïottwr, dïotai.

*A doxy.* Cardottai anllad gnawdolfryd, anlladferch, mwyglen, symlogen, cyffoden.

---

[192] G. J. Williams, 'Edward Lhuyd', op. cit., t.132.

*The fighting of Cattle*: Bugad.

*A Girl.* Geneth, genethig, genethen, llangces, llangcesig, herlodes, herlodesig, bachgennes, hoccrell, morwyn, morwynig, crottes, baban.

*To go a Maying.* Myned i ymfolheulo ym mis Mai, nei [*sic*] i ymddifyrru oblegid dyfodiad y gwanwyn.

*To Lay a branch*: Plygu pen gwrysgen, ieuangc ai osod yn y ddaiar fel y gallo wreiddio.

*Noblo.* To slice an apple or root.[193]

*Penliniws.* Reapers knee-clouts.[194]

*The tooth-ache* Y ddannoedd.

Ped edrychid ar draddodiad geiriadurol Cymru a dull y geiriadurwyr o weithio cyn dyddiau William Gambold, yr hyn a welid yn anad dim fyddai un geiriadurwr yn efelychu a cheisio gwella ar waith y llall. Serch hynny, mae gwaith Gambold ychydig yn wahanol a gellir ei ystyried fel cam arwyddocaol ymlaen yn hanes datblygiad y geiriadur Cymraeg yn y ddeunawfed ganrif. Er iddo godi a defnyddio geiriau o'r *Dictionarium Duplex*, ni ddilynodd y patrwm neu'r cynllun a osodwyd gan ei ragflaenwyr yn glòs. Yn hytrach, trwy ddangos geiriau mewn gwahanol gysylltiadau a thrwy gynnwys trosiadau o idiomau neu ymadroddion Saesneg, cyflwynodd elfennau newydd na welwyd mohonynt o'r blaen mewn geiriaduron Cymraeg. Ymhen amser, mabwysiadodd John Walters yr egwyddorion geiriadurol hyn. Gwaith Gambold a ddefnyddiodd fel sylfaen i'w eiriadur Saesneg-Cymraeg nodedig gan helaethu'r casgliad o idiomau ac ymadroddion Saesneg.

Ceisiodd Gambold gadw at eirfa gynhenid y Gymraeg a'i defnyddio wrth gyfieithu o'r Saesneg, fel y gwelir yn yr enghreifftiau isod:

*A Back friend.* Cyfaill twyllodrus dïymddiried, gelyn dirgel diwybod.

*Black and blue*: Cleisiog, dulas, glaswelw, duwelw, plymliw, duglais.

*To beat black and blue*: Cleisio, dugleisio, tymmhigo.

---

[193] Ar lafar yng nghanolbarth a godre Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru.*

[194] Ar lafar yng nghanolbarth Ceredigion yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru.*

*To come to light*: Ymddangos, bod (myned) yn amlwg, yn weledig, yn wybodus, dyfod i'r goleu, dïargelu, ymddïogelu, ymegluro.

*To do a thing in a Dish.* Gwneuthur peth yn gywraint ac yn gymmwys.

*At hearts Ease*: Wrth fodd ei galon.

*To no Effect*: yn ofer.

*To give like for like*: Rhoi'r naill tros y llall, talu'r pwyth, talu'r gwrthbwyth.

*To Lay in lavender.* Gosod (rhoi) yn gyngwystl neu yngŵystl, cyngwystlo, gwystlo, arwystlo, prido.

*To hold ones Peace.* Distewi, tewi â sôn, bod heb yngan, rhoi gosteg, gostegu, cadw cyfrinach.

Mae ambell gofnod yn fwy cyflawn na'r gweddill. Sylwer ar y cofnod sydd ganddo am 'a feather':

*A Feather* Pluen, pluyn, plufyn, asgell, adain, Ps: 68. 13. A little Feather: Asgellig. *A Feather bed*: gwely plu, gwely matras. *A plume of feathers*: tusw (syppun) o blu. *Down feathers*: Pluccan, goflew, man-blu. *To Feather*: Addurno â phlu. *also as To pluck off Feathers*: Pluo, plufo, di bluo. *To begin to have Feathers*: Pluennu. *To erect the Feathers*: astellu. *Full of feathers*: Pluog. *Bearing feathers*: Pluog, asgellog. *Without feathers*: Diblu, moll, llwmm. *A Feather-draper*: Pluwr, plufwr. *The Feathers of an arrow*: Esgyll (adenydd) saeth. *Feathered*: Pluog, adeiniog, asgellog. *A Feathered Fowl*: Hediad, ehediad, aderyn, asgellog, perchen adain. *Feather-footed*: Garw-droed, asgell-droed.

a rhai enghreifftiau o'r idiomau sy'n dod o dan y prifair 'to make':

*Make haste:* Cyflymma, na sâf, 1 Sam: 20. 38.
*To Make a bed:* Tanu (gwneuthur, cyweirio) gwely.
*To Make the most of:* Gwerthu mor ddrytted ag y gallo, gwneuthur y goreu ag allo o beth.
*To Make a mountain of a mole-hill:* Trymhau (mawrhau) peth, gwneuthur deuddrwg o'r un, ymfolychu.
*To make much of:* Magu, meithrin, achlesu, croesawu.
*To Make nothing of:* Dibrisio, diystyru, dirmygu, tremygu, dielwi, bychanu.
*To Make out after:* Canlyn yn ôl, dilyn ôl troed, olrhain, erlyn, ymlid ar ol [*sic*], ymlyn, gorllwyn, gosod allan ar ôl peth, dilyd.
*To Make ready.* Paratoi, darparu, arlwyo, darmerthu, gwneuthur yn barod.
*To Make Sale of:* Arwerthu, gwerthu.
*To Make up:* Gwneuthur, diweddu, dibennu, gorphen, cyflawni, cwblhau.
*To Make up a loss:* Digolledu, diwygio colled, gwneuthur iawn.
*To Make use of:* Arfer, gwneuthur, deunydd o.
*To Make water:* Troethi, trwytho, gwneuthur dwr [*sic*], gellwng trwngc, piso.

Er gwaethaf manyldeb y gwaith mae gan Gambold hyd yn oed mwy o ychwanegiadau ar ymyl y tudalennau – yn brifeiriau syml ac yn idiomau – ynghyd â nodyn i ddynodi lle y dylent gael eu gosod yng nghorff y geiriadur.

Gwelir yr un math o ychwanegiadau ar ymyl tudalennau Llanstephan 189, rhan ii. Cymraeg-Saesneg yw iaith y rhan hon ac mae'n llai o ran maint na'r ochr Saesneg-Cymraeg gan fod y cofnodion yn symlach. Yr hyn a geir fynychaf yw prifair, gwybodaeth ramadegol (rhan ymadrodd, cenedl a ffurfiau lluosog enwau ac ansoddeiriau) a'r cyfieithiad Saesneg. Mae llythrennau unigol yn cael sylw ganddo hefyd. Nododd "... the various Mutations Initial Letters are capable of in Construction", megis yr wybodaeth sydd ganddo am y llythyren 'g':

> Its properties and changes.
> 1st. It is occasionally thrown away before whatsoever succeeding letter as *yn ei Ardd* (of *Gardd*) In his garden. *Yr Eneth* (of *Geneth*) The lass. *Benyw Lwys* (of *Glwys*) A comely woman. *Ei Odineb* (of *Godineb*) His adultery. *Ar ei Rudd* (of *Grudd*) Upon his cheek. *Ei waed* (of *Gwaed*) His blood.
> 2nd. If is sometimes initial letter of words radically beginning with *C*. as *Y Graig* (of *Craig*) The rock.
> 3rd. It requires the letter *N* prefixt. as *Fy Ngwâs* (of *Gwâs*) My servant.

Yn ôl Gambold, mae'r ochr Gymraeg yn cynnwys "all the *Welsh* words that occur in reading or discourse". Am flynyddoedd lawer, bu wrthi'n codi geiriau tra'n darllen ac astudio'r holl lyfrau a llawysgrifau y medrodd gael hyd iddynt. Ymgynghorodd â gwŷr dysgedig megis Dr William Wotton yn ogystal.[195] Pan godai air o lyfr printiedig, arferai nodi rhif y dudalen fel y gwnâi Thomas Lloyd. Mae'r rhifau sy'n dilyn rhai prifeiriau - un ar ar ôl y llall fel arfer - yn peri peth dryswch. Hyd y gwyddys, nid yw'n esbonio arwyddocâd y rhifau mewn cofnodion megis:

Ymchwythu (41) To blow hard or often.

Hyfryd-flas (fig. 756) Savoury, of a good relish or taste.

'Roedd ganddo, mae'n siŵr, restr o ffynonellau ac, o bosib, cyfeirio at y rhestr honno y mae'r rhifau hyn. Gan fod Lloyd a Gambold yn gysylltiedig ag Edward Lhuyd, gellir bwrw amcan mai Lhuyd oedd wedi eu hyfforddi a dangos neu awgrymu'r dull hwn o gofnodi gwybodaeth iddynt.

---

[195] Ibid.

O'i gymharu â'r rhan Saesneg-Cymraeg, ni ddeuir ar draws cynifer o idiomau neu ymadroddion yn Llanstephan 189, rhan ii. Er hyn, ceisiodd Gambold drosi rhai i'r Saesneg:

*Gwehynnu.* To pour or cast out, to empty, squander; to blab.
*Gwehynnu anadl.* To breath out.

*Mannad o ymmenyn.* A print of butter.

*Ol yn ol [sic], y naill ar Ol y llall.* Successively, alternatively, by turn.

*Yn oll neu yn un.* In all or in any.

*Rhoi ger bron.* To lay before one.

*Trwy Dêg neu trwy hagr.* By hook or by crook.

*Wyneb blwyddyn.* The spring of the year.

Copi diweddarach o'r rhan Cymraeg-Saesneg yw Llanstephan 190 a'r dyddiad arno yw 1722. Ar wyneb-ddalen y llawysgrif hon, nododd Gambold rai o'r ffynonellau a ddefnyddiodd: – y Beibl wrth gwrs, y Llyfr Gweddi Gyffredin, *Buchedd yr Apostolion* ac *Annogaeth i gymmuno'n fynych yn y sacramen.* Nododd hefyd iddo roi rhif tudalennau'n aml i ddangos ym mha le y gellid cael o hyd i'r geiriau. Mae'n bosib mai dyna arwyddocâd y rhifau a welir yn y cofnodion a ganlyn:

*Ymchwysu* (847) To give or sweat (as stones in moist weather)
*Ymchwyth* (1055) f.g. Inflation
*Ymchwythu* (41) To blow hard or often.

*Hyfryd* (lib. et fig. 967) Pleasant, agreeable, charming.
*Hyfryd-flas* (fig. 756) Savoury, of a good relish or taste.
*Hyfrydgwsg* (fig. 646) A pleasant sleep or slumber.
*Hyfrydiaith* (fig. 401) A pleasant discourse, oratory.
*Hyfrydlais* (fig. 1101) A pleasant sound or voice, sweet voice.
*Hyfryd-le* (fig. 543) A pleasant place, paradice [*sic*]
*Hyfryd-sawr* (fig. 845) Fragrant, sweet-smelling.

O ran natur y cynnwys, mae rhan Cymraeg-Saesneg Llanstephan 189 a Llanstephan 190 yn ddigon tebyg i'w gilydd. Wedi dweud hynny, ni chynhwyswyd ychwanegiadau ymyl y dudalen Llanstephan 189 a rhywfaint o'r cofnodion gwreiddiol yn Llanstephan 190. Golygwyd y gwaith er hynny a cheir rhai cofnodion ychwanegol yn Llanstephan 190. Mae'n rhaid bod y broses honno o olygu ac ychwanegu wedi parhau oherwydd gwelir rhai ychwanegiadau ar ymyl y tudalennau yn y llawysgrif hon hefyd ynghyd â nodyn i ddynodi lle y dylent gael eu mewnosod.

Ar ôl marwolaeth William Gambold ym 1728, cafodd ei fab, John, yr hawl i werthu llawysgrif y geiriadur yn ôl telerau ewyllys ei dad,[1] ond ymddengys bod William wedi ceisio dwyn perswâd arno i werthu'r llawysgrif cyn iddo farw. Dymunai weld yr arian a geid amdano'n cael ei rannu rhwng ei bum mab a'i unig ferch.[2] Tua dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ceisiodd John Richard, Rheithor y Coety, gael copi o'r llawysgrif a oedd gan John Gambold. Un bunt ar bymtheg oedd y pris a ofynnai John Gambold amdani, ond bu'n rhaid iddo ostwng ei bris i dair punt ar ddeg. Ni wyddys a fu'n llwyddiannus yn ei gwerthu ai peidio[3] ond o ddarllen llythyr Richard Morris at Ieuan Fardd ar 23 Mehefin 1770, gellir dod i'r casgliad bod John Richards wedi llwyddo i brynu'r llawysgrif. Wrth sôn am eiriadur John Walters, dywed:

> ... mae yn y wasg yng Nghaerfyrddin un o'r un rywogaeth, am 3/6 yn unig; mae'n debyg mai copi Gambold a gawsant, ar ol [*sic*] marwolaeth y D^r^ Richards.[4]

Wedi marwolaeth John Richards ym 1769 gwerthwyd cynnwys ei lyfrgell.[5] Erbyn tua 1770, fel yr awgrymir yn y dyfyniad uchod, 'roedd y llawysgrif ym meddiant geiriadurwr arall, John Walters. Pan gafodd John Walters afael ar ffrwyth ymchwil Gambold, ychwanegodd ato, ac yn raddol:

> ... gwelir y gwaith yn tyfu'n rhyfeddol o dan ei ddwylo – cyfieithu pob math o ymadroddion Saesneg, cyfoethogi geirfa'r iaith wrth lunio llu o eiriau newydd o bob math (fel y dengys *Geiriadur Prifysgol Cymru*), a chodi geiriau o dafodiaith Morgannwg. Ofnaf na chafodd ei le yn hanes geiriaduraeth yng Nghymru. Mae llawer wedi ei sgrifennu am ddatblygiad dysg Gymraeg yn y ddeunawfed ganrif – ond wele'r llyfr mwyaf o ran maint y gellir ei gysylltu â'r ddysg honno.[6]

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

---

[196] Griffith John Williams, 'Y Ddeunawfed Ganrif', *Traddodiad Llenyddol Morgannwg*, (Caerdydd, 1948), t.306.

[197] Geraint H. Jenkins, 'Bywiogrwydd Crefyddol a Llenyddol Dyffryn Teifi, 1689 – 1740', *Ceredigion*, 8 (1979), t.445. Gw. Llanstephan 189-190; Cofysgrifau'r Eglwys yng Nghymru, Ewyllysiau Tyddewi, William Gambold, Cas-Mael, dyddiedig 1728.

[198] John H. Davies (gol.), op. cit., Cyfrol 2, t.221.

[199] Hugh Owen (gol.), op. cit., Cyfrol 2, t.769.

[200] G. J. Williams, *Iolo Morganwg: Y Gyfrol Gyntaf* (Caerdydd, 1956), t.141.

[201] G. J. Williams, 'Edward Lhuyd a Thraddodiad Ysgolheigaidd Sir Ddinbych', op. cit., t.59.

# Pennod 3

## 1754-1798: Gweithgarwch geiriadurol ail hanner y ddeunawfed ganrif

### (i)

### William Evans (? - 1776?)

Ni wyddys pryd y cafodd William Evans ei eni, ond credir mai brodor o Gefngwili ym mhlwyf Llanedi, Sir Gaerfyrddin ydoedd.[1] Bu'n efrydydd yn academi Caerfyrddin rhwng 1767 ac 1772 cyn mynd yn weinidog ar eglwys Bresbyteraidd yn Sherborne, Dorset. Ym 1776 symudodd i ofalu am eglwys ym Morton Hampstead, Dyfnaint, oherwydd iddo golli ei iechyd a bu farw yn ystod y flwyddyn honno.

Ym 1771, cyhoeddodd Evans eiriadur Saesneg-Cymraeg tra'r oedd yn efrydydd yn academi Caerfyrddin.[2] Argraffwyd ef yng Nghaerfyrddin ar gyfer John Ross a Richard Rhydero a nodir ar yr wyneb-ddalen bod modd ei brynu gan lyfrwerthwyr yng Nghaerloyw, Bryste, Aberhonddu, Pont-y-pŵl, Castell Nedd, Abertawe, Llanwenog, Aberystwyth, Y Bala a Hwlffordd. Ar ddechrau'r geiriadur gwelir rhestr danysgrifio, sy'n cynnwys cant un deg chwech o enwau. Enwau gwŷr o orllewin a de Cymru - a Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn fwyaf arbennig - yw'r mwyafrif ohonynt ond gan na nodwyd llawer rhagor o fanylion am y tanysgrifwyr, ni ellir canfod sut fath o bobl oedd yn defnyddio'r geiriadur.

---

[1] Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953), t.241.

[2] William Evans, *New English-Welsh Dictionary, Containing All Words necessary for Reading an English Author; Wherein Not only the Corresponding British is given to the English, and the various Significations properly ranged [sic]; but also Every English Word is accented to prevent a bad Pronounciation, The Part of Speech added to which each Word respectively belongs, and proper Authorities subjoined where necessary. The Whole carefully Compiled from the most approved Authors in both Languages ...* (Caerfyrddin, 1771).

A

New ENGLISH-WELSH

# DICTIONARY:

CONTAINING

All Words neceſſary for Reading an *Engliſh* Author;

WHEREIN

Not only the Correſponding *Britiſh* is given to the *Engliſh*, and the various Significations properly ranged;

BUT ALSO

Every *Engliſh* Word is accented to prevent a bad Pronunciation,

The Part of Speech added to which each Word reſpectively belongs,

And proper Authorities ſubjoined where neceſſary.

The Whole carefully Compiled from the moſt approved Authors in both Languages.

---

*By* WILLIAM EVANS.

---

ECCL. xxxiii. 17.

Κατανοήσατε ὅτι οὐκ ἐμοὶ μόνῳ ἐκοπίασα, ἀλλὰ πᾶσι τοῖς ζητοῦσι παιδείαν.

——*antiquam exquirite matrem.* VIRGIL.

---

CARMARTHEN,
Printed for JOHN ROSS, and RICHARD RHYDERO:
AND SOLD BY
Mr. RAIKES, Gloceſter; Mr. D. LEWIS, Lewin's Mead, Briſtol; Mr. JONES, Brecon; Mr. BEADLES, Pont-y-pool; Mr. D MORGAN, Neath; Mr. D. EVANS, Swanſea; Mr. SAMUEL EVANS, Lanwenog; Mr. J. JAMES, Aberyſtwith; Mr. W. JONES, Bala; and Mr. ALLEN, Haverfordweſt.

M, DCC, LXXI.

6. William Evans, *New English-Welsh Dictionary* ... (1771)

Gan fod perthynas glòs wedi datblygu rhwng y Cymry a'r Saeson erbyn y cyfnod hwn, bwriad William Evans oedd creu geiriadur ymarferol ar gyfer "men of all ranks in this Country"[3] i'w helpu i ddysgu Saesneg. Tybiodd y byddai'r gwaith yn gydymaith gwerthfawr i'r sawl a fynnai ddarllen gwaith awduron Saesneg. Gan fod Evans yn efrydydd ei hun pan gyhoeddwyd y geiriadur, gwyddai am yr anawsterau a wynebai myfyrwyr yn ystod y cyfnod hwn. Credai y byddai'r diwinyddion hynny a dderbyniodd eu haddysg drwy gyfrwng y Saesneg ac a oedd yn gorfod gweinyddu yn Gymraeg yn elwa o'i ddefnyddio a chan mai Saesneg oedd iaith prynu a gwerthu, rhagdybiodd y gallai'r geiriadur fod o fudd i fasnachwyr yn ogystal.

Tri chant ac wyth tudalen ar hugain sydd yn y *New English-Welsh Dictionary* ... ac mae'n cynnwys oddeutu 17,000 o brifeiriau. Ceisiodd Evans osgoi chwyddo maint y geiriadur er mwyn cadw'r pris yn isel. Defnyddiodd gynllun o groesgyfeirio trwy lywio'r darllenydd i "Edr.", sef edrych o dan brifair arall. Serch hynny, mae naws wyddoniadurol yn perthyn i ambell gofnod gan iddo fynnu cynnwys disgrifiad byr o rai enwadau crefyddol a geiriau o ddiddordeb, er enghraifft:

BARÓMETER, *or weather-glass*, (s.) (*from* Gr. βαρος, *weight*, pwys, neu drymder, *and* μετ εω), *to measure*, (mesuro) hîn-ŵydr, neu offeryn i fesuro pwys yr awyr; yr hwn offeryn sydd wedi ei wneud i fynu o bibell wydr, a'i llenwi o fewn ychydig, âg arian byw; y naill ben i'r bibell yma sydd gaead, ac i rai o honynt y mae globyn ar y llall; eithr y fath oreu o honynt, yw y rhai sydd heb y globyn; ond a'r pen agored wedi ei osod mewn math o lestr âg arian byw ynddo, a phan y mae'r awyr yn drwm, mae'n gwasgu ar yr arian byw yn y llestr, neu'r globyn, ac yn peri iddyn gunnu i fynu tu a phen y bibell, yr hyn sy'n arwydd o dywydd têg; eithr pan mae trymder yr awyr yn lleihau, mae'r arian byw yn gistwng; yr hyn sydd yn arwyddo gwlaw, neu dywydd garw.

LÉGEND, (sub.) yn ei ystyr dechreuol, llyfr yn eglwys Rhufain, yn cynnwys llithiau i'w darllain yn eu haddoliadau; gwedi hyn fe'u harferid i arwyddoccau hanesion bucheddau'r Seintiau, o herwydd eu bod yn eu darllain yn eu *Matins*. Ond fel ag oedd y *Golden Legend*, a gyfansoddwyd gan *James de Varase*, yn cynnwys llawer o ystoriau ffugiol a gwaradwyddus; fe'i harferir gan Brotestaniaid i arwyddoccau rhyw hanes anghredadwy.

Dangosodd hefyd darddiad ambell brifair, yn enwedig rhai a darddai o'r Lladin neu'r Groeg ac gâi eu defnyddio yn yr Ysgrythurau. O'r Beibl y cododd William Evans nifer o'r geiriau Cymraeg ac yn aml ceir dyfyniad i ddangos y geiriau hynny mewn cyd-destun:

---

[3] William Evans, op. cit., t.vi.

CISTERN, (s.) cerwyn; ffynnon, *ei* ffynnon *ei hun*; pydew, *Jer.* ii. 13. *eu hunain* bydewau; trwppa.

DETÉRMINATION, (s.) terfyniad; appwyntiad; bwriad, barn, *Seph.* iii. 8. *Canys fy* marn *sydd ar gynnull y Cenhedloedd.*

STRONG, (adj.) cryf, cadarn, galluog, nerthol, dewr, glew, pybyr, grymmus, gwrdd, *Sal.* xxii. 12.

Dro arall, nodir ffynhonnell darn o wybodaeth neu air anarferol, er enghraifft:

ABJURÂTION, (s.) diofryd, ymwrthodiad, ymwadiad, ymwad trwy lw, ymadawiad â pheth, rhoddiad i fynu. — Anudon, *medd Dr* Dafis, eithr anfynych yr arferir yn yr ystyr hynny.

BASS, (s.) yr iselaf o bedwar llais music, neu gerddwriaeth; sylfaen cerddwriaeth, neu fusic. Os bydd neb yn ammau'r gair *music*, edryched y gair *musica*, yn dr. Dafis. [*sic*]

ELL, (s.) mesur, yn cynnwys tair troedfedd a naw modfedd. — gwrhyd, cyfelin, *medd* Dafies.

Dilyn safon y Dr John Davies a wnaeth William Evans wrth gwrs, fel cynifer o eiriadurwyr eraill a'i rhagflaenodd ac a'i holynodd. Yn y rhagymadrodd, dywed Evans ei fod yn ddyledus i'r "great learned and judicious critic Dr. Davies" ynghyd ag Edward Lhuyd, Thomas Richards ac eraill. Mae'n cydnabod iddo ymgynghori â geiriaduron Robert Ainsworth, David Fenning a John Entick wrth baratoi ochr Saesneg ei *New English-Welsh Dictionary*, rhywbeth na wnaeth geiriadurwyr Saesneg-Cymraeg eraill o'i flaen ef. Gŵr o Woodyale ger Manceinion oedd Robert Ainsworth. Cyhoeddwyd ei eiriadur Lladin-Saesneg – *Thesaurus Linguæ Latinæ compendiarius; or a Compendious Dictionary of the Latin Tongue, designed principally for the use of the British Nations* – ym 1736 ac yn fuan iawn sylweddolwyd bod y gwaith hwn yn rhagori ar unrhyw eiriadur arall o'i fath a gwnaeth Samuel Johnson ddefnydd mawr ohono.[4] Cyhoeddwyd ailargraffiad ym 1746 ac ymddangosodd saith argraffiad pellach hyd 1829. Daeth *An Abridgement of Ainsworth's Dictionary* ... gan Nath. Thomas o'r wasg, mewn dwy ran ym 1758. Bu Daniel Fenning yn gyfrifol am *The Universal Spelling Book; or a new and easy Guide to the English language* a gyhoeddwyd gyntaf ym 1756; *The Royal English Dictionary; or a Treasury of the English Language ... To which is prefixed a*

---

[4] Sidney I Landau, *Dictionaries: The Art and Craft of Lexicography* (Efrog Newydd, 1984), t.316.

*comprehensive Grammar of the English Tongue, etc.*;[5] ef hefyd fu'n gyfrifol am *A new Grammar of the English language; or, an easy introduction to the art of speaking and writing English with propriety and correctness* a gyhoeddwyd ym 1771. Y ffynhonnell arall y cyfeiriodd William Evans ati oedd *New Spelling Dictionary of the English Language* John Entick. Cafodd y geiriadur hwn ei adargraffu nifer o weithiau wedi ei ymddangosiad cyntaf ym 1764 a hynny'n bennaf oherwydd ei boblogrwydd yn yr Unol Daleithiau. Gwerthwyd 20,000 copi o'r argraffiad cyntaf a daeth yn adnabyddus fel "an American bestseller."[6] Pan gyhoeddodd Webster *A Compendious Dictionary of the English Language* ym 1806, dywedodd ei fod wedi seilio'r gwaith ar eiriadur John Entick. Bu Entick hefyd yn gyfrifol am *A new Latin and English Dictionary* a gyhoeddwyd ym 1771.

Nod pennaf William Evans oedd llunio geiriadur i helpu'r Cymry ddysgu Saesneg a chyfieithu o'r iaith honno i'r Gymraeg. Ceir elfen newydd sbon yn y geiriadur a luniodd, sef canllawiau ar sut i ynganu geiriau Saesneg yn gywir. Rhoddwyd pwyslais ar ynganiad cywir drwy gydol y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gyffredinol[7] a thua diwedd y ddeunawfed ganrif cyhoeddwyd nifer o eiriaduron Saesneg a oedd yn canolbwyntio ar ynganu yn anad dim arall.

Gosododd William Evans acen (′) uwchben llafariaid i ddynodi pwyslais. At hyn, dywedodd:

> I have in various places given the English words as they are pronounced; as for instance, the word *ache* is always pronounced *ake*; *calves* pronounced *caves*; *cough* pronouncedd *coff*, &c. &c.[8]

Dyma rai o ganllawiau ynganu William Evans:

---

[5] MDCCXLI yw'r dyddiad ar yr wyneb-ddalen ond 1761 yw dyddiad y cyflwyniad. Daeth ailargraffiad o'r wasg ym 1763. Gw. Judi Vernau (gol.) *The British Library General Catalogue of Printed Books to 1975* (Rochester, 1981), t.98.

[6] Jonathon Green, *Chasing The Sun: Dictionary-Makers and the Dictionaries They Made* (Llundain, 1996), t.236.

[7] Sidney I. Landau, op. cit., t.56.

[8] William Evans, op. cit., t.vii.

A'CRE, *pronounced* AKUR, (s.) cyfair, erw ystang, egyr.

ALTHÓUGH, *pron.* Althou, th *soft, as* dd *in Welsh,* (adv.) pe rhon, er, er hyny.

*TO* BEAÚTIFY, (v.a. *pronounced butify*) addurno, harddu, hoywi, gwychu, tacclu.

CAMPÁIGN, *pron. Campain,* (s.) ymgychwyn i'r rhyfel; yr yspaid o amser b'o milwyr yn y maes - gwastadedd

CÍNQUE, *pron. Sink,* (s.) nifer pump.

CÓLONEL, *pron. Kulnel,* (s.) llywodraethwr, rheolwr, neu flaenor rhiallu, milwriad.

HAUNCH, *pron. hanch,* (s.) morddwyd, yr aelod ôl, clun.

INVALÍD, pron. *Invaleed,* (s.) hên filwr, neu un a dderbynio ryw niweid a'i gwnel yn anghymmwys i ryfel.

SERÁGLIO, pron. *Seralio,* (s.) palas pendefig yn Persia a Thwrci - tŷ benywod anllad.

Ar y cyfan, mae Evans yn gwahaniaethu rhwng ystyron gwahanol prifeiriau ac yn eu gwahanu ystyron ar yr ochr Gymraeg:

> When an English word bears two, three, or more senses, I have distinguished the significations in the Welsh part; when they greatly differ, thus [ — ] with a dash between each acceptation; but where the senses vary but a little, I have put only a semicolon; and where the word bears but one obvious sense, I have only placed a comma after each of the words corresponding to the English as the learned and judicious Dr. Thomas Williams [*sic*] has done in his Latin-Welsh Dictionary.[9]

Y llinell doriad ( — ) sy'n cael ei defnyddio fwyaf ganddo, fel y gwelir isod:

COMPÓSURE, (s.) ysgrifenniad, cyfansoddiad. — trefn. — tawelwch meddwl, arafwch, llonyddwch.

*TO* NOTE, (v.a.) nodi, arwyddo, dal sylw. — gosod i lawr.

Er hyn, ymddengys bod Evans wedi arbrofi ychydig tua dechrau'r geiriadur, yn enwedig gyda phrifeiriau'n dechrau â'r llythrennau 'a' a 'b'. Ceisiodd ddangos y gwahaniaeth rhwng ystyron gwahanol ambell brifair mewn ffordd arall, tebycach i'r hyn a welir yng ngeiriadur John Walters. Sylwer sut y mae'n nodi ystyron gwahanol "bull", "draught" a "to discuss":

---

[9] Ibid.

BULL, (s.) tarw, bitolŵs.
BULL, *blunder in speech*, (s.) gwrthuniaith, trwsgliaith, gwrthddywediad.

DRAUGHT, *in drinking*, (s.) traflwngc, trangcell, tarlwngc, llymmaid.
DRAUGHT, *copy*, cynllyn, dull, llun, eilun, portreiad, copi.
DRAUGHT, *pull*, tynn, tynniad.
DRAUGHT, *in military affairs*, llu o filwyr wedi eu cymmeryd allan o'r brif fyddin.
DRAUGHT, *in trade*, lwsiedigaeth mewn pwysau. — ysgrifen a dynnir gan un dyn ar un arall am arian.
DRAUGHT, *privy*, ysgothfa, geudy, *Mat.* xv. 17. *ac y bwrir ef allan i'r* gaudy.

*TO* DISCÚSS, *examine*, (v.a.) holi, chwilio.
*TO* DISCÚSS, *explain*, (v.a.) egluro, amlygu.

Ymddangosodd rhan gyntaf geiriadur Walters flwyddyn cyn geiriadur William Evans. Mae'n bosib felly y cawsai Evans olwg arno ac wedi iddo ddechrau efelychu dull Walters o gofnodi geiriau. Ar y cyfan, prin iawn yw'r idiomau a'r priod-ddulliau sydd yn y *New English-Welsh Dictionary* ... ond o bryd i'w gilydd dangosir cyfieithiadau o idiomau syml megis:

ABOVE *all Things*, anad, yn anad dim.

*In the deep of Winter*, ynghanol y gauaf.

Ym 1812, cyhoeddwyd ailargraffiad o'r geiriadur gan John Evans, Caerfyrddin. Mae'n debyg o ran maint i'r gwaith gwreiddiol, ond cafodd ei ddiwygio gan Thomas Richards, Llangrallo. Ni wyddys a fu'r ddau eiriadurwr yn cydweithio ai peidio. Ceir pwt o anerchiad Saesneg gan Richards ar ddechrau'r ailargraffiad lle mae'n olrhain llinach yr iaith gan ddyfynnu geiriau Pezron. Yna, ceir rhagymadrodd William Evans i'r argraffiad cyntaf a'r rhestr danysgrifio wreiddiol gydag ychwaneg o enwau. Cadwodd Richards yn glòs at ddull Evans o weithio ac o ddangos gwybodaeth. Yr hyn a wnaeth oedd dileu rhai o gyfarwyddiadau ynganu Evans ac ychwanegu rhai prifeiriau a chyfieithiadau ei hun. Sylwer er enghraifft ar y cyfieithiadau newydd ar gyfer "heart", "perpetual", "unmatched" a "wish":

| NEW ENGLISH--WELSH DICTIONARY (1771) | NEW ENGLISH--WELSH DICTIONARY (1812) |
|---|---|
| HEART, (s.) calon | HEART, (s.) calon, canol, rhuddin |
| PERPÉTUAL, (s.) oestadol, parhaus, didrangc. | PERPÉTUAL, (s.) oestadol, parhaus, bythol, didrangc |
| UNMÁTCHED, (adj.) digyffelyb, digymmar. | UNMÁTCHED, (adj.) digyffelyb, digymmar, anghymmaredig, dibriod |
| WISH, (s.) dymuniad, deisyfiad.<br>*TO* WISH, (v.) dymuno, deisyfu, pucho. | WISH, (s.) dymuniad, dymuniant, dymunedeb, dyheueg, deisyfiad: (v.n.) dymuno, deisyfu, chwennychu |

Yn ogystal, ehangodd Richards nifer o gofnodion. Mae'n dangos "fox" fel rhan neu un elfen o air arall, "fox-gloves", ac o dan "mémbrane" a "róundabout" er enghraifft, mae "membrane of the brain" a "a roundabout story":

| NEW ENGLISH--WELSH DICTIONARY (1771) | NEW ENGLISH--WELSH DICTIONARY (1812) |
|---|---|
| FOX, (s.) cadno, cadnaw, llwynog. | FOX, (s.) cadno, cadnaw, llwynog. — *Fox-gloves*, bysedd ellyllon, menig ellyllon, bysedd cochion, bysedd y cwn [*sic*], llwyn tewlaeth, dail ffion ffrwyth, a dail ffiol ffridd, am eu bod yn debyg i ffiol |
| MÉMBRANE, (sub.) pilionen, glasgroen, memrwn. | MÉMBRANE, (sub.) pilionen, glasgroen, memrwn, pilen, croenyn, croenen. — *Membrane of the brain*, y gresadur, pilen yr ymenydd. |
| RÓUNDABOUT, (adj.) o amgylch; llydan, helaeth. | RÓUNDABOUT, (adj.) o amgylch; llydan, helaeth, oddi amglych, o amgylch-ogylch, o gwmpas. — *A roundabout story*, chwedl gylchynog |

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

## (ii)
## William Richards (1749 - 1818)

Ganed William Richards ym 1749 ym Mhenrhydd, sir Benfro.[10] Un flwyddyn o ysgol a gafodd a hynny yn Sanclêr, Sir Gaerfyrddin, pan oedd yn ddeuddeng mlwydd oed. Ym 1773 fe'i derbyniwyd i athrofa'r Bedyddwyr ym Mryste lle bu'n astudio am ddwy flynedd. Oddi yno aeth i Pershore, sir Gaerwrangon, ym 1775 i gynorthwyo Dr John Ash, gweinidog y Bedyddwyr. Ymsefydlodd yn Lynn, sir Norfolk, ym 1776 ac er y dychwelai i Gymru'n rheolaidd, yno y bu'n byw am dros ddeugain mlynedd. Cyhoeddodd Richards nifer o bamffledi a thraethodau diwinyddol ynghyd â llyfrynnau ar Fedydd.[11] Wedi ei farwolaeth cyhoeddodd ei gyfaill, John Evans, gasgliad o'i bapurau ym 1820, sef *The Welsh Nonconformist Memorial.* Bu'n cyfrannu at y *Cambrian Register* rhwng 1796 ac 1818 hefyd ac ef yw awdur dwy gyfrol ar *The History of Lynn.*[12] Ym 1793 derbyniodd radd MA o goleg y Bedyddwyr yn Rhode Island ac ym 1818 cyflwynwyd gradd LLD iddo gan yr un coleg ond bu farw ym mis Medi'r flwyddyn honno, ychydig cyn i'r llythyr gyrraedd Prydain.[13]

Wrth ystyried yr hyn a symbylodd William Richards i ymddiddori mewn geiriaduraeth a dechrau llunio geiriadur ei hun, rhaid troi'n ôl i edrych ar y cyfnod a dreuliodd yng nghwmni John Ash yn Pershore. Ym 1766, cyhoeddodd Ash ragarweiniad i ramadeg Saesneg Lowth[14] ac ym 1775 — pan oedd William Richards yn gynorthwyydd iddo — cyhoeddodd eiriadur Saesneg.[15] John Ash

---

[10] Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), op. cit., t.804.

[11] Gw. Alexander Gordon yn Sidney Lee (gol.), *Dictionary of National Biography*, Cyfrol 48 (Llundain, 1896), tt.291-292. Gw. hefyd John Evans, *Memoirs of the Life and Writings of the Rev. William Richards, LL. D. who died at Lynn, September 13, 1819 ...* (Chiswick, 1820), tt.157-232.

[12] William Richards, *The History of Lynn, Civil, Ecclesiastical, Political, Commercial, Biographical, Municipal, and Military, from the earliest accounts to the present time to which is prefixed an introductory account of Marshland, Wisbech, and the Fens* (Lynn, 1812).

[13] Am rai o'i ddiddordebau gwleidyddol, gw. J. J. Evans, *Dylanwad y Chwyldro Ffrengig ar Lenyddiaeth Cymru* (Lerpwl, 1928), tt.135-139.

[14] John Ash, *Introduction to Lowth's English Grammar* (Llundain, 1766)

[15] John Ash, *The new and complete dictionary of the English language ...to which is prefixed a comprehensive grammar* (Llundain, 1775)

oedd un o brif eiriadurwyr ei gyfnod[16] a daeth yn adnabyddus am iddo gynnwys termau gwaharddedig ac iaith sathredig yn ei waith. Mae'n rhaid bod William Richards wedi dod o dan ddylanwad y gŵr hwn. Er bod natur eu geiriaduron yn wahanol i'w gilydd, John Ash, bid sicr, a ysbrydolodd Richards i ymgymryd â gwaith geiriadurol yn y lle cyntaf.

Cyhoeddwyd geiriadur Saesneg-Cymraeg Richards gan J. Daniel yng Nghaerfyrddin ym 1798[17] ac fe'i gwerthwyd am bum swllt gan lyfrwerthwyr yn Aberhonddu, Amwythig, Caer, Dolgellau, Rhuthun, Croesoswallt, Hwlffordd, Caerdydd, Bryste a Llundain. Geiriadur digon cyffredin a chyffredinol ei gynnwys ydyw, geiriadur a fwriadwyd ar gyfer:

> ... Welsh youth of both sexes, and for Welsh readers in general.

Nid yw William Richards yn cyfeirio at yr union ffynonellau a ddefnyddiodd ond dywed mai ei nod, trwy ddefnyddio'r "best sources and materials", oedd cynhyrchu gwaith hwylus am bris rhesymol. Yn wreiddiol, bwriadai gynnwys gramadeg Cymraeg o flaen corff y geiriadur ond penderfynodd roi'r gorau i'r syniad oherwydd chwyddid maint y gwaith a'i bris. Ymdrechodd i wneud y gyfrol yn fwy cynhwysfawr a defnyddiol gan ei fod yn credu mai:

> *Llawer* MEWN *ychydig*, ac AM *ychydig*, yw yr hyn y mae y Cymry, yn fwy, ysgatfydd, nâ neb pobl eraill, yn ei hoffi.

Pan ddechreuodd Richards lunio'r geiriadur, dilynodd drefn geiriadur William Evans ond dywed iddo sylweddoli'n fuan y dylai gynnwys mwy o wybodaeth, felly ddilynodd drefn newydd "o ddiwedd B yn y blaen". Nid yw'r drefn newydd hon y cyfeiria ati'n amlwg. Ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng cynnwys neu drefn y geiriau sydd yn dechrau ag 'a' a 'b' a gweddill y gwaith. Cyfeddyf bod anghysondebau i'w gweld o bryd i'w gilydd a hynny'n bennaf oherwydd ei fod wedi

---

[16] Jonathan Green, op. cit., t.33.

[17] William Richards, *Geiriadur Saesneg a Chymraeg. An English and Welsh dictionary, in which the English words, and sometimes the English idioms and phraseology are accompanied by those which synonomise or correspond with them in the Welsh language. The whole carefully comp. from the best sources and materials* (Caerfyrddin, 1798).

GEIRIADUR SAESNEG A CHYMRAEG,

AN

ENGLISH AND WELSH

# DICTIONARY,

IN WHICH

THE ENGLISH WORDS,

AND SOMETIMES THE

ENGLISH IDIOMS AND PHRASEOLOGY.

ARE

ACCOMPANIED BY THOSE WHICH SYNONOMISE OR CORRESPOND WITH THEM

IN THE

WELSH LANGUAGE.

THE WHOLE CAREFULLY COMPILED,

From the beſt SOURCES and MATERIALS; with a View of forming an agreeable COMPANION for the WELSH YOUTH of both Sexes, and for WELSH READERS in general.

BY WILLIAM RICHARDS, M. A.

MEMBER OF THE PENSYLVANIA SOCIETY, FOR PROMOTING THE ABOLITION OF SLAVERY, &c.

CARMARTHEN,

PRINTED AND SOLD BY J. DANIEL:

SOLD ALSO

BY NORTH, BRECON; SANDFORD, SHREWSBURY; STANTON, CHESTER; WILLIAMS, DOLGELLEY; EDWARDS, RUTHIN; EDWARDS, OSWESTRY; WILMOT, PEMBROKE; POTTER, HAVERFORDWEST; BIRD, CARDIFF; BROWN, BRISTOL; AND GRIFFITHS, PATER-NOSTER-ROW, LONDON.

MDCCXCVIII.

7. William Richards, *Geiriadur Saesneg a Chymraeg* ... (1798)

ymwrthod rhag dyblu'r 'n ac 'r' ac oherwydd iddo ddefnyddio *aw* yn lle *o*. Ni chydsyniodd yr argraffwr:

> ... rhag ofn, mae'n debyg, tramgwyddaw neu ddigiaw ei gymmydogion, a chodi terfysg yn y wlad.

Ceir tair tudalen o gywiriadau ar ddiwedd y geiriadur, ond gan nad oedd modd i Richards fod yng Nghaerfyrddin i olygu'r gwaith yn y wasg, dywed wrth y darllenydd am gywiro unrhyw wallau yn y gwaith ei hun.

Dau gant tri deg naw enw sydd ar restr danysgrifio Richards ac mae ambell enw'n gyffredin i restr danysgrifio geiriadur William Evans. Fel yr awgrymodd Richards yn ei ragymadrodd, mae'n rhaid bod geiriadur Evans yn dynn wrth ei benelin pan fu'n gweithio oherwydd mae cynnwys y ddau eiriadur yn debyg iawn i'w gilydd. Dilynodd batrwm a threfn geiriadur Evans gan gwtogi ambell gofnod ac ymestyn rhai eraill. Yr un talfyriadau sy'n cael eu defnyddio gan y ddau ac mae Richards hefyd yn cyfeirio'r darllenydd i "Edr.", sef edrych am gofnod o dan brifair arall. Nid yw'n dangos tarddiad geiriau, acenion i ddynodi pwyslais, canllawiau ynganu nac ychwaith ddisgrifiadau o enwadau crefyddol a geiriadur o ddiddordeb fel y gwnaeth Evans. Defnyddiodd atalnod a gwahannod yn hytrach na'r llinell doriad ( — ) i wahanu ystyron gwahanol prifeiriau ar yr ochr Gymraeg, er enghraifft:

Nerve, *s.* gewyn, gieuyn; grym.

Odd, *a.* amnifer, anghynnifer; anghydbar, digymar; neill duol, anwadal; anghynnefin, dieithr, hynod, rhyfedd, ychwaneg, dros ben.

Mae geiriadur Richards yn cynnwys tipyn mwy o brifeiriau na geiriadur Evans. Tua 27,000 o brifeiriau sydd ynddo — oddeutu deg mil prifair ychwanegol o'i gymharu â'r llall. Yn wahanol i Evans, cynhwysodd rai enghreifftiau o brifeiriau'n cael eu defnyddio fel rhan neu un elfen o air arall, er enghraifft:

Dribbling, *part.* yn defnynu. *Dribbling debts*, dyletach, mân ddyledion.

Prime, *s.* y goreu; ieuengctid; gwawr y dydd, plygain: *adj.* Cyntaf, blaenaf, pennaf, prif, rhagoraf, goreu, plygeiniol. — *Prime cost*, y cyn bris. — *Prime minister*, cyn-weisiad. — *Prime numbers*, prif rifedi.

O bryd i'w gilydd, ceir cofnod neu sylw digon annisgwyl, yn enwedig o gofio bod William Richards wedi ceisio anelu'r geiriadur at gynulleidfa gyffredinol a'i fod wedi ceisio rheoli maint a phris y gwaith rhag chwyddo'n ormodol. Sylwer er enghraifft ar y cofnodion isod:

Mochetto, *sub.* math o wybed blinion yn nhueddau'r Orllewinawl India.

Parallax, *s.* y gwahan rhwng gwir ac ymddangosawl le yr haul neu ryw seren; yr amgeniad.

Wracker, *s.* yspeilydd llongau drylliedig, a morwyr llongddrylliawg. — Nid oes un rhan o'r byd yn waeth am y gwaith melldithiawl hwn nâ'r gwlad grist'nogawl ni Brydain Fawr; nac un rhan o Frydain yn waeth nâ Chymru efengylaidd.

Ar ddiwedd argraffiad cyntaf y geiriadur mae hysbyseb yn nodi bod William Richards ar fin cyhoeddi geiriadur Cymraeg a Saesneg ar gynllun diwygiedig:

> Provided it meets the Approbation and Encouragement of the PUBLIC.

Pum swllt fyddai'r pris i danysgrifwyr a gysylltai â John Daniel, yr argraffwr a'r llyfrwerthwr o Gaerfyrddin. Saith swllt ydoedd fel arall. Ni lwyddodd Richards i orffen y geiriadur hwn ac ni wyddys beth fu ei hanes wedyn. Ni ddaeth unrhyw eiriadur Cymraeg-Saesneg ganddo o'r wasg ond bu geiriadur Saesneg-Cymraeg 1798 yn boblogaidd iawn a chafodd ei adargraffu o leiaf saith o weithiau i gyd.

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

## (iii)
## Thomas Jones (1756 - 1820)

Dechreuodd Thomas Jones dderbyn addysg cyn ei fod yn bedair oed yn yr ysgol yng Nghaerwys a gâi ei chadw gan yr Ysgolfeistr enwog, Owen Thomas.[18] Pan oedd yn ddeng mlwydd oed, aeth yn ddisgybl i'r Parch. John Lloyd yn Ysgol Ramadeg Caerwys. Tybir bod John Lloyd wedi gadael yr ysgol a mynd yn rheithor yn Nannerch tua 1769 ac o'r herwydd, anfonwyd Thomas Jones i Ysgol Ramadeg Treffynnon am ddwy flynedd gan ei dad.[19] Gadawodd yr ysgol tua Nadolig 1771, wedi iddo dderbyn addysg glasurol a dod yn hyddysg yn Saesneg, Lladin a Groeg. Bwriad Thomas Jones oedd mynd i Rydychen maes o law ond gan fod ei dad o'r farn ei fod yn rhy ifanc i fynd i Brifysgol yn un ar bymtheg oed, penderfynodd y dylai aros gartref am gyfnod.

Er iddo gael ei fagu'n Eglwyswr ac er iddo dderbyn addysg a'i paratôdd ar gyfer gweinidogaeth yr Eglwys Wladol, newidiodd agwedd meddwl Thomas Jones a'i olwg ar grefydd pan adawodd yr ysgol. Dechreuodd gyfeillachu â'r Methodistiaid ac âi i wrando arnynt yn pregethu. O'i weld yn gogwyddo at y Methodistiaid fel hyn, ceisiodd ei dad ei annog i fynd yn ôl i'r ysgol ond gwrthododd ufuddhau i'w ddymuniad a gwrthododd gymryd urddau eglwysig. Ym 1772, ymunodd â'r Eglwys Fethodistaidd yng Nghaerwys er mawr anfodlonrwydd i'w dad ac ym 1783 dechreuodd bregethu. Am gyfnod o saith mlynedd, rhwng 1773 ac 1779, nid edrychodd Thomas Jones ar ei lyfrau ysgol ond erbyn i John Lloyd ddychwelyd i Gaerwys awchai am ragor o addysg. Benthyciodd lyfrau o bob math gan ei hen athro ac ailgydiodd yn ei astudiaethau.

---

[18] Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), op. cit., t.486.

[19] Kitty Idwal Jones, 'Thomas Jones', *Cylchgrawn Hanes Eglwys Methodistiaid Calfinaidd Cymru* (Hydref 1948), Cyfrol 33, t.64.

Cafodd Thomas Jones ei drafferthu'n gyson gan afiechyd corfforol ar hyd ei oes, ond er gwaethaf hynny, datblygodd yn un o arweinwyr mwyaf galluog ac amlwg y Methodistiaid Calfinaidd yng Ngogledd Cymru. Bu'n gofalu am achosion yn yr Wyddgrug (1795 - 1804), Rhuthun (1804 - 1806) a Dinbych (1806 - 1820) ac fe'i hordeiniwyd gyda'r to cyntaf o weinidogion ym 1811. Yn sgil hyn, datblygodd yn awdur diwinyddol toreithiog hefyd. Ysgrifennodd lyfrau a phamffledi at wasanaeth ei gyd-Fethodistiaid ac i amddiffyn eu credo. Y "Merthyrdraeth"[20] a'i lyfr emynau[21] yw rhai o'i weithiau pwysicaf yn ogystal â'i Gofiant i Thomas Charles.[22] At hyn, gwnaeth gyfraniad pwysig i'r *Drysorfa Ysbrydol*, yr Ysgolion Rhad Cylchynol a'r ymgyrch i ddarparu llyfrau ym 1803 ac 1804.

Mae'n debyg bod gweithiau Thomas Jones a Thomas Charles rhwng 1796 ac 1802 bron i gyd wedi eu cyhoeddi yn argraffdy William Collister Jones, Caer. 'Roedd teithio i'r argraffdy hwnnw'n ddigon trafferthus, fel y tystia Thomas Jones yn Rhagymadrodd y geiriadur:

> I am truly sorry that the errata have been so numerous. My distance from the press, together with my having no share in the correcting of it during the first part of the work, are my best apologies for this blemish.[23]

Penderfynodd Thomas Charles sefydlu gwasg yn y Bala ym 1803 gyda chymorth Thomas Jones. I hwyluso pethau ymhellach, aeth Jones yn ei flaen i sefydlu ei argraffwasg ei hun yn Rhuthun ym 1808 gan gyflogi Thomas Gee yr hynaf i ofalu amdani. Ymhen blwyddyn symudodd ei argraffwasg i Ddinbych ac ym 1813 fe'i gwerthodd i Thomas Gee.

---

[20] Thomas Jones, *Hanes Diwygwyr, Merthyron a Chyffeswyr Eglwys Loegr, ynghyd a'r prif ddiwygwyr yn Scotland, a gwledydd tramor ...* (Dinbych, 1813).

[21] Thomas Jones, *Hymnau Newyddion ar amryw fesurau ac wedi eu cyfaddasu at Amryw Achosion* (Dinbych, 1814).

[22] Thomas Jones, *Cofiant, neu, Hanes bywyd a marwolaeth y Parch. Thomas Charles, Gwyryf yn y Celfyddydau, yn ddiweddar o'r Bala, Sir Feirionydd ...* (Bala, 1816).

[23] Thomas Jones, 'Preface', *Geiriadur Saesoneg a Chymraeg. An English and Welsh Dictionary; in which the English Words with many of the English Phrases are explained by those which Synonymise or Correspond with them in the Welsh Language. Compiled from the best Sources and Materials ...* (Caer, 1800).

Wrth bwysleisio na ddylid anghofio bod Thomas Jones yn llenor, yn hanesydd ac yn fardd, dywedodd Saunders Lewis:

> Ysgrifennu oedd pennaf gorchwyl ei fywyd.[24]

Gall Thomas Jones hawlio'i le ymhlith beirdd Cymru. Daeth dan ddylanwad Goronwy Owen ac fe wnaeth y gyfrol o waith Dafydd ap Gwilym a gyhoeddwyd dan olygyddiaeth William Owen Pughe ac Owain Myfyr argraff arno.[25] 'Marwnad Ann Parry'[26] a 'Marwnad Daniel Rowland, Williams Pant-y-celyn, a Dafydd Morys' oedd ei gyhoeddiadau cyntaf.[27] Cyfansoddodd nifer o englynion a chywyddau hefyd, yn eu plith 'Cywydd i'r Aderyn Bronfraith' a ddisgrifiwyd fel:

> ... un o'r cywyddau arbenicaf a gyfansoddwyd ym mlynyddoedd olaf y ddeunawfed ganrif ...[28]

Yr addysg glasurol a dderbyniodd, o bosib, a roddodd flas ar gyfieithu iddo. Ym 1809 cyhoeddwyd *Catecism Eglwys Loegr*[29] a gyfieithwyd ganddo i'r Gymraeg o argraffiad Lladinaidd y Dr Cleaver, Esgob Llanelwy ac un o'i weithiau mwyaf adnabyddus a phoblogaidd oedd ei gyfieithiad Cymraeg o waith William Gurnal, sef *Y Cristion mewn Cyflawn Arfogaeth.*[30] 'Roedd Rhan I a II wedi eu trosi eisoes gan Thomas Humphreys, Edeyrn,[31] felly Rhan III a gyfieithodd gyntaf.' Fe'i cyhoeddwyd

---

[24] Saunders Lewis, 'Cywydd gan Thomas Jones, Dinbych', *Y Llenor*, 12, t.133.

[25] Owen Jones a William Owen, *Barddoniaeth Dafydd ap Gwilym* (Llundain, 1789).

[26] Thomas Jones, *Marwnad Ann Parry, o Fryn Milan, yn mhlwyf Llanrhaiadr, yn sir Ddinbych, yr hon a ymadawodd â'r byd ddydd lau, y cyntaf o Dachwedd, 1787* (Wrecsam, 1788).

[27] Thomas Jones, *Marwnad mewn cof am y Parch. Daniel Rowlands, gweinidog yr efengyl yn Llangeitho, swydd Aberteifi, yr hwn a ymadawodd â'r byd Hydref 16eg 1790. Hefyd am y Parchedig William Williams, o Bant-y-celyn, yn swydd Gaerfyrddin, yr hwn a fu farw Ionawr 11eg, 1791. Ac yn ddiweddaf, am Dafydd Morys, gynt o Ledrod, ac yn ddiweddar o ger llaw Capel y Tŵr Gwyn, yn swydd Aberteifi, a fu farw Mai 16eg, 1791* (Wrecsam, 1791).

[28] Saunders Lewis, op. cit., t.136.

[29] Thomas Jones, *Catecism Eglwys Loegr* (Dinbych, 1809).

[30] William Gurnal, *The Christian in compleat armour: or, a treatise, of the saints war against the devil ...* (Llundain, 1656 - 1662).

[31] Thomas Humphreys, *Y Cristion mewn cyflawn arfogaeth, ... gan Wiliam Gurnal. Y rhan gyntaf; a 'sgrifennwyd yn y Gymraeg ...* (Aberhonddu, 1775).
Thomas Humphreys, *Y Cristion mewn cyflawn arfogaeth, ... gan Wiliam Gurnal. Yr ail ran, newydd ei chyfieithu i'r Gymraeg ...* (Trefeca, 1784).

ym 1796 ac erbyn 1808 'roedd Rhan IV yn y wasg.[32] Ychydig cyn ei farwolaeth llwyddodd i orffen cyfieithu Rhan I a II ac ymddangosodd argraffiad cyflawn o'r gwaith rhwng 1819 ac 1823.[33]

Ar y cyfan, ychydig iawn o sylw a roddasid i'r geiriadur Saesneg-Cymraeg a luniodd Thomas Jones. Mae hyn yn syndod, gan fod natur y gwaith yn ddigon gwahanol i'w weithiau eraill. Beth, felly, a'i cymhellodd i ymgymryd â'r dasg? Yn y lle cyntaf, 'roedd ganddo gefndir ieithyddol cadarn. Medrai bedair iaith:- Cymraeg, Saesneg, Lladin a Groeg ac 'roedd yn gyfarwydd â'r Hebraeg. 'Roedd ganddo hefyd ddiddordeb yng ngeirfa'r Gymraeg. O ddarllen ei ysgrifau diwinyddol, gwelir ei ddawn i ysgrifennu Cymraeg idiomatig, glân a chywir ac o ddarllen ei farddoniaeth daw ei allu i drin geiriau'n ddeheuig i'r amlwg. Iaith ac arddull yr Ysgrythurau oedd y dylanwad pennaf arno. Cadwodd at eirfa a chystrawen naturiol a thraddodiadol y Gymraeg yn hytrach na meithrin syniadau ieithyddol ffansïol yr oes fel y gwnaeth William Owen Pughe. Gellir dibynnu ar gynnwys geiriadur Thomas Jones. Yr unig drueni yw na pharhaodd i ymhél â gwaith o'r fath. Nodir yn *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*:

> Pe bai wedi ymroi i ysgolheictod - a phrawf ei Eiriadur Saesneg a Chymraeg (1800) fod hyn yn ddigon posib - yn lle i ddiwinyddiaeth, dichon y byddai Thomas Jones wedi gwrthweithio dylanwad trychinebus William Owen Pughe.[34]

Ei ddymuniad i gynorthwyo'r nifer cynyddol a ddarllenai Saesneg oedd yr ail beth a'i cymhellodd i lunio geiriadur. Yn y Rhagymadrodd, dywed:

---

[32] Thomas Jones, Y *Cristion mewn cyflawn arfogaeth : neu, draethawd am ryfel y saint yn erbyn y diafol... gan Wiliam Gurnal. Y drydedd ran, newydd ei chyfieithu i'r Gymraeg* ...(Wyddgrug, 1796).
Thomas Jones, *Y Cristion mewn cyflawn arfogaeth : neu, draethawd am ryfel y saint yn erbyn y diafol... gan Wiliam Gurnal. Y bedwaredd ran wedi ei chyfieithu i'r Gymraeg ...* (Rhuthun, 1808).

[33] Thomas Jones, *Y Cristion mewn cyflawn arfogaeth : neu, Draethawd am ryfel y saint yn erbyn y diafol; ... hefyd, arf-dy yn cael ei agoryd, o ba le y mae'r Cristion yn cael ei addurno ... ynghyd a diweddiad dedwydd yr holl ryfel* (Dinbych, 1819 - 1823).

[34] Meic Stephens (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1986) t.332.

Geiriadur Saesoneg a Chymraeg.

AN

ENGLISH AND WELSH

DICTIONARY:

IN WHICH

THE ENGLISH WORDS

WITH MANY OF THE

ENGLISH PHRASES ARE EXPLAINED

BY THOSE WHICH

SYNONYMISE OR CORRESPOND WITH THEM

IN THE

WELSH LANGUAGE.

COMPILED FROM THE BEST SOURCES AND MATERIALS

BY THOMAS JONES,

OF MOLD, IN FLINTSHIRE.

Chester,

PRINTED AND SOLD BY W. C. JONES;

SOLD ALSO BY

W. TREPPASS, No. 31, ST. MARTIN'S-LE-GRAND, LONDON;

AND ALL OTHER BOOKSELLERS.

1800.

8. Thomas Jones, *An English and Welsh Dictionary* ... (1800)

> ... the following sheets were put to the press chiefly for the sake of those among my countrymen who are inclined to read English authors, but want some assistance towards the better understanding of them.[35]

Awgrymwyd bod Thomas Jones, o gyfieithu gwaith Gurnal, wedi sylweddoli bod y geiriaduron Saesneg-Cymraeg a fodolai eisoes yn annigonol a bod galw am eiriadur bychan, cyfoes a chymharol rad.[36] Tri geiriadur Saesneg-Cymraeg oedd ar gael pan oedd yn trosi Trydedd Ran Gurnal, sef gwaith Siôn Rhydderch,[37] John Walters[38] a William Evans.[39] O gymharu cynnwys y tri geiriadur hyn â chynnwys tudalennau cyntaf gwaith gwreiddiol Gurnal, fe welir nad oeddent yn anghyflawn neu'n ddiffygiol iawn o ran geirfa (gweler Atodiad 1). Heblaw am y ffaith na cheir ffurfiau lluosog enwau Cymraeg yng ngeiriadur Evans mae'n siŵr na ddaeth Jones ar draws unrhyw anawsterau mawr wrth ddefnyddio'r geiriaduron tra'n cyfieithu.[40] Gellir tybio felly, mai llunio geiriadur hwylus o ran maint oedd un o'i ystyriaethau pwysicaf, yn hytrach na gwella'n aruthrol ar yr hyn a fodolai eisoes.

Argraffwyd y geiriadur, sydd yn cynnwys oddeutu 27,000 prifair, yn argraffwasg William Collister Jones a dechreuwyd ei werthu am bum swllt a chwe cheiniog ym 1800. Cyfeddyf Thomas Jones mai geiriadur John Walters a ddefnyddiodd fel prif ffynhonnell.[41] Mae'n werth nodi iddo godi llawer o eiriau Cymraeg a nodir yn *Geiriadur Prifysgol Cymru* fel rhai a fathwyd gan John Walters ac a ymddangosodd mewn print am y tro cyntaf yn ei eiriadur (gweler Atodiad 2). Ymgynghorodd Jones

---

[35] Thomas Jones, 'Preface', op. cit.

[36] Kitty Idwal Jones, ;Thomas Jones of Denbigh, 1756 - 1820', *Flintshire Historical Society Publications*, (1956), Cyfrol 17, t.4.

[37] Siôn Rhydderch, *The English and Welch Dictionary : or, the English before the Welch. Y Geirlyfr Saesneg a Chymraeg; Neu'r Saesneg o flaen y Cymraeg. Containing all the Words that are Necessay to understand both Languages ; but more especially, for the Translation of the English into Welch* ... (Amwythig, 1725).

[38] John Walters, *An English-Welsh Dictionary, wherein, not only the words, but also, the idioms and phraseology of the English Language, are carefully translated into Welsh, by proper and equivalent words and phrases with a regular interspersion of the English proverbs, and proverbial expressions, rendered by corresponding ones in the Welsh tongue* (Llundain, 1794).

[39] William Evans, op. cit.

[40] Yn nghopi llyfrgell Prifysgol Cymru Bangor, ni cheir prifeiriau rhwng "play" a "quake" yng ngeiriadur Siôn Rhydderch.

â geiriaduron William Evans[42] a Thomas Richards[43] hefyd a chan fod rhannau cyntaf y *Geiriadur Cynmraeg a Saesneg* gan William Owen Pughe wedi ei argraffu medrodd dynnu rhai cannoedd o eiriau Cymraeg a'u cynnwys yn ei waith ei hun.[44] At hyn, gwnaeth ddefnydd arbennig o eiriadur William Richards.[45] Yn y Rhagymadrodd dywed:

> I have adopted such words as I thought judiciously selected by him, (chiefly out of Mr. Walters's) and followed him in frequently putting the same word in two or three parts of speech, as adjective and participle, substantive and adjective, verb, &c. under the same head.[46]

Yn wahanol i gynnwys nifer o'r geiriaduron y cyfeiriodd atynt, geiriau gweddol gyffredin neu arferedig a geir yng ngeiriadur Thomas Jones. Er iddo honni:

> I have like-wise added some hundreds of Welsh words, particularly compounds, from my own mind, where I thought there was occasion for them ...[47]

ni ellir ystyried Thomas Jones yn fathwr geiriau. Rhestr o brifeiriau Saesneg, y rhan ymadrodd a'r Cymraeg cyfatebol a geir ganddo ac o bryd i'w gilydd nodir ymadrodd neu ddau sy'n cynnwys prifair arbennig, er enghraifft:

Fit, *v.* addasu, cyfaddasu, cymmesuro, cymmedroli; cydweddu, cyfladd, cyfatteb—*To fit out*, darparu, parotôi—*To fit up*, dodrefnu, addurno, cyweirio

Milk, *s.* llaeth, blith—*Sweet-milk*, llefrith—*First-milk*, blaenion, blaenllaeth—*Second-milk*, armail—*Milk-beggar*, llaethai

Prime, *a.* pènaf, cyntaf, prif, blaenaf—*Prime-cost*, cyn-bris, pris cyntaf— —*Prime-minister*, cyn-weisiad, prif weinydd

---

[41] John Walters, op. cit.
[42] William Evans, op. cit.
[43] Thomas Richards, *Antiquae linguae Britannicae thesaurus* (Bryste, 1753).
[44] Argraffwyd Rhan I yn 1793, Rhan II ym Mehefin 1794 a Rhan III yn 1795.
[45] William Richards, *Geiriadur Saesneg a Chymraeg. An English and Welsh Dictionary, in which the English Words, and sometimes the English Idioms and Phraseology, are accompanied by those which synonymise or correspond with them in the Welsh Language. The whole carefully compiled, from the best sources and materials; with a view of forming an agreeable companion for the Welsh youth of both sexes, and for Welsh readers in general ...* (Caerfyrddin, 1798).
[46] Thomas Jones, 'Preface', op. cit.
[47] Thomas Jones, 'Preface', op. cit.

Second, *a.* ail—*Second-hand*, ail llaw, eil-werth—*Second-rate*, eil-radd, eilfaint—*Second-time*, eilwaith, eilchwaith, eilchwyl—*Second course*, eilsaig

Mae naws wyddoniadurol yn perthyn i ambell gofnod lle mae Thomas Jones wedi ychwanegu pwt o esboniad, er enghraifft:

Calvinism, *s.* Calfiniaeth, Calfinistiaeth; egwyddorion unol â barn Calfin. Y mae Erthyglau Eglwysi Lloegr, y Werddon, a Scotland (ac fe *fu* egwyddorion y Lutheriaid, a'r holl Eglwysi Protestanaidd) [*sic*] yn dra agos iddynt, er fod cryn wahaniaeth yn eu trefniadau a'u dysgyblaeth.

Climate, *sub.* un o ranniadau'r ddaear oddi wrth linyn y Cyhydedd, tu ag un o'r ddau begwn, gogledd a deheu : parth-ran, byd-ddosparth. *Deg ar hugain o'r parth-rannau hyn a gyfrifir oddi wrth ganol-barth y ddaear i begwn y gogledd, neu i begwn y deheu.*

Longitude, *s.* hyd; hyd-bellder, sef y gradd o bellder lle, tua'r dwyrain, neu'r gorllewin, oddi wrth gylch neu gyn-gylch hanner dydd : Mewn seryddiaeth, pellder seren oddi wrth arwydd yr hwrdd.

Millenium, *s.* y mil o flynyddoedd yn y rhai y bydd Satan wedi ei rwymo, &c. (*Dat. 20, 3.*) Y mae amrywiaeth o farnau y'nghylch modd ac amser y cyflawniad.

O ran orgraff, tueddai i ddilyn y patrwm a osododd Pughe ond nid yw'n dilyn unrhyw egwyddor yn gyson. Ceir ffurfiau ganddo megis *arbenig, diflànu* a *hyny*, fel sydd gan Pughe ynghyd â *cyrhaedd* a *chwàren* heb *r* ddwbl, ond nid yw'n crybwyll yr egwyddor honno a grëwyd gan Pughe o hepgor unrhyw lythyren nad yw'n rhan o wreiddyn gair. Yn hytrach, dywed:

> Without attempting to defend this inconsistency, I shall only observe, that it is the want of a proper constant distinction between the short and long vowels (a, â, e, ê, o, ô, w, ŵ, u, y, û, or ŷ) that has brought these double consonants into such frequent use.[48]

Mae Jones yn honni, fel y gwnaethai Pughe eisoes di flaen, bod *dy-* yn flaenddodiad cadarnhaol ac na ddylid defnyddio *di-* ond i gyfleu ystyr negyddol. Dyna paham y sillafai *diben*, *didoli*, *diferu* a *digwyddiad* er enghraifft yn *dyben*, *dydoli*, *dyferu* a *dygwyddiad*. Dwy nodwedd arall yng ngeiriadur Thomas Jones sydd yn gyffredin ag orgraff Pughe yw'r defnyddio a wneir o *an-* yn lle *am-* mewn geiriau megis *anmhendant*, *anmhleidgarwch* ac *anmhosibl* a'r defnydd braidd yn anghyson o *aw* yn hytrach nag *o*, er enghraifft *anfoddawg*, *hèriawl*, *prydlawn* a *rhagymadroddawl*.

Cyhoeddwyd yr ailargraffiad, sy'n cynnwys llai na 27,000 o brifeiriau, gan Thomas Gee ym 1811.[49] Yn y Rhagymadrodd, mae Thomas Jones yn nodi y gwerthwyd pob copi o'r argraffiad cyntaf a bod galw cynyddol am yr ailargraffiad. Hepgorodd rai o gofnodion y geiriadur gwreiddiol; ychwanegodd rai eraill a chynhwysodd ambell gyfieithiad Cymraeg ychwanegol. Mae'n esbonio trefn ei orgraff ychydig yn fanylach yn y Rhagymadrodd hwn, gan ddweud ei fod wedi mentro arbrofi gyda chyfundrefn a ystyrid gan lawer yn un sefydledig. Wrth drafod dyblu cytseiniaid, noda bod yr acen ddisgynedig a'r acen ddyrchafedig yn dynodi llafariad fer a bod yr acen grom yn dynodi llafariad hir. Yn ffodus iawn, bu'n ddigon gochelgar a chall i beidio ag arbrofi gormod. Meddai:

> In several others, such as *honni*, *honno*, *llonni*, *sorri*, *torri*, *mynnu*, *synnu*, &c. I have used a double consonant, through fear of going too far at once in such an alteration (deemed by many an innovation) and of causing any degree of perplexity, even to the lowest class of readers.[50]

Pan gyhoeddwyd yr ailargraffiad, 'roedd Jones hefyd wedi newid rhywfaint ar ei ddefnydd o *aw*. Erbyn hynny, ffafriai *o*, a'r terfyniadau *-ol* ac *-og*. Nid oes ôl arbrofi ar eirfa na chystrawen ei holl weithiau - 'roedd ef yn ddigon hyderus ac yn ddigon cadarn ei Gymraeg i wrthsefyll dylanwad Pughe. Serch hynny, pan gyhoeddwyd geiriadur Pughe yn ei grynswth ym 1803, mae'n rhaid bod Thomas Jones wedi gwneud defnydd helaethach ohono, yn enwedig pan oedd wrthi'n adolygu ac yn paratoi ei eiriadur ei hun ar gyfer ei ailargraffu.[51] Benthycodd nifer o fathiadau Pughe a'u cynnwys yn argraffiad 1811. Mae llawer ohonynt wedi ennill eu lle erbyn heddiw ac maent yn ymddangos yn *Geiriadur Prifysgol Cymru* (gweler Atodiad 3 er enghraifft) ond cododd fathiadau eraill na chawsant eu cydnabod na'u defnyddio'n gyffredinol (gweler Atodiad 4).

---

[48] Thomas Jones, 'Preface', op. cit., t.iv.

[49] Thomas Jones, *Geiriadur Saesoneg a Chymraeg. An English and Welsh Dictionary; in which the English Words with many of the English Phrases are explained by those which Synonomise or Correspond with them in the Welsh Language. Complied from the best Sources and Materials* ... (Dinbych, 1811).

[50] Thomas Jones, 'Preface', op. cit., t.iv.

[51] William Owen, *Geiriadur Cynmraeg a Saesoneg: A Welsh and English Dictionary ... to which is prefixed a Welsh Grammar* (Llundain, 1793-1803). *A Dictionary of the Welsh*

Ym 1826, daeth trydydd argraffiad o wasg Thomas Gee gyda rhestr o enwau planhigion a dynnwyd o gorff y geiriadur ar ei ddiwedd. Oherwydd ei boblogrwydd fe'u hargraffwyd am y pedwerydd tro ym 1843. Defnyddiodd Caerfallwch y gwaith fel sylfaen i'w eiriadur Saesneg-Cymraeg ef ym 1848, a bu'n dadlau gyda Thomas Gee ynglŷn â hawlfraint.[52] Pan ddywedodd Thomas Gee 'You have got Jones' Dictionary here, Sir,' atebodd Caerfallwch trwy ddweud 'Yes,' gan ategu , 'It was the best Dictionary I could find, and I made use of it.'[53] Dyna brawf felly o werth geiriadur Thomas Jones. Prawf arall o'i werth yw'r ffaith iddo barhau'n boblogaidd hyd nes yr ymddangosodd geiriadur Daniel Silvan Evans ym 1852.[54]

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

---

*Language, explained in English : with numerous illustrations, from the literary remains and from the living speech of the Cymry : by William Owen, F.A.S.* (Llundain, 1803).

[52] Thomas Edwards, *Geirlyfr Saesoneg a Chymraeg: an English and Welsh dictionary, also an analysis of the orthography of the Welsh language* (Treffynnon, 1850).

[53] T. Gwynn Jones, *Cofiant Thomas Gee* (Dinbych, 1913), t.112.

[54] Daniel Silvan Evans, *An English and Welsh Dictionary* (Dinbych, 1852 - 1859).

# Pennod 4

## Dau eiriadurwr mwyaf nodedig y ddeunawfed ganrif

### (i)

### John Walters (1721 - 1797)

Brodor o blwyf Llanedi yn Sir Gaerfyrddin oedd John Walters.[1] Ni wyddys yn iawn pa bryd y cafodd ei eni, ond fe'i bedyddiwyd ar 22 Awst 1721. Cyfeiriodd Iolo Morganwg ato fel un o'r:

> Self educated persons in Glamorgan Vale[2]

Ni dderbyniodd lawer o addysg ffurfiol gan fod ei rieni wedi marw pan oedd yn dair ar ddeg.[3] Bu'n cadw ysgol ym Masaleg am gyfnod ac yna aeth at athro ysgol o'r enw Daniel Durell yn y Bont-faen i wella safon ei Ladin a'i Roeg. Bu'n cadw ysgol ym Margam hefyd a thra 'roedd yno, enillodd gefnogaeth teulu Mansel Talbot.[4] O ganlyniad i hyn, ysgrifennodd 'The History of the noble Family of the Mansels' ac ymddengys mai hwn oedd ei waith llenyddol cynharaf. Ym 1750, urddwyd Walters yn offeiriad a chafodd guradiaeth Baglan. Ym 1754 fe'i penodwyd yn gurad parhaol Llanfihangel Ynys Afan a phum mlynedd yn ddiweddarach, cafodd reithoriaeth Llandochau'r Bont-faen ynghyd â ficeriaeth plwyf Saint Hilari. Cafodd gadair prebendari yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ddwy flynedd cyn ei farwolaeth, ar 1 Mehefin 1797.

Bu Walters yn byw yn Llandochau o 1759 hyd 1788,[5] cyfnod arwyddocaol iawn yn hanes yr ardal a'i thraddodiad llenyddol. Cyfeiriodd G. J. Williams at y tŷ yr oedd yn byw ynddo fel:

> ... un o ganolfannau llenyddol Morgannwg. Yma y deuai llenorion ac ysgolheigion i drafod pynciau ysgolheigaidd – hanesyddol ac ieithyddol.[6]

---

[1] Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953), tt.950-1.
[2] Llanover C 70, 158.
[3] LLGC 6515 B, t.48.
[4] G. J. Williams, *Iolo Morganwg: Y Gyfrol Gyntaf* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1956), t.135.
[5] Ibid., t.136.
[6] Ibid., t.137.

Diau fod byw yn ardal Llandochau wedi chwarae rhan yn natblygiad Walters fel ysgolhaig a geiriadurwr. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg 'roedd gweithgarwch llenyddol ficeriaid, rheithoriaid a gweinidogion yn amlwg yng Nghymru, ond yn ôl G. J. Williams nid dyma gyfnod mwyaf cynhyrchiol offeiriaid llengar Morgannwg. Honnodd fod gweithgarwch gramadegwyr wedi dod i'r amlwg yno yn ystod hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif gyda beirdd megis Siôn Bradford, Lewis Hopkin o Landyfodwg, Rhys Morgan o Bencraig-nedd, Dafydd Nicolas o Aberpergwm a Dafydd Thomas o Bandy'r Ystrad yn ymddiddori yn yr iaith lenyddol ac yng nghelfyddyd cerdd dafod.[7] Honnodd G. J. Williams fod gwaith geiriadurol wedi datblygu yn ystod hanner olaf y ddeunawfed ganrif a hynny'n bennaf er mwyn i lenorion fedru ymdrin â holl ganghennau dysg trwy gyfrwng y Gymraeg.[8] Thomas Richards, Llangrallo, oedd yr ysgolhaig a osododd sylfaen i draddodiad geiriadurol Morgannwg wrth gwrs. Ef a enynnodd ddiddordeb John Richards y Coety ac Iolo Morganwg yng ngeirfa'r iaith a dilynodd John Walters yn ôl ei droed.

Ym 1771, argraffwyd llyfryn o eiddo John Walters yn y Bont-faen, sef *A Dissertation on the Welsh Language, Pointing out it's Antiquity, Copiousness, Grammatical Perfection, with Remarks on it's Poetry.* Dyma gyflwyniad dysgedig i'r Gymraeg, cyflwyniad sy'n brawf o ysgolheictod Walters. Mae'n debyg ei fod allan o brint erbyn 1794. Dymunasai nifer weld argraffiad diwygiedig ohono ond ni ddigwyddodd hynny er gwaethaf ei boblogrwydd.[9] Gellir ystyried y *Dissertation* fel math o gydymaith neu ragymadrodd i'r geiriadur[10] ac mae geiriau Walters ei hun yn awgrymu'r un peth:

> ... who-ever will but take the pains to consult the *English-Welsh Dictionary*, that is now a publishing in *Quarto* by subscription, will be fully convinced of the truth of what is here advanced.[11]

---

[7] G. J. Williams. 'Y Ddeunawfed Ganrif', *Traddodiad Llenyddol Morgannwg*, (Caerdydd, 1948), t.308.
[8] Ibid.
[9] John Walters at Owen Jones, 10 Rhagfyr 1794, LLGC 21283E, t.522.
[10] G. J. Williams, *Iolo Morganwg* ..., op. cit., t.137.
[11] John Walters, *A Dissertation on the Welsh Language, Pointing out it's* [*sic*]*Antiquity, Copiousness, Grammatical Perfection, with Remarks on it's* [*sic*]*Poetry* (Y Bont-faen, 1771) t.32.

Wrth ddarllen rhagymadrodd y geiriadur, cyfeirir ni i ddarllen y *Dissertation* ac fe'i cynhwyswyd yn argraffiad 1815 o'r geiriadur. Wrth iddo drafod hynafiaeth y Gymraeg a chlodfori ei pherffeithrwydd gramadegol, mae'n crybwyll damcaniaethau gwŷr megis Sir Henry Spelman, Dr Brady, Dr Wotton, Camden, Bochart, yr Esgob Walton, John Davies, Edward Lhuyd, Pezron a Bullet. Damcaniaethau cyfeiliornus oedd nifer ohonynt ac erbyn heddiw nid oes llawer o werth iddynt, ond yn ystod y ddeunawfed ganrif fe'u llyncwyd gan hynafiaethwyr a llenorion Cymru. 'Roedd yr arfer o olrhain llinach y Gymraeg a dangos bod iddi dras hynafol a mawreddog yn boblogaidd yn y cyfnod hwn hefyd. Cyflwyniad o'r fath a geir yn rhagymadrodd geiriadur Thomas Richards ac mae *Dissertation* Walters yn ddigon tebyg o ran syniadau i'r rhagymadrodd hwnnw.[12] Dilyn traddodiad a wnaeth John Walters felly, ond mae'r traddodiad hwnnw'n ymestyn ymhellach yn ôl na'r ddeunawfed ganrif wrth gwrs. 'Roedd ganddo ddelfrydau tebyg i eiriadurwyr cyfnod y Dadeni a'r un cymhelliad a'u gyrrodd, sef cariad at y Gymraeg.[13] Iddo ef, iaith ddiledryw ydoedd. Gwelodd fod angen ei gwarchod a bod angen damnio'r rhai a oedd yn ymwrthod rhag ei defnyddio ac a ddymunai weld ei thranc. Nod dyneiddwyr Cymru oedd dyrchafu statws a dangos cyfoeth y Gymraeg fel y byddai'n deilwng i gymryd ei lle ymhlith ieithoedd cydnabyddedig eraill Ewrop. Clodforodd Walters y Gymraeg i'r un pwrpas yn y *Dissertation*. Mae'n honni bod y Gymraeg yn ddiledryw a'i bod yn meddu ar rinweddau arbennig. Yn wir, 'roedd hi cystal os nad yn rhagorach iaith na Groeg:

> It rivals the celebrated *Greek* itself in it's aptitude to form the most beautiful *derivatives*; as well as in the elegance, facility and expressiveness of an infinite variety of compounds : but if we compare these languages in regard to *primitives*, especially those that are synonymous, the Greek with all it's boasted copiousness must here give way.[14]

Fel mae teitl y *Dissertation* yn awgrymu, "copiousness" a "grammatical perfection", sef cyflawnder geirfa'r Gymraeg a gwychder gramadeg, sy'n cael sylw Walters yn ail ran y llyfryn. Clodforai ieithyddion y ddeunawfed ganrif y rhinwedd arbennig hon yn anad dim arall. Gellid ffurfio geiriau newydd o adnoddau brodorol y Gymraeg yn hawdd ac oherwydd hynny, gellid ei chadw'n

---

[12] T. J. Morgan, 'Geiriadurwyr y ddeunawfed ganrif', *Llên Cymru*, 9 (1966), t.9.
[13] G. J. Williams, op. cit., t.137.
[14] John Walters, op. cit., t.29.

iaith bur.[15] Rydd sylw arbennig i'r syniad bod modd rhannu geiriau yn nifer o wreiddeiriau cysefin neu eiriau unsill a bod modd eu dwyn ynghyd i ffurfio llawer iawn o eiriau cyfansawdd newydd. Afraid dweud, daeth y syniad hwn yn fwyfwy poblogaidd ac iddo gyrraedd ei uchafbwynt yn syniadau Rowland Jones a William Owen Pughe. Yn ôl Walters, nid oedd modd cymharu ei chyfoeth â thlodi'r Saesneg. 'Roedd yn rhaid i'r Saesneg fenthyca elfennau o ieithoedd eraill. Dywed:

> The ancient *English*, or more properly the *Anglo-Saxon* language, seems to have been originally very scanty ; and this we may infer from the necessity it was under of borrowing from others, where-withal to supply it's own deficiencies.[16]

Dyma hefyd oedd gwendid y rhan fwyaf o ieithoedd modern Ewrop:

> ... they borrow their technical terms, and names of the Sciences, from the Greek : and this is proof of their native poverty and domestic scantiness.[17]

Wrth iddo geisio profi bod y Gymraeg cystal ag unrhyw iaith arall, ni chyflwynodd Walters ddisgrifiad hollol deg i'r darllenydd. Nododd T. J. Morgan fod y sefyllfa'n wahanol mewn gwirionedd:

> ... mae'n amlwg fod yr adnoddau *cyfoes* at ofynion llenor o Sais (hyd yn oed os oeddynt yn y lle cyntaf yn Ffrangeg neu Ladin neu Roeg) yn fwy dipyn nag adnoddau *cyfoes* at ofynion llenor o Gymro ... mae gweithgarwch ac egwyddorion geiriadurol Walters yn ffordd o gydnabod yr un gwirionedd poenus oblegid drwy ei athrylith fe ddangosodd fod yn bosibl mynegi yn y Gymraeg pa ystyr bynnag neu ba syniad bynnag a geid yn Saesneg. Gellir galw'r gwaith yn eiriadur creadigol heb roi ystyr anffafriol o gwbl i'r ymadrodd.[18]

Treuliodd Walters ran sylweddol o'i oes yn gweithio ar eiriadur Saesneg-Cymraeg.[19] Dyma brif waith ei fywyd, a bu wrthi am oddeutu pum mlynedd ar hugain yn ceisio'i gyhoeddi. Yn ei ragymadrodd, disgrifiodd yr orchwyl o lunio geiriadur fel "a *Herculean* task"[20] a dywedodd y byddai'r sawl a roddai gynnig ar lunio dwsin o gofnodion o dan unrhyw lythyren o'r wyddor yn cael ei ddarbwyllo

---

[15] G. J. Williams, op. cit., t.140.
[16] John Walters, op. cit., t.28.
[17] Ibid., t.29.
[18] T. J. Morgan, op. cit., t.10.
[19] John Walters, *An English-Welsh Dictionary, wherein, not only the words, but also, the idioms and phraseology of the English language, are carefully translated into Welsh, by proper and equivalent words and phrases* ... (Llundain, 1794).

bod rhaid llafurio dros y gwaith. Nod Walters oedd creu geiriadur at wasanaeth y rhai a gyfieithai o'r Saesneg i'r Gymraeg a gobeithiai y byddai'r gwaith yn gymorth i bobl wella safon eu Cymraeg. Nid oedd ei fwriad fawr gwahanol i fwriad mwyafrif y geiriadurwyr a'i rhagflaenodd, ond mae cynnwys y geiriadur yn eithriadol ac yn haeddu sylw arbennig.

Nodwyd eisoes bod John Walters yn rhan o draddodiad geiriadurol Morgannwg yn y ddeunawfed ganrif. Mae'n rhaid bod Thomas Richards wedi dylanwadu arno felly, yn enwedig o gofio ei fod ef wedi ceisio mynd ati i greu geiriadur Saesneg-Cymraeg gyda chymorth y Dr John Richards a chyda llawysgrif geiriadur Saesneg-Cymraeg William Gambold wrth law o bosib. Cododd G. J. Williams rai cwestiynau ynglŷn â'r berthynas rhwng Walters a'r geiriadurwyr hyn gan ofyn a oeddent wedi cydweithio ac a oedd ef wedi cael llawysgrif Gambold cyn marwolaeth Richards ym 1769.[21] Ni wyddys yr atebion wrth gwrs, ond dichon fod llythyr a ysgrifennwyd gan fab Gambold, John, ym 1770 yn cynnwys un cliw gweddol bwysig. Cyhoeddwyd y llythyr yn rhagymadrodd geiriadur Walters. Mae John Gambold yn cyfeirio at:

> ... that short Account about my Father which you [Walters] desider to have from me ...[22]

Gofynnwyd am yr adroddiad byr hwn bron i flwyddyn a hanner yn ddiweddarach, felly gellir tybio bod Walters yn defnyddio llawysgrif Gambold tua 1768, pan oedd Richards yn dal yn fyw. Beth bynnag am hyn, gwyddys bod y llawysgrif ym meddiant Walters erbyn tua 1770 ac ar ôl iddo farw fe'i trosglwyddwyd hi i'w fab, Henry. Wedi ei farwolaeth yntau, aeth i lyfrgell y Parchedig J. M. Traherne, Coedrhiglan. Bellach, mae'r llawysgrif yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yng nghasgliad Llanstephan.

Er bod Walters wedi gwneud defnydd o lawysgrif Gambold ac er iddo ganmol y gwaith yn ei ragymadrodd, rhaid tynnu sylw at y ffaith ei fod wedi gorffen paratoi rhan gyntaf y geiriadur cyn bod y llawysgrif yn ei feddiant. Tuag adeg marwolaeth John Richards, 'roedd Walters yn barod i gyhoeddi'r rhan gyntaf ac

---

[20] Ibid., t.viii.
[21] G. J. Williams, op cit., t.143.

'roedd ar fin mynd â'i lawysgrif i Fryste, lle'r argraffwyd geiriadur Thomas Richards o'i flaen. Cyn iddo fynd yno, anfonodd gŵr o'r enw Rhys Thomas lythyr ato.[23] Argraffydd o Lanymddyfri ydoedd, a'i reswm dros ysgrifennu at Walters oedd cynnig argraffu'r geiriadur. Nid yw'r llythyr ar glawr heddiw, ond mae darn o ateb Walters wedi goroesi.[24] Yn ôl y dystiolaeth sydd yn y darn hwnnw, awgrymodd G. J. Williams fod Walters wedi cyhoeddi hysbysiad arbennig tua dechrau 1769, cyn i Rys Thomas gysylltu ag ef. Dichon mai datgan y byddai'r geiriadur yn cael ei argraffu fesul rhan a wnaeth a'i fod wedi holi ynglŷn â pharodrwydd argraffwyr Cymreig i gyflawni'r dasg.[25] 'Roedd Rhys Thomas yn awyddus i fod yn rhan o gynllun argraffu'r geiriadurwr, felly dyma ysgrifennu ato a chynnig ei wasanaeth. Er bod Walters yn poeni am anghyfleustra Llanymddyfri fel lleoliad y wasg, cafodd llythyr Rhys Thomas dderbyniad da. Meddai Walters yn ei ateb:

> ... mi a bwysais eich Cynnygion yn fanol gyd â chwennychiad i'w cofleidio ... pe gwypwn y gallech gwbl-gyflawni fy Addewidion cyhoedd, mi a roddwn y Gwaith dan eich dwylaw, canys gwell fyddai gennyf ymgystlwn â chy-wlad a chŷd-ieithydd nag ag estron, pan fyddai ar fy llaw ...[26]

Serch hynny, mynnodd Walters weld prawf o'i fedrusrwydd. Gan nad oedd yn adnabod Rhys Thomas yn dda, gofynnodd am dystlythyr oddi wrth "rhyw ŵr o Gymmeriad yn y Gymmydogaeth ..."[27] ac anfonodd ran o'r gwaith ato i'w argraffu, er mwyn iddo gael gweld ei safon.

Mae'n rhaid bod gwaith Rhys Thomas wedi plesio oherwydd yn Llanymddyfri ym 1769, argraffodd 'Proposals or [*sic*] printing by subscription, an English-Welsh Dictionary', sef geiriadur John Walters.[28] Argraffwyd tudalen enghreifftiol – o *A* hyd *Abortively* – yn ogystal. Disgrifiad digon cryno a diaddurn o'r geiriadur sy'n cael ei roi yn y 'Proposals'. Ceid ynddo eiriau, idiomau ac ymadroddion Saesneg a'r cyfieithiadau cyfatebol yn Gymraeg ynghyd â chyfieithiadau o

---

[22] John Walters, op. cit., t.vii.
[23] G. J. Williams, 'Geiriadur Saesneg-Cymraeg John Walters (1770 - 1794)', *Llên Cymru*, 3, t.188.
[24] LLGC 15415, tt.61-2.
[25] G. J. Williams, *Iolo Morganwg* ..., op. cit., t.142.
[26] LLGC 15415, tt.61-2.
[27] Ibid.
[28] G. J. Williams, 'Geiriadur Saesneg-Cymraeg John Walters (1770 - 1794)', op. cit., t.188.

ddiarhebion ac ymadroddion diarhebol. Wedi dweud hyn, ceir datganiad ar ddiwedd y 'proposals' sy'n egluro safbwynt Walters. Meddai Rhys Thomas:

> The Use and Advantage of such a *Work* as *this*, provided it be well executed, will be universally acknowledged. Whether the present is so, or not, must be submitted to the candid Determination of those, who shall favour it with a Perusal ; for the Author well knows that nothing that he can say in Recommendation of it, will be able to influence the *Public* in it's Favour, if, upon Examination, it will be found to have no intrinsic Merit to support it.[29]

Nodir mai'r bwriad oedd argraffu'r gwaith mewn pedair rhan, gan brisio pob rhan yn ôl nifer y 'sheets', gwerth dwy geiniog yr un, y byddai'n eu cynnwys. Gofynnwyd i'r tanysgrifwyr dalu pum swllt o flaen llaw i dalu treuliau a cheir rhestr o wŷr dros Gymru a oedd yn barod i dderbyn tanysgrifiadau. Yn ôl yr hyn a ddywedir, 'roedd 'Number I' eisoes yn y wasg.

Tua diwedd 1769 neu ddechrau 1770 symudodd Rhys Thomas i'r Bont-faen i sefydlu'r wasg gyntaf ym Morgannwg – "the Glamorgan Press".[30] Gellir tybio bod Rhys wedi sefydlu'r wasg ar y cyd gyda'i frawd, Dan Thomas, oherwydd ar glawr rhan gyntaf geiriadur Walters dywedir iddo gael ei argraffu gan R. a D. Thomas.[31] Mae i'r wasg hon le canolog yn nhraddodiad llenyddol yr ardal. Rhwng 1770 ac 1790, dyma ganolfan y berw llenyddol yn y Bont-faen yn ôl G. J. Williams:

> ... yno y deuai'r beirdd a'r gwŷr llengar i ymgomio, nid yn unig am y Geiriadur, ond hefyd am y byd llenyddol fel yr oedd y dwthwn hwnnw, ac am y llyfrau a argreffid yng Nghaerfyrddin ac yn Amwythig. Byddai'r llyfrwerthwyr crwydrad yn galw yno, ac ambell waith, gwelid gwŷr o'r Gogledd, megis Jonathan Hughes o Langollen, yn dyfod heibio pan oeddynt yn casglu enwau tanysgrifwyr at eu llyfrau hwy.[32]

Defnyddiodd Walters wasg Rhys Thomas i gyhoeddi'r *Dissertation* ym 1771 a *Dwy Bregeth ar Ezekiel xxxiii. - 11, etc.*, ym 1772. Ymddangosodd rhan gyntaf y geiriadur ar y pumed o Ebrill 1770. O hynny ymlaen, deuai un neu ddwy ran

---

[29] LLB 14945.
[30] G. J. Williams, *Iolo Morganwg* ..., op. cit., t.142.
[31] Cadrawd, 'John Walters and the First Printing Press in Glamorganshire', *The Journal of the Welsh Bibliographical Society*, 1, t.84.

o'r wasg yn flynyddol tan 1776. Bu adeg cyhoeddi rhannau gwahanol y geiriadur yn un helbulus a thrafferthus i Rhys Thomas a Walters yntau. 'Roedd Rhys Thomas yn gysylltiedig ag achos cyfreithiol yn Llundain ac ar brydiau llesteirid yr argraffu oherwydd prinder papur ac inc. At hyn, dechreuodd llawer o danysgrifwyr anfodloni oherwydd problemau dosbarthu. Nid oedd y bedwaredd na'r bumed ran wedi cyrraedd gogledd Cymru ym 1772 ac mae'n debyg bod llwyth o rannau wedi aros ym Mryste o ddiwedd Awst tan 24 Hydref y flwyddyn honno cyn cael ei roi ar fwrdd llong i Gaer.[33] Ceir sôn y dinistriwyd un llwyth mewn llongddrylliad hefyd![34] Gan na ddeuai'r rhifynnau o'r wasg yn rheolaidd, dechreuodd rhai tanysgrifwyr wrthod talu amdanynt fel y'u cyhoeddid. Ofnent na fyddai'r gwaith yn dod i ben ond trwy beidio ag anfon taliadau 'roedd hynny bron yn anochel.[35]

Tra'n ceisio gorffen y geiriadur, ymdrechodd Walters i gasglu tanysgrifwyr ychwanegol a bu'n gohebu â llyfrwerthwyr, dosbarthwyr a llenorion dros Gymru gyfan.[36] Tua mis Mai 1772 er enghraifft, mae'n debyg ei fod wedi mynd i Ogledd Cymru i ymweld â'r tanysgrifwyr a'r dosbarthwyr hefyd o bosib.[37] Pan oedd Iolo Morganwg yn Llanrwst yn yr un flwyddyn, ysgrifennodd lythyr at John Walters ar y cyntaf o Dachwedd yn sôn am ddiffyg amynedd tanysgrifwyr y geiriadur:

> I am very sorry to find that a great many of your Subscribers are very impatient to see your Dictionary Completed. I endevour to pacify them as well as I can by giving them an account of your several disappointments which some will listen to with consideration and others not. I am I think better a[c]quainted with the humour of the Country than you yourself. Several Gentlemen not scrupling to tell me what they would never have told you, but none have used you very ill but M$^{r}$ Lloyd of Gwerclas & the Rev$^{d}$ (if I may Justly call him so) M$^{r}$ Stodart of Llandervel.[38]

---

[32] G. J. Williams, *Iolo Morganwg* ..., op. cit., t.394.
[33] John Walters at Iolo Morganwg, 22 Tachwedd 1772, LLGC 21283E, rhif 513.
[34] William Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry* (Llanidloes, 1869), iii, t.685. Gw. hefyd W. D. Leathart, *The Origin and Progress of the Gwyneddigion Society* (Llundain, 1831), t.27.
[35] LLB Ych. 15030, t.137b.
[36] G. J. Williams, op. cit., t.392.
[37] Ibid., tt.170-1.
[38] Iolo Morganwg at John Walters, 1 Tachwedd 1772, LLGC 21285E, rhif 771.

Dywedodd Iolo y byddai'n dda o beth pe gorffenasai Walters y gwaith er ei les ei hun ond gan nad felly yr oedd hi, dyma'i awgrym a'i gynnig i'w helpu:

> you would do well in sending the three Last numbers as soon as possible you can to Northwales, to Silence the [? Country] a little ... would make Mr R Thomas procure a hand or two more to forward the work as soon as possible & I wish I could do you any service in those parts. if you think I can you may instruct me by a Letter ...[39]

Yn fuan iawn wedyn, daeth tro ar fyd yn hanes cythryblus cyhoeddi'r geiriadur. Mewn llythyr a yrrodd at Iolo ddiwedd mis Tachwedd, dywed Walters ei fod wedi derbyn cymorth William Vaughan, Corsygedol:

> The generous Mr. Vaughan stept in very seasonably to it's aid and support, when it's fate was doubtful.[40]

Mae'n anodd barnu pa mor allweddol fu cyfraniad William Vaughan, am na wyddys rhagor o fanylion am y cymorth a roddodd. Am gyfnod byr, aeth Walters ymlaen â'r gwaith, ond ddwy flynedd yn ddiweddarach 'roedd yn wynebu problemau unwaith eto. Ni cheir unrhyw sôn am William Vaughan yn cefnogi'r fenter y tro hwn. Awgrymodd G. J. Williams bod Walters wedi troi at Iolo Morganwg a gofyn iddo sicrhau cefnogaeth Cymry Llundain.[41] Gwyddys i sicrwydd bod Iolo wedi hysbysu Owain Myfyr o drafferthion y geiriadurwr oherwydd mewn llythyr a anfonodd at Owain Myfyr ym mis Mawrth 1774, dywed Walters:

> I received a Letter some months ago from Ned Williams ... to inform me that out of pure humanity and an affection for the work, a Mr. Owen Jones of Cannon-street undertook to get the *Numbers* of the Dictionary distributed in Town.[42]

Anfonodd Walters bum deg copi yr un o rannau chwech a saith i'w dosbarthu yn syth i Lundain at Owain Myfyr ynghyd â 'printed letter' i gynorthwyo'r dosbarthu.[43] Tybiai Walters y gallai'r wythfed ran fod yn barod erbyn y Pasg. Am unwaith, 'roedd yn agos ati. Anfonodd yr wythfed ran at Owain Myfyr ym mis Mai ac i wneud iawn am y problemau dosbarthu, anfonwyd deg copi o'r ail ran ac wyth copi yr un o ran tri a phedwar hefyd.[44] Llwyddodd Walters i gael dosbarthwyr yng Nghaerfaddon, Bryste ac ar hyd a lled Cymru, ond mae'n bosib

---

[39] Ibid.
[40] G. J. Williams, op. cit., tt.170-1.
[41] Ibid., t.202.
[42] LLB 15030, 184ª.
[43] John Walters at Owain Myfyr, 3 Mawrth 1774, LLB Ych. 15030, t.184.

na chyhoeddasid rhifynnau olaf y geiriadur o gwbl heblaw am garedigrwydd a brwdfrydedd Owain Myfyr a'i barodrwydd i dalu biliau.

Pan ymddangosodd degfed rhifyn y geiriadur ar 11 Ebrill 1776, ymddiheurodd Walters i'r tanysgrifwyr. Yn y datganiad, dywedir mai diffyg arian oedd wrth wraidd yr anawsterau ac er mor araf yr âi yn ei flaen, prin ddigon oedd ganddo i gynnal y gwaith. Serch hynny, ni allai wneud llawer ynghylch y sefyllfa:

> He is convinced that it is his interest to finish and send it abroad as soon as possible, but finds it not in his power to be more expeditious, while the over-cautiousness of many of the Subscribers restrain them from attending to the Conditions in paying for the *Numbers* as they are published, lest the Work should never be completed ...[1]

Erbyn mis Mai 1777, 'roedd Rhys Thomas mewn dyfroedd dyfnion. Prynodd John Walters y wasg, a chyflogodd Thomas a'i fab ei hun, Daniel, i weithio iddo. Cyhoeddwyd yr unfed rhan ar ddeg ym 1778, ond gofidiai Walters. Meddai wrth Owain Myfyr ym 1779:

> I am vexed to tell you how slowly the press goes on with the work, while the printer suffers every insignificant job to break in upon mine for no other reason, that I can assign, but that he is ungrateful.[2]

Dygwyd y tair rhan nesaf o'r wasg, gyda chymorth Owain Myfyr, ym 1780, 1782 ac 1783.[3] Rhwng 1770 ac 1783 felly, cyhoeddwyd pedair rhan ar ddeg.

Ceir tystiolaeth sy'n dangos bod Rhys Thomas wedi ei garcharu ym 1783 oherwydd ei fod mewn dyled.[4] Ar 22 Tachwedd 1783 anfonodd Rhys Thomas lythyr at Walters o garchar Caerdydd i ddweud ei fod yn ceisio cael gafael ar argraffydd o Fryste i gymryd ei le.[5] Gellid meddwl bod y digwyddiad hwn wedi llesteirio'r gwaith argraffu yn ofnadwy, ond nid felly y bu. Derbyniasai un o feibion John Walters, Henry, hyfforddiant gan argraffwr yng Nghaerloyw o'r enw

---

[44] John Walters, op. cit., t.iii.
[45] Cadrawd, op, cit., t.84.
[46] Mae un o'r biliau a dderbyniodd Owain Myfyr yn LLB Ych. 15030, t.172.
[47] G. J. Williams, op. cit., t.393.
[48] LLGC 15415, t.69.

Mr Raikes. Ym mis Tachwedd 1783, dychwelodd Henry Walters i'r Bont-faen i gychwyn busnes argraffu a gwerthu llyfrau a chan fod Rhys Thomas bellach yn y carchar, ymgymerodd ef â'r dasg o argraffu gweddill y geiriadur. Yn anffodus, ni chyhoeddodd Henry ragor o rannau ac er iddo lwyddo fel llyfrwerthwr, methiant fu'r wasg newydd. Fe'i prynwyd hi ym 1791, gan John Bird o Gaerdydd. Bu'r cyfnod hwn yn un trist iawn yn hanes Walters a'i deulu oherwydd bu farw tri o'i feibion. Yn sgil hyn a methiant argraffwasg Henry Walters, ni wnaethpwyd llawer ynghylch y geiriadur. Erbyn mis Mawrth 1793 'roedd John Walters wedi gorffen golygu ei lawysgrif, ond 'roedd Rhys Thomas wedi marw ac ni fedrai argraffu yn y Bont-faen bellach. Ysgrifennodd at Owain Myfyr ynglŷn â chwblhau'r gwaith argraffu ac fe'i cynghorwyd i anfon y llawysgrif i Lundain.[50] Wedi i Owain Myfyr roi amcangyfrif o gost yr argraffu, anfonodd Walters y llawysgrif ato gyda'r goets ym mis Awst. Erbyn diwedd y mis nid oedd wedi clywed dim gan ei ffrind yn Llundain a dechreuodd boeni ynghylch y gwaith.[51] Ym mis Rhagfyr, anfonodd Walters y dudalen deitl, y cyflwyniad, y rhagair a deugain punt ar gyfer yr argraffydd trwy law y Parch. Jonathan Morgan ac addawodd anfon y cywiriadau'n fuan.[52] Lluniodd restr hir o gywiriadau ond fe'i byrhawyd hi cyn ei hargraffu. Dywedodd Iolo Morganwg wrth Walters y byddai pobl yn dibrisio'r geiriadur pe gwelent gymaint o gywiriadau ac y byddai hynny'n niweidio'r gwerthiant yn y pen draw. Awgrymodd Richard Crowe nad dyna oedd y gwir reswm dros gwtogi'r rhestr. Pe bai'r *errata* gwreiddiol yn cael ei argraffu yn union fel y daeth o law Walters, byddai'n ychwanegu at gost yr argraffu.[53] Erbyn 1794, 'roedd Walters wedi cyrraedd pen ei dennyn. Mewn llythyr at Owain Myfyr mynegodd ei siom a'i anobaith:

> I had hoped I should have had an account of the Dictionary being out of the press by this. Upon sending the MS. up to London, I acquainted my friends with the assurance that the book would now be completed without further delay. I am quite hurt at the disappointment.[54]

---

[49] LLGC 15415, t.69.
[50] John Walters at Owain Myfyr, 28 Mawrth 1793, LLB Ych. 5030, t.165.
[51] John Walters at Owain Myfyr, 29 Awst 1793, op.cit., t.169.
[52] John Walters at Owain Myfyr, 4 Rhagfyr 1793, op. cit., t.170.
[53] Richard Crowe, 'Thomas Richards a John Walters: Athrawon Geiriadurol Iolo Morganwg' yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *Llynfi ac Afan, Garw ac Ogwr* (Llandysul, 1998), t.246.
[54] Cadrawd, op, cit., t.88.

Fodd bynnag, fe dderbyniodd y tanysgrifwyr y rhifyn olaf a daeth y gwaith i ben o'r diwedd ym mis Medi 1794, bron i bum mlynedd ar hugain ar ôl i'r rhan gyntaf ddod o'r wasg.

Ymddangosodd *An English-Welsh Dictionary* mewn dwy gyfrol sylweddol ac fe geir dwy golofn o brint mân ar bob un o'r 1, 500 tudalen. Mae'n cynnwys oddeutu 43,000 prifair, heb sôn am y cyfieithiadau o idiomau ac ymadroddion Saesneg a restrir o dan y prifeiriau. Yn ôl G. J. Williams, cafodd y geiriadur dderbyniad ffafriol iawn gan y mwyafrif ac ymhlith y rhestr tanysgrifwyr ceir enwau digon annisgwyl megis Dr Samuel Johnson y geiriadurwr, dau gyfaill iddo - Mrs Thrale a William Seward - a'r cerddor, Dr Charles Burney.[55]

Gwelwyd eisoes fod Iolo Morganwg ac Owain Myfyr yn barod i gynorthwyo Walters tra'r oedd yn llunio'i eiriadur. Bu Iolo'n darllen a chodi gwybodaeth o lawysgrifau Richard Morris a thua 1774-5, ysgrifennodd lythyr at Walters yn cynnig iddo'r hyn a dynnodd o'r llawysgrifau:

> I have besides a very large Collection of obsolete words consisting of many thousands. a Curious Cornish vocabulary &c. &c. they are not bound yet but as soon as they are you may command the use of them when ever you will.[56]

Ni wyddys, fodd bynnag, a gynhwysodd Walters y casgliad hwn yn ei eiriadur ai peidio. Yn ôl pob sôn, 'roedd gan Rhys Thomas, yr argraffwr, amryw lawysgrifau. Nododd Iolo mai ef oedd un o'r "Common people in Wales[57]" a feddai ar y fath gasgliad. 'Roedd Thomas yn gyfarwydd â llenorion, hynafiaethwyr a beirdd o Sir Gaerfyrddin. Adnabu wŷr megis David Richards, y casglwr llawysgrifau o Lanegwad, 'Henefydd' o Abergwili a feddai ar lawysgrifau a Ben Simon, y copïwr a'r bardd.[58] Mae'n debyg bod Rhys Thomas wedi cael benthyg nifer o lawysgrifau Sir Gaerfyrddin pan oedd yn y Bont-faen fel y gallai Walters eu defnyddio wrth baratoi'r geiriadur.[59] Wedi dweud hyn, dim ond o bryd i'w gilydd y nododd Walters eiriau tafodieithol yn y gwaith. 'Roedd ganddo

---

[55] G. J. Williams, op. cit., t.392.
[56] Ibid., t.213.
[57] Caerdydd 54, 119.
[58] G. J. Williams, op cit., t.395.
[59] Ibid.

AN

# ENGLISH-WELSH DICTIONARY,

WHEREIN, NOT ONLY THE

WORDS,

BUT ALSO, THE

IDIOMS AND PHRASEOLOGY

OF THE

ENGLISH LANGUAGE, ARE CAREFULLY TRANSLATED INTO WELSH,

BY PROPER AND EQUIVALENT

WORDS AND PHRASES:

WITH A

REGULAR INTERSPERSION OF THE ENGLISH PROVERBS, AND PROVERBIAL EXPRESSIONS, RENDERED BY CORRESPONDING ONES IN THE

WELSH TONGUE.

BY THE REV. JOHN WALTERS,
RECTOR OF LANDOUGH, GLAMORGANSHIRE.

LEXICON HOC TANDEM VULGATUM (EN ACCIPE) CURAT
NE TENDAS DUBIO TRAMITE, LECTOR, ITER.

*LONDON:*

PRINTED FOR THE AUTHOR.

MDCCXCIV.

9. John Walters, *An English-Welsh Dictionary...* (1794)

ddefnyddiau gwerthfawr yn ei lyfrgell ei hun hefyd. Nid oes raid i rywun ond darllen y *Dissertation* i ddychmygu'r llyfrau di-ri a oedd wrth ei benelin yn Llandochau. Mae'n debyg bod casgliad o weithiau'r Gogynfeirdd yn ei feddiant, ynghyd ag adysgrif o'r copi a godasai John Davies o Lyfr Coch Hergest[60] ac ef, wrth gwrs, oedd biau llawysgrif William Gambold.

Mae'n werth cymharu cynnwys geiriadur Walters ochr yn ochr â llawysgrif Gambold er mwyn gweld i ba raddau y defnyddiodd Walters ffrwyth ymchwil ei ragflaenydd. Yn ôl Cadrawd:

> ... Mr. Walters hoped that if the MS. came into his hands, a little editing, and possibly a few aditions would be all that would be required to make them ready for publication. This proved to be but a vain dream. Mr. Gambold had not worked systematically. His MSS had serious blanks in them, and worst of all his scholarship was so defective that much of his prepared work was valueless. In the end Mr. Walters found that the task would have been lighter had he never been burdened with the Gambold MSS at all. The only good effect they had was to turn his attention to that particulary study, and to arouse his interest in it.[61]

Gwaith gwreiddiol, newydd yw eiddo Walters ond nid oes amheuaeth na throdd at eiriadur Gambold am ysbrydoliaeth ac iddo'i ddefnyddio fel sylfaen i'w waith ei hun. Ychwanegodd ato, ac o dipyn i beth tyfodd y gwaith o dan ei ddwylo. Gwelwn fod geiriadur Walters yn llawer llawnach na'r eiddo Gambold. Wrth sylwi ar yr adran "redolent" - "to red-sear", gwelwn fod gan Walters restr lawnach. Gwelwn hefyd fod nifer o gofnodion wedi cael eu 'dyblu', er enghraifft:

*To redóund* [abound to excess]
*To redound* [turn]
*To redound*
er mwyn gwahaniaethu rhwng gwahanol ystyron rhai o'r prifeiriau.

| LLSGR WILLIAM GAMBOLD | AN ENGLISH-WELSH DICTIONARY ... (1794) |
|---|---|
| *Redolent* | *Rédolent* [sweet of scent, *or* sweet-scented] |
| *To Redouble* | *To rédouble* [double again] |
| *Redoubled* | *Rédoubled* |
| *A Redoubt* | *A rédoubling* |
| *To Redoubt* | *Redóubt*, in Fortification [a small outwork of a square form, so called] |
| *Redoubted* | |
| *To Redound* | *Redóubtable* [terrible] |
| *To Redress* | *Redóubted* [to be feared] |
| *A Redress* | *To redóund* [abound to excess] |

[60] G. J. Williams, op. cit., t.401.
[61] Cadrawd, op. cit., t.86.

| | |
|---|---|
| *Redressed*<br>*A Redresser*<br>*Redressless*<br>*To Red-sear* | *To redound* [turn]<br>*To redound*<br>*Redréss* [reformation : relief, &c.]<br>*To redress* [reform, &c.]<br>*To redress* [relieve, &c.]<br>*To redress one* [do one right *or* justice]<br>*To redress one's self*<br>*To redress grievances*<br>*Redréssed*<br>*Not to be redressed*<br>*Redrésser*<br>*Redresser of manners*<br>*A redréssing*<br>*Redréssless*<br>*To réd-sear* |

Nid oes gan Walters lawer o eiriau newydd yn yr adran uchod, ond mae ganddo fwy o idiomau ac ymadroddion cysylltiedig â'r prifeiriau. Sylwer er enghraifft ar y cofnodion ychwanegol sydd yn cynnwys y gair "redress". Sylwer hefyd ar gofnodion Gambold a Walters am "manner":

| LLSGR WILLIAM GAMBOLD | AN ENGLISH-WELSH DICTIONARY ... (1794) |
|---|---|
| *A Manner*<br>*Manner (nature)*<br>*By any Manner of*<br>*In a Manner*<br>*In, or after, a Manner*<br>*Of divers Manners*<br>*After this Manner*<br>*In the like (the same) Manner*<br>*Of the like Manner or sort*<br>*In two, three, four Manner of Ways* | *Mánner.* See *Form, Fashion, Figure, Guise, Kind* : and *Custom.*<br>*Manner* [method, mode, way &c.]<br>*Manner* [form of any transaction, &c.]<br>*Manner*, or *condition.* See *Condition* [a state *or* case]<br>*Manner* [fashion, figure, form, shape, &c.]<br>*Manner* [sort, species, &c.]<br>*Manner*, or *custom*<br>*Manner of life*<br>*After the manner of*<br>*After* [in, on] *this manner*<br>*After a manner* or *sort* [some how *or* any how]<br>*All manner of*<br>*Any manner of*<br>*In this manner*<br>*In like* [the like *or* same] *manner*<br>*In a manner*<br>*No manner of*<br>*On this manner*<br>*One* [the same] *maner of*<br>*What manner of*, or *of what manner*<br>*In* or *after what manner*<br>*In what manner so-ever*<br>*Of divers manners*<br>*Of the like maner* or *sort*<br>*In another manner than*<br>*In such a manner that*<br>*Two manner of ways* |

Cyfeiriodd Iolo Morganwg at Walters fel awdurdod ar:

> ... the idiom and figurative phraseology of the language.[62]

Y cyfieithiadau o'r llu idiomau ac ymadroddion Saesneg a geir yn y geiriadur yw un o brif ragoriaethau'r gwaith. Dywedodd T. J. Morgan:

> Gwyddai John Walters yn eithaf da fod geiriau'n amrywio o ran eu hystyr a'u naws a'u hislais yn ôl y cyd-destun a chysylltiadau'r frawddeg neu'r sgwrs ac na wna'r tro rhoi un neu ddau o gyfystyron gyferbyn â gair mewn geiriadur; ac y mae felly'n trin geiriau fel elfennau byw o organism iaith. Wrth drosi geiriau o'r Saesneg felly mae ganddo amrywiaeth o drosiadau, sef y gair mewn gwahanol gysylltiadau.[63]

Wrth gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, yr hyn a wnaeth Walters gan amlaf oedd dewis ystyron mwyaf addas Gambold gan wrthod a dileu'r cynigion eraill. Weithiau, gwelir ef yn ychwanegu geiriau newydd ei hun. Os oedd angen didoli ystyron gwahanol prifair, yna byddai'n 'dyblu' neu'n ailadrodd y prifair hwnnw, fel y gwelwyd eisoes ac fel y gwelir o'r cofnod am "observance" a " serene":

| LLSGR WILLAM GAMBOLD | AN ENGLISH-WELSH DICTIONARY ... (1794) |
|---|---|
| *Observance.* Parch, anrhydedd; dalied sulw; gwarchodaeth, cyfarchwyl. | *Obsérvance* [respect *or* regard] Parch, &c. See *Deference.*<br>*Observance* [attention] Daliad (cymmeriad) sulw *neu* sylw : cyfarchwyl.<br>*Observance* [the keeping] *of commandments, of one's word, &c.* Cadwad (cadwraeth) gorchymmynion; cadwad (cyflawniad) ei air *neu* ei addewid ; ymarferiad o ddyledswydd, &c. |
| *Serene.* Eglurloyw, digwmmwl, têg, tawel, llawen, hyfryd, hedychol, di-wg, hynaws, rhywiog, llary, didymmestl, siriol, gloyw, goleu. | *Seréne*, apply'd to the weather [without clouds *or* rain] Têg : digwmmwl ; hinonawl, hinonaidd ' goleu ; disglaer, &c. See *Fair* (in it's 3rd Acceptation) ; *Cloudless, &c.*<br>*Serene* [tranquil, &c.] Tawel, araf, di-wg, &c. See *Calm, Dispassionate*, and *Even of temper.*<br>*Serene*, or *chearful.* See *Chearful.* |

Dyma rai enghreifftiau i ddangos sut y llwyddodd Walters i olygu, tacluso ac ychwanegu at yr hyn a geid yng ngeiriadur Gambold a threfnu'r cyfan yn ei eiriadur ei hun:

---

[62] LLB 15024, 190b.
[63] T. J. Morgan, op. cit., t.10.

**BERFAU**

| LLSGR WILLIAM GAMBOLD | AN ENGLISH-WELSH DICTIONARY ... (1794) |
|---|---|
| *To Fulfill.* Cyflenwi, cyflawni, cwblhau, cyflowni, dwyn i ben, gorphen gwneuthur (y gwaith drwyddo), llenwi, gorllenwi. | *To fulfil* [perform, &c.] Cyflawni, cyflowni, cyflenwi, cwblhau, gorphen, dibennu, dwyn i ben, gwneuthur (y gwaith trwyddo), &c. See *to Accomplish.* |
| *To Hurry (act.)* Gyrru ym mlaen, gwithio ym mlaen, ymlid, dirio, cymell, annos, gyrru (gwthio pendramwnwgl. *To Hurry (neu)* Brysio, dyfrysio, prysuro, ffrystio. | *To húrry*,V.A. [cause to go on fast, push, forward, &c.] Gyrru (gwthio) ym mlaen, ymlid, dirio, cymmell, annog, annos. See *to Hasten* [incite, &c.], and *to Egg on.*<br>*To hurry*, V.N. [make haste] Brysio, &c. See *to Haste, &c.*<br>*To hurry on work.* See *to Hasten on work.*<br>*To hurry one away*, Cipio un ymaith, dwyn un ymaith ar frŷs. |
| *To Loath.* Ffïeiddio, alaru ar, dirmygu, diystyru, cassau, dygngassau, bod yn gâs gan, trachassau, ymwrthod o wir gâs, diflasu ar, ffinioni ar, bod yn ddiflas gan, blino ar, bod yn flîn gan, Exod: 7:18. Bod yn ffïaidd gan, Num: 21.5. Laru ar, Zech: 11.8. Sathru, Dihar: 27.7. | *To loath* [nauseate, reject with disgust, &c.] Ffieiddio, *Job* vii. 16. Ac *Ezec.* Xvi. 45. Bod yn ffiaidd gan, *Num.* xxi. 5. alaru ('laru) ar, *Zech.* xi. 8. diflasu ar, bod yn ddiflas gan, ffinioni, bod yn ffinion gan un beth, bod yn gâs (yn atgas) gan un beth, blino ar, bod yn flin gan, *Ecs.* vii. 18. ymwrthod â pheth o wir gâs arno *neu* gasineb atto, casáu, &c. (See *to Abhor, to Detest, to Disgust* [not like, &c.], *to Disrelish, to Haste &c*). |
| *To Spurn.* Gwingo, anufuddhau, taro â throed, troedio, taro â sawdl, sathru, mathru. | *To spurn*, Gwingo, &c. See *to Kick*, in it's [*sic*] 1*st* and 2*nd* Acceptation.<br>*To spurn* [reject with scorn] Gwrthod (bwrw ymaith *neu* oddi-wrtho) yn ddïystyrllyd *neu* gyd â dïystyrwch. |

**ENWAU**

| LLSGR WILLIAM GAMBOLD | AN ENGLISH-WELSH DICTIONARY ... (1794) |
|---|---|
| *A Glutton.* Dyn (rhŵth, glŵth, ceulrhwth, rhawth, afler, cegrwth, a gego ac a ysso'r cwbl, bolrhwth, rhemmwth, bwytteig, awyddus i fwyta, diwala am fwyd, rhythfol, bwydiog) rheibus, gloddestwr, wttreswr, afradlonwr, difawr, ysswr, gewai, bwyttawr mawr, cegwr, gwangeiwr, bochlwythwr, gormeswr, llyfwr dysglau. | *Glútton* [the one who eats to excess] Dŷn rhŵth (glŵth, rhawth, &c. See *Gluttonous*); glŵth, rhemmwth, gewai, cegwr, gwangciwr, bwytäwr mawr (diwala). See *Devourer.* |
| *An Irony* Gwawdiaith, gwawdair, gwatworgerdd, gair neu ymadrodd o ystyr gwrthwyneb ir hyn a feddylier o ddifrif, gwatworiad. | *Irony* [the figure in *Rhetoric* so called, where-in a person useth words of a signification quite contrary to his real meaning; as when one sneeringly commendeth a person for qualities which he hath not, &c.] Gwowd-iaith, gwowd-air, gwatworiad, gwatworgerdd, gair *neu* ymadrodd o ystyr gwrthwyneb i'r hyn a feddylir o ddifrif. |
| *A Poet.* Bardd, awenyddfardd, prydydd, cerddor cerdd dafod, cywyddwr, gwawdydd, poet, Act: 17.28. mydrwr. *The chief Poet, Poet laureat.* Posfardd. *An excellent poet.* Cadeirfardd. *An ancient Poet.* Prif-fardd. *A modern Poet.* Posfardd. *An ignorant Poet,* | *Póet*, Prydydd, bardd, awenydd-fardd, awenydd, cerddor cerdd dafod, cywyddwr, pöet (*pl.* pöetau), *Act.* xvii. 28. mydrwr, mydrydd; gwawdydd; cethlydd.<br>*An ancient poet*, Prîf-fardd, un o'r prif (o'r hên) feirdd. |

| | |
|---|---|
| *Poetaster*. Coeg-brydydd, gwann-fardd, trwsglfardd, philcerri, clêr y dom (pl). | *A chief poet,* or *poet laureat*; Pen-fardd, pen beirdd, prif-fardd, cadeir-fardd. See under *Laureate*.<br>*A modern poet*. Pos-fardd.<br>*Poetáster* [a paltry poet *or* rhymer] Eilun bardd, eilun o fardd, gwan-fardd, trwsgl-fardd, coeg-brydydd, Phil-Ceri. *Poetasters*, Clêr y dom. |
| *A Toast*. Tafell (dryll) o fara wedi ei sychgrasu neu ei grasboehti: hefyd Rhywun i'w gofio wrth yfed. *Who is the Toast of this?* Iechyd pwy yw hon? | *Toast* [a slice of bread made brown by being held beforer a fire] Tafell grafedig, crâs-dafell; bara crâs (sych-gras), crâs-fara; crâs-dam, crâs, crefyn. *Bring me a tankard of ale with toast in it*, Dŵg i mi dangced (dangcedaid) o gwrw â chrâs (chrefyn) ynddo. *Toast and ale*, Crâs (bara crâs) a chwrw.<br>*Toast* [a lady whose health is often drank, and who, as if it were *a toast* immers'd, gives flavour to the glass] Cresynes, arglwyddes y cyfedd, arglwyddes yr iechyd da. *Give me your* [thy] *toast*, Dyro i mi (enwa) dy arglwyddes (gresynes). |

Mae Walters yn cyfeirio'r defnyddiwr i edrych ar brifair arall o bryd i'w gilydd, fel y gwnaeth John Davies a Thomas Jones yn eu geiriaduron hwythau. Trefnid cynnwys geiriaduron yn y fath ffordd i osgoi ailadrodd ac i leihau maint a phris y gwaith terfynol, ond er gwaethaf y manteision, ni hwylusir y defnydd o eiriadur trwy groesgyfeirio fel hyn. Yn wahanol i nifer o eiriaduron Saesneg-Cymraeg cynhwysfawr eraill, nid yw geiriadur Walters yn cynnwys dyfyniadau na ffynonellau ar gyfer y geiriau Cymraeg. Fodd bynnag nododd ba eiriau neu idiomau a gafodd eu codi o'r Beibl. Dyna a wnaeth Gambold hefyd, fel y gwelir o'r tabl isod:

| LLSGR WILLIAM GAMBOLD | AN ENGLISH-WELSH DICTIONARY ... (1794) |
|---|---|
| *Point of a diamond*. Ewin o adamant, Jer: 17.1. | *The point of a diamond*, Ewin o adamant, *Jer*. xvii. 1. |
| *In all points as he came*. Yn hollawl y modd y daeth. Eccles. 5.16. | *In all points* [in all respects] *as he came*, Yn hollol y modd y daeth, *Eccles*. v. 16. |
| *A longing soul*. Enaid sychedig. Ps. 107.9. | *A longing soul*, Enaid sychedig, *Salm*. cvii. 9. |
| *Long suffering*. Hir-ymarhous. 2. Ped. 3.9. | *Long-suffering* [Adj.] Hîr-oddefus, hîr ei oddef, hîr-ymarhöus, 2 *Pedr* iii. 9. Goddefgar, amyneddgar, da ei amynedd, hwyrfrydig i ddig, *Ecs*. xxxiv. 6. Hwyrfrydig i lîd, *Salm*. lxxxvi. 15. Hîr ei ymaros. |

Gan fod y ddau wedi nodi'r Beibl fel ffynhonnell ar gyfer yr un cofnodion yn union ac oherwydd mai prin iawn yw cyfeiriadau ychwanegol Walters at y Beibl fel ffynhonnell, gellir tybio'i fod wedi dibynnu'n weddol drwm ar yr wybodaeth a oedd wrth law yn llawysgrif Gambold. Dylid cadw mewn cof nad oedd gwaith Gambold ym meddiant Walters pan aeth ati i lunio'i eiriadur a bod y rhan gyntaf eisoes yn barod tua'r adeg y cafodd y llawysgrif. Mae'n ddiddorol nodi felly, bod y cyfeiriadau at y Beibl ychydig yn llai niferus tua dechrau'r geiriadur. Ar wahân i hyn, mae'n anodd gweld gwahaniaeth amlwg rhwng cynnwys dechrau geiriadur Gambold a dechrau un Walters. Wrth sylwi ar yr adran "blamer" - "blandishment", gwelwn mai ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhyngddynt, ond bod gan Walters restr lawnach, fel y byddid yn disgwyl:

| LLSGR WILLIAM GAMBOLD | AN ENGLISH-WELSH DICTIONARY ... (1794) |
|---|---|
| *A Blamer*<br>*A Blaming*<br>*Blanch (dog's name)*<br>*To Blanch*<br>*To Blanch a plane*<br>*Blanched*<br>*Blanching*<br>*Blandiloquy*<br>*To Blandish*<br>*A Blandisher*<br>*A Blandishing*<br>*Blandishment* | *Blámer*<br>*A bláming*<br>*Bláme-worthy*<br>*To blanch* [whiten]<br>*To blanch* [peel, *or* take off the rind]<br>*Blánched*<br>*Blanch*<br>*A blánching*<br>*Bland* [applied to language, mild, gentle, soothing]<br>*Bland* [applied to weather, soft, gentle, temperate]<br>*Blandíloquence,* or *blandíloquy* [fair and flattering speech, courteous language<br>*To blándish* [flatter, soothe up *or* fawn upon]<br>*Blándishment*, or *blándishing* |

Mae nifer o nodweddion yn perthyn i waith Walters na welir mohonynt yng ngwaith Gambold. Yn y rhagymadrodd, dywed Walters:

> ... the Author hath neglected no opportunity, that fairly presented itself, to enliven his Performance with all the entertainment, that the nature of the Work would admit of; such as sketches of History, dashes of Antiquity, and strokes, of Criticism; synoptic views of the lives of some eminent Persons of former days, devout, learned and military; brief accounts, etymological and chronological, of some Places of ancient note, Towns, Castles, etc.

Ar ôl enwau llefydd ac ardaloedd yng Nghymru a Lloegr, megis "*Cowbridge*", "*Cornwal*", "*London*", "*Meiriónetb-shire*", "*Oxford*" a "*York*" cawn esboniad ar

ystyron yr enwau a hanes amdanynt. Oherwydd y duedd hon i roi rhyw fath o erthygl gryno ar rai geiriau, mae'n siwr na fyddai ambell i gofnod yn edrych allan o'i le mewn gwyddoniadur. Ceir paragraff byr ar ôl "*Shróve-tide*, or *Shrove-Tuesday*" er enghraifft ac fe geir esboniad ar gofnodion fel "*Ich Dien*" a "*Pýrrhonism*". Dro arall, rhydd Walters esboniad mewn cromfachau, nid i wahaniaethu rhwng ystyron gwahanol prifair, ond i esbonio er mwyn esbonio fel petai. Sylwer ar y wybodaeth sy'n dod ar ôl "cólures", "laconic", "royalists" a "to wade":

*Cólures* [in Geography and Astronomy, two great circles imagined to pass through the poles of the world, one of them through the equinoctial points, Aries and Libra; and the other through the solstitical points, Cancer and Capricorn; intersecting each other and the equator at right angles] Dau gylch dychymmygol yn croesi eu gilydd [*sic*] yn union-gongl yn nau begwn y bŷd, ac yn rhannu'r globyn yn bedwar parth cyfartal.

*Lacónic* [applied to style in *writing* or *speaking*, close and pithy like that of ancient Spartans]

*Róyalists* [the king's adherents, *or* loyal party, so called in the time of the grand-rebellion]

*To wade* [Walk, pass, *or* go through a river, *or* any water that is not too deep]

Nodwedd bwysig arall ar gynnwys y geiriadur yw'r geiriau newydd a fathodd John Walters, geiriau sydd bellach yn rhan annatod o eirfa'r Gymraeg. Mae ffynhonnell pob prifair yn cael ei nodi yn *Geiriadur Prifysgol Cymru* ac fe nodir y dyddiad. Yn yr adran *A - Ch* mae oddeutu 3% o'r prifeiriau yn eiriau a welwyd neu a gofnodwyd gyntaf yng ngeiriadur Walters (gweler Atodiad 5). At hyn, nodir bod enghreifftiau cynharaf nifer o eiriau i'w gweld yn llawysgrif Llanstephan 189 - sef geiriadur Gambold - a'u bod wedi ymddangos yng ngeiriadur Walters yn ddiweddarach. Gan fod Iolo Morganwg a Walters yn gyfeillion a chan fod Iolo'n ymweld ag ef pan oedd yn llunio'i eiriadur, tybir mai Iolo ei hun oedd biau nifer fawr o'r geiriau newydd sydd yng ngeiriadur Walters.[64] Pwy bynnag a'u bathodd, fe wnaeth hynny at ddiben arbennig. Bwriad Walters oedd galluogi ei gyd-Gymry i drafod pob math o bynciau gan ddefnyddio geirfa Gymraeg. Sylweddolodd na fedrai'r Gymraeg aros yn ei hunfan - 'roedd angen ei haddasu a'i datblygu i ddiwallu anghenion y byd modern a chreu geiriau newydd. Oherwydd y galw am eirfa ehangach yn y ddeunawfed ganrif, mae nifer fawr o'r geiriau a fathodd Walters yn adlewyrchu'r oes honno - sylwer er enghraifft ar 'cyfnewidfa', 'mân-werthu' a 'myfiaeth' yn y

rhestr isod - ac mae'r geiriadur ei hun yn waith pwysig i'r sawl sy'n astudio hanes y Gymraeg yn ystod y cyfnod dan sylw:[65]

| | | |
|---|---|---|
| adloniant | caledlad | mân-werthu |
| adnoddau | clytwaith | meddygfa |
| ad-olygu | cofnodi | mêth-fasnach |
| adolygiad | cofrestru | morlys |
| angenrheidrwydd | cyd-ddigwyddiad | myfïaeth |
| amaethyddiaeth | cydnabyddedig | nen-fŵd |
| amcanbris | cyfanwerthu | newidfa |
| amlinell | cyfeirnod | peirianwaith |
| amrantiad | cyfnewidfa | perdon |
| arall-eirio | cyfredol | personoliaeth |
| ardystiad | cyhoeddusrwydd | planhigfa |
| arddegau | cylchgrawn | plethdorch |
| arfbais | cylchlythyr | poblogaeth |
| argraffnod | cylchrediad gwaed | prïod-ddull |
| arwerthiant | cylchredol | prawf-len |
| awyrgylch | disgyrchiant | rhydd-ddaliad |
| beirniadaeth | dynoliaeth | rhydd-ddeiliad |
| braint-lythyr | gorbrisio | rhyddieithol |
| braslun | hydeiml | rhyfelgyrch |
| bytholrwydd | mantoli | |

Ym 1815, cyhoeddwyd ailargraffiad o'r geiriadur mewn dwy gyfrol yn Nolgellau. Ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif, 'roedd enwau argraffwyr i'w gweld yn amlach mewn rhestrau tanysgrifio.[66] Ar ddechrau ailargraffiad *An English-Welsh Dictionary...*, ceir rhestr danysgrifwyr, o tua 600 enw, sydd yn cynnwys enwau holl brif argraffwyr Cymru. Ym 1828, cyhoeddwyd trydydd argraffiad yn Ninbych gan wyres Walters, Hannah.

Ni chyhoeddwyd geiriadur Saesneg-Cymraeg tebyg na chystal i eiriadur John Walters cyn 1794. Dywedodd Geraint H. Jenkins fod geiriaduraeth wedi cyrraedd safon uchel iawn yng Nghymru pan ddaeth o'r wasg a'i fod wedi sbarduno pobl i drafod gwerth y geiriau a fathodd Walters ac i ymddiddori yn natur a thwf ieithoedd yn gyffredinol.[67] Sylweddolodd Daniel Silvan Evans fod potensial aruthrol i eiriadur Walters a gwyddai y gallai gyfrannu ymhellach at adnoddau'r iaith pe bai'n ei ehangu. Fe'i defnyddiodd felly, fel sylfaen i'w

---

[64] G. J. Williams, op. cit., t.149.
[65] Ibid., t.144.
[66] Eiluned Rees, 'Pre-1820 Welsh Subscription Lists', *Cylchgrawn Cymdeithas Lyfryddol Cymru*, 11(1973 - 4), t.93:
[67] Geraint H. Jenkins, 'Adfywiad yr Iaith a'r Diwylliant Cymraeg 1660 - 1800' yn Geraint H. Jenkins (gol.), *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb: Yr Iaith Gymraeg cyn y Chwyldro Diwydiannol* (Caerdydd, 1997), tt.385-6.

eiriadur Saesneg-Cymraeg ei hun, er na chydnabu iddo ddibynnu'n drwm arno. Dichon y byddai Walters wedi cyflawni mwy oni bai am yr holl drafferthion y bu'n rhaid iddo'u hwynebu wrth geisio llunio a chyhoeddi'r geiriadur. Ym mis Tachwedd 1776, ynghanol bwrlwm y cyhoeddi, ysgrifennodd lythyr at Owain Myfyr yn dweud:

> Gwir yw, y mae Dysg yn hogi ac yn awchu Dysg, ac y mae Doniau yn rhoi Doniau ar dân. Ac am hynny, pe gallwn orphen yr hyn sydd gennyf yn llaw [sef y *Geiriadur*], a'i symmud oddi-ar yr eingion, mi a olymmwn fy symlau, ac a gymmhellwn ryw Ddysgedig neu gilydd a'm cymmhellai innau eilchwyl , hyd oni byddai i ni gŷd-rhyngom gloddio i ddyfnderoedd, ac olrhain a chwilio allan ddirgelion, yr laith Gymraeg: hyn a wnâf, os rhydd Duw einioes ac iechyd, er yr anghalondid, a'r anghysur, a gefais yn hwylio ac yn dwyn ym mlaen fy Ngorchwyl presennol.[68]

Ni symudodd y geiriadur "oddi-ar yr eingion" am flynyddoedd, ond nid drwg o beth oedd hynny. Tyfodd yn waith gorchestol a digon nodedig i roi lle amlwg i Walters yn hanes ysgolheictod Cymraeg y ddeunawfed ganrif ac yn waith y gallwn droi ato a'i ddefnyddio heddiw. Gresyn felly na chafodd Walters lawer o gyfle i ddylanwadu ar ansawdd Cymraeg ei gyfnod ef a Chymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg cyn i Pughe ddod i amlygrwydd a hawlio'i le yng nghanol y llwyfan.[69]

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

[68] G. J. Williams, op. cit., t.140.
[69] T. J. Morgan, op. cit., tt.11-12.

## (ii)
## William Owen Pughe (1795 - 1835)

Ym 1776, pan oedd yn ddwy ar bymtheg oed, gadawodd William Owen [Pughe] ei gartref yn Ardudwy a'i bwrw hi am Lundain.[70] Er bod cymdeithasau Llundeinig yn eu hanterth yn ystod y cyfnod hwn ac er bod gan Pughe ddiddordeb brwd mewn llenyddiaeth Gymraeg, mae'n rhyfedd na ddygwyd ef i gylch Cymry Llundain am chwe blynedd. 'Roedd ymaelodi â'r Gwyneddigion yn gam pwysig yn natblygiad Pughe fel ysgolhaig Cymraeg. Dechreuodd gyfeillachu â gwŷr llengar y ddinas megis Iolo Morganwg ac Owain Myfyr ond yn bwysicaf oll, dechreuodd ymddiddori o ddifri yn y casgliad gwerthfawr o lawysgrifau a oedd ym meddiant y gymdeithas.

Buasai gan Pughe ddiddordeb yn yr hen destunau ers ei arddegau. Daeth yn gyfarwydd â gwaith y Cynfeirdd a Beirdd yr Uchelwyr gyntaf, pan ddarllenodd *Gorchestion Beirdd Cymru neu Flodau Godidowgrwydd Awen*[71] yn bedair ar ddeg oed.[72] Tua 1784, trodd at lawysgrifau'r Gwyneddigion gan astudio barddoniaeth y Cynfeirdd a'r Gogynfeirdd yn eu tro. Yn ddiweddarach, defnyddiwyd yr astudiaeth hon fel sail i'r *Myvyrian Archaiology of Wales*[73]. Un rhan bwysig o gasgliad y Gwyneddigion oedd llawysgrifau'r Morrisiaid. Dros y blynyddoedd, buont yn copïo ac yn casglu'r hen destunau ac ar farwolaeth yr olaf o'r brodyr - Richard Morris - daeth eu llawysgrifau a'u llyfrau i feddiant cymdeithas y Cymmrodorion. 'Roedd Cymdeithas y Cymmrodorion, a redai ochr yn ochr â chymdeithas y Gwyneddigion am gyfnod, yn gofalu am lyfrgell ysgol Cymdeithas yr Hen Frytaniaid. Pan ddaeth y cyfnod cyntaf yn hanes y Cymmrodorion i ben ym 1787, daeth y llyfrgell dan ofal y Gwyneddigion a phenodwyd William Owen Pughe yn un o'i llyfrgellwyr. Yn ddiweddarach, lluniodd gatalog o lawysgrifau'r llyfrgell honno.

---

[70] Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), op. cit., tt.767-8.

[71] Rhys Jones (gol.), *Gorchestion Beirdd Cymru* (Caernarfon, 1773).

[72] William Owen [Pughe], *A Dictionary of the Welsh Language, explained in English : with numerous illustrations, from the literary remains and from the living speech of the Cymry* (Llundain, 1793 - 1803). Nid oes rhifau ar dudalennau'r rhagymadrodd.

Ym 1789, cyhoeddwyd *Barddoniaeth Dafydd ap Gwilym*[74] dan olygyddiaeth William Owen Pughe ac Owain Myfyr. Aethai'r Myfyr ati i lunio ei gasgliad ei hun o waith Dafydd ap Gwilym ymhell cyn iddo gyfarfod â William Owen Pughe oherwydd bod cywyddau'r bardd, a gopïwyd ac a gasglwyd gan y Morrisiaid, wrth law yng nghasgliad llawysgrifau Cymdeithas y Cymmrodorion. Derbyniasai gymorth gan Iolo Morganwg hefyd, cymorth y gwyddom y dylai fod wedi cadw'n glir ohono wrth gwrs. Yn fuan ar ôl ymaelodi â Chymdeithas y Gwyneddigion, dechreuodd Pughe chwarae rhan amlwg yn ei gweithgareddau a chan fod y Gwyneddigion wedi penderfynu y dylid cyhoeddi cynnwys yr hen destunau Cymraeg, aeth Pughe yn brif gynorthwyydd i Owain Myfyr. Ym 1792 cyhoeddwyd cyfrol o waith Pughe: *The Heroic Elegies and other pieces of Llywarç Hen*[75] ac ymhen rhai blynyddoedd cyhoeddwyd *The Myvyrian Archaiology of Wales* dan olygyddiaeth Iolo Morganwg, William Owen Pughe ac Owain Myfyr.[76] 'Roedd cyhoeddi'r ddau waith hyn yn rhan o ymgyrch Pughe, Owain Myfyr ac eraill i geisio cyflawni uchelgais ysgolheigion y ddeunawfed ganrif. Teimlent fod rhaid copïo, catalogio a diogelu llawysgrifau mewn casgliadau gwahanol ledled Cymru a chyhoeddi eu cynnwys. Rhoddwyd pwysau cynyddol arnynt i ymgymryd â'r dasg gan haneswyr ac ysgolheigion Lloegr. Nid oedd hen lenyddiaeth y Cymry wedi'i chyhoeddi na'i chyfieithu felly 'roedd llawer o wŷr llengar Seisnig wedi dechrau amau'i bodolaeth.

Ers i Pughe gael ei dynnu i gylch Cymry Llundain gan Robin Ddu o Fôn, cafodd y cyfle i feithrin ei wybodaeth am yr hen lawysgrifau ac am hanes llên Cymru. Yn y gorffennol, arferid troi at Lewis Morris a Ieuan Fardd am wybodaeth, ond erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif dechreuodd ysgolheigion a llenorion droi at Pughe a Iolo Morganwg. O dipyn i beth, dechreuodd ffurfio cysylltiadau â nifer o wŷr llengar y gallai droi atynt ei hun am gymorth. Yn rhagymadrodd y geiriadur, dywed Pughe:

---

[73] O. Jones, E. Williams a W. O. Pughe, *The Myvyrian Archaiology of Wales* (Llundain, 1801-1807).
[74] Owen Jones a William Owen, *Barddoniaeth Dafydd ap Gwilym* (Llundain, 1789).
[75] William Owen, *The Heroic Elegies and other pieces of Llywarç Hen ...* (Llundain, 1792).
[76] O. Jones, E. Williams a W. O. Pughe, op. cit.

> Then [1782] it was that chance threw me in the way of Robert Hughes (Robin Ddu o Fôn), the poet and judicious critic ... He introduced me to Mr. Owen Jones, and other founders of the Gwynezigion Society ; when I was astonished by discovering their treasures of British Manuscripts, of which I did not know before, that we had one in the whole metropolis. This gave new energy to my particular pursuits ; and laid the foundation for this dictionary, besides opening various sources of information towards completing it.[77]

'Roedd Pughe felly, yn ddigon cymwys i lunio geiriadur Cymraeg-Saesneg newydd ar ei liwt ei hun - yn wir 'roedd ganddo well cefndir ysgolheigaidd nag unrhyw eiriadurwr a ddilynodd John Davies. Tra'n astudio testunau Cymraeg Cynnar a Chymraeg Canol, sylweddolodd Pughe fod llawer o'r geiriau a geir ynddynt wedi eu diystyru gan fwyafrif y geiriadurwyr Cymraeg. Gan nad oedd modd eu canfod mewn geiriaduron printiedig, nid oeddent yn hysbys i'r Cymro cyffredin ac felly 'roedd perygl iddynt fynd yn angof. Natur boblogaidd sy'n nodweddu geiriaduron y ddeunawfed ganrif ac er bod *Antiquae linguae Britannicae thesaurus* Thomas Richards yn eiriadur swmpus a defnyddiol,[78] ni ddiwallodd yr un geiriadur anghenion yr ysgolhaig yn iawn ers cyhoeddi'r *Dictionarium Duplex*.[79]

Yn *Barddoniaeth Dafydd ap Gwilym*,[80] gwelir ymgais i egluro rhai o'r geiriau anghyfarwydd a ddefnyddiwyd yn y testun. Ar ddiwedd y gyfrol y mae adran ar enwau'r lleoedd a'r bobl a geir yn y cerddi ynghyd ag 'Eglurhâd o Eiriau Anghyfiaith', sef geirfa o eiriau a thermau dieithr a fenthyciwyd o'r Saesneg, y Ffrangeg a'r Lladin. Rhestr Gymraeg-Saesneg seml o tua 130 prifair ydyw ond gallwn ei hystyried fel man cychwyn gyrfa Pughe fel geiriadurwr. Mae'n rhaid ei fod wedi sylweddoli'n fuan iawn bod galw am eiriadur cynhwysfawr a fyddai'n cynorthwyo'r rhai a astudiai hen lenyddiaeth y Cymry ac a fyddai'n hyrwyddo ysgolheictod Cymraeg.

---

[77] Rhagymadrodd y *Geiriadur* (1793-1803).
[78] Thomas Richards, *Antiquae linguae Britannicae thesaurus* (Bryste, 1753).
[79] John Davies, *Antiquae linguae Britannicae ... et linguae Latinae, dictionarium duplex* ... (Llundain, 1632).
[80] Owen Jones a William Owen, op. cit.

'Roedd y diwylliant a etifeddasai William Owen Pughe a'i gyfoeswyr yn seiliedig ar syniadau'r Dyneiddwyr a phan sylweddolwyd bod angen codi statws yr iaith a diogelu llenyddiaeth Gymraeg unwaith yn rhagor tua diwedd y ddeunawfed ganrif, ceisiodd Pughe efelychu'r hyn a wnaeth y Dyneiddwyr o'i flaen trwy lunio geiriadur Cymraeg-Saesneg. Yn y rhagymadrodd, mae'n ceisio esbonio'i fwriad:

> I presumed that it might be the means of preserving the remains of a language of an ancient nation ...[81]

Cariad tuag at ei wlad oedd yr hyn a'i gyrrodd yn bennaf, meddai, ac âi'r cariad hwnnw'n fwyfwy tanbaid wrth i Gymru gael ei dilorni a'i diystyru gan wledydd eraill. Teimlai Pughe'n anniddig pan synnai ei gyfeillion yn Llundain ato'n treulio cymaint o amser ar:

> What they called so unprofitable a sacrifice of time as the collecting together the words of a nearly expiring language.[82]

Er gwaethaf pob beirniadaeth, daliodd Pughe at ei bethau. 'Roedd am ddangos y Gymraeg mewn modd:

> which may enable strangers to perceive its copiousness.[83]

Ond dywed nad gwladgarwch na'r dymuniad hwn i anadlu bywyd newydd i'r iaith yn unig a'i hysgogodd:

> But after having proceeded therein sufficiently far to perceive the magnitude of the labour required, I greatly doubt whether such a passion alone would have encouraged me to complete the work.[84]

Câi wir fwynhad o wneud gwaith geiriadurol ac yn fuan ar ôl dechrau, ymgollodd yn llwyr ynddo.

Ym 1785, dechreuodd William Owen Pughe lunio'i eiriadur trwy gyfuno mân gasgliadau o eiriau â chynnwys y geiriadur printiedig mwyaf ac yna treuliodd y tair blynedd nesaf yn gwneud nodiadau a chodi geiriau o hen lawysgrifau a llyfrau. Er mwyn i ni fedru amgyffred maint y dasg yr ymgymerodd Pughe â hi, rhaid cofio bod y cyfnod hwn yn un prysur iawn yn ei hanes a bod nifer o

---

[81] Ibid.
[82] Ibid.
[83] Ibid.
[84] Ibid.

brosiectau eraill ganddo ar y gweill yr un pryd. Ceisiai rannu ei amser rhwng y geiriadur, *Barddoniaeth Dafydd ap Gwilym*, *The Heroic Elegies and other pieces of Llywarç Hen*, *The Myvyrian Archaiology of Wales*, y *Cambrian Biography* a'r *Cambrian Register* yn ogystal â'r Gramadeg a nifer o fân weithiau eraill. Nid yw'n syndod felly na châi Pughe lawer o gyfle i ymuno yn hwyl nosweithiau llawen a chyfarfodydd bywiog Cymdeithas y Gwyneddigion a bod cyfeiriad ato fel 'Gwilym Dawel y Geiriadurwr' yng nghoflyfr y gymdeithas am y flwyddyn 1799![85] Beth bynnag am yr holl heyrn yn y tân a oedd ganddo, llwyddodd i gadw trefn ar ei holl waith. 'Roedd dyfalbarhad eithriadol yn perthyn iddo - "I obstinately persisted", meddai a bu'n ddigon ffodus i gael cefnogaeth ac arian Owain Myfyr wrth gefn.[86] Cydnabu ei ddyled i'w ffrindiau llengar hefyd:

The progress of the work itself also increased the number of my Welsh friends, to encourage the execution of it ...[87]

Mae'n cyfeirio'n arbennig at garedigrwydd dau ŵr a ganiataodd iddo ddefnyddio'u llyfrgelloedd, sef Paul Panton, yr hynafiaethydd a'r casglwr llawysgrifau o Blas Gwyn, Môn a Thomas Johnes, Hafod Uchtryd, Ceredigion. Meddai Iolo Morganwg ar wybodaeth drylwyr o'r hen lawysgrifau ac 'roedd yn barod i deithio ar hyd a lled Cymru er mwyn ymweld â gwahanol lyfrgelloedd. Bu yntau'n cynorthwyo Pughe. Hefyd, crewyd rhestrau arbenigol o eiriau ar gyfer y geiriadur, megis y rhestr honno o enwau adar a physgod, dyddiedig 1789, yn llaw Dafydd Ddu Eryri sydd wedi goroesi.[88] Ym 1789, 'roedd Pughe yn barod i gychwyn ar daith o amgylch plastai Cymru i ymweld â'u llyfrgelloedd, i astudio llawysgrifau ac i gasglu dyfyniadau i egluro geiriau. Mae'n sôn ei fod wedi gweld geirfa Gymraeg a Lladin yn "Llyfr Llandaf" a rhestrau o eiriau yn llawysgrifau William Llŷn, David Powell, John Jones Gellilyfdy, William Gambold, Lewis Morris, Ieuan Fardd, Robin Ddu yr Ail o Fôn, Owain Myfyr ac Iolo Morganwg. At hyn oll, 'roedd y geiriaduron printiedig a fodolai'n barod yn ffynonellau defnyddiol. Cyfeiria at eiriadur William Salesbury;[89] Thomas Wiliems[90] a John Davies;[91] Thomas Jones;[92] Thomas

---

[85] LLB Ych. MAA. 9848.
[86] William Owen Pughe, 'Rhagymadrodd', op. cit.
[87] Ibid.
[88] LlGC 13224, t.51.
[89] William Salesbury, *A Dictionary in Englyshe and Welshe moche necessary to all such Welshemen, as wil spedly learne the englyshe to'gue* (Llundain, 1547).
[90] Thomas Wiliems, *Trysawr yr iaith Latin a r Gymraec, ne'r Geiriadur cywoethocaf a helaethaf or wir ddiletiaith Vrytanaec ... wedy dechreu i scrifenu 4 Maii 1604.* Peniarth 228.

Richards;[93] William Evans;[94] John Walters[95] a William Richards.[96] Nododd hefyd ei fod wedi defnyddio adran arbennig Edward Lhuyd - 'Some Welsh words omitted in Dr Davies's Dictionary' - yn *Archæologia Britannica*..[97] Wedi iddo gasglu swp o ddeunyddiau, chwyddasai'r gwaith gymaint nes iddo orfod ailgopïo ac aildrefnu'r cyfan. Cynyddodd ymhellach a bu'n rhaid iddo wneud copi pellach â bylchau drwyddo ar gyfer ei ychwanegiadau.

Mewn llythyr at Iolo Morganwg ym 1791, soniodd Pughe am gyhoeddi'r gwaith.[98] Dechreuwyd ei argraffu fesul rhan gan Evan a Thomas Williams y Strand ym mis Mehefin 1793. Gofynnwyd chwe swllt am y rhan gyntaf, sef *A — caethgyvieithus*, ac ar y clawr ceir manylion am y copïau 'crandiach' a oedd ar gael:

> on large paper quarto, hot pressed very elegant 10/6 each part to subscribers.[99]

Y bwriad ar ôl hyn oedd cyhoeddi chwe rhan arall, tua dau gan tudalen yr un, i lunio dwy gyfrol sylweddol. Daeth yr ail ran, o *caethgyvieithwr* i *dadnwythaw*, o'r wasg y mis Mehefin canlynol. Croeso digon llugoer a gafodd am fod ei bris yn uchel ac am fod yr orgraff - pwnc a gaiff ragor o sylw yn nes ymlaen - yn ddieithr ac yn anodd i'w deall. Gofynnodd William Owen Pughe i Wallter Mechain geisio ennill rhagor o danysgrifwyr trwy ddefnyddio'i ddylanwad yn Neuadd Sant Alban,

---

[90] Thomas Wiliems, *Trysawr yr iaith Latin a r Gymraec, ne'r Geiriadur cywoethocaf a helaethaf or wir ddiletiaith Vrytanaec ... wedy dechreu i scrifenu 4 Maii 1604.* Peniarth 228.

[91] John Davies, op. cit.

[92] Thomas Jones, *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb Neu helaeth Eir-lyfr Cymraeg a Saesneg* ... (Llundain, 1688)

[93] Thomas Richards, op. cit.

[94] William Evans, *New English-Welsh Dictionary, Containing All Words necessary for Reading an English Author* ... (Caerfyrddin, 1771).

[95] John Walters, *An English-Welsh Dictionary* ... op. cit.

[96] William Richards, *Geiriadur Saesneg a Chymraeg. An English and Welsh Dictionary, in which the English Words, and sometimes the English Idioms and Phraseology, are accompanied bu those which synonymise or correspond with them in the Welsh Language* ... (Caerfyrddin, 1798).

[97] Edward Lhuyd, *Archæologia Britannica, giving some account additional to what has been hitherto Publish'd, of the Languages, Histories and Customs of the Original Inhabitants of Great Britain: From Collections and Observations in Travels through Wales, Cornwal, Bas-Bretagne, Ireland and Scotland* (Oxford, 1707), tt.213-21.

[98] LIGC 21282, IAW 314.

[99] Clawr rhifyn cyntaf y *Geiriadur* (1793).

Rhydychen.[100] Ym mis Rhagfyr 1795, argraffwyd rhifyn arall yn ymestyn o *dadnwythawl - fysgolyn,* ond aeth pum mlynedd heibio cyn i'r bedwaredd ran fod yn barod. Yn fuan wedi hynny, ym mis Tachwedd 1801, cyfaddefodd Pughe wrth Iolo Morganwg ei fod ar fin gorffen y gwaith:

> Do you know that, at last, I am nearly at the end of my great job: that I have finished the Geiriadur, except filling a few skeleton half sheets from *ys* to the end![101]

Cafodd rhifyn I - III eu cynnwys yn y gyfrol gyntaf a'r gweddill yn yr ail gyfrol pan gyhoeddwyd y Geiriadur yn ei gyfanrwydd tua diwedd 1803. Cafodd *A Grammar of the Welsh Language* ei gynnwys ar y dechrau er iddo gael ei gyhoeddi ar wahân yn yr un flwyddyn hefyd.[102]

Maint y gwaith terfynol oedd un o nodweddion mwyaf trawiadol y geiriadur pan ddaeth o'r wasg. Dyma'r geiriadur mwyaf a gyhoeddwyd erioed yn y Gymraeg. 'Roedd yn cynnwys dros 100,000 o eiriau a thros 12,000 mil o ddyfyniadau. Dyna brawf, meddai, o'i lafur caled:

> Those who have only been used to improve former dictionaries, already reduced to a system of tolerable arrangement, can scarcely form a just idea of the labour thus, required, by which the contents of former vocabularies, not exceeding 15,000 in the number of their words, are augmented to about 100,000; and that too, in addition to the introduction of more than 12,000 quotations, for illustrating the obscurities of the language, with the many difficulties of rendering them literally into English.[103]

Gallai Pughe ymfalchïo yn ei gamp yn enwedig o gofio mai tua 60,000 o eiriau oedd yng ngeiriadur Dr Samuel Johnson.[104] Hen eiriau oedd toreth o'r prifeiriau, ond 'roedd llawer iawn ohonynt yn ffurfiau hollol ddieithr ac anghyfarwydd. Bathiadau Pughe ei hun oedd y rhain. Dangos y Gymraeg yn ei helaethrwydd fel na fedrai neb amau ei statws oedd un o'i brif amcanion ac iddo ef, ffordd gwbl ddilys a chadarnhaol o gyfoethogi'r iaith oedd bathu geiriau.

---

[100] LIGC 1807, t.13.
[101] LIGC 21282, IAW 350.
[102] William Owen, *A Grammar of the Welsh language* (Llundain, 1803).
[103] Rhagymadrodd y *Geiriadur* (1793-1803).
[104] Samuel Johnson, *A dictionary of the English language* (Llundain, 1755).

A

# DICTIONARY

OF THE

# WELSH LANGUAGE,

*EXPLAINED IN ENGLISH;*

WITH NUMEROUS ILLUSTRATIONS, FROM THE LITERARY REMAINS

AND FROM THE LIVING SPEECH OF THE

CYMRY:

BY *WILLIAM OWEN*, F. A. S.

VOL. I.



LONDON: PRINTED FOR E. WILLIAMS, 11, STRAND,
Bookseller to the DUKE and DUCHESS of YORK, and Successor to the late Mr. BLAMIRE.
1803.

10. William Owen Pughe, *A Dictionary of the Welsh Language* ... (1803)

Erbyn cyfnod Pughe, 'roedd gwyddor ieitheg yn dal i fod yn rhywbeth cymharol ddieithr a newydd yn y gwledydd Celtaidd ac 'roedd syniadau ysgolheigion am darddiad ieithoedd a'r berthynas rhyngddynt yn gyfeiliornus iawn. Syrthiodd Pughe dan ddylanwad syniadau hynod dau ŵr, sef y mynach enwog o Lydaw, Paul-Yves Pezron, a Rowland Jones, brodor o Lanbedrog a oedd wedi ymsefydlu fel bargyfreithiwr yn Llundain. Daeth Pezron i amlygrwydd yn bennaf oherwydd iddo olrhain tras y Celtiaid yn ôl cyn belled â Gomer fab Japheth.[105] Honnodd mai'r Gymraeg oedd iaith Gomer a bod ei ddisgynyddion wedi goroesi hyd ei ddydd ef yng Nghymru a Llydaw. Iaith bur a chyntefig oedd y Gymraeg, felly gellid canfod ffurfiau a gwreiddiau unsill y famiaith wreiddiol ynddi. Ceisiodd ddangos hefyd bod ieithoedd fel Groeg, Lladin ac Almaeneg yn orlawn o eiriau 'Celtaidd', heb sylweddoli bod nifer fawr o eiriau ieithoedd Ewrop yn perthyn i'w gilydd a bod llawer o eiriau eraill wedi tarddu o'r Lladin. Ym 1706, cyhoeddwyd cyfieithiad Saesneg o lyfr enwog y Llydäwr[106] a rhoddodd Theophilus Evans gylchrediad eang i'w syniadau yn *Drych y Prif Oesoedd.*[107] Daeth ei ddamcaniaethau'n gyfarwydd i lawer o Gymry llengar megis Cylch y Morrisiaid, Henry Rowlands,[108] Rhys Jones[109] a Gwallter Mechain[110] a gwelir ôl ei syniadau ar waith Simon Thomas,[111] Griffith Jones Llanddowror,[112] Thomas Richards,[113] John Walters[114] ac Iolo Morganwg.[115] Parhaodd dylanwad Pezron am ganrif a rhagor ac fe ailargraffwyd ei waith droeon hyd at ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Erbyn heddiw, mae'n anodd credu bod cymaint o bobl wedi llyncu'r fath gybolfa o syniadau anwyddonol. Serch hynny, rhaid cofio bod arwyddocâd arbennig iddynt. Dyma oes creu'r meddwl gwyddonol a bu'r syniadau'n fudd i leddfu amheuon ac adfer balchder Cymry'r oes honno. Dywedodd P.T. J. Morgan:

---

[105] Paul-Yves Pezron, *Antiquité de la nation et de la langue des Celtes, autrement appelée Gaulois* (Paris, 1703).
[106] David Jones, *The Antiquities of Nations; More particularly of the Celtae or Gauls, Taken to be Originally the same People as our Ancient Britains* (Llundain, 1706).
[107] Theophilus Evans, *Drych y Prif Oesoedd* (Amwythig, 1740).
[108] Henry Rowlands, *Mona Antiqua Restaurata* (Dulyn, 1723).
[109] Rhys Jones (gol.), op cit.
[110] LlGC 1641Bii, tt.383-433. Nodiadau manwl Gwallter Mechain ar *The Antiquities of Nations.*
[111] Simon Thomas, *Hanes y Byd a'r Amseroedd* (Amwythig, 1718); *The History of the Cymbri (or Brittains)* (Henffordd, 1749).
[112] Griffith Jones, *The Welch Piety* (Llundain, 1740) tt.30-53.
[113] Thomas Richards, op. cit.
[114] John Walters, op. cit.
[115] Edward Williams, *Poems Lyric and Pastoral* (Llundain, 1794), Cyf. II, tt.8-9.

> They [syniadau Pezron] puffed up the pride of Bretons and Welsh, for they showed that their Celtic ancestors had once been overlords of Europe, and that the great antiquity of their languages was unquestionable.[116]

Pan ddechreuodd Rowland Jones ddilyn yn ôl troed Paul-Yves Pezron a cheisio ymestyn ei syniadau ffansïol ymhellach, dechreuodd droedio ar lethr llithrig iawn. Cyhoeddodd Jones ei ddamcaniaethau ieithyddol mewn cyfres o chwe llyfr rhwng 1764 a 1773.[117] Honnodd fod meibion Japheth yn absennol pan chwalwyd yr iaith wreiddiol yn Nhŵr Babel ac fel canlyniad llwyddasant i gadw cyfansoddiad eu hiaith, sef y Gelteg, yn bur. Credai mai'r Gelteg oedd yr iaith gynoesol a bod Saesneg, Lladin a Groeg, ynghyd â'r Gymraeg, wedi tarddu ohoni. Gan fod cyfansoddiad y Gymraeg yn gyntefig, haerodd Rowland Jones fod arwyddocâd arbennig i bob un llythyren. 'O' oedd y llythyren bwysicaf yn ei dyb ef oherwydd bod ei siâp hi'n cynrychioli'r byd, yr haul neu olwyn ac mewn ystyr eilradd cynrychiolai symudiad, gwres a golau. Dyma'r hyn sydd ganddo i'w ddweud am y llythyren 'i':

> ... its long stroke represents a line, and by the dot over it the sun, or light, that is, length or a line to the utmost bounds of sight; it is therefore made use of to express height, fire, anger, sap, straightness, &c. as appears in the lexicon, and as a line reaching to, it also stands for the preposition *to*, and for the pronoun me, *as* an upright figure like a man, post, &c.[118]

Wedi iddo drin a thrafod pob llythyren fel symbolau unigol, gallai Rowland Jones fynd yn ei flaen i ddadlau bod ystyr arbennig i gyfuniad o lythrennau a geiriau a bod modd rhannu geiriau yn elfennau ystyrlon. Os yw 'e' yn golygu'r dŵr yn tarddu o'r ddaear, yna:

> ...oe is the action of e, water, to which an r being added, makes the Celtic oer, cold ...

Dywedodd Glenda Carr:

---

[116] P. T. J. Morgan, 'The Abbé Pezron and the Celts', *Transactions of the Honourable Society of the Cymmrodorion* (1965), t.291.

[117] Rowland Jones, *The Origin of Languages and Nations* ... (Llundain, 1764); *Postscript to Origin of Languages and Nations* (Llundain, 1767); *Hieroglyfic: or a Grammatical Introduction to an Universal Hieroglyfic Language* ... (Llundain, 1768); *The Philosophy of Words* (Llundain, 1769); *The Circles of Gomer* ... (Llundain, 1771); *The Io Triads or the Tenth Muse* (Llundain, 1773).

[118] Rowland Jones, *The Origin of Languages and Nations* ... op. cit. Ni nodwyd rhifau ar y tudalennau.

> I ni sy'n disgwyl cael rheolau a rhyw gallineb clinigol trefnus mewn llyfr iaith neu ramadeg, y mae'r elfen swrealaidd a geir ar adegau yng ngwaith Rowland Jones yn ffantasi llwyr.[119]

Ond 'roedd syniadau Rowland Jones yn wrthun i ysgolheigion ei ddydd hefyd.[120] Yn wir, sylweddolodd Jones ei hun yn fuan iawn y câi ei syniadau'n eu beirniadu'n hallt ac y cyfeirid atynt fel:

> ... a heap of the most unintelligible jargon that ever filled the human pericranium.[121]

Er bod y mwyafrif o'i gyfoeswyr yn tybio bod colled ar Rowland Jones, cydiodd y syniad bod modd chwalu'r iaith yn unedau unsill yn nychymyg William Owen Pughe. Gwyddai serch hynny, fod egwyddorion Rowland Jones yn amhoblogaidd felly gofalodd beidio â'u cydnabod rhag ofn y byddai pobl yn amharchu ac yn wfftio'i waith yntau'n syth.

Credai Pughe ym modolaeth un iaith gyntefig a gafodd ei ffurfio o holl ynganiadau syml y llais dynol, megis *as*, *a*, *e*, *i*, *o*, *ab*, *ac*, *oc* ac yn y blaen. Tybiodd nad oedd mwy na thua 250 o'r rhain ond eu bod yn cynrychioli syniadau syml a'u bod wedi datblygu'n enwau ar syniadau syml o'r fath.[122] Dyma'i esboniad am *aw*:

> Take the Welsh word *aw* as an example, whose primary meaning is *what has had motion given it, a flowing element*, and its type is *water* — in Welsh, Teutonic, Persian and Arabic. By combining 2 or more such elementary words then were necessarily combined 2 or more simple ideas.[123]

'Roedd y Gymraeg yn cynrychioli iaith yn ei chyflwr mwyaf cyntefig felly, a chyfansoddwyd pob gair Cymraeg o elfennau gwreiddiol. Dyma'r egwyddor y sefydlodd Pughe ei eiriadur arni:

> The component parts of derivative words, or syllables, are themselves elementary words in the Welsh language; and therefore the division of all words longer than monosyllables, is determined in every case by analyzing their combination. So also the sounds out of which elementary words consist, are

---

[119] Glenda Carr, *William Owen Pughe* (Caerdydd, 1983), t.79.

[120] Gw. Geraint H. Jenkins, 'Adfywiad yr Iaith a'r Diwylliant Cymraeg 1660—1800', yn Geraint H. Jenkins (gol.), *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb: Yr Iaith Gymraeg cyn y Chwyldro Diwydiannol* (Caerdydd, 1997), t.391.

[121] Rowland Jones, *The Philosophy of Words*, op. cit., t.45.

[122] LIGC 1884, tt.10-11.

[123] Ibid.

> represented by corresponding simple characters; and it is thus that the letters, which denote the various articulations unalterably, are to be considered the true standard of pronounciation, and the criterion of correct speaking.[124]

Daeth ei ddamcaniaethau am eirdarddiaeth yn elfen mor bwysig a chanolog i'w holl astudiaethau nes iddo benderfynu dangos tarddiad geiriau yn y *Geiriadur Cynmraeg a Saesoneg*. Nid Pughe oedd yn cyntaf i gynnwys gwybodaeth o'r fath mewn geiriadur Cymraeg. 'Roedd gan Thomas Wiliems nodiadau ar darddiad geiriau yn ei eiriadur ef, ond pan olygodd John Davies y gwaith ar gyfer ei gynnwys yn ail ran y *Dictionarium Duplex*, ni chafodd yr wybodaeth hon ei chynnwys. Er mwyn i bobl dderbyn y ffaith y gellid datgymalu'r iaith yn ddarnau unsill, sylweddolodd Pughe fod angen ystumio geiriau i roi grym i'w ddamcaniaethau. Dyma'r ystyr a rydd i *gwa* yn y geiriadur:

Gwa, *s.f.* (gw) That is inceptive as to motion, or direction that throws from, or that is the base, or origin; the ground. It is used as a prefix to some words, denoting a beginning or tendency.

Honnodd wedyn mai gwraidd *gwaed* oedd *gwa* ac *ed* yn hytrach na'r Hen Gernyweg *gwoed*:

Gwaed, *s.m.* — *pl.t.* au (gwa—ed) Blood.

Yn ôl Pughe, 'roedd ystyr arbennig i *lla*:

Lla, *s.m.r.* A principle of expansion; that expands, opens, or breaks out; that is light, or clear.

Os felly, gallai fynd gam ymhellach a dweud mai *lla* ac *ath* oedd gwraidd *llâth*:

Llâth, *s.f.* — *pl. t.* au (lla—ath) A rod or staff; a measuring rod; a yard; the length of a yard.

Llithrasai geiriau benthyg o'r Saesneg i'r Gymraeg ers ydeuddegfed ganrif, ond dechreuodd Pughe honni nad oedd y Gymraeg wedi benthyg mwy na thua dau neu dri dwsin o eiriau o'r Saesneg. Pan drodd ei sylw at berthynas y Lladin a'r Gymraeg, anwybyddodd y ffaith fod llawer o eiriau Cymraeg yn tarddu o'r Lladin. Yn wir, credai mai benthyciadau o'r Gymraeg oedd oddeutu deng mil o eiriau Lladin! Dywedodd:

> I have said that the Welsh owes nothing to the Latin tongue, yet there is a very great affinity between the two, derived from a

[124] William Owen, *A Grammar of the Welsh Language*, op. cit. t.26.

> common origin. 10,000 Latin words at least are also Welsh and regularly derived from simple roots.[125]

Yn y geiriadur, dangosodd Pughe mai *an—bel*, nid y Lladin *animalium*, oedd gwraidd *anifail* ac mai *ty-rhist*, oedd gwraidd *trist* ac nid *tristis*. Yn hytrach na dangos bod *cynnwys* yn tarddu o *condenso*, rhydd ei wraidd fel *cyd—dwys* gan nodi ei ystyr fel 'compact, or well-set; close, or narrow'. Daeth llwyddiant i ran Pughe wrth iddo anwybyddu'r elfen Ladin yn y Gymraeg fel hyn. Derbyniodd nifer fawr o'i gyd-Gymry ei honiadau'n ddifeddwl gan ryfeddu bod:

> ... yr iaith Roeg yn lluosog o eiriau Cymreig gystal â'r Lladin.[126]

Yn ôl G. J. Williams, ni feirniadodd ei gyfoeswyr ei syniadau oherwydd:

> ... nid oedd gan neb ohonynt syniadau amgenach am dwf iaith ac am hanes y Gymraeg. Ni allai neb feirniadu'n ddeallus nes i'r Cymry ymgydnabod â gwyddor ieitheg yn hanner olaf y ganrif.[127]

Ceisiodd Glenda Carr amddiffyn Pughe trwy ddweud bod Goronwy Owen o'i flaen wedi awgrymu'r un peth, ond tynnodd sylw at y ffaith mai trin a thrafod tarddiad y Gymraeg yn ei lythyron yn unig a wnaeth Goronwy Owen ac na ddylanwadodd ar eraill.[128] Gwnaeth Pughe, ar y llaw arall, dipyn mwy o niwed pan seiliodd holl egwyddor y *Geiriadur Cynmraeg a Saesoneg* ... ar y gred mai'r Lladin a darddasai o'r Gymraeg.

Aeth William Owen Pughe un cam ymhellach wedyn pan newidiodd orgraff yr iaith:

> to introduce a purity of orthography deduced from etymological reasoning.[129]

Iddo ef, 'roedd geirdarddiad ac orgraff yn mynd law yn llaw ac 'roedd angen addasu'r Gymraeg fel y byddai:

> yn dangaws ei defnydd cysefin yn amlwg.[130]

Nodaf y newidiadau a effeithiodd fwyaf ar gynnwys y geiriadur.[131] Yn gyntaf, credai fod angen hepgor unrhyw lythyren nad oedd yn rhan o wreiddyn gair:

---

[125] LIGC 13235, t.62.
[126] 'Geiriadur G. Owain', *Seren Gomer* (1821), t.84.
[127] G. J. Williams, 'William Owen [ - Pughe]', yn Aneirin Lewis (gol.) *Agweddau ar Hanes Dysg Gymraeg: Detholiad o Ddarlithiau G. J. Williams* (Caerdydd, 1969), t.248.
[128] Glenda Carr, op. cit., tt.81-2.
[129] LIGC 21282E, 312.
[130] William Owen Pughe, *Cadwedigaeth yr Iaith Gymraeg* (Bala, 1808), t.12.

> ... avreidiawl ac anghymmwys yw dwyn i'r gair y cyfryw lythyren nad yw yn tarzu yn rhywiawg o wreizyn y vath air.[132]

Yn y geiriadur, cyflwynir geiriau megis *annwyl*, *plannu*, *mannau* a *rhannu* heb *n* ddwbl. Nid oedd Pughe'n dyblu *n* yn *mannau*, er enghraifft, oherwydd credai fod *man* yn tarddu o *my—en* ac felly pan ychwanegid *-au* i ffurfio'r lluosog nid oedd angen cael *n* ddwbl. Yn ôl yr un egwyddor ceir ffurfiau megis *cyrhaez*, *gỳru* ac *ymyryd* ganddo. Datblygiad o'r gwreiddeiriau *cwr—haez* oedd *cyrraedd* medd Pughe, ac nid oedd galw am *r* ddwbl. Ceisiodd Pughe esbonio mai blaenddodiad negyddol oedd *di-* . Mae hyn yn wir wrth gwrs - gall *di-* gyfleu ystyr negyddol megis *diangen* a *difater* er enghraifft - ond gall gyfleu ystyr gadarnhaol hefyd, megis *digwydd*, *dilyn* a *disgleirio*. Camgymeriad arall ar ran Pughe oedd honni mai blaenddodiad cadarnhaol oedd *dy-*, a mynnu sillafu geiriau fel *dieithr* yn *dyeithyr*, *dioddef* yn *dyozev*, *difetha* yn *dyvetha* a *dirwyn* yn *dyrwyn*. Mynnodd Pughe newid *-ai-* yn *-ae-* yn sillaf olaf geiriau, felly ceir ffurfiau megis *aviaeth*, *tavodiaeth*, *talaeth* yn y geiriadur a mynnodd ddefnyddio'r terfyniadau: *-awd*, *-awg*, *-awl*, *-awr*, *-iaw*, *-iawl*, *-iawn* yn lle *-od*, *-og*, *-ol*, *-or*, *-io*, *-iol* a *-ion*, er bod *-aw-* y Canol Oesoedd wedi troi yn *-o-* ers dechrau'r cyfnod diweddar.[133]

Yn nhyb Pughe, nid oedd y wyddor Rufeinig yn ddigonol am na chynhwysai symbolau i gynrychioli holl seiniau'r Gymraeg. Teimlai fod angen cael arwyddion addas i ddynodi seiniau: *ch*, *dd*, *f*, *ff*, *ng*, *ll*, *ph* ac *rh*. Ym 1793, anfonodd lythyr at y *Cylch-grawn Cynmraeg* yn cwyno am:

> Y seiniau hynny syz yn vyr o lythrenau, cymhwys i'w hansawz ...[134]

ac awgrymodd rai diwygiadau i'r orgraff. Y cam cyntaf oedd gwrthod *ch*, *dd*, *f*, *ff*, *ng* a *ph* a defnyddio *ç*, *z*, *v*, *f*, *ǫ* ac *f* yn eu lle. Yr ail gam oedd cael gwared ar y llythrennau *ll*, *th*, *rh*, *mh* a *nh*.[135] Afraid dweud na chafodd ei awgrymiadau ymateb brwd iawn. Aeth Dafydd Ddu Eryri, a oedd yn gyfaill da i Pughe, mor bell â chyhoeddi erthygl ddamniol ar ffurf deialog rhwng 'Tudur Glustfain' a

---

[131] Am ragor o wybodaeth, gweler Glenda Carr, op. cit., tt.82-95.
[132] 'Llythyr G. Owain o Veirion at Oruçwylwyr y Cylç-grawn Cynmraeg', *Y Cylch-grawn Cynmraeg* (1793), t.4.
[133] *Orgraff Yr Iaith Gymraeg* (Caerdydd, 1987), t.34.
[134] 'Llythyr G. Owain o Veirion at Oruçwylwyr y Cylç-grawn Cynmraeg', op. cit., t.4.

'Bleddyn Finpladur' fel atebiad i'r awgrymiadau.[136] Beth bynnag am y farn gyffredinol, mynnodd Pughe ddefnyddio'i orgraff newydd (heblaw am ʕ ) yn ei eiriadur. Yn ei ramadeg, mae'n nodi mai'r 'Initial Alphabet of the Dictionary', sef *a, b, c, ç, d, e, f, g, h, i, l, m, n, o, p, r, s, t, u, w* ac *y* sy'n cael ei defnyddio yng nghorff y geiriadur.[137] 'The full and common Alphabet', sef *a, b, c, ç, d, z, e, v, f, g, ng, h, i, l, ll, m, n, o, p, ph, rh, r, s, t, th, u, w* ac *y* sy'n ffurfio llythrennau dechreuol pob adran ynddo.

Poenai Pughe sut y byddai'r cyhoedd yn ymateb i'r gwaith. Mewn llythyr, dywedodd:

> *Your* critics will be setting their *faces* against the orthography - for I have disencumbered it of 4 double letters, namely ch, dd, ff, ph. Mrs. Prudence advised me to stop short there; I hope for the sake of the money sunk in the undertaking she did not suffer me i ymruthraw yn rhy bell.[138]

Pan gyhoeddwyd rhifyn cyntaf y geiriadur, siomwyd y rhan fwyaf a'i prynodd. Fe'u siomwyd oherwydd damcaniaethau rhyfedd William Owen Pughe am eirdarddiad. Cwynodd William Williams Llandygái a Dafydd Ddu Eryri am y geiriadur yn eu henglynion gan gyfeirio at 'egwyddor wageddus a bawlyd' ac at 'anfeidrol ynfydrwydd' y gwaith.[139] Siomwyd eraill am iddo blymio i'r dwfn a defnyddio'r orgraff ddiwygiedig, annerbyniol honno a oedd yn:

> ... codi'r clwyf Cymreig ynghalon pawb ...[140]

Ni fedrai'r cyhoedd ddygymod â hi ac nid oeddent yn barod i'w llyncu'n ddi-gwestiwn ychwaith. Cefnogai John Jones (Tegid) a Gwallter Mechain syniadau Pughe, ond cyfaddefodd Gwallter Mechain mewn llythyr at y Parch Henry Parry:

> ... I wish he had felt the pulse of the public before so rashly introducing an innovation.[141]

ac unwaith eto mewn llythyr at Tegid:

---

[135] Ibid.
[136] 'Ymddiddan rhwng Tudur Glustfain a Bleddyn Finpladur', *Y Cylch-grawn Cynmraeg*, (Awst 1793), tt.137-8.
[137] William Owen, *A Grammar of the Welsh Language*, op. cit. t.3.
[138] LlGC 1807D, t.26.
[139] Glenda Carr, op. cit., t.76.
[140] Llythyr William Williams, Llandygái at Owain Myfyr (Awst 1794). LLB Ych. 15024, t.256.
[141] Llythyr Gwallter Mechain at Parch Henry Parry (Ionawr 14 1795) yn D. Silvan Evans (gol.), *Gwaith Gwallter Mechain* (Caerfyrddin, 1868), Cyf. III, t.365.

> Cyrhaeddasai y Dr. O. Pughe a Mr. Charles i ben eu taith yn ddiogelach, pe cymmerasent yn arafach ar y cyntaf.[142]

Yn ôl Thomas Parry, 'roedd hi'n rhy hwyr i gyflwyno cymaint o newidiadau yn enwedig o gofio y sefydlwyd yr orgraff draddodiadol yn gadarn ers cyhoeddi'r Beibl.[143] Serch hynny, tynnodd y geiriadur sylw'r genedl at bwnc yr orgraff a dechreuwyd dadlau'n frwd o'i phlaid ac yn ei herbyn. Bu llawer o gecran yng ngholofnau *Seren Gomer*, yn enwedig ar ôl i Pughe gyhoeddi rhagor o 'bropaganda' yn *A Grammar of the Welsh Language* a *Cadwedigaeth yr Iaith Gymraeg* .... [144] Cyrhaeddodd y ddadl hon ei hanterth tua 1814-19. Afraid dweud bod y dull newydd o lythrennu a gyflwynwyd yn y geiriadur wedi drysu cyfoeswyr Pughe yn llwyr ac iddo arwain at gamsyniadau sillafu dybryd. Erbyn heddiw, ni wneir gormod o'r mater hwn. Yn hytrach, ceisir amddiffyn Pughe. Pe baem yn anghofio am union gynnwys y geiriadur am y tro ac yn canolbwyntio ar yr hyn y ceisiodd ei gyflawni er lles ei wlad a'i iaith, sylweddolem fod ei fwriad gwreiddiol yn hollol ddidwyll. Ni fedrwn feirniadu geiriadur Pughe yn deg heb gadw ysgolheictod y ddeunawfed ganrif mewn cof a'r damcaniaethau ieithyddol poblogaidd y soniwyd amdanynt eisoes. Nid cranc ieithyddol oedd Pughe, ond plentyn ei gyfnod. 'Roedd yn awyddus i goleddu a lledaenu syniadau cyfoes ac yn ei dyb ef, adlewyrchai ei orgraff newydd wybodaeth a dysg. Yn ôl G. J. Williams, nid oedd llawer o feirniaid Pughe wedi ystyried hyn. Collfarnwyd y ffordd yr eglurodd eiriau Cymraeg yn y Geiriadur:

> ... fel rhyw chwiw a berthynai iddo ef ei hun.[145]

Yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, collodd damcaniaethau Pughe eu credadwyedd ymhlith ysgolheigion pan ddechreuwyd astudio iaith mewn ffordd wyddonol a rhoi'r Gymraeg yng nghyd-destun yr ieithoedd Celtaidd a rhai o'r ieithoedd Indo-Ewropeaidd eraill. Ieitheg Pughe oedd ieitheg boblogaidd Cymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, er ei bod hi'n gyfeiliornus. Gan gyfeirio at y geiriadur, dywedodd Morris Williams (Nicander):

> Mae'r byd Cymreig wedi bod yn rhy hir yn addoli'r llyfr hwnnw, gan ei ystyried megis yn anffaeledig; yn un peth am ei fod wedi

---

[142] Llythyr Gwallter Mechain at Tegid (1 Rhagfyr 1825) yn D. Silvan Evans, (gol.), op. cit., t.228.

[143] Thomas Parry, 'Y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, I. Ei Dechau', *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg Hyd 1900* (Caerdydd, 1944), t.238.

[144] William Owen Pughe, *Cadwedigaeth yr Iaith Gymraeg yn III rhan, mewn Dull Cryno, Hylith a Hygof* (Llundain a'r Bala, 1808).

[145] G. J. Williams, op. cit., t.246.

> dyfod o *Vatican* Dinbych, fel pe gellid disgwyl am anffaeledigrwydd oddi yno.[146]

Pan sylweddolwyd y niwed a wnaeth yr ieitheg hon i burdeb y Gymraeg a'r orgraff, aethpwyd ati o ddifrif i wrthweithio'i dylanwad. Mewn gwirionedd, 'rydym yn ddyledus i Pughe am gamarwain y Cymry. Oni bai amdano, efallai na wnaethai ysgolheigion gymaint o ymdrech i ledaenu'r gwirionedd am hanes y Gymraeg a phuro'i horgraff a'i chystrawen. Ym 1886, sefydlwyd Cymdeithas Dafydd ap Gwilym gan rai o fyfyrwyr Cymraeg Rhydychen gyda'r bwriad o ddiwygio orgraff y Gymraeg a dwrdio'n erbyn 'Puwiaeth'. Ceisiodd un o sylfaenwyr y Gymdeithas yn anad neb ddilorni gwaith Pughe, sef Syr John Morris-Jones. Nid dadl yr orgraff oedd yn ei boeni fwyaf. Wedi'r cyfan, ni fabwysiadwyd *z* yn lle *dd* neu *ç* yn lle *ch*. 'Roedd yn boen iddo fod Pughe wedi ystumio ffeithiau a chamsillafu geiriau'n fwriadol i gyd-fynd â'i gyfundrefn ieithyddol. Cwynai hefyd am gystrawen Seisnig Pughe. Dyma rai o sylwadau ymosodol John Morris-Jones:

> Am syniadau gramadegol y Dr. Pughe, nid oeddynt namyn chaos. Yr oedd ganddo allu anghyffredin i wrthsefyll tystiolaeth pob ffaith: ysgrifennai yn ôl ei ddamcaniaethau ei hun, ac yn hollol wahanol i neb o'i flaen ef ...
>
> ... yr oedd iaith yn beth na fedrai efe ddim oddi wrthi; ac fel paentiwr cibddall, llafuriodd am flynyddoedd, gan dybied ei fod yn harddu, lle y difwynai; a phe cawsai efe ei holl ffordd, ni buasai dim o degwch yr hen iaith yn aros.[147]

Mae geiriadur Pughe yn cynnwys llawer mwy o brifeiriau nag eiddo John Davies a Thomas Richards. Oddeutu can mil o brifeiriau sydd ynddo. Wrth edrych ar yr hyn sydd gan y geiriadurwyr ochr yn ochr â'i gilydd yn yr adran *draenog - draig* er enghraifft, nid yw'n syndod gweld mai gan Pughe y mae'r rhestr lawnaf:

| DICTIONARIUM DUPLEX (1632) | ANTIQUAE LINGUAE BRITANNICAE THESAURUS (1753) | A DICTIONARY OF THE WELSH LANGUAGE (1793-1803) |
|---|---|---|

[146] Nicander, *Y Brython*, (9 Gorffennaf 1858), t.35.

[147] John Morris-Jones, 'Yr Iaith Gymraeg' yn John Parry (gol.), *Y Gwyddoniadur Cymreig: gan ysgrifenwyr enwocaf y genedl* (Dinbych, 1889), t.78.

| | | |
|---|---|---|
| Draenog<br>Dragio<br>Dragiog<br>Draig | Draenog<br>Dragio<br>Dragiog<br>Dragon<br>Draig | Draenawg<br>Draenblu<br>Draened<br>Draeneta<br>Draenglwyd<br>Draenllwyn<br>Drag<br>Dragiad<br>Dragiaw<br>Dragiawg<br>Dragon<br>Dragonawl<br>Dragoni<br>Dragwm<br>Draig |

Mae'n werth nodi serch hynny, bod rhai o'r prifeiriau a gofnodwyd uchod yn ddigon dieithr a diwerth, er enghraifft:

Draeneta, *v.a.* (draened) To hunt hedgehogs.

Mae'r nodwedd hon i'w gweld trwyddi draw yn y geiriadur. Deuir ar draws geiriau megis *gwrthymchwelogion* ac *ymddygymmysgiad*, sydd yn swnio'n rhyfedd i'r glust ynghyd â geiriau anymarferol iawn megis:

Damzystryçiad, *s.m.—pl. t.* au (dystryçiad) A being foaming, or spraying all round.

Gogrisbiniaw, *r.a.* (gogrisbin) To render somewhat crinkled.

Lledymçwalu, *v.a.* (lledymçwal) Partly to spread one's self.

Noethadwy, *a.* (noeth) Capable of being made naked.

Rhyanvonawl, *a.* (rhyanvon) Completely sending.

Ymangwanegiad, *s.m.* (angwanegiad) A self-augmenting.

Un o brif amcanion John Walters oedd galluogi pobl i drafod pob math o bynciau yn y Gymraeg. I'r perwyl hwn, ceisiodd ofalu bod geirfa'r Gymraeg yn datblygu ochr yn ochr â'r Saesneg a cheisiodd greu termau i gynrychioli cysyniadau newydd. Bathwr geiriau dyfeisgar â'i lygad ar ehangu cwmpas yr iaith oedd Walters. Mae byd o wahaniaeth rhyngddo ef a William Owen Pughe. Er bod geiriadur Pughe yn cynnwys bron cymaint o fathiadau â geiriadur Walters, ymddengys nad creu geiriau newydd sbon i ddiwallu anghenion y byd modern oedd ei brif flaenoriaeth ef. Gellir honni iddo fathu geiriau er mwyn eu bathu ac er mwyn rhoi mwy o hygrededd i'r syniad y gellid datgymalu geiriau i'w helfennau cysefin. Tybiai fod modd rhoi ystyr arbennig i bob elfen gysefin a phe

deuai â rhagddodiaid ac olddodiaid gwahanol ynghyd a'u cyfuno, 'roedd ganddo rysáit hwylus ar gyfer creu llu o eiriau newydd. Weithiau cyfunai ragddodiad a bôn, er enghraifft:

Hyfagyl, *a.* (fagyl) Easily made to flame; inflammable.

Dro arall, dodai fôn at olddodiad ac weithiau fe geir y tair elfen gyda'i gilydd, er enghraifft:

eçdywynygiad, *s.m.* (eçdywynyg) a glittering.

lledarçwaethiad, *s.m.* (lledarçwaeth) A partly tasting.

Camddehonglodd Pughe lawer o eiriau wrth ddatgymalu'r iaith yn ddarnau unsill a chreu geiriau cyfansawdd. Nodir yma rai enghreifftiau a godwyd o *Geiriadur Prifysgol Cymru*:

Ardrum,[gair gwneud gan W. Owen [-Pughe] o'r ffug *ardumiog*, *ardymiog*, BDG (1789), 421, a than ddyl. *ystum*] eg. ll. *-iau*. Ffurf, ffigur : *form, figure.*

Cyfrdal, [gair a luniwyd yn amryfus gan W. Owen [-Pughe] o *cyfr-* (yn lle *cyf-*) + *tâl* ar ddelw *cyfartal*]eg. Cyfartaledd gwerth , cyfwerth : *equivalence, equal or equivalent value.*

Delid, [camdarddiad W. Owen [-Pughe] o *delid* trwy ei gysylltu â *del* 'caled, cyndyn'] *eg.* ll. *-au*, *-ion*. Metel : *metal.*

Des, [gair a wnaed gan W. Owen [-Pughe] oherwydd camddarllen 'ddeau' yn 'ddesau', gw. IGE 222] *eg.* ll. *-au*. Cyfundrefn : *system.*

Eirion, [ff. l. gan W. Owen [-Pughe] o'r gair tybiedig *air* 'disgleirdeb'] *e. ll.* Addurniadau: *ornaments.*

Esblydden/esblyddyn, [*esblydd* + *-en*, *-yn*; gair a luniwyd gan W. Owen [-Pughe], o bosibl oherwydd camddehongli *blodeu essplit*, C 50. 9, fel 'boldau afalau'] *eb.g.* ll. *-nau*. Enw ar amrywiol fathau o afalau, pipin: *pippin.*

Gan fod cysylltiad rhwng Iolo Morganwg a William Owen Pughe nid oes ryfedd mai Iolo ei hun oedd biau rhai o'r geiriau newydd sydd yng ngeiriadur Pughe. Credir mai Iolo fu'n gyfrifol am lunio *awd*, sef *cân* neu *awdl*, ar ddelw'r Saesneg *ode* ac ef fathodd *gwicor* i olygu *pedler* ar ddelw'r Gernyweg Canol, *gwycor*. Mae'n bosib hefyd mai gair gwneud Iolo Morganwg, o'r Eidaleg *bericuolo*, yw *bricyll.*

Rhwng y bathu, y camddehongli a 'chyfraniad' Iolo Morganwg ni ellir dibynnu ar gynnwys y geiriadur o gwbl. Dywedodd John Morris Jones:

> ...cymaint yw ei ysfa i wyrdroi popeth i gyfateb i egwyddor y ba, be, bw, nas gellir ymddiried mewn dim a ddaeth o'i law a rhaid ail-wneud eto bopeth a wnaeth.

Yn wahanol iawn i John Walters, nid oedd y geiriau a greodd Pughe o ddefnydd ymarferol i'r Cymro cyffredin nac i'r ysgolhaig. Cyfeiriodd R. Elwyn Hughes at y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel "canrif fawr gwyddoniaeth boblogaidd". Cyhoeddwyd geiriadur Pughe ar drothwy'r ehangu a welwyd ym myd gwyddoniaeth ond 'roedd eisoes wedi gweld bod angen bathu geiriau Cymraeg newydd at anghenion proffesiynol y gwyddonwyr. Ceir ganddo gyfansoddeiriau clogyrnaidd megis 'elltyflysaidd' (*exogenous*) a 'gogyfartaledigaeth' (*mean equality of proportion*) a thermau dryslyd iawn fel 'ulai' (*hydrogene*), 'uvelai' (*oxygene*) ac 'uvelaidd' (*sulphurous*). Gan fod nifer fawr o'r termau a gynigiodd yn amhriodol a diystyr, ni dderbyniwyd hwy gan wyddonwyr eithr camgymeriad fyddai tybio na chafodd Pughe fawr o ddylanwad ar ryddiaith wyddonol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fel y gwelir yn y bennod nesaf, dilynodd nifer - gan gynnwys geiriadurwyr megis Arfonwyson a Chaerfallwch - yn ôl ei droed gan gredu y gellid atgyfodi geiriau cynhenid a phriodoli ystyr newydd iddynt ac y gellid bathu termau o elfennau unsill.

Gan iddo ddod yn adnabyddus fel bathwr geiriau hynod, mae'n syndod mai ef oedd yn gyfrifol am fathu nifer o eiriau sydd yn rhan annatod o'n geirfa ni heddiw ac mae'n syndod, fel y dangosodd Glenda Carr, ei fod wedi mynd ati i lunio rhai ohonynt yn hollol resymegol.[148] Yn yr adran *A - Llys* yn *Geiriadur Prifysgol Cymru*, mae oddeutu 2.4% o'r prifeiriau yn eiriau a welwyd neu a gofnodwyd gyntaf yn ei eiriadur ef (gweler Atodiad 6). Er enghraifft:

| | | |
|---|---|---|
| alaw | Darbwyllo | nodiant |
| amgueddfa | darlith | nodwedd |
| anwybyddu | dathliad | pefrio |
| arddull | deintydd | pefriog |
| argymhelliad | delwedd | pefriol |
| arholi | delweddiad | perseinio |
| arholiad | delweddol | pontio |
| arholwr | diddorol | popeth |
| arolwg | disgyrchiant | porfelaeth |
| arolygu | diwinyddiaeth | rhagarweiniad |
| arolygiad | dylunio | rhamantu |
| arweinyddiaeth | dyraniad | rheoleiddio |
| atgyfnerthu | ffaith | rhicio |
| atodol | ffrwydro | rhigymwr |
| awgrymiad | gohebiaeth | rhwystredigaeth |
| awyren | gorwel | rhwystrol |

[148] Glenda Carr, *William Owen Pughe* (Caernarfon, 1993), t.32-3.

| | | |
|---|---|---|
| baddon | gweithgarwch | Seisnigeiddiad |
| bricyll | gwyddonol | Seisnigeiddio |
| calonogol | hyrddiad | sêr-ddewinio |
| camargraff | meithrinfa | sêr-ddewiniol |
| cynrhychioli | mesureg | sêr-ofyddiaeth |
| cyntefig | milflwydd | sêr-ofyddol |
| damcanu | milflwyddiant | sidydd |

Wrth baratoi'r geiriadur, atgyfododd Pughe lu o eiriau o hen lenyddiaeth Gymraeg i'w cynnwys yn y gwaith. Gwnaeth John Davies a Thomas Richards o'i flaen rywbeth tebyg ond gosododd Davies seren (*) wrth ochr y prifeiriau anarferedig a defnyddiodd Richards obelisg (†) at yr un pwrpas. Gresyn na wnaeth Pughe rywbeth tebyg. Nid oes ganddo ddim i nodi bod llawer iawn o'r geiriau yn ei eiriadur yn hen ac anarferedig. Trwy gynnwys geiriau o'r fath yn ogystal â'i fathiadau, cyflwynodd Pughe eirfa ddigon anghyffredin yn ei eiriadur, geirfa a apeliodd yn fawr at un math o ddefnyddiwr yn arbennig, sef y bardd. Tybiai Saunders Lewis mai bwriad Pughe oedd creu ffynhonnell neu gronfa o eiriau y gallai'r beirdd droi ati wrth gyfansoddi. Dywedodd:

> Dechreuodd Pughe gyda syniad Goronwy Owen a'r ddeunawfed ganrif yn gyffredin fod i farddoniaeth eirfa a chystrawen arbennig. Rhoddi i'r beirdd Cymraeg ddefnyddiau'r eirfa a'r gystrawen honno oedd amcan ei *Ramadeg* a'i *Eiriadur*. felly hefyd y deallodd y beirdd ei fwriad — ni ellir darllen awdlau eisteddfodol hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf heb *Eiriadur* a *Gramadeg* Pughe wrth y penelin ...[149]

Credai G. J. Williams hefyd mai at y beirdd yr anelai Pughe'n bennaf:

> ... ceisiodd gyfoethogi'r iaith fel y gellid cael ynddi gerddi ar bob math o destunau, ac fel y gellid ymdrin â phob gwyddor, a bu'r Geiriadur yn fwynglawdd i lenorion a beirdd Cymru yn y ganrif ddiwethaf.[150]

Yr hyn sydd i gyfrif am y ffasiwn hyn o ddefnyddio geiriau anghyfarwydd yw'r egwyddor a fabwysiadwyd gan Goronwy Owen, sef bod geirfa arbennig yn perthyn i farddoniaeth epig - "poetical language". Datblygodd a gwyrdrodd Pughe'r syniad hwn ymhellach gan gyfeirio'n gyson at "poetical language" yn ei ramadeg a'i eiriadur. Gwelir ei ddylanwad ar awdlau arwrol ac eisteddfodol yn enwedig yn 'Gwledd Belsassar' Ieuan Glan Geirionydd, 'Dinistr Jerusalem' Eben Fardd, 'Arwyrain Amaethyddiaeth' Dewi Wyn a 'Drylliad y Rothsay Castle'

---

[149] Saunders Lewis, *Detholion o waith Ieuan Glan Geirionydd* (Caerdydd, 1931), t.6.
[150] G. J. Williams, op. cit., t.246.

Caledfryn.[151] Wrth ymdrin ag awdlau eisteddfodol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, noddodd Huana Rees ba mor oeraidd oedd eu tymer a bod hynny o ganlyniad i'r diffyg teimlad a geir ynddynt a'r eirfa anfarddonol a argymhellwyd gan William Owen Pughe. Dywedodd:

> Ceir gan y beirdd yn yr awdlau yma lu o hen eiriau na welsant ac na chlywsant hwy eu defnyddio ar lafar, nac ar lyfr onid geirlyfr, erioed: geiriau marw, a llawer ohonynt yn amheus eu hystyron.[152]

Geiriau geiriadur yw ffurfiau megis 'eisor', 'iwin', 'etwa' a 'hadl' a geir yn 'Dinistr Jerusalem' ac fe ellir honni yn eithaf hyderus mai o eiriadur Pughe y daeth 'goruch' (*sovereignty*), 'llws' (*slime*), 'morach' (emotion, joy, jollity)[153] ac 'ampwy' (*gentle*, *lovely*), 'bi' (*is to be*), 'ceimle' (*plain*, *down*), 'edryw' (*essence, life*) a 'trylen' (*learned*).[154] Brithir yr awdlau gan eiriau chwyddedig: geiriau cyfansawdd, geiriau'n dechrau â 'gor-' a 'tra-' a geiriau'n gorffen ag '-awg' ac '-awl' a daw dylanwad gramadeg Pughe i'r amlwg wrth i feirdd ddefnyddio ansoddair o fath enw, er enghraifft: 'y nodawl fan annedwydd' ac 'annyddanawl hen ddynion'[155] ynghyd â ffurfiau lluosog erchyll ac anghywir[156] megis 'creigydd', 'cymau', 'stafellau',[157] 'blaenorion', 'mor-franod', a 'rhianod'.[158] Pe bai rhywun o'n hoes ni'n mynd ati i geisio dehongli'r canu arwrol ac eisteddfodol, fe fyddai'n rhaid cael geiriadur William Owen Pughe wrth law ond fe ellir tybio y codai sefyllfa debyg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg hefyd oherwydd 'roedd rhai o feirdd y cyfnod yn nodi ar waelod tudalen beth oedd ystyr y geiriau dieithr.

Nid oes ryfedd bod geiriadur Pughe wedi dylanwadu cymaint ar eirfa beirdd yr oes gan mai dyna'r geiriadur mwyaf diweddar a ffasiynol yr adeg honno. Yn ôl Glenda Carr:

---

[151] Huana Rees, 'Efrydiau yn Nharddiad a Datblygiad Geirfa ac Arddull Beirdd Cymraeg y cyfnod, 1800-1842'. (Traethawd MA anghyhoeddedig Prifysgol Cymru Abertawe, 1929), t.62.
[152] Ibid., t.68.
[153] 'Gwledd Belsassar'.
[154] 'Arwyrain Amaethyddiaeth'.
[155] Nododd Pughe: "in poetical language it is very frequently done" yn ei ramadeg. William Owen, *A Grammar of the Welsh language*, op. cit., t.72.
[156] Yn ei ramadeg, dywedodd: "The plural terminations are numerous in Welsh and they may be used indifferently for all words. Such a number of plural terminations affords a vast scope for varying the expressions and is particularly convenient for enriching poetical compositions". William Owen, op. cit., tt.37-8.
[157] 'Drylliad y Rothsay Castle'.
[158] 'Gwledd Belsassar'.

> Meddwodd llawer bardd a rhigymwr ar y cyfoeth o eiriau dieithr a arlwywyd ger ei fron ... Gwelodd llawer bardd hygoelus fod modd defnyddio'r geiriau crand a geir yn y Geiriadur i lunio cerdd fawreddog, hyd yn oed os oedd hi'n gwbl annealladwy wedyn.[159]

Nid oedd pob bardd, serch hynny, yn barod i ddilyn y ffasiynau diweddaraf ac fe gafodd ambell un drafferth i lyncu rhai o argymhellion William Owen Pughe. Bu Daniel Ddu, er enghraifft, yn pendroni dros rai o'r ffurfiau a welsoi yng ngherddi ei gyfoedion. Mewn llythyr a anfonodd at Ddafydd Ddu yn 1818, mynegodd ei ansicrwydd a gofynnodd a ddylid dilyn Pughe fel safon:

> Yr wyf yn gweled yn "Awengerdd Peris" lawer o eiriau yn cael eu terfynu yn dra gwahanol i ddim a glywais erioed o'r blaen. Y mae efe yn dywedyd "Dyma ddullion myrdd o ddynon ar wynebion erwin obaith". Y mae ganddo chwilfriwiawg, mwynawg, a llawer o eiriau ereill yn diweddu mewn or, og, awg, ac ol, neu awl, na fyddwn ni byth yn eu harfer yn Neheudir Cymru. Yr wyf wedi sylwi ar hyn mewn llawer o'r prydyddion, ac yr wyf yn cael fy mhoeni wrth geisio deall pa bryd y mae y drwydded hon i gael ei chymeryd, os trwydded ydyw. Yr ydym yn arfer chwilfriw yn ein gwlad ni. Ai Geiriadur Owen yw y safon wrth yr hwn y gallwn gael ein cyfarwyddaw yn y lluosog, ac mewn terfyniadau geiriau? Dyma wyf yn feddwl, a ydyw yr holl eiriau gyda'u terfyniadau caniatadwy wedi eu dodi yn y gwaith hwnw, ac ai nid ellid gwneyd i rai ddiweddu yn wahanol i'r hyn a welir yn yr awdwr hwnw? Os na fodd ef ond chwilfriw, a allai rhywun ddyweyd chwifriwiawg? Gwelais y gwaith rhagorol hwnw, ond nid yw yn fy meddiant. A ydych chwi yn ei ystyried yn wasanaethgar ragorol tuag at ddeall yr iaith Gymraeg, a diwylliant prydyddiaeth?[160]

Gresyn na fu rhagor o feirdd y cyfnod mor barod i amau a chwestiynu!

Tynnwyd sylw eisoes at y manylion a geir ar dudalen deitl y geiriadur[161] a'r pwyslais arbennig a roddai Pughe ar y:

> Numerous and Select Qutations to Elucidate the Meaning of Words ...[162]

'Roedd cefndir ysgolheigaidd a gwybodaeth drylwyr Pughe o lenyddiaeth Gymraeg yn gaffaeliad mawr iddo pan gasglai ddyfyniadau addas ar gyfer y geiriadur a thrwy ddyfynnu darnau o farddoniaeth dangosai'i ddawn i synhwyro

---

[159] Glenda Carr, op. cit., t.22.
[160] Daniel Evans, *Gwinllan y Bardd sef prydyddwaith ar amrywiol destunau a gwahanol fesurau* (Llanbedr Pont Steffan, 1907), t.xv.
[161] Glenda Lytton Parry Williams, 'Bywyd William Owen Pughe a rhai agweddau ar ei waith'. (Traethawd MA anghyhoeddedig Prifysgol Cymru Bangor, 1962), t.305.

ystyr geiriau ac i ddeall cystrawen anodd y beirdd.[163] Ar ddechrau'r geiriadur, ceir rhestr o ffynonellau'r dyfyniadau. Mae'n cynnwys: Aneirin, Taliesin, Cynddelw, y Cynfeirdd, y Gogynfeirdd, Dafydd a Gwilym, Guto'r Glyn a'r cywyddwyr ynghyd â darnau rhyddiaith o Gyfreithiau Hywel Dda, Brut y Brenhinedd, y Mabinogi, Y Bardd Cwsg a'r Beibl. Trwy ddyfynnu darnau o farddoniaeth a rhyddiaith o bob cyfnod o lenyddiaeth Gymraeg i brofi ystyron geiriau fel hyn, mae'n rhaid bod y geiriadur wedi creu argraff ffafriol ar y defnyddwyr. Yn eu golwg hwy, mae'n rhaid bod rhyw ddilysrwydd diamheuol yn perthyn i'r gwaith. Nid syniad gwreiddiol Pughe oedd dyfynnu er mwyn dangos geiriau'n cael eu defnyddio mewn cyd-destun wrth gwrs. 'Roedd John Davies a Thomas Richards wedi gwneud o'i flaen. Gan amlaf, yr un dyfyniadau sydd gan y tri geiriadurwr, er enghraifft:

| DICTIONARIUM DUPLEX (1632) | ANTIQUAE LINGUAE BRITANNICAE THESAURUS (1753) | A DICTIONARY OF THE WELSH LANGUAGE (1793-1803) |
|---|---|---|
| Brwyd, *Adject. Lacerus, tritus, attritus.* Gnawd bod ysgwyd frwyd friwdoll arnaw. *D.B.* | Brwyd. *Adj.* torn, rent, worn out, broken. 'Gnawd bod ysgwyd frwyd friwdoll arnaw.' D.B. | Brwyd, *a.* (rhwyd) Full of holes; torn; rent; worn out.<br>Gnawd bod ysgwyd vrwyd vriw-doll arno.<br>It is common for a battered shield *full of holes* to be upon him. D. Benvras. |
| [Nid oes cofnod yn y *Dictionarium Duplex*] | Edwicca, *v.* to buy corn or any thing else, to the end one may sell the same dearer. 'Ni ddaw i'r cybydd o'i dda Ond occr ac i edwicca.' G. Gr. | Edwica, *v.a.* (gwica) To extort; to forestal.<br>Ni zaw i'r cybyz o'i za<br>Ond ocyr ac i edwica.<br>There will not come to the miser from his wealth but usury, and to *forestal. Gr. Gryg.* |
| Plâs, *vid.* Palâs. *Habet Pr.* —.<br>*BD.G* Llyw deifniawg llidiawg lledled fydd ei blâs, llwyrwaeth yw ei gas nà'i garennydd. *Ll. Gwr.* | Plâs, *sub.* a palace; also, a gentleman's house; and so is *Palace* sometimes used in Cornwall. Vid. *Palas.* 'Llyw deifniawg llidiawg lledled fydd ei blâs, llwyrwaeth yw ei gâs na'i garennydd.' Ll. Gwr. | Plâs, *s.m.—pl. t.* au (pla—as) An extended plat or area; an edifice; a large house, a hall, a palace.<br>Llyw deivniawg llidiawg, lledled vyz ei blas;<br>Llwyr-waeth yw ei gas no'i garennyz.<br>The bounteous and wrathful leader, displayed with profusion his *hall*; much worse is his hate than his connection. *Llygad Gwr.* |

Weithiau mae Pughe'n defnyddio dyfyniadau Davies a Richards ac yn ychwanegu un ei hun:

| DICTIONARIUM DUPLEX (1632) | ANTIQUAE LINGUAE BRITANNICAE THESAURUS (1753) | A DICTIONARY OF THE WELSH LANGUAGE (1793-1803) |
|---|---|---|
| Anllad, *Lascivus, libidosus, incontinens. vid. an à* Llawdd, llodig.....Ef yn wyl yn | Anllad, *a.* lustful, lascivious, wanton, incontinent. Q. wh. from *Llawd, llodig.* It is also | Anllad, *a* (llad) Wanton; lascivious, lusfty; lewd.<br>Ni bu—<br>Na meibion gweinion gwànaç yn eu cred, |

[162] Rhagymadrodd y *Geiriadur* (1793-1803).
[163] G. J. Williams, op. cit., t.246.

| | | |
|---|---|---|
| olud roddiad, ef yn daer yn aer yn anllad. P.M. | taken in good part, 'Ef yn wyl, yn olud roddiad, ef yn daer, yn aer, yn anllad.' P.M. | Na merçed ar lled yn anlladaç.<br>There never were—nor feeble, men weaker in their faith, nor women exposing themselves *more wantonly*. *Ll. G. Cothi.*<br>Ev yn wyl, yn olud roziad,<br>Ev yn daer yn aer; yn anllad.<br>He was modest, the giver of wealth, He was ardent in the conflict, he was *wanton*. *Ll. P. Moc.* |
| Syllu, *Aspicere, inspicere, dispicere, intueri. Arm.* Sellet. Sŵllt hoywfardd syll di hefyd. *D. G.* Du sy well wedi 'syllid. *L. G.* | Syllu, *to look or behold, to see, to espy.* Arm. Sellet. Sŵllt hoywfardd syll di hefyd. *D. G.* Du sy well wedi 'syllid. *L. G.* Ac yna y dywawd Cei; Myn llaw fy nghyfeilld; Syll di raccodan Rysswr. Brysiaw a orugant parth a'r mŵg, a dynesau parth ac yno dan ymarddisgwyl o bell, yny sydd Dillus farfawg, yn deifaw baedd coed. *Hist. K. 'ab Kilydd.* | Syllu, *v.a.* (syll) To gaze, to stare; to look; to behold; to observe. *Syll di raco*, behold thou yonder.<br>Sevwç allan vorwynion a syllwç werydre Cynzylan,<br>Llys Pengwern neud tanze!<br>Stand ye out virgins and *behold* the fair region of Cynzylan, is not with flame pervaded! *Llywarç Hen.*<br>Du sy well wedi syllid.<br>Black is better after *it has been seen*. *L. G. Cothi.* |
| *Trefad, *Habitatio, habitaculum, domus, domicilium. Item* Trefad, *idem quod* Cartrefu, *Habitare, commorari.* Trefad fy hendad a'i hundy, &c. D. B. Ni threfyd brwynfryd o'm bron. C. | †Trefad, *s.* a dwelling, an habitation, a house, a home, a homestall: also, *Trefad*, the same as *Cantrefu*, to dwell, to inhabit or live in. 'Trefad fy hendad a'i hundy,' &c. D. B. 'Ni threfyd brwynfryd o'm bron.' C. | Trevad, *s.f.* (trev) A domicil, a habitation; a dwelling, or inhabiting.<br>Trevad vy hendad a'i hundy.<br>The *dwelling* of my ancestor and his dormitory. *D. Benvras.*<br>Cynnyzefid llawr llwyr drevad.<br>Over the ground had accumulated complete *inhabitancy*. *Gwalçmai.* |

Yn aml iawn deuir ar draws nifer o ddyfyniadau cwbl newydd yng ngwaith Pughe, er enghraifft:

| DICTIONARIUM DUPLEX (1632) | ANTIQUAE LINGUAE BRITANNICAE THESAURUS (1753) | A DICTIONARY OF THE WELSH LANGUAGE (1793-1803) |
|---|---|---|
| Deiryd, *Pertinere, esse alicui è cognatione, & genere.* I'r tân y deiryd hwnnw. L. G. | Deiryd, *v.* to be related to, to be a-kin, to pertain, to belong to. 'I'r tân y deiryd hwnnw.' L. G. | Deiryd, *v.a.* (daer) To pertain, to belong, to; to be related, to be a-kin.<br>Y gwr hael goreu o hyd<br>I zau eraill a zeiryd;<br>I Vrân ab Llyr, pan vu'r laith,<br>Arall ydoez Llyr llediaith.<br>In every respect the best and generous man to twy others that *belongs*; to Bran the son of Llyr, when eloquence flourished, and the other was Llyr of mixt dialect. L. G. Cothi.<br>Ni zeiryd cenedyl y cynnogyn i'r brenin cyd gwato y brenin y maç.<br>The kindred of the original debtor *shall* not *be answerable* to the king, if the king should refuse the surety. Welsh Laws. |
| Maeddu, *rectiùs* Baeddu. *vid. an hinc Angl. Smite,* Ys maeddu. Gweled hên famwydd, blwydd blu, Gogam wddf goeg i'm maeddu. *D. G.* | Maeddu, *v.* to beat, to strike, to thump. Rectiùs *Baeddu.* Dav. Q. wh. hence the English *Smite. Ys maeddu.* 'Gweled hên famwydd blwydd blu, gogam wddf goeg i'm maeddu.' D. G. | Maezu, *v.a.* (maez) To beat, to strike, to thump, to bang, to buffet about. *Maezu poer*, and *malu ewyn,* to foam about the mouth.<br>Diwydiaç, val ỳ dywedynt,<br>Vyz gwas wedi vaezu gynt.<br>More dilligent, as they say, will a servant be after he has been formerly *beaten*. *G. ab Ll. Moel.* |

| | | |
|---|---|---|
| Ysgafn, *Leuis. Arm.* Scaff. Gr. ... Ysgawn daith dan ysgin dail. *D. G.* Os rhoi esgus rhy ysgon, Bid rhâff o baderau hon. *H. Kil.* | Ysgafn, *adj.* light, easy, nimble. Cor. Scav. Arm. Scân. *Ysgàwn* and *Ysgon* are also used. 'Ysgawn daith dan ysgin dail.' D. G. 'Os rhoi esgus rhy ysgon, Bid rhâff o baderau hon.' H. Kil. | Ysgavn, *a.* (ysgavyn) Light, volatile, fickle. Ysgavn y daeth, ysgavn yr aeth. *Lightly* it came, *lightly* it went. *Adage.* Gloewaç vyzant y saint yna seithwaith no'r haul, ac ysgacnaç o vuanfer vyzant no mezwl. The saint will be then seven times brighter than the sun, and *lighter* of motion than thought. *Elucidarius.* |

Gwelir bod Pughe wedi ceisio cyfieithu'r dyfyniadau i'r Saesneg. Bu hyn yn help mawr i ysgolheigion a gwŷr llengar Seisnig mae'n siwr ond gan iddo gamddarllen ac ystumio geiriau, newidiodd rai dyfyniadau i gyd-fynd â hynny felly mae rhai dyfyniadau'n camarwain y defnyddiwr. Gwnaeth Samuel Johnson rywbeth tebyg i rai o'r dyfyniadau a gynhwysodd yn ei eiriadur ef. Os nad oedd yn hoff o ddyfyniad arbennig, fe'i newidiai. Gollyngai ddarn o'i gychwyn neu ei ddiwedd ac os nad oedd yn cyfleu union ystyr gair, âi ati i'w newid ei hun![164]

Mae elfen wyddoniadurol yn perthyn i nifer o eiriaduron a gyhoeddwyd eisoes, gan gynnwys geiriadur Walters, ond prin iawn yw esboniadau o'r fath yng ngeiriadur Pughe. Mae ganddo hanner colofn ar *glain* a pharagraff neu ddau ar ôl *derwyz* a *camedd* er enghraifft ac o bryd i'w gilydd fe geir esboniad ar gofnodion megis *aber, hwç, neithiawr*ac *unbenaeth* hefyd, er enghraifft:

Aber, *s.m.—pl.t.* oz (ab) A confluence of water; the junction of rivers; the fall of a lesser river into a greater, or into the sea. By metaphor, a port or harbour. Many towns situate at the fall of rivers have their names from this word; as, *Aberystwyth*, the fall of the river *Ystwyth*; *Aberfraw*, the fall of the river *Fraw*; on which was the principal residence of the princes of *Gwynez*.

Neithiawr, *s.f.—pl.* neithiorau (naith) A state that is completed or confirmed; completement; a wedding; a wedding feasts, in some parts, which is kept on a fixt day after the wedding, generally the following Sunday, when the guests bring presents to the newly married couple : The term *Neithiorau* has been used for the Characteristics of Theophrastus.

Un o brif ragoriaethau geiriadur John Walters yw'r holl gyfieithiadau o idiomau ac ymadroddion Saesneg sydd ynddo a'r ffordd y mae Walters yn dangos cyfystyron gwahanol i'r prifeiriau.[165] Wrth drosi geiriau o'r Gymraeg, dengys Pughe yntau amrywiaeth o gyfystyron ond ni cheir ganddo gymaint o idiomau ac

---

[164] Jonathon Green, *Chasing the Sun: Dictionary-Maker and the Dictionaries They Made* (Llundain, 1996), t.222.

ymadroddion ag a geir gan Walters. Dyma enghraifft o gofnodion mwyaf manwl ac amrywiol Pughe:

Dyz, *s.m.—pl.t.* iau (yz) A day. *Dyz gwyl*, a holiday; *dyz gwaith*, a work day; *dyz brawd*, domsday; *dyz y vam*, the day of judgement; *dyz coll a çafael*, a day of loss and attainment, or a day of adjudging causes at law; *dyziau dyzon*, days on which no law proceedings are held; *o zyz i zyz*, from day to day; *o zyz bwygilyz*, from one day to another; *er's dyziau*, since many days or a good while.

Llâz, *s.m.* (lly-az) A cut, a cutting off; a killing *v.a.* To cut, to cut off, to strike off, or do away; to slay, to kill. *Llâz gwair*, to cut down hay, or to mow; *llâz mawn*, to cut turfs; *llâz â lliv*, to cut with a saw, to saw; *llâz pen*, to behead; *llâz tan*, to strike fire; *llâz dyeithyr*, to kill a stranger, that is, to pretend to be a stranger.

Ôl, *s.m.r.—pl.t.* ion. A mark, trace or impression; a track, course, or path; a footstep; what is in course, the future and the past; the rear, the hinder part. *Mae arnav ei ol*, I bear his marks; *ol bwyall*, the mark of a hatchet; *ol troed*, the print of a foot; *Mae yr amser goreu yn ol etto*, the best time is yet in course (to come); *pa un fyz ar ol?* What one is on the rear? or, what one is behind? *Blaen ac ol*, foremost and hindmost; *bod yn ol*, to be wanting; *troi yn ol*, to turn back; *rhoi yn ol*, to give back; *ar ol bod yno*, after being there; *yn ol*, according to; *yr amser yn ol*, the time hereafter; *myned ar ol*, to go after.

Rhown ddau gofnod o eiriadur William Owen Pughe a John Walters ochr yn ochr â'i gilydd i ddangos a phwysleisio bod cryn wahaniaeth rhyngddynt. Dangosir cofnodion Pughe ar gyfer 'drws' a 'cadw' yn eu cyfanrwydd, ond mae cofnodion Walters ar gyfer 'door' a 'to keep' wedi'u cyfyngu i'r prifeiriau a'r isgofnodion Saesneg yn unig:

| **AN ENGLISH-WELSH DICTIONARY ... (1794)** | **A DICTIONARY OF THE WELSH LANGUAGE (1793-1803)** |
|---|---|
| *Door*, Drŵs, dôr; porth. *Within doors,* O fewn y drysau, I (y) mewn, yn y tŷ. *Without doors*, or *out of doors,* Y tu (o'r tu) allan i'r drysau, allan, allan o dŷ, oddi-allan, oddi-faes, y maes, o'r tu allan; heb dŷ uwch ei ben, tan yr wybr.<br>*A little door*<br>*Báck-door*<br>*A folding* [two-leaved] *door*<br>*The Street* [outer] *door*<br>*A fóre-door*<br>*Dóor-bar, Dóor-bolt*<br>*Dóor-case,* or *dóor-frame*<br>*Dóor-cheek,* or *door-post*<br>*The side-posts* [jambs] *of a door*<br>*Dóor-keeper*<br>*An upper door-post*<br>*Dóor-still*<br>*From door to door* | Drws, *s.m.—pl.* drysau (rhws) A passge, pass, or opening; a doorway, a door. Hence the names of many passes between mountains; as, *Drws y Coed, Drws y Nant, Ardudwy,* and the like. |
| *To Keep*, Cadw; gwarchadaw, &c.<br>*To Keep,* [have the keeping of] Cadw, achadw, gwarchadw, gwarchod, areilio, &c. See *to Attend* [look after, &c], *to Guard* | Cadw, *v.a.* (câd) To keep, preserve, or save; to guard; to look after. Cadw cyn coll. *Welsh Laws.*<br>A gymmero zyfg cadwed. |

[165] John Walters, *An English-Welsh Dictionary* ..., op. cit.

| | |
|---|---|
| [keep, &c.], *to take Care of* and *to have Charge of* (under *Care* and *Charge*).<br>*To keep* [retain] *anger*<br>*To keep,* or *continue*<br>*To keep,* or *hold* [a festival, &c.]<br>*To keep back*<br>*To keep,* or *hang back*<br>*To keep one's bed*<br>*To keep close*<br>*To keep within compass*<br>*To keep one's countenance*<br>*To keep,* or *bear, one company*<br>*To keep company with*<br>*To kéep down*<br>*To keep* in a place [as a *ghost* is superstitiously said to do]<br>*To keep,* or *hold*<br>*To keep an eye* [guard] *upon* or *over*<br>*To keep fair with one*<br>*To keep fast by*<br>*To keep one's ground*<br>*To keep house*<br>*To keep house* or [be much] *at home*<br>*To keep in*<br>*To keep from*<br>*To keep off*<br>*To keep,* or *maintain*<br>*To keep open house*<br>*To keep out of sight*<br>*To keep promise* or *touch*<br>*To keep silence*<br>*To keep still*<br>*To keep in store*<br>*To keep to one's self*<br>*To keep touch*<br>*To keep under*<br>*To keep up*<br>*To keep watch and ward*<br>*To keep within bounds* | He that will take learning *let him keep it. Adage.*<br>Tri dyn à zylyïr eu cadw rhag arvau, caeth, a mab ni bo pedair blwyz ar zeg, ac ynvyd cyhoezawg.<br>There are three men who ought *to be kept* from weapons; a slave, a boy under fourteen years, and a common ideot. *Welsh Laws.* |

Gan fod John Morris-Jones wedi beirniadu Pughe am ei arddull anghymreig a'i duedd i gyfieithu priod-ddulliau'n llythrennol, 'rydym yn eithaf ffodus na chynhwysodd Pughe ragor o idiomau yn ei eiriadur!

Erbyn 1805, 'roedd William Owen Pughe yn paratoi argraffiad talfyredig o'r geiriadur oherwydd bod y gwaith gwreiddiol yn fawr ac yn ddrud i'w brynu.[166] 'Roedd llunio'r talfyriad hwn yn rhan o'i gynlluniau pan gâi'r geiriadur gwreiddiol ei gyhoeddi. Dywedodd wrth Iolo Morganwg, ym 1803:

---

[166] LIGC IAW 367.

> I have long had in mind to form and abridgement of Welsh dictionary which I think would come into a smaller volume that would fetch 12s and therein only to give rules and examples of derivatives &c.[167]

Cyhoeddwyd y geiriadur, a oedd yn cynnwys 403 o dudalennau, ym 1806.[168] Gan gofio bod pobl wedi dangos gwrthwynebiad i orgraff ddiwygiedig Pughe a chan fod Evan Williams yr argraffwr wedi colli swm sylweddol o arian yn sgil cyhoeddi'r geiriadur gwreiddiol, nid oes rhyfedd mai'r orgraff gyffredin a ddefnyddiwyd ar gyfer y talfyriad. Ceir addewid am eiriadur Saesneg-Cymraeg ar ddiwedd yr argraffiad, ond ni chyflawnodd Pughe mo'r addewid hwnnw. Serch hynny, ni roddodd Pughe'r gorau i'w waith geiriadurol. Erbyn 1828, câi'r geiriadur sylw Pughe unwaith eto. Dyma'r hyn a ddywedodd wrth W. D. Leathart:

> Mr Gee of Denbigh proposes to reprint my Dictionary & Grammar in parts & I am adding to it & correcting it for him. He has just finished his edition of Walter's in the same form so as to match.[169]

Ychwanegodd Pughe ychydig filoedd o eiriau newydd a newidiodd rai dyfyniadau enghreifftiol cyn cyhoeddi ailargraffiad o'r gwaith gwreiddiol ym 1832.[170] Unwaith eto yr orgraff gyffredin, neu yn ôl Pughe:

> ... the vulgar orthography of our language[171]

a ddefnyddiwyd. Ym 1836, cyhoeddwyd y geiriadur talfyredig am yr ail dro,[172] ac ym 1866 ymddangosodd trydydd argraffiad o'r geiriadur mawr, yn yr orgraff gyffredin, dan olygyddiaeth Gweirydd ap Rhys.[173] 'Roedd Gweirydd ap Rhys wedi ymhél â gwaith geiriadurol o'r blaen ac 'roedd ganddo syniadau pendant ynglŷn â'r hyn y dylai geiriadur ei gynnwys.[174] Trwy gymryd geiriadur a baratowyd eisoes, gallai edrych arno'n wrthrychol a'i newid a'i wella fel y gwelai

---

[167] LIGC IAW 357.
[168] William Owen Pughe, *Geiriadur Cymraeg a Saesoneg: an abridgement of the Welsh and English Dictionary* (Llundain, 1806).
[169] LLB Ych. 9850 t.1074.
[170] William Owen Pughe, *A dictionary of the Welsh language, ... to which is prefixed, A Welsh grammar* (Dinbych, 1832).
[171] Ibid., t.ix.
[172] William Owen Pughe, *Geiriadur Cymraeg a Saesoneg: an abridgement of the Welsh and English Dictionary* (Llundain, 1836).
[173] William Owen Pughe, *Geiriadur Cenhedlaethol Cymraeg a Saesneg. A National Dictionary of the Welsh Language with English and Welsh Equivalents. The third edition, edited and enlarged by Robert John Pryse* (Dinbych, 1866).
[174] Robert John Pryse, *An English and Welsh Pronouncing Dictionary ...Geiriadur Cynaniadol Saesneg a Chymraeg* (Dinbych, 1857).

orau. Fel y gwelir yn y bennod nesaf, gwnaeth gryn dipyn o newidiadau i'r cynnwys ond hyd yn oed wedi gwneud hynny ni ddylid rhoi llawer o goel ar yr hyn a geir ynddo. Mae'n rhaid bod ambell gofnod twyllodrus a chamarweiniol yn llechu ynddo o hyd.

Unwaith i air arbennig ymddangos mewn print, tueddir yn aml iawn i'w dderbyn gan gymryd yn ganiataol ei fod yn gywir. Yn yr un modd, mae rhywun yn barod i ddibynnu'n llwyr ar yr hyn a ganfyddir y tu mewn i gloriau geiriadur yn aml iawn. Derbyniwn yr wybodaeth yn ddigwestiwn, heb ystyried ffaeleddau, mympwyon neu gwirciau'r geiriadurwr. Er i Pughe dreulio oddeutu pymtheng mlynedd yn llunio'r geiriadur, mae elfen drasig yn perthyn i'w hanes am y rheswm syml na ellir dibynnu arno o gwbl ac am na ellir canmol na gwerthfawrogi ei lafur caled.

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

# Pennod 5

## Geiriaduron 1805 - 1850vv

### (i)

### Titus Lewis (1822 - 1887)

Un o'r pethau sy'n taro rhywun yn syth wrth ystyried gweithgarwch llenyddol Titus Lewis yw'r hyn y llwyddodd i'w gyflawni yn ystod ei oes fer a hynny heb iddo dderbyn llawer o addysg ffurfiol.[1] Argraffwyd ei weithiau bron i gyd gan John Evans, Caerfyrddin ac o'r argraffwasg honno yr ymddangosodd ei gyhoeddiad cyntaf ym 1802, sef marwnad i bum aelod o'r gymdeithas yn Llandudoch a foddodd mewn storm ger Sir Fôn.[2] Un o brif weithiau Titus Lewis oedd cyfrol dros chwe chan tudalen ar *Hanes Wladol a Chrefyddol Prydain Fawr* ... a gyhoeddwyd ym 1810.[3] Dyma'r gyfrol gyntaf o'r fath yn y Gymraeg a thybir bod o leiaf ddwy fil o gopïau wedi cael eu gwerthu.[4] Fe'i hailargraffwyd hi, gydag ychwanegiadau, rhwng 1855 ac 1857.[5] Gweinidog y Bedyddwyr ym Mlaen-y-waun a Chaerfyrddin oedd Titus Lewis ac wrth deithio ar hyd a lled Cymru i bregethu daeth yn enwog fel pregethwr rhagorol drwy'r wlad. Cyfrannodd i'r ddau rifyn o'r cylchgrawn chwarterol *Y Drysorfa Efengylaidd* a ymddangosodd ym 1806 a chyhoeddodd nifer o lyfrau a phamffledi ar bynciau crefyddol.[6] Ym 1802, cyhoeddodd *Mawl i'r Oen a laddwyd* ... sef casgliad o emynau[7] ac fe'i hailargraffwyd ym 1808 ond yn y cyfamser cyhoeddasai ragor o

---

[1] Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953), tt.526-7.

[2] Titus Lewis, 'Alarwm i fyd ac eglwys: neu, farwnad, er coffadwriaeth am George Richard ac Eleanor Richard ei wraig, a'u plentyn bach, ac Elizabeth Evans, Thomas Nicholas a David Joseph, oll o Landydoch y rhai a gollodd eu bywydau ar y môr mewn ystorm, gerllaw Sîr Fon ...' (Caerfyrddin, 1802).

[3] Titus Lewis, *Hanes Wladol a Chrefyddol Prydain Fawr: O'r amser y daeth y Brutaniaid i Wladychu iddi gyntaf hyd yn bresennol* (Caerfyrddin, 1810).

[4] Dafydd Glyn Jones, 'Saith Math o Hanes, yn Geraint H. Jenkins (gol.), *Cof Cenedl XIV* (Llandysul, 1999), tt.77-82

[5] John Emlyn Jones (gol.), *Hanes Wladol a Chrefyddol Prydain Fawr: O'r amser y daeth y Brutaniaid i Wladychu iddi gyntaf hyd yn bresennol* (Caerfyrddin, 1857).

[6] Gw. E. T. Jones, 'Pennod o Hanes Titus Lewis: Ei Lafur Gweinidogaethol', *Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*, (1908 - 9), tt.16-28.

[7] Titus Lewis, *Mawl i'r Oen a laddwyd : sef, Pigion o Hymnau ... wedi eu casglu o waith yr awdwyr hynotaf yn yr oes bresennol* ... (Caerfyrddin, 1802). Gw. T. M. Bassett, *Bedyddwyr Cymru* (Abertawe, 1977), t.173.

emynau yn *Grawn-sypiau Canaan* ... ym 1806.[8] Cyfieithodd Titus Lewis waith Benjamin Keach[9] ac mewn cydweithrediad â'r Parchn. Joseph Harris (Gomer) a Christmas Evans, cyfieithodd esboniad Dr Gill ar y Testament Newydd hyd ddiwedd Llyfr yr Actau. Eu bwriad oedd trosi holl esboniadau Dr Gill ond bu farw Titus Lewis o'r darfodedigaeth yn dri deg wyth mlwydd oed ac ni chwblhawyd y gwaith. Ymhlith y gweithiau eraill a gyhoeddodd y mae *Holwyddoreg*,[10] *Llyfr Rhyfeddodau* ...,[11] dau lyfryn ar fedydd[12] a Thestament Newydd bychan gyda nodiadau cryno ar gyfer yr Ysgolion Sul.[13]

Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf o eiriadur Titus Lewis gan John Evans, Caerfyrddin, ym 1805 a nodir ar yr wyneb-ddalen ei fod ar werth yn Llundain, Caer, Y Bala, Abertawe, Aberteifi, Caernarfon a chan bob llyfrwerthwr arall yng Nghymru.[14] Ceir pum tudalen o enwau'r tanysgrifwyr ar ddechrau'r gwaith ac yn eu plith ceir enwau'r Parch. Thomas Charles, Y Bala, ynghyd â nifer o weinidogion amlwg gyda'r Bedyddwyr megis David Saunders, Joshua Watkins ac Owen Rees.

Yn y Rhagymadrodd, mae Titus Lewis yn mynegi ei bryder a'i anfodlonrwydd gydag agwedd ei gyd-Gymry tuag at y Gymraeg a'r ffaith eu bod yn dysgu Saesneg i'w plant cyn iddynt fedru darllen eu mamiaith. Effaith arfer o'r fath, meddai, yw diwreiddio'r Gymraeg. Er gwaethaf ei sefyllfa, fe'i cynhelid gan yr argraffwasg a'r holl lyfrau a'r argraffiadau gwahanol o'r Ysgrythurau a fodolai.

---

[8] Titus Lewis, *Grawn-sypiau Canaan. Hymnau newyddion, heb fod yn argraphedig o'r blaen* (Caerfyrddin, 1806).
[9] Titus Lewis, *Esboniad ar y Cyffelybiaethau a roddir yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd i Dduw'r Tad* (Caerfyrddin, 1811). Mae'n seiliedig ar Benjamin Keach, *Tropologia, or key to open Scripture Metaphors* (Llundain, 1682).
[10] Titus Lewis, *Catecism y Bedyddwyr Neillduol, mewn ffordd o ofyniadau ac attebion* .. (Caerfyrddin, 1804).
[11] Titus Lewis, *Llyfr Rhyfeddodau, neu Amlygiadau o Waredigaethau Rhyfeddol Duw i'w Weision* (Caerfyrddin, 1808).
[12] Titus Lewis, *Taenelliad babanod o ddynion, ac nid o Dduw: neu attebiad i lyfr Mr. Peter Edwards, a elwir yn Gymraeg Bedydd yn gyfarchiad i'r trochwyr ac i daenellwyr babanod* (Caerfyrddin, 1806).
Titus Lewis, *Traethawd byr, eglur, ac ysgrythurol, ar 'Fedydd': lle y mae'r Ordinhad Sanctaidd yn cael ei gosod allan o ran ei sefydliad, ei deiliaid, ei dull, ei dyben, a'i pharhad; yn nghyda rhwymau credinwyr i roddi ufydd-dod iddi* (Caerfyrddin, 1807).
[13] *Testament Newyddlin Harglwydd* ... (Caerfyrddin, 1802).

A Welsh-English Dictionary.

# GEIRLYFR
## CYMRAEG A SAESNEG:

YR HWN SYDD YN CYNNWYS

YNGHYLCH DEUGAIN MIL O EIRIAU CYMRAEG,

*A Rhan-ymadrodd i bob un o honynt, ac amrywiol o Eiriau Saesneg priodol gyferbyn a hwynt.*

HEFYD,

ARWYDDOCCAD GEIRIAU ANGHYFIAITH YN YR YSGRYTHUR LAN; A PHA RAN O HONI Y MAENT HWY, AC AMRYWIOL O RAI ERAILL, I'W CAEL.

Y MAE HEFYD YN RHODDI

Hanes gryno am rai o Deyrnasoedd, Gwledydd, Dinasoedd, Trefydd, &c. mwyaf enwog yn amrywiol Barthau y Byd.

WEDI EI GASGLU ALLAN O'R GEIRLYFRAU, HANES-LYFRAU, A'R MYNEGYDDION GOREU A DIWEDDARAF,

GAN T. LEWIS, AC ERAILL.

Carmarthen:

PRINTED AND SOLD BY J. EVANS, IN PRIORY-STREET;

SOLD ALSO BY

M. JONES, No. 1, PATER NOSTER ROW, LONDON; W. C. JONES AND JOS. HEMINGWAY, CHESTER; S. CHARLES, BALA; T. JENKINS, SWANSEA; C. LEWIS, CARDIGAN; T. ROBERTS, CAERNARVON:

AND ALL OTHER BOOKSELLERS IN THE PRINCIPALITY OF WALES.

1805.

11. Titus Lewis, *A Welsh-English Dictionary* (1805)

Er nad oedd lle i'r Gymraeg yn y llysoedd barn, meddai, nid oedd perygl iddi fynd yn angof tra bod pobl yn parhau i fyw yng Nghymru.

Cawsai Titus Lewis brofiad o gyfieithu, eithr nid llunio geiriadur Saesneg-Cymraeg i'w ddefnyddio fel arf gan gyfieithwyr eraill oedd ei nod. Geiriadur Cymraeg-Saesneg a luniodd a hynny mae'n sicr er mwyn dangos cyfoeth y Gymraeg. Yn ôl Lewis, diogelu'r Gymraeg rhag ei cholli ynghyd â'i chadw'n bur oedd swyddogaeth geiriadur. Gobeithiai mai dyna a wnâi ei eiriadur ef ac y gallai gynorthwyo unrhyw un a'i defnyddiai i ddeall, sillafu, darllen ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg yn fedrus a chywir. Wrth sôn am y gwaith o baratoi'r gyfrol, dywed:

> Parodd y gwaith o'i gasglu lawer o boen a gofal i ni ...

Ar wyneb-ddalen y geiriadur nodir mai "Titus Lewis ac eraill" oedd yn gyfrifol am lunio'r gwaith ac yn y rhagymadrodd mae'n amlwg ei fod yn mynegi barn mwy nag un. Nid yw'n enwi'r rhai a'i helpodd ond gellir tybio bod y gwŷr y bu'n cydweithio â hwy ar weithiau eraill - y Parchn. Joseph Harris, Dafydd Saunders, C.Evans o Fôn a Joshua Watkins - wedi ei gynorthwyo.

Caiff y sawl sy'n pori trwy eiriadur Titus Lewis brofiad digon diddan. Oddeutu 26,000 prifair Cymraeg sydd ynddo. Nodir rhan ymadrodd ar ôl pob prifair, fel arfer fe'i dilynir gan nifer o gyfieithiadau Saesneg ac o bryd i'w gilydd ymddengys ffurf luosog enw. Er ei fod tua'r un maint â geiriadur Thomas Jones, Dinbych, mae tipyn mwy o ddyfnder yn perthyn i'r cynnwys, yn bennaf oherwydd ceir ynddo fwy o isgofnodion. 'Galw; enwi' sydd gan Jones o dan 'call' er enghraifft, ond yng ngeiriadur Lewis nodir 'galw arno', 'galw barn', 'galw at arfau' a 'galw ychain'. O dan 'llaw' mae Lewis yn cynnwys:

| | | | |
|---|---|---|---|
| dwylaw | llaw ddëau | llawgar | llaw hir |
| llaw uchaf | llaw dlws | llawgell | llaw hual |
| llaw drechaf | llaw dryfer | llaw fwyall | llawlaw |
| dan lawllaw agor | llaw dwn | llawffon | llawliain |
| llaw arian | llaw ddewin | llaw gaead | llawlif |
| llawban | llaw esgud | llaw galed | llawlosg |
| brethyn llawban | llaw feddyg | llawgallor | llawlyw |
| llaw chwith | llawfoled | llawgist | llawober |

[14] Titus Lewis, *A Welsh-English Dictionary. Geirlyfr Cymraeg a Saesneg : yr hwn sydd yn cynnwys ynghylch deugain mil o eiriau Cymraeg ...* (Caerfyrddin, 1805).

'Llaw, llofen, lloflen, adaf: - lled llaw, dyrnfedd' yn unig sydd gan Jones o dan 'hand'. Yn ôl yr arfer cyffredin, esbonnir ystyr geiriau anghyfarwydd o'r Ysgrythurau ac fe geir cyfeiriad at adnod arbennig. Pan fo'r prifair yn air Hebraeg, rhydd gyfieithiad Cymraeg mewn cromfachau, yn ogystal â chyfieithiad Saesneg, er enghraifft:

*Hammedotha*, (trallodydd y gyfraith), troubling the law. Father of Haman, Est. 3.1

*Hamor*, (llaid), dirt, Gen. 33.19

*Hamaol*, (duwiol), godly. Son of Mishma, I Cron. 4.26

Nodwedd arall sy'n gyffredin i nifer o eiriaduron Cymraeg, gan gynnwys cyfrol Titus Lewis, yw'r pwt o hanes a geir am rai o wledydd, dinasoedd, trefi, afonydd ac ieithoedd pwysicaf y byd. Neilltuodd Lewis bron i draean o golofn ar gyfer cofnodion megis 'Manaw', 'Rhufain' ac 'Iorddonen' ac fe ofalodd gynnwys cofnodion perthnasol am Gymru yn ogystal â chyfeiriadau Beiblaidd fel 'Penglogfa', 'Ebenezer' a 'Lefiathan'. Mae wyneb-ddalen y geiriadur yn datgan bod Titus Lewis wedi defnyddio'r:

> ... geirlyfrau, hanes-lyfrau a'r mynegyddion goreu a diweddaraf

wrth baratoi'r gwaith. Nid yw'n nodi union pa ffynonellau y bu'n ymgynghori â hwy ond yng nghorff y geiriadur deuir ar draws ambell gofnod megis hwn am 'crwth': 'See *Cambrian Register*, for 1795, page 397'. Mae'n amlwg y porasai Titus Lewis trwy eiriaduron eraill wrth lunio'i eiriadur ei hun. Weithiau, mae'n cyfeirio at sylwadau William Salesbury a John Davies ac mae'r ffaith bod ganddo gofnodion am enwau planhigion, blodau a llysiau yn awgrymu ei fod wedi ymgynghori â 'Botanology' neu lysieulyfr arbennig. Serch hynny geiriadur Thomas Richards, heb os, oedd y ffynhonnell y bu'n ei defnyddio fwyaf.[15] Gellir, ar un ystyr, ystyried gwaith Lewis fel math o dalfyriad o *Antiquae linguae Britannicae thesaurus* Richards. Er nad oes gan Lewis hanner cymaint o fanylion a chyfeiriadau daw'n amlwg, wrth gymharu'r ddwy gyfrol ochr yn ochr â'i gilydd, iddo wneud defnydd cymharol helaeth o waith Richards. Yn un peth, deuir ar draws nifer o gofnodion sydd yn un union yr un fath yn y ddau eiriadur:

---

[15] Thomas Richards, *Antiquae linguae Britannicae thesaurus* (Bryste, 1753).

| ANTIQUAE LINGUAE BRITANNICAE THESAURUS (1753) | A WELSH-ENGLISH DICTIONARY (1805) |
|---|---|
| Cyffaith, *s.* liquor which tanners or curriers use in tanning and dressin leather | Cyffaith, s. liquor which tanners, or curriers use in tanning and dressin leather |
| Hygof, *adj.* memorable, or which may be easily minded or called to mind, what we remember well | Hygof, a. memorable, or which may be easily minded, or called to mind; what we remember well |
| Llag, s. a jag, a snip, a rented piece, a clout, or rag | Llag, s. a jag, a snip, a rented piece, a clout, or rag |

Hefyd, deuir ar draws ambell gyfeiriad yng ngeiriadur Lewis sydd eisoes wedi ymddangos yng ngwaith Richards. Yn yr enghraifft a ganlyn, gwelir yr un manylion - gair am air - am gyfraith Hywel Dda:

| ANTIQUAE LINGUAE BRITANNICAE THESAURUS (1753) | A WELSH-ENGLISH DICTIONARY (1805) |
|---|---|
| Arian, & Ariant, s. silver, money ... *Arian rhîf*, and *Arian báth*, money, or coin. *Arian byw*, quick-silver. 'Arian byw oera'n bŷd'. D.G. In K.H. it is used for a penny, which was a silver coin very common in former times, among both Welsh and English. | Arian, s. silver, money — *arian rhif*, or *arian bath*, current money, or coin. In the law of Howel Dha [*sic*], it is used for a penny, which was a silver coin very common in former times, among both Welsh and English — *arian byw*, quick silver. |

Un o nodweddion mwyaf nodedig *Antiquae linguae Britannicae thesaurus* yw'r geiriau llafar a geir ynddo a'r sylwadau arbennig sy'n gwahaniaethu rhwng tafodieithoedd Morgannwg a Sir Gaerfyrddin. Cododd Lewis rai o'r geiriau hynny a'u cynnwys yn ei waith ei hun, er enghraifft:

| ANTIQUAE LINGUAE BRITANNICAE THESAURUS (1753) | A WELSH-ENGLISH DICTIONARY (1805) |
|---|---|
| Dihwylo, *v.* to undress or put off one's clothes, to strip. It is a word used in Glamorganshire | Dihwylo, v. to undress; to strip. It is a word used in *Glamorganshire* |
| Llestriad, *s.* a measure of corn in Glamorganshire, containing two English bushels and a half | Llestriad, s. a vessel-full; a measure of corn in Glamorganshire, containing two English bushels and a half |

eithr nid oes ganddo sylwadau cymharol. Fel y nodwyd eisoes, ni cheir yr un manylder yng nghyfrol Lewis ac fe all y manylion a roddir yn y ddau eiriadur fod yn anghyson:

| ANTIQUAE LINGUAE BRITANNICAE THESAURUS (1753) | A WELSH-ENGLISH DICTIONARY (1805) |
|---|---|
| Hôb, Hobiad, *s.* a peck of corn or meal in Glamorg. In Caernarvonshire it is a measure containing four Winchester bushels | Hôb, s. a swine; also, a measure of various capacities, in different parts of Wales; it is a peck in *Glamorganshire*; four bushels, in *Carmarthenshire*; and two bushels, generally, in North Wales |

| | |
|---|---|
| Têl, Telaid, *s.* a measure of corn in S.W. containing four English bushels. 'Mesur o yd yn Neheubarth o 8 chwart Cymreig, neu 16 Seisnig.' Dav. ... | Têl, s. that is even, regular, or compact; a regulator, or s standard measure of capacity, and of length; in South Wales, a corn measure, equal to 5½ bushels, and in North Wales, 4 bushels, divided into 8 parts |

Wedi dweud hyn, gwnaeth Lewis ymdrech i gynnwys rhai esboniadau ychwanegol. O dan y prifair 'corwgl', ceir yr isgofnod 'llwyth gwr ei gorwg' yng ngeiriadur Thomas Richards ond ni cheir esboniad na chyfieithiad ohono. Yng ngeiriadur Lewis serch hynny, nodir:

*llwyth gwr ei gorwg*, a man's load is his coracle: that is, a man must have a coracle as heavy as he can carry, or it will not carry him

Yr hyn sy'n rhoi i'r geiriadur hwn ei brif werth yw'r ymgais i gofnodi llawer o eiriau tafodieithol. Er bod ambell un o'r enghreifftiau a ganlyn yn ymddangos yng ngeiriadur Richards, mae rhai yn gwbl newydd ac ni ellir cael hyd iddynt yn y geiriaduron a gyhoeddwyd yn ddiweddarach:

Ceintachu, v. to quarrel or scuffle; to bicker

Dryntol, Dyrnddol, s. the ear, or handle of a cup, pot or jug

Ffwdan, s. bustle, hurry, haste, speed

Gleisiadeg, s. a salmon net

Gwringell, s. a sudden, or sharp motion; a chip, or slice — *gwringell o gaws*, a slice of cheese

*Hai hafog*, hollo havock, a cry used by the *Cardiganshire* peasants on seeing their neighbours' cattle in the cornfields ...

Pilyn, s. a piece of skin; a rag, a clout; a garment – *pilyn gwddf*, a neck-kerchief

Serlo, s. a star-glow — *mae hi yn serlo heno*, it is a star-glow to-night

Trwli, a. bulky, round – *trwli mwli*, a fat squabbly woman

Mae llawer o'r geiriau tafodieithol, wrth gwrs, yn eiriau sy'n gysylltiedig â bywyd bob dydd, arferion gwerin ac amaethyddiaeth. Dyma ragor o enghreifftiau gwiw sy'n werth eu nodi wrth fynd heibio: 'clemio' a 'clemio esgid' (*to put a piece under a shoe*); 'gweisgioni' a 'gweisgioni caws' (*to crumble the cheese through the hands in preparing it for the vat*); 'mae dy wely yn heinio o chwain'; 'llaeth yn chwarelu' (*milk a curdling*); 'mwdran'; 'turnen' a 'turnen melin'. O bryd i'w gilydd ni chynigir cyfieithiad Saesneg, ond ceisia Lewis esbonio'n ofalus beth yw ystyr neu beth yw pwrpas y gwrthrych, er enghraifft:

Brwyden, s. the work that divides the warp, in a loom

Cwswr, s. the broken straw and corn on a threshing floor, which is kickt [*sic*] against the lattice-work of a rake to get the corn out

Dowydd, s. the swelling of a cow's udder, when she is near the time of calving ...

Gwar lloft, a bar, to which the bow is fixed, to keep it round the neck of an animal

Gwrachastell, s. a part of a plough, the board on which the off handle is fixed

Yn olaf, rhaid tynnu sylw at un nodwedd arall, sef tuedd Titus Lewis i gynnwys ambell sylw neu feirniadaeth fach slei yn ei eiriadur. Ystyrier yr hyn sydd ganddo ar gyfer 'biswal' a 'Ffrancod':

... *plant y biswal*, and *plant Alis y biswal*, a name of reproach for the English

*Ffrancod*, the French; the inhabitants of France. The French in general are men of bright parts; however, they are of very restless disposition, and engaged in war more that any other country in Europe, for which reason they are generally poor. They are such ill-observers of treaties of peace, that French faith is now become a proverb; for they are bound by no ties, and never fail beginning a war, when they think it is for their advantage

Nid Titus Lewis oedd yr unig eiriadurwr a wnâi hyn wrth gwrs. Un o'r geiriadurwr enwocaf a feirniadwyd am liwio ambell ddiffiniad â'i ragfarn ei hun oedd Samuel Johnson. Mae rhai o'i gofnodion yn ecsentrig ac yn ddigon difyr, megis y rhain am 'excise' ac 'oats':

*Excise*. - A hateful tax levied upon commodities, and adjusted, not by the common judges of property, but wretches hired by those to who excise is paid.

*Oats*. - A grain which in England is generally given to horses, but in Scotland supports the people.

Ym mis Ionawr 1814, ymddangosodd hysbyseb am ailargraffiad gan John Evans, Caerfyrddin ac 'roedd gofyn i'r tanysgrifwyr gyflwyno'u henwau erbyn mis Chwefror.[16] Cyhoeddwyd yr argraffiad hwnnw gyda rhestr newydd o danysgrifwyr ym 1815, bedair blynedd wedi marwolaeth Titus Lewis.

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

[16] *Seren Gomer*, Ionawr 1af 1814.

## (ii)

## Thomas Evans (Tomos Glyn Cothi, 1764 - 1833)

Yn ôl pob sôn, dechreuodd Tomos Glyn Cothi ymhel â geiriaduraeth dan amgylchiadau go anarferol ond cyn dechrau sôn amdanynt, rhaid trafod ychydig ar hanes ei fywyd a'r digwyddiadau a arweiniodd at yr amgylchiadau hynny.[17] 'Roedd Uchel Galfiniaeth yn ei hanterth yn ardal Brechfa pan oedd Tomos yn ŵr ifanc ond dan ddylanwad ei dad, a oedd yn rhyddfrydig ei ddaliadau ac yn bleidiol i Undodiaeth, aeth yntau hefyd yn bleidiwr agored i Undodiaeth.[18] Arferai gerdded cryn bellter i fynychu Capel yr Ariaid yn Alltyblaca a oedd dan ofal Dafis Castellhywel yr adeg honno a diau iddo ddysgu llawer oddi wrth y gŵr dylanwadol hwnnw. Tua 1786, trwyddedwyd rhan o dŷ ei dad fel y gallai Tomos gynnal gwasanaethau crefyddol yno ac fel canlyniad i hyn, codwyd Tŷ Cwrdd Cwm Cothi tua 1796, sef y Capel Undodaidd cyntaf yng Nghymru. Bu'n weinidog yng Nghwm Cothi cyn symud i Hen Dŷ Cwrdd Aberdâr lle y bu am dros ugain mlynedd tan ei farwolaeth ym 1833.

Ychydig o ysgol a gafodd Tomos Glyn Cothi, ond nis rhwystrwyd yn ei awydd ysol am wybodaeth. Dywedir iddo'i ddiwyllio'i hun trwy astudio'r llyfrau a'r traethodau a brynai ei dad iddo a thrwy ddarllen y rhoddion o lyfrau Saesneg a dderbyniasai rhwng 1792 a 1796 oddi wrth yr Undodwr, Theophilus Lindsey.[19] Mae tystiolaeth ar glawr sy'n dangos bod Tomos yn pori trwy weithiau llenyddol, diwinyddol ac athronyddol pan oedd ond yn ddeg oed a'i fod hefyd yn cofnodi dyfyniadau Saesneg yn ei lyfrau ysgrifennu.[20] Rywsut neu'i gilydd daeth i gysylltiad â rhai o wŷr mwyaf athrylithgar y cyfnod, gwŷr megis Tom Paine,[21] Richard Price[22] a Benjamin Frankin[23] a bu'n gohebu'n rheolaidd â nhw.[24] Arferai

---

[17] Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), op. cit., tt.238-9.

[18] *Gardd Aberdâr: y cyfansoddiadau buddugol yn Eisteddfod y Carw Coch, Aberdâr, Awst 29, 1853* (Caerfyrddin, 1854).

[19] Geraint Dyfnallt Owen, *Thomas Evans (Tomos Glyn Cothi): trem ar ei fywyd. Darlith Goffa Dyfnallt* (1964), t.12-3.

[20] LlGC 7362B.

[21] John Keane, *Tom Paine: a political life* (Llundain, 1995) a Howard Fast, *Citizen Tom Paine* (Efrog Newydd, 1959).

[22] D. O. Thomas a W. Bernard Peach (goln.), *The Correspondence of Richard Price* (Caerdydd, 1983-1994).

ohebu gydag Undodwr arall - Joseph Priestley - cemegwr enwog ac awdur *A Course of Lectures on the Theory of Language and Universal Grammar*[25] - a goleddai'r athrawiaeth boblogaidd bod gan bob iaith ei hanianawd a'i nodweddion arbennig ei hun a ddatblygai o oes i oes.[26]

Ni ddatblygodd Tomos Glyn Cothi yn llenor mawr. Erys rhai o'i weithiau mewn llawysgrif ond cafodd dros ugain o'i lyfrynnau, ei bamffledi a'i gyfieithiadau eu cyhoeddi, y mwyafrif ohonynt yn esbonio ac yn amddiffyn egwyddorion Undodaidd.[27] Yn eu plith mae cyfieithiad o waith Benjamin Franklin,[28] Theophilus Lindsey[29] a Joseph Priestley,[30] casgliad o emynau[31] a thri rhifyn o'r cylchgrawn *The Miscellaneous Repository neu Y Drysorfa Gymmysgedig.*

Cofir am Tomos Glyn Cothi yn anad dim am ei fod wedi gwrthryfela yn erbyn trefn pethau yn ei ddydd. Mae'r ffaith iddo gofleidio Undodiaeth pan oedd yn ifanc yn brawf o annibyniaeth meddwl Tomos, ond y tu mewn i gloriau'r *Drysorfa Gymmysgedig* mae'n ennill ei le ymhlith mintai fechan o ddiwygwyr Cymreig yn chwarter olaf y ddeunawfed ganrif.[32] Yn ôl G. Dyfnallt Owen:

> Yn y rhifynnau hyn y gwelir y rebel a'r diwygiwr yn ei afiaith.[33]

Cylchgrawn yn lledaenu propaganda'r Mudiad Diwygio yng Nghymru a delfrydau'r Chwyldro Ffrengig oedd *Y Drysorfa Gymmysgedig.* Ceir ynddo

---

[23] J. A. Leo Lemay, *Reappraising Benjamin Franklin: a bicentennial perspective* (Llundain, 1993).
[24] Geraint Dyfnallt Owen, op. cit., t.14.
[25] Joseph Priestley, *A Course of Lectures on the Theory of Language and Universal Grammar* (Llundain, 1762).
[26] Caryl Davies, *Adfeilion Babel: Agweddau ar Syniadaeth leithyddol y Ddeunawfed Ganrif* (Caerdydd, 2000), tt.235-6.
[27] Gw. O, 'Y Parch. Thomas Evans (Tomos Glyn Cothi): Yr Undodwr, Yr Emynydd, Y Golygydd a'r Cyfieithydd', *Yr Ymofynnodd*, xxxiii, tt.119-120 ac Irene George, 'Tomos Glyn Cothi', *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, Cyfrol 4, tt.105-112.
[28] Thomas Evans, *Y Ffordd at Gyfoeth, yn cael ei dangos yn eglur mewn Rhagymadrodd i hen almanac dan yr enw Richard Dlawd* (Merthyr Tydfil, 1808).
[29] Thomas Evans, *Yr Egwyddor : neu Ymofyniad i Athrawiaeth yr Ysgrythyrau mewn perthynas i'r unig wir Dduw, a'r gwrthrych o addoliad crefydd* (Caerfyrddin, 1796).
[30] Thomas Evans, *Appel at Broffeswyr Difrifol a Diduedd Gristionogrwydd ar y Pynciau Canlynol ... gan garwr yr Efengyl* (Caerfyrddin, 1792).
[31] Thomas Evans, *Cyfansoddiad o hymnau wedi eu hamcanu at addoliad cyhoeddus ag yn enwedig at wasanaeth Undodiaid Cristionogol* (Caerfyrddin, 1811).
[32] J. J. Evans, 'Tomos Glyn Cothi, Apostol Rhyddid', *Yr Ymofynnydd*, xxxiii, t.105.
[33] G. Dyfnallt Owen, 'Tomos Glyn Cothi', *Yr Ymofynnydd*, xxxiii, t.98.

gyfieithiadau o weithiau Priestley a W. Fend, emynau a gweddïau, ysgrifau diwinyddol ac ysgrifau ar bynciau gwleidyddol y dydd. Un o nodweddion mwyaf trawiadol *Y Drysorfa Gymmysgedig* yn ôl J. J. Evans yw'r emynau a'r gweddïau sy'n fflangellu llywodraethwyr traws ac sy'n pleidio egwyddorion y Chwyldro.[34] Bwriadai Tomos Glyn Cothi gyhoeddi'r cylchgrawn bob chwarter, ond tri rhifyn yn unig a ymddangosodd rhwng 1795 a 1796. Ym 1795 pasiwyd deddfau gorthrechol newydd gan fod y Llywodraeth am dynhau ei gafael ar y Diwygwyr Gwleidyddol. Bu'n rhaid i Tomos roi'r gorau i'r *Drysorfa* ond parhaodd serch hynny i fod yn un o bleidwyr y Chwyldro oherwydd gellir tadogi "Cân Rhyddid" (sef cyfieithiad o'r "Marseillaise") iddo ef ynghyd â "Llythyr ar Ddinystr y Bastille" ac ysgrif "Troedigaeth Parbootee" a ymddangosodd yn *Y Geirgrawn (Treffynnon)* ym 1796.[35]

Cadwai ysbiwyr y Llywodraeth lygad barcud ar y radicaliaid a oedd yng nghanol y cyffro a'r berw a gysylltid â'r Chwyldro Ffrengig a'r cyffroadau gwleidyddol eraill. Dengys y syniadau pendant a fynegodd Tomos Glyn Cothi yn y *Drysorfa Gymmysgedig* a'i gyhoeddiadau eraill y rheswm pam y câi ei ddrwgdybio ac nid oes rhyfedd bod yr awdurdodau'n awyddus i roi taw arno. Ym 1801 daeth i wrthdrawiad â'r awdurdodau hynny ac fe fu'n rhaid iddo dalu'r pris am ei argyhoeddiadau.

Ar y pumed o Fawrth 1801, aeth Tomos Glyn Cothi i ddangos ei gydymdeimlad â gweddw dlawd a oedd yn cynnal 'cwrw bach' ym Mrechfa. Pan ofynnwyd am gân, honnir bod Tomos wedi canu cerdd deyrnfradol. Fe'i bradychwyd, mae'n debyg, gan gymydog iddo a oedd hefyd yn ddiacon yn ei gapel. Ddechrau Awst, cafodd ei ddwyn o flaen Llys y Sesiwn Fawr ac fe'i dedfrydwyd i ddwy flynedd yng ngharchar Caerfyrddin a gorfodwyd ef i sefyll yn y rhigod ddwywaith. Fe'i cyhuddwyd o ganu cerdd Saesneg gan Iolo Morganwg. Yng ngolwg y Barnwr Lloyd, 'roedd y pedwerydd pennill yn fradwrus:

> And when upon the British Shore
> The thundering guns of France shall roar,

---

[34] J. J. Evans, *Dylanwad y Chwyldro Ffrengig ar Lenyddiaeth Cymru* (Lerpwl, 1928) t.141.
[35] ibid., t.144.

Vile George shall trembling stand,
  Or flee his native land
  With terror and appal-
Dance Carmagnol, dance Carmagnol.

Taerai Tomos ar hyd yr amser na chanodd y gân Saesneg. Tybir mai'r unig beth a wnaeth, mewn 'cwrw bach' digon diddrwg yng nghefn gwlad Sir Gâr, oedd canu un o gerddi Cymraeg Iolo Morganwg neu'r cyfieithiad Cymraeg o'r "Marseillaise".

Ni chollodd Tomos Glyn Cothi ei barch ar ôl cael ei anfon i garchar Caerfyrddin. 'Roedd ganddo gyfeillion a'i cefnogai tra'r oedd yno a sonnir iddo dderbyn gwerth £200 o roddion yn y carchar. Teimlai aelodau Capel Undodaidd Brechfa ei fod wedi ei gyhuddo ar gam, felly anfonasant lythyr at gymdeithasau Undodaidd eraill y wlad i ofyn am gymorth ariannol.[36] Mynegwyd annhegwch y sefyllfa a'r ffaith mai rhagfarn grefyddol, yn eu tyb hwy, oedd wrth wraidd y drwg.

Yn ystod yr amser a dreuliodd yn y carchar, lluniodd Tomos Glyn Cothi eiriadur. Prin yw'r ffeithiau sydd gennym amdano yn y cyfnod hwnnw, ond pe baem yn derbyn adroddiad Esgob Tyddewi, gellid dychmygu ei fod yn byw bywyd digon bras yno. Mewn llythyr at yr Ysgrifennydd Cartref dywedodd:

> He never lived so well in his life as since he has been in prison, having plenty of money to bribe his keeper and indulged accordingly. He goes where he pleases in the Gaol amongst the debtors as well as felons; often he has all the keys in his possession, sees what company he wishes, and employs his time reading or writing, drinking spirits and smoaking [*sic*] with his friends.[37]

Go brin iddo gael cystal hwyl yn y carchar! Hyd yn oed os oedd ganddo gymaint o ryddid i ddarllen ac ysgrifennu, beth a'i hysgogodd i gyfansoddi geiriadur?

---

[36] G. J. Williams, 'Carchariad Tomos Glyn Cothi', *Llên Cymru*, 3, t.120.
[37] Public Record Office H.O. 42/66, Letters and Papers, George III.

Fel nifer o'r geiriadurwyr Cymreig eraill, bu Tomos Glyn Cothi yn ymhel â chyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg. Mae'n bosib felly y dymunasai lunio geiriadur Saesneg-Cymraeg bychan ar sail profiad o gyfieithu ond mae'n bosib hefyd iddo gael ei ysbrydoli gan eraill.

Gwehydd ydoedd wrth ei alwedigaeth ac arferai deithio i ffeiriau Morgannwg i werthu brethyn a gwlanen. Yno, mae'n rhaid, y cyfarfu â beirdd Gorsedd Morgannwg ac un Undodwr enwog arall, Iolo Morganwg. Daeth y ddau yn gyfeillion agos a thra bu Tomos yn y carchar, ymdrechodd Iolo i grynhoi cymaint o wybodaeth ag y medrai am y 'cwrw bach' oddi wrth y rhai a oedd yn bresennol er mwyn profi bod Tomos yn ddieuog.[38] Tynnodd G. J. Williams sylw at un ffaith ddiddorol, sef bod Iolo Morganwg wedi bwriadu cyhoeddi llyfr ar hanes carchariad Tomos Glyn Cothi.[39] 'Roedd Iolo yn llawn bwriadau wrth gwrs ond mewn un nodyn o'i eiddo, dywed:

> Pennill a wnaeth Thomas Glyn Cothi er annog y Cymry i fyned yn wrol yn erbyn y Ffrancod a diriasant yn Aber Gwaun yn y flwyddyn 1797 ... This to be introduced in the Preface or introduction to the Trial of Thos. Evans.[40]

Os oedd Tomos yn un o brif ffrindiau Iolo Morganwg, tybed ai Iolo a'i hanogodd i lunio geiriadur? Ymserchai Iolo mewn geiriau a gwelodd fod angen geiriadur da ond er iddo fwriadu creu geiriadur ei hun, ni fedrai "setlo i eiriadura" oherwydd ei anian a'i ddiffyg amynedd ac ni lwyddodd i wneud mwy na bathu geiriau a llunio casgliad anferth o eirfâu.[41]

Ni thrafodwyd un mater pwysig yn unman o'r blaen sef y ffaith y cysylltir enw Tomos Glyn Cothi â *dau* eiriadur cwbl wahanol — y geiriadur Saesneg-Cymraeg y soniwyd amdano eisoes a gwaith bychan arall, sef *An English and Welch Vocabulary or an Easy Guide to the Antient British Language.*[42] Ni wyddys i

---

[38] G. J. Williams, op. cit., tt.120-2.
[39] G. J. Williams, op. cit., t.122.
[40] Caerdydd 57, 175.
[41] Richard M. Crowe, 'Thomas Richards a John Walters: Athrawon Geiriadurol Iolo Morganwg' yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *Llynfi ac Afan, Garw ac Ogwr* (Llandysul, 1998).
[42] Thomas Evans, *An English and Welch vocabulary: or, easy guide to the antient British language. By Thomas Evans. To which is prefixed, A Grammar of the Welch language. By Thomas Richards* (Merthyr Tydfil, 1804).

sicrwydd pa gyfrol a luniodd tra yn y carchar. Er i rai honni mai *An English-Welsh dictionary* ... a baratôdd yno, o edrych ar gynnwys y *Vocabulary* ac ystyried sut fath o waith y gellid ei greu o dan yr amgylchiadau, mae'n fwy tebygol mai gweithio ar hwnnw a wnaeth yn ystod ei garchariad. Mae cynnwys *An English-Welsh dictionary* ... yn hwy, yn fanylach ac yn dipyn mwy caboledig na'r *Vocabulary*. Onid rhesymegol fyddai tybio felly mai cyfrol arbrofol a grewyd i gychwyn yw'r *Vocabulary* a bod y *Dictionary* yn ddatblygiad pellach a ddigwyddodd pan oedd Tomos Glyn Cothi yn ddyn rhydd? Ffaith arall i'w hystyried wrth bwyso a mesur pa waith y gallai fod wedi ei lunio yn y carchar yw'r dyddiadau cyhoeddi. Cyhoeddwyd y *Vocabulary* ym 1804, flwyddyn ar ôl iddo gael ei ryddhau ond ni chyhoeddwyd y *Dictionary* tan 1809.

Rhennir y *Vocabulary*, sy'n 86 tudalen o hyd gyda thudalen ychwanegol o 'Errata', yn dair adran ar hugain yn ymwneud ag agweddau gwahanol ar fywyd beunyddiol: addysg, rhannau'r corff, bwyd a diod, amser, tywydd, byd natur ac yn y blaen.[43] Oherwydd bod natur y cynnwys yn wahanol, mae'n anodd cymharu'r *Vocabulary* â geiriaduron eraill a thrafod y cynnwys yn yr un ffordd. Gwaith Saesneg-Cymraeg ydyw - nodir y Saesneg ar ochr chwith y dudalen a'r

---

[43] Yr adrannau gwahanol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| OF THINGS. | AM BETHAU. | OF APPAREL. | AM DDILLAD. |
| OF THE ELEMENTS. | AM YR ELFENAU. | OF BUILDING. | AM ADEILADAU. |
| OF MINERALS AND METALS. | AM FWYN A METEL. | OF HOUSEHOLD STUFF. | AM DDODREFN TY. |
| OF PLANTS. | AM BLANHIGION. | OF THE COUNTRY AND COUNTRY AFFAIRS. | AM Y WLAD, A'I GORCHWYLION. |
| OF TREES AND SHRUBS. | AM BRENAU A MANWYDD | OF SOCIETIES. | AM GYMDEITHAS. |
| OF INSECTS. | AM DRYCH-FILOD. | THE SCHOOL. | AM YR YSGOL. |
| OF BIRDS. | AM ADAR. | OF THE CHURCH OR ECCLESIASTICAL AFFAIRS. | AM YR EGLWYS, NEU ORCHWYLION EGLWYSAIDD. |
| OF FISHES. | AM BYSGOD. | OF JUDICAL MATTERS. | YNGHYLCH MATERION BRAWDWRAIDD. |
| OF FOUR FOOTED BEASTS. | AM ANIFEILIAID PEDAIR TROEDIG. | OF WARFARE OR MILITARY MATTERS. | YNGHYLCH MILWRIAETH NEU ORCHWYLION RHYFELGAR. |
| OF PARTS OF MAN'S BODY. | AM RANAU O GORPH DYN. | OF THE SEA, OR NAVAL AFFAIRS. | AM Y MOR, NEU ORCHWYLION LLYNGESAWL. |
| OF THE LIMBS. | AM YR AELODAU. | OF TIME. | AM AMSER. |
| OF THE BONES. | AM YR ESGYRN. | OF ADJECTIVES, OR THE MANNER OF THINGS. | AM ANSAWDDIADAU, NEU DDULL PETHAU. |
| OF DISEASES. | AM GLEFYDAU. | THE CARDINAL, OR CHIEF NUMBERS ... | Y BRIF NEU Y RHIFEDI PENAF, YW Y RHAI CANLYNOL. |
| OF THE MIND AND ITS AFFECTIONS. | AM Y MEDDWL A'I SERCHIADAU. | OF VERBS. | AM FERFAU. |
| OF MEATS AND DRINKS. | AM FWYDYDD A DIOD. | PHRASES. | RHYDDIAITH. |

AN

# ENGLISH AND WELCH VOCABULARY:

OR, AN EASY GUIDE

TO THE

ANTIENT BRITISH LANGUAGE.

BY THOMAS EVANS.

TO WHICH IS PREFIXED,

# A GRAMMAR

OF THE

WELCH LANGUAGE.

BY THOMAS RICHARDS.

MERTHYR:

PRINTED BY W. WILLIAMS, AND SOLD BY LACKINGTON, ALLEN, AND CO. LONDON.

1804.

12. Thomas Evans, *An English and Welch Vocabulary* ... (1804)

Gymraeg ar yr ochr dde - ac fe ellir amcangyfrif bod ynddo tua 1,500 o brifeiriau. Trwy drefnu'r eirfa yn unedau gwahanol, mae'n amlwg mai prif fwriad Tomos Glyn Cothi oedd anelu at y dysgwr. Mae modd cael hyd i eiriau arbennig yn hawdd yn y *Vocabulary* a phe dymunid, gellid dysgu adran yn gymharol hwylus. Fel rheol, mae pob adran yn ymdranu'n isadrannau gydag esboniad byr tebyg i hwn o'r adran 'OF THE SEA, OR NAVAL AFFAIRS' ar y dechrau:

| | |
|---|---|
| Parts for helping the motion of the ship, and are made of wood, are | Rhanau [*sic*] at gynorthwyo symudiad y Llong, a chwedi eu gwneuthur o Goed, yw |
| An Oar, | Rhwyf, *f. pl. t.* au. |
| A Mast. | Hwylbren, *f. pl. t.* au. |

Cyflwynir ac esbonnir ystyr llawer o ansoddeiriau trwy gymharu un yn erbyn y llall, er enghraifft:

| | |
|---|---|
| A Soul is said to be Good, or Gracious. | Dywedir bod Enaid, yn Dda, neu'n Raslawn. |
| The Light is said to be Clear, or Bright. | Dywedir bod Goleuni yn Oleu, neu'n Ddisglair. |
| The Shade is said to be Dark, or Dull. | Dywedir bod Cysgod, yn Dywyll, neu'n Bŵl. |

ac ni fyddai ambell gofnod, tebyg i hwn ar gyfer 'llysdad', yn edrych allan o'i le mewn geiriadur sy'n diffinio prifeiriau:

| | |
|---|---|
| The Man that your Mother marries after your Father's death, is called Step-father. | Y Dyn a briodo eich Mam ar ol marwolaeth eich Tad, a elwir Llysdad, *m. pl. l. au.* |

Mae'n werth tynnu sylw at y ffaith bod y *Vocabulary* yn dangos terfyniadau lluosog enwau. Byddai gwybodaeth o'r fath yn sicr o gynorthwyo unrhyw ddysgwr yn enwedig o gofio nad oedd ffurfiau lluosog yn gynwysedig yn nifer o eiriaduron eraill y cyfnod. Adran arall a fyddai o ddefnydd i'r teithiwr yw'r adran olaf, sy'n cynnig idiomau, brawddegau byrion a chwestiynau megis: 'Put my Horse in the Stable', 'Get my Bed ready' a 'What have I to pay?' Ar ddiwedd y *Vocabulary*, ceir gramadeg Thomas Richards, sef y gramadeg a gyhoeddwyd ar ddechrau geiriadur Richards ym 1753.[44]

---

[44] Thomas Richards, op. cit.

Er mai gwaith bychan oedd y *Vocabulary*, ymddengys bod galw amdano. Gwerthai Lackington, Allen a'i Gwmni gopïau ohono yn Llundain ond ar ôl iddo gael ei gyhoeddi am yr eildro, ym 1805, 'roedd ar gael gan lyfrwerthwyr ym Merthyr, Llundain, Caerdydd, Abertawe, Caerfyrddin a Chaer.[45] Ym 1816, argraffwyd y *Vocabulary* eto, ond y tro hwn 'roedd *A Dissertation on the Welsh language* John Walters ynghyd â gramadeg Thomas Richards ynghlwm wrtho.[46] Ymddangosodd argraffiad arall o'r gyfrol wreiddiol, wedi ei chywiro a'i hadolygu, bedair blynedd yn ddiweddarach.[47]

Pan aeth ati i llunio *An English-Welsh dictionary* ..., bwriad Tomos Glyn Cothi oedd creu geiriadur y gellid ei gario mewn poced ac una fyddai'n galluogi ei gydwladwyr i gael:

> ... golwg gryno, gynhwysfawr ag amlwg o'r ddwy iaith heb eu llwytho a geiriau trwsgl ag anarferedig.[48]

Trwy gwyno am eiriaduron llawn "geiriau trwsgl ag anarferedig" mae'n eithaf posib mai cyfeirio'n anuniongyrchol at eiriadur William Owen Pughe y mae. Fel y cawn weld, datblygodd y gwyn hon yn un gyffredin ymysg nifer o'r geiriadurwyr a'i dilynodd. Yn ystod y chwarter canrif cyn cyhoeddi geiriadur Tomos Glyn Cothi, ymddangosodd cyfrolau swmpus Pughe a John Walters ynghyd â dau eiriadur Cymraeg Saesneg arall.[49] 'Roedd lle i waith Saesneg-

---

[45] Thomas Evans, *An English and Welch vocabulary: or, easy guide to the antient British language. By Thomas Evans. To which is prefixed, A Grammar of the Welch language. By Thomas Richards* (Merthyr Tydfil, 1805).

[46] Thomas Evans, *An English and Welch vocabulary ... By Thomas Evans. To which is subjoined A Grammar of the Welch language. By ... Thomas Richards. Also, A Dissertation on the Welsh language ... By John Walters* (Dolgellau, 1816).

[47] Thomas Evans, *An English and Welch vocabulary: or, easy guide to the antient British language. By Thomas Evans. Second edition, carefully corrected and revised. To which is prefixed, A Grammar of the Welch language. By Thomas Richards* (Merthyr Tydfil, 1820).

[48] 'At y Darllenydd' yn Thomas Evans, *An English-Welsh Dictionary; neu Eirlyfr Saes'neg a Chymraeg. An English-Welsh Dictionary; in which the English Words are Accompanied by those which correspond with them in The Welsh Language: carefully compiled from the best sources in both languages* (Merthyr Tydfil, 1809).

[49] William Evans, *New English-Welsh Dictionary, Containing All Words necessary for Reading an English Author* ... (Caerfyrddin, 1771).
William Richards, *Geiriadur Saesneg a Chymraeg. An English and Welsh Dictionary, in which the English Words, and sometimes the English Idioms and Phraseology, are accompanied bu those which synonymise or correspond with them in the Welsh Language. The whole carefully compiled, from the best sources and materials; with a view of forming an agreeable companion for the Welsh youth of both sexes, and for Welsh readers in general* ... (Caerfyrddin, 1798).

AN

*ENGLISH-WELSH DICTIONARY;*

NEU,

EIR-LYFR SAES'NEG A CHYMRAEG.

---

AN

*ENGLISH-WELSH*

# DICTIONARY;

IN WHICH

THE ENGLISH WORDS

ARE ACCOMPANIED BY THOSE WHICH CORRESPOND

WITH THEM IN

THE WELSH LANGUAGE:

CAREFULLY COMPILED FROM THE BEST SOURCES IN

BOTH LANGUAGES.

---

BY THOMAS EVANS.

---

MERTHYR TYDFIL:

PRINTED AND SOLD BY W. WILLIAMS.

1809.

[Price 7s. in boards.]

13. Thomas Evans, *An English and Welsh Dictionary* ... (1809)

Cymraeg bychan a Thomos oedd y geiriadurwr cyntaf i geisio llanw'r bwlch hwnnw yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Argraffwyd y geiriadur, sydd yn cynnwys oddeutu 27,000 prifair, yn argraffwasg W. Williams ym Merthyr Tydfil ac fe'i gwerthwyd am saith swllt. Nid yw Tomos Glyn Cothi yn nodi pa eiriaduron yr ymgynghorodd â hwy, dim ond iddo:

> ... ymegnio dal gafael ar bob cynnorthwy oddifewn ei gyrraedd er gwneuthur y Geiriadur hwn ...[50]

Yr hyn a geir fynychaf yw prifair Saesneg, rhan ymadrodd ac un neu ragor o eiriau Cymraeg cyfatebol. Er mwyn gwahaniaethu rhwng gwahanol ystyron rhai o'r prifeiriau, mae'n 'dyblu' ambell gofnod. Nodir, er enghraifft, y gwahaniaeth rhwng *'buck'*, *'bucks of deer'*, *'buck of clothes'* a'r berfenw *'buck'* ac fe geir cofnodion megis:

Beak, s. pîg, gylfin; penarth
Beak *of a ship*, s. duryn llong

Brow *of a hill*, s. ael-bryn
Brow *of a wall*, s. crib mur, bargod

Eithr mae'r dull arbennig hwn o wahaniaethu rhwng ystyron yn anghyson drwy'r gyfrol. Mae'r ffaith y gwelir cofnodion tebyg i'r rhai uchod yn amlach o lawer o dan y llythyren 'b' nag unrhyw lythyren arall yn awgrymu bod Tomos Glyn Cothi, o bosib, wedi llunio rhannau arbennig o'r geiriadur mewn cyfnodau gwahanol ac na chafodd y cyfle i adolygu arddull y gwaith gorffenedig. Nodwedd arall sydd bron yn cadarnhau hyn yw'r ffurfiau berfol yn yr amser gorffennol a gyflwynir, megis:

Mistook, pret. of *mistake*, camsyniodd

Overtook, pret. of *overtake*, goddiweddodd

Maent yn absennol ar ddechrau'r geiriadur, ond ceir ambell gofnod tua'r canol ac maent yn dipyn mwy niferus unwaith y cyrhaeddir y llythyren 's' lle ceir cofnodion am *'said'*, *'sang'*, *'sank'*, *'sat'*, *'shone'*, *'shook'* a *'slept'* er enghraifft.

Ar y cyfan ychydig iawn o idiomau sydd yn y gyfrol hon er bod modd dod ar draws cofnodion fel *'chew the cud'*, *'addle egg'* a *'marginal note'* (o dan *'chew'*,

'*egg*' a '*margin*') o bryd i'w gilydd. Fel nifer o eiriadurwyr eraill, mae gan Tomos Glyn Cothi gyfeiriadau at y Beibl, er enghraifft:

Climax, s. gradd-esgyniaith. Gwel esampl yn 1 Cor. iii. 22, 23

Millet, s. planhigyn; Ezec. iv. 9

Pompion, s. pompiwn. Num. xi. 5

Slave-trade, s. masnach caeth-weision : *gwaradwydd dynoliaeth, a nod Anghristiaeth o* Dat. xviii. 13

ac ychwanegodd esboniad byr ar rai prifeiriau megis 'antonomasia' a 'millennium':

Antonomasia, s. ffurf o lafaru lle yr arferir rhagoriaeth neillduol un yn lle ei enw, megis yr Areithiwr yn lle *Cicero*.

Millennium, s. y mil blynyddoedd y bydd i Grist, yn ol barn rhai, deyrnasu ar y ddaear wedi ei ail ddyfodiad, ac adgyfodiad y cyfiawnion, cyn yr adgyfodiad cyffredinol. Gwel Dat xx.

Yn wir, fe welir o edrych ar yr enghreifftiau a ganlyn, na chynigir Cymraeg cyfatebol bob amser, esboniad yn unig a geir.

Alchymy, s. y gelfyddyd o newid anian metteloedd.

Charles's-wain, s. y saith seren ogleddol, a elwir *Pliades*.

Ebony, s. pren du caled o'r India.

Marigold, s. blodeuyn adnabyddus.

Puncheon, s. gwlyb fesur 84 galwyn.

Sprucebeer, s. diod wedi blasu gan gangau ffynnidwydd.

Tun, s. mesur 252 galwyn.

Dyma wendid a barhaodd mewn geiriaduron Saesneg-Cymreg ac fe welir *Y Geiriadur Mawr* yn syrthio i'r gwendid hwn weithiau![51] Mae'n werth tynnu sylw at un cofnod yn arbennig, gan ystyried hefyd arwyddocâd y gair olaf, 'gynt':

Bastile, s. teyrn-garchar Ffraingc gynt.

---

[50] At y Darllenydd' yn Thomas Evans, op. cit.

[51] H. Meurig Evans a W. O. Thomas, *Y Geiriadur Mawr. The Complete Welsh-English English-Welsh Dictionary* (Llandysul, 1958).

Fan hyn a fan draw, deuir ar draws ambell gofnod annisgwyl yn y geiriadur. Yn ei nodyn 'At y Darllenydd', mae Tomos Glyn Cothi yn honni bod y gyfrol yn cynnwys nifer o brifeiriau nas gwelwyd mewn unrhyw eiriadur Saesneg-Cymraeg a fodolai eisoes. Tybed a ydyw'n cyfeirio at y cofnodion sydd ganddo am ddarnau arian gwahanol? Ymddengys cofnodion unigol ar gyfer: Ducat, Byzant, Florin, Louis d'or, Moidore, Noble, Patacoon, Pistole, Rixdollar, Rosenoble, Roseroyal, Rupee, Ryal a Shekel ac fel arfer, mae wedi cofnodi gwerth pob un yn ofalus. Efallai mai cyfeirio at y cofnodion am anifeiliaid o bob math y mae. Pwy ddychmygai y gellid dod o hyd i'r cofnodion a ganlyn mewn geiriadur a gyhoeddwyd yng Nghymru ar ddechrau'r bedwaredd ganrif at bymtheg?

Crocodile, s. crocdil; bwystfil ysglyfaethus ofnadwy, tebyg i fadfall neu bedair chwilen, ond o faint anferthol : y mae'n byw ar y tir ac yn y dwfr.

Macaw, s. aderyn o'r Gorllewinhol India

Rackoon, s. anifail mericanaidd

Rattoon, s. llwynog perthynol i'r India Orllewinol

Rhinoceros, s. yr anifail durun gorn, anifail trwyn gorniog

Salamander, s. bwystfil tebyg i'r genau goeg, pry'r tan

Tarantula, s. corryn gwenwynig

Wedi dweud hyn, ysgrifennodd Williams Pantycelyn *Crocodil afon yr Aipht*,[52] ymddangosodd lluniau o'r rhinoseros a'r racŵn ar blatiau a dysglau a gynhyrchwyd yn ystod y cyfnod hwn[53] ac 'roedd y sŵau a'r syrcasau teithio wedi cyfareddu llawer o bobl.[54] O bryd i'w gilydd, dengys Tomos Glyn Cothi ei wybodaeth am fwydydd tramor hefyd, trwy gynnwys cofnodion am bethau megis 'potargo' (sef 'cyffaith o'r India orllewinol', meddai) a phupur o Jamaica o'r enw 'pimenta'.

---

[52] William Williams, *Crocodil, afon yr Aipht, wedi ei weled ar Fynydd Seion : sef, cenfigen, wedi ei holrhain trwy'r byd a'r eglwys : tan gyffelybiaeth bwystfil gormesol yr anialwch, mor afluniaidd a gwenwynig ei natur ag un o fwystfilod y pwll* (Caerfyrddin, 1767).

[53] A. W. Coysh & R. K. Henrywood, *Dictionary of Blue and White Printed pottery 1780 - 1881 Volume I* (Woodbridge, 1982), Cyfrol I, t.293.

[54] Tony Curtis (gol.), *Everyday Collectables - China* (Llundain, 1990).

Nid ystyrir Tomos Glyn Cothi yn fathwr geiriau. Serch hynny, deuir ar draws ambell gofnod y gellir tybio ei fod yn fathiad o eiddo Tomos. Fel y gwelir, braidd yn amheus ydynt:

Cutter, s. ysgafn-fuan-long; torwr

Fricasse, s. man-foethus-fwyd

Greeze, s. rhes-o-gamrau, grisiau

Penknife, s. pin-ysgrif-gyllell

Pocket-glass, s. cod-wydr-ddrych

Profile, s. ystlys-wyneb-lun

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

## (iii)

## Evan Jones (d.d.)

Mae cryn ddirgelwch yn perthyn i'r geiriadur Cymraeg-Saesneg a gyhoeddwyd yn Heol-y-Prior, Caerfyrddin ym 1823.[55] Yn ôl y manylion a geir ar yr wyneb-ddalen gŵr o'r enw Evan Jones fu'n gyfrifol am lunio a chyhoeddi'r gwaith, eithr ni wyddys odid ddim o'i hanes ef na'i argraffdy. Fe'i gwerthwyd mewn sawl tref yn ne Cymru - yng Nghaerdydd, Merthyr, Tredegar, Aberhonddu, Aberystwyth, Llanymddyfri, Aberteifi, Hwlffordd a Llanbedr - ac 'roedd hefyd ar gael yn Ninbych gan Thomas Gee, yn West Smithfield ac yn Llundain. Yn y Rhagymadrodd disgrifir y geiriadur:

> ... fel cyfattebiad a chydymaith i'r cyhoeddiad bychan o EIRIADUR SAESONEG A CHYMRAEG DR. WILLIAM RICHARDS.

Cyhoeddwyd geiriadur gwreiddiol William Richards ym 1798.[56] Yn ei ddydd, bu hwn yn waith poblogaidd. Ymddangosodd ail a thrydydd argraffiad ohono:

> ... revised and corrected with considerable additions marked with an apostrophe ...

o wasg Evan Jones, Caerfyrddin, ym 1821 a 1828 ac amcangyfrifir iddo gael ei adargraffu fwy na phump o weithiau i gyd.[57] 'Roedd William Richards wedi bwriadu cyhoeddi geiriadur Cymraeg-Saesneg wrth gwrs, ond rywsut ni lwyddodd i gyflawni'r bwriad hwnnw. Ni ellir ond tybio felly bod Evan Jones - o wybod pa mor boblogaidd oedd cyfrol Richards - wedi sylweddoli y byddai cael 'cyfattebiad a chydymaith' Cymraeg-Saesneg iddi yn syniad buddiol a'i fod wedi mynd ati i lunio'r gwaith ar ei liwt ei hun.

Bwriad Evan Jones oedd creu geiriadur cynhwysfawr ond bychan a ellid ei werthu am bris rhesymol. Hyderai y byddai'r 'arweinydd byr' hwn yn fuddiol:

> er deall ystyr y geiriau anghynnefin a welir mor aml y'mhob Cymraeg pûr y'ngwaith prydyddion ac ysgrifenwyr rhyddiaith

---

[55] Evan Jones, *Welsh and English Dictionary. Geiriadur Cymraeg a Saesoneg; Gwedi ei gorpholi yn ofalus o'r Geiriaduron mwyaf cynnwysfawr a chymeradwy. Ac wedi ei fwriadu fel Llogell-Gydymaith, i'r Ieuenctid Ymofyngar* (Caerfyrddin, 1823).

[56] William Richards, op. cit.

[57] Gw. R. E. Hughes, 'Aspects of Welsh Lexicography in the Nineteenth Century with special reference to the contribution of Daniel Silvan Evans'. (Traethawd MA anghyhoeddedig Prifysgol Lerpwl, 1941), t.36.

WELSH AND ENGLISH DICTIONARY.

# GEIRIADUR
# CYMRAEG A SAESONEG;

Gwedi ei gorpholi yn ofalus

O'R GEIRIADURAU MWYAF CYNNWYSFAWR

*A CHYMMERADWY:*

Ac wedi ei fwriadu fel

## LLOGELL-GYDYMAITH

I'R IEUENCTYD YMOFYNGAR.

"Llawer mewn ychydig ac am ychydig."

*CAERFYRDDIN:*

ARGRAFFWYD AC AR WERTH GAN EVAN JONES,

Ac ar werth hefyd

E. WILLIAMS, ABERYSTWYTH; T. PRICE, MERTHYR TYDFIL; D. R. REES, LLANYMDDYFRI; W. BIRD, CAERDYDD; R. JONES, DOLGELLAU; J. a C. EVANS, LLUNDAIN; F. PAGG; J. HARRIS; H. GRIFFITH; a D. JENKIN, ABERTAWY.

1823.

14. Evan Jones, *Welsh and English Dictionary* ... (1823)

ac yn gymorth i'r rhai a ddymunai siarad ac ysgrifennu'r ddwy iaith yn eglur a chywir. Tua 30,000 o brifeiriau sydd yn y geiriadur. Er ei fod yn fwy na rhai o'r geiriaduron eraill a gyhoeddwyd eisoes, go brin bod yr honiad a wna Evan Jones sef ei fod yn cynnwys cannoedd o eiriau Cymraeg nad oeddent mewn geiriaduron mwy eu maint, yn wir. Cofnodion syml iawn a geir ynddo. Nodir y prifair Cymraeg, y rhan ymadrodd a hyd at dri chyfieithiad Saesneg. Mae'n cynnwys rhai cyfeiriadau at y Beibl, er enghraifft:

Dyledwr, s.m. a debtor. Luc 7.41

ond ni cheir mwy na thua dwsin yng nghorff y geiriadur. Ar y cyfan, prin yw'r isgofnodion. Yr eithriad yw'r cofnod am 'ceiliog', lle mae'n nodi'r Saesneg ar gyfer 'ceiliog coed', 'ceiliog dû', 'geiliog-gwynt', ceiliog-mwyalch', 'ceiliog bronfraith', 'ceiliog-hwyad', 'ceiliog rhedyn' a 'ceiliog-neidr'. Weithiau, fel y gwelir yn yr enghreifftiau a ganlyn, nid yw'n dangos cyfieithiad Saesneg nac esboniad ar eu cyfer:

Padell, s.f. a pan. *Padell glin.*

Sebon, s.m.soap. *Agalen o sebon.*

Daeth yr ail argraffiad o wasg Evan Jones ym 1832 ac mae'n debyg bod argraffiadau pellach wedi ymddangos - ym 1850 o wasg H. Jones, Llangollen ac ym 1861 o wasg R. Hughes, Wrexham.[58] Ym 1861 hefyd, cyhoeddwyd argraffiad diwygiedig arall o eiriadur Saesneg-Cymraeg William Richards gyda dau ragymadrodd ac ochr Gymraeg-Saesneg.[59] Er nad yw enw Evan Jones yn ymddangos yn unman mae rhagymadrodd a chynnwys yr ochr 'newydd' yn debyg i ragymadrodd a chynnwys y gyfrol a gyhoeddwyd ym 1823 felly mae'n bosib iawn mai ef fu'n gyfrifol am eu llunio.

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

[58] R. E. Hughes, op. cit., t.199.

[59] William Richards, *A Pocket Dictionary. Welsh-English. Geiriadur Llogell Cymraeg a Saesoneg, wedi ei Adolygu, ei ddiwygio, a'i helaethu gan W. Richards, LL.D.* (Wrexham, 1861).

## (iv)

## Edward Williams (Iolo Fardd Glas, c. 1770 - 1856)

Ychydig ffeithiau sydd gennym am hanes bywyd a gweithgarwch llenyddol Edward Williams. Tybir iddo gael ei eni tua 1770 ym Morgannwg ac iddo weithio fel cylchwr yn y Bontfaen tan ei farwolaeth tua 1856.[60] Ni dderbyniodd fawr ddim addysg ond yn ôl y sôn dysgodd y grefft o farddoni tra'n ddisgybl i Iolo Morganwg.[61] Daeth Williams yn adnabyddus fel Iolo Fardd Glas, Bardd Glas Morgannwg neu Iolo ap Iorwerth Gwilym a gwyddys iddo gyhoeddi tair cyfrol o'i gerddi, sef *Cyfaill y Cymru*, *Gwaedd uwch adwedd* a *Perllan Gwent*.[62]

Fe all y cysylltiad rhwng Iolo Morganwg a Iolo Fardd Glas fod yn arwyddocaol. Fel yn achos Tomos Glyn Cothi, mae'n bosib mai Iolo Morganwg a'i hysbrydolodd yntau i lunio'i eiriadur.[63] Wrth weld cymaint o ddeunyddiau'n cael eu cynhyrchu mewn ieithoedd eraill, bu Iolo Fardd Glas yn disgwyl i rywun gyfansoddi geiriadur Cymraeg yn ystod ei ieuenctid ond dywed na wireddwyd y dymuniad hwnnw. Mae rhagymadrodd y *Cyneirlyfr* yn dilyn patrwm y rhagymadrodd traddodiadol, hynny yw mae'n enwi cymwynaswyr y Gymraeg ac yn olrhain ychydig o hanes y geiriaduron a'r gramadegau a gyhoeddwyd eisoes. Mae'n crybwyll Gwilym Salisburi, Dr Dafis a Tomos ap Gwilym wrth gwrs, Dr Morgan, Dr Dafydd Powel, Ioan Dafydd Rhys, Henri Peri a Henri Salisburi yn ogystal â'r Parchn. Thomas Richards, William Evans, Ioan Walter, William Richards a Dr William Owain Pugh. Serch hynny, ni chyfansoddodd yr un ohonynt waith tebyg i'r *Cyneirlyfr*, sef:

---

[60] Rowlands, William *Llyfryddiaeth y Cymry: yn cynnwys hanes y llyfrau a gyhoeddwyd yn yr iaith Gymraeg, ac mewn perthynas i Gymru a'i thrigolion, o'r flwyddyn 1546 hyd y flwyddyn 1800 ... Gyda chwanegion a chywiriadau gan y Parch. D. Silvan Evans* (Llanidloes, 1869), t.679.

[61] Ibid.

[62] Iolo ap Iorwerth Gwilym, *Cyfaill y Cymru, sef Englynion, Cywyddau â Chaniadau newyddion; ar amryw Desdynau a Mesyrau, Y Rhan Gyntaf* (Caerdydd, 1792). Cyhoeddwyd yr ail ran yn dwyn amrywiad ar y teitl, *Cyfaill y Cymry*, yng Nghaerfyrddin ym 1799.
Iolo Fardd Glas, *Gwaedd uwch adwedd : barddoniaeth ar y testunau canlynol: I. Awdl ar raglywiaeth Ei fawrhydi y Brenin Sior IV ...; II. Cywydd ar ddymchweliad yr Aifftiaid yn y Môr Coch; III. Cywydd ar destyn y Gwyneddigion ...; IV. Englynion ar yr enfys ...; V. Englynion i Syr Charles Morgan ...* (Abertawe, 1823).
Edward Williams, *Perllan Gwent, sef awdlau, englynion &c ...* (Pontyfon, 1839).

[63] Edward Williams, *Cyneirlyfr, neu Eiriadur Cymraeg; yn cynnwys, Tadogiad Geiriau, Rheolau Barddoniaeth, Hanes Enwogion Cymru, Darluniad Byr o Wledydd, Dinasoedd, Trefydd, Swyddi, Moroedd, Llynoedd, Afonydd, Mynyddoedd, Ogofau, Hynafiaethau Cymreig &c. &c. At yr hyn y chwanegwyd Llysieudraith, ynghyd a'r diarhebion Cymreig wedi eu hesbonio* (Aberhonddu, 1826).

> Geiriadur Cymraeg, ynghyd ag agoriad meddwl pob gair yn Gymraeg ...[64]

Ar ôl sylweddoli nad oedd unrhyw un arall yn barod i ymgymryd â'r dasg o greu geiriadur Cymraeg-Cymraeg, dechreuodd Iolo ar y dasg ei hun tua 1805.

Cyhoeddwyd y rhan gyntaf tua 1823 gan W. Williams, Aberhonddu ac fe'i cyflwynwyd i Syr Charles Morgan, Aelod Seneddol Tredegar a llywydd Cambrian Society Gwent. Ymddengys na phlesiai'r gyfrol ambell un a'i prynodd. Cwynodd 'Gwilym ab Gwilym' ar dudalennau *Seren Gomer* nad ymddangosai rhai o'r geiriau yn nhrefn yr wyddor.[65] Pe bai'r rhan gyntaf yn cael ei hadolygu a'i hadargraffu fe'i prynai am yr eildro, meddai, ac fe losgai'r copi gwreiddiol! Mae Iolo ei hun yn cyfaddef yn y rhagymadrodd bod nifer wedi beirniadu'r gwaith. Ni ddywed yn blaen beth oedd y gwyn yn ei erbyn, ond fe'i brifwyd mae'n amlwg:

> ... wedi i mi ddechreu cyhoeddi fy ngwaith, a dysgwyl cael cymmeradwyaeth a chynnorthwy fy nghyfeillion goreu, dyna'r pryd y gorfu i mi ddechreu milwrio; a'r milwyr glew, ag oeddwn yn meddwl os i faes y frwydr y buaswn yn gorfod wynebu, y buasai y rhai hyny o fy mhlaid, ond yn groes i'm disgwyliad, y rhai oedd anwyl genyf, a ddechreuodd gyntaf saethu fy maner fechan ...

Yn ôl pwt o hanes a ymddangosodd yn *Seren Gomer*, dioddefodd Iolo golled ariannol yn sgil cyhoeddi'r *Cyneirlyfr*.[66] Ar ôl treulio ugain mlynedd yn paratoi'r gwaith, dywedir ei fod wedi:

> ... cyfarfod â'r fath anhawsderau anorfod wrth ymdrechu ei gael trwy y wasg, fel y gorfu arno werthu ei hawl yn ei gyfansoddiad am ychydig o lyfrau; a da oedd iddo gael cyfaill i wneuthyr hyny ag ef, onidê buasai wedi ei ddwyn i ddwfn dlodi!

Er gwaethaf pob beirniadaeth a phob anhawster, ni pheidiodd brwdfrydedd Iolo. Parhaodd W. Williams i argraffu'r gwaith ac ym 1826 daeth yr ail ran o'r wasg.

Mae'r hyn sydd gan Iolo i'w ddweud am gyflwr a dyfodol y Gymraeg yn debyg iawn i'r syniadau a fynegodd Titus Lewis yn ei ragymadrodd ef.[67] Trwy ymdrech yr Ysgolion Sul a'r Cymdeithasau Cymreig, meddai, 'roedd y nifer a goleddai'r

---

[64] 'Rhagymadrodd', op. cit.
[65] *Seren Gomer*, (1823), t.145.
[66] *Seren Gomer*, (1828), t.337.
[67] Titus Lewis, op. cit.

# CYNEIRLYFR:

NEU,

# EIRIADUR CYMRAEG:

YN CYNNWYS,

TADOGIAD GEIRIAU, RHEOLAU BARDDONIAETH, HANES ENWOGION CYMRU, DARLUNIAD BYR OWLEDYDD, DINASOEDD, TREFYDD, SWYDDI, MOROEDD, LLYNOEDD, AFONYDD, MYNYDDOEDD, OGOFAU; HYNAFIAETHAU CYMREIG, &c. &c.

*At yr hyn y chwanegwyd*

## LLYSIEUDRAITH,

YNGHYD A'R

DIAREBION CYMREIG WEDI EU HESBONIO.

GAN

*EDWARD WILLIAMS,*

BARDD GLAS MORGANWG.

CYFLYFR I.

ABERHONDDU:

ARGRAFFEDIG GAN WILLIAM WILLIAMS,

*(perchen y gwaith.)*

1826.

15. Edward Williams, *Cyneirlyfr: neu Eiriadur Cymraeg* ...(1826)

iaith yn cynyddu ond gallai'r sefyllfa wella eto pe bai'r Cymry'n gwneud dau beth. Yn gyntaf, dylai'r Cymry ddysgu Cymraeg i'w plant cyn iddynt ddysgu Saesneg. Yn ail, mae'n apelio:

> ... ar i holl hîl Gomer, bonedd a gwreng, agoryd llygaid eu hymbwyll i weled y gwarth caethwasaidd y sydd o arferyd siarad iaith estronawl efo eu gilydd.

Tua 27,500 prifair sydd yn y geiriadur a chydag adran ar 'Y Diarebion Cymreig' ar y diwedd ynghyd â 'Llysieudraith' mae'r gwaith, yn ei grynswth, yn fwy na mil o dudalennau. Nodir rhan ymadrodd a chyfystyron Cymraeg ar gyfer pob prifair ac yn amlach na pheidio nodir cyfieithiad Saesneg hefyd. Yn y rhagymadrodd, ceir rhestr o'r talfyriadau a ddefnyddir a'r ieithoedd y cyfeirir atynt, sef Groeg, Hebraeg, Lladin, Arabeg, Ffrangeg, Gwyddeleg, Saesneg, Cernyweg a Llydaweg. Mae'r gyfrol yn frith o gyfeiriadur Beiblaidd ond dywed Iolo nad oedd angen esboniad ar dalfyriadau'r Ysgrythur am eu bod mor adnabyddus.

Mewn gwirionedd mae'r *Cyneirlyfr* yn debycach i wyddoniadur na geiriadur. Mae'n werth nodi'r teitl yn llawn oherwydd rhydd i ni syniad go lew o natur y cynnwys: *Cyneirlyfr, neu Eiriadur Cymraeg; yn cynnwys, Tadogiad Geiriau, Rheolau Barddoniaeth, Hanes Enwogion Cymru, Darluniad Byr o Wledydd, Dinasoedd, Trefydd, Swyddi, Moroedd, Llynoedd, Afonydd, Mynyddoedd, Ogofau, Hynafiaethau Cymreig &c* ... Gan fod Iolo'n awyddus i olrhain hanes ac egluro a chan fod tuedd ganddo i grwydro, mae llawer o'i gofnodion yn llenwi mwy nag un golofn ac mae ambell gofnod yn hawlio sawl tudalen. O dan y prifair 'cyfallwy' er enghraifft, try i sôn am Orsedd Beirdd Ynys Prydain ac fe welir copi o'r gwahoddiad a roddodd Iolo Morganwg i Feirdd Ynys Prydain ym 1797. Mae'r cofnod am 'goleuad' yn cynnwys dau dabl neu 'lechres', un yn dangos:

> ... pellder Lleuadau Iau, oddiwrth ganol-bwynt ei chorph, a'r amser y maent yn gymeryd i'w hamgylchu

a'r llall yn dangos yr un peth am 'Leuadau Sadwrn'. Eto o dan 'goruchelion' (*meteors*), fe geir:

> Llechres o drwch ac amgylchiad y Planedau

Fel y soniwyd eisoes, dyma'r geiriadur Cymraeg-Cymraeg cyntaf ac yn hynny o beth mae'n rhaid ei ystyried yn waith arloesol ond rhaid pwysleisio hefyd nad gwaith cwbl newydd a chwbl wreiddiol ydyw. Yr hyn a wnaeth Iolo, mwy neu lai, oedd casglu tameidiau o wybodaeth o ffynonellau eraill a chlytio'r tameidiau hynny at ei gilydd i greu'r *Cyneirlyfr*. Bu'n elwa ar gynnwys geiriaduron printiedig wrth reswm a gwnaeth gryn ddefnydd o Gyfraith Hywel Dda, *Geiriadur Ysgrythyrawl* Thomas Charles[68] a nifer o lyfrau hanes, yn arbennig *Drych y Prif Oesoedd*.[69] Y ddau eiriadur y gwnaeth y defnydd helaethaf ohonynt oedd *Antiquae linguae Britannicae thesaurus* Thomas Richards[70] a *Geirlyfr Cymraeg a Saesneg* Titus Lewis.[71] Codwyd yr enghreifftiau a ganlyn o'r tri geiriadur. O'u cymharu, gellir gweld i ba raddau y dibynnodd Iolo ar waith ei ragflaenwyr:

| ANTIQUAE LINGUAE BRITANNICAE THESAURUS (1812) | CYNEIRLYFR (1826) |
|---|---|
| Buan, *a.* swift, nimble, quick, fast. So in Arm. Ir. Boan. Hence Mr. Camden thinks the *Boyn*, a noble river in Ireland, had its name, being so called from its rapid stream; a river famous for the battle fought on the banks of it between king William and king James, on the first of July, 1690 | Buan, e.g. clau, esgud, chwimwth, cyflym, heini; S. *swift*; Gw. *boan*. Mae Mr. *Camden* yn dywedyd am afon yn Iwerddon, a elwir *boyn*, neu boan, am ei buander yn llifo: ar lan yr afon hono y bu brwydr waedlyd rhwng y brenhinoedd William a Iago, ar y dydd cyntaf o Gorphenaf 1690 |
| Gorchuddio, *v.* to cover, to hide. q. d. to cover above: from *Gor* and *Cuddio*. Some write it *Gorchguddio*, but not rightly. 'Merch weddw heb ymorchuddiaw.' T.A. 'Och Dduw deg orchuddio ei dâl.' L.G. | Gorchuddio, b.w. cuddio, anhuddo neu gaead oddiarno; o *goruwch* a *chudd*. Mae rhai yn ysgrifenu *gorchguddio*, eithr nid yw hyny yn iawn gyfansoddiad:<br>Merch weddw heb ymorchuddiaw.<br>Tudur Alled.<br>Och Dduw deg orchuddio ei dâl.<br>Llywelin Glyn Cothi. |
| Milrhith, *s.* the young of any creature in the matrice, the foetus | Milrith, e.c. milrhith, unrhyw anifail newydd rithio; the young of any creature in the matrice, the foetus |
| Tymp, *s.* the time of child-birth. Accordign to the origin of the word, which is from the Latin *Tempus*, it might signify time in general | Tymp, e.c. amser genedigaeth, amser esgor, amser dechreuad; birth time. Yn ôl tadogaeth y gair, yr hwn sydd o'r Llad. *Tempus*; mae yn arwyddo amser, neu adeg; time in general |

| A WELSH-ENGLISH DICTIONARY (1805) | CYNEIRLYFR (1826) |
|---|---|
| *Dewyr*, *Deira*, Durham; a county in England, commonly called the bishoprick of *Durham*, 35 miles in length, and 31 in breadth. It contains 113 parishes, and 9 market towns; it sends two members to parliament. The city of *Durham* is the capital of the | Dewyr, e.c. deira, neu *Durham*, swydd neu dir yn Lloegr, 35 o filldiroedd o hyd a 31 o led, yn cynwys 113 o bwlyfydd, a 9 tref marchnad, yn anfon dau gynrychiolwr i'r Sennedd. *Dewyr* yw prifddinas y sir, ac yn ddinas esgobaethol, ac ynthi 6 eglwys blwyfol, heblaw yr eglwys |

[68] Thomas Charles, *Geiriadur Ysgrythyrawl* (Bala, 1801 - 11).
[69] Theophilus Evans, *Drych y Prif Oesoedd* (Amwythig, 1761).
[70] Thomas Richards, op. cit.
[71] Titus Lewis, op. cit.

| | |
|---|---|
| bishoprick. It is a bishop see, an hansome and compact place, containing 6 parish churches, besides its cathedral, which is somewhat like Westminster Abbey | gadeiriol, yr hon sydd yn tebygoli mewn adeiladaeth, i'r *Orllewinol Fonachlys* |
| *Ebal*, (cruglwyth o hynafiaeth) a heap of antiquity. A celebrated mountain in the tribe of Ephraim, opposite to mount Gerizim, where the curses against those who obeyed not the law, were denounced. Deut. 11.29. This happened, A.M. 2553 | Ebal, e.c. cruglwyth o hynafiaeth, mynydd enwog yn llwyth neu randir Ephraim, ar gyfer *Gerizim*, lle y cyhoeddwyd y felldith yn erbyn y rhai na ufuddhasant i'r Gyfraith: hyn a fu yn y flwyddyn oed y byd, 2533, Deut. 11.29 |

Yn union fel y gwnaeth John Davies,[72] Thomas Richards a William Owen Pughe,[73] noddodd Iolo ddyfyniadau llenyddol yn ei waith yntau. Mae'r rhan fwyaf o'r dyfyniadau sydd ganddo yn ymddangos yng ngeiriaduron Richards a Pughe ond o bryd i'w gilydd deuir ar draws dyfyniad cwbl newydd yn y *Cyneirlyfr*. Ar ddiwedd y geiriadur ceir rhestr o'r diarhebion a ymddangosodd yng ngwaith Davies a Richards, gydag esboniad ar bob un gan Iolo. Ceir yn ogystal y 'Llysieudraith' sef 'Llysieulyfr' Cymraeg-Saesneg Richards gyda mân newidiadau.

Ni ddylid gorfeirniadu Iolo am ddibynnu cymaint ar weithiau eraill. Wedi'r cyfan onid seilio'i eiriadur ar waith ei ragflaenwyr a wnaeth pob geiriadurwr ar hyd y canrifoedd? Eto, wrth i'r geiriadurwyr ymdrechu i wella ar yr hyn a fodolai eisoes, mae rhyw newydd-deb yn perthyn i bob cyhoeddiad fel arfer. Mae'r *Cyneirlyfr* yn cynnwys stôr o wybodaeth, ond heblaw am y doreth esboniadau ychydig iawn o elfennau newydd sy'n perthyn i'r gyfrol ac felly nid yw'n hawdd synied amdani fel datblygiad neu gam ymlaen yn hanes geiriaduraeth. Prin yw'r idiomau a'r bathiadau newydd sydd ynddi, er bod mwy o idiomau'n ymddangos yn ail ran y gwaith. Gwell gan Iolo oedd cadw at y rysáit ddibynadwy honno a oedd yn gofyn am gynhwysion traddodiadol wrth lunio geiriadur: dyfyniadau llenyddol, geiriau anarferedig, deunydd tarddiadol, rhestr o ddiarhebion, llysieulyfr.

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

[72] John Davies, *Antiquae linguae Britannicae ... et linguae Latinae, dictionarium duplex* (Llundain, 1632).
[73] William Owen, *Geiriadur Cynmraeg a Saesoneg: A Welsh and English Dictionary ... to which is prefixed a Welsh Grammar* (Llundain, 1793-1803).

## (v)
## Thomas Roberts (1765/6 - 1841)

Gadawodd Thomas Roberts blwyf Abererch, Sir Gaernarfon tua 1779, pan oedd yn llanc ifanc ac ymsefydlodd yn Llundain lle y bwriodd ei brentisiaeth fel eurof.[74] Sefydlodd ei fusnes ei hun yno ac yn ddiweddarach bu'n bartner mewn sawl cwmni gofaint aur arall. Daeth Thomas Roberts yn rhan o'r 'byd' Cymreig a fodolai yn Llundain yn ystod y cyfnod hwn. Bu'n aelod blaenllaw o Gymdeithas y Gwyneddigion am dros ddeng mlynedd ar hugain ac fe'i hetholwyd ef yn drysorydd, yn is-lywydd, yn llywydd ac yn ysgrifennydd. Yn 1794, ffurfiwyd cymdeithas wladgarol newydd yn Llundain, sef Cymdeithas y Cymreigyddion. Prif sylfaenwyr y gymdeithas hon oedd John Jones, Glan-y-gors a Thomas Roberts, dau a oedd yn enwog yn eu dydd am goleddu syniadau Radicalaidd cryf ac am gydymdeimlo â'r Chwyldro Ffrengig.[75] Sefydlwyd Cymdeithas y Cymreigyddion fel cymdeithas ddadlau a than ddylanwad y ddau ŵr hyn rhoddid lle amlwg yn y cyfarfodydd i ddadleuon ar ddiwygiadau cymdeithasol a gwleidyddol.

Cyhoeddiad cyntaf a chyhoeddiad enwocaf Thomas Roberts, oedd pamffled yn dwyn y teitl *Cwyn yn erbyn gorthrymder*, yn ymosod ar offeiriaid, meddygon a chyfreithwyr.[76] Ysgrifennwyd y pamffled tan ddylanwad y Chwyldro Ffrengig a thrwy watwar Esgobion Seisnig ac offeiriaid am hawlio pob ceiniog o'r degwm, bwriad Thomas Roberts oedd cymell diwygio cyfundrefn eglwysig y wlad. Ym 1806, cyhoeddodd bamffled arall, dan yr enw 'Arvonius', yn amddiffyn y Methodistiaid rhag ymosodiad ffyrnig Edward Charles yn *Epistolau Cymraeg at y Cymry*.[77] Cyhoeddodd hefyd gyfieithiad o waith Isaac Watts[78] ac addasiad o *Poor Richard's Almanack* gan Benjamin Franklin.[79]

---

[74] Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), op. cit., t.827.
[75] R. T. Jenkins, *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd, 1933).
[76] Thomas Roberts, *Cwyn yn erbyn gorthrymder, yn ghyd a sylwiadau ar hawl esgobion, a'u gweinidogion i ddegymau, etc...* (Llundain, 1798).
[77] Thomas Roberts, *Amddiffyniad y Methodistiaid: neu, ychydig sylwiadau ar epistolau enllibus Edward Charles at y Cymry ...* (Caerfyrddin, 1806).
Edward Charles, *Epistolau Cymraeg at y Cymry ...* (Llundain, 1797).
[78] Thomas Roberts, *Y Byd a ddaw : neu sylwadau ar lawenydd a thristwch yr eneidiau ymadawol yn angau ... gan Isaac Watts ...* (Llundain, d.d.).
[79] Thomas Roberts, *Y Ffordd i Gaffael Cyfoeth neu Rhisiart Druan* (Llundain, 1839).

Lluniodd Thomas Roberts y *Geiriadur Saesneg a Chymraeg* i gynorthwyo'r Saeson a oedd yn ymweld â Chymru i ddeall Cymraeg.[80] Yn ddiweddarach, lluniodd lyfr brawddegau, *The Welsh Interpreter*, i'r un pwrpas.[81] Dywed yn y rhagymadrodd y gallai'r geiriadur gynorthwyo'r Cymry i berffeithio'u dealltwriaeth o'r ddwy iaith ond gan mai yn Llundain yn unig y'i gwerthwyd, mae'n bosib na ddosbarthwyd llawer o gopïau yng Nghymru. Dywed hefyd y byddai o ddefnydd:

> ... in the minor English schools in the Principality

oherwydd trefnasai'r cynnwys yn adrannau gwahanol fel y gallai disgyblion yng Nghymru a Lloegr ddysgu'r ddwy iaith ar yr un pryd. Gan na wyddai am eiriadur Cymraeg a Saesneg o'r fath, 'roedd Thomas Roberts yn disgwyl i wŷr bonheddig a'r werin brynu'r gyfrol. Ymddengys felly nad oedd yn ymwybodol o fodolaeth Vocabulary Tomos Glyn Cothi, sy'n ddigon tebyg o ran maint a chynnwys i'w eiriadur ef.[82] Llenwi bwlch oedd un o brif amcanion Thomas Roberts, ond fel pob geiriadurwr arall 'roedd yn awyddus i ganmol ac i ddangos cyfoeth y Gymraeg gan fanteisio ar y cyfle i wneud hynny yn y rhagymadrodd. Dywed ei bod hi'n haeddu sylw ieithegwyr dros y byd i gyd oherwydd:

> ... it will be found, upon examination, to be as copious, expressive, and independent, as any language in Europe ...

'Roedd dysgedigion yn rhoi sylw haeddiannol i'r Gymraeg ac fe wnâi llawer o Gymry hynny trwy gefnogi'r Eisteddfodau a'r Cymdeithasau Cymreig. Er mwyn dangos sut yr amddiffynnwyd yr iaith yn y gorffennol a sut y dylid ei chefnogi, ei choleddu a'i meithrin, mae'n cynnwys crynodeb o drafodion Cymdeithas y Cymmrodorion ac mae'n dyfynnu'r cyfieithiad Saesneg o eiriau Paul-Yves Pezron yn *Antiquité de la Nation et de la Langue des Celtes.*[83]

Mae'n bosib bod Thomas Roberts wedi cael ei ysbrydoli i lunio geiriadur tra'n teithio dramor ar ran cwmnïau gofaint aur. Tybed a ddaeth ef yn fwy

---

[80] Thomas Roberts, *Geiriadur Saesneg a Chymraeg; neu, Arweinydd Hawdd Hen Brydein-iaith; yn cynnwys deunaw o ymddyddanion teuluaidd, ar amrywiol destynau ...* (Llundain, 1827).
[81] Thomas Roberts, *The Welsh Interpreter* (Llundain, 1831).
[82] Thomas Evans, *An English and Welch vocabulary* ... op. cit.
[83] Paul Yves Pezron, *The Antiquities of Nations, more particularly of the Celtae or Gauls, taken to be originally the same people as our ancient Britons* (Llundain, 1706).

ymwybodol o anghenion dysgwyr pan ymwelodd â Jersey a Llydaw ym 1820? Cafodd gyfle arall i fynd dramor ym 1821. Aeth i Ghent ac aros yno tan ddechrau 1823. Cyhoeddwyd y geiriadur, sy'n cynnwys oddeutu 1,700 prifair, ym 1827. Casglwyd enwau bron i bedwar cant o danysgrifwyr o flaen llaw, yn eu plith gwelir enwau sawl Aelod Seneddol a'r Parch. John Elias.

Ar ddechrau'r gyfrol ceir adran ar yr Wyddor Gymraeg gyda chyfarwyddiadau sut i ynganu pob llythyren. Wedyn, ymdrinnir â'r cytseiniaid sy'n treiglo a cheir pwt o ddyfyniad o ramadeg William Owen Pughe. Ceir bron i hanner cant o adrannau gwahanol yn ymwneud â bywyd bob dydd, er enghraifft: 'household goods', 'of eating', 'of a school, and things that are necessary to read, write, etc.', ac 'of coin'. Weithiau gwelir ymgais i rannu'r cynnwys yn isadrannau pellach, er enghraifft:

| | |
|---|---|
| The imagination,<br>to consider,<br>to dream,<br>to fancy, to imagine. | Yr amgyffrawd,<br>ystyried,<br>breuddwydio,<br>tybio, dychymygu. |
| Desire,<br>desirable,<br>desirous,<br>to desire. | Dymuniad, chwant,<br>dymunol,<br>yn dymuno,<br>dymuno, chwennych. |

Nid yw Thomas Roberts yn nodi rhannau ymadrodd ond gofalodd gynnwys geirfa a ddefnyddid mewn gwahanol rannau o Gymru, gan ychwanegu nodiadau o bryd i'w gilydd:

Arian is a word generally used for Money

| | |
|---|---|
| Ar yr aswy | Ar y llaw chwith, in North Wales |
| Dowch | Dewch in South Wales from deuwch which is a better word, but a long custom has rendered dowch better understood in North Wales |

Mae'r 'Grammatical Vocabulary', sy'n dilyn prif gorff y geiriadur, yn dangos rhediad 'cael' a 'bod' yn yr amser gwahanol, yn y negyddol ac yn y gorchmynnol. Yna, ceir rhestr o adferfau, neu'r hyn y mae'n ei alw'n 'Eiriadur Goreiriau'. Gyda golwg ar sut y byddai'r dysgwr y debygol o ddefnyddio'r geiriadur, trefnwyd y cynnwys yn ofalus gyda phob adran newydd yn adeiladu'n rhesymegol ar yr hyn a gyflwynwyd eisoes. Yn dilyn y 'Geiriadur Goreiriau', ceir 'Y Goreiriau Rhagflaenol yn gyssylltiedig a Pherwyddiad a Rhagenwau'. 'Geiriadur o Arddodiadau' sy'n dod wedyn, gydag enghreifftiau megis:

| | |
|---|---|
| In spite of his relation | Er gwaethaf ei geraint |

GEIRIADUR

SAESNEG A CHYMRAEG;

NEU,

ARWEINYDD HAWDD

I'R

HEN BRYDEIN-IAITH;

YN CYNNWYS

DEUNAW O YMDDYDDANION TEULUAIDD,

AR AMRYWIOL DESTYNAU.

GAN

THOMAS ROBERTS,

LLWYNRHUDOL.

---

LLUNDAIN:

ARGRAFFID TROS YR AWDWR.

AR WERTH GAN LONGMAN, REES, ORME, BROWN, A GREEN,
PATERNOSTER-ROW; J. MAWMAN, LUDGATE-HILL;
SIMPKIN A MARSHALL, STATIONERS-COURT;
AC E. WILLIAMS, 11. STRAND.

1827.

16. Thomas Roberts, *Geiriadur Saesneg a Chymraeg* ... (1827)

| | |
|---|---|
| Along the river | Gyda yr afon |
| About the garden | Amgylch yr ardd |

Defnyddir yr un enghreifftiau, ond mewn brawddegau cyflawn, yn yr adran ddilynol - 'Yr Arddodiadau rhagflaenol yn gysylltiedig a Pherwyddiad ac Enwau', er enghraifft:

| | |
|---|---|
| He will marry in spite of his relation | Er gwaethaf ei geraint |
| We walked along the river | Cerddem gyda yr afon |
| He walks every day about the garden | Mae efe yn rhodio bob dydd amgylch yr ardd |

Adran olaf y gwaith yw 'Ymddyddanion Hawdd', sef cyfres o ddeialogau Saesneg a Chymraeg. I gychwyn, cyflwynir deialogau holi ac ateb ynghyd â sgyrsiau a gynhelid yn yr ysgol yn ymwneud â gwersi, chwilio am lyfr, gwneud pin ac ysgrifennu. Wedyn, mae'n symud ymlaen i drafod y tywydd, y tymhorau, gogledd Cymru, mynd i ben yr Wyddfa ac aros mewn gwesty. Nid yw'n syndod gweld adran o'r fath ar ddiwedd y geiriadur oherwydd 'roedd llyfrau dialogau yn boblogaidd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac 'roedd tipyn o fynd ar lyfrau teithio.[84] Lluniodd Joseph Onhwyn[85] a John Murray[86] deithlyfrau ar gyfer pobl a ymwelai â Chymru er enghraifft a chyhoeddodd John Thomas gyfrol o ddialogau Saesneg a Chymraeg ar gyfer y teithiwr a ddymunai gyfathrebu â'r brodorion.[87] Fel y nodwyd eisoes, aeth Thomas Roberts yn ei flaen ar ôl cyhoeddi'r geiriadur, i lunio cyfrol gyfan o sgyrsiau Saesneg a Chymraeg, sef *The Welsh Interpreter.*

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

---

[84] Gw. Dewi Jones, *Tywysyddion Eryri* (Llanrwst, 1983) a Dewi Jones, *The Botanists and Guides of Snowdonia* (Llanrwst, 1996).

[85] Joseph Onwhyn, *Onwhyn's Welsh tourist; or, guide to North and South Wales, and the Wye: describing every object of interest in the most picturesque country and containing likewise all needful information on the subject of travelling expenses, inns, etc* (Llundain, 1840).

[86] John Murray, *Handbook for travellers in South Wales and its borders, including the river Wye; with a travelling map* (Llundain, 1860).

[87] John Thomas, *The Welsh interpreter, or an English and Welsh vocabulary : with familiar dialogues designed to be useful and interesting to English travellers through the principality* (Caerfyrddin, 1836).

## (vi)

## John William Thomas (Arfonwyson, 1805 - 1840)

Yn ystod ei oes fer, bu Arfonwyson yn llyfrwerthwr, yn athro, yn fathemategydd, yn awdur ac yn gyfrifiannydd yn yr Arsyllfa Frenhinol, Greenwich.[88] Tua thair blynedd o addysg a dderbyniodd ond tra'r oedd yn ei arddegau mynychai ysgol nos. Dechreuodd ymddiddori mewn rhifyddeg, daearyddiaeth a seryddiaeth yr adeg honno a phan dreuliodd dri mis yn ysgol Robert Roberts, Caergybi, datblygodd ei ddiddordebau gwyddonol. Ar ôl dychwelyd i'w ardal enedigol ym mhlwyf Llandygái, agorodd ysgol yn Nhregarth ac yno, mae'n debyg, y bu'n golygu'r misolyn *Tywysog Cymru*[89] ac yno dechreuodd ysgrifennu *Elfenau Rhifyddiaeth*.[90] Er iddo fwriadu cyhoeddi deg rhifyn ar hugain i gyd ac er i'r wasg Gymraeg roi cryn gyhoeddusrwydd i'r fenter, tri rhifyn yn unig a ymddangosodd rhwng 1831 ac 1832.[91] Mewn llythyr a gyhoeddodd yn *Seren Gomer* yn ateb un o'i gefnogwyr, mynegodd Arfonwyson y siom a deimlodd pan ddechreuwyd cyhoeddi'r *Elfenau*. Tybiodd y byddai'r tri rhifyn cyntaf yn brawf o fuddioldeb y cynllun ac y gallai barhau i lunio rhagor:

> ... diau y gellid hyderu y cedwid o ar yr un fath o gynllun drwyddo, ac y gofalid am gadw iaith bur a rhwydd, a ffurfio geiriau newydd priodol, lle y byddo y Geiriaduron yn ddiffygiol, fel "Gwagnod a Chysylltiad", ac ereill; a channoedd o eiriau rheidiol, na cheir nhw yn awr yn y Gymraeg ar wedd yn y byd.[92]

Diffyg cefnogaeth oedd wrth wraidd yr anhawster a bu'n rhaid iddo roi'r gorau iddi.

Wrth drafod twf gwyddoniaeth a rhyddiaith wyddonol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r problemau technegol a chyfathrebol a wynebai gwyddonwyr, dywedodd R. Elwyn Hughes bu'r broses o greu geirfa wyddonol Saesneg yn

---

[88] J. Silas Evans, *Seryddiaeth a Seryddwyr* (Caerdydd, 1923), t.272. Gw. hefyd Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), op. cit., tt.896-7.

[89] Ll. G. Chambers, *Mathemategwyr Cymru* (Caerdydd, 1994), t.56.

[90] J. W. Thomas, *Elfenau Rhifyddiaeth; neu Rifgell y Cymro* (Caerfyrddin, 1831-32).

[91] Gw. *Seren Gomer* (1833), tt.173-174 a tt.235-237; (1835) tt.14-15 a tt.138-140; (1837) t.334.

[92] J. W. Thomas, 'Cyflwr Elfenau Rhifyddiaeth', *Seren Gomer* (1833), t.236.

un gymharol reoledig ac araf.[93] Defnyddid y fersiwn Saesneg o waith Guyton de Morveau – *Méthode de nomenclature chimique* – fel canllaw wrth lunio termau technegol newydd.[94] Dilynai'r gwyddonwyr Saesneg yr egwyddorion a bwysleisiwyd ynddo a chan gydnabod bod diffinio manwl a chywir yn rhan bwysig o'r broses, gofalent drafod ac ymgynghori â'i gilydd cyn bathu term newydd. Ar un olwg, 'roedd y sefyllfa gyfatebol yng Nghymru yn ddigon tebyg. Câi'r sawl a oedd yn awyddus i drafod gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ei rwystro oherwydd bod prinder termau addas. Sylweddolwyd bod angen datblygu'r iaith a bathu termau newydd ond 'roedd y ffordd yr aethpwyd ati i wneud hynny yng Nghymru, o gymharu â Lloegr, yn dra gwahanol. Dywedodd R. Elwyn Hughes:

> ... na ddatblygodd yr eirfa Gymraeg o ganlyniad i anghenion proffesiynol y gwyddonwyr. O ganlyniad, ni chafwyd dim byd i gyfateb i'r bathu gofalus a phwyllog a gafwyd mewn termau Saesneg.[95]

Nid y gwyddonwyr fu'n bennaf cyfrifol am greu termau technegol Cymraeg, ond "amaturiaid anwyddonol" ac fel arfer geiriadurwyr oedd y rheini.

I'r categori hwn y perthynai Arfonwyson. Nid oedd yn wyddonydd proffesiynol, ond oherwydd natur ei swydd a'i ddiddordeb yn yr iaith Gymraeg, daeth yn 'arbenigwr' neu'n fathwr hunanbenodedig. Fel Mathemategydd, cyfansoddodd eiriau priodol y gellid eu defnyddio i drafod y pwnc ac wrth baratoi *Elfenau Rhifyddiaeth* mentrodd gyflwyno'i derminoleg ei hun. Aeth gam o'r ffordd i geisio cael termau cymwys i gyfateb i'r hyn a geid yn Saesneg trwy hyrwyddo geiriau megis: rhifiaeth (*vulgar arithmetic*), swlliadau (*fractions*), degiadau (*decimals*), ad-degiadau (*circulating decimals*), deuarddegiadau (*duodecimals*), dirprwynion (*logarithms*), mesuriaeth (*mensuration*), mesureg (*geometry*), triongliaeth (*trigonometry*), cynghryniaeth (*spheric*), mordwyaeth (*navigation*) ac alsoddeg (*algebra*).

---

[93] R. Elwyn Hughes, *Nid Am Un Harddwch Iaith: Rhyddiaith Gwyddoniaeth y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd, 1990), t.5.
[94] De Guyton, *A Translation of the Table of Chemical nomenclature, proposed by De Guyton, formerly De Morveau ...* (Llundain, 1799).
[95] R. E. Hughes, op. cit., t.6.

Prif wendidau'r termau technegol a argymhellwyd gan y geiriadurwyr oedd eu diffyg ystyrlonedd, eu dieithrwch a'u diffyg cysondeb.[96] Mae'n weddol sicr mai gweithio ar *Elfenau Rhifyddiaeth* yn annibynnol a wnaeth Arfonwyson, heb ymgynghori ag unrhyw 'arbenigwr' arall yn y maes. Tua'r un cyfnod, ymddangosai rhestrau o dermau technegol a fathwyd gan Thomas Edwards (Caerfallwch) mewn cylchgronau gwahanol.[97] Wrth reswm, nid oedd awgrymiadau Caerfallwch yn cyfateb i rai Arfonwyson ac ar dudalennau *Seren Gomer* bu William Jones (Gwrgant) yn cwyno yn erbyn yr anghysondeb rhwng eu termau.[98] Credai Gwrgant mai Arfonwyson oedd yr un mwyaf cymwys i lunio termau Mathemateg am ei fod yn gwybod mwy am y maes na Chaerfallwch. Er bod eu hawgrymiadau'n amrywio, 'roedd tebygrwydd rhwng syniadau'r ddau. Daeth Caerfallwch dan ddylanwad William Owen Pughe ac ef, yn anad neb arall, oedd lladmerydd syniadaeth Pughe ym myd technoleg a gwyddoniaeth. 'Roedd Arfonwyson yntau'n adnabyddus fel un o gefnogwyr Pughe.

Daeth ei duedd i ddilyn Pughe yn amlwg yn y *Geiriadur Cymreig a Seisonig...*[99] bychan a gyhoeddwyd ym 1833 ac a werthwyd am swllt.[100] Tynnodd Arfonwyson nyth cacwn yn ei ben pan luniodd y gwaith. Gellir gweld sut y gwnaeth hynny'n syth ar ôl agor y clawr oherwydd y peth cyntaf sy'n taro rhywun yw geiriau chwithig brawddeg agoriadol y rhagymadrodd:

> Y GEIRIADURYN à gynnigir idd eich sylw á achlysurid gan gwynion trymfrydig y diwydfryd angenawg yn rheidiau teleidion a chywreinbleth iaith ystwythgamp barabldrefn a boddgar gymhenddull ei hamrywiogsain drwy awyr Gwalia.[101]

Byddai'r frawddeg hon yn siŵr o ddieithrio'r darllenydd bron cyn cychwyn, yn enwedig gan nad oes cofnod yn y geiriadur am y mwyafrif o'r geiriau! Rhannodd gorff y geiriadur yn dri dosbarth ac er iddo honni bod y gyfrol yn cynnwys llawer o eiriau Cymraeg na ellid cael hyd iddynt yng ngeiriadur Pughe, go brin bod hynny'n wir. Rhwng 900 a 1,000 prifair sydd gan Arfonwyson yn y

---

[96] Ibid., t.7.

[97] Gw. er enghraifft *Y Gwyliedydd*, Medi 1826, tt.273-274 a *Seren Gomer*, Mai 1834, tt.140-1.

[98] William Jones (Gwrgant), *Seren Gomer*, 17 (1834), tt.108-9.

[99] J. W. Thomas, *Geiriadur Cymreig a Seisonig, a chydymaith i'r ysgol Sabbathol* (Caernarfon, 1833).

[100] Ymddangosodd hysbyseb yn sôn am y gwaith yng nghefn *Seren Gomer*, Mawrth 1833.

dosbarth cyntaf, sy'n dwyn y teitl 'tarddiad geiriau dyrys'. Yn yr ymgais hon i egluro tarddiad geiriau, mae'n darnio'r prifeiriau yn elfennau unsill ac yn eu dangos mewn cromfachau ar ôl pob un, er enghraifft:

Athrofa, *s.b.* - *t.ll.* au, (a-ty-rha-aw-ma) prif ysgol: *academy, college.*

Ic, *s.g.* (i-c), yr hyn sy flaenfain, awchaidd: *what is pointed.*

Teyrnfrad, *s.g.* (te-g-yrn-ba-ar-ad), trosedd yn erbyn brenin: *high treason.*

Prin fod angen egluro iddo gael y fath fympwyon oddi wrth William Owen Pughe. Gan ei fod yn ymdrin â tharddiad geiriau, noda Arfonwyson fod "gwraidd y Gymraeg" eisoes wedi ymddangos yng ngeiriadur Pughe a bod y darnau unsill wedi eu dosbarthu yno.[102] Eithr câi Arfonwyson, hyd yn oed ar ôl iddo gael ei arwain ar gyfeiliorn gan Pughe, ei ddrysu gan ei syniadaeth. Y brif gwyn a'r prif fater sy'n cael sylw ganddo yw nifer y gwreiddeiriau a fodolai yn y Gymraeg. Yn ôl Arfonwyson, 223 yw nifer "y gwir wraidd" yng ngeiriadur Pughe, ond daeth ar draws anghysondeb, meddai, sef bod y geiriadur talfyredig - y "geiriadur diweddar" yn nodi 216 fel nifer "y gwir wraidd" a bod Pughe'n nodi 25 o wreiddeiriau'n cynnwys tair neu bedair llythyren gan gymryd:

> ... y gwir wraidd ac y rhai tarddedig yn ddiwahaniaeth ...[103]

Dywed y gallai anghysondeb o'r fath:

> ... achosi cyfeiliornad o barth eu hystyrdeb ...[104]

Crybwyllir bathwr hunanbenodedig arall a fu'n astudio elfennau unsill neu wreiddeiriau, sef William Jones (Gwrgant), ond nid oedd ei ddosbarthiadau yntau'n taro deuddeg ychwaith ym marn Arfonwyson.[105] Mae'n cwestiynu paham nad ystyriasai Jones 25 o elfennau a nodwyd yng ngeiriadur Pughe a phaham yr ystyriasai elfennau eraill nad oeddent yn ymddangos yn y gwaith hwnnw. Er mwyn ceisio profi sawl "gwir wraidd" a fodolai yn y Gymraeg, mae Arfonwyson yn bwrw ati ei hun i ddangos:

> ... rhediad cyfansoddawl yr elfennau unig gydag yr Hanedigion yn ol eu trefn a'u trasau.[106]

---

[101] Ibid., iii.
[102] William Owen, *Geiriadur Cynmraeg a Saesoneg: A Welsh and English Dictionary ... to which is prefixed a Welsh Grammar* (Llundain, 1793-1803).
[103] J. W. Thomas, op. cit., iii.
[104] Ibid., iv.
[105] William Jones, *Crynhoad o holl elfenau, neu gyntefigion y Gymraeg* (Dinbych, 1826).
[106] J. W. Thomas, op. cit., iv.

Dyma enghraifft arall o "egwyddor y ba, be, bw" ar ei gorau.[107]

Yn gyntaf, mae'n dangos 17 o elfennau unigol "gwraidd y Gymraeg", yn llafariaid ac yn gytseiniaid. Wedyn, fe â yn ei flaen i rannu'r "cyntefigion" hyn yn dri dosbarth. Cyfuniadau o lafariaid sydd yn y dosbarth cyntaf, cyfuniad o lafariaid a chytseiniaid sydd yn yr ail a chyfuniad o gytseiniaid a llafariaid yw'r trydydd. Swm yr holl elfennau a chyfuniadau posib yw 129. At hyn, rhydd yr hyn y mae'n ei alw'n "hanedigion" – eto yn llafariaid ac yn gytseiniaid – a'u dosbarthu yn yr un ffordd. Trwy uno'r "cyntefigion" a'r "hanedigion", 'roedd ganddo fformiwla gyfleus i lunio rhagor o elfennau. Daw i'r casgliad bod uchafswm o 292 a lleiafswm o 129 o "wir wraidd" yn bodoli yn y Gymraeg. Dyma'r math o ddamcaniaeth ieithyddol a gafodd ei dychanu gan Jonathan Swift yn *Gulliver's Travels*.[108] Pan yw Gulliver yn ymweld ag Academi Lagado, caiff y peiriant llenyddiaeth a'r hoffter hwn o ddadansoddi geiriau i elfennau unsill eu gwatwar gan Swift.

Dymunai Arfonwyson weld 'Gwreiddeiriadur Cymraeg', sef geiriadur o eiriau cysefin y Gymraeg gydag atodiad yn esbonio sut i gellid defnyddio rhagddodiaid ac ôl-ddodiaid i lunio neu i ganfod ystyr unrhyw air cyfansawdd. Byddai hynny, meddai, yn arbed y Cymry rhag gwario ar eiriaduron. Ni fyddai angen geiriaduron swmpus, megis geiriadur William Owen Pughe, a oedd yn cynnwys miloedd o eiriau cyfansawdd. Pe cyhoeddid Gwreiddeiriadur, 'roedd yn ffyddiog y:

> ... bydda llyfr felly, yn ddigon o Eiriadur am byth ...[109]

Syrthiasai Arfonwyson i'r un fagl â Rowland Jones a Pughe trwy fynnu bod ystyr bendant i bob llythyren. Yn y dosbarth cyntaf, mae Arfonwyson yn nodi ystyron y llythrennau gwahanol, er enghraifft:

B, ei hystyr yw hàniad disymud, neu beth mewn cyflwr llonydd.

---

[107] John Morris-Jones, 'Edward Llwyd', *Y Traethodydd*, 48 (1893), t.474.
[108] Jonathan Swift, *Gulliver's Travels* (Llundain, 1726).
[109] J. W. Thomas, op. cit., ix.

GEIRIADUR

CYMREIG A SEISONIG,

A CHYDYMAITH I'R YSGOL SABBATHOL;

Yn Dri Dosparth.

YN Y SAWL YR AMLYGIR ANSAWDD A GWRAIDD Y GYMRAEG, TARDDIAD GEIRIAU DYRYS, CYNNULLIAD O EIRIAU O GYFELYB SAIN, A

CHRYNOAD HELAETH O

EIRIAU TYWYLL YR YSGRYTHYR,

EFO EU CYFYSTYRON.

GAN Y DIWEDDAR

J. W. THOMAS (ARFONWYSON),

*Awdur Trysorfa yr Athrawon.*

Tri dyn ni ddylynt gerydd:—Plentyn yn llefain am dad neu fam: dyn yn myned yn dlawd wrth gynnull gwybodaeth, a dyn yn ymdrallodi mewn serch.

TRIOEDD DOETHINEB.

CAERNARFON:

CYHOEDDEDIG AC ARGRAFFEDIG GAN H. HUMPHREYS.

*Pris Swllt.*

GEIRIADUR

CYMREIG A SEISONIG,

A

Chydymaith i'r Ysgol Sabbathawl;

YN DRI DOSBARTH.

YN Y SAWL YR AMLYGIR ANSAWDD A GWRAIDD Y GYMRAEG, TARDDIAD GEIRIAU DYRYS, CYNNULLIAD O EIRIAU O GYFELYB SAIN,

A CHRYNOAD HELAETH O

EIRIAU TYWYLL YR YSGRYTHYR,

EFO EU CYFYSTYRON.

GAN J. W. THOMAS, ARFON.

Tri dyn ni ddylynt gerydd: plentyn yn llefain am dad neu fam: dyn yn myned yn dlawd wrth gynnull gwybodaeth, a dyn yn ymdrallodi mewn serch. TRIOEDD DOETHINEB.

CAERNARFON:

ARGRAFFEDIG GAN WILLIAM POTTER & CO.

1834.

17. J. W. Thomas, *Geiriadur Cymreig a Seisonig* ... (2[il] arg. 1834; 3[ydd] arg. 1840)

P, ei hystyr yw ffrydiad, tarddiad, neu hyrddiad yn mlaen.

W, ei ystyr yw ceŭdd caethiwus, cyfyng, neu safnle cafnawg.

Serch hynny, mae'r ystyron a rydd Arfonwyson a Rowland Jones i'r llythrennau'n amrywio.[110] Sylwer ar ddwy enghraifft o gofnodion y ddau ochr yn ochr â'i gilydd:

| THE ORIGIN OF LANGUAGE (1767) | GEIRIADUR CYMREIG A SEISONIG (1833) |
|---|---|
| The g is an assistant to c in expressing the lower kind of actions, as birth, growth, &c. whence it was shaped like a sheaf of corn, a bundle of faggots, &c. tied up at the middle. | G, ei hystyr yw gafaeliad, neu ymlyniad arafaidd grymus. |
| The letter s ... is a letter of sound, formed probably from the flowing motion of the waves of the sea, and sounded like their hissing sound ... | S, ei hystyr yw amlygrwydd neu hysbysiad dirgel, gwahaniaethiad neu grybwylliad cyfyngawl. |

Nid oedd anghysondebau tebyg i hyn yn nodwedd anghyffredin. Dangosodd Caryl Davies mai mater o fympwy llwyr oedd yr ystyr a briodolai Rowland Jones a Pughe i wreiddeiriau unsill a bod Pughe yn dueddol o wrth-ddweud ei hun.[111] Fel ei ragflaenwyr, mae Arfonwyson hefyd yn pennu ystyr i wreiddeiriau unsill, megis:

Ge, *s.g.* (g-e) tŭeddrwydd; nertholdeb; ỳni: *aptitude.*

Llw, *s.g.* - *t.ll.* on (ll-w) y sydd a gallu i eddain neu fyned; gwaedd; twng: *that is moved.*

Ot, s.g. (o-t) tafliad chwai allan: *a sudden throwing.*

Yn hyn o beth, mae rhai o ddiffiniadau Arfonwyson yn weddol agos at rai Pughe.

Dyma un enghraifft o'r tebygrwydd rhwng ystyron y ddau:

| A DICTIONARY OF THE WELSH LANGUAGE (1793-1803 | GEIRIADUR CYMREIG A SEISONIG (1833) |
|---|---|
| Aw, *s.m.r.* - *pl.t.* on. Fluid; also a flowing. From this expressive root are derived all words that imply fluidity, or the motion, or action of fluids; and also immaterial qualities, as the impulse, or emotion of the will, mind, or soul. | Aw, s.g. - t.ll. on, (a-w) à redo; gwy, dwfr; gwlybwr, *a fluid.* |

[110] Rowland Jones, *The Origin of Language and Nations, Hieroglyfically, Etymologically, and Topograffically Defined and fixed* ... (Llundain, 1767). Ni nodir rhifau ar dudalennau'r rhagair.

Fel y nodwyd eisoes, dymunai Arfonwyson:

> ... ffurfio geiriau newydd priodol, lle y byddo y Geiriaduron yn ddiffygiol ...[112]

a'u cynnwys yn *Elfenau Rhifyddiaeth.* Gwyddai, wrth baratoi'r geiriadur, y byddai'n debygol o wynebu cryn drafferthion pe cyhoeddid rhagor o rifynnau, felly mae rhywun yn lled-ddisgwyl ei weld yn gwthio geirfa dechnegol yn y geiriadur eithr prin iawn yw'r termau sydd ynddo. Heblaw am 'alsoddeg' 'mesuriaeth' a 'mesureg' nid yw'r geiriadur yn dangos y termau mathemateg a nodwyd uchod. Nid oes ganddo gofnod am 'rhifyddiaeth' hyd yn oed nac unrhyw un o'r ffurfiau a argymhellodd Pughe eisoes am 'numeration' - 'cyvrivyddiaeth', 'dyriviad', 'niveiriaeth', 'niveiriant', 'rhivedigaeth', 'rhiviant'!

Bwriad Arfonwyson yn yr ail ddosbarth oedd dangos 'geiriau o gyfelyb sain' neu 'eiriau unsain anghyfystyr'.[113] Math o thesawrws elfennol ydyw sy'n cynnwys tua 1,400 o gofnodion digon syml tebyg i hyn:

Baedd, mochyn

Ciciwr, à gicia

Llaith, gwlyb

Ymddywedyd, cyd lefaru

Oherwydd bod galw am nifer o gopïau o'r *Geiriadur Cymreig a Seisonig* ... yn ne Cymru, cyhoeddodd Arfonwyson rai tudalennau ohono (ar y llythyren A) yn *Seren Gomer* fel tamaid i aros pryd i'r sawl a ddisgwyliai amdano.[114] Clywsai fod rhai yn amheus o'r cynnwys, yn enwedig am fod y cynllun gwreiddiol a ymddangosodd wedi newid rhywfaint. Ar ôl cyhoeddi'r cynllun hwnnw, derbyniodd Arfonwyson geisiadau gan athrawon Ysgolion Sul yn gofyn iddo gynnwys cymaint ag y medrai o'r geiriau anghyffredin ac anodd a geid yn y Beibl fel y gellid defnyddio'r geiriadur fel cydymaith yn y dosbarthiadau. Cydsyniodd Arfonwyson, ond bu'n rhaid iddo newid trefn y cynnwys a chwtogi'r ddwy adran gyntaf er mwyn cadw cydbwysedd rhyngddynt. 'Geiriau o'r Ysgrythyr' felly yw cynnwys y trydydd dosbarth. Nodir oddeutu 700 prifair gyda

---

[111] Caryl Davies, op.cit., tt.286-7.
[112] J. W. Thomas, 'Cyflwr Elfenau Rhifyddiaeth', op. cit., t.236.
[113] J. W. Thomas, 'Geiriadur Cymreig, a Chydymmaith yr Ysgol Sul', *Seren Gomer* (1833) t.234.

thair tudalen o 'nodach' ar y diwedd. Hon, o bosib, oedd yr adran fwyaf defnyddiol ac ymarferol yn ei dydd. Ni cheir ynddi ymgais i ddangos tarddiad y geiriau a'r elfennau unsill. Yn hytrach, mae'n nodi prifair, cyfystyr neu esboniad byr yn Gymraeg a chyfieithiad Saesneg o bryd i'w gilydd.

Cafodd y geiriadur groeso digon cynnes. Bu Bodegroes yn ddigon clodforus wrth adolygu'r gyfrol[115] a chyfansoddodd Huw Tegai, Eos Glan Twrch, Gwilym ab Ioan a Garthmarthin englynion yn ei chanmol.[116] Fel hyn y canodd Huw Tegai:

Doeth redwn, daeth yr adeg, - at bybur
Eiriadur goreudeg;
Agoriad da geiriau têg,
A mirain gell Gomereg.

Drysor iawn, drws i'r heniaith, - eglurydd
Neu glorian campuswaith;
Celfydd ladmerydd mawrwaith,
Gwir-garn yw gywirgorn iaith.

Gosod geiriau yn gyswllt - wna Ioan,
Ac yna'n anghyswllt;
Trysor mwy nà gwerth triswllt
Yw i ni sydd am un swllt.[117]

Dyma sut y canodd Gwilym Twrog i'r geiriadur:

Geiriadur mwyn pur parod - i ddysgu
Yn ddwysgall adnabod
Bob rhan yn bybur hynod
O'r gair yn wir gywir nod

Dwy iaith, ac araith gywrain, - gei ynddo,
Ac iawnddysg i'th arwain;
Am un swllt, a mwyn ei sain,
Parodwych i wŷr Prydain.[118]

Yr oedd J.H. Owen, Bardd Meirion, yr un mor barod i gymeradwyo:

I Ysgolion llon ein Llyw, - y cafwyd
Gwaith cyfaill diledryw;
Geiriadur treiddgar ydyw,

---

[114] Ibid., tt.233-5.
[115] *Seren Gomer* (1833), t.361.
[116] Gw. *Y Dysgedydd* (1837), t.29.
[117] *Seren Gomer* (1833), t.361.
[118] Ibid.

I gadw ein laith faith yn fyw.[119]

Gwnaeth y geiriadur argraff ar Gaerfallwch hefyd ac fe'i plesiwyd gan y dadansoddiad o'r Gymraeg. Dywedodd:

> You appear to outdo my friend Dr. Pughe in the analysis of words in your Geiriaduryn.[120]

- ond mae'r ffaith neidiasai Arfonwyson i'r un cwch â William Owen Pughe yn arwyddocâol. Er i ail a thrydydd argraffiad ymddangos ym 1834 a 1840, collodd y geiriadur ei werth yng ngolwg y genedl yn ddiweddarach pan ddechreuwyd beirniadu syniadau cyfeiliornus ac anghywir ysgolheigion yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif am darddiad a datblygiad yr iaith.

Bu Arfonwyson yn dadlau llawer yn y wasg ar orgraff a gramadeg yr iaith Gymraeg ond nodweddid ei yrfa gan siom, methiant ac afiechyd.[121] Heblaw am *Elfenau Rhifyddiaeth* a'r geiriadur, cyhoeddodd *Trysorfa yr Athrawon* at wasanaeth yr Ysgolion Sul[122] ynghyd â llyfryn i hyfforddi'r Cymro sut i ddarllen Saesneg.[123] Am gyfnod, golygai'r misolyn *Tywysog Cymru* a phan oedd yn gweithio yn yr Arsyllfa dechreuodd gyhoeddi almanaciau Cymraeg[124] hefyd *Darlith ar Seryddiaeth.*[125] Dymunai gyhoeddi geiriadur technegol a gwyddonol ynghyd â gramadeg Cymraeg, ond ni lwyddodd i gyflawni'r bwriad hwnnw. Bu farw Arfonwyson o'r ddarfodedigaeth ym 1840 yn bymtheg ar hugain oed ac fe'i claddwyd mewn bedd anhysbys yn Greenwich.

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

---

[119] J. H. Owen, Bardd Meirion, 'I Eiriadur J. W. Thomas, Arfon', *Seren Gomer* (1835), t.179.
[120] Llsgr. Bangor 683 - Llythyr 27, Caerfallwch at Arfonwyson, 15/xi/1834.
[121] R. E. Hughes, op. cit., t.86.
[122] J. W. Thomas, *Trysorfa yr Athrawon* (Llundain, 1837).
[123] J. W. Thomas, *Athraw i'r Cymro Ieuanc, mewn Gwybodaeth fuddiol ac anghenrheidiol mewn Tref a Gwlad* (- , 1831-1832).
[124] Ll. G. Chambers, 'Elfennau Rhifyddiaeth: Tamaid Anorffenedig', *Y Gwyddonydd* 11 (1973), t.128.
[125] J. W. Thomas, *Darlith ar Seryddiaeth* (Caernarfon, tua 1850).

## (vii)
## Ellis Jones (d.d.)

Mewn hysbyseb ar glawr *Seren Gomer* mis Mehefin 1837, ceir manylion am eiriadur newydd a ymddangosai fesul rhifyn, bob chwe wythnos. Fe'u gwerthid am chwe cheiniog yr un ac 'roedd yr ail rifyn eisoes yn y wasg adeg cyhoeddi'r hysbyseb. Y bwriad oedd argraffu'r geiriadur yn ei gyfanrwydd, ynghyd â llysieulyfr mewn deg rhifyn. Geiriadur Cymraeg-Saesneg Ellis Jones oedd hwn.

'Roedd Ellis Jones yn enedigol o Ddolbenmaen, Sir Gaernarfon ac yn frawd i Gwilym Cawrdaf. Cafodd y ddau eu rhwymo ar brentisiaeth yn ifanc iawn. Pan oedd yn ddeuddeg oed, aeth Gwilym Cawrdaf yn brentis at Richard Jones, prif argraffwr Dolgellau a oedd hefyd yn gefnder iddo. Aeth Ellis Jones at gefnder arall - Lewis Evan Jones, prif argraffwr Caernarfon - pan oedd ond yn un ar ddeg. Bu'n gweithio fel cysodwr gyda John A. Williams yn Abertawe ac yna aeth i swyddfa *Seren Gomer* yng Nghaerfyrddin. Oddi yno aeth i swyddfeydd William Bird yng Nghaerdydd ac Eyre and Spottiswoode yn Llundain cyn dychwelyd i weithio ar *The Carnarvon and Denbigh Herald* yng Nghaernarfon. O 1845 tan 1860, bu'n oruchwyliwr yn swyddfa Hugh Humphreys yn y dref honno. Pan fu farw Lewis Evan Jones, prynodd Ellis Jones ei swyddfa ond ar ôl treulio dwy flynedd a hanner fel prif argraffwr, cafodd ei daro'n wael ac ni fedrodd weithio o'r adeg honno tan ei farwolaeth ddeng mlynedd yn ddiweddarach, ym 1870.[126] Ellis Jones fu'n gyfrifol am olygu a chyhoeddi gwaith ei frawd, sef *Gweithoedd Cawrdaf.*[127] Lluniodd hefyd *Allwedd llysieuaeth*[128] a *Hanes cyntefig a diweddar o Amherodraeth China.*[129]

---

[126] Ifano Jones, *A History of Printing and Printers in Wales to 1810, and of Successive and Related Printers to 1923, also, a History of Printing and Printers in Monmouthshire to 1923* (Caerdydd, 1925), tt.158-9.
[127] Ellis Jones (gol.), *Gweithoedd Cawrdaf: sef y diweddar W. E. Jones, yn cynnwys 'Gwyddfa y bardd' a'r 'Meudwy Cymreig'* (Caernarfon, 1851).
[128] Ellis Jones, *Allwedd Llysieuaeth; yr hwn a eglura wyddoriaeth llysieuaeth ... wedi ei grynôi, o waith Llysieuwyr a meddygon enwog* (Caernarfon, d.d.).
[129] Ellis Jones, *Hanes cyntefig a diweddar o Amherodraeth China, ... yn ynghydag arweiniad Cristionogaeth i China* (Caernarfon, 1843).

'Roedd gan Ellis Jones syniad go lew o'r hyn a fyddai'n debygol o werthu'n dda oherwydd bod profiad ym maes argraffu a gwerthu llyfrau ganddo. Nid oedd angen iddo boeni am apêl fasnachol geiriadur Cymraeg-Saesneg; gwyddai y byddai'r fenter yn sicr o lwyddo. Ym 1840, cyhoeddwyd ei eiriadur yn ei grynswth gan W. Potter a'i gwmni, Caernarfon ac fe'i gelwid yn: *A New Pocket Dictionary of the Welsh and English Languages.*[130] Dywed Jones yn rhagymadrodd, fod yr awydd am wybodaeth ymhlith pobl o bob haen yn y gymdeithas ar gynnydd ac y cyhoeddid amrywiaeth o ddeunydd i ddiwallu'r awydd hwnnw. Dyna'i fwriad yntau wrth gyhoeddi'r geiriadur. 'Roedd yn rhag-weld y byddai'r gyfrol hon yn cynnig ystyron geiriau anghyfarwydd, yn cynorthwyo pobl i siarad ac ysgrifennu'n gywir ac yn rhoi arweiniad i'r ifanc. Mae'n ddiddorol nodi bod Ellis Jones fel petai'n siarad ar ran mwy nag un geiriadurwr yn y rhagymadrodd. Dywed:

> ... gwelir ein bod ninnau wedi dilyn y cyffelyb lwybyr yn nghyhoeddiad y Geiriadur hwn ... nid oes ynom un ammheuaeth nas gall fod yn dra buddiol ...[131]

Mae'n bosib felly bod Ellis Jones, fel Titus Lewis o'i flaen, wedi llunio geiriadur gyda chymorth sawl un arall ond mae'n bosib hefyd wrth gwrs, mai'r "ni" brenhinol ydyw!

Broliai'r hysbyseb wreiddiol yn *Seren Gomer* fod y geiriadur yn cynnwys dros 40,000 o eiriau, ond rhwng 37,000 a 38,000 prifair Cymraeg sydd ynddo. Fodd bynnag, mae'n cynnwys tua deng mil o brifeiriau'n fwy na geiriadur Cymraeg-Saesneg Titus Lewis[132] a Thomos Glyn Cothi,[133] felly dyma'r 'geiriadur llogell' mwyaf cynhwysfawr a gyhoeddwyd yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Prifair Cymraeg, rhan ymadrodd ac fel arfer, dau neu dri gair Saesneg cyfatebol a ddangosir. At hyn, ceir un nodwedd nas gwelwyd yng ngeiriaduron y cyfnod, heblaw am eiriadur William Owen Pughe[134] ac Arfonwyson,[135] sef terfyniadau neu ffurfiau lluosog enwau Cymraeg. O'i

---

[130] Ellis Jones, *A New Pocket Dictionary of the Welsh and English Languages. Geiriadur Llogell Cymreig a Seisonig; yn nghyda Geiriadur Llysieuol. Wedi ei gasglu gan Ellis Jones, o'r geiriaduron a'r awduron cywiraf* (Caernarfon, 1840).
[131] Ibid, t. iii.
[132] Titus Lewis, *A Welsh-English Dictionary* ..., op. cit.
[133] Thomas Evans,'*An English-Welsh Dictionary* ..., op. cit.
[134] William Owen, *Geiriadur Cynmraeg a Saesoneg* ..., op. cit.
[135] J. W. Thomas, *Geiriadur Cymreig a Seisonig* ..., op. cit.

A

NEW POCKET DICTIONARY

OF THE

Welsh and English Languages.

# GEIRIADUR LLOGELL

CYMREIG A SEISONIG;

YN NGHYDA

GEIRIADUR LLYSIEUOL.

WEDI EI GASGLU GAN ELLIS JONES,

O'R GEIRIADURON A'R AWDURON CYWIRAF.

CAERNARFON:

CYHOEDDWYD GAN WILLIAM POTTER & CO.

1840.

18. Ellis Jones, *A New Pocket Dictionary* ... (1840)

gymharu, dyweder, â geiriadur Titus Lewis, ychydig iawn o isgofnodion sydd yng ngeiriadur Jones. Dim ond 'tooth' sydd gan Jones o dan 'dant, dannedd, daint' er enghraifft, ond yng ngeiriadur Lewis nodir 'boch ddaint', 'dannedd malu a childdannedd', 'dannedd blaen' a 'dannedd olwyn'. O dan 'ffordd' mae Lewis yn cynnwys 'ffordd draed', 'i ffordd', ' ffordd fawr' a 'myned i ffordd, myned ymaith'. 'Ffordd fawr' yn unig sydd gan Jones. Ymddengys iddo godi hynny o isgofnodion sydd ganddo o eiriadur Titus Lewis yn amlach na pheidio, er enghraifft:

| A WELSH-ENGLISH DICTIONARY (1805) | A NEW POCKET DICTIONARY (1840) |
|---|---|
| Gwrŷf, s. what keeps tight, or compact; a spring; a press— *gwryfau cwch*, the tofts of a boat— *gwryf basged*, the spring, or handle of a basket— *gwryf caws*, a cheese press | Gwrŷf—iau, *s.m.* what keeps tight; a spring; a press. *Gwryfiau cwch*, the tofts of a boat; *gwryf basged*, handle of a basket; *gwryf*, or *gwasg caws*, a cheese press |
| Llythyr, s. a cut, or engraved character; a letter of the alphabet; a type; a letter, epistle, or written message— *llythyr cymmun*, a will, or testament— *llythyr ysgar*, a bill of divorce— *llythyr ymrwym*, a bond | Llythyr—au, *s.m.* an engraved character; a letter, an epistle, or written message; an instrument in writing. *Llythyr cymmun*, a testament; *llythyr ysgar*, a bill of divorce; *llythyr ymrwymyn*, a bond |
| Taflod, s. a roof; the space next to the roof in a building; a loft, a garret— *taflod y genau*, the roof of the mouth— *taflod wair*, a hay-loft— *taflod ieir*, a hen-roost— *taflod rwyd*, a casting-net | Taflod—ydd, *s.f.* a roof; a garret; a cockloft. *Taflod y genau*, the roof of the mouth; *taflod ieir*, hen-roost; *taflod wair*, hay-loft. |

Gwnaeth ddefnydd hefyd o eiriadur Evan Jones.[136] Nodwyd eisoes mai prin yw'r isgofnodion yn y gyfrol honno ac mai'r eithriad yw'r cofnod am 'ceiliog', lle mae'n nodi'r Saesneg ar gyfer 'ceiliog coed', 'ceiliog dû', 'geiliog-gwynt', ceiliog-mwyalch', 'ceiliog bronfraith', 'ceiliog-hwyad', 'ceiliog rhedyn' a 'ceiliog-neidr'. Yr union gofnodion sydd gan Ellis Jones. Nodwyd hefyd, gan ddefnyddio'r enghreifftiau a ganlyn:

Padell, s.f. a pan. *Padell glin*

Sebon, s.m.soap. *Agalen o sebon*

nad yw Evan Jones yn dangos cyfieithiad Saesneg ar gyfer rhai isgofnodion. Erys llawer o'r bylchau hynny, gan gynnwys 'padell glin', heb eu llenwi yng ngeiriadur Ellis Jones.

Pan ymddangosodd y geiriadur gyntaf, ei brif ragoriaethau mae'n rhaid, oedd ei faint hwylus a'r ffaith ei fod yn cynnwys mwy o brifeiriau nag unrhyw eiriadur

[136] Evan Jones, *Welsh and English Dictionary* ..., op. cit.

poced arall ond yn anffodus troesai Jones yn ôl i edrych yng ngeiriadur William Owen Pughe i gael hyd i lawer o'i brifeiriau newydd.

Nid yw'n syndod gweld 'Traethiad Byr ar rinweddau meddygol rhai o'r llysiau mwyaf gwasanaethgar' ar ddiwedd y gyfrol yn ogystal â 'Geiriadur Llysieuol: sef rhestr o enwau Gwydd, Planhigion, a Llysiau Prydeinaidd, &c. Yn Gymraeg, Seisonig, a Lladineg'. Saif geiriaduron Cymraeg mewn dosbarth hollol unigryw oherwydd mae gan bron bob un o bwys atodiad o enwau planhigion.[137] Ni fodlonodd Ellis Jones ar y llysieulyfrau hynny a gyhoeddwyd ar ddiwedd geiriaduron cynharach. Ymdrechodd i lunio rhestr newydd trwy grynhoi manylion o weithiau llysieuwyr a meddygon, gan gynnwys Meddygon Myddfai. Mae'r 'Traethiad Byr' a'r 'Geiriadur Llysieuol' yn ymddangos yn ei *Allwedd Llysieuaeth* hefyd ac fe'u defnyddiwyd gan Meirion Parry wrth baratoi'r gyfrol ar *Enwau Blodau, Llysiau a Choed.*[138]

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

[137] Gw. R. E. Hughes, 'Enwau Blodau', *Y Gwyddonydd*, 8 (1970), tt. 35-8.
[138] Meirion Parry, *Enwau Blodau, Llysiau a Choed* (Caerdydd, 1969). Gw. hefyd Meirion Parry, 'Casglu Enwau Adar a Blodau', *Y Gwyddonydd*, 6 (1968), tt.147-152.

## (viii)

## John Evans (I. D. Ffraid, 1814 - 1875)

Daeth John Evans yn adnabyddus fel llenor, bardd a beirniad o dan yr enwau 'I. D. Ffraid' ac 'Adda Jones'.[139] Tameidiau o addysg yn unig a gafodd. Mynychodd ysgol Thomas Lloyd, Abergele am rai misoedd ym 1824 ac aeth i ysgol John Hughes, Wrecsam am dymor tua 1830. Heblaw am y cyfnod hwnnw yn Wrecsam, yn Llansantffraid Glan Conwy y bu'n byw ar hyd ei oes. Masnachwr ydoedd wrth ei alwedigaeth ond ym 1840 dechreuodd bregethu ac fe'i hordeiniwyd ef yn weinidog gyda'r Methodistiaid ym 1853. Bu'n oruchwyliwr Cymdeithas Rhyddhad Crefydd a thrwy gyhoeddi propaganda dirwest mewn cyfnodolion Cymraeg, daeth yn un o brif arweinwyr y mudiad dirwestol yng ngogledd Cymru.

Arferai I. D. Ffraid gyfrannu'n gyson i'r cyfnodolion Cymreig. Rhwng 1869 ac 1874, er enghraifft, ysgrifennodd 483 llythyr i *Baner ac Amserau Cymru* yn ymdrin â chryn amrywiaeth o bynciau ond yn bennaf ar agweddau o fywyd gwleidyddol, crefyddol neu gymdeithasol Cymru. Codwyd gwrychyn llawer un gan ei lythyrau a daeth yn ffigwr amlwg yn nadleuon y dydd megis y ddadl fu rhyngddo ac 'S.R.' ynghylch dadsefydliad yr Eglwys Sefydledig yng Nghymru a 'Dadl ar yr Eglwys a'r Wladwriaeth yn Rhyl' rhyngddo a'r Parch. H. T. Edwards.

Dechreuodd I. D. Ffraid ymddiddori mewn iaith a llenyddiaeth Gymraeg a Saesneg yn llanc ifanc. Yn ffodus iawn, derbyniodd gefnogaeth Cymdeithas y Cymreigyddion a sefydlwyd yn Llansantffraid ym 1835 ac mae'r llyfr cofnodion yn dangos ei fod wedi siarad neu ddarlithio ym mhob cyfarfod bron.[140] Dywedodd Wilbert Lloyd Roberts:

---

[139] Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), op. cit., t.229.
[140] LLGC 15, 094 C.

> Dyma'i fan cychwyn fel bardd, llenor, geiriadurwr, cyfieithydd a dadleuwr. Anodd fyddai gor-brisio ei gwerth iddo [y gymdeithas].[141]

Bwriad y Gymdeithas hon oedd:

> Cefnogi Llenyddiaeth y Cymmry, yn ei wahanol ac amrywiol gangenau ...

'Roedd gan yr aelodau ddiddordeb arbennig mewn gwerineiriau Cymraeg a gramadegau ac I. D. Ffraid, mae'n debyg, oedd yn gyfrifol am brynu llyfrau i'r Gymdeithas. Casglwyd arian fel y gellid prynu gramadegau at wasanaeth yr aelodau a lluniwyd:

> ... casgliad o eiriau estronol a arferir mewn ymddyddanion Cymreig ... ynghyd a geiriau Cymreig addas i'w harferu yn eu lle; i'r dyben o gael yr laith yn burach mewn ymddyddan cyffredin.[142]

Pleidiwr y mesur diodl a'r mesurau rhydd oedd I. D. Ffraid. Pan feirniadai mewn eisteddfodau a phan oedd yn golygu'r Wyntyll - colofn farddol *Baner ac Amserau Cymru* - traethai ei farn ar gymhwyster y mesurau gwahanol at fath arbennig o farddoniaeth a mynegai ei syniadau am yr hyn y dylai barddoniaeth fod a beth y dylid ei gynnwys ynddi.

Cyhoeddwyd cyfrol gyntaf I. D. Ffraid - *Hanes yr Iddewon* - pan oedd ond yn un ar bymtheg.[143] Ym 1835 cyhoeddwyd cyfrol dan ei olygyddiaeth a oedd yn cynnwys emynau, carolau, cerddi a chyfieithiadau o ganeuon Saesneg, sef *Difyrwch Bechgyn Glanau Conwy*,[144] ac ym 1870 cyhoeddodd gyfrol i geisio argyhoeddi pobl i anfon eu plant i'r Ysgolion Sul a'u hannog i fynychu'r dosbarthiadau eu hunain.[145] Dechreuodd I. D. Ffraid gyfieithu o'r Saesneg yn gynnar iawn. Cyfieithodd emynau a cherddi, gan gynnwys *Nos Feddyliau* Young, ac ym 1835 cyhoeddwyd cyfieithiad rhyddiaith o'i eiddo, sef *Bywyd Twrpin Leidr*.[146] Dangosodd Wilbert Lloyd Roberts mai disgybl William Owen Pughe oedd I. D. Ffraid yn ei flynyddoedd cynnar a bod y cyfieithiadau a

---

[141] Wilbert Lloyd Roberts, 'Bywyd a gwaith John Evans (I. D. Ffraid).' (Traethawd MA anghyhoeddedig Prifysgol Cymru Bangor, 1950), t.34.
[142] E. Griffiths [-et al.], op. cit.
[143] John Evans, *Hanes yr Iddewon o Gaethiwed Babilon hyd yn Bresenol* (Llanrwst, 1831).
[144] I. D. Ffraid, *Difyrwch Bechgyn Glanau Conwy* (Llanrwst, 1835).
[145] I. D. Ffraid, *Penau Teuluoedd a'r Ysgol Sabbothol* (Dinbych, 1870).
[146] I. D. Ffraid, *Bywyd Twrpin Leidr* (Llanrwst, 1835).

ymddangosodd yn *Difyrwch Bechgyn Glanau Conwy* yn cynnwys llawer o eirfa Pughe.[147] Ceir tudalen arbennig ar ddechrau'r gyfrol: 'Egluraad o'r Geiriau mwyaf annghyffredin yng nghorff y Gwaith hwn'. Er bod rhai ohonynt yn eiriau digon cyffredin, cododd y rhelyw o eiriadur Pughe gan lynu'n weddol glos at yr ystyr a roddasai Pughe iddynt. Yn yr enghreifftiau a ganlyn, nodir [P] i ddangos yr ystyr a rydd Pughe i air a nodir [I. D. Ff.] wrth ochr yr ystyr a ddefnyddid gan I. D. Ffraid:

| | |
|---|---|
| Ansawd | An animate being, a person [P]<br>dyn, *a person* [I. D. Ff.] |
| Cronen | A globe, a sphere [P]<br>byd cyfrgrwn, *a sphere* [I. D. Ff.] |
| Cymyg | Fancy ... [P]<br>dychymyg, derfelydd, fancy [I. D. Ff.] |
| Galon | Enemies, hostlie ones [P]<br>Gelynion [I. D. Ff.] |
| Hyffroen | Apt to snort, snorting [P]<br>a chwytha yn y ffroen, *snorting* [I. D. Ff.] |
| Meryw | Juniper wood [P]<br>the juniper-wood [I. D. Ff.] |
| Nawd | ... nature [P]<br>natur, *nature* [I. D. Ff.] |
| Sawd | ... limit, border, or verge; a siege [P]<br>gwarchae, rhyfel, ymyl [I. D. Ff.][148] |

Gwelir dylanwad Pughe nid yn unig ar eirfa *Difyrwch Bechgyn Glanau Conwy* ond ar y syniadau llenyddol a fynegir yn ogystal. Yn 'Rhagfynegiad' *Coll Gwynfa*, dywed Pughe mai peth diweddar ymhlith beirdd Cymru oedd ystyried y gynghanedd yn anhepgor ac mae'n cyfeirio at:

> ... gaethiwed cadwynau o lythrenau gan rwysg cwmwl o dywyllwch y pymthegfed ganrif.[149]

Mae I. D. Ffraid yn sôn:

> .. am i'r Awen Gymraeg wisgo adenydd cynenid ei rhyddid ... gan ehedeg yn nwyfiant ei dyddiau boreaf[150]

ac adleisir geiriau Pughe pan ddisgrifia'r gynghanedd fel:

---

[147] Wilbert Lloyd Roberts, op. cit., tt.160 -1.
[148] Ibid.
[149] William Owen Pughe, *Coll Gwynfa* (Llundain, 1819), t.vi - vii.
[150] I. D. Ffraid, *Difyrwch Bechgyn Glanau Conwy*, op. cit., t.9.

... llyffetheiriau gormes, a gwisgoedd oesau y tywyllwch.[151]

Cymaint oedd parch I. D. Ffraid at ei feistr llenyddol yn ystod y blynyddoedd cynnar fel yr ysgrifennodd ddwy 'alareb' amdano, un yn y mesur diodl a'r llall ar fesur rhydd odledig.[152] Yng *Coll Gwynfa* Pughe y cafodd I. D. Ffraid ei batrwm o fesur diodl ar gyfer ei 'alareb' gyntaf ac ynddi gwelir holl nodweddion dylanwad athro ar ddisgybl.

Gyda threigl y blynyddoedd llaciodd dylanwad William Owen Pughe ar I. D. Ffraid. Defnyddiodd lai o eirfa Pughe yn ei waith ar ôl 1850 ac eithriad yw'r enghreifftiau ohono'n efelychu ei gystrawen glogymaidd. Er bod gan *Coll Gwynfa* Pughe ei hedmygwyr, mynegwyd cryn anfodlonrwydd gyda'r eirfa ddieithr a'r gystrawen anghymreig. Yn sgil yr anfodlonrwydd hwn, ynghyd â dylanwad Milton ar farddoniaeth Gymraeg a phoblogrwydd newydd y mesur diodl tua chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, daeth galw am gyfieithiad arall o *Paradise Lost*. Ym 1865 cyhoeddwyd trosiad newydd o eiddo I. D. Ffraid, trosiad sy'n dangos pa mor bell yr oedd wedi ymbellhau oddi wrth William Owen Pughe.[153] Yng ngolwg yr I. D. Ffraid ifanc, 'roedd Pughe yn arwr ac yn gymwynaswr ei genedl trwy gyflwyno *Paradise Lost* yn Gymraeg ond erbyn 1865 sylweddolasai ddiffygion Pughe a lluniodd gyfieithiad newydd sydd gryn dipyn yn wahanol i'w batrwm gwreiddiol. Er hynny, gwnaeth I. D. Ffraid ddefnydd helaeth o ansoddeiriau unsill Pughe, megis: 'blawr', 'bôr', 'cellt', 'ffaw', 'chwai', 'ffrom', 'gwull', 'lws', 'nur', 'pludd', a 'twyth'. O bryd i'w gilydd bathodd eiriau cyfansawdd a manteisiodd ar eiriau lluosill y byddai Pughe yn eu cymeradwyo, er enghraifft 'arnfed', 'eirddosawg' a ' gwylosaidd', geiriau sydd ond yn tywyllu ystyr y llinellau.

Un o'r arwyddion cyntaf o ymadawiad I. D. Ffraid â geirfa Pughe yw'r *Geirlyfr Seisonig a Chymreig* a gyhoeddwyd ym 1847.[154] Ni cheir ynddo gymaint o

---

[151] Ibid.
[152] LlGC 15, 093A, t.9. Fe'i cyhoeddwyd yn *Yr Athraw* (1841), t.24. Cyhoeddwyd yr ail alareb yn *Y Gwladganwr* (1837), tt.72-3.
[153] I. D. Ffraid, *Coll Gwynfa* (Wrecsam, 1865).
[154] I. D. Ffraid, *Geirlyfr Seisonig a Chymreig. A New English and Welsh Dictionary, with a Botanical Dictionary subjoined* (Llanrwst, 1847).

eiriau Pughe ag y gellid disgwyl gan un a fu'n edmygydd mor ffyddlon ohono. Bwriad I. D. Ffraid oedd creu geiriadur manwl ond cryno. Dyna'n union a wnaeth oherwydd mae'r gyfrol yn ymdebygu i'r geiriaduron poced yr ydym ni'n gyfarwydd â hwy heddiw ac mae'r print yn eithriadol o fân. Yn ei 'Advertisment' dywed:

> The Reader will perceive that it contains many thousands more English words than any other English and Welsh Dictionary hitherto published.

Mae hyn yn ddigon gwir oherwydd oddeutu 32,000 o brifeiriau sydd ynddo - tua phum mil o eiriau'n fwy na geiriadur Saesneg-Cymraeg Thomas Jones, Dinbych.[155] Mae I. D. Ffraid yn honni iddo fabwysiadu'r egwyddor a ddisgrifiodd William Owen Pughe yn yr hysbyseb ar gyfer ei eiriadur talfyredig ac iddo hepgor nifer fawr o eiriau Cymraeg y gellid cael hyd iddynt mewn geiriaduron Saesneg a Chymraeg eraill. Rhestr o brifeiriau Saesneg, y rhan ymadrodd a'r Cymraeg cyfatebol a geir ganddo ac o bryd i'w gilydd nodir ymadrodd neu ddau sy'n cynnwys prifair arbennig. Mae'n amlwg bod I. D. Ffraid wedi gwneud defnydd helaeth o eiriadur Thomas Jones wrth baratoi'r gwaith. Sylwer, er enghraifft, ar y tebygrwydd rhwng cofnodion y ddau:

| GEIRIADUR SAESONEG A CHYMRAEG (1800) | GEIRLYFR SEISONIG A CHYMREIG (1847) |
|---|---|
| Given, *adj.* rhoddedig; ymroddedig, ymroddgar, ymroddawl; chwannog—*Given to wine*, gwingar—*Given to charity*, elusengar, &c. | Given, a. rhoddedig; ymroddgar, ymroddol; chwannog. —*Given to wine*, gwingar. —*Given to charity*, elusengar |
| Milk, *s.* llaeth, blith—*Sweet-milk*, llefrith—*First-milk*, blaenion, blaenllaeth—*Second-milk*, armail—*Milk-beggar*, llaethai | Milk, s. llaeth, blith. —*Sweet-milk*, llefrith. —*First-milk*, blaenion, blaenllaeth. —*Second-milk*, armael. —*Milk-beggar*, llaethai |
| Rod, s. gwïalen; llath—*Anglingrod*, genwair—*Curtain rod*, llenlath, llen-wïalen | Rod, s. gwialen; llath. —*Anglingrod*, genwair. —*Curtain rod*, llenlath |

Wedi dweud hynny, mae llawer iawn o'u cofnodion yn amrywio cryn dipyn. Gan I. D. Ffraid y mae'r cofnodion manylaf bob amser ac yn sicr ni ddibynnodd mor drwm ar eiriadur Thomas Jones ag y gwnaeth Titus Lewis neu Iolo Fardd Glas ar waith Thomas Richards er enghraifft.

---

[155] Thomas Jones, *Geiriadur Saesoneg a Chymraeg. An English and Welsh Dictionary; in which the English Words with many of the English Phrases are explained by those which Synonymise or Correspond with them in the Welsh Language. Compiled from the best Sources and Materials* ... (Caer, 1800).

GEIRLYFR SEISONIG A CHYMREIG.

A NEW

ENGLISH AND WELSH

DICTIONARY,

WITH A

Botanical Dictionary

SUBJOINED.

COMPILED FROM THE BEST SOURCES.

By JOHN EVANS, (I. D. Ffraid.)

LLANRWST:

PRINTED AND PUBLISHED BY JOHN JONES.

1847

19. John Evans, *Geirlyfr Seisonig a Chymreig* (1847)

Osgôdd I. D. Ffraid ddilyn y ffasiwn a chynnwys esboniadau neu gofnod gwyddoniadurol ei naws yn ei eiriadur. Mae elfen o newydd-deb yn perthyn i'r gwaith oherwydd gwelir ynddo'r ymgais gyntaf i nodi geiriau technegol sy'n perthyn i feysydd arbennig. Mae'n eu labelu yn ôl y dosbarthiadau neu'r categorïau a ganlyn:

anat. anatomy, difyniaeth
arch. architecture, saerniaeth
ast. astronomy, seryddiaeth
bot. botany, llysieuaeth
chym. chymistry, fferylliaeth
com. commerce, trafnidiaeth
her. heraldry, arwyddfarddoniaeth
mas. masonry, maensaerniaeth
mer. mercantile, masgnachol
mus. music, cerddoriaeth
surg. surgery, llawfeddygaeth

Ar ddiwedd y geiriadur ceir 'Geirlyfr Llysieuol' Saesneg-Cymraeg. Er ei fod ychydig yn hwy, mae'n ddigon tebyg i'r 'Cryno-Lysieuydd' gan Thomas Jones, sef rhestr o enwau planhigion a dynnwyd o gorff argraffiad cyntaf y geiriadur ac a roddwyd ar ddiwedd yr ail argraffiad ym 1811.[156] Cyhoeddwyd ail argraffiad o eiriadur I. D. Ffraid flwyddyn yn ddiweddarach, ym 1848.

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

[156] Thomas Jones, *Geiriadur Saesoneg a Chymraeg. An English and Welsh Dictionary; in which the English Words with many of the English Phrases are explained by those which Synonomise or Correspond with them in the Welsh Language. Complied from the best Sources and Materials* ... (Dinbych, 1811).

## (ix)

## Evan Griffiths (Ieuan Ebblig, 1795 - 1873)

Pan gyhoeddodd Evan Griffiths ei eiriadur Cymraeg-Saesneg ym 1847 teimlai, fel Ellis Jones, fod angen cynorthwyo'r ifanc a awchai am wybodaeth gyffredinol.[157] 'Roedd angen gwneud hynny ar fyrder, meddai:

> ... o herwydd mae amgylchiadau pethau o'n cylch yn dangos yn eglur y bydd y Cymry yn fuan dan anfanteision mwy, yn dymhorol ac yn ysbrydol, os nad *ymdrechant* ymeangu mewn gwybodaeth fuddiol. [158]

Ar yr wyneb-ddalen, nodir mai geiriadur i gynorthwyo pobl ifanc ac oedolion i ddysgu'r Saesneg ydoedd. Aeth Griffiths ati i'w lunio dan anogaeth y cyhoedd a'i poenai'n gyson am eiriadur Cymraeg a Saesneg rhad a chynhwysfawr ond dywed nad oedd ganddo drefn bendant neu orgraff safonedig i'w dilyn:

> Byddai yn fanteisiol iawn pe meddem drefn yn nghylch cydseiniaid a therfyniadau berfau ac ansoddeiriau, ar yr hon y cytunid yn gyffredin, ond ni feddwn un; ac felly ni bum yn fanol i ddilyn un drefn yn eu cylch.

Dywed hefyd, iddo ddefnyddio'r geiriadur a gyhoeddwyd yng Nghaerfyrddin ym 1823, sef geiriadur Evan Jones, a'i fod wedi ychwanegu dros ddwy fil o eiriau Cymraeg ato.[159]

Tra'r oedd yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn Pilton Green a Park Mill, Bro Gŵyr, dechreuodd Evan Griffiths ddangos diddordeb ym myd argraffu.[160] Ym 1828 ymddiswyddodd o'i fugeiliaeth a symud i Abertawe fel y gallai ganolbwyntio ar waith mawr ei fywyd, sef ei gyfieithiad Cymraeg o esboniad Matthew Henry ar y Beibl[161]. Trodd Griffiths yn llyfrwerthwr ac yn argraffydd ym 1830 pan brynodd ei fusnes argraffu ei hun ar y Stryd Fawr yn Abertawe.

---

[157] Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), op. cit., t.284.

[158] Evan Griffiths, *Welsh and English Dictionary, in which Welsh words are explained by corresponding English words; Designed to assist enquiring Youths, and others, to acquire a knowiedge of the English language* (Abertawe, 1847).

[159] Evan Jones, op. cit.

[160] Owen Morris, *Llyfryddiaeth Ieuan Ebblig: A checklist of the publications of Evan Griffiths, Swansea beween 1830 and 1867*, adargraffiad o *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 26, 1-2, (1989), t.62.

[161] E. Griffiths [-et al.], *Dehongliad ar y Bibl Sanctaidd ... gan Matthew Henry* (Abertawe, 1828-1835).

Rhwng 1830 a 1867, amcangyfrifir iddo argraffu dros 200 o weithiau a oedd yn ymwneud, yn bennaf, â materion crefyddol, addysgol neu gymdeithasol.[162] Dywedodd Owen Morris:

> His publications illustrate the striving for self-education and self-improvement of the Welsh working class and their deep interest in religious doctrine; and the limits which bounded their intellectual and cultural life.[163]

Daeth Evan Griffiths yn ŵr amlwg ym mywyd cyhoeddus a chrefyddol Abertawe a throdd ei siop argraffu yn fan cyfarfod i ymwelwyr a gweinidogion. Mae'n bosib iawn bod cysylltiad rhwng dau eiriadurwr, sef Ellis Jones ac Evan Griffiths, gan fod y ddau yn rhan o'r byd argraffu yn Abertawe tua'r un cyfnod.

Heb os, llais y llyfrwerthwr sydd i'w glywed yn rhagymadrodd y geiriadur oherwydd rhydd yr argraff ei fod yn gosod gerbron y Cymry waith nad argraffwyd erioed o'r blaen. Wrth sôn am unrhyw elfen newydd sy'n perthyn i'r gwaith, gofalodd ddefnyddio lythrennau italig. Byddai *'iselbris* a *chynnwysfawr'*, 'chwanegwyd ato *gryn lawer dros ddwy fil* o eiriau' a '*rhoddir ef am yr un pris*' (sef pum swllt) yn siŵr o dynnu sylw a hybu gwerthiant. Rhwng 34,000 a 35,000 prifair Cymraeg sydd yn y geiriadur ond cofnodion syml iawn a geir ynddo. Nodir y prifair Cymraeg, y rhan ymadrodd a hyd at dri chyfieithiad Saesneg. Glynodd Griffiths yn glos wrth batrwm a chynnwys geiriadur Evan Jones. Mae hynny o gyfeiriadau at y Beibl sydd ganddo eisoes wedi ymddangos yng ngwaith Jones a phrin iawn yw'r idiomau neu'r isgofnodion. Mae'r eithriad a grybwyllwyd eisoes, sef y cofnodion niferus am geiliogod gwahanol, yn ymddangos am y trydydd tro ac fe fyddai'n rhaid i'r sawl a geisiai'r Saesneg am 'padell glin' ac 'agalen o sebon' ddisgwyl ychydig yn hwy cyn cael cyfieithiad! Yn anffodus, nid yw'r ffaith iddo wneud ymdrech i gynnwys rhai miloedd o brifeiriau newydd yn ychwanegu dim at werth y gwaith, oherwydd geiriau a godwyd o eiriadur William Owen Pughe yw llawer iawn ohonynt.

---

[162] Owen Morris, 'Foreword', op. cit.
[163] Ibid.

WELSH & ENGLISH

# DICTIONARY,

IN WHICH

WELSH WORDS ARE EXPLAINED

BY

CORRESPONDING ENGLISH WORDS;

Designed to assist enquiring Youths, and others, to acquire a knowledge of the English Language.

---

# GEIRIADUR

CYMRAEG A SAESONAEG.

YN YR HWN YR

EGLURIR GEIRIAU CYMREIG

TRWY

AMRYWIOL O EIRIAU SEISNIG CYFATEBOL

Er cynnorthwy Ieuenctyd, ac creill, a awyddant am wybodaeth o'r Iaith Saesonaeg.

GAN E. GRIFFITHS ABERTAWY.

ABERTAWY:
ARGRAFFWYD GAN E. GRIFFITHS, HEOL FAWR.
1847.
[*Price Five Shillings, in boards.*]

20. Evan Griffiths, *Welsh & English Dictionary* ...(1847)

Cyhoeddodd Evan Griffiths *An English and Welsh Vocabulary* rhad ym 1848[164] a chyhoeddwyd tri argraffiad arall ohono, ym 1852, 1859 ac 1866.[165] Yn y nodyn 'At y Darllenydd', dywed mai llyfryn bychan i'w ddefnyddio gan rieni ac ysgolfeistri wrth addysgu plant ydoedd yn bennaf. Rhannodd gynnwys yr ugain tudalen gyntaf yn adrannau: noda enwau'r tymhorau yn Saesneg ac yn Gymraeg ac fe geir geirfa'n ymwneud â'r tywydd, dyddiau'r wythnos, rhifau a rhannau'r corff. Fe'u dilynir gan gyfres o ymddiddanion, megis 'the mother and her children', 'a journey to the country, 'a visit to the country to see a sick man', father's counsels to his sons' a 'going to a place of worship'.

Bu Evan Griffiths yn awdur diwyd am weddill ei oes, ond ni pharhaodd gyda'i waith geiriadurol. Cyhoeddodd dros ddeugain o fân weithiau o'i eiddo ef ei hun yn cynnwys traethodau, cofiannau, casgliad o emynau[166] a chyfieithiadau o weithiau megis *Mute Christian* Brooks,[167] *Lectures on Revivals of Religion a Sermons* Finney,[168] *Rise and Progress* Doddridge[169] ac *Oriental Customs* Burden.[170] Daliai i bregethu'n gyson er nad oedd ganddo ofal eglwys ac yn ei wasg ef y cyhoeddwyd *Y Rhosyn*, sef misolyn ar gyfer yr Ysgolion Sul rhwng 1832 a 1833, yn ogystal â *Trysorfa Gynnulleidfaol Gwent a Morgan(n)wg* ym 1843 a 1845.

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

---

164 Yn ôl Owen Morris ni chedwid copi ohono ond mae copi bellach yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Owen Morris, op. cit., t.70.
E. Griffiths, *An English and Welsh Vocabulary: containing a list of words in common use, together with several familiar dialogues upon various subjects* (Abertawe, 1848).
165 Llyfrgell Dinas Abertawe C.113. Ar goll.
166 Evan Griffiths, *Casgliad o Hymnau wedi eu dosparthu dan wahanol bennau yn nghyd ag amrywiol o anthemau* (Abertawe, 1867). Gw. Brinley F. Roberts, 'Emynwyr Abertawe', *Bwletin Emynau Cymru*, Cyf. 2 (1978-1988), tt.179-84.
167 Evan Griffiths, *Y Cristion dystaw dan y wialen geryddol ...* (Abertawe, 1830).
168 Evan Griffiths, *Darlithiau ar adfywiadau crefyddol ... wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg* (Abertawe, 1839).
169 Evan Griffiths, *Dechreuad a chynnydd crefydd yn yr enaid ...* (Abertawe, 1836).
170 Evan Griffiths, *Defodau dwyreiniol: yn cael eu cymmwyso er egluro yr ysgrythyrau Santaidd* (Abertawe, 1848).

## (x)

## William Spurrell (1813 - 1889)

Tua chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ystyriwyd geiriadur Cymraeg-Saesneg William Spurrell fel cam ymlaen ym maes geiriaduraeth yng Nghymru.[171] Cyhoeddwyd y rhan gyntaf, ynghyd â gramadeg Cymraeg, yn argraffwasg Spurrell ei hun yng Nghaerfyrddin ym mis Gorffennaf 1847 ac fe'i gwerthwyd am chwe cheiniog.[172] Erbyn mis Gorffennaf 1848 'roedd yr holl rannau - deuddeg i gyd - wedi ymddangos ac 'roedd y gyfrol gyfan ar gael am chwe swllt neu am wyth swllt mewn clawr croen llo.[173] Rhagflaenwyd y geiriadur gan ramadeg Spurrell[174] ond gellid prynu hwnnw ar wahân am ddau swllt.[175]

Oddeutu 30,000 prifair sydd yn y geiriadur hwn ac yn y rhagair, noddodd Spurrell ei amcanion yn glir:

> In preparing this Dictionary for the press, the labours of the editor have extended to a careful collation of the work with others more expensive, to the adoption of a more uniform system of orthography than has been adhered to in former editions, to the addition of plural terminations to the nouns, and to the correction of many obvious improprieties in both the Welsh and English portions of the work.[176]

Prifair Cymraeg, rhan ymadrodd a dau neu dri gair Saesneg cyfatebol a ddangosir fel arfer ynghyd â therfyniadau neu ffurfiau lluosog enwau Cymraeg. Weithiau, fe geir esboniad neu nodyn ynglŷn â'r defnydd arbennig a wneir o ambell air, er enghraifft:

Arfogwl, *nf*, dried skin on a post, with pebbles in it, used to scare cattle.

Ceilioges, -au *nf*, hen : used only in a metaphorical sense, and applied chiefly to women. Mae hi yn un geilioges, she is in good health and high spirits.

Cistfaen, feini, *n*, a British monument, consisting of four flat stones placed at right angles, with a fifth on top.

---

[171] Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), op. cit., t.865.
[172] *Seren Gomer*, (1847), t.239. Gw. hefyd clawr *Yr Haul*, Awst (1847).
[173] William Spurrell, *Geiriadur Cymraeg a Saesonaeg, ynghyd a grammadeg o iaith y Cymry. A dictionary of the Welsh language ... to which is prefixed a grammar of the Welsh language* (Caerfyrddin, 1848).
[174] William Spurrell, *Grammadeg o iaith y Cymry : a grammar of the Welsh language* (Caerfyrddin, 1848).
[175] Clawr *Y Diwygiwr*, Medi (1848).
[176] Ibid.

GEIRIADUR CYMRAEG A SEISONEG.

---

A

# DICTIONARY

OF THE

# WELSH LANGUAGE.

WITH THE

ENGLISH SYNONYMES AND EXPLANATIONS.

BY WILLIAM SPURRELL.

NEW YORK:
PRINTED AND PUBLISHED BY JOHN M JONES.
MDCCCLXI.

21. William Spurrell, *Geiriadur Cymraeg a Seisoneg* ... (Efrog Newydd, 1861)

Peithynen, *nf*, the ancient bardic writing frame, consisting of the *ebillwydd*, or staves, on which the letters were cut, and the *pillwydd*, or supporters, in which the end of the staves were fixed.

O bryd i'w gilydd, mae Spurrell yn defnyddio S.W. neu N.W. i ddynodi pa eiriau sy'n arferedig yn ne a gogledd Cymru, nodwedd na chawsai fawr o sylw gan eiriadurwyr eraill y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dilynir 'bord', 'chwitchwat' a 'macsu' gan (S.W.) er enghraifft ac fe welir (N.W.) wrth ymyl 'bwrdd', 'erfin' a 'darllaw'. Er bod enwau blodau, planhigion, llysiau ac afiechydon yn britho tudalennau'r geiriadur, ychydig iawn o isgofnodion a geir eithr mae hynny'n wir am nifer o 'eiriaduron llogell' y cyfnod wrth i'r geiriadurwyr geisio cywasgu cymaint o brifeiriau â phosibl i bob tudalen.

Ym 1850, aeth geiriadur Saesneg-Cymraeg Spurrell, a oedd yn cynnwys canllawiau ar sut i ynganu pob prifair, ar werth am saith swllt.[177] Ni welwyd unrhyw ymgais i gyflwyno canllawiau o'r fath mewn geiriadur ers i gyfrol William Evans ymddangos ym 1771,[178] felly nid oes ryfedd bod y gwaith newydd hwn wedi derbyn croeso brwd. Dyma gŵyn un adolygydd, a'i werthfawrogiad o eiriadur Spurrell:

> Wrth droi am air i'r holl Eiriaduron eraill, cyn y cawn wybod sut i'w seinio yn iawn, mae yn rhaid i ni gael Geiriadur Saesonaeg Smart, neu ryw un arall, i ail droi y gair eilwaith; ond yn Ngeiriadur Mr. Spurrell, cawn nid yn unig air cyfatebol yn Gymraeg, a'i ystyr, ond hefyd yr iawn sain, heb fyned i'r draul a'r drafferth o ymofyn Geiriadur arall eilwaith.[179]

Cyfeddyf Spurrell yn y rhagymadrodd, iddo ddilyn - mewn achosion dadleuol - ganllawiau ynganu Smart.[180] Cyfeddyf hefyd iddo ymgynghori ag un geiriadur ar hugain arall ond nid yw'n eu henwi. Gan gyfeirio at weithiau geiriadurwyr adnabyddus y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg megis

---

[177] William Spurrell, *An English-Welsh Pronouncing Dictionary, with preliminary observations on the Elementary Sounds of the English Language, and a Copious Vocabulary of the Roots if English Words; neu, Eiriadur Cynaniaethol Saesonaeg a Chymraeg, yn nghyda Sylwadau Rhagarweiniol ar Seiniau Egwyddorol yr Iaith Saesonaeg, a Llechres o'i Gwreiddiau* (Caerfyrddin, 1850). Cyhoeddwyd ail argraffiad o'r gramadeg ar ddechrau'r gyfrol.

[178] William Evans, *New English-Welsh Dictionary, Containing All Words necessary for Reading an English Author ...* (Caerfyrddin, 1771).

[179] *Y Diwygiwr*, Mehefin (1851), t.182.

[180] B. H. Smart, *Walker Remodelled. A new critical pronouncing dictionary ... adapted to the present state of literature and science* (Llundain, 1836).

AN ENGLISH-WELSH PRONOUNCING DICTIONARY,

WITH

PRELIMINARY OBSERVATIONS ON THE ELEMENTARY SOUNDS OF THE ENGLISH LANGUAGE, A COPIOUS VOCABULARY OF THE ROOTS OF ENGLISH WORDS, AND A LIST OF SCRIPTURE PROPER NAMES.

---

GEIRIADUR CYNANIAETHOL

SEISONEG A CHYMRAEG,

YNG NGHYD A

SYLWADAU RHAGARWEINIOL AR SEINIAU EGWYDDOROL YR IAITH SEISONEG, LLECHRES O'I GWREIDDEIRIAU, A GEIRFA O ENWAU PRIODOL YSGRYTHYROL.

GAN

WILLIAM SPURRELL.

[AIL ARGRAFFIAD.]

CAERFYRDDIN: WILLIAM SPURRELL.

MDCCCLXI.

22. William Spurrell, *An English-Welsh Pronouncing Dictionary* ... (2il arg. 1861)

Smart,[181] Walker,[182] Knowles,[183] Sheridan[184] a Worcester,[185] cyflwynir 'The Elementary Sounds of the English Language', 'Key to the Pronounciation', 'Irregularities in Etymology' ac 'Errors Committed by Welshmen' ar ddechrau'r geiriadur. Mabwysiadodd Spurrell y dull arferol o ailsillafu'r prifair gan ddangos arwyddnodau ar rai llafariaid ac acenodau. Mae ganddo hefyd, fel y ceir yng ngeiriadur John Walker er enghraifft, ganllawiau ar frig pob tudalen.[186] Oddeutu 27,000 prifair sydd yn y geiriadur. Gan fod y cyfarwyddiadau ynganu yn mynd â chymaint o le, un neu ddau air Cymraeg cyfatebol a nodir ar ôl pob un fel rheol ac ychydig iawn o isgofnodion a geir.

Plesiwyd y cyhoedd yn fawr gan y ddau eiriadur. Wrth reswm, 'roedd cyfarwyddiadau ynganu'r geiriadur Saesneg-Cymraeg yn ateb y galw am wybodaeth o'r fath ymysg y rhai a ddymunai ddysgu Saesneg. Cawsai'r geiriadur Cymraeg-Saesneg sylw yn y wasg pan ymddangosodd fesul rhifyn felly pan ddaeth yr adeg i hysbysebu'r gyfrol orffenedig, gallai William Spurrell ddyfynnu darnau o adolygiadau ffafriol. Ar y cyfan, ystyrid y gwaith fel datblygiad nodedig yn hanes geiriaduraeth ac yn ôl y *Carmarthen Journal:*

> We are justified in recommending it as a production of no mean merit.[187]

Yng ngolwg y rhai a'i hadolygodd, rhagorai'r gyfrol hon ar y geiriaduron poblogaidd diweddaraf oherwydd ei bod yn cynnwys geiriau cyfoes - "words called for by the requirements of the times" - ac oherwydd ei bod yn rhydd o wallau amrwd y cyfrolau a'i rhagflaenodd.[188] Yn ôl un adolygydd:

---

[181] Ibid.

[182] John Walker, *Critical Pronounciation Dictionary and Expositor of the English Language* (Llundain, 1791).

[183] James Knowles, *A pronouncing and explanatory dictionary of the English language ...* (Llundain, 1835).

[184] Thomas Sheridan, *A General Dictionary of the English Language. One main object of which is, to establish a plain and permanent standard of pronounciation ...* (Llundain, 1780). Hefyd: Stephan Jones (gol.), *Sheridan improved: general pronouncing and explanatory dictionary of the English language for the use of schools, foreigners, &c., on the plan of Mr. Sheridan* (Llundain, 1813).

[185] Joseph Worcester, *A Comprehensive, Pronouncing and Explanatory Dictionary* (Philadelphia, 1830).

[186] John Walker, op, cit.

[187] *Carmarthen Journal*, 2 Mehefin (1848).

[188] *Glamorgan Herald*, 21 Mehefin (1848).

> This Work is likely to supersede the most popular of the imperfect editions which have too long disgraced the book trade, and which have fortunately for the most part run out of print ...[189]

ond perchid gwaith Pughe yn anad unrhyw eiriadur *arall o hyd*:

> The Dictionary, which is copious, is superior to any we have seen, excepting only the expensive work of Dr. Pughe.[190]

'Roedd geiriadur Cymraeg-Saesneg Spurrell yn ddigon cynhwysfawr - 'roedd yn cynnwys oddeutu 31,000 o brifeiriau. Câi ei ganmol am ei fod yn dynodi terfyniadau lluosog ac am ragoriaeth y diffiniadau:

> ... the definitions are more in accordance with the genius of the English language than in other similar works.[191]

Yn wir, credid y byddai'r geiriadur yn "atteb holl ddibenion y werin"[192] ac y byddai'n fuddiol dros ben i Gymry a Saeson fel ei gilydd:

> The Work will be peculiarly serviceable to English persons desirous of attaining a knowledge of the Welsh language, and to Welshmen possessing a limited acquaintance with the English.[193]

'Roedd y ffaith fod gramadeg "syml ac hawdd ei ddeall"[194] yn rhagflaenu'r geiriadur hefyd yn rhinwedd y gellid ei brolio:

> The Grammar will be serviceable to many young persons who have neglected their Welsh studies during the process of their English education. It will refresh their memories, and enable them to acquire a tolerable correct knowledge of their native language in a short time.[195]

At hyn oll, ystyrid y geiriadur Cymraeg-Saesneg fel carreg filltir yn hanes argraffu hefyd. Trawyd sawl un a'i hadolygodd gan ymddangosiad y gyfrol - "a very neatly-printed book"[196] a oedd "... yn hardd iawn o ran papur ac argraffwaith".[197] Mewn un adolygiad, nodir bod diwygiad mawr wedi digwydd yng Nghymru tua chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gynt, nid oedd gwerth cymharu cynhyrchion gweisg Cymreig ag eiddo'r gweisg Seisnig "o ran *ymddangosiad*". Câi llawer o'r llyfrau Cymraeg gorau, meddai'r adolygydd, eu diraddio oherwydd hynny ond bellach:

---

189 *Silurian*, 24 Gorffennaf (1847).
190 *Silurian*, 16 Medi (1848).
191 *Silurian*, 6 Medi (1848).
192 *Yr Haul*, Gorffennaf (1847), t.235.
193 *Tenby Chronicle*, 9 Gorffennaf (1847).
194 *Y Diwygiwr*, Mehefin (1848), t.183.
195 *Principality*, 1 Medi (1848).
196 *Welshman*, 2 Mehefin (1848).

> ... y mae y Cymry yn troi allan gystal gwaith â'r Saeson mwyaf medrusgamp.[198]

'Roedd y geiriadur yn adlewyrchu'r enw da a roddwyd i Spurrell am waith argraffu o'r radd flaenaf. Pan sefydlodd ei argraffwasg yng Nghaerfyrddin ym 1840, 'roedd gan Spurrell brofiad o weithio ym myd argraffu eisoes. Ar ôl derbyn addysg yn ysgol ramadeg y Frenhines Elisabeth, Caerfyrddin, bwriodd Spurrell bum mlynedd o brentisiaeth yn argraffwasg John Powell Davies yn King Street. Yna, aeth i swyddfa argraffu a chyhoeddi Bradbury ac Evans yn Llundain ym 1835 lle bu'n gweithio ar yr argraffiadau cyntaf o *Pickwick Papers* a *Nicholas Nickleby* Charles Dickens a *Henrietta Temple* Benjamin Disraeli.[199] Bu yno am bum mlynedd cyn dychwelyd i Gaerfyrddin i sefydlu busnes a ddatblygodd yn fuan i fod yn un o weisg mwyaf cynhyrchiol a llwyddiannus Oes Fictoria. Cyfeiriodd J. E. Southall ati fel:

> ... the only important Welsh book firm in South Wales.[200]

Bu William Spurrell yn gyfrifol am argraffu a chyhoeddi i safon uchel weithiau llenyddol mawr a theitlau safonol ym meysydd crefydd a thopograffiaeth. Cyfrannai'n gyson i'r *Printers' Register* ac adolygodd broflenni *Southward's Dictionary of Typography*. Bu hefyd yn gyfrifol am wella agweddau technegol ar argraffu trwy gynllunio, er enghraifft, y cas teip safonol.[201] Trwy wneud gwaith or fath, magodd gysylltiadau â llenorion trwy Gymru a daeth yn gyfaill i wŷr megis Morris Williams (Nicander), John Rowlands (Giraldus) a Daniel Silvan Evans.[202] Ym 1884, lluniodd gynllun cyhoeddi rhwysgfawr ar gyfer geiriadur Cymraeg Silvan, y dasg fwyaf yr ymgymerodd â hi erioed. Rhwng 1857 ac 1864 bu'n argraffu ac yn golygu *Yr Haul* - y misolyn eglwysig hynaf - ac ym 1862 cychwynnodd gylchgrawn eglwysig arall, sef *Y Cyfaill Eglwysig*. 'Roedd Spurrell yn ŵr diwylliedig, yn awdurdod ar dopograffeg, pynciau hynafiaethol a materion yn ymwneud â hanes lleol. 'Roedd yn un o sylfaenwyr Cymdeithas Hynafiaethol sir Gaerfyrddin ac ef oedd awdur *Carmarthen and its Neighbourhood*. Rhwng 1860 ac 1884, cyhoeddai *The Carmarthen Chronicle*

---

197 *Y Diwygiwr*, Mehefin (1848), t.183.
198 *Seren Gomer* (1847), t.239.
199 Malcom and Edith Lodwick, *The Story of Carmarthen* (Casnewydd, 1953), t.143.
200 J. E. Southall, *Wales and her Language* (Casnewydd, 1892), t.305.
201 E. Vernon Jones, 'William Spurrell, 1813-89', *The Carmarthenshire Historian*, 15 (1978), t.79.
202 R. T. Jenkins a John E. Lloyd a William Llywelyn Davies (goln.), op. cit., t.865.

*and Haul Advertiser* yn wythnosol, sef pamffled dwy dudalen yn cynnwys newyddion lleol a sylwadau personol Spurrell. Cefnogai unrhyw gynllun i ledaenu addysg, yn enwedig ymysg y dosbarth gweithiol. Cyhoeddodd *Welsh and English Primer*[203] ym 1856 ynghyd â llyfr gwersi Cymraeg.[204] Wedi ei farwolaeth ym 1889, parhaodd llwyddiant y wasg dan arweiniad ei fab, Walter Spurrell.

Prawf o boblogrwydd geiriaduron Spurrell yw'r adargraffiadau a wnaed ohonynt. Ym 1937 mynegodd David Lloyd George pa mor ddefnyddiol oedd y geiriadur Cymraeg:

> I deeply appreciate the great service which the firm of W. Spurrell & Son have rendered over a long period to the Welsh language by producing successive editions of their Welsh Dictionary. I myself have found their last edition invaluable ...[205]

Cyhoeddwyd fersiwn diwygiedig o'r geiriadur Cymraeg-Saesneg am yr eildro ym 1859:

> ...assimilated in its orthography and in the genders and plurals of nouns to 'Llythyraeth yr Iaith Gymraeg', by the Rev. D. Silvan Evans.[206]

Ymddangosodd argraffiadau pellach ym 1866, 1889 a 1904. Oherwydd bod galw ymhlith llenorion Cymraeg Unol Daleithiau America a'r bobl ifanc a ddymunai ddysgu Cymraeg, cyhoeddwyd argraffiad yn Efrog Newydd ym 1861 gan J. M. Jones[207] ac un arall gan J. J. Jones, Utica, ym 1864.[208] Ymddangosodd argraffiadau pellach o'r geiriadur Saesneg-Cymraeg ym 1861, 1872, 1903, 1905 a 1909. Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, diwygiwyd geiriaduron Spurrell gan John Bodfan Anwyl ac fe geir ymdriniaeth gryno ar yr argraffiadau hynny ym mhennod 8.

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

---

[203] William Spurrell, *A Welsh and English primer, containing easy lessons in both languages* (Caerfyrddin, 1856).
[204] William Spurrell, *Practical lessons in Welsh in imitation of the natural method of learning to speak a language* (Caerfyrddin, 1881).
[205] E. Vernon Jones, op. cit., t.78.
[206] William Spurrell yn 'Rhagair', *Geiriadur Cymraeg a Seisoneg. A Dictionary of the Welsh Language with English Synonymes and Explanations* (Caerfyrddin, 1859).
[207] William Spurrell, *Geiriadur Cymraeg a Saesneg. A Dictionary of the Welsh Language. With the English Synonymes and Explanations* (Efrog Newydd, 1861).
[208] William Spurrell, *Geiriadur Cymraeg a Seisoneg. A Dictionary of the Welsh Language* (Utica, 1864).

## (xi)

## Thomas Edwards (Caerfallwch, 1779 - 1858)

Codwyd gobeithion y Cymry hynny a fu'n disgwyl am eiriadur Saesneg-Cymraeg newydd pan ddatgelwyd, ym 1826, bod William Owen Pughe yn paratoi geiriadur a oedd yn seiliedig ar waith Dr Samuel Johnson.[209] Bid siŵr, trwy gyfrwng cymdeithasau Cymry Llundain y daethai Pughe'n gyfarwydd â Thomas Edwards (Caerfallwch), un a edmygai Pughe fel llenor ac ysgolhaig ac un a lyncasai ei syniadau ieithyddol yn llwyr.[210] Brodor o Laneurgain, Sir y Fflint ydoedd. Rhwymwyd ef yn brentis i gyfrwywr yn yr Wyddgrug pan oedd yn bedair ar bymtheg ac yn ddiweddarach cafodd swydd fel ysgrifennydd mewn gwaith glo yn yr ardal. Dechreuodd ymddiddori mewn llyfrau pan oedd yn fachgen ond gan na feddai lawer o wybodaeth am y Saesneg yr adeg honno, teimlai fod angen geiriadur da arno.[211] Mae'n eithaf posib bod Caerfallwch wedi dod i gysylltiad â Thomas Jones gan fod y ddau wedi byw yn yr Wyddgrug tua'r un adeg ond nid oes tystiolaeth i gadarnhau hynny. Ym 1806 symudodd Caerfallwch i brif swyddfa'r cwmni gwaith glo yn Llundain ac yna ym 1815 penodwyd ef yn ysgrifennydd i Nathaniel M. Rothschild, swydd a ddaliodd hyd ddiwedd ei oes.

Os yw'r hyn a ddywedodd Tegid am y cysylltiad llenyddol rhwng William Owen Pughe a Chaerfallwch yn wir, Caerfallwch fu'n gyfrifol yn y lle cyntaf am ddarbwyllo'i eilun i drosi geiriadur Johnson air am air i'r Gymraeg.[212] Yn ystod y blynyddoedd dilynol, datblygodd y berthynas hon rhwng meistr a disgybl wrth i Gaerfallwch ateb ymholiadau ynghylch y geiriadur a chyfaddef ei fod ef ei hun wedi cynorthwyo Pughe i'w baratoi:

> My ateb yw y daeth yr addewid o enau y gwr ei hun, ac y darfu i minau ysgriviaw amrai ddalenau iddo yn ol ei ewyllys er dechreu y gwaith -- mwy nis gwn.[213]

---

[209] *Y Gwyliedydd*, Medi 1826, t.273.
[210] Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), op. cit., tt.183-4.
[211] David Hughes, *An English-Welsh Pronouncing Dictionary* (Treffynnon, 1864), t.i.
[212] *Seren Gomer*, Gorffennaf 1834, t.213.
[213] *Seren Gomer*, Tachwedd 1834, t.334.

Ar ôl i hysbyseb ymddangos yn y wasg ym 1827 yn sôn am argraffu'r gyfrol, dwysaodd y disgwyl amdani ond flwyddyn yn ddiweddarach hysbyseb am ail argraffiad o eiriadur Cymraeg-Saesneg 1803 Pughe a ymddangosodd.[214] Gan ddibynnu unwaith eto ar dystiolaeth Tegid, mae'n debyg bu'n rhaid i Pughe roi'r gorau i'r geiriadur Saesneg-Cymraeg oherwydd henaint a salwch. Dyna pryd y dechreuodd Caerfallwch lunio geiriadur ar ei ben ei hun.[215]

Heblaw am ei gysylltiad â William Owen Pughe, 'roedd enw Caerfallwch yn ymddangos yn gyson yng nghylchgronau'r cyfnod mewn cysylltiad â phynciau geiriadurol ac ieithyddol. Cyfrannai'n gyson i *Y Goleuad*, *Y Gwyliedydd*, *Y Diwygiwr* ac yn enwedig i *Seren Gomer* gan ychwanegu atodiad yn aml iawn, ar ffurf rhestr o'r termau technegol a fathodd.[216] Er iddo dreulio rhan fwyaf ei oes yn Llundain, ni phylodd ei ddiddordeb ym mywyd a llenyddiaeth ei wlad enedigol. Ymdeimlai â'r un gwladgarwch a'r un cariad at y Gymraeg a nodweddai'r Cymry eraill y daeth i'w hadnabod yno ac yn sicr trwy ei gysylltiad ag aelodau'r cymdeithasau Cymreig y taniwyd ei ddiddordeb eithriadol mewn geiriau. Cynigiodd Elwyn L. Jones ddau reswm arall am y diddordeb hwn, sef ei allu arbennig ef ei hun a natur y swydd a ddaliai.[217] Awgrymodd fod Caerfallwch, yn enwedig trwy deithio'r cyfandir gyda'r Rothschilds, wedi dod yn fwy ymwybodol na'i gyfoeswyr o anghymhwyster y Gymraeg i gyfleu'r pethau a ddefnyddid bob dydd yn yr oes fodern.[218] Aeth ati gydag argyhoeddiad ac egni anhygoel i greu termau Cymraeg er mwyn cyfleu gwrthrychau neu syniadau newydd. Nid oedd Caerfallwch ar ei ben ei hun yn ei ddymuniad i fathu geiriau newydd sbon, oherwydd 'roedd y cylchgronau i gyd yn adlewyrchu'r un awydd. Arferai ohebu ag Arfonwyson a oedd, fel y gwelwyd eisoes, yn un o fathwyr hunanbenodedig y cyfnod ac a aeth ati i greu termau arbennig ar gyfer rhifyddeg i'w defnyddio yn ei *Elfenau Rhifyddiaeth*. Gan fod Caerfallwch yn hoff o gyhoeddi'r termau a fathodd, mewn un ystyr gellir ei ystyried yn fathwr hunanbenodedig fel Arfonwyson o'i flaen. Eto i gyd, gan fod pobl yn gofyn iddo

---

[214] William Owen, *Geiriadur Cynmraeg a Saesoneg: A Welsh and English Dictionary ... to which is prefixed a Welsh Grammar* (Llundain, 1793-1803).
[215] *Seren Gomer*, Tachwedd 1834, t.334.
[216] Gw. er enghraifft *Y Gwyliedydd*, Medi 1826, tt.273-274 a *Seren Gomer*, Mai 1834, tt.140-1.
[217] Elwyn L. Jones, 'Bywyd a gwaith Thomas Edwards (Caerfallwch)'. (Traethawd MA anghyhoeddedig Prifysgol Cymru Abertawe, 1956), t.56.

gyfieithu termau arbennig ac yn galw am ei wasanaeth yn gyhoeddus trwy gyfrwng y cylchgronau Cymreig, gellir honni iddo ddatblygu'n fathwr penodedig erbyn diwedd dauddegau'r ganrif. Caerfallwch oedd yr un a gydnabyddid fel prif awdurdod y cyfnod ym maes bathu termau technegol newydd yn Gymraeg ac fe gâi ei barchu fel "un o'r awdurdodau disgleiriaf ar yr iaith Gymraeg". Dyma ganmoliaeth 'Sam Fôn' ym 1839:

> Caerfallwch!!! gwelwch y gŵr - hynodawl
> Hwn ydyw'n geirlyfrwr.
> Amrywgall ddwfn Gymreigiwr
> Eitha' dyn, i'n hiaith yn dwr.

Brithir darlithiau ac ysgrifau Caerfallwch ar bynciau ariannol gan ei dermau newydd ef neu rai a fathwyd gan William Owen Pughe, megis 'argedfa' (*exchequer*), 'dyraniad' (*dividend*), 'dŷl/dylion' (*bill/duty/tax*) a 'ced Lloegr' (*bank of England*).[219] Dywedodd Elwyn L. Jones:

> Byd arian oedd ei fyd swyddogol bob dydd ac yr oedd yn naturiol iddo fel geiriadurwr geisio llunio geiriau a'i galluogai i gyfleu syniadau byd busnes i'w gyd-Gymry yn eu hiaith eu hunain.[220]

Ni chyfyngodd ei gyfraniadau i'r byd hwn yn unig. 'Roedd ganddo ddiddordeb arbennig mewn cerddoriaeth er enghraifft ac fe'i gwelir, ym 1828, yn cyhoeddi rhestr yn cynnwys yn agos at ddau gant o dermau cerddorol Cymraeg yn *Seren Gomer*.[221] Gofynnwyd iddo am dermau Seryddiaeth yn Gymraeg[222] ac fel ateb i ymholiadau arbennig, cyhoeddodd restrau o dermau Dillad[223] a Rhifyddeg yn *Seren Gomer* ym 1830.[224] Awgrymodd Gwrgant ar dudalennau *Seren Gomer* fod Caerfallwch wedi codi llawer iawn o dermau o eiriadur Pughe.[225] Ni chydnabyddai Caerfallwch ei ffynonellau pan anfonai ei restrau at y cylchgronau ond gellir dangos bod honiad Gwrgant yn ddigon gwir oherwydd mae'r geiriau a ganlyn, a fathwyd gan Pughe yn wreiddiol, yn cael eu cynnig gan Gaerfallwch:

| | | |
|---|---|---|
| arbaith (*perspective*) | adlog (*compound interest*) | addug (*inclination*) |
| aredd (*agriculture*) | brudiaeth (*chronology*) | afaeth (*disposition*) |
| arsawdd (*square root*) | cyfnesiad (*approximation*) | arnyfed (*disposition*) |

---

[218] Ibid., t.57.

[219] Thomas Edwards, 'Dyled y Wlad', *Seren Gomer*, Ionawr 1833, tt.1-4. Gweler hefyd fel enghraifft: Thomas Edwards, 'Ariandŷ a Dyled y Deyrnas', *Seren Gomer*, Mehefin 1820, tt.164-166.

[220] Elwyn L. Jones, op. cit., t.74.

[221] *Seren Gomer* Mai 1828, tt.142-3.

[222] *Seren Gomer*, Medi 1831, t.276.

[223] *Seren Gomer*, Ionawr 1830, t.32. Gw. sylwadau Philostratus ac 'M' ar y rhestr yn 'Geiriau Cymreig', *Seren Gomer*, 1830, t.80 a tt.174-5.

[224] *Seren Gomer*, Gorffennaf 1830, t.211.

[225] William Jones (Gwrgant), *Seren Gomer*, Ebrill 1834, tt.108-9.

cigysawl (*carnivorous*)
cedd (*temper*)
daith (*blaze*)
dedd (*statute*)
gaw (*sinew*)
hydred (*longitude*)
mws (*effluvia*)
seroni (*astronomy*)
sidydd (*tropics*)
ufelai (*oxygen*)[228]

degiad (*decimal*)
dynodiad (*definition*)
dyraniad (*division, as an act*)
tryfal (*triangle*)
trysawdd (*cube root*)[227]

atheithi (*faculty*)
edfudd (*interest*)[226]

Eto i gyd, cynnig cyfieithiadau Cymraeg ar gyfer termau newydd oedd y bwriad ac ni fynnai mai ei fathiadau ef ei hun oedd y rhain.

Wrth gymharu rhai o'r cynigion a gyhoeddodd Caerfallwch yn y cylchgronau â'r hyn sydd ganddo yn ei eiriadur, daw'n amlwg mai rhan o'r broses creu geiriau oedd cyhoeddi rhestrau o'r fath a'i fod yn treulio amser yn cnoi cil drostynt wedi hynny. Sylwer nad yw'r enghreifftiau a ganlyn yn cyfateb i dermau'r geiriadur:

| *SEREN GOMER* (MEDI 1828) | GEIRLYFR SAESONEG A CHYMRAEG (1850) |
|---|---|
| *Accompaniment*, cyvlyniad | Accompaniment, *s.* cyttrawd, cysymdaith; cydgerddawd; hebryngiad |
| *Appoggiature, or Leaning Notes*, gogwyddon | Appoggiature, *s.* ysgipnod |
| *Air*, dygan | Air, *s.* awyr; awel; wybr; wybren; âw; air ... *Musical air*, — alaw |
| *Beat*, goaddurn | Beat, *s.* cur; pwy; pwyad; dyffust; maedd, llab, wab, cob |
| *Cadence*, eilig | Cadence, *s.* lleddfeb; lleddflais, lleddfleisiad, disgynsain |
| *Clarinett*, tolgorneg | Clarionet/Clarinet, *s.* tolbib |
| *Concerto*, cyveilwy | Concerto, *s.* cynghanawd |
| *Divertimento*, divyreb | Divertmento, *s.* difyriant, amryfaledd |
| *Flute*, awelai | Flute, *s.* mosbib, pillrych, gwlf, sylch *Octave flute*, — wythonbib |
| *Gamut*, graddeg | Gamut, *s.* seinradd |
| *Harmony*, cyveilw | Harmony, *s.* cysondeb; cynghanedd, cysonedd, ceiniedi; peroriaeth, cynghord, eilion |
| *Piano Forte*, eilioneg | Piano-Forte, *s.* pêrdoneg |
| *Quintetto*, pumiant | Quintetto, *s.* pumrhan |
| *Rondo*, gowyrad | Rondo, *s.* hoenalaw |
| *Stave*, toven | Stave, *s.* braich, pennill; erwydden, estyllen *Stave (in music)*, — attegyr |
| *Subdominant*, isoardwyad | Subdominant, *s.* îslywsain, îslywiant |

[226] *Seren Gomer*, Mai 1831, t.148.
[227] *Seren Gomer*, Gorffennaf 1830, t.211.
[228] *Y Gwyliedydd*, Medi 1826, tt.274-5.

Mae'n amlwg bod Caerfallwch wedi gwrthod amryw o'i fathiadau gwreiddiol yn ddiweddarach a chynnig gwelliannau neu dermau mwy boddhaol yn eu lle. Os felly, mae'n bosib tybio mai yn y geiriadur y gellir cael hyd i'w gynigion terfynol. Mae un peth arall i'w ystyried, sef pa mor ddoeth oedd Caerfallwch yn amrywio'r bathiadau am yr un gwrthrychau o un cyhoeddiad i'r llall gan ymddangos fel pe bai'n newid ei feddwl o hyd. Un o nodweddion amlycaf y termau technegol Cymraeg a hyrwyddid ac a ddefnyddid yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw'r diffyg cysondeb rhyngddynt a'r diffyg trafod rhwng y rhai a fu'n bathu ac yn cyfieithu'r termau i'r Gymraeg. Gellir honni bod Caerfallwch yn medru cymhwyso'i ddawn arbennig i drin ffigurau pan oedd yn trin geiriau ond er gwaethaf ei fwriadau da a'i ymdrechion i fod o wasanaeth ymarferol i'w gyd-Gymry, onid oedd yn cymhlethu'r sefyllfa ymhellach trwy fod yn fympwyol ac yn anghyson ei hun?

Cyfaddefodd mai un o'i gymhellion pennaf wrth lunio geiriadur oedd diogelu purdeb y Gymraeg:

> ... yr hyn a ddenodd vy ystyriaeth gyntav at y gwaith oedd gweled vy nghydgenedl yn iselu ei hun drwy ddevnyddio geiriau estronawl yn eu cyhoeddiadau, a chanddynt iaith mor odidog o ran ei theithi, ac ei chystrawen ...[229]

Teimlai fod angen cynyddol am eiriadur cyfoes yn Gymraeg, un a fyddai'n cynnwys y termau gwyddonol a thechnegol a gyflwynwyd yn Saesneg yn ddiweddar.[230] 'Roedd ei hoffter o chwarae â geiriau a chnoi cil dros ei fathiadau hefyd wedi ei gymell i ysgrifennu geiriadur oherwydd pwysleisiodd dro ar ôl tro mai ffrwyth ei ddifyrrwch ei hun oedd y gwaith. "Dechreuais y gwaith yn unig er vy nivyrrwch ..." meddai yn 1834 gan ddatgelu hefyd nad oedd ots ganddo a argreffid y gyfrol ai peidio.[231] Yn ôl y llythyrau a gyhoeddodd Caerfallwch yn *Seren Gomer*, *Y Cymmro* a'r *Gwyliedydd*, ymddengys mai ym 1829 y dechreuodd baratoi ei eiriadur.[232] Erbyn 1831, 'roedd wedi cwblhau tri chant o dudalennau a gobeithiai y gallai orffen y cyfan ymhen pedair blynedd arall.

---

[229] *Seren Gomer*, Hydref 1837, t.300.

[230] Thomas Edwards yn 'Rhagair' *Geirlyfr Saesoneg a Chymraeg. An English and Welsh Dictionary; also An Analysis of the Orthography of the Welsh Language* (Treffynnon, 1850).

[231] *Seren Gomer*, Mehefin 1834, t.169.

[232] *Seren Gomer*, Mehefin 1831, t.179-180; *Y Cymmro*, Mehefin 1831; *Y Gwyliedydd*, 1831, t.184.

Tanseiliwyd awydd Caerfallwch i fwrw ymlaen â'r dasg bron o'r cychwyn. Yn y llythyr y cyfeiriwyd ato uchod, dywedodd:

> ... nid wyv yn disgwyl gwerth ceiniawg byth yn wobrwy wrth weled yr ysva ddibaid sy mewn rhai dynion i erbyniaw pob ymgais er gwelliant ein hiaith, petrusir a digalonir vi, ac wyv barod i roddi heibiaw vy ysgrivell am byth: ac o'm rhan i ywrw ein hen iaith odidawg i lwyr ddystryw ac anghov.[233]

Er hyn, câi ddigon o gefnogaeth o rai cyfeiriadau ac 'roedd disgwyl mawr am ddyfodiad y geiriadur o'r wasg. Cafodd ei ganmol a'i annog i barhau â'r gwaith gan 'Merfinus'[234] a'r Cymreigyddion yn Llundain[235] a bu Cymdeithas y Cymreigyddion yn Ninbych yn erfyn arno ym 1832 i hysbysu'r Cymry ynghylch sefyllfa'r geiriadur yn y wasg.[236]

Erbyn mis Tachwedd 1835, 'roedd Caerfallwch "wedi blwyddi o lavur dybryd" wedi gorffen y geiriadur a chawn ef yn cyhoeddi y byddai'n ymddangos mewn pum rhifyn ar hugain, gwerth dau swllt yr un, bob mis neu chwe wythnos.[237] Pwysleisiwyd bod angen cael digon o danysgrifwyr i ddigolledu'r argraffwr ac y dylai'r tanysgrifwyr anfon eu henwau ato cyn diwedd mis Ionawr fel y gellid cychwyn neu roi'r gorau iddi am byth.[238] Mae'n rhaid bod pobl wedi dechrau dyfalu beth oedd yn digwydd erbyn canol y flwyddyn ddilynol oherwydd nid oedd y rhifyn cyntaf wedi ymddangos. Ym mis Gorffennaf 1836, esboniodd Caerfallwch mai diffyg cefnogaeth oedd yn rheswm am yr oedi[239] ond awgrymodd golygydd *Seren Gomer* y cawsai fwy o gefnogaeth a thanysgrifwyr pe bai wedi hysbysebu'r cynllun yn well.[240] 'Roedd rheswm arall paham nad ymddangosasai'r geiriadur. O ddarllen ei ohebiaeth â'i gyfaill, Arfonwyson, yn ystod yr adeg hon gellir casglu ei fod yn cael trafferth gyda'i gopïwr - sef Arfonwyson ei hun - a chyda Rees, yr argraffwr o Gaernarfon. Mewn llythyr a anfonodd ato ym mis Tachwedd 1836 i'w wahodd i'w dŷ, gwelir nad oedd y

---

[233] Ibid.
[234] *Seren Gomer*, Gorffennaf 1831, tt.207-8.
[235] *Seren Gomer*, Mawrth 1833, t.89.
[236] *Seren Gomer*, Ionawr 1832, tt.28-9.
[237] Cyhoeddwyd yr un llythyr yn: *Seren Gomer*, 1835, t.328; *Y Gwyliedydd*, 1835, t.339; *Y Dysgedydd*, 1835, t.337; *Y Diwygiwr*, 1835, t.113.
[238] Ibid.
[239] Cyhoeddwyd yr un llythyr yn: *Seren Gomer*, 1836, t.202; *Y Diwygiwr*, 1836, t.368.
[240] Ibid. Gw. ôl-nodyn y golygydd.

gwaith a wnâi Arfonwyson wrth ei fodd ac nad oedd y rhifyn cyntaf yn barod ar gyfer y wasg:

> Can you join us? A lawyer being present perhaps will be a kind of protection to you against the severe castigation which you may expect for the manifold errors you have committed in copying the ABC ... gwae i dy esgyrn!! I have rectified the Vs and the Fs ... there are still a few words to be reconsidered. I should like to make the first number as complete as I can ...[241]

Cwynai eto ym mis Chwefror 1837 am y gwallau a wnâi a thynnu sylw mewn ffordd gellweirus at y rhannau ymadrodd newydd a briodolai Arfonwyson i rai ansoddeiriau![242] Sut bynnag, mae digon o dystiolaeth yn y llythyron i ddangos bod gan Gaerfallwch feddwl mawr o farn Arfonwyson a'i fod yn ymgynghori ag ef yn rheolaidd.[243] Nid oedd Rees, yr argraffwr, yn dychwelyd y proflenni'n brydlon ac nid oedd ganddo ychwaith y cysodwaith angenrheidiol ar gyfer y gwaith.[244] Bu hyn yn ddigon i beri i Gaerfallwch ystyried rhoi'r gorau i'r cynllun yn llwyr:

> I shall either give it up altogether or find another printer. I am not yet out of my hobble which I consider too bad ... I have had letters from Chester, Holywell, Ruthyn and Haverford West about the Dictionary. I consider Rees to have used me very ill ... ond Cymro yw am hyny ni ddylwn ryveddu.[245]

Parhaodd y bartneriaeth rhwng Caerfallwch a Rees ar ôl cael help Gwrgant i rwymo'r ddau wrth gytundeb arbennig:

> I am now to have a proof sent me every week ... but if I do not furnish him with the means of producing one I forfeit 20/- each time, and vice versa.[246]

Erbyn mis Hydref 1837, cyhoeddwyd y gellid prynu'r rhifyn cyntaf oddi wrth Hughes y llyfrwerthwr yn St. Martin Le Grand, Llundain.[247] Nid yw'n syndod gweld Arfonwyson yn cyhoeddi adolygiad ohono yn ei ganmol ond mae'n syndod cyn lleied o sylw a roddwyd iddo yn y wasg yn enwedig o gofio bod pobl wedi annog Caerfallwch i ymgymryd â'r gwaith yn y lle cyntaf.[248] Siomwyd

---

[241] Llsgr Bangor 683. Rhif 29.
[242] Ibid., Rhif 31.
[243] Llsgr Bangor 683. Rhif 27-42.
[244] Ibid., Rhif 33.
[245] Ibid.
[246] Ibid., rhif 35.
[247] *Seren Gomer*, Hydref 1837, t.300.
[248] *Y Diwygiwr*, 1837, t.372.

Caerfallwch ei hun gan y diffyg diddordeb a'r diffyg cefnogaeth hwn a dechreuodd amau y byddai'r geiriadur yn dioddef yr un dynged ag *Elfenau Rhifyddiaeth* Arfonwyson.[249] Teimlai fod y gymhariaeth a wnâi ei feirniaid rhwng pris ei waith ef a phris yr wythfed argraffiad o eiriadur Charles[250] a *Hanes y Cymry* gan Carnhuanawc yn hollol annheg.[251] Mewn llythyr a gyhoeddodd ym mis Mawrth 1838, mynegodd ei siom am na roddwyd sylw teilwng i'r geiriadur - yn enwedig yn y cylchgronau a'r eisteddfodau - a dywedodd ei fod yn barod i ymatal rhag cyhoeddi unrhyw rifyn arall ohono.[252] Ysgogodd llythyr Caerfallwch ymateb ymhlith nifer a chafwyd gohebiaeth yn y cyfnodolion yn ei gylch hyd ddiwedd 1838. Yn ôl un adolygydd, 'roedd y rhifyn cyntaf yn gwireddu ei holl ddisgwyliadau ac nid oedd angen i unrhyw Gymro boeni am beidio ag ysgrifennu Cymraeg cywir a dealladwy o hynny ymlaen:

> Nid oedd amheuaeth na bydd Geirlyfr digyffelyb Caerfallwch yn drysor gwerthfawr i bob Cymro ... Yno mae amgyffred wedi gweled drwodd, yno y mae dirnadaeth wedi tacluso; yno y mae synnwyr wedi coethi, ac yno hefyd y mae gwybodaeth wedi harddu y Gymraeg.[253]

Rhydd yr ohebiaeth yn y cyfnodolion ragor o oleuni ar amhoblogrwydd y geiriadur ymhlith y Cymry hefyd. Credai Iolo Fain o Fynwy na wnaethpwyd trefniadau priodol i sicrhau tanysgrifwyr a bod y pris a ofynnwyd am y rhifyn cyntaf yn rhy ddrud.[254] 'Roedd Ieuan ab Gruffydd yn bwrw bai ar ddiffyg cefnogaeth y cymdeithasau Cymreig a'u harfer o wario arian ar eisteddfodau a phethau "rhwysgfawr" yn hytrach na phrynu cyhoeddiadau tebyg i'r geiriadur.[255] Yn ôl 'Cadwgan', 'roedd y rhifyn cyntaf yn llawn gwallau[256] ond beiau'r argraffwyr oeddynt, meddai Caerfallwch.[257] Yn ddiweddarach, mewn llythyr yn ateb ymholiad ynglŷn â chyhoeddi gweddill y rhifynnau, cwynodd Caerfallwch am ddifaterwch y Cymry a'r Eisteddfodau ac eglurodd "... ni argrefir byth mono ar vy nhraul i".[258]

---

[249] Llsgr Bangor 683. Rhif 38.
[250] Thomas Charles, op. cit.
[251] Thomas Price, *Hanes Cymru, a chenedl y Cymry, o'r cynoesoedd hyd at farwolaeth Llewelyn ap Gruffydd* ... (Crughywel, 1842).
[252] Cyhoeddwyd yr un llythyr yn: *Seren Gomer*, Mawrth 1838, t.81; *Y Diwygiwr*, 1838, t.73.
[253] *Y Diwygiwr*, 1837, t.372.
[254] *Seren Gomer*, Ebrill 1838, t.106.
[255] Ibid., t.107.
[256] Ibid., t.142.
[257] Ibid., t.207.
[258] *Y Diwygiwr*, 1841, t.85.

Nid ailgydiodd Caerfallwch yn y gwaith o gyhoeddi'r geiriadur am bron i ddeng mlynedd. Buasai ef a Daniel Silvan Evans yn anfon rhestrau at ei gilydd er 1844[259] a chawn lythyr gan Silvan yn *Seren Gomer* mis Rhagfyr 1846 yn datgelu iddo anfon rhestr o eiriau Saesneg at Gaerfallwch gan ofyn am gyfystyron Cymraeg.[260] Derbyniodd Silvan restr yn ôl ganddo a daeth i wybod am yr hyn y bwriadai ei wneud ynghylch y geiriadur. Dywedodd Silvan:

> ... y mae'n hyfryd genyv allu hysbysu bod yr awdur gwlatgarol yn bwriadu ei gynnig unwaith etto i sylw y Cymry, a chryv obeithiav y derbynia gevnogrwydd cymesur i'w deilyngdod gan y genedl.[261]

Mewn adolygiad o gyfrol Caerfallwch a gyhoeddwyd ym 1847, sef *A Brief Analysis of Welsh Orthography*, nodwyd bod y geiriadur yn y wasg yr adeg honno ac y câi'r *Analysis* ei gynnwys ar y dechrau, fel rhagymadrodd.[262] Ni wyddys yn iawn paham y penderfynodd Caerfallwch droi'n ôl at y geiriadur. Awgrymodd Elwyn L. Jones mai dod i ddeall bod gwŷr megis Silvan Evans yn ymhel â geiriaduraeth a'i symbylodd i ailgydio ynddo a'i fod wedi cael cryn sioc pan sylweddolodd fod Silvan ac yntau'n paratoi ac yn cyhoeddi geiriaduron ar yr un pryd.[263]

Dechreuodd Caerfallwch, Silvan a Thomas Gee ymgecru ar ôl i lythyr 'Dafydd Ajax' ymddangos yn *Y Bedyddiwr* ym 1850.[264] Cychwynasai Gee gyhoeddi geiriadur Saesneg-Cymraeg Silvan ers tua 1847 a'r hyn y dymunai 'Dafydd Ajax' ei wybod oedd a anfonodd Gee am lawysgrif geiriadur Caerfallwch gan ffugio awydd i'w hargraffu. Holodd hefyd a fu'r sgript ym meddiant Silvan ac a oedd ef wedi gwneud defnydd o'r geiriau ynddo - yn ogystal â'r rhestrau geiriau y buont yn eu hanfon at ei gilydd - yn ei eiriadur ei hun. Taniodd y cwestiynau ddadl faith rhwng y tri gyda Gee yn cyhuddo Caerfallwch o dreisio'i hawlfraint ar eiriadur Thomas Jones a Chaerfallwch yn honni bod Gee wedi cyhoeddi geiriadur Silvan Evans er mwyn ei wrthwynebu ef.[265]

---

[259] *Y Bedyddiwr*, Rhagfyr 1850, t.381.
[260] *Seren Gomer*, Rhagfyr 1846, t.375.
[261] Ibid.
[262] *Seren Gomer*, Awst 1847, t.239.
[263] Elwyn L. Jones, op. cit., t.53.
[264] *Y Bedyddiwr*, Tachwedd 1850, t.338.
[265] Gw. T. Gwynn Jones, *Cofiant Thomas Gee* (Dinbych, 1913), tt.107-113.

Ym mis Tachwedd 1847, cyhoeddwyd y rhan gyntaf:

> ... yn rhydd oddi wrth feiau'r argraffiad cyntaf[266]

gan P. M. Evans, Treffynnon. Cyhoeddwyd yr holl rifynnau eraill yn rheolaidd a chyson. Y tro hwn, cafodd y geiriadur dderbyniad digon cynnes a rhoddwyd sylw parchus iddo gan y wasg, megis y darn a ganlyn a godwyd o *Seren Gomer*. Sylwer ar yr ymateb i fathiadau Caerfallwch:

> ... diau y bydd yn drysor gwerthfawr i'r oes bersennawl, yn gystal a'r oesoedd a ddeuant etto. Mawr oedd y cwyno yn Nghymru am nad oedd ganddynt yr un geiriadur yn cynnwys geiriau Cymreig am lawer o eiriau ag ydynt wedi dyfod i ymarferiad yn ddiweddar ym mhlith y Saeson, mewn celfyddydau a dyfeisiadau; ac y mae yn dra adnabyddus i bawb nad oes mo fath CAERFALLWCH yn y gangen hon o ddysgeidiaeth, sef ffurfio geiriau Cymreig addas am y rhai Seisnig ag oedd heb y cyfryw o'r blaen ...[267]

Erbyn 1850 'roedd y geiriadur i gyd wedi ymddangos[268] a chyhoeddwyd y cyfan mewn un gyfrol gyda'r *Analysis* ar y dechrau, gan P. M. Evans y flwyddyn honno.[269]

Ym 1853, daeth argraffiad o wasg J. M. Jones, Efrog Newydd[270] ac ym 1856 dechreuwyd cyhoeddi'r ail argraffiad fesul rhifyn dan olygyddiaeth Y Parch. David Hughes, o Dredegar.[271] Bu David Hughes yn rhannol gyfrifol am olygu'r *Beirniadur*, cyfnodolyn sy'n cynnwys enghreifftiau gwiw o weithiau sy'n dangos sut y mabwysiadodd rhai ysgrifenwyr, orgraff a chystrawen hynod William Owen Pughe. Ysgrifennodd Hughes amryw o ysgrifau'r *Gwyddoniadur*, cyhoeddodd eiriadur diwinyddol[272] ynghyd â llawlyfr daearyddiaeth.[273] Mae llythrennau'r ail argraffiad yn fanach ac mae tua dwywaith maint geiriadur gwreiddiol Caerfallwch oherwydd ychwanegwyd ato filoedd o eiriau — 45,000 yn ôl yr hyn

---

[266] *Seren Gomer*, Tachwedd 1847, t.337.
[267] *Seren Gomer*, Gorffennaf 1850, t.211.
[268] Nodir bod Rhan II wedi ymddangos ym mis Chwefror: *Seren Gomer*, Chwefror 1848, t.48. Nodir bod Rhan III ar gael ym mis Mawrth: *Seren Gomer*, Mawrth 1848, t.82. Gw. hefyd *Seren Gomer*, Medi 1848, t.270 a t.335; *Seren Gomer* 1849, t.32 a t.239. Ymddangosodd Rhan V ym mis Medi, Rhan VI ym mis Tachwedd a Rhan VII ym mis Ionawr 1949.
[269] Thomas Edwards, op. cit.
[270] Thomas Edwards, *Geirlyfr Saesoneg a Chymraeg: An English and Welsh dictionary; also an analysis of the orthography of the Welsh language* (Efrog Newydd, 1853).
[271] *Y Diwygiwr*, Mai 1856, t.151.
[272] David Hughes, *Geiriadur Ysgrythyrol a Duwinyddol* ... (Treffynnon, 1852-1855).
[273] David Hughes, *Elfenau Daearyddiaeth* ... (Bethesda, 1853-1859).

a ddywed David Hughes yn rhagair — ynghyd â chyfarwyddiadau sut i ynganu pob prifair Saesneg.[274] Gwerthwyd y rhifynnau am chwe cheiniog yr un[275] a chwblhawyd y gyfrol gyntaf erbyn 1861 a'r ail gyfrol erbyn 1864.[276] Ar ddiwedd y rhagair, mae David Hughes yn nodi ei fod yn ddyledus i nifer o eiriadurwyr gan enwi: Walker,[277] Smart,[278] Worcester,[279] Webster,[280] Richardson,[281] Johnson,[282] Clarke,[283] Ash,[284] Maunder,[285] Craig,[286] Ogilvie,[287] John Davies,[288] Pughe,[289] Walters,[290] Silvan[291] a Gweirydd ap Rhys.[292]

Oddeutu 37,000 o brifeiriau Saesneg sydd yn argraffiad 1850. Mae'r cyfieithiadau Cymraeg a gynigir ar gyfer pob un yn niferus, rhestrir yr isgofnodion yn drefnus mewn llythrennau italig o dan bob cofnod ac ar ddiwedd y gyfrol, ceir deg tudalen o 'Lysieulyfr' Saesneg-Cymraeg. Er iddo nodi bod yr hyn a ddysgasai am y Llydaweg wedi bod o fudd mawr iddo pan luniai'r

---

[274] David Hughes yn 'Rhagdraith i'r Ail Argraffiad', *English-Welsh Pronouncing Dictionary, with an Analysis of the Orthography of the Welsh Language* ...(Treffynnon, 1864).
[275] *Seren Gomer*, 1857, t.69.
[276] David Hughes, op. cit. 1861 yw'r dyddiad a nodi ar wyneb ddalen cyfrol I a 1864 yw'r dyddiad sydd ar gyfrol II.
[277] John Walker, op. cit.
[278] B. H. Smart, op. cit.
[279] Joseph Worcester, op. cit.
[280] Noah Webster, *A Compendious Dictionary of the English Language* (New Haven, 1806).
Noah Webster, *An American Dictionary of the English Language* (New Haven, 1828).
[281] Charles Richardson, *A New Dictionary of the English Language* (Llundain, 1837).
[282] Samuel Johnson, *A Dictionary of the English Language* (Llundain, 1755).
[283] Hyde Clarke, *A New and Comprehensive Dictionary of the English Language* (Llundain, 1855).
[284] John Ash, *The New and Complete Dictionary of the English Language* (Dilly, 1775).
[285] Samuel Maunder, *The Little Lexicon; or, Multum in parvo of the English language ... to which is added a table of terms and phrases, from the French, Italian, and Spanish languages* (Llundain, 1825).
[286] John Craig, *A new universal, technical, etymological and pronouncing dictionary of the English language, embracing all the terms used in art, science and literature* (Llundain, 1852).
[287] John Ogilvie, *The Imperial Dictionary* ... (Glasgow, 1850).
[288] John Davies, *Antiquae linguae Britannicae ... et linguae Latinae, dictionarium duplex* (Llundain, 1632).
[289] William Owen Pughe, op. cit.
[290] John Walters, *An English-Welsh Dictionary, wherein, not only the words, but also, the idioms and phraseology of the English language, are carefully translated into Welsh, by proper and equivalent words and phrases* ... (Llundain, 1794).
[291] D. Silvan Evans, *An English and Welsh Dictionary* (Dinbych, 1852-1858).
[292] R. I. Prys, *An English and Welsh Pronouncing Dictionary ... Geiriadur Cynaniadol Saesneg a Chymraeg* (Dinbych, 1857).

GEIRLYFR SAESONEG A CHYMRAEG.

AN

# ENGLISH AND WELSH DICTIONARY;

ALSO,

## AN ANALYSIS

OF THE

ORTHOGRAPHY OF THE WELSH LANGUAGE.

BY THOMAS EDWARDS.

(CAERFALLWCH.)

HOLYWELL:
PRINTED AND PUBLISHED BY P. M. EVANS.

LONDON: H. HUGHES, 15, ST. MARTIN'S-LE-GRAND.

MDCCCL.

23. Thomas Edwards, *Geirlyfr Saesoneg a Chymraeg* ... (1850)

geiriadur,[293] ni nododd Caerfallwch yn unman ba ffynonellau a ddefnyddiodd wrth lunio'r gwaith. Wrth esbonio'i fwriad cychwynnol, dywedodd:

> Hysbys yw i lawer odd eich darllenwyr i mi amser maith yn ol gymryd mewn llaw Eirlyvr Dr. Johnson i roddi gair Cymraeg cyvystyr i bob gair Saesonig yn y geirlyvr helaeth hwnw, yr hyn, wedi blwyddi o lavur dybryd sydd yn awr ar ben ...[294]

Gwyddys felly bod geiriadur Johnson wrth ei benelin o'r cychwyn cyntaf. 'Roedd Elwyn L. Jones yn llygad ei le pan awgrymodd mai defnyddio'r geiriadur hwnnw fel canllaw'n unig a wnaeth Caerfallwch er mwyn trefnu ei eiriau Saesneg yn nhrefn yr wyddor a gwneud yn siŵr bod ei waith yn gymharol gyflawn.[295] Pan gyhoeddwyd *A Dictionary of the English Language* gyntaf ym 1755, ychydig iawn o ymwybyddiaeth o'r angen am derminoleg newydd a fodolai. Cyfaddefodd Johnson ei hun nad oedd ei eiriadur yn cynnwys llawer o dermau technegol ac yn ddiweddarach fe'i beirniadwyd ef am hynny. Yn ei Ragair dywed:

> That many terms of art and manufacture are omitted, must be frankly acknowledged; but for this defect I may boldly allege that it was unavoidable: I could not visit caverns to learn the miner's language, nor take a voyage to perfect my skill in the dialect of navigation, nor visit the warehouses of merchants, and shops of artificers, to gain the names of wares, tools and operations, of which no mention is found in books ...[296]

Soniwyd eisoes am awydd ysol Caerfallwch i geisio cyfoethogi'r Gymraeg â geiriau newydd fel y gellid trin agweddau newydd ar wybodaeth ynddi. Mae'n rhaid felly, ei fod wedi sylweddoli'n go fuan nad oedd geiriadur Johnson yn ddigonol iawn i'w bwrpas ef ac mae'n bosib iawn ei fod wedi gorfod troi at ffynhonnell Saesneg arall megis y geiriaduron y cyfeiriodd David Hughes atynt yn rhagair argraffiad 1856. Yn un o'r llythyron a anfonodd at Arfonwyson, mae'r cyfeiriad hwn at eiriadur Noah Webster:

> When I was at school the words amicable, blameable, accentable used to be adjectives and Drs. Johnson and Webster have them so still ... but actually you have been able to discover some new part of speech attached to them ...[297]

Ymddengys felly yr arferai ymgynghori â'r awdurdod hwnnw.

---

[293] Llsgr Bangor 683. Rhif 27.

[294] Ymddangosodd yr un llythyr yn: *Seren Gomer*, 1835, t.328; *Y Gwyliedydd*, 1835, t.339; *Y Dysgedydd* 1835, t.337; *Y Diwygiwr* 1835, t.113.

[295] Elwyn L. Jones, op. cit., t.62.

[296] Samuel Johnson, op. cit., tt.5-6.

Mewn erthygl a gyhoeddwyd yn *Y Diwygiwr* soniodd Caerfallwch am rai o'r anawsterau a brofodd wrth drosi cofnodion Johnson air am air i'r Gymraeg, yn enwedig y brawddegau neu'r idiomau Saesneg a oedd ganddo- "y sawl ni ellir yn hawdd synied Cymreigiad addas iddynt."[298] Nododd rai enghreifftiau megis 'at a distance', 'beating together', extremely broad', 'for what cause', 'grief oppressed breast', 'of a bashful disposition', 'of a comely aspect' a 'of a fair aspect'. Mae'n rhaid bod Caerfallwch yn gyfarwydd â gwaith John Walters ac fe allai fod wedi troi at hwn am gymorth wrth geisio cyfieithu idiomau Saesneg. Serch hynny, nid oes fawr o debygrwydd rhwng ei gofnodion ef a chofnodion Walters. Wrth gymharu isgofnodion Caerfallwch ar gyfer hanner cyntaf y llythyren 'N' ochr yn ochr â'r isgofnodion cyfatebol yng ngeiriadur Walters, gwelir bod Caerfallwch wedi tueddu i dorri ei gŵys ei hun yn hytrach na dilyn Walters (gweler Atodiad 8). Yn ogystal, mae'n werth nodi bod gan Walters fwy o isgofnodion na'r hyn a ddangosir yn yr atodiad, fel y byddid yn disgwyl.

Gwyddys i Gaerfallwch wneud defnydd o eiriadur Thomas Jones[299] oherwydd pan fu'n ffraeo â Thomas Gee am yr hawlfraint ar eiriadur Jones, nododd Gee:

> Pan euthum i dŷ Mr. Edwards, canfyddais ei fod wedi ceisio dau gopi o Eiriadur Mr. Jones, gan eu tori drwy eu hanner, a phastio pob darn, ar ddalenau gwynion llyfr o'r un blygiad â 'Geiriadur y Dr. Pughe,' at yr hwn y gwnaeth ychwanegiadau, &c.; a dyma gopi ei Eiriadur![300]

At hyn, honnodd:

> ... *Jones's Dictionary altered and enlarged* ydyw ei Eiriadur, yn ngwir ystyr y gair.[301]

ac mae'n debyg bod Caerfallwch wedi cyfaddef wrtho:

> Yes, it was the best dictionary I could find and I made use of it.[302]

Gwaith cymharol fychan a chryno oedd geiriadur Jones wrth gwrs ond mae rhai o'r cofnodion sydd ganddo yn ddigon tebyg i'r hyn a ymddangosodd yn ddiweddarach yng ngeiriadur Caerfallwch (gweler Atodiad 9).

---

297 Llsgr Bangor 683. Rhif 31.
298 *Y Diwygiwr*, Tachwedd 1835, t.114.
299 Thomas Jones, op. cit.
300 T. Gwynn Jones, op. cit., t.112.
301 Ibid.

Cafodd Pughe ddylanwad pellgyrhaeddol ar Gaerfallwch. Gellir gweld ôl ei ddylanwad ar orgraff a geirfa ei ysgrifau a'i lythyron, ei gyfieithiadau a'i farddoniaeth, ei *Analysis*, ei restrau termau a'i eiriadur. Trwy ddyfynnu un o'i lythyron, ei gyfieithiad o'r "Deserted Village", a darnau eraill o'i farddoniaeth, dangosodd Elwyn L. Jones pa mor drylwyr oedd gwybodaeth Caerfallwch o wreiddeiriau a geirfa Pughe a pha mor anhygoel oedd hi iddo fedru defnyddio'r fath eiriau o gwbl yn enwedig wrth gyfieithu o'r Saesneg.[303] Cyfeiriodd hefyd at yr holl gyfansoddeiriau a greodd Caerfallwch o eiriau cysefin Pughe a'r ffaith y gellir honni bod ei waith yn aml iawn yn "fwy Puwaidd nag eiddo Pughe ei hun"![304]

Dywedodd Elwyn L. Jones:

> Cyfnod yn amlygu awydd i ddarganfod gogoniant mamiaith ac, o fethu darganfod, yna creu y gogoniant hwnnw ... dyna oedd oes Pughe a Chaerfallwch.[305]

Mabwysiadodd y ddau yr un egwyddor sylfaenol sef bod modd 'creu' geiriau newydd o wreiddeiriau unsill. I Gaerfallwch, a oedd mor hoff o drin a thrafod geiriau a chynnig gwelliannau i'w fathiadau, 'roedd y fformiwla hwylus hon yn ddelfrydol am ddau reswm. Yn anad dim, cynigiai bosibiliadau dirifedi. Wrth geisio anelu at berffeithrwydd, gallai Caerfallwch greu cannoedd o eiriau gan ddefnyddio'r "gwreiddeiriau cynhenid" a gawsai gan Pughe. Yn ail, 'roedd y fformiwla'n galluogi Caerfallwch i warchod gogoniant gwreiddiol y Gymraeg i greu geiriau hollol 'bur'. Mewn llythyr at Arfonwyson, dywedodd:

> My humble opinion is that monosyllabic words are primitive and uncompounded ...[306]

ac fe'i gwelir yn trafod rhai o'i fathiadau gydag ef:

> I have not been able to give myself satisfaction about the word "gala" ... what think you?
> Gala ... privwyl, wttres
> gala day ... privwylddydd, wttreddydd
> gala night ... privwylnos, wttressnos
> grand gala ... arbrivwyl, arwttres

---

302 Ibid.
303 Elwyn L. Jones, op. cit., tt.69-73.
304 Ibid., t.71.
305 Ibid., t.59.
306 Llsgr Bangor 683. Rhif 27.

I cannot find better words
Gwyl s. a sight, a show,
a holiday, a festival
Gwyl arbennig ...a high festival

Lluniodd Caerfallwch rai o'r termau uchod ar sail yr hyn a godasai o eiriadur Pughe, ond sylwer nad yw Pughe'n *nodi* 'gala' fel cyfieithiad Saesneg ar gyfer 'wttres'. Yr hyn sydd ganddo yw:

wt, † *s.r.* what is extreme or out
wtr, † *s.ag.* light grain of corn ...
wtre, † eydd, *s.f.* a lane, a bye-road
wttres, au, *s.f.* (wt-tres) a revel, a carousal ...

Mae'n bosibl felly mai mynd un cam ymhellach a cheisio 'gwella' y diffyg hwn yr oedd Caerfallwch!

Yn ystod y cyfnod dan sylw, yr arfer cyffredin ymhlith bathwyr Cymraeg oedd ymwrthod â'r syniad o Gymreigio termau cydwladol, sef termau y gellid eu benthyg o ieithoedd eraill a'u haddasu i'r Gymraeg. Yn ôl R. Elwyn Hughes, tueddid i:

> ... fanteisio ar adnodau cynefin y Gymraeg un ai trwy atgyfodi hen dermau darfodedig a'u gwisgo ag ystyr newydd, neu trwy fathu neu synthesu termau llwyr newydd gan dynnu ar adnoddau brodorol yr iaith.[307]

Yn amlach na pheidio, proses a esgorai ar dermau chwithig ac anystyrlon oedd hon. Eto, fe'i ffafriwyd oherwydd 'roedd ymddangosiad neu estheteg geiriau'n ystyriaeth bwysig a chredid na ddylid defnyddio termau dieithr o ran eu golwg. Credid hefyd bod y Gymraeg yn hunanddigonol a bod modd tynnu ar ei holl adnoddau heb orfod troi i fenthyg oddi ar y Saesneg. Dyna'r agwedd a fabwysiadodd Pughe ac yn ddiweddarach gwelir Caerfallwch yn dilyn yr un llwybr. Yn ei *Analysis*, dywedodd Caerfallwch:

> English terms in chemistry, geology, anatomy, and other sciences, have derived their nomenclature from the Greek; but in the attempt to compose new words, to fill what I consider a chasm in Welsh literature, my source and authority were the roots of our own language, which are so simple, pure, and copious, as to render it perfectly unnecessary to have recourse to any other.[308]

---

[307] R. Elwyn Hughes, op. cit., t.10.
[308] Thomas Edwards, op. cit., t.x.

Cyfeiriodd R. Elwyn Hughes at yr hyn a alwai'n olyniaeth Pughe-Edwards gan nodi mai Caerfallwch oedd prif ladmerydd Pughe yn enwedig ym maes gwyddoniaeth.[309] Efelychodd Caerfallwch yr hyn a wnaethai Pughe o'i flaen, benthycodd nifer fawr o'i eiriau a defnyddiodd ei wreiddeiriau unsill i fathu ei dermau ei hun. Mewn gwirionedd, cymaint oedd dylanwad Pughe arno nes ei bod hi'n anodd gwybod weithiau lle mae Pughe'n gorffen a Chaerfallwch yn dechrau.

Er iddo gael cryn fesur o ganmoliaeth gan ei gyfoeswyr, cafodd Caerfallwch ei feirniadu'n hallt yn enwedig am aros o dan adain Pughe. Beirniadwyd ei ymdrechion gan R. Hywel yn *Seren Gomer* er enghraifft[310] a bu Nicander yn difrïo olyniaeth Pughe-Edwards yn *Y Cymro*:

> Nid oes dim un o'n hysgrifenwyr Cymraeg, a'r nad ydyw yn ei ystyried ei hun yn ddigon o Ddoctor Johnson i fethu a ffurfio geiriau newyddion ... pen pleidiwr y Gymraeg ry hen yw Dr Pughe. Pen pleidiwr y Gymraeg ry newydd yw Caerfallwch. Y mae'r ddau wr enwog hyn yn andwyo'r iaith Gymraeg wrth ei choleddu.[311]

At hyn, bu'r gwyddonwyr yn amharod iawn i dderbyn cynigion Pughe a Chaerfallwch, fel y dangosodd R. Elwyn Hughes.[312] Cwynent yn bennaf am ddiffyg gwybodaeth wyddonol y geiriadurwyr a'u hanallu i greu termau a oedd yn 'wyddonol ystyrlon'. Beiwyd hwy am fathu'n fympwyol a thynnwyd sylw cyson at y diffyg cysondeb rhwng eu termau, yn enwedig yr holl gynigion a gafwyd am *oxygen* megis 'bywnwy', 'dwrbair', 'surbar', 'ufelai' ac 'ufelnwy'.[313] Gofalai Caerfallwch amddiffyn ei hun ac ateb bob cyhuddiad yn ei erbyn a gofalai fod yn ofalus iawn wrth arbrofi gyda'r orgraff. Gwelwyd eisoes ei fod wedi cywiro "the Vs and Fs" a ddefnyddiodd Arfonwyson wrth gopïo[314] a mynegodd mewn llythyr ato ei fod yn amheus sut ymateb a gâi ei orgraff gan y deheuwyr:

> Py ddywed ysdyvnigion y Dê pan gwelant ... yr iawn lythyreniad yn edrydedig? Tybiwyv ganvod y gogymro hwnw Bruce Knight, a

---

309 R. Elwyn Hughes, op. cit., t.16.
310 *Seren Gomer*, Tachwedd 1833, tt.331-2.
311 *Y Cymro*, 1848, t.50.
312 R. Elwyn Hughes, op. cit., t.15.
313 Ibid., t.7.
314 Llsgr Bangor 683. Rhif 29.

> rhyw vagad o elynion ein hiaith yn esgyrnygu eu dannedd val madryn ar dudgi ...[315]

Mae'n bosib dweud bod awydd Caerfallwch i fod yn bwyllog yn cael ei amlygu yn y ffordd yr aeth ati i osod y cyfieithiadau Cymraeg mewn trefn arbennig yn ei eiriadur. Fel arfer, mae'n nodi'r geiriau mwyaf cyffredin yn gyntaf, cyn cynnwys naill ai ei fathiadau ei hun neu fathiadau Pughe. Yn yr enghreifftiau a ganlyn, tanlinellwyd y geiriau o eiddo Pughe er mwyn dangos eu safle yng nghofnodion Caerfallwch:

Greeting, *s.* anerch, anerchiad; preg

Mesentery, *s.* llïeingig, perfeddlen, cefndedyn, percini, cyndedyn

Splint/Splinter, *s.* dyflôen, dellten, fflochen; hollten, ysgyren, aseth, asg, asgloen, esgarden, fflôyn; ysglodyn

Spider, *s.* cor, coryn, pryf copyn, cyffiniden

Transient, *a.* yn myned heibio, dibarâol, pilus, munudol, diflanedig, dibara, ffôawl

Weightiness, *s.* trymder, athrymedd, pwysigrwydd, dwysder

Ar y cyfan, ni fu'r ymgais i lunio geirfa dechnegol yn llwyddiant mawr yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Serch hynny, gall Caerfallwch hawlio lle arbennig yn hanes geiriaduraeth a datblygiad y Gymraeg ac mae rhai o'i fathiadau, megis:

| | |
|---|---|
| buddsoddi | nwy |
| cyngerdd | pwyllgor |
| daeareg | perdoneg |
| hirgrwn | moeseg |
| safon | |

yn rhan o'n geirfa ni heddiw.

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

[315] Ibid., Rhif 27.

# Pennod 6

## Dylanwad Walters a Pughe ar eiriaduron 1805 - 1850

Er mwyn ceisio dadansoddi yn y bennod hon ddylanwad John Walters a William Owen Pughe ar gynnwys geiriaduron hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, lluniwyd tair rhestr eiriau. Yn gyntaf, rhestrwyd y geiriau a nodwyd yng *Ngeiriadur Prifysgol Cymru* fel rhai naill ai a ymddangosodd mewn print am y tro cyntaf yng ngeiriadur John Walters neu a fathwyd ganddo ef. Codwyd cofnodion o *Eiriadur Prifysgol Cymru* megis yr enghreifftiau a ganlyn:

> **amcanbris** [*amcan+ pris*] *eg.* Amcangyfrif o draul neu gost: *estimate of cost.*
> **1773** *W* d.g. *estimate.*

> **newidfa** [bôn y f. ddil. + *-fa*] *eb.* ll. *–faoedd, -feydd.* Cyfnewidfa (fasnachol, ariannol, &c.); lle i newid dillad; hefyd yn *ffig.*: *exchange; place for changing clothes; also fig.*
> **1771** *W* d.g. *change* [*where merchants meet*], *royal, the royal exchange.*

o A hyd ddiwedd y llythyren S[1] ac fe restrwyd y prifeiriau yn Atodiad 5.[2] Gwnaethpwyd yr un peth yn union wrth lunio rhestr gyffelyb ar gyfer William Owen Pughe. Y tro hwn, chwiliwyd am gofnodion megis:

> **darlith** [*dar-+ llith*] *eb.g.* ll. *–iau, -oedd.* Traethiad ar bwnc gosodedig neu faes neilltuol a draddodir er hyfforddi (neu ddifyrru) cynulliad o bersonau, yn enw. myfyrwyr mewn coleg, &c., gwers; pregeth: *lecture, lesson; sermon.*
> **1794** *P*, *darlith,* sermon, lecture.

> **rhagchwiliaf: rhagchwilio** [*rhag+ chwiliaf: chwilio*] *ba.* (Ar)chwilio ymlaen llaw, archwilio (llecyn, ardal, &c.), yn enw. er mwyn ennill gwybodaeth am safle'r gelyn, ei adnoddau, &c.: *to search or examine beforehand, reconnoitre.*
> **1803** *P* d.g. *Rhagçwiliaw.*

a chofnodwyd y prifeiriau yn Atodiad 6. O hyn ymlaen yn y bennod hon, cyfeirir at y naill atodiad a'r llall fel 'Bathiadau Walters' a 'Bathiadau Pughe'.

Gan fod cymaint o fathiadau anghyfarwydd neu ddieithr yng ngeiriadur Pughe, ceisiwyd cael hyd i sampl ohonynt trwy edrych ar gynnwys saith adran wahanol yn y geiriadur, sef cynnwys y llythrennau A, B, C, E, H, LL a P. Cofnodwyd pob

---

[1] Ni chyhoeddasid rhannau olaf *Geiriadur Prifysgol Cymru* pan luniwyd y rhestr hon.

prifair nad yw'n ymddangos yng *Ngeiriadur Prifysgol Cymru*, yn Atodiad 9 heb newid dim ar orgraff wreiddiol Pughe. Cyfeirir atynt fel 'Bathiadau anghydnabyddedig Pughe' yng ngweddill y bennod.

Mae Atodiad 5 ac Atodiad 6 yn ddigon tebyg o ran maint. Tua 3,500 gair o eiddo Walters a godwyd a thua 3,000 gair o eiddo Pughe eithr ceir ychydig dros 15,000 gair yn Atodiad 9. Yn Ffigur 1, fe welir siartiau cylch yn dangos canran y bathiadau anghydnabyddedig ym mhob un o'r llythrennau dan sylw. Mae'n rhaid tynnu sylw at y ffaith bod y canran ar gyfer ambell i lythyren wedi chwyddo oherwydd tuedd Pughe i gofnodi cymaint â phosib o eiriau'n dechrau â rhai rhagddodiaid arbennig. Mae'r rhestr yn cynnwys toreth o brifeiriau'n dechrau ag *ad-*, *ail-* a *am-* er enghraifft yn ogystal â phrifeiriau'n dechrau â *hy-* a *lled-* nad ydynt yn cael eu cofnodi yng *Ngeiriadur Prifysgol Cymru*. Mae nifer y bathiadau anghydnabyddedig yn y llythyren 'A' a'r llythyren 'C' gryn dipyn yn uwch oherwydd yr holl brifeiriau sy'n cychwyn ag 'an-' / 'angh-' a 'cyd-'. Gellir bwrw amcan bod 42% o'r sampl llythrennau (A, B, C, E, LL a P) yn fathiadau anghydnabyddedig.

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

[2] Nodwyd y cyfieithiadau Saesneg ar gyfer pob prifair yn Atodiad 5, 6 a 9 hefyd.

**Ffigur 1**


Llythyren A
43%
57%
Llythyren B
29%
71%
Llythyren C
22%
78%
Llythyren E
26%
74%
Prifeiriau anghydnabyddedig
Prifeiriau eraill

**Ffigur 1**

**Llythyren H**




**Llythyren LL**




**Llythyren P**



**Prifeiriau anghydnabyddedig**

**Prifeiriau eraill**

Cafodd prifeiriau'r tair rhestr eu holrhain drwy un ar ddeg o'r geiriaduron a gyhoeddwyd rhwng 1805 ac 1850, sef geiriaduron:

| | |
|---|---|
| Titus Lewis: | TL (1805) |
| Tomos Glyn Cothi: | TE (1809) |
| Evan Jones: | EJ (1823) |
| Iolo Fardd Glas: | EW (1826) |
| Arfonwyson: | JWT (1833) |
| Ellis Jones: | EJ (1840) |
| Ieuan Ebblig: | EG (1847) |
| I. D. Ffraid: | JE (1847) |
| William Spurrell: | WS (1848) a WS (1850) |
| Caerfallwch: | TE (1850) |

Penderfynwyd peidio â chynnwys *An English Welch Vocabulary* Tomos Glyn Cothi (1804), *Geiriadur Saesneg a Chymraeg* Thomas Roberts (1827) ac *An English and Welsh Vocabulary* Evan Griffiths (1848) gan fod natur eu cynnwys ychydig yn wahanol i'r gweddill ac o'r herwydd, byddai hynny'n effeithio rhywfaint ar y canlyniadau.

Crëwyd cronfa ddata ar y patrwm isod ar gyfer y tair rhestr fel bod modd nodi pa eiriau sy'n ymddangos ym mhob un o'r geiriaduron.

| **Prifair Cymraeg** | **Prifair Saesneg** | **TL** | **TE** | **EJ** | **EW** | **JWT** | **EJ** | **EG** | **JE** | **WS** | **WS** | **TE** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| amlieithog | polyglot | | ✓ | | | ✓ | | | | | | ✓ |
| amlinell | contour | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| aml-liw | motly | ✓ | | | | | | | | ✓ | | |
| | | | | | | | | | | | | |

Newidiwyd trefn y ddwy golofn gyntaf i hwyluso'r dasg o chwilio am y bathiadau yn y geiriaduron Saesneg-Cymraeg. Pan nodir y cyfansymiau ochr yn ochr â'i gilydd, yn nhrefn amser, mae patrwm digon clir yn ymddangos. Dengys Ffigur 2 a Ffigur 3 yn amlwg fod dylanwad Walters a Pughe ar gynnydd wrth i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg fynd rhagddi, wrth i fwy a mwy o'u bathiadau gael eu cynnwys yn y geiriaduron. Gwelir hefyd, yn Ffigur 4, bod hynny'n wir am fathiadau anghydnabyddedig Pughe.

**Ffigur 2: Bathiadau Walters (GPC)**



**Ffigur 3: Bathiadau W O Pughe (GPC)**



**Ffigur 4: Bathiadau W O Pughe (anghydnabyddedig)**



**Ffigur 5: Bathiadau Walters a Pughe**



Gan fod iaith geiriaduron John Walters a Pughe yn wahanol – Saesneg-Cymraeg yw iaith geiriadur Walters a Chymraeg-Saesneg yw iaith geiriadur Pughe – dylid ystyried sut effaith a gafodd hynny ar gynnwys y geiriaduron dan sylw. Mae pedwar geiriadur Saesneg-Cymraeg a chwe geiriadur Cymraeg-Saesneg:

| GEIRIADURON SAESNEG-CYMRAEG | GEIRIADURON CYMRAEG-SAESNEG |
|---|---|
| Tomos Glyn Cothi | Titus Lewis |
| I. D. Ffraid | Evan Jones |
| William Spurrell | Arfonwyson |
| Caerfallwch | Ellis Jones |
| | Ieuan Ebblig |
| | William Spurrell |

Geiriadur Cymraeg-Cymraeg, wrth gwrs, yw *Cyneirlyfr* Iolo Fardd Glas.

Edrychwn yn gyntaf ar Ffigur 2 a chanolbwyntio ar y cyfrifon a'r colofnau ar gyfer Tomos Glyn Cothi, I. D. Ffraid, William Spurrell (1850) a Chaerfallwch. Am eu bod wedi dewis llunio geiriaduron Saesneg-Cymraeg, gellir tybio y buasai hi'n fwy hwylus iddynt droi at eiriadur Walters na geiriadur Pughe am arweiniad a geirfa benodol. Nid yw'n syndod gweld bod Tomos Glyn Cothi ac I. D. Ffraid wedi codi mwy o fathiadau Walters na'r geiriadurwyr eraill. Mae'r cyfrif ar gyfer geiriadur Spurrell yn is ond dylid cadw mewn cof bod tua 5,000 yn llai o brifeiriau ynddo na geiriadur I. D. Ffraid beth bynnag. Fel y byddid yn disgwyl, mae geiriadur Caerfallwch yn cynnwys tipyn mwy o fathiadau Walters nag unrhyw un arall.

Gan droi at Ffigur 3 a Ffigur 5 a chan dalu sylw arbennig i ystadegau geiriadur Titus Lewis, Evan Jones, Arfonwyson, Ellis Jones, Ieuan Ebblig a William Spurrell (1848) gwelir eu bod, ar y cyfan, yn cynnwys mwy o fathiadau Pughe na bathiadau Walters. Gall cyfrif neu golofn Arfonwyson yn Ffigur 3 (a Ffigur 4) ein twyllo'n ddigon hawdd ar yr olwg gyntaf. Arfonwyson oedd un o ddisgyblion mwyaf triw William Owen Pughe, felly byddid yn disgwyl gweld bod ei eiriadur yn cynnwys nifer sylweddol o fathiadau cydnabyddedig ac anghydnabyddedig ei arwr. Rhaid cofio mai geiriadur bychan iawn a greodd Arfonwyson a thua 3,000

prifair yn unig ynddo. Eto i gyd, canran fechan iawn ohonynt - oddeutu 3% - sy'n eiriau a fathwyd gan Pughe.

Mae'r naid sydyn sy'n digwydd gyda chyhoeddi geiriadur Evan Jones yn awgrymu bod dylanwad Pughe wedi cydio o ddifrif erbyn dau ddegau'r ganrif. Ymddengys mai Jones oedd y cyntaf i ddefnyddio cyfrol Pughe fel ffynhonnell ar gyfer llunio geiriadur cwbl newydd ac felly fe ellir mynd mor bell â honni ei fod ef wedi cychwyn ffasiwn newydd ymhlith geiriadurwyr. Wrth edrych ar ystadegau Ellis Jones ac Ieuan Ebblig, gwelir bod yr arfer hwn wedi parhau'n gryf am o leiaf ugain mlynedd ac mae'r ffaith fod cynifer o fathiadau Pughe yng ngeiriadur Caerfallwch – geiriadur Saesneg-Cymraeg, fe gofir – yn brawf eu bod wedi dechrau plwyfo yn yr iaith erbyn canol y ganrif.

Soniwyd droeon am ddylanwad geiriadurwyr ar ei gilydd. Ped edrychid yn y gronfa ddata ar y geiriau y dewisodd Evans Jones eu codi o eiriadur Pughe a'u cynnwys yn ei eiriadur ef, gwelir hefyd bod yr union eiriau'n ymddangos yng ngeiriaduron Ellis Jones ac Ieuan Ebblig. Wrth lunio'u geiriaduron hwy, mae'n dra phosib na ddefnyddiodd Ellis Jones nac Ieuan Ebblig eiriadur Pughe fel ffynhonnell. Yn ôl pob golwg yr hyn a wnaethant oedd dibynnu'n drwm ar gyfrol Evan Jones – derbyniasant unrhyw air a geid ynddo bron yn ddigwestiwn a'i gynnwys yn eu gweithiau eu hunain. Nid yw hyn yn wir am bob geiriadurwr, wrth gwrs. O bryd i'w gilydd aeth rhai, megis Caerfallwch, yn ôl at lygad y ffynnon gan codi mwy fyth o fathiadau Pughe a'u hymgorffori yn eu geiriaduron.

Yr hyn sy'n synnu rhywun wrth edrych ar Ffigur 4 yw poblogrwydd bathiadau anghydnabyddedig William Owen Pughe. Yr hyn sy'n fwy o syndod fyth yw'r ffaith bod mwy ohonynt i'w canfod yng ngeiriaduron 1805-1850 na bathiadau cydnabyddedig Walters a Pughe! Fe welir yn Ffigur 5 bod y cyfrifon a'r colofnau sy'n cynrychioli'r bathiadau anghydnabyddedig hyn, yn ddieithriad, yn uwch na'r gweddill ac unwaith yn rhagor, ymddengys mai gyda chyhoeddiad geiriadur Evan Jones y cychwynnodd y poblogrwydd hwn. Trwy fwrw golwg dros y prifeiriau yn Atodiad 9, gellir gweld pa mor wrthun, annefnyddiol ac anymarferol

yw llawer ohonynt. A oes modd esbonio pam y cafodd cymaint ohonynt eu cynnwys yn y geiriaduron dan sylw? Mae'n bosib bod parch cyffredinol tuag at Pughe a'i eiriadur ymhlith y geiriadurwyr ond gellir dadlau hefyd bod cymaint o'r bathiadau anghydnabyddedig yn ymddangos yng ngeiriaduron 1805-1850 oherwydd arfer cyffredin geiriadurwyr, yr arfer hwnnw lle gwelir un geiriadurwr yn codi gair arbennig o eiriadur arall a'i gynnwys yn ei waith ei hun a bron i bob geiriadurwr a'i dilynodd yn gwneud yr un fath. Geiriau geiriaduron yw'r rhain ond unwaith i agweddau pobl tuag at Pughe newid, newidiodd arfer cyffredin geiriadurwyr ac fe gafodd nifer fawr o'r bathiadau di-werth eu chwynnu o eiriaduron diweddarach.

**********